





600045527T





1264 d. 64







Y

# BEDYDD CRISTIONOGOL

A

“THAENELLIAD BABANOD”

GAN Y

PARCH. JOHN JONES,

(MATHETES.)

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN W. M. EVANS, YN SWYDDFA “SEREN CYMRU.”

1863.



## SYLWADAU RHAGYMDRODDOL.

Gwyr llawer o gyfeillion crefydd fod awdwr y llyfr hwn yn dwyn allan *Eiriadur Beiblaidd a Duwinyddol*, ac nad yw yr anturiaeth yn aflwyddiannus yn ei pherthynas â chefnogaeth y cyhoedd, a'r Bedyddwyr yn neillduol. Darfu iddo gynnyg y gorchwyl o barotoi yr ysgrif ar fedydd i'r gwaith uchod i ysgrifenydd ag sydd yn sefyll yn uchel yn y cymmeriad o amddiffynnydd yr ordinhad; ond yn gymmaint ag nad oedd y brawd hwnw yn gweled ei lwybr yn rhydd i gydsynio, penderfynodd y cynnygydd ei chyfansoddi ei hun, a gwneyd hynny ryw gymmaint yn wahanol i'r modd yr ysgrifenisir erthyglau Geiriadurol yn gyffredin. Gan mai ei fwriad oedd ysgrifenu yn faith, a gwneyd hynny ar gynllun na fabwysiadessid gan ereill o'i flaen, penderfynwyd cyhoeddi y traethawd yn llyfryn ar ei ben ei hun, er mwyn rhai dosparthiadau nad ydynt yn derbyn y *Geiriadur*. Wedi i fwy nâ'i hanner ymddangos yn y flurf *Eiriadurol*, cafwyd ar ddeall nad oedd ei feithder a'i nodwedd ddadleuol yn foddhâol gan bob darlennydd, a bod nifer o'r Taenellwyr yn bygwrth rhoi y llyfr i fyny oblegid hynny. Gan nad oedd pawb yn adnabyddus â'r ystyriaethau a achosasant ei feithder a'i nodwedd ddadleuol, barnwyd yn briodol eu hysbysu iddynt mewn anerchiad ar amlen y pummed a'r chwechfed rhifyn ar hugain. Yn gymmaint a bod yr ysgrif hono i raddau helaeth yn cynnwys eglurhad ar yr amgylechiadau a ogwyddasent feddwl yr ysgrifenydd at y meithder dadleuol yr achwynid arno, ac mewn rhan yn rhoi cyfrif am ymddangosiad a chymmeriad "*Y Bedydd Cristionogol a Thaenelliad Babanod*," yr ydys yma yn gwahodd sylw y darlennydd at y rhan ganlynol o honi:—

"Yr ydych yn gweled fod yr ysgrif ar Fedydd yn feithach o lawer nâ'r ysgrifau ereill, ac nad yw mor Eiriadurol â'r erthyglau yn gyffredin; ond yn hytrach yn cael ei nodweddau gan fwy o ddadleuaeth nag sydd yn gydweiddol â gwaith y Geiriadurwr. Os oes rhai o honoch yn ystyried ei nodwedd ddadleuol yn ddiffyg ynddi, dymunir arnoch ystyried fod amgylchiadau neillduol, nid yn unig yn cyfiawndhau eithriadau annghyffredin, ond hefyd yn galw yn uchel am danynt, ac yn eu gwneyd yn rhagoriaethau yn yr ysgogiadau, y mesurau, neu yr ysgrifau, mewn cyssylltiad â phia rai y maent i'w canfod. Os felly, y mae meithder a chymmeriad yr erthygl hon yn fwy o ragoriaeth nag o ddiffyg ynddi, fel y dengys yr ystyriaethau canlynol:—1. Bedydd yn ei ddull a'i ddeiliad yw y prif bwnc sydd yn gwahaniaethu y Bedyddwyr oddi wrth y mwyrif o sectau Protestanaidd Cymru; o ganlyniad, geilw neillduolrwydd perthynas yr enwad hwn â'r ordinhad hon am sylw arbenig mewn gwaith o nodwedd y Geiriadur. 2. Y mae amryw Daenellwyr wedi cyhoeddi llyfrau yn ddiweddar, i'r dyben o geisio profi Ysgrhytholdeb y ddefod ddynol o daenellu dwfr ar fabanod, yn mha rai (naill ai trwy anonestrwydd bwriadol, neu anwybodaeth nas gellir ei hesgusodi) y gwneir cam ofnadwy â'r Ysgrhythrau, ac â syniadau rhai o enwogion y Bedyddwyr ar y pwnc mewn dadl. Y maent wedi gwerthu miloedd lawer o'r cyfrolau hyn yn y Dywysogaeth; ac os yw yn dëg barnu wrth helaethrwydd eu cylchrediad, y cymmeradwyaethau a roddir iddynt gan ddynion a ehyrddau cyhoeddus; a'r haerllugrwydd a ddangosir gan y dosparthi mwyaf anwybodus o Daenellwyr pan yn siarad am y Bedyddwyr a'u bedydd, y mae achos ofni eu bod yn gwneyd llawer o ddrwg i achos y gwirionedd, yn neillduol felly yn mhlith y rhai sydd yn fwy eu pryder am fyned i'r nefoedd nag am wneyd ewyllys yr Arglwydd. 3. Er y cyhuddir y Bedyddwyr yn fynych o ysgrifenu a dweyd gormod o blaid bedydd, etto, y mae yn eglur nad ydynt wedi gwneyd cymmaint ag a ddylasant yn y cyfeiriad hwn. Cyhoeddwyd *pamphletau a phregethau* da iawn ar y pwnc o bryd i bryd yn yr ugain mlynedd diweddar (a Thraethawd rhagorol y Parch. J. Evans ar ddeiliad bedydd); ond yr oedd y terfynau a gymmerai eu hawdwyr medrus, o angenrheidrwydd, yn rhy gyfyng i drafod y pwnc ar yr un *scale* eang ag y trinir ef yn *nghyfrolau* diweddar y Taenellwyr. Ymdrechwyd gwneyd y diffyg hwn i fyny mewn rhan yn yr erthygl sydd yn awr braidd oll ger eich bron. Er ei bod i raddau yn faith, yr wyf yn eich sicrhau y buasai lawer yn feithach nag y mae, pe cawsai ei hawdwr y gofod at ei wasanaeth yn gyfartal i'w ddymuniad, ac yn ogymmesur â phwysigrwydd yr ordinhad. Deallir mai â Bedyddwyr teilwng o'r enw yr ydys yn siarad yma, ac nid â'r "cymmanwyr agored," nac â'r personau hynny na fynant wrandaw gar na ei



ar fedydd, os dygwyrdd fod 'brawd o wahanol farn' yn yr oedfa. 4. Y mae achos ofni y ceir rhai Bedyddwyr yn ymorphwys gormod ar nerth eu hegwyddorion, yn annibynol ar ymdrechion personol i'w gweithio allan. Disu yr ennilla'r gwirionedd y byd *rywbryd*; ond nid eyn y byddo i'w gyfeillion ymdrechbu yn fwy egniol drosto. Os yw sylwadseth yn hawlio ystyriaeth, a ffeithiau profedig yn gorchymyn ein cred, y mae sêl ac ymdrech crefyddwyr dros eu credôau mewn cyfartaledd i'w pellder oddiwrth y gwirionedd. Gwnaed y darlennydd chwilio a barnu yr awgrym. Os yw'r Testament Newydd i'w gredu, y mae yn ddiau yr alltudir taenelliad babanod, ac y daw'r bedydd apostolaidd i fri cyffredinol; ond y mae lle i ofni mai wedi i Dduw gyfodi dynion mwy selog nâ rhai o honom ni i ymladd dros y gwirionedd y cymmer hyn y le. 5. Y mae'r ffaith o fod amryw o weinidogion dysgedigaf a galluocaf y Taenellwyr yn trochi lluoedd o ymgeiswyr yn y dull apostolaidd, a llawer o honŷnt yn cyfadddef yn onest mai trochiad credinwyr mewn dwfr yw'r unig fedydd a weinyddai yr apostolion, mewn cyssylltiad â'r ystyriaeth mai taenelliad babanod yw'r prif rwystr ar ffordd yr undeb crefyddol y mae cymmaint o angen am dano, yn galw yn awdurdodol am sylw difrifolaf y byd crefyddol. Os yw taenelliad yn Ysgrhythrol, dylid ei arfer; ond os nad yw, rhaid ei gondemnio. Nis gellir bod yn ddifater. Y mae dweyd fel hyn a gwneyd fel arall—*cyfadddef* Ysgrhythroldeb trochiad y crediniol, ac *arfer* y ddefod ddisail o daenelliad, yn hollol annheilwng o Gristionogaeth.

"Os bydd yr ysgrif hon o ryw gymborth i osod terfyn ar ymrasellion bedydd, ac i gael dynion i 'weled lygad yn llygad' ar y mater mewn dadl, bydd ei byd a'i chymmeriad yn esgusodol yn marn y diduedd a'r ystyriol. Darllener hi yn bwylog, yn ofalus, ac yn ddiragfarn, a chaniatâer chwareu tég i gydwybod i roi barn ar ei chynnwysiad. Nid yw ei hawdwr yn gofyn rhagor, nae yn foddlon ar lai.

"Deallwyf mai Taenellwyr yw amryw o honoch, a'ch bod yn dderbynwyr cysson o'r dechrenad; y mae hyn, yn mysg pethau ereill, i ryw raddau, yn dangos awydd yr enwadau i nesu at eu gilydd, ac yn profi mai ein dyledswydd yw gwneyd yr hyn a allom i hyrwyddo undeb trwyadl ac arosol rhyngddynt. Cybuddir *rhai* o honoch o fygwth nacau eich cefnogaeth rhagllaw ar gyfrif yr erthygl ar fedydd. Y mae yn beth digon posibl y gall fod rhai dynion da wedi bygwth hyn mewn byrbwyldra; ond ni wna neb ag sydd yn parchu ei urddas, yn caru gwirionedd yn fwy nâ phlaidd, yn hoffi chwareu tég—'y ddwy ochr i'r ddalen,'—yn edmygwyr cyfiawnder mewn masnach a chrefydd, ac yn elyn pob gwaelledd ac anonestrwydd, byth gario allan fygythiad mor annheilwng o ddyn ac o Gristion. Os oes gan ddyn *ymddiried* yn ei bethau, pahan yr ofna iddynt gael eu chwilio? Nid yw'r gwir yn ceisio llonydd, na chyfeiliornad yn ei haeddu. Os yw taenelliad yn iawn, deil ei dir gwneuler a fyner yn ei erbyn mewn ffordd o ymresymu; ond os mai un o'r defodau pabyddol ydyw, dylai ei edmygwyr twylledig ddiolech i awdwr yr erthygl hon am agor eu llygaidd.

"Y mae digio wrth ddynion am chwilio a phrofi ein 'cyffes ffydd,' yn dangos yn eglur nad oes genym fawr o ymddiried yn ei gwirionedd, nac yn ein gallu ein hunain i'w hamddiffyn, a bod ein serch at sectyddiaeth yn gryfach o lawer nâ'n cariad at y Testament Newydd."

Y mae'r undeb crefyddol at yr hwn y cyfeirir yn y dyfyniad blaenorol o bwys mawr i Brotestaniaid y byd. Gwna plant y Babaeth ac anffyddwyr ddefnydd llwyddiannus o'i absenoldeb yn eu hymnosodiadau llofruddiog ar Gristionogion Protestanaidd. Gŵyr y rhai sydd wedi darllen y dadleuon rhwng y Protestaniaid a'r Pabyddion, nad gwyir i Daenellwyr ymresymu â'r olaf, tra y byddont hwy eu hunain yn arfer taenelliad babanod, ac ar yr un pryd yn haeru mai y Beibl *yw* unig reol eu crefydd. Nis gallant chwaith ar dir cyssondeb, ddadleu yn y modd effeithiolaf yn erbyn yr undeb rhwng crefydd a gwladwriaeth, cyhyd ag y byddont yn gwadu personolrwydd crefydd mewn modd ymarferol, trwy geisio crefyddda mewn rhan *yn lle* eu plant, tra y medda'r Bedyddwyr dir diogel i ymladd yn erbyn y Babaeth, a holl grefyddau gwladol y ddacar. Y mae'r ddefod o daenelliad, gan hyn, yn fath o gord y farwolaeth a'r gefn ein cyfeillion, yn llyfethair am eu traed, yn Achan yn eu gwersyll, ac yn brif rwystr i'r undeb hwnw ag sydd yn hanfodol i'r gwahanol enwadau, mewn troth i gael y llaw drechaf ar y gelynyon a nodwyd. Ymdrechir egluro a phrofi y pynciau hyn yn y tudalennau canlynol. Os yw yr arferiad o daenellu dwfr ar babanod yn beth mor ddibwys yn marn llawer o'n cyfeillion ag y mynant i ni



gredu, ni fyddai yr aberth angenrheidiol er sicrhau y cydweithrediad dan sylw ond y peth nesaf i ddim iddynt hwy; ond nis gallai y Bedyddwyr droi y bedydd apostolaidd o'r neilldu, heb aberthu egwyddorion ag sydd yn anwylach gan lawer o honynt na bywyd ei hun. Os ydyw ein brodyr yn cyssylltu pwys â'r ddefod hon, paham y gelwir bedydd yn "blisgyn" a "fin wellt," ac y gwrthoda miloedd o honynt daenellu dwfr ar eu babanod eu hunain? Onid yw dadleu mewn geiriau dros y seremoni, ac ymresymu yn *ymarferol* yn ei herbyn, yn ein cynnysgaethu â rheswm cryf dros ammbheu difrifoldeb a chydwybodolrwydd rhai o'n brodyr, ac yn dangos eu bod o'r un farn â'r Taenellwyr dysgedig y dyfynir o'u gweithiau yn y tudalenau canlynol, o ethryb anysgrhythroldeb taenelliad babanod? Cyhuddir amryw o'r Bedyddwyr o ddiffyg haelfrydedd ar gyfrif y trosedd o briodoli ymdrech dosparth o Daenellwyr i seilio'r ddefod mewn cwestiwn ar y Beibl, naill ai i anwybodaeth neu ragfarn; ond dylai ein cyfeillion ystyried, mai eu "poetau" hwy eu hunain mewn rhan, ddarfu roi sail i'r ammbheuaeth a goledidir. Os yw taenellu dwfr ar fabanod yn Ysgrhythrol, ar ba dir y mae cannoedd o'r Taenellwyr dysgedigaf a gonestaf yn dweyd, nad oes gorchymyn am y fath arferiad, nac un siampl o honi yn Ngair Duw? Gan mai dylanwad grymus egwyddor, a nerth anorchfygadwy y gwirionedd, sydd yn eu rhwymo hwy i wneyd y fath addefiad, pa beth neu bethau sydd yn tuodd eu gwrthwynebwyr i haeru yn wahanol? Pa athrawiaeth y mae cydwybod yn bregethu ar y mater hwn? Ai nid yr ymwybodolrwydd poenus o anysgrhythroldeb taenelliad, a dueddodd rai o genadon y Taenellwyr i newid geiriad y commissiwn yn ddiweddar yn India, fel ag i'w wneyd yn gommissiwn *arall* hollol, yr hyn a brofwyd yn "*Seren Cymru*," gan un o genadon y Bedyddwyr?\*

Dealler mai nid *duw* ffordd i weinyddu yr *un* peth yw taenellu a throchi; ond fod bedydd (neu drochiad) a thaenelliad yn ddau beth hollol wahanol. Y cwestiwn, gan hyny, rhwng llawer o'n cyfeillion a ninnau ydyw, nid yn unig—A oes gan ddyn hawl i newid unrhyw beth perthynol i osodiad pendant; ond yn hytrach, A ydyw yn meddu awdurdod i droi trefniad dwyfol o'r neilldu, a sefydlu ffurfwyr ei ddychymmyg ei hun yn ei le? Hynyna yn unig yw y cwestiwn rhwng y Bedyddwyr a'r dosparth hwnw o Daenellwyr ag sydd yn addef anysgrhythroldeb y ddefod a gondemniwn. Ymdrechir dangos yn y traethawd hwn, nas gellir hōni y fath awdurdod, heb ddiystyru awdurdod y "Doeth o galon a'r galluoeg o nerth." Nid yw yn bosibl i bleidiau gyfaddaw (*compromise*) ar bwne Beiblaidd. Pe gellid profi mai taenelliad dwfr ar fabanod sydd yn cael ei orchymyn yn nghommisiwn Crist, dyledswydd y Bedyddwyr fyddai troi eu dull a'u deiliaid heibio, ac uno â'r Taenellwyr ar unwaith, yn drwyadl ac yn anammodol; ond yn gymmait ag na cheir un math o sail i'r fath arferiad yn y Testament Newydd (fel yr addefia lluoedd o'n cyfeillion), eu baint yn gystal a'u dyledswydd hwy yw, uno â'r Bedyddwyr heb ammod na chyfaddawd. Nid yw siarad am i'r naill blaidd roddi i fyny y dull, ac i'r llall newid y deiliaid, i'r dyben o gyfarfod ar dir canol neu ar hanner y ffordd, ond ynfydrwydd annheilwng o Gristion a duwinydd. Yn mha le cafodd dyn awdurdod i ddarnio gosodiadau Duw, ac i roi mympwy i eistedd ar orsedd cydwybod? Dealler yn mhellach, nas gellir cymmeradwyo ysgafnder neu gellwair wrth siarad am fedydd yn ei ddull na'i ddeiliaid; nid rhai i arfer *jokes* uwch eu penau yw sefydliadau pendant yr Anfeidrol. Gobeithir nad yw y sylwadau a welir yn y llyfr hwn yn annigonol i ddarbwylo dynion ystyriol i arfer y difrifoldeb mwyaf pan yn meddwl am yr ordinbad, ac yn siarad am dani. Nid yw dweyd "fod dynion da gyda phob set"—mai "i'r un man y mae pawd yn myned," &c., a myntumio nad oes "un pwys yn y plisgyn os ceir y sylw-

\* "Gallaf ddweyd yma, a hyny heb ofn cael fy ngwrthddywedyd gan un dyn, fod y cyfieithwyr a gyfieithasant dros y Feibl Gymdeithas Destament Crist i'r Hindi a'r Urduo, wedi gosod i mewn yn y cyfieithiadau, nid yn unig y gair Groeg *baptisma* yn lle geiriad priodol yr ieithoedd hyn (yr Hindi a'r Urduo), eithr hefyd wedi gwyrdroi Commissiwn Crist, a'i wneyd i ddynodi peth na feddyliodd Iesu erioed ei sefydlu, sef yw hyny, Bedydd Babanod, a Bedydd yr Annghrediniol. Yn awr, mewn trefn i'm cyfeillion yn Nghymru gael golwg ar y cyfieithiadau hyn, ac felly bod yn alluog i'w daru drostynt eu hunain am eu cywirdeb neu eu hannghywirdeb, rhoddaif hwynt ar lawr yma fel y maent yn yr Hindi a'r Urduo. Costed y darlennydd fy mod yma yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at eu cyfieithiadau o orchymyn Crist i'w ddysgybllion yn Mathew 28. 19:—"*Euoch, gan hyny, ac wedi bedyddio yr holl genedloedd yn enw y Tad a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, dysgwch hwynt—yn llythyrenol, ganeuoch ddygybllion o honynt.*" Dyma y cyfieithiad fel y mae yn y ddwy iaith grybwylledig, a beiddiaf ddywedyd ei fod yn hollol gwyrdroi geiriad Crist, ac nad oes y sail leiaf iddo yn y Testament Groeg nac yn y Vulgate."—J. WILLIAMS, yn *Seren Cymru am Macrith* 20, 1863.



edd," &c., yn deilwng o sylw mewn beirniadaeth Feblaidd; nid myned i'r nefoedd ryw sut yw pwnc gwir ddysgyblion y Gwaredwr, eithr gwneud ewyllys eu Har-glwydd. Gwaith Israel oedd canlyn y golofn; ond gorchwyl Duw oedd agor yr Iorddonen.

Defnyddia'r cyfeillion a ymdrechaut gyflawnu y gorchwyl anobeithiol o Feibleiddio taenelliad amryw resymau (?); cyfeiriant at "yr holl genedloedd," "bedyddio a dwfr," yr "enwaediad," bedyddio teuluoedd, yr anghyfleusderau apostolaidd, &c.; ond hyderir fod y sylwadau a welir ar y naill a'r llall o'r gwrthddadleuon hyn yn y llyfr hwn, yn hollol argyhoeddiadol i bob meddwl diragfarn, ac y ceir gweled cyflawnder o ffrwyth yr argyhoeddiad y bwriedir ei gynnrychu. Os ydynt yn annheg, dangoser yr annhegwch sydd ynddynt; ond os ceir hwy yn bwysau yn nghlorian beirniadaeth, ffarwelier â thaenelliad ar unwaith ac am byth. Y mae cynllun y traethawd hwn (fel yr awgrymwyd) yn hollol wreiddiol; yn neillduol felly yn ei berthynas â'r egwyddorion sylfaenol a osodir i lawr ynddo. Credir nas gall ein cyfeillion amhheu gwirionedd y naill na'r llall o honynt; fodd bynag, y maent wedi costio ymchwiliad llfurus, ystyriaeth bwylllog, ac adfyfyriad gofalus; ac fel y cyfryw, cyflwynir hwy yn hyderus i sylw difrifol cyfeillion y Beibl. Os derbynir y canonau sylfaenol, nis gellir gwrthod yr oruwch-adeiladaeth. Gwel y darlennydd nad yw yr ysgrifenydd wedi esgeuluso darllen rhai o *standard works* y Taenellwyr ar y pwnc, fel nas gellir ei gyhuddo o fod yn naill-ochrog yn yr ymchwiliad presenol. Pan yn dyfynu o honynt, y rheol gyffredin yw rhoi *chapter and verse*, a phan wneir dyfyniad achlysurol heb gyfeirio at y llyfr a'r tudalen, yr ydys yn sicr na feiddir amhheu gonestrwydd y dyfynwr. Pe dilynasid yr un reol gan rai Taenellwyr a ysgrifenasant yn ddiweddar (sef rhai eu hawdurdodau), ni chlywsid sôn am y gorchwyl grasol o dadogi deugain neu hanner cant o ystyrion i *baptizo* ar Fedyddwyr dysgedig. Pan y mae'r bodau dan sylw yn cymmyrd arnynt geisio cymhorth y Bedyddwyr i orfodi *baptizo* i ddwbio ac i yfed llawer, &c. &c., ysgrifenant rywbeth tebyg i hyn weithiau ar ol yr haeriad:—"Gwel weithiau y Bedyddwyr, &c.;" a phryd arall, gwneir yr haeriad noeth, heb y cyfeiriad mwyaf amhennodol at yr *authority*, fel y dengys yr enghraifft ganlynol:—"Mae Dr. Gale (Trochwr) yn cyfeithu *bapto* yn wthio, rhedeg trwy, trochi, dwfaliwio, suddo, llyso, dwbio, rhoddi mewn, llenwi, rhoddi i lawr, llyneu i fyny, tryliwio, llygru, staenio" (*Traethawd ar fedyddiad Llyda a'i theulu*, gan y Parch. J. Prichard, Amlwch, tud. 48). Y mae cynnydd y byd mewn moesgarwch (?) er pan ysgrifenydd y Beibl yn gyfryw, fel nad yw *good manners* (?) "yr oes oleu hon" yn caniatáu i ddynion alw y pechod hwn o eiddo Mr. P. wrth ei enw priodol ei hun (Lef. 6. 2—4; Barn. 16. 10; 1 Bren. 13. 18; Salm. 101. 7; Diar. 6. 19; 14. 5; 19. 5); ond dengys y dyfyniad canlynol, o waith Dr. Gale, wrth ba enw y mae'r trosedd i gael ei adnabod:—"Yr wyf wedi sylwi yn fanwl ar y gair" (*baptizo*, yn ddeilliadig o *bapto*) "am gryn amser fel y dygwyrddai wrth ddarllen, ac yr wyf yn eich sierhau na welais I ef unwaith yn cael ei ddefnyddio i arwyddo tywallt neu daenellu, neu unrhyw beth llai na throchiad" (*Dr. Gale's Reflections on Dr. Wall's Hist.*, p. 98. 1833). Y mae holl ystyrion (?) tybiedig *baptizo*, a'r ymdrech orwael a wneir i'w tadogi ar Fedyddwyr, yn cael sylw helaeth yn y traethawd hwn (tud. 3—28). Nid yw Taenellwyr gwybodus a gonest yn ymostwng i'r gorwaeledd pechadurus o roi dwbio, efall fel pawl, yfed llawer, &c., yn ystyrion i'r gair hwn, a haeru mai felly yr ymlwybra Bedyddwyr o enwogrwydd, fel y dengys y dyfyniad o Dr. Halley ar tud. 16, &c. Gwel hefyd y dyfyniad o'r *Gwyddoniadur*, tud. 11, 12. Haera Mr. R. P. (tudal. 106), "mai meddwl gwreiddiol y gair *baptizo*..... ydyw *gwelychu, golchi, llychwyno, cyssegru*, &c., ac nad yw suddo ond ail ystyr iddo!" Gŵyr pob Taenellwr ag sydd yn meddu hawl i roi barn ar y cwestiwn o gwbl, fod syniad mor ffiloregaid "yn salach" na bod "islaw sylw," ac mai ei awdwr anffodus, a'r dosparthiadau mwyaf anllythrennog a rhagfarnlyd, yw yr unig rai sydd mewn perygl oddiwrtho. Cyhuddir y mwyrif o ddadleuwyd ar fedydd o chwerwder ysbryd, a gormodedd o sêl bartiol; ond os oes sail i'r fath achwyniad, gobeithir y teimla'r diduedd ei hun o dan rwymau i ystyried awdwr y llyfr yn hwn yn eithriad diammheuol i'r rheol gyffredin. Cyfeirir yn barchus at Daenellwyr gwybodus a geirwir, tra yr arferir gradd o lymdar at y personau a geisiant gamddarlunio eu gwell i'r perwyl o dwyllo'r anwybodus. Ni ddwyed un dyn yn ei bwyll nad oes gan Dr. Halley hawl i sylw gwahanol iawn i'r oruchwyliaeth ddyledus i foneddigion y panu, a'r dwbio. Os gwna poblach warthruddo eu hunain trwy abertu gwirionedd ar allor plaid—os



camddarluniant rai i'r dyben o dwyllo ereill, nid oes ganddynt hawl i ddysgwyl llawer o dynerwch. Rhaid i ddyn barchu ei hun mewn trefn i fod yn uchel yn marn cyfeillion cyfiawnder.

Ni fuasai y Traethawd hwn y peth ydyw, pe nad ysgrifenasai y brodyr a enwir ar ei dudalenau yn alluog ar y pwnc cyn i'w awdwr ddechreu ei gyfansoddi; gan fod y rhwymedigaethau iddynt hwy yn cael eu cydnabod yn y ffordd arferol, gellir gweld i ba raddau yr ydys yn ddyledus iddynt am yr ychwanegiad hwn at lenyddiaeth bedydd yn Nghymru. Os tueddir rhywrai i achwyn ar luosogrwydd y *notes* ar waelod y dail, gobeithir fod yr awydd i wneyd y llyfr yn gynnwysfawr—yn fath o grynoded o'r syniadau addfetaf ar y pwnc—yn ddigon o reswm am danynt.

Amcanwyd hyd y gellid i ddefnyddio geiriau adnabyddus i'r lluaus, ac i ysgrifenu mewn arddull ddealladwy. Yr oeddidd yn rhwym o gymmeryd adnabyddiaeth y darllenwyr â gramadeg yn ganiatâol, er yr ofnid y byddai hyny yn anfantais i ambell ddarllenydd mewn rhai manau; ond gŵyr pob dosparth o lenorion nas gallesid ymlwybro yn wahanol. Os dygwydd i rywun fethu deall geiriad ambell un o'r egwyddorion sylfaenol a'r rheolau ieithyddol a geir yn y tudalenau canlynol, gwnaed ddarllen y sylwadau dilynol arnynt yn ofalus, trwy yr hyn y gwneir y cwbl yn ddealladwy. Bydd mabwysiadu y cynllun hwn yn neillduol angenrheidiol pan yn darllen y nodiadau ar gystrawen y commissiwn. Golygir y bydd y rhaniadau a'r adraniadau, yn nghyd â'r rhifnodau a'r llythyrenau a ddefnyddir yn achlysurol, o gryn gymhorth i ddeall y darllenydd, ac yn fanteisiol i'w gof. Yr un dybenion a fwriedid sicrhau wrth ysgrifenu y crynodebau byrion a'r ail-adroddiadau talfyrol o'r gwahanol faterion, y rhai a welir yma; bwriedir iddynt i gynnorthwyo galluoedd angysfredol, ac i adfywio cof y darllenwyr nad ydynt yn gyfarwydd â dilyn ymresymadau hirfeithion yn eu holl gyssylltiadau. Mewn pob llyfr dadleuol, y mae'r cynllun hwn yn fwy o fantais nag o anfantais, hyd y nod i'r efrydwyr addfetaf a mwyaf profiadol. Gwna'r flaith o fod nifer fechan o'r crynodebau hyn yn nghorff y gwaith, grynodedd cyffredinol yn y diwedd (fel y gwneir weithiau) i'r graddau eithaf yn afreidiol. Gŵyr ysgrifenydd o brofiad fod cyfeirio fwy nag unwaith at yr un pethau i'r dyben o gyrhaedd dybenion gwahanol, mewn llyfr o nodwedd ddadleuol, yn anhebgorol. Yn mhellach, y mae dynoethi ffoling *amryw* Daenellwyr, fel y gwneir yma, yn rhwymo'r ysgrifenydd i arfer rhai *repetitions*. Nid oedd cyleh adnabyddiaeth yr awdwr âg ysgrifenydd y Taenellwyr mor helaeth pan yn dechreu cyfansoddi ag y mae yn bresenol; ond ymëangai o angenrheidrwydd fel yr elai yn mlaen ar yrfa ei ymchwiliad. Heblaw hyny, gŵyr darllenwyr myfyrgar, fod *cyffwrdd* â phwnc yn angenrheidiol weithiau mewn rhai manau, ac y dylid ei *drasod* gyda gradd o fafylwch mewn man arall. Yr oedd *cyfeirio* at fedydd Ioan, bedydd Crist, a bedydd yr Ysbryd Glân, &c., yn anhebgorol yn yr ysgrif ar fedydd; ond nid yw y cyffyrddiadau achlysurol hyny, o dan y gair hwnw, yn gwneyd yr erthyglau pennodol a geir yn y llyfr hwn ar bob un o honynt yn afreidiol. Y mae gair yn ddigon i gall.

Gwelir yma luaws o olygiadau gwahanol Daenellwyr yn cael eu dyfynu a'u beirniadu, fel y gallo'r darllenydd gael golwg ar ansawdd yr anghyssonderau a gyhoeddir ganddynt yn gyffredin ar y pwnc mewn dadl. Y mae'r syniadau ynfyd a'r haeradau disail a ddyfynir o "*Tanathiad Babanod gan Prichard*," yn *specimens* tîg o'r *quality* (ond nid o'r *quantity*) a geir mewn luaws o lyfrau ar daenelliad babanod. Nid yw rhagoriaethau (?) llyfr Prichard yn cael eu crybwyll, am yr unig reswm nad oedd, ac nad yw yr ysgrifenydd yn gwybod am danynt, na'i holl ddiffygion yn cael eu dynoethi, oblegid nad oedd digon o ofod at ei wasanaeth i feirniadu *pob* pennod a *phob* tudalen o'i fewn. Nid oedd "Traethawd ar fedyddiad Lydia a'i theulu, gan y Parch. John Prichard, Amlwch," wrth law pan yn paratoi "Y Bedydd Cristionogol," &c., i'r wasg. Pe dygwyddasai fel arall, cawsid y pleser o dangos fod *pamphlet* yn Mr. J. P. yn perthyn i'r un *genus* ag eiddo Mr. R. P., er fod y ddau yn *species* gwahanol. Y mae'r olwg ar ddynion da a chymmeradwy yn cael eu gorfodi mewn ystyr gan gyfundaeth gyfeiliornus, i wneyd eu hunain yn *debyg* i ddynion anwybodus ac esgeulus o hawliau diammheuol geirwired, yn tueddu i gynnwysu rhyw fath o dosturi yn mhob mynwes ystyriol. Os nad yw y ddau gyfaill hyn yn dynoethi eu gwendid eu hunain yn y llyfrau dan sylw, y maent yn y modd mwyaf llwyddianus yn dangos eiddilwch y gyfundaeth a geisiant amddiffyn. Er y nodweddir llyfr Mr. J. P. gan lawer o ddiffygion andwyl, etto y mae yn llai nodedig am ei anghyssonderau nag eiddo ei gyfenwydd. Gan na chafwyd cyfeus-



dra i ddynoethi rhai o haeriadau disail a dichellion Jesuitaidd y Parch. J. P. fel enghreifftiau o'r rhai ereill a geir yn ei lyfr, gwahoddir sylw y darllenydd at yr egwyddorion sylfaenol sydd yn y llyfr hwn, y rhai a ddangosant yn eglur mai "cestyll yn yr awyr" yw prif osodiadau y brawd o Amlwch.

Yn gymmaint ag mai i'r GEIRIADUR y bwriadwyd yr ysgrif hon, y mae cyfeiriad achlysurol rhwng cromfachau ynddi at dudalennau a geiriau y llyfr uchod. Gan nad yw "Y Bedydd Cristionogol," yn hollol o'r un plygiad a'r GEIRIADUR, ac mai yn y swyddfa y cedwid y rhanau argraffedig o hono, nid oedd yn bosibl i'r ysgrifenydd newid y cyfeiriadau i ateb tudalennau y llyfr, pan yn darllen y prawfieni.

Bu yr argraffydd a'i gyssodwyr yn ddigon caredig i newid amryw o honynt yn llwyddiannus, fel y gwel y darllenydd. Er fod y Swyddfa (yr hon sydd yn gyfrifol am orgraff y GEIRIADUR) yn ofalus iawn am gywirdeb, ofnir fod dau neu dri o eiriau yn y gwaith hwn yn cael eu sillebu mewn gwahanol ffyrdd; ond nid yw y fath anflawd namyn un ag y mae yn hawdd ei esgusodi. Ymddengys na lwyddwyd i ymgadw yn hollol rhag nifer fechan o fan wallau; teimlir yn ddiolchgar am wella y rhai canlynol, yn nghyd âg ereill y dichon y darllenydd craffus eu gwled:—

Tudalen 2, colofn 1, llinell 31, yn lle 'dymuno,'  
darlener *dymuno*.  
Tud. 5, c. 2, ll. 36, yn lle 'ie,' dar. ei.  
Tud. 8, c. 1, ll. 37, tyner allan 'Lladin, tansoddi.'  
Tud. 10, c. 2, ll. 16, yn lle 'grybwyllaw,' dar. gyr-  
bwyllaw.  
Tud. 10, c. 2, ll. 36, yn lle 'fr gwreiddair,' dar. y  
gwreiddair.  
Tud. 11, c. 1, ll. 1, yn lle 'model,' dar. *modal*.  
Tud. 11, c. 1, ll. 55, yn lle tra, dar. Tra.  
Tud. 11, c. 1, yn lle 'defnyddid ef,' dar. def-  
nyddid *baptizo*.  
Tud. 11, c. 1, ll. 42—3, yn lle 'Ar yr un egwyddor,'  
dar. Barna Carson mai ar yr egwyddor hon.  
Tud. 11, c. 1, ll. 44, yn lle 'Barna Carson,' dar.  
Golyga hefyd.  
Tud. 14, c. 1, ll. 35, yn lle 'ei ddychweliad,' dar. ei  
dychweliad.  
Tud. 14, c. 2, ll. 30, yn lle 'beiai hanesydd,' dar.  
beia'r hanesydd.  
Tud. 15, c. 1, ll. 20, yn lle 'a cholodd,' dar. a  
*throchodd*.  
Tud. 15, c. 2, ll. 32, yn lle 'gyssylltu,' dar. *cyassylltu*.  
Tud. 16, c. 1, ll. 2, yn lle 'golygu,' dar. ystyried.  
Tud. 16, c. 1, ll. 1, yn lle 'dysgedig,' dar. gonest a  
gwybodus.  
Tud. 17, c. 1, ll. 12, yn lle 'ei orchuddio,' dar. i  
orchuddio.  
Tud. 18, c. 1, ll. 8, yn lle 'o honynt,' dar. o'r Geir-  
iadurwyr.  
Tud. 18, c. 2, ll. 34, yn lle 'beheaded,' dar. *behead*.  
Tud. 20, c. 2, ll. 6, yn lle 'foddedig,' dar. *faddedig*.  
Tud. 23, c. 2, ll. 35, yn lle 'eon me,' dar. *ean me*.  
Tud. 24, c. 1, ll. 56, yn lle 'gorseddafainc,' dar. gor-  
weddafainc.  
Tud. 25, c. 2, ll. 8, yn lle 'yr hyn,' dar. yr hon.  
Tud. 25, c. 1, ll. 32—3, (gwel tud. 53) i'w adael allan.  
Tud. 27, c. 1, ll. 19, yn lle 'degrees,' dar. degree.  
Tud. 27, c. 2, ll. 7, 8, yn lle 'condemned,' dar. dar-  
camdrinedig.  
Tud. 28, c. 1, ll. 10, yn lle 'gallasant,' dar. gallant.  
Tud. 28, c. 2, ll. 49, yn lle 'ddeallant,' dar. ddeallent.  
Tud. 29, c. 1, ll. 4, yn lle 'nad oes,' dar. nid oes.  
Tud. 34, c. 2, ll. 26, yn lle 'pleidio,' dar. pleidio.  
Tud. 38, c. 1, ll. 13, 21, 'A'th ddeheulaw,' &c., i'w  
gadael allan.  
Tud. 41, c. 1, ll. 1, yn lle 'ymosodo,' dar. ymosodol.  
Tud. 43, c. 1, ll. 34, yn lle 'ryfedd,' dar. rhyfedd.  
Tud. 43, c. 2, ll. 35, yn lle 'We are now,' dar. are now.  
Tud. 44, c. 1, ll. 55, yn lle 'dibryd,' dar. dybryd.  
Tud. 44, c. 2, ll. 30, yn lle 'pawb,' dar. pawb sydd  
yn deall.  
Tud. 44, c. 2, ll. 52, yn lle 'yn ihoddi iddo,' dar.  
—yn rhoddi iddo.  
Tud. 36-7, c. 2, Y dyfyniad o Whitby i fod allan.

Tud. 60, c. 1, ll. 59, yn lle 'hynod hwn,' dar. hynod  
hwn o eiddo Mr. P.  
Tud. 62, c. 2, ll. 16, yn lle 'Udata Polca,' dar.  
*Udata polca*.  
Tud. 65, c. 2, ll. 23, yn lle (9) dar. 9.  
Tud. 69, c. 1, ll. 10—11, yn lle 'My Fatu,' dar.  
*My Fatu*.  
Tud. 69, c. 2, ll. 46, yn lle 'eirwirdeb,' dar. erwindeb.  
Tud. 73, c. 2, ll. 29, yn lle 'Lauge,' dar. Lango.  
Tud. 74, c. 2, ll. 49, yn lle 'o'u,' dar. o'n.  
Tud. 78, c. 2, ll. 51, yn lle 'R. P.,' dar. Mr. P.  
Tud. 78, c. 2, ll. 59, yn lle 'R. P.,' dar. Mr. P.  
Tud. 87-8, y bedwaredd egwyddor i fod mewn  
lythyrenau *Italaidd*.  
Tud. 82, c. 1, ll. 11, yn lle 'y Taenellwyr hyn,' dar.  
rai Taenellwyr.  
Tud. 88, c. 1, ll. 46, yn lle 'μαθητευθεις,' dar.  
*μαθητευθεις*.  
Tud. 94, c. 1, ll. 6, yn lle 'rhangymmeriad,' dar.  
rhangymmeriad.  
Tud. 88, c. 1, ll. 55, yn lle 'μαθητευσι,' dar.  
*μαθητευσι*.  
Tud. 91, c. 2, ll. 35, yn lle 'συχαιστευτες,' dar.  
*συχαιστευτες*.  
Tud. 112, c. 2, ll. 7, yn lle 'ond yn,' dar. yn.  
Tud. 116, c. 2, ll. 51, yn lle 'y gusan,' dar. y cusan.  
Tud. 119, c. 1, ll. 50, yn lle 'yr hwn,' dar. yr hon.  
Tud. 141, c. 2, ll. 29, yn lle 'cytuna unrhyw,' dar.  
cytuna amryw.  
Tud. 142, c. 1, ll. 9, yn lle '737,' dar. 47.  
Tud. 123, c. 1, ll. 57, yn lle 'VIII,' dar. VII.  
Tud. 123, c. 1, ll. 55, yn lle 'anhydeddusaf,' dar.  
anhydeddusaf.  
Tud. 145, c. 2, ll. 22, yn lle 'impostors,' dar. im-  
postors.  
Tud. 152, c. 2, ll. 55, yn lle 'chant wneyd,' dar.  
wnant.  
Tud. 153, c. 1, ll. 38, yn lle 'y mae,' dar. Y mae.  
Tud. 153, c. 2, ll. 43, yn lle 'infantulus,' dar. *infan-  
tuli*.  
Tud. 157, c. 2, ll. 21, yn lle '257,' dar. 157 (254 yn  
ol rhai).  
Tud. 158, c. 1, ll. 31, yn lle 'duwiniseth,' dar. duw-  
inyddiaeth.  
Tud. 158, c. 2, ll. 36, 37, yn lle 'nodwedd,' dar.  
nodwedd ddissail.  
Tud. 158, c. 2, ll. 59, yn lle 'eglwys,' dar. eglwys.  
Tud. 159, c. 1, ll. 26, 32, yn lle 'salus,' dar. *salus*.  
Tud. 159, c. 1, ll. 28, yn lle 'diogelwch,' dar. dio-  
gelwch a iechyd.

\* Rhifir y llinellau o'r pen uchaf i waered, ac ni wneir y *notes* yn eithriad.

Y mae dyfyniad, &c., tud. 20, col. 2, llin. 26, "gan fod llyfr" &c., hyd "Seren Cymru," tud. 22, col. 1, i fod yn un o'r *notes*, ac nid yn rhan o'r ysgrif. Gwel y darllenydd craffus fod rhodiad yr ymrwymiad yn galw am hyn, ac mai mewn camsyndiad y gosodwyd y dyfyniad yn y man y mae.



## B E D Y D D.

ADDEFIR gan Gristionogion Protestanaidd yn gyffredin, mai ordinhad Gristionogol yw bedydd, ac mai at y Testament Newydd yn unig y dylid apelio am y wybodaeth angenrheidiol o barthed i'w deiliaid a'i gweinyddiad. Tra y caniatëir ei pharhad, a dwyfoldeb ei gosodiad a'i rheol gan y llawws, y mae cryn lawer o wahaniaeth barn mewn perthynas i ddull ei gweinyddiad, a'r personau cymhwys i gael eu bedyddio. Y mwyafrif mawr o Gristionogion, can belled ag y mae a fynont â'r ddefod allanol, a gredant fod ei hammodau yn cael eu cyflawnu, trwy dywallt neu daenellu dwfr ar faban neu berson mewn oed; y Bedyddwyr, ar y llaw arall, a gredant nad ydyw yr ammodau allanol yn cael eu parchu heb gladdu yr ymgeisydd yn gwbl mewn dwfr. Heblaw hyn, meddylia y mwyafrif fod mabanod bychain yn ddeiliaid cymhwys, tra y barna'r Bedyddwyr na ddylid trochi neb heb broffes o ffydd yn ein Ceidwad. O ganlyniad, ein gorchwyl yn yr erthygl hon fydd ateb y ddau ofyniad canlynol, sef, "PA FODD Y DYLLID BEDYDDIO?" a "PHWY YDYNT DDEILIAID ADDAS BEDYDD?"

Yn gymmaint a bod golygiadau y Bedyddwyr mor wahanol i syniadau y Taenellwyr ar y ddau gwestiwn pwysig hyn, dylid cael cryn bwys yn eu rhesymau dros y gwahaniaeth y teimlant mor frwdfrydig yn ei achos.

"Nyni a ddylem feddiannu rhesymau cryfion," ebe'r Parch Hugh Stowell Brown, "oblegid gallwn eich sierhau nad ydyw dâl y golygiadau hyn wedi bod i ni erioed o fawr mantais, na chysur bydol. Nid yw y golygiadau hyn wedi gwneuthur i ni fawr daioni, a'i gymmeryd mewn ystyr dymhorol a bydol yn unig. Nid oes un gadwyn aur yn ein rhwymo wrthynt, nid ydynt wedi eu gwneyd yn eglur, yn hawdd eu deall, ac yn swynol i ni, gan waddoliadau cyfoethog, a bywioliaethau cysurus. Nid ydyw ein golygiadau wedi eu gwaddoli âg esgobaethau (*prebendal stalls*), a pherson-dai, a thiroedd eglwysig, nac â chyfraniadau breninol. Beth bynag a ddewisio pobl ddywedyd am danom, diolch i Dduw, nis

gallant ddywedyd ein bod ni yn Fedyddwyr oblegid ein bod yn caru budreilw; un peth sydd sicr, nad yw 'gwreiddyn pob drwg,' yn debyg iawn o dynu llawer o faeth allan o dir cyflogau gweinidogaethol yn mysg y Bedyddwyr. Rhaid i ni yn ddiddadl fynegu ein rhesymau, a dywedaf y dylent fod yn rhai a chryn bwys yn-ddynt."\*

### PA FODD Y MAE BEDYDD I GAEL ET WEINYDDU?

Mewn trefn i ateb y cwestiwn hwn yn foddhaol, rhaid gosod i lawr rai egwyddorion sylfaenol, ac adeiladu arnynt. Nid yw ein terfynau na natur yr erthygl yn caniatáu i ni *brofi* (pe byddai angen am hyn) y gosodiadau rhagarweiniol canlynol; ond ymdrechir eu gwneyd yn hunan-eglur, fel na fyddo angen am gymhorth chwiliad a rhesymeg i ddangos eu gwirionedd.

Yr egwyddor I. ydyw: *Mai yn llys Gair Duw y mae'r pwnc mewn dadl i gael ei brofi.* Bydd yn angenrheidiol i ni apelio yn achlysurol at lysoedd ereill, i'r perwyl o sierhau dybenion a eglurir wrth fyned yn mlaen; ond y Beibl, yn yr egwyddorion, y gorchymynion, ysiamplau, a'r hyfforddiadau a gynnwysa, sydd i fod yn derfynol ar y mater mewn cwestiwn.

Yr II. egwyddorydyw, *Fod yr ysgrifenyddys brydoledig yn defnyddio geiriau yn y fath fodd ag i wneyd eu hunain yn ddealladwy, ac nid i'r dyben o gamarwain neu ddyrysau eu darllenwyr—mai nid gwneyd geiriau newyddion, na chyssylltu ystyrion newyddion â hen rai, a wneient, eithr defnyddio geiriau ag oedd mewn arferiad cyffredin, ystyrion y rhai a ddeallid gan y llythyrenog a'r annysgedig.* Pe defnyddiasid geiriau annealladwy ac aml-ystyrog gan Grist a'i ddysgyblion, byddai raid i ni, naill ai rhestru yr awdwyr ysbrydoledig a'u Hathraw yn mysg yr oraclau paganaidd, neu ynte gredu mewn dylanwad gwyrthiol parhaus ar y meddwl, i'r perwyl o ddeall y Testament Newydd,

\* Pregeth a draddodwyd yn Nhabernacl y Parch. C. H. Spurgeon, Ebrill 9, 1861, gan y Parch. H. S. Brown, Llynlleifiad, wedi ei chyfieithu gan y Parch. J. R. Morgan (*Lleuwig*).



os yw y llyfr hwnw i gael ei ddeall a'i ddefnyddio o gwbl. (Nid oes braidd eis-iau dweyd nad ydym yma yn cyfeirio at yr hyn a gynnrychir yn yr enaid mewn achubiaeth.) Os yw y Beibl i gael ei chwilio a'i esbonio fel rhyw lyfr arall, fel y credwn ei fod, y mae yn ei berthynas â geiryddiaeth a chystrawen, yn ddarostyngedig i ddeddfau cyffredinol a sefydlog ieithyddiaeth. Os nad yw geiriau y Testament Newydd yn cael eu defnyddio yn yr ystyr y deallid hwynt gan y rhai a arferent yr iaith Roeg, efe yw y llyfr mwyaf aneglur a dibwynt a ysgrifenydd erioed.

Egwyddor III. ydyw,—*Fod ysgrifenywyr galluog a dysgedig mewn gwahanol ieithoedd yn uwch awdurdodau nag awdwyr* *Lexicons y* *ieithoedd hyny, o gymmaint ag nad yw yr olaf* (os ymlwybrant fel y dylent), *yn gwneyd rhagor na rhoddi yr ystyrion arferedig gan y blaenaf, yn hytrach na chyssylltu rhai newyddion â hen eiriau adnabyddus.* Wrth dystiolaethau tystion y gwna rheithwyr ffurfio barn, a rhoi eu dedfryd. Y mae'r cymhwysiad yn amlwg. Y mae geirlyfrau o werth neillduol, ond nid ydynt oll yn awdurdodau anffaeledig ar bob ystyr a roddant i eiriau. Nid yw pob golygydd ac awdwr mor onest chwaith ag y gellid ddymunio.\*

\* "Mi a chwiliais," ebe'r Parch. J. M. Pendleton, A.M., "yr holl eirlyfrau a welais (ac y maent yn llawer), er cael gafael ar ystyr *baptizo*. Mae unfrydedd neillduol rhyngddynt mewn dangos mai trochi, neu ei gyfystyr, ydyw prif, a meddwl blaenaf y gair. Y mae i'r gair hwn ystyr mor benderfynol, yn ol geirlyfrwyr, ag sydd i unrhyw air arall. Y mae mor bennodol a *rantizo*, a'r un mor hawdd y gellid dadleu fod *rantizo* yn golygu trochi, a bod *baptizo* yn golygu taenellu. Ni welais un geirlyfr yn yr hwn y rhoddid taenellu yn ystyr i *baptizo*; a dim ond un yn rhoddi *tywallt ar*, fel un o'i ystyrion. Yn *Liddell and Scott's Greek and English Lexicon*, golygedig gan Mr. Drislen, Efrog Newydd, gyda diwygiadau a chwanegiadau, rhoddid *tywallt ar*, fel y seithfed ystyr i *baptizo*. Y mae yn flaith nodedig, pan y mae darnau o weithiau awduron Groegaidd yn cael cyfeirio atynt er dangos prif feddwl y gair, na sonir am un darn o waith y cyfryw er ategu y nodiad anysgolheigaidd o '*dywallt ar*'. Y mae peth dolurus arall i'w adrodd. Dywedir, ac mor bell ag y gwn i, nid ydyw yn cael ei wadu, nad yw argraffiad Seisnig *Liddell and Scott* yn rhoddi '*tywallt ar*' fel ystyr i *baptizo* (*Western Baptist Review*, vol. iii. p. 437—8). Y mae yn debyg fod Mr. Drislen yn awyddus i wasanaethu achos y Taenellwyr, ac iddo felly, ar ei awdurdod ei hun, osod allan *baptizo* fel yn arwyddo '*tywallt ar*'. Rhaid ei fod yn ddyn o *nerve*! Rhaid mai byrbwylltra yngnawdoledig ydyw! Y mae yn ddarostyngedig i'r cyhuaddiad o fod yn ffuglwr llenyddol! Geesyd *Liddell and Scott* allan fel yn dy-

Y IV. egwyddor yw, yr hon a osodwyd i lawr gan Blackstone, yr hwn oedd braidd yn cael ei addoli gan wyr y gyfraith, sef, *Fod geiriau i'w deall yn eu hystyr* MWYAF CYFFREDIN ac ADNABYDDUS, yn annibynol ar briodoldeb gramadegol—*dylid talu sylw neillduol i'w harferiad poblogaidd* (*Chitty's Blackstone*, vol. i. p. 59). Gan mai trochi oedd ystyr poblogaidd a chyffredin *baptizo*, fel y cawn ddangos, yn ol Blackstone, y mae'r ddadl eiryddol yn ffafr y Bedyddwyr; y mae *baptizo* yn fwy pennodol am drochi na'r gair Saesneg *dip*, oblegid y mae i *dip* ystyrion hollol wahanol. Dadleuir yr un egwyddor yn rymus gan y diweddar Barch R. Watson (*Watson's Theol. Inst.* vol. ii. p. 153). Derfys yr awdwr mewn gwrthwynebiad i'r farn Sosinaidd, ddarfod i'r ysgrifenywyr ysbrydoledd ddefnyddio geiriau sydd yn cyflêu y meddylldrych o iawn mewn cyssylltiad a marwolaeth Crist. "Y defnydd sydd i'w wneuthur," ebe efe, "o'r ddadl hon ydyw, ddarfod i'r apostolion gael y termau a ddefnyddiasant mewn cyssylltiad â natur ac effeithiolrwydd marwolaeth Crist, wedi eu sefydlu mewn ystyr iawnol yn mysg y Groegiaid, ac nas gallasant eu defnyddio gydag onestrwydd mewn ystyr bell a ffigurol, llawer llai mewn ystyr wrthwynebol, heb roddi rhybydd prydawn i'w darllenwyr o'u bwriad i'w gwisgo âg arwyddocad newydd....." Yr un modd yr oedd gan yr Iuddewon eu hebyrth iawnol, a defnyddiai yr apostolion y termau a arferid mewn cyssylltiad â hwynt, i osod allan yn eglur farwolaeth eu Harglwydd; a buasant yn euog o gamarwain eu darllenwyr Iuddewig fel eu darllenwyr Groegiaidd, pe rhoddasant i'r geiriau hyny ystyrion newyddion, a hyny heb rybydd, yr hwn yn ddiau na roddwyd erioed." Dy-

weddyd yr hyn na ddywedasant..... Yn y flwyddyn 1848, pan gymmerodd y Newyddiaduron mewn llaw y gorchwyl o feirniadu y rhyddid anffaddeuol a gymmerasid gan Mr. Drislen, awgrymwyd—ai ar ei orchymyn ef nis gwn, y cawsai y flugddodiad '*tywallt ar*,' ei adael allan yn yr argraffiad dilynol; ond pa fodd bynag, ni wnawd hyn, oblegid gwolaia yr un frawddeg ammhew yn argraffiad 1850." ("*Tri Rheswm paham yr wyf yn Fedyddiwr*," gan y Parch. J. M. Pendleton, A.M., cyfieithedig gan y Parch. John Edred Jones, Cincinnati, Ohio).

"Dywedais," ebe Pendleton, "mai nid geirlyfrau yw y prif awdurdodau i benderfynu ystyr geiriau, ac y mae yn hawdd canfod gwirionedd y nodiad hwn. Ymddibyna awdwyr geirlyfrau o angenrheidrwydd ar ystyr arferol geiriau ergwybod eu meddwl; ond gallant gamgymmeryd y cyfryw feddwl. Os gwnant, gellir apelio at arferiad cyffredin iaith fel safon i farnu. Y mae yn ddymunol myned yn ol at yr awdurdodau gwreiddiol."



wed Hodge hefyd, yn ei "*Way of Life*," yr un peth; ac nis gall fod dadl o ethryb athrawiaeth Blackstone a'r ddau dduwinydd. Cafodd yr apostolion dermau neillduol mewn arferiad yn mhlith y bobl, y rhai oeddynt yn cyflëu y meddylddrych o iawn, ac y mae yn amlwg iddynt arfer y geiriau hyn yn yr un ystyr. Fel dynion gonest nis gallasant wneuthur yn wahanol heb roddi gwybodaeth o'r ffaith. Bwr-iedir dangos yn y tudalenau canlynol ddarfod i'r un apostolion gael y gair *baptizo* a'i ystyr wedi ei sefydlu, yr hyn oedd trochi; o ganlyniad, yn ol ymresymiad Watson, nis gallasant gydag onestrwydd, ei ddefnyddio i ddynodi taenellu a thy-wallt, heb hysbysu hyn i'w darllenwyr. Os llwyddir i ddangos ystyr *baptizo* yn y tudalenau canlynol fel y bwriedir, dylai ein cyfeillion y Taenellwyr, naill ai cyfaddef cadernid y ddadl hon mewn cyssylltiad a *baptizo*, neu ynte ymrthod âg ymresymiad Watson yn erbyn y Sosiniaid, fel peth amhenderfynol. Os yw y canon hwn yn safadwy, nid gwiw dweyd fod *baptizo* yn golygu trochi yn y Groeg awdurol, ond nad yw o angenrheidrwydd i'w ddeall felly yn y Testament Newydd, fel y gwneir weithiau gan Daenellwyr. Dyweder a fyner am y Groeg Beiblaidd a'r Groeg awdurol, ac am ystyr dduwinyddol *baptizo*, rhaid i ni ystyried ddarfod i Dduw, pan lefarodd wrth bechaduriaid, lefaru yn *iaith* dynion, yn gystal a thrwy ddynion.

V. *Etto, wedi dwyn profion cedyrn dros wirionedd peth, nis gellir ystyried y gwrthddadleuon o anhawsderau a ddygir yn erbyn y peth hwn yn derfynol, oddieithr eu bod yn cynnwys annhosiblirwydd.* Dangoswyd ganwaith fod llawer o anhawsderau yn erbyn pethau sydd yn bresenol yn ffeithiau sefydledig mewn gwyddiant a chelfyddyd; ond y mae hanes a phrofiad yn tystio nad oedd y gwrthddadleuon yn cynnwys dim ag oedd yn annhosibl. Y mae'r *Neologists* yn dwyn llawer o ystyriaethau i ddangos fod y ffeithiau a gefnodir yn y Beibl mewn ymddangosiad yn annhebygol; o ba herwydd, llafuriant yn galed i geisio eu dilëu neu i'w gwneyd yn bethau ereill; ond yn gymmaint ag nad oes dim yn annichonadwy yn nghynnwys-

\* "Fe'm hargyhoeddir yn fwy o hyd, mai ystyr cyffredin y Testament Newydd, hyn yw, yr ystyr yn mha un y cynmerir ef gan ddyn gorcet, diroddes, ar ei ddarllenid *cynfas* o'r gwreiddiol, neu unrhyw gyffeithiad da, yw, o'r bron yn mhob man, yr ystyr cywir cyffredinol i unrhyw ran."—Dr. Doddridge.

iad y Gyfrol Santaidd, nid yw pyrth uffern yn alluog i wrthbrofi yr hanesion sydd ynddi. Os gellir profi mai ystyr *baptizo* yw yr hyn a nodwyd yn barod, ac mai trwy suddo y corff mewn dwfr y byddai yr apostolion yn gweinyddu yr ordinhad mewn dadl, fel yr addefa Bloomfield, Macknight, a lluoedd o ddysgedigion ereill, y mae'r annghyfleusterau a grybwyllir gan Daenellwyr yn ddisanu. Rhan o waith rheswm yn ei berthynas â'r Beibl yw chwilio y Gyfrol Ddwylol, a chredu y ffeithiau a geir ynddi yn annibynol ar yr anhawsderau ymddangosiadol a all fod yn perthyn iddynt neu yn nglyn â hwynt (Edr. AMGYFFRED). Hyderir y gellir chwalu y gwrthddadleuon y cyfeirir atynt yma; ond pe nas gellid, ni fyddai ein methiant yn fantais i Daenellwyr, nac yn anfantais wirioneddol i ninnau. Y mae anystyriaeth o'r egwyddor a osodir i lawr yma, wedi achosi llawer o drafferth afreidiol yn y byd dwinyddol. Cyfeiria Dr. Carson at amryw enghreifftiau yn y Testament Newydd.

VI. *Wedi dangos nad yw y peth y dadleuir drosto yn annhosibl, nid oes un rhwymau arnom i brofi PA FODD yr oedd yn ddiagonadwy.* Esgeulusdod o'r egwyddor hon yw yr achos fod Taenellwyr yn galw arnom yn barhaus i brofi fod cyfleusterau i drochi mewn gwahanol fanau; ond nid yw amddiffyniad y gwirionedd yn gofyn am y fath wasanaeth oddiwrthym. Gofynir yn mha le y ceid digon o ddwfr a gweinyddwyr i drochi y tair mil; ac nid yn llai buddugoliaethus (?) y ceisir genym ddangos y cyfleusterau angenrheidiol i fedyddao Paul; ond pe gofynid iddynt hwy o ba le y cafodd Cain wraig, a llawer o gwestiynau cyffelyb, teimlent yn ddiolchgar am gysgod yr egwyddor y dadleuwn drosti. Y gwir yw, os nad yw cyhoeddiad o ffeithiau dadguddiedig yn absenoldeb manylion yn ddigon er sicrhau derbyniad, nid gwiw i ni feddwl y gallwn ddystewi cecraeth yr anffyddiwr. Os nad yw peth yn annhosibl, nid yw dangos y cyfleusterau hanfodol i'w gyflawniad yn un o ammodau y grediniaeth o hono; nid oes achos peidio gwa-hodd sylw atynt pan ellir gwneyd hyn, ond nid yw'r gwirionedd ar ei golled pan nad ydnt i'w canfod. Nid llyfr yw y Beibl i foddhau cywreinrwydd neu borthi chwilgarwch afreidiol, ond bwriadwyd ef i ddybenion teilwng o'i Awdwr.

VII. *Nid yw yn bosibl i un gair moddol fod yn ddarluniadol o lawer o ddulliau gwahanol i'w gilydd fel rheol, ond gall term na fyddo yn*



arwyddo un dull neillduol gael ei gymhwyso at bob dull yn ddiwahaniaeth. Nid yw yn briodol arfer yr un gair am drochi, taenellu, tywallt, panu, gosod i sefyll fel pawl, &c., &c. Pe byddai un gair yn arwyddo deugain neu hanner cant o ddulliau gwahanol, byddai yn well i ni fod hebddo na'i feddu. Os mai ystyr *baptizo*, er enghraifft, yw trochi, nis gall sefyll am daenellu a thywallt hefyd, oblegid y mae pob un o'r tair berf yn cynnwys dull neillduol a gwahanol. Y mae'r gair golchi, o'r ochr arall, yn cyfeirio at y weithred a gynnwysa, yn hollol annibynol ar y *modd*, neu y *dull* y cyflawnir hi.

Ystyrir y gair *lladd* yn derm cyffredinol am yr ysgariad a wneir rhwng corff ac enaid; ond nid yw yn sefyll am unrhyw *ddull neillduol* o ddwyn ymaith fywyd, tra y dynoda'r geiriau crogi, croeshoelio, boddi, &c., ddulliau neillduol, a phob un o honynt a arwydda *ddull pennodol* ar ei ben ei hun, yr hwn sydd yn cau allan *bob* dull arall. Y mae boddi, er enghraifft, yn cau allan grogi, a chrogi yn gwneyd yr un peth âg yntau. Ynfydrwydd o'r mwyaf fyddai haeru fod i unrhyw air a fyddo yn arwyddo dull, yr ystyrion o grogi, boddi, trywanu, croeshoelio, gwenwyno, llosgi, &c., oblegid y mae'r dulliau hyn o ladd yn hollol wahanol, a rhaid cael gair pennodol am bob un o honynt. Y mae dulliau, gan hyny, yn hanfodol wahanol i'w gilydd, ac nis gall yr un gair eu gwahaniaethu. Enw neillduol dull yw'r gair sydd yn ei fynegu, ac yn ei wahaniaethu oddiwrth ddulliau ereill. Y mae yn annhosibl i'r un gair fod yn ddarluniadol o'r gwahaniaeth sydd rhwng dau ddull. Mwy rhesymol fyddai golygu mai rhai cyfystyr yw'r ansoddeiriau *du* a *gwyn*, o herwydd y mae *graddau* mewn duwch a gwyndra, tra nad oes *graddau* yn perthyn i ddulliau o gwbl. Os gellir dangos mai gair am ddull neillduol—claddu, trochi, neu suddo, yn annibynol ar natur yr elfen, yw *baptizo*, ac nid term cyffredinol am wlychu neu olchi, byddir trwy hyny yn dangos nas gall tywallt ar, a thaenellu, fod yn ystyrion iddo hefyd. Dywed y ieithwyr goreu fod deddfau ieithyddiaeth yn gyfryw, fel nad oes un iaith dan y nefoedd yn yr hon y ceir un gair yn arwyddo *dau* ddull. Os mai ystyr *baptizo* yw tywallt ar, neu daenellu, nis gall arwyddo trochi neu suddo; ac os yw yn golygu trochi, y mae yn annhosibl cyssylltu âg ef yr ystyr o daenellu, na'r meddylddrych o dywallt. Byddai mor briodol rhoddi boddi, gwenwyno,

saethu, trywanu, &c., yn ystyrion i'r ferf crogi (y rhai a wnelement y tro i ddarlunio y term cyffredinol *lladd*), a rhoddi yr ystyr o daenellu i air sydd yn dynodi trochi.

VIII. *Y mae fod gair yn dynodi dull mewn brawddeg yn gwneyd yr ymadrodd y byddo ynddo yn ddisynwyr neu yn wrthun, yn profi nad yw y gair hwnw yn ei le priodol, ac nas gall fod yn un o ystyrion y gair a wnelo y frawddeg yn synwyrrol ac yn ddealladwy.* Myn rhai o'n cyfeillion y Taenellwyr fod tywallt yn ystyr i *baptizo*; ond pe defnyddid ef yn lle bedyddio neu drochi yn y Testament Newydd, gwnelai y brawddegau yn hollol ddisynwyr:—"A hwy a dycalltwyd ganddo ef yn yr Iorddonen" (Math. 3. 6). "Myfi yn ddiau ydwyf yn eich tywallt chwi" (Math. 3. 11). "Wele ddwfr, beth sydd yn lluddias fy nhywallt?" (Act. 8. 36). Nid y person sydd yn cael ei dywallt, eithr y dwfr a dywelltir arno. Os mai tywallt yw ystyr *baptizo*, yr eunych a dywalltwyd gan Phylip, ac nid y dwfr arno. Beth bynag yw ei ystyr, gellir ei gyfieithu i'r gair ag sydd yn dynodi yr ystyr hwnw, yn mhob brawddeg y cyfeirir at fedydd ynddi. Os gellir dangos y gall y gair trochi neu gladdu ddâl y prawf, nid yn unig yn y brawddegau a grybwyllant am fedydd, ond hefyd mewn cyssylltiadau ereill, ac nas gall tywallt a thaenellu oddef y fath driniaeth, y canlyniad fydd, i'r ddadl eiryddol droi o ochr y Bedyddwyr, a hyny o angenrheidrwydd anocheladwy. Gall rhai pethau wisgo gradd o olygusrwydd mewn golyg-ddysg (*theory*); ond pan ddygir hwynt at faen prawf ymarferiad, y mae eu swyn yn darfod, a'u gogoniant dychymmygol yn diflanu.

IX. *Pan droir geiriau o'u harferiad priodol a llythyrenol, neu pan ddefnyddir hwy yn ffigurol neu gymharol, nid ydym i ddysgu dim o barthed i'w harferiad llythyrenol neu briodol oddiwrth y defnydd ffigurol neu gymharol a wneir o honynt:—mewn geiriau ereill, nis gellir dysgu dim o berthynas i'r adnabyddus (llythyrenol) oddiwrth yr anadnabyddus (ffigurol); ond gellir dysgu llawer am yr anadnabyddus oddiwrth yr adnabyddus.* "Pan fyddo gair, yr hwn a gyfynga arferiad i un peth, yn cael ei gymhwyso at beth arall, bydd yno drofäeg (τροπος), neu wrydiad o hono. Gelwir y cymhwysiad newydd hwn yn drofäeg; a dywedir fod y gair yn cael ei arfer mewn ystyr drofäol neu annhriodol, mewn gwrthgyferbyniad i'r priodol; neu ffigurol, yn wrthwynebol i'r llythyrenol."



(*Sacred Hermeneutics*, tud. 258, gan Dr. S. Davidson.) Nid yw meddwl y gair pan yr arferir ef yn *ffigurol* ac anmhriodol yn wahanol i'w feddwl *llythyrenol*. Cymmerwn, er enghraifft, ebe un ysgrifenydd campus, y gair *bugeilio*. Yr un meddwl sydd i'r ferf *bugeilio* yn ngorchymyn ein Harglwydd i Pedr:—“*Bugeilia fy nefaid*,” ag sydd iddo yn hanes Joseph:—“A'i frodyr a aethant i fugeilio defaid eu tad yn Sichem.” Yn y cyntaf arferir y gair yn *ffigurol* neu gymharol; yn yr ail arferir ef heb un gymhariaeth; ond yr un peth yw meddwl y gair yn y naill a'r llall. “Felly hefyd am y gair *baptizo*. Yn ol Parkhurst, Schleusner, a dysgedigion ereill, arferir ef yn *ffigurol* ac nid yn *llythyrenol* am roddiad helaeth o'r Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, ac am fod mewn trallodion a helbulon dyfion. Os yn *ffigurol* yr arferir ef am y pethau hyn, nid oes ynddynt fedydd *priodol* a *llythyrenol*, oblegid nis gall fod yn beth *llythyrenol* a *ffigurol* ar yr un pryd. Byddai tybied y fath beth yn ynyfdrwydd. Gan mai bedydd *ffigurol* oedd ar ddydd y Pentecost, nis gallasai fod hefyd yn fedydd *llythyrenol*, ond rhywbeth tebyg i fedydd, yr hwn a elwid yn fedydd ar sail y tebyg-olrwydd hwnw.” Os yw yr egwyddor sylfaenol hon o'n heiddo yn gywir (ac ynfydrwydd fyddai gwaadu ei chywirdeb), nid yw Taenellwyr yn parchu rheolau beirniadaeth pan yn ceisio dangos dull gweinyddiad bedydd *llythyrenol* oddiwrth fedydd *ffigurol* yr Ysbryd Glân. “Ai nid priodolach o lawer yw cyfeirio at y weithred o fedyddio mewn trefn i ddeall beth a feddylir wrth fedydd yr Ysbryd? Yr oedd bedydd Ioan yn adnabyddus i'r personau a anerechid ganddo (Math. 3. 11); ond yr oedd y gweithrediadau a hynodent weinyddiaeth Crist, ac yn mhllith pethau ereill, rhoddiad yr Ysbryd Glân, yn *adnabyddus* iddynt y pryd hwnw; ac am hyny, defnyddiai Ioan y gair *adnabyddus* bedydd i'w osod allan. Ond yn ol rhai o'r Taenellwyr (ac â'r ddadl hon y cyssyllta rhai o honynt fwyaf o bwys), yr ydym i benderfynu dull bedydd oddiwrth roddiad yr Ysbryd Glân,—i ddeall yr adnabyddus wrth yr *adnabyddus*,—y *llythyrenol* oddiwrth y *ffigurol*.”\* Ein bod i ddysgu llawer am yr *adnabyddus* oddiwrth yr *adnabyddus*—y *ffigurol* oddiwrth y *llythyrenol*, sydd

ffaith a gydnabyddir gan] Daenellwyr mewn amgylchiadau ereill, ac nid yw yn debyg yr ysgrifnient yn wahanol mewn perthynas i fedydd *llythyrenol* a *ffigurol*, oni bai fod ganddynt syniadau neillduol i'w hattegu trwy y fath anghyssondeb. Dywedant hwy, fel ereill, weithiau, am ddyn, mai “*llew ydyw*,” ond nid ydynt mor ynfyd a cheisio darlunio y *llew* oddiwrth ymddygiad y cyfryw ddyn, ond mynant *adnabyddiaeth* â phrif nodweddau y *llew* yn gyntaf, ac yna deallant y defnydd cymharol a wneir o'r gair. Cyduna y Bedyddwyr a hwythau i alw ambell ddyn yn “*llwynog*,” ond nid yw y naill na'r llall o honynt yn casglu fod y dyn hwnw fel *llwynog* yn *mhob* peth, eithr meithrinant *adnabyddiaeth* â phrif nodwedd y *llwynog*—cyfrwystra—a galwant y person dan sylw yn *llwynog* ar sail y tebygolrwydd sydd rhyngddo a'r creadur hwnw yn ei ddiehellion. Ant oddiwrth y *llwynog* at y dyn, ac nid oddiwrth y dyn at y *llwynog*. Gan fod cyfrwysdra y *llwynog* yn beth *adnabyddus*, defnyddir ef yn *ffigurol* i ddarlunio yr hyn sydd yn llai *adnabyddus* yn y dyn y ceisir ei ddarlunio. Yr un modd gyda bedydd. Cyfeiriadau *ffigurol* at fedydd ydyw trochiad corff Nebuchodonosor mewn gwlith, bedydd y Môr Coch, bedydd yr Ysbryd Glân, a bedydd dyoddefiadau y Gwaredwr; y mae yn groes i reolau dehonglaeth Feiblaidd, a beirniadaeth dëg, i esbonio ystyr *baptizo* oddiwrth y defnydd *ffigurol* a wneir o hono; profer yn y lle cyntaf ie ystyr *llythyrenol*; yna esbonier y *ffigurol* yn ngoleu y *llythyrenol*.\* Yn gymmaint ag y bydd yn angenrheidiol ysgrifenu rhagor ar fedydd yr Ysbryd Glân cyn gorphen yr ysgrif hon, awn rhagom at egwyddor sylfaenol arall, sef:—

X. *Fod rhai geiriau wedi eu gadael heb eu cyfieithu yn Meibl y brenin Iago, ac hefyd yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrhythrau, fel nad yw yn anmhriodol i ni wahaniaethu oddiwrth y copi awdurdodedig mewn rhai manau.* Ynyfdrwydd annheilwng o ystyriaeth yw galw cyfieithiad diwygiedig yn Feibl newydd. Ni chafodd *baptizo* ei gyfieithu gan saith cyfieithydd a deugain y brenin Iago,† ond ei droi; ac yn ei gyflwr trosiedig y mae yn brensol yn y Beibl Saesneg. Yr unig gyfnewidiad a wnawd yw, newid y *llythyren*

\* Gwel “*Seren Gomer*,” Rhif. iii. o'r Gyfres Newydd. 1862.

\* *Darlith y Parch. Hugh Jones, Llangollen, ar y Bedydd Cristionogol.*

† “*Our English Bible*.” Religious Tract Society.



olaf, o, i e, fel y mae genym baptize yn Saesneg, yn lle baptizo y Groegiaid. Pe cawsai rantizo (y gair Groeg am daenellu), yr un driniaeth gan gyfieithwyr y brenin ag a gafodd baptizo, byddai genym rantize am sprinkle (taenellu) yn y Testament Newydd. Gwaharddodd y brenin (a'i gynghorwyr, efallai), gyfieithiad priodol o baptize a baptism, er fod hyn wedi ei wadu yn fynych gan bleidwyr taenelliad. Rhoddwyd 13 o gyfarwyddiadau i'r cyfieithwyr i'w cyfarwyddo yn y cyfieithiad diwygiedig: y mae'r trydydd cyfarwyddyd yn darllen fel y canlyn:—"Y mae'r hen eiriau eglwysig i gael eu cadw, megys y gair 'eglwys'; nid yw hwn i gael ei gyfieithu yn gynnulleidfa."\* Ffolineb o'r mwyafrwyd dweyd nad yw y rheol hon yn cyferio ond yn unig at y gair "eglwys," oblegid y mae yn amlwg na roddir y gair hwn ond fel enghraifft o'r "hen eiriau eglwysig." Y mae "geiriau eglwysig" yn y rhif luosog, yr hyn sydd yn dangos mai nid y gair eglwys yn unig a olygid. Y cwestiwn, gan hyny, yw, a oedd y geiriau baptize a baptism yn "hen eiriau eglwysig?"

Diau eu bod yn eiriau pan ddechreuwyd cyfieithiad y brenin tua diwedd y flwyddyn 1604; onide, ni chawsid hwy yn yr hen argraffiadau, nac yn nghyfieithiad y brenin; ac yr oeddynt wedi bod mewn arferiad am dymhor maith, ac fel y cyfryw yn hen "eiriau eglwysig," y rhai y gorchymynai y brenin eu cadw yn hytrach na'u cyfieithu. Y mae yn deilwng o sylw ddarfod i Bancroft, esgob Llundain, ysgrifenu at y cyfieithwyr ar orchymyn y brenin, i'w hadgofio fod ei Fawrhydi yn gorchymyn iddynt "gadw yn neillduol at y drydedd a'r bedwaredd reol." Yn y rhagymadrodd, y mae'r cyfieithwyr yn rhoi ar ddeall i'w darllenwyr ddarfod iddynt gadw at yr awgrym uchod mewn modd neillduol; dywedant iddynt "ar un llaw ochelyd manylgraffder y Puritaniaid, y rhai a adawsent yr hen eiriau eglwysig, gan ddefnyddio rhai ereill, sef, golchi am fedydd, a chynulleidfa am eglwys, tra yr ymwrthodasant âg aneglurder y Pabyddion ar y llaw arall." Ceir yma addefiad gonest fod bedydd yn un o'r hen eiriau eglwysig gwaharddedig, yr hyn sydd yn hollol derfynol ar y pwnc. Y mae'r pedwerydd cyfarwyddyd yn darllen fel hyn:—"Pan fyddo

amryw ystyrion i'r un gair, cadwer yr un a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin gan y tadau enwocaf, os yn briodol i'r lle ac yn gydweiddol â ffydd."

Golyger ein bod yn caniatáu er mwyn dadl nad oes i baptizo lai na deugain neu hanner cant o ystyrion; gŵyr pob hanesydd eglwysig mai trochiad oedd ei ystyr cyffredin o ddyddiau yr apostolion hyd amser Iago. Trochiad oedd yr arferiad cyffredinol am dri chant ar ddeg o flynyddau, fel yr addefa Dr. Whitby, Dr. Wall, Proffeswr Stuart, ac ugeiniau o daenellwyr dysgedig ereill. A chaniatáu (er mwyn dadl etto), fod i baptizo lawer o ystyrion, onid oedd y bedwaredd reol yn rhwymo cyfieithwyr y brenin i'w gyfieithu yn drochi (os cyfieithent ef o gwbl), oblegid mai yr ystyr hwn a roddid iddo yn gyffredin gan y tadau enwocaf? Diau mai felly y gwnesent ei gyfieithu, pe na buasai y drydedd reol yn dinystrio y bedwaredd, can belled ag y dalai hono gyssylltiad â'r "hen eiriau eglwysig."\* Yr oedd y geiriau hyny i gael eu cadw ac nid eu cyfieithu, hyd y nod pe buasai i bob un o honynt fil o ystyrion, a pha beth bynag a allasai fod yr ystyr cyffredin a gyssylltid â hwynt gan y "tadau enwocaf." Nid oedd y cyfieithwyr at eu rhyddid i roddi i'r gair yr ystyr a roddasid iddo gan y Groegiaid, a'r ystyr yn mha un y defnyddiasid ef gan "y tadau enwocaf." Yr ydym yn sylwi ar hanes y cyfieithiad derhyniedig, i'r dyben o ddangos mai yn ddiachos y dwdir ni am gyfieithu y gair trosiedig mewn cwestiwn.

Yn mhellach, yr ydym yn sylwi, XI. *Fod addefiadau Taenellwyr o bwys mawr—yn werth mil o dystiolaethau ereill, oblegid eu bod yn dyfod oddiwrth rai sydd a'u llesiant mewn dywedyd yn hollol wahanol.* Dywed

\* Teimlai y cyfieithwyr nas gallasant gadw y ddau gyfarwyddyd, a gwnaethant eu dyrryswech yn adnabyddus i'r brenin, yr hyn a barodd i Iago (trwy Bancroft) orchymyn iddynt geisio tri neu bedwar o dduwinyddion yr *University* i'w cynnorthwyo. "Doubts having arisen in the minds of some of the Cambridge men as to the manner of observing the third and fourth rules, Bancroft wrote to them again, stating that it was the royal wish there should be three or four divines of the *University* appointed as overseers of the translation, especially with a view to carry out the third and fourth rules; previously, a similar plan, from the beginning was contemplated with regard to Oxford: certainly an instruction to that effect was sent to Dr. Ravis, one of the company who assembled at that *University*." (*"Our English Bible,"* p. 162.)

\* "*Our English Bible;*" "*Annals of the Bible,*" by Mr. Anderson; "*History of Translations,*" by Lewis.



yr Archddiacon Travis, mai y dystiolaeth oreu a ellir gael yw addefiad gwrthwynebwr. Arfogid meddwl Paul yn Athen â llawer o wroldeb gan yr ystyriaeth o'i fod yn alluog i ddweyd wrth ei wrandawwyr:—"Megys y dywedodd rhai o'ch poetau *chwi eich hunain*." Nid peth dibwys yn yr ymchwiliad hwn fydd cael llawer o ddynion galluocaf a mwyaŷ dysgedig y Taenellwyr i ganiatau mai trwy drochiad neu soddiad y bedyddid yn yr eglwys apostolaidd. Os oedd Calfin, Wesley, Dr. Chalmers, ac ereill, yn addef mai trwy drochiad y bedyddid yn yr eglwys gyn-tesig, gallwn florddio i edrych gyda thosturi dwfn ar y rhai sydd, naill ai yn ddigon anwybodus neu yn ddigon dibarch i'r gwirionedd ac iddynt eu hunain, i haeru, "mai dyfais ddynol yw trochiad." Dywed rhai nad yw yn dëg i ni apelio at Daenellwyr enwog fel ysgolheigion a duwinyddion; ond nid yw yr annhegwch wedi ei ddangos hyd yn hyn, ac nis gellir ei brofi heb restru Paul yn mysgr yr euogion.

XII. *Fod y dull apostolaidd o weinyddu bedydd yn rhwymedig ar Gristionogion yn mhob oes a gwlad, oddieithr i Grist roi awdurdod i'w newid.* Os gallwn brofi (yr hyn sydd i raddau wedi ei wneyd), mai trwy drochiad y bedyddid yn amser Crist, byddwn at ein rhyddid, nid yn unig i arfer yr un dull, ond hefyd i annog ereill i'w ddefnyddio. Tra yr ydym yn canmol gonestrwydd Dr. Hoffman, yn dweyd nad oedd "taenellu dwfr ar fabanod yn adnabyddus i'r apostolion," nis gallwn mewn modd yn y byd gymmeradwyo y rhan arall o'r frawddeg, sef, ei fod "yn welliant pwysig ar yr arferiad apostolaidd." Nis gall creadur ffaeledig wella gosodiadau'r Gwaredwr. Pa hawl sydd genym i gynnyg y fath beth? Pa beth a fu yn fwy niweidiol nâ gosodiadau dynol mewn crefydd? Nid gwiw i Daenellwyr gyfaddef (fel y gwna llawer o'r rhai dysgedigaf a gonestaf o honynt), mai yr arferiad apostolaidd oedd bedyddio'r crediniol trwy drochiad, heb iddynt gyda llaw ein hysbysu pa bryd, a chan bwy, y cawsant hwy awdurdod i newid y dull a'r deiliad.

#### BAPTO A BAPTIZO.

Wedi gosod i lawr yr egwyddorion neu y canonau sylfaenol hyn, y mae yn angenrheidiol i nisylfaenuarnyntraig gosodiadau o barthed ystyr neu ystyrion y geiriau uchod. Mewn trefn i fod yn fyr ac etto yn bwrpasol yn y rhan hon o'n hysgrif, y mae

genym bump neu chwech o bethau i'w cymmyrd yn ganiatäol fel gwirioneddau hunan-eglur:—1. Fod eincyfeillion y Taenellwyr yn addef fod *bapto* a *baptizo* yn arwyddo trochi; o ganlyniad, ni fydd eisieu dyfynu o awduron i'r dyben o ddangos yr arwyddant hyn. 2. Addefa y rhai a gyssylltant amryw ystyrion â hwynt, mai trochi neu suddo yw ystyr *blanaf* pob un o'r ddau.\* 3. Caniata Taenellwyr sydd yn deilwng o sylw fod trochiad yn fedydd; ond yr hyn y dadleuant drosto ydyw, y gellir bedyddio trwy daenelliad neu dywalltiad; oblegid, tra y mae *baptizo* yn arwyddo *trochi*, nad yw yn arwyddo y *modd* o drochi (gwel "*The Sacraments*," part II. gan Dr. Halley). Hona rhai o honynt nad trochi yw *unig* arwyddocad y gair, ond ei fod hefyd yn golygu taenellu a golchi, &c. (gwel y *Gwyddoniadur*, cyf. I. tud. 613); nid yw ereill o honynt yn anfoddlon i gyfyngu ei ystyr i drochi, ond dadleuant y gellir trochi trwy orchuddio a thywallt ar, &c.† Dywed Dr. Halley, "fod *bapto* yn arwyddo y *dull* o roi y naill beth yn y llall; ond nad yw *laptizo* yn arwyddo unrhyw ddull neillduol, ond gwneuthuriad y peth, ac felly defnyddir ef weithiau am bob dull." 4. Beth bynag yw ystyr neu ystyrion *bapto* a *baptizo*, y mae yr hyn a ysgrifenydd yn profi fod dull y Bedyddwyr o fedyddio yn un priodol, oblegid y mae'r ddau air yn arwyddo trochi; o ganlyniad, yr ymofyniad yw, ai dull y Bedyddwyr yw *yr unig* ddull?

\* Y mae haeru "mai meddwl gwreiddiol y gair baptizo..... ydyw *gwlychu*, *golchi*, *llychwyno*, *cyssegru*, &c., ac nad yw suddo ond ail ystyriddo," yn warth i ysgolhaig, ac yn mhell islaw y Cristion geirwir, y beirniad pwylllog, a'r duwinydd ymroddgar. Dealler mai nid â phersonau o'r dosparth hwn y bydd a synom yn yr erthygl hon (gwel *Bedydd Babanod*, gan Prichard, tud. 106).

† "We believe that immersion is not indispensable, that pouring or sprinkling is sufficient to constitute the Christian rite."..... "We do not plead for any one specific mode, we do not contend for sprinkling in preference to immersion, except as a question of right." (*The Sacraments*, part I., page 233, by Dr. Halley.) Pe delai Paul ar ymweliad â ni, barnai Halley yr anerechai ni fel hyn:—"He that immerseth, immerseth unto the Lord, and he that sprinkleth, sprinkleth unto the Lord" (page 240). Etto, "To put a thing into water is, as they (Baptists) say to baptize it; this, as we say, is the truth, but not the whole truth; for to put the water over the thing is also to baptize it" (*The Sacraments*, p. 275). Y mae Dr. Halley yn foneddwr dysgedig; ac fel y cyfryw, y mae ei wybodaeth a'i barch i'r gwirionedd, ac iddo ei hun, yn ddigon i'w gadw rhag haeru "mai defod ddynol yw trochiad," fel y gwna un o ohebwyr y *Beirniad*.



5. Rhaid i ni gymmeryd yn ganiatäol hefyd (yn ol y drydedd reol, tud. 691), mai awdwyr Groegaidd dysgedig, hen a diweddar, ydynt yr awdurdodau uchelaf i apelio atynt mewn perthynas i ystyrion y ddau, ac o ethryb i'r ymofyniad, A ydynt yn arwyddo y *modd* o weithredu, ai nad ydynt?\*

6. Dylid ystyried yn mhellach, mai *baptizo* yw y gair a ddefnyddir yn ddieithriad am yr ordinhad o fedydd yn y Testament Newydd, ac mai ág ef, gan hyny, y mae â fynom yn fwyaf neillduol yn yr ymchwiliad presenol (gwel lyfr Dr. Halley, tud. 273).

Yn ol Dr. Carson, y mae *bapto*, o'r hwn y ffurfir *baptizo*, yn arwyddo trochi; ac y mae iddo hefyd ail ystyr, sef, lliwio, yr hwn sydd yn deiliaw yn amlwg o'r cyntaf. Daeth i olygu lliwio, am mai trwy drochi peth mewn gwlybwr y byddid yn arfer lliwio; a daeth i olygu lliwio mewn modd cyffredinol, heb un cyfeiriad uniongyrchol at y dull, fel y mae y gair canwyllbren yn golygu peth i ddal canwyll, hyd y nod pe byddai o arian pur, neu aur digymmysg: ond cenfydd y llygadgraff fod y gair canwyllbren yn cyfeirio at y *pren* a ddefnyddid gynt gan ein tadau i ddal canwyll; a dealla y diduedd hefyd, mai ystyr cyntefig *bapto* yw *trochi*. Caiff geiriadurwyr ein cyfeillion y Taenellwyr roddi eu barn ar *bapto* yn eu hiaith eu hunain:—

*Dr. Robinson, New York.*—*BAPTO*, to dip, to dye=trochi, lliwio.

*Liddell and Scott.*—*BAPTO*, to dip, dip under, Lat. *immergere*=trochi, tansoddi; Lladin, tansoddi. 2. To dye, colour, steep=lliwio, cochio, mwydo. 3. To fill by dipping in=llenwi (llestr) trwy ei drochi mewn dwfr. To dip, sink=trochi, suddo: *naus ebapsen*=suddodd y llong.

*Parkhurst.*—*BAPTO*, to dip, plunge, immerse=trochi, soddi, tansuddo. "*Baptein-hudatos*" is a good Greek phrase for dipping in water=y mae *baptein-hudatos* yn ymadrodd Groegaidd da am drochiad mewn dwfr.

*Greenfield.*—*BAPTO*, to dip, plunge, immerse=trochi, soddi, tansuddo.

\* "I feel bound to admit that some writers on our side of the question have asserted too much, when they have said that no fair inference can be deduced from the citations of the classics, on account of the discordant idioms and fashions of classical and Jewish Greek..... If we admit that the verb in question (*baptizo*) is found in the New Testament, varying from its classical signification; our Baptist friends may reasonably require us to produce the evidence of our assertion." (*The Sacraments*, by Halley, part i., page 271).

Dywed rhai ei fod hefyd yn arwyddo golchi, ond tystia Carson nas gellir dwyn un enghraifft o hyny o awdwyr clasurol nac o'r Ysgrythyrau, ac y golyga *fodd* bob amser, oddieithr pan ddefnyddir ef am liwio. Er fod y ddau air fel y profwyd yn arwyddo trochi, y mae y gwahaniaeth pwysig a ganlyn rhyngddynt, sef, nad yw *bapto* yn cael ei ddefnyddio i ddynodi bedydd, ac nad yw lliwio yn ystyr i *baptizo*. Er i Carson herio yr holl fyd dysgedig i brofi yn wahanol, ni fu un ysgolhaig yn ddigon rhyfygus i dderbyn ei her. Gan fod y gwahaniaeth uchod rhwng y ddau, ynfydrwydd yw haeru fod *baptizo* yn air, am daenelliad, oddiar yr ystyriaeth y byddir yn lliwio rhai pethau trwy gymhwyso y lliw atynt, oblegid nid yw lliwio yn ystyr i *baptizo*, ac nid yw *bapto* (i'r hwn y mae ail ystyr) yn cael ei arfer i ddynodi yr ordinhad mewn dadl. Pe gellid profi, gan hyny, nad oes i *bapto* lai na chant o ystyrion, ni fyddai hyny yn un math o ennill i achos Taenelliad, nac yn milwrio yn erbyn amddiffynwyr y Bedydd apostolaidd.

Haera ein cyfeillion mai un o ystyrion y gair gwreiddiol *bapto* yw golchi; ond pe byddai yn arwyddo y fath beth, ni fyddai hyny yn ennill iddynt hwy, am y rheswm a nodwyd; ac heblaw hyny, nid yw *bapto* ynddo ei hun yn golygu glanhad yn annibynol ar ansawdd y peth y trochir ynddo (Job 9. 31). Y weithred yw trochi, ac nid yw y golchiad ond effaith o honi, yr hwn sydd yn ymddibynu ar burdeb y dwfr y trochir ynddo; os mai mewn rhywbeth budr y trochir, bydd yr effaith o angenrheidrwydd yn wahanol. Nid oes iddo chwaith yr ystyr o daenellu, oblegid y mae soddi a thaenellu yn ddau beth, a geiriau gwahanol yn cael eu harfer am danynt, sef, *bapto* a *raino*:—"A throched yr offeiriad ei fys yn y gwaed, a thaenelled o'r gwaed gerbron yr Arglwydd seithwaith" (Lef. 4. 6). Yma y ceir trochi a thaenellu, a'r gair *bapto* am y blaenaf, a *raino* am yr ail. A ydyw yn ddichonadwy cael unrhyw fath o grybwylliad yn fwy pendant? Dynoda *bapto* y *modd* o weithredu, ac nid yw golchiad namyn y canlyniad, os bydd y dwfr yn lân.

Dyfyna Carson o ddeugain i hanner cant o enghreifftiau o waith Hippocrates ("*the father of medicine*," fel y gelwir ef), y rhai a ddangosant y byddai efe yn defnyddio *bapto* yn ddieithriad i arwyddo trochi, yn annibynol ar natur y gwlybwr y trochid ynddo; dim ond unwaith y rhoddir



iddo ystyr arall, sef lliwio, yn ei waith mawr, yr hwn sydd yn cynnwys tua 543 o dudalenau (*folios*) mewn llythyren fân.\* Heblaw hyn, ceir yn ei waith eiriau yn dynodi pob defnydd a wneir o ddwfr a gwlybyroedd ereill. Defnyddir *raino*, *aionca*, &c., am daenellu, a *cheo*, a'r geiriau cyfansawdd perthynol iddo, am dywallt. Am wlychu, lleithio, mwydo (*soak*), rhoi yn wlych (*steep*), y mae yn arfer *deuo*, *brecho*, *teggo*, &c. *Louo* a ddefnyddia am faddo yr holl gorff mewn baddon neu ymolchfa; a *nipio*, yn nghyd â'r *compounds* perthynol iddo, a arferu fynychaf am olchi rhan o'r corff. Gellid dyfynu ugeiniau lawer o enghreifftiau o awdwyr Groegiaidd ereill, ac o'r Ysgrythrau, er dangos mai trochi yw ystyr *bapto*, oddi-eithr pan arferir ef yn achlysurol am liwio. Y mae *bapto*, o ganlyniad, nid yn arwyddo gwlychu neu olchi, eithr y *modd* o wreyd hyny, sef trwy drochi.

Fel yr awgrymwyd, daeth *bapto*, yr hwn gynt a arwyddai fodd neillduol, i gael ei arfer hefyd i ddynodi gorchwyl a gyflawnid fynychaf yn y modd hwnw, sef lliwio. Ar y cyntaf, arwyddai fodd, sef trochi; wedi hyny daeth i arwyddo lliwio

\* Y mae Dr. Halley, tud. 352, yn cyhuddo Carson o ddefnyddio *bapto* ac *embapto* yn gylchgyfnewidiol pan yn dyfynu o Hippocrates; ond nid ydym yn sicr fod sail i'r cyhuddiad. Fodd bynnag, nid yw y gwahaniaeth rhwng y ddau air o un pwys neillduol, can bellad ag y gallwn farnu. Pan ddefnyddir y blaenddodyn *en* gyda *bapto*, nid yw hyny yn cyfnewid ei ystyr hanfodol mewn un modd; yr un yw ystyr arddodiad ar ol gair ag o'i flaen; yr un faint o wahaniaeth sydd rhwng *embapto* a *bapto*, ag sydd rhwng *tansoddi* a *soddi* o dan. Yn Ioan 13. 26, y mae *bapto* ac *embapto* yn cael eu defnyddio yn gyf-ystyr:—"Yr Iesu a atebodd, hwnw yw efe i'r hwn y rhoddaf fi damaid wedi i mi ei wlychu (*bapto*). Ac wedi iddo wlychu (*embapto*) y tamaid, efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot, mab Simon." Yr ydym ni yn defnyddio geiriau yn ol yr egwyddor hon yn fynych; dywedwn ardywallt am *dywallt ar*—argymmyrd am *gymmyrd arno*—*tansoddiad* am *soddiad* o dan. Y mae yn anhawdd gwybod ar ba sail y gwahaniaethir *bapto* ac *embapto*. Nid yw *embapto* ond gair cyfansawdd o *en* a *bapto*; a gŵyr y cyfarwydd fod *en* yn cael ei ddefnyddio braid bob amser ar ol *bapto*, ac mai yr un yw ystyr arddodiad ar ol gair ag o'i flaen. Nid yw y Geiriaduron yn crybwyll am un gwahaniaeth yn ystyr y ddau air; o ganlyniad, y mae lle i ofni fod Dr. Halley yn dangos mwy o deimlad nag o farn yn ei feirniadaeth.

Parkhurst.—*BAPTO*, to dip, plunge, immerse. *Embapto*, to dip in, to immerse.

Greenfield.—*BAPTO*, to dip, plunge, immerse. *Embapto*, to dip in, immerse.

Robinson.—*BAPTO*, to dip, to immerse. *Embapto*, to dip in.

trwy drochi; ac yn ganlynol, arferwyd ef i ddynodi lliwio mewn unrhyw fodd. Y mae hanes llawer o eiriau yn debyg, fel y dengys y gair canwyllbren, at yr hwn y cyfeiriwyd. Gorchwyl hawdd fyddai profi mai trwy drochi y byddai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn lliwio fynychaf, fel y gwna cenedloedd gwareiddiedig ereill yn bresenol; y *rheol* oedd lliwio trwy drochi, a'r *eithriad* oedd cymhwyso y lliw at y gwrthddrych, fel y dengys haues a synwyr cyffredin: mewn amser daeth y gair *bapto* i ddynodi yr eithriad achlysurol yn gystal a'r rheol sefydlog. Ymdrechodd rhai o'n cyfeillion y Taenellwyr yn galed (ond yn aflwyddiannus) i brofi nad yw *bapto* y Deg a Thriugain yn arwyddo trochi yn Lefiticus 14. 6, oblegid nas gallesid trochi yr aderyn byw, y coed cedr, a'r ysgarlad, a'r isop, yn ngwaed yr aderyn marw; o ganlyniad, honant fod *bapto* yn arwyddo taenellu, neu rywbeth gwahanol iawn i drochi; ond y mae y bummed adnod a'r 51ain, yn profi nad yw eu gallu yn ogymmaint a'u dymuniad. "A gorchymyned yr offeiriad ladd y naill aderyn y tō mewn llestr pridd, ac oddiar ddwfr rhedegog" (adn. 5). "A chymmered y coed cedr, a'r isop, a'r ysgarlad, a'r aderyn byw, a throched hwynt yn ngwaed yr aderyn a laddwyd, ac yn y dwfr rhedegog, a thaenelled ar y tŷ seithwaith" (adn. 51). Byddent yn dodi dwfr rhedegog mewn llestr pridd, ac yn lladd un aderyn uwchben neu oddiar hwnw, fel y gallai'r gwaed ddisgyn neu ddyferu i'r dwfr odditanodd, ac yna yn trochi yr aderyn arall yn y gwaed a'r dwfr yn y llestr. Beth sydd yn afresymol yn hyn? Gwnaed ein cyfeillion a fynont, erys *bapto* yn hollol anhyblyg. Dywedir mai taenelliad neu dywalltiad ar, a olyga *bapto* yn Dan. 5. 21 (y *Septuagint*), neu, nad yw y gair o leiaf yn arwyddo *modd* yn yr adnod hon; ond dylai ein cyfeillion ystyried mai trochiad ffigurol oedd trochiad Nebuchodonosor. Onid yw geiriau yn cael eu defnyddio felly gan braid bob math o ysgrifenydd, yn neillduol beirdd. Defnyddia Milton y gair *dip* mewn modd ffigurol felly yn ei farddoniaeth:—

"And though not mortal, yet a cold shuddering dew,

*Dips* me all o'er, as when the wrath of Jove,  
Speaks thunder." (Poetical Works, p. 371.)

Ar yr un tudalen sonia Milton am drochi ysbrydoedd mewn llawenydd ("Will bathe the drooping spirits in delight"); ac

yn "*Paradise Lost*," Llyfr v., crybwylla am liwiau trochedig yn y nef—(*And colours dipt in heaven*). Llefara y bardd yma yn *farddonol* am drochi mewn gwllith, &c.; ond ni ddywed neb nad oedd Milton yn deall ystyr *dip*, yr hwn yw un o'r geiriau Saesneg am *baptizo*. Ymadrodd a arferir yn gyffredin gan y Saeson yw "*bathed in perspiration*;" a dywed D'Aubigne fod Zwingli yn drochedig mewn dagrau—(*The reformer retired bathed in tears*). Y mae Virgil yn rhoddi i'r gair *lavo* (golchi) hefyd yr ystyr o lychwino neu ddiwyno, pan yn dweyd fod gwaed y ddau darw a ymladdent yn *golchi eu cyrff*; eglur yw, mai dangos y *cyflawnder* o waed oedd amcan y bardd, ac y buasai y meddylddrych barddonol sydd yn *lavo* yn cael ei golli pe defnyddiasai air i arwyddo yr hyn a gymmerasai le yn llythyrenol, sef llychwino neu aflanhau. Y mae y meddylddrych barddonol yn bywiogi'r meddwl, pan na fuasai mynegiad llythyrenol yn ei gyffroi. Y mae hefyd yn darlunio y Groegiaid yn cymmeryd Caerdroia, pan yr oedd "y ddinas yn gladdedig mewn gwin a chwsg" (*Virgil's Aeneid*, llyfr ii., llin. 265). Ond i ba beth y lluosogwn ddyfyniadau? tra y mae'r ymadrodd yn ddigon eglur i bawb nad oes ganddynt amcan neillduol wrth ei amheuo. "Y mae'r meddylddrych yn farddonol, a'r iaith a ddefnyddir i'w osod allan yn fywiog a nerthol dros ben. Dyma gorff y brenin yn agored i wllith y nos (yr hwn sydd yn helaeth iawn yn y gwledydd poethion), yr hwn a'i hamgylchynai yn y fath gyflawnder, fel y dywedir ei fod yn drochedig ynddo." Dywed Pliny fod y nos yn wllithog iawn yn Affrica, lle yr oedd rhan o lywodraeth Nebuchodonozor yn gorwedd. Nid oes dim gwlad yn yr Aifft; ond dyfrheir hi gan y Nilus a'r gwllith toreithiog a ddisgyna yn y nos. "Gan fod gwlad Babilon," ebe un ysgrifenydd campus, "tua'r un lledred, gellid dysgwyl ei bod yn debyg mewn ansawdd. Beth oedd yn fwy naturiol, ynte, na dywedyd fod corff y brenin wedi ei drochi yn, neu ei orchuddio â gwllith y nefoedd? Yn wir, y mae dywedyd, '*gwlychwyd*' ei gorff â gwllith y nefoedd," yn dihybsyddu yr adnod o bob hysbysiad. Gwyddai pawb iddo gael ei *wlychu* â gwllith, os oedd allan. Ond caniatäer fod y gair hwn yn golygu *trochi* a *suddo*, a'r meddwl a ymgynnygia i bob dyn craff a diduedd yw, fod y brenin wedi ei wlychu yn *helaeth* â gwllith y nefoedd. Trwy fywiogrwydd y dychymmyg,

y mae un dull o wlychu, o herwydd ei helaethrwydd, yn cael ei gymharu i ddull arall o wlychu, yr hwn sydd yn cyfleu yr helaethrwydd mwyaf.\* Nid oes eisieu hysbysu dyn sydd yn meddu llygad i ganfod prydfertbwch a grymusder iaith (os yn ddiragfarn), fod y dywediad am gorff Nebuchodonozor wedi cael ei wlychu yn ngwllith y nefoedd, yn rymus ac yn farddonol dros ben. Y mae tlydni y fath ymadroddion yn y flaith o'a bod yn cynnwys mynegiad o fodd nad yw yn perthyn iddynt. Gwisga'r dychymmyg, er mwyn ei foddhad ei hun, wrthddrych â modd amherthynasol iddo; a phe na byddai y modd hwnw yn cael ei grybwyllaw i'r meddwl, collai yr ymadrodd ei dlydni neillduol.†

Bernir fod gwahaniaeth heblaw yr hyn a nodwyd rhwng *bapto* a *baptizo*. Yn ol Dr Halley (Taenellwr), y mae *bapto* yn arwyddo y *dull* o roi y naill beth yn y llall; ond nid yw *baptizo* yn golygu unrhyw ddull neillduol, a dywed fod yr olaf yn cael ei ddefnyddio felly am wahanol ddulliau, heb ei gyfyngu at unrhyw ddull neillduol—yr arwydda roi un peth mewn peth arall trwy drochiad, claddu, gorchuddio, neu unrhyw fodd arall (tud. 275). "Y mae i'r gwreiddair *bapto*" (*primitive word*), ebe Carson, "ddau ystyr, y gwreiddiol, *trochi*; a'r ail ystyr, *lliwio*; ond ffurfir y tarddiadol (*baptizo*) i drefnu (*modify*) y gwreiddiol yn unig; ac yn yr holl iaith Roeg, yr wyf yn haeru nad oes un enghraifft i'w chael yn yr hon y mae iddo ail ystyr i'r gwreiddair. Os nad yw yr haeriad hwn yn gywir, bydd yn hawdd i ddynion dysgedig ddwyn yn mlaen siampl mewn gwrthwynebiad. Nid yw *bapto* byth yn cael ei arfer i ddynodi yr ordinhad o feddydd, ac nid yw *baptizo* byth yn arwyddo lliwio. . . . . Y mae i *bapto* ddau ystyr, ond nid oes i *baptizo* yn holl hanes y iaith ond un." Yn gymmaint ag nad yw Halley yn dwyn rhesymau dros ei osodiad, nac yn ei egluro trwy enghreifftiau, yr ydym at ein rhyddid i gasglu, nad yw y gair tarddiadol yn dinystrio neu yn newid nodwedd foddol neu

\* Pateh. Edward Roberts, Pontypridd.

† "When a person has been drenched with rain, he will say that he has got a *dipping*. Here dipping does not lose its modal import, but immediately suggests it to the mind, and intends to suggest it. But were the English language one of the dead languages, and this expression subjected to learned criticism, it would be alleged that the word dipping does not denote mode, but *wetting*, without reference to mode."—(*Carson's*, p. 21.)



gynlluniol (*model*) y gwreiddair, a'i fod o ganlyniad yn arwyddo *modd*, fel y gair y mae yn deilliaw o hono. Onid gair tarddiadol o *llawenu* yw *llawenychu*? ond nid yw yr olaf oblegid hyny yn newid ystyr y blaenaf. A oes y fath wahaniaeth rhwng *trywan* a *thrywaniad*, ag a geisir wneyd rhwng *bapto* a *baptizo*? Y mae'r ddau air Cymraeg yn arwyddo *modd* gystal a'r ddau air Groeg. Ai priodol fyddai haeru fod *brath* (*a bite, a stab*) yn arwyddo *modd* o glwyfo neu archolli, ond nad yw *brathiad* yn dynodi un modd neillduol? Gadawer i synwyr cyffredin ateb y cwestiwn.

Beth bynag yw y gwahaniaeth rhyngddynt, y mae dau neu dri o bethau yn ddigon amlwg; sef, 1. Fod y naill fel y llall yn arwyddo trochi. 2. Fod i'r gwreiddair *ddau* ystyr, tra mai y rheol yw nad oes i'r tarddiadol ond un. 3. Mai yr un tarddiadol, ac nid y gwreiddair, a arferir yn ddiethriad am yr ordinhad o fedydd. Dywed Carson fod *bapto* yn arwyddo trochi, a *baptizo* yn dynodi yr achosiad o drochi ("*to cause to dip*"). Barna fod y terfyniad *zo*, pan yn cael ei arfer gyda'r Groegiaid i ffurfio gair tarddiadol, yn ateb yr un dyben a'r ffurfachosol Hebraeg ("*the Hebrew causal form*"), a'i fod yn dynodi gwneuthuriad gweithred y ferf a gyflawnir ("*the making of the action of the verb to be performed*").

*Plouteo* yw bod yn gyfoethog, a *ploutizo*, y gair tarddiadol o hono, yw gwneyd yn gyfoethog. Arwydda *deipueo* swperu, ond ystyr *deipuzo* yw rhoi swper. Bernir y defnyddid ef yn yr ystyr hyn am suddiad llongau a phethau ereill rhyddymion i ddyn allu eu soddi a'u codi drachefn, a bod y ddau yn gwahaniaethu yn debyg i'r geiriau Cymraeg, *rhodio*, ac *achosi i rodio*, a llawer ereill. Ar yr un egwyddor y ffurfiwyd *baptizo* o *bapto*. Barna Carson fod yr hyn a grybwyllwyd yn gwahaniaethu y gwreidd-eiriau a'r tardd-eiriau a ffurfid o honynt gynt, er y gellir eu harfer mewn rhai amgylchiadau yn gylchgyfnewidiol, ac nas gellir bob amser gael allan y gwahaniaeth rhyngddynt. Er fod gradd helaeth o resymoldeb yn ymddangos yn yr olyg-ddysg hon o eiddo Carson, etto y mae tegwech yn ein rhwymo i addef fod llawn cymmaint o olygusrwydd yn meirniadaeth Dr. Halley arni (Sac. part. I. p. 363—4); tra y mae Halley yn ceisio dymchwelyd barn Carson ar y gwahaniaeth rhwng *bapto* a *baptizo*, a hyny gyda llawer o fedrusrwydd, nid yw yn gwaeyd rhagor na rhoi ei farn ei hun (at

yr hon y cyfeiriwyd) yn hynod o fyr ac anfodddhaol ar y pwnc. Ymddengys mai gwaith anhawdd, os nad anmhosibl, yw dod i benderfyniad hollol sier ar y cwestiwn; y mae olrhain hanes geiriau yn eu ffurfiad a'u hystyrion cyfnewidiol, yn un o orchwyllion caletaf llenorion profiadol. Y mae cael allan wahaniaeth rhwng dau air, a rhoi cyfrif am dano, yn ddau beth hollol wahanol: yr ydym wedi profi fod *bapto* a *baptizo* yn gwahaniaethu; a pha fodd bynag y cyfrifir am y gwahaniaeth, nis gall effeithio yn bwysig ar y dull o fedyddio.

Mewn trefn i benderfynu y dull o weinyddu, y mae yn angenrheidiol i ni wneyd sylwadau manylach ar *baptizo*, yn gymmaint ag mai efe yw y gair a arferir yn ddiethriad am yr ordinhad hon. Cawn ofyn barn hen awdwr Groegaidd ar y pwnc, y rhai a ystyrir yr awdurdodau uchelaf ar y cwestiwn. Ond cyn gwneyd hyny, y mae tegwech cyffredin, a natur y gwaith hwn, yn ein rhwymo i osod gerbron wahanol olygiadau Taeneliwyr o berthynas i'r dull o weinyddu bedydd, y rhai a ddosperthir gan un o honynt hwy eu hunain i bedwar dosparth, yn y drefn ganlynol:—"1. Y rhai sydd yn dadleu fod i'r gair *baptizo* yn ei holl eangder, wahanol ystyrion; ac oddiar hyn yn casglu y gellir gweinyddu yr ordinhad mewn gwahanol ffyrdd. 2. Y rhai sydd yn dal fod i'r gair un ystyr pennodol, sef trochi, ac etto yn dadleu nad oes un dull pennodol yn hanfodol i iawn weinyddiad yr ordinhad. 3. Y rhai sydd yn edrych ar ddyben amlwg yr ordinhad; ac ar y tir hwn yn honi mai bedyddio ydyw cymhwyso dwfr mewn unrhyw ddull sydd yn arwyddo puredigaeth neu lanhad, heb ymdrechu profi gwirionedd eu golygiadau trwy unrhyw ymresymiad oddiwrth ystyr y gair *baptizo*. 4. Y rhai a ddadleu nad yw y gair, yn ei ystyr grefyddol neu dduwinyddol, yn dynodi unrhyw ffurf bennodol o gymhwyso dwfr at y corff neu y corff at y dwfr, ond ei fod mewn ystyr grefyddol yn arwyddo puro, glanhau—geiriau o ystyr mor gyffredinol fel nas gellir eu cyfyngu at ddull, neu foddion, neu ddyben pennodol, naturiol, neu ysbrydol— a'i fod o ganlyniad yn gadael perffaith ryddid am y dull, a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn hollol gyfystyr a'r gair puro." Sylwa yr un awdwr yn mhellach, "Y gwelir oddiwrth y dosparthiad hwn, piham y mae y rhai sydd yn dywedyd mai *trochi* ydyw ystyr y gair bedyddio, ee



hyny, yn taenellu. Hònant nad yw y dull o bwys yn y byd. Y mae ereill o amddiffynwyr bedydd babanod yn myned yn mhellach, ac yn dadleu nad yw y gair bedyddio yn golygu trochi yn unig, ond ei fod o ystyr cyffredinol, yn dynodi unrhyw gymhwysiad o ddwfr trwy ba ddull bynag. Nis gwadant nad yw yn arwyddo trochi; ac o ganlyniad, nad oes a wnelo yr enghreifftiau o'r gair yn yr ystyr o drochi ddim â'r ddadl. Pe gwadent hwy fod y gair yn arwyddo trochi, byddai i bwrpas i ddyfod â dyfyniadau o awduron i ddangos ei fod yn arwyddo hyny; eithr hònant nad yw y gair yn arwyddo trochi yn unig, ond ei fod hefyd yn arwyddo golchi, gorchuddio, taenellu, &c." (Beth sydd yn gynnwysedig yn "&c." ganddo, nid yw yn hawdd dyfalu.) Yn yr un ysgrif dywed fod "y prif esbonwyr a duwinyddion yn cytuno â'r geiriadurwyr, nad yw trochi yn *hanfodol* i fedydd—y gall fod trwy drochi, neu trwy ryw ddull arall. Yn wir, cyn y Diwygiad Protestanaidd, nid oedd neb yn dâl fod trochi yn *hanfodol*. Yr ydym yn dywedyd *hanfodol*, o herwydd hyn, cofier, yw y pwnc mewn dadl." "Nid oes un lle i ammbheu nad oedd trochi yn arferedig yn yr eglwys gynt, ond ystyrid bedydd trwy daenellu yn safadwy hyd y nod pan yr oedd trochi uchaf mewn bri."\* Sylwa hefyd mai barn dosparth arall (y Bedyddwyr) yw, "nad oes i'r gair (*baptizo*) ond un ystyr yn mhob man, sef *trochi*, a bod y dull pennodol hwn yn hanfodol i iawn weinyddiad yr ordinhad." Rhaid caniatáu fod yr ysgrifenydd hwn yn eglur, yn dëg, ac yn onest (ond yr ydym yn groes iddo mewn perthynas i ddau neu dri o bethau yn y dyfyniadau uchod), yn ei ddosparthiad o olygiadau y Taenellwyr; ac y mae hefyd yn hollol gywir yn ei farn o barthed i'r pwnc mewn cwestiwn, neu y terfynau o fewn pa rai y mae'r ddadl i'w chyfyngu; sef, nid a ydyw trochiad yn iawn (ni wna un dyn goleuedig a chydwybodol ammbheu hyny); ond a ydyw yn *hanfodol* i weinyddiad yr ordinhad. Y mae hynyna yn eithaf tēg.

Dengys y dyfyniadau hyn:—1. Yr ystyr ia pob dosparth parchus o Daenellwyr fedydd trwy drochiad yn iawn, a bod y rhai a haerant mai "detod ddynol yw trochiad," a dweyd y goreu am danynt, naill ai yn nodedig am eu hanwybodaeth, neu yn enwog mewn haerllugrwydd ac amharch

i'r gwirionedd. 2. Nad yw'r Bedyddwyr wrthynt eu hunain yn eu barn, nad oes i *baptizo* namyn un ystyr pennodol, sef, trochi; oblegid y mae Taenellwyr (yr ail ddosparth) yn credu hyny mor gadarn a hwythau. 3. Yr ydym i gasglu y barna rhai o'n cyfeillion (dos. 4) fod baptizo yn ei berthynas â duwinyddiaeth, yn arwyddo rhywbeth gwahanol i'w ystyr cyffredin; os ydyw, y mae'r apostolion i'w beio yn fawr am na ddarfu iddynt roi hysbysrwydd o'r cyfnewidiad. 4. A barnu yn ol golygiadau y cyfeillion a'n gwrthwynebant, y mae bedydd wrtho ei hun yn mysg yr holl osodiadau pendant y mae genym hanes am danynt yn y Beibl, oblegid gellir ei weinyddu "mewn gwahanol ffyrdd." 5. Os oedd "trochi yn arferedig yn yr eglwys gynt"—"mewn arferiad yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth," yn oladd-efiad yr ysgrifenydd medrus y dyfynasom o'i waith; y mae rhaid i ni gasglu, naill ai fod dau ddull o fedyddio yn cael eu harfer gan yr apostolion, neu, mai mewn amser *ar ol* "oesoedd cyntaf Cristionogaeth" y dygwyd i mewn daenelliad babanod. Os caniatēir y blaenaf, a hyny yn groes i olygiadau llawer o Daenellwyr dysgedig, rhaid i ni annghredu tystiolaeth Paul:—"Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd." Arall-eiriad Dr. Macknight (Taenellwr) sydd fel y canlyn:—"Yr ydych oll yn gwasanaethu yr un Arglwydd; yr un yw gwrth-ddrychau eich ffydd; a phroffesasoch y ffydd hono trwy un dull o fedydd." Os mai trwy un dull o fedydd y darfu iddynt broffesu, y dull hwnw oedd *trochi*, canys "nid oes un lle i ammbheu nad oedd trochi yn arferedig yn yr eglwys gynt," fel yr addefa yr ysgrifenydd galluog hwn yn y Gwyddoniadur. Os mai yr ail syniad a fabwysiedir, sef, mai wedi "oesoedd cyntaf Cristionogaeth" y daeth taenelliad babanod i arferiad, nid oes a fyno'r Taenellwyr â'r Beibl yn y ddadl, ond dylent apelio at draddodiad fel y gwna'r holl Babyddion; a diau genym mai y tir hwn fyddai y goreu iddynt ar amryw ystyriaethau. 6. Fod tair rhan o bedair o'r Taenellwyr, yn ol y gohebydd dan sylw, yn caniatáu i'r Bedyddwyr bob mantais a allant gael oddiwrth y gair *baptizo*, fel yr arferid ef gan y Groegiaid cyntefig. Cofied y darllenydd yr hyn a ddarllenodd am olygiadau yr ail a'r trydydd dosparth; a chyda golwg ar gyfeillion y pedwerydd, ymddibynant hwy ar y peth a elwir yn "ystyr crefyddol neu dduwinyddol," yr hyn a honant yw "puro," a "glanhau." Y can-

\* *Gwyddoniadur*, Cyf. I., tud. 613.



lyniad yw, mai âg un ran o bedair o'n cyfeillion y mae a fynom yn y ddadl berthynol i ystyr *baptizo*, sef, y dosparth cyntaf y cyfeiria ein hawdwr goleuedig ato. 7. Os oes i *baptizo* "yn ei holl ângder, wahanol ystyrion," dylid meithrin adnabyddiaeth â hwynt; ac mewn trefn i sicrhau yr amcan hwnw, rhaid i ni adeiladu ar rai o'r canonau a osodasom i lawr (rhif 2, 3, tud. 691), sef, ddarfod i ysgrifenywyr y Testament Newydd roddi i'r geiriau a ddefnyddient eu hystyrion cyffredin ac adnabyddus, ac mai at awdwyr Groegaidd dysgedig a chydabyddedig y mae i ni apelio am ystyrion y geiriau mewn cwestiwn. Un o'r geiriau hyny yw *baptizo*. Mewn trefn i gadw'r ddadl tu fewn i'r terfynau at y rhai y cyfeiriwyd (a ydyw *baptizo* yn arwyddo *dull*, a'r dull hwnw yn hanfodol i fedydd?), y mae eisieu profi fod y gair hwn yn arwyddo *dull*, fel *bapto*, o'r hwn y ffurfir ef. Os ydyw, y rheol yw, nas gall yn ol egwyddor 7fed (tud. 693) arwyddo mwy nag un dull, oddieithr yn *eithriadol* a *ffigwrol*, heb filwrio yn erbyn egwyddorion sylfaenol ieithyddiaeth. Os ydyw yn arwyddo y dull o daenellu neu dywallt, nis gall ddynodi y dull arall o drochi hefyd; ac os mai trochi yw y modd a arwyddoca, y mae yn anhosibl i'w gael i olygu y dulliau o daenellu a thywallt, oddieithr yn figurol ac mewn eithriad ("y mae eithriad i bob rheol"), yr hyn sydd yn bwysau yn nghlorian iaith, ac yn fesur wrth llynw ein synwyr cyffredin. Dealler mai termau cyffredinol, heb olygu un dull neillduol, yw golchi a gwlychu, ac mai gwahanol *ddulliau* o olchi a gwlychu yw trochi neu suddo, tywallt ar, a thaenellu. Y mae trochi a thaenellu mor wahanol fel dulliau o olchi, ag yw crogi a boddi fel dau ddull o ladd; o ganlyniad, nid yw yn bosibl eu defnyddio yn gyfystyr heb aberthu rheswm a merthyru chwaeth. Pe defnyddiasai ysgrifenywyr y Testament Newydd *lono* (golchi) am fedydd, yr hwn nid yw yn gyfyngedig i un dull neillduol (er mai trwy osod peth *mewn* dwfr y golchir fynychaf), byddai gradd o olygusrwydd yn ymresymiad ein cyfeillion; ond os yw *baptizo* yn golygu dull pennodol, byddai yn well iddynt roddi y ddadl eiryddol i fyfyn, fel y mae'r mwyrif o'r Taenellwyr wedi gwneyd (tud. 696).

Mewn trefn i gael sicrwydd o barthed ystyr y gair mewn dadl, appeliwn at weithiau y Groegaidd a'i harferasant cyn ymddangosiad y Gwaredwr, ac am tua

hanner cant neu driugain mlynedd o'r cyfnod Cristionogol. Dealler ein bod yn cyssylltu mwy o bwys â'i ystyr cyntefig — yn flaenorol i enedigaeth Crist, ac yn amser yr apostolion (a chaniatau er mwyn dadl, fod iddo ystyr arall ar ol hyny), nag a gyssylltw'n â'i arwyddocaad mewn oesoedd diweddarach; oblegid yn ei ystyr henafol ac adnabyddus yr arferid ef gan ysgrifenywyr y Testament Newydd. Pe byddai yn bosibl fod i'r gair *gant* o ystyrion yn mhen dau can mlynedd wedi'r oes apostolaidd, ni effeithiai hyny yn y mesur lleiaf ar y defnydd a wnawd o hono gan weision ysbryddoliaeth; oblegid, fel y sylwasom, nid cyssylltu ystyr newydd â hen air a wnaethant hwy, eithr defnyddio gair ag oedd mewn arferiad cyffredin, ystyr yr hwn a ddeallid gan bob dosparth o'u cyd-oesolion a hwythau. Pe gellid profi ddarfod i ysgrifenywyr yn yr ail a'r drydedd ganrif ei arfer i arwyddo taenellu, tywallt ar, puro, &c., ac na roddid iddo yr ystyr o drochi o gwbl yn y cyfnod hwnw, byddai hyny yn hollol ddiwbys yn ei berthynas â'r ddadl, os mai trochi oedd ei ystyr cyn yr oes apostolaidd, ac yn amser Crist. Trwy gymmeryd y llwybr rhesymol hwn, yr ydym ar unwaith yn dwyn yr holl ddadl i gylch bychan mewn cymhariaeth, yn yr hwn y gellir penderfynu y pwnc geiryddol heb droi tudal- enau pob llyfr Groegaidd a ysgrifenywyd yn y cyfnod Cristionogol. Nid oes achos i ni ofni yr ymchwiliad manylaf ac ângaf, fel y mae Dr. Carson, Dr. Conant, ac ereill wedi profi; ond y pwnc *pwysicaf* perthynol i'r ddadl eiryddol yw yr hyn a nodwyd, ac â hwnw yn fwyaf neillduol y bydd a fynom yn y sylwadau canlynol; sef, a oedd y gair *baptizo* yn arwyddo *dull* o weithredu, yn flaenorol i'r, ac yn ystod yr oes apostolaidd? ac os oedd, pa ddull a arwyddai? Sylwa Dr. Halley yn briodol, mai yn anfyfnych iawn y byddai yr *hen* ysgrifenywyr yn arfer *baptizo*, ond ei fod i'w gael yn fynychach yn ngweithiau awdwyr diweddar, y rhai a'i harferent yn fynych yn gyfystyr â *bapto* y llyfrau henaf (*Sac. part i., p. 273*); ac y mae Dr. Carson yn dweyd yr un peth am ei anfyfnychder mewn ysgrifau henafol. Gan nad oedd mewn arferiad *cyffredin* gan hen ysgrifenywyr Groeg, nid gorchwyl hawdd fydd dwyn *llawer* o enghreifftiau; ond ymdrechir cael digon i osod ystyr y gair tuhwnt i derfynau ammhueaeth resymol.

Cyfeiria Polybius\* (*History, book i. ch.*

\* Ganwyd ef c.c. 205.



51, 6) at y frwydr fôrawl rhwng y Rhufeiniaid a'r Carthaginiad yn Drepanum, yn yr hon y darfu i'r olaf *soddi* (*baptize*) llawer o longau y blaenaf. Nis gall fod un ammheuaeth o berthynas i'r *dull* yn yr enghraifft hon. Yn yr un gwaith (*Book* viii. ch. 8, 4) sonia am beiriant Archimedes, trwy yr hwn y *soddid* longau y Rhufeiniaid, nes eu llanw â dwfr y môr ac âg annhreffn; y mae'r dull yr un mor ddiammheul yma etto. Crybwylla Polybius hefyd (*History*, book xxxiv. c. 3, 7), am wayw-ffon yn syrthio i'r môr, yr hon ni chollid er hyny, o herwydd ei bod weli ei gwneyd o dderwen a phinwydden. Tra yr oedd y derw yn *soddi* (*baptizo*), cadwai y pinwydd ar y wyneb. Y mae'r dull yma etto uwchlaw ammheuaeth. Mewn rhan arall o'i waith (*Book* iii., ch. 72, 4), darlunia y fyddin Rufeinig o dan Tiberius yn myned trwy afon Tebia, a dywed fod y milwyr traed yn *drochedig* ynddi hyd y ddwyfron. Yn yr hanesa rodde (*Book* xvi. ch. 6, 2) am y frwydr rhwng Philip ac Attalus, yn agos i Chios, dywed i un o longau Philip *soddi* neu *drochi* llong berthynol i Attalus. Nid taenellu, tywallt ar, na gorchuddio, oedd yn yr enghreifftiau hyn. Pan y mae Plutarch\* (*Life of Marcellus*, ch. 15), yn darlunio gweithrediadau yr un peiriant, dywed fod rhai o'r llestri Rhufeinig yn *suddo* trwy ei offerynoliaeth. Yn ei "*Life of Alexander*," pan yn desgrifio y gloddest a gymmerai le yn y fyddin ar ei ddychweliad o'r buddugoliaethau dwyreiniol, y mae yn dweyd, y byddai y milwyr yn *trochi* neu yn *suddo* eu cwpanau, mewn trefn i yfed y dwfr a'r gwin a gymmysgid ar eu cyfer. Mewn man arall (*Comparison of Aristophanes and Menander*), arfero y gair i ddynodi yr un dull, sef *trochi* neu *soddi*. Cyfeiria hefyd at yr aderyn a elwir *Halcyon* (*Plutarch on the comparative skill of water and land animals*, 35), a dywed y byddai yn gwneyd ei nyth yn y fath fodd ag y gallai nosio ar wyneb y dwfr, heb gael ei dymchwelyd, na'i *throchi* neu ei *suddo*. Ceir tair o siamplau ereill ganddo yn *Plutarch on Superstition*, iii.; *Gryllus*, vii.; *Physical Questions*, x. Ni wnawn namyn cyfeirio atynt er mwyn byrdra. Llefara Eubulust (*Fragment of an ancient Comedy, entitled Nausiaca*), am long yn cael ei *throchi* neu ei *soddi* yn y llifddyfroedd. Y mae Strabo (c.c. 60) yn rhoi hanes dyfr-

oedd afon Pyramus (*Geography*, book xii. ch. 2, 4), ac yn dweyd fod grym y dwfr mor fawr, fel mai o'r braidd y gellid *soddi* saeth ynddo trwy ei bwrw iddo. Yn yr un llyfr (*book* 6, ch. 2, 9), ceir ganddo ddarluniad o lynoedd yn nghymmydogaeth Acragos, yn nyfroedd y rhai nis gallai dynion analluog i nosio *suddo*, ond nosient fel coed ar y wyneb. Mewn rhan arall o'i waith (*book* xiv., ch. 3, 9) tystia ddarfod i filwyr Alexander deithio un diwrnod cyfan yn *drochedig* hyd eu gwregys mewn dwfr. Yn *book* xiv., ch. 2, 42, dywed nad oedd eisieu i ddyn fod yn nosiedydd mewn trefn i beidio *suddo* yn llyn Sirbonis. Diodorus† (*Historical Library*, book ii. ch. 18) a grybwylla am long llywydd y llynges yn cael ei *soddi* wedi brwydr galed, yr hyn a achosodd annhreffn yn llynges y barbariaid. Darlunia Josephus† (*Jewish Antiquities*, book xv. ch. 3, 3) lofruddiaeth y bachgen Aristobulus, yr hwn a foddwyd mewn *swimming bath* ar gais Herod. Gwasgent ef i lawr nes ei *drochi* pan yr oedd yn nosio (fel pe mewn difyrwch), ac ni pheidiasant hyd nes ei lwyr fogi. Cyfeiria at yr amgylchiad mewn man arall (*Jewish War*, book i. ch. 22, 2), a defnyddia yr un gair am dano. Yn y *Jewish War* (book iii. chap. 8, 5), beiai hanesydd clodfawr long-lywydd (*pilot*) am *soddi* llong rhag ofn y storom. Heblaw y rhai uchod, ceir yn ngweithiau yr hanesydd Iuddewig bump neu chwech o enghreifftiau cyffelyb—dynion a longau yn *suddo* (*Antiquities of the Jews*, book ix. ch. 10, 2; *Life of himself*, sec. 3; *Jewish War*, book iii. ch. 10, 9; book ii. ch. 20, 1), a defnyddia *baptizo*, i arwyddo dull o weithredu yn mhob un o honynt, fel yn y siamplau ereill y cyfeiriwyd atynt. Yn ngweithiau Epictetus (*Moral Discourse, fragment* ii.) sonir am *soddi* llong wedi ei haddurno a'i goreuro. Cyfeiria Demetrius, o.c. 50, at yr enaid yr hwn nad yw yn ei farn ef wedi ei hollol *soddi* yn y corff (*On condemning Death*, ch. 14, 4); a pha beth bynag a olygai wrth y fath ymadrodd, y mae yn ddiau na feddyliai fod y corff wedi ei *daenellu* na'i *dywallt* ar y sylwedd anfarwol, ond fod hwnw wedi ei *gladdu* ryw sut yn ei babell. Cyfeiria Dr. Halley (*Sac. part* i., p. 379) at enghraifft o *baptizo* yn cael ei arfer i arwyddo *trochi*, mewn dernyn barddonol a gam briodolir

† Ysgrifennodd c. c. 60—30.

\* Ganwyd ef 50 mlynedd wedi Crist, ac felly yr oedd yn gydoeswr â rhai o'r apostolion.

† Ganwyd hwn 38 c. c.

† Ganwyd Josephus 37 o flynyddau wedi genedigaeth Crist; ac felly yr oedd yntau yn gydoesydd â rhai o ysgrifenywyr y Testament Newydd.



i Orpheus (*Orph. Argon.* 514); ond sydd yn ddiau o henafiaeth diammheuol. Mewn hen waith, yr hwn a gambriodolir i Hippocrates, ond a ysgrifenydd, y mae yn fwy na thebyg, cyn y cyfnod Cristionogol, darlunir dynes, yr hon a finid gan enyniad a chwydd yn ei gwddf, yn nghyd â chlefyd y galon, yn anadlu yn debyg i ddyn wedi cael ei drochi. Sonia Polybius (*History*, book v., ch. 47. 2) am feirch-filwyr Molou, yn soddi eu hunain yn y llynoedd, y rhai a geisient groesi pan yn myned i ymosod ar filwyr Xenextas. Cyfeiria Strabo (*Geography*, book xii. ch. 5) at bethau yn cael eu trochi yn y llyn Tatta yn Phrygia. Yr wyf fi, ebe Pindar (c.c. 522), fel coreyn rhwyd bysgota, yn aros yn annhrochedig yn y dwfr hallt. Darfu i Simon, ebe Josephus (*Jewish War*, book ii. ch. 18. 4) estyn ei law, a chollodd y cleddyf yn ei wddf ei hun. Y mae yn ein dysgu mewn man arall (*Antiquities of the Jews*, book iv. ch. 4. 6) y byddai yr Iuddewon, pan yn galaru ar ol Miriam, yn trochi isop mewn ffynnon. Dywed hen awdwr (*Æsopic Fables; fable of the Man and the Fox—writer and date unknown*) am ddyn yn trochi gwêr mewn olew, yn gosod hwnw wrth gynffon cadnaw, ac yn ei danio i'r perwyl o gopi y llwynog am rywbeth. Dywedir i filwyr Alcibiades, ar gais eu blaenor, roi i'r bardd Eupolis amryw drochiadau yn y môr (*Epigram on the Comic Poet Eupolis*): golygir mai Alcibiades (c.c. 400) a ysgrifennodd yr hanes. Y mae Nicander (*Fragment of a Work on Husbandry*, book ii.) yn sôn am drochi darnau o erfin mewn dwfr hallt. Nid oes eisieu dweyd fod y dull uwchlaw ammhueaeth yn yr holl enghreifftiau hyn. Yn *Æsop's Fables* (date uncertain, but b.c.) ceir hanes yr asyn yn trochi y cawelli (*panniers*), a'r dolphin yn ymsuddo, pan yn cospi yr epa am ei dwyllo. Y mae rhai o'r enghreifftiau blaenorol wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg yn Narlith y Parch. Hugh Jones.

Er mai yn anfynych y defnyddid y gair hwn gan ysgrifenydd Groegaidd cyn, ac yn amser Crist a'i apostolion, wele dros dri dwsin o enghreifftiau o'u hysgrifeniadau, yn y rhai y mae yn ddieithriad yn arwyddo y dull neu y modd o weithredu—yn dynodi mewn rhai amgylchiadau yr hyn a wneid gan bersonau i wrthddrychau a phersonau ereill; mewn amryw gyssylltiadau, yr oruchwyliaeth i'r hon y gwnelai unigolion ddarostwng eu hunain yn wirfoddol; ac yn achlysurol, yr hyn a gym-

merai le mewn ufydd-dod i ddeddfau anhyblyg anian. Y maent oll yn dynodi y peth a eilw Dr. Conant yn ystyr neu arwyddocad sylfaenol (*ground-meaning*) y gair, yr hyn yw suddo, neu drochi. Dyma yr hyn a elwir gan y Doctor dysgedig hwn yn ystyr llythyrenol a naturiol baptizo (*absolutely, with the ingulfing element implied*). Gwneid defnydd cyffelybiaethol neu drawsfuldol hefyd o hono gan ysgrifenydd yr un cyfnod. Pan arferir ef yn gyffelybiaethol, arwydda drochi neu suddo mewn trafferthion, dinystr, gofidiau, &c. &c. Llefara Josephus (*Antiquities of the Jews*, book x., ch. 9. 4) am lofruddiaeth Gedaliah mewn gwledd, wedi iddo gael ei drochi gan feddwod i hurtrwydd a chwsg. Dywed Evenus o Paros (c.c. 250 *Epigram* xv.), fod Bacchus yn suddo neu drochi dynion mewn cwsg. Nid oes eisieu hysbysu y darlennydd mai yn drawsfuldol yr arferir y gair yn yr enghreifftiau hyn, a llawer o rai cyffelyb.

Dengys yr hyn a ysgrifenydd fod baptizo yn arwyddo, nid peru i beth fod mewn peth arall trwy unrhyw fodd ("by whatever mode effected"), fel y sylwa Dr. Halley (*Sac. part. i. p. 275*), ond ei fod yn dynodi dull pennodol o osod y naill beth yn y llall, cyn Crist ac yn yr oes apostolaidd. Y canlyniad anocheladwy ydyw, ddarod i'r Gwaredwr a'i weision, naill ai gyssylltu ystyr newydd âg ef, neu ei arfer yn yr ystyr cyffredin ac adnabyddus. Nid oes eisieu gofyn i Fedyddiwr na Thaenellwr, pa un o'r ddau lwybr a gymmerasant. Os mai yr ail, fel yr addefir gan bawb, y mae y ddadl eiryddol yn hollol derynol yn erbyn ein cyfeillion y Taenellwyr, ac o blaid y Bedyddwyr. Y mae hyn mor anammheuadwy ac hunan-eglwur âg unrhyw wirionedd mewn rhif a mesur. Dyfyna Dr. Halley dri o ymadroddion, y rhai a olyga yn ddigon, ebe efe, i brofi y gosodiad o fod baptizo yn arwyddo gosod peth mewn peth arall yn annibynol ar ddull (tuâ. 277); ac os yw yn iawn i'r Dr. sylfaenu ei osodiad ar dair enghraifft, nid yw yn annheg i'r Bedyddwyr i sylfaenu yr eiddynt hwy ar fwy na thri dwsin. Y mae hyn yn ein harwain yn naturiol at farn Halley a'i ddysgyblion, sef, nad yw baptizo yn arwyddo un dull pennodol; ond yn hytrach gosod peth mewn peth arall, "by whatever mode effected." Y mae'r pwnc hwn o bwys mawr yn y ddadl rhyngom ag un dosparth o Daenellwyr, ac fel y cyfryw, yn hawlio pwyll a manylwch.



Dealler nad yw dynion dysgedig y Taen-ellwyr, â pha rai y dadleuwn, yn golygu taenelliad gyda golwg ar ei *raddau* yn fedydd, yn ol ystyr *baptizo*, ond haerant fod y gair yn ffafrio y *dull* o weinyddu, oblegid y byddid yn arfer *baptizo*, meddant, iddy-nodi gosodiad peth mewn peth arall, trwy *orchuddiad gan*, yn gystal a thrwy *soddiad* neu drochiad *mewn* peth. Nid yw Dr. Halley, un o awdurdodau uchelaf (os nad yr uchelaf o gwbl), yn foddlon aberthu ei onestrwydd â'i ddydsgeidiaeth trwy hōni fod person neu beth yn fedyddiedig (yn ol ystyr *baptizo*), trwy dywallt neu daenllu ychydig ddafnau o wlybwr, neu ronynau o ryw beth arno. Yn ol ei esboniad ef ar y gair, rhaid i beth gael ei *gladdu mewn* peth arall, neu ei orchuddio ("*covered*") *ganddo*, cyn y byddo yn fedyddiedig.\* Gan nad yw ein cyfeillion yn claddu *nac* yn gorchuddio pan yn gweinyddu yr hyn a alwant yn fedydd, nis gallant yn ol Dr. Halley sylfaenu y cyflawniad ar ystyr llythyrenol *baptizo*, oblegid y mae'r gair hwnw yn dy-nodi dognedd neu fesur (*quantity*) o'r elfen yn neu â'r hon y bedyddir, ebe efe, sef, cymmaint a fyddo eisieu i'r perwyl o *drochi* y person ynddi, neu gymmaint a fyddo yn angenrheidiol i'w *orchuddio* â hi. Pe caniatëid er mwyn dadl, fod ein cyfeillion yn iawn gyda golwg ar *ddull* y gweinyddiad, byddent ar delerau anheddych-lawn â *baptizo* wedi'r cwbl, oblegid nad ydynt yn *trochi nac yn gorchuddio*: y mae'r gair hwnw, ebe eu prif athraw, y. hawlio y naill neu y llall, neu beru i beth fod mewn peth arall—yn gladdedig ynddo trwy ryw *ddull* neu gymhwysiad. Paham na wnaent hwy fedyddio trwy drochi neu orchuddio, fel y byddai iddynt gario allan ystyr y gair mewn cwestiwn (a chaniatau fod y ddau ystyr yn perthyn iddo), neu ynte wadu

\* "We believe that βαπτίζω is to make one thing to be in another by dipping, by immersing, by burying, by covering, by superfusion, or by whatever mode effected, provided it be in immediate contact. A body placed in a tomb, or a man shut in a house, is not strictly baptised, but a body put in the surrounding earth of a grave, or a man covered with the ruins of a house, is baptised. As the action of the verb refers in almost all instances to liquids, although not of necessity, for it may apply to solids of a soft and permeable nature; it may simplify the matter to say that Baptists explain the word as uniformly meaning to put the thing baptised into the liquid; we contend that it means to make the thing baptised to be in the liquid, however it be done. To put a thing into water is, as they say, to baptize it; this as we say, is the truth, but not the whole truth; for to put the water over the thing is also to bap-

pob cyssylltiad â *baptizo* yn y ddadl Dywedir ei fod yn ffafriol i *ddull* ag y maent hwy yn ei hoffi, a bod hyny yn ddi-gon o reswm dros eu hymlyniad wrtho. Pe caniatëm hyny er mwyn rhesymu, yr ydym yn gofyn ar ba d'r, neu pa sut, y mae'r meddylddrych o *ddognedd* (*quantity*) yn y gair yn cael ei deimlo yn llai awdurdodol ar y meddwl nâ'r meddylddrych o *ddull*? Dywedant eu bod yn taenllu oblegid fod *baptizo* mor ffafriol i'r modd hwnw ag i ryw *ddull* arall—dyma y rheswm profsedig; ond dylent ar dir cyssondeb arfer "dyfroedd lawer," nid yn unig am fod ystyr *baptizo* yn ffafriol i hyny, ond oblegid ei fod hefyd yn gondemniad pendant ar y dyferion a arferant hwy. Yn ol Dr. Halley, nid yw *baptizo* yn gwahardd unrhyw *ddull*; ond y mae gwahanol *ddulliau* mor gyfreithlon a'u gilydd, a chrefydd-wyr o ganlyniad at eu rhyddid i wneyd dewisiad o'r un a fynont; ond ar dir *quantity*, nid oes ganddynt hawl i ddewis rhwng ychydig a llawer o ddwfr; o ganlyniad, y mae'r *idea of quantity* yn rhwymedig, ac felly mor bwysig, os nad yn bwysicach nâ'r dull. Beth sydd yn gwneyd y cwestiwn o *raddau* yn ei berthynas â *baptizo* yn llai ei bwys nâ'r cwestiwn o *ddull*, y mae yn anhawdd dyfalu, os na chaniatëir fod "cig a gwaed" yn cael hawl i ddewis a gwrthod yn annibynol ar awdurdod. Dealler mai â'r gair hwn yn unig y mae a fynom yn bresenol, ac nad ydym yn gwneyd ychwaneg nag adeiladu ar sylfaen Dr. Halley.

Ond a ydyw trochiad yn *hanfodol* i fedydd, fel y sylwa un o gedyrn y *Gwyddoniadur*, yw y cwestiwn i'w wateb. Hōna y Bedyddwyr ei fod, a sylfaenant yr hōniad mewn rhan ar ystyr *baptizo*, yr hwn sydd, fel y sylwasom, yn berwyddiad moddol neu gynlluniol (*modal*) fel ei wreiddair

tize it. With them nothing is baptised unless it be dipped into the liquid; with us everything is baptised which is covered with the liquid. With them to baptize designates the mode in which the object is accomplished; with us it designates no mode at all, but only the accomplishment of the object. With them to baptize is to dip, and nothing else; with us it is not to dip, nor yet to overwhelm, nor yet to pour, but it has a more general signification which has no reference to mode; and it may be effected by dipping, or by overwhelming, or by pouring, or by any other mode in which the baptized thing becomes in the baptizing substance. The earth was as truly baptized by the flood, as a stone is baptized when thrown into water; with this difference, the earth was baptized by water, the stone is baptized into water" (*Sac. part i. p. 275*).



*bapto*, ac nid yn air rhywiaethol (*generic*). Dywed ein gwrthwynebwyr, o'r ochr arall, nad yw yn dynodi y dull o drochi mwy na dulliau ereill, o herwydd ei fod yn cael ei arfer i arwyddo gorchuddiad gan neu â, yn gystal a throchiad neu soddiad mewn, dwfr neu rywbeth arall; neu, mewn geiriau ereill, fod iddo fwy nag un ystyr. Myn rhai o'r geiriadurwyr ei gael i arwyddo golchi; ond rhaid i Dr. Halley, fel y sylwasom, gael llawer o ddwfr—digon i suddo ynddo neu ei orchuddio *âg ef*, yr hyn sydd yn cau allan yn hollol y golchi *rhanol* a arwyddocêir mewn taenelliad. Sonia Plato (c.c. 429) am orchuddio â chwestiynau athronyddol (*Disputer*, ch. viii), ac â gwin (*Banquet*, ch. iv.). Crybwylla Conant am Thebe yn dinystrio ei gwr pan yn orchuddiedig gan win, ac wedi cysgu (*Narraion*, 5.0). Ceir cyfeiriad trawsfudol ato hefyd yn ngweithiau Demosthenes (*Oration* i. 5), yn y cyfeiriad a wna at y *Dipping Match*. Methasom gael ychwaneg o siamplau o'i arferiad ffigurol, er chwilio yn hir ac yn faul am danynt. Dealler mai am y cyfnod cyn Crist a rhan o'r oes apostolaidd yr ydym yn ysgrifenu. Y pwnc i'w benderfynu ynt e ydyw, y *dull* o wneyd i un peth fod mewn peth arall.

Y mae yr enghreifftiau a roddasom o'r defnydd a wneid o *baptizo* gan yr hen Roegiaid, yn profi y byddent hwy yn ei arfer i ddynodi dull pennodol o weithredu. Ond y pwnc yw, a oes rhai enghreifftiau yn profi y byddid yn ei arfer weithiau i ddynodi gorchuddiad y gwrthdrysych gan yr elfen. Yr ydym yn y modd mwyaf diamwys mewn ymadrodd, a mwyaf diofn gyda golwg ar y canlyniad, yn dweyd, *Oes*; y mae genym ryw nifer o siamplau cyn Crist, ac yn yr oes apostolaidd; ond nid oes un siampl o hono yn cael ei arfer i arwyddo taenelliad dyferion ar berson neu wrthdrysych, ond bob amser dynoda gyflawnder o'r elfen i orchuddio y person neu y peth.\* Cyfeiria Aristotle† (*Wonderful Reports*, 136) at frwy mewn lle annghyfannedd yn agos i'r môr, y rhai oeddynt yn *anfedyddiedig* pan fyddai y llanw allan, ac yn *orchuddiedig* mewn gorlanw (*flood-tide*). Y mae Diodorus‡

(*Historical Library*, book xvi. ch. 80) yn rhoddi hanes yr afon Crimissus yn rhuthro pan wedi chwyddo gan wlaw trwm, ac yn dinystrio rhai o filwyr Carthage, trwy eu *gorchuddio* pan geisient nofio i'r ochr arall. Yn yr un gwaith (*book* i., ch. 36) dywed y byddai yr afon Nilus yn amgylchu rhai anifeiliaid ar ei glanau, ac yn eu dinystrio trwy eu *gorchuddio*. Hysbysa Josephus ni (*Jewish War*, book iii. ch. 9. 3) ddarfod i amryw longau yn mhorthladd Joppa gael eu *soddi*, yr hyn a achosid trwy fod y tônau yn ymgodi yn uchel yn amser storom. Gadawer yr hyn a ddywed Plutarch (*Life of Theseus*, 34) o barthed y bledren, fel pwnc heb ei benderfynu. Ni ddymunem fod yn annheg ar un cyfrif. Cyfieithiad Dr. Conant yw:—"A bladder, thou mayest be immersed (*baptizo*), but it is not possible for thee to sink." Defnyddia yr hanesydd Iuddewig (*Jewish War*, book i. ch. 27. 1: *same work*, book iii. ch. 7. 15; book iv. ch. 3. 3) ef yn gyffelybiaethol neu ffigurol, mewn dau neu dri o fanau ereill, am drallodion a lladron yn *gorchuddio* personau a dinas Jerusalem. Rhoddasom hefyd *bob* enghraifft a gawsom (yn y tymhor a nodwyd) yn fafriad i'r meddylddrysych o orchuddio *gan* yr elfen, neu yn llythyr-enol; os dichon fod dwy deu dair ereill i'w cael, y mae eu habsenoldeb yma yn anocheladwy, o herwydd y rheswm a nodwyd.

Wedi cael y ffeithiau pwysig hyn gerbron, cynnygir y sylwadau canlynol arnynt:—

1. Y mae'r enghreifftiau blaenorol, ac esboniad Dr. Halley ar baptizo, yn profi, mai bysedd y taenellwr yn unig sydd yn cael eu bedyddio, canys hwyntwy a osodir *mewn* peth arall (dwfr), ac nid y person y taenellir dyferion arno. Nid yw efe mewn dwfr o gwbl, trwy drochiad na gorchuddiad; ac o ganlyniad, nid efe a fedyddir.

Oblegid, "*baptizo* is to make one thing to be in another, by dipping, by immersing, by burying, by covering, by superfusion, or by whatever mode effected, provided it be in immediate contact" (*Sac. part* i. p. 275).

Hyd y nod pe na fyddai y gair yn dynodi un *dull*, ac felly yn cyfiawnhau *poŵ* dull fel y myn ein cyfeillion, erys baptizo yn gondemniad arosol arnynt (fel y dangoswyd), hyd nes y byddo iddynt beru i'r personau a fedyddiant fod yn y dwfr—yn drochedig *ynddo*, neu yn orchuddiedig *ganddo*. Y mae'r dosparthiadau parchus a ymwrthodant yn hollol â'r ddadl eiryddol hon, ac a geisiant ategu taenelliad âg

\* "The object immersed or submerged is represented as being plunged, or as sinking down into the ingulfing fluid or other substance; or the immersing element overflows, and thus ingulfs the object. The former is the more common case."—(*Baptizein*, by Dr. Conant, p. 88.)

† Ganwyd ef cyn Crist 384.

‡ Ysgriflenoddef tua 60-30 cyn Crist.

ystyriaethau ereill, yn fwy cysson â hwy eu hunain o lawer nâ'r dosparth a wrthwynebwn.

2. Pe caniatâem er mwyn rhesymu fod i *baptizo* ddau ystyr (yn groes i'r tystiolaethau blaenorol), yr ystyr blaenaf a roddir iddo yn mhob *Lexicon* yw trochi, suddo, claddu, &c.\* Ceisia rhai o honynt lusgo golchi i mewn; ond gwna hyd y nod y rhai hyn ganiatau mai trochi yw y blaenaf a'r prif ystyr. "Mewn geiriau sydd yn agored i ddau ystyr," ebe Dr. J. Edwards, "y naturiol a'r priodol yw y blaenaf; ac fel y cyfryw, hawlia y *blaenoriaeth*." Ceir golygiad i'r un perwyl yn ngwaith Dr. Addington, yr hwn sydd fel y canlyn:—"Os bydd dau gyfieithiad o air, un o ba rai sydd yn sicr o fod yn wir, ac y *dichon* i'r llall fod yn *anngyhurir*, y mae yn hawdd dweyd pa un a ddewis a doeth a'r diduedd." "Pan y mae hanesydd cyffredin yn adrodd yr hyn a dybir sydd yn anmhrifodol," ebe Carson, "am-mheuir ei *gywirdeb*, ond nid ymyrir â'i *eiriau*. Pan y mae'r Ysbryd Glân yn defnyddio geiriau, a'u hystyr heb fod yn archwaethus, nid yw beirniaid yn dweyd ei fod yn *celwydd*; ond dywedant yr hyn sydd yn ogystal, sef, fod ei eiriau yn golygu yr hyn nas gallant arwyddo." Os yw geiriaduron ein cyfeillion y Taenellwyr i ymddibynu arnynt, dylasai trochi neu suddo fod yn y Testament Newydd

\* Dr. Robinson, New York.—BAPTIZO, to dip in, to sink, to immerse. Dyma ei ddarnodiad o hono fel ysgolhaig; ond fel taenellwr, ceisia beru i'r gair arwyddo golchi.

Liddell and Scott.—BAPTIZO, to dip repeatedly, dip under, to bathe, to baptize.

Parkhurst.—BAPTIZO, 1. To dip, immerse, or plunge in water. 2. To wash oneself by immersion, or dipping in water. 3. To baptize, immerse in, or wash with water. 4. To baptize into any one. 5. To be immersed or plunged in a flood or sea, as it were, of grievous afflictions or sufferings. Y meddylddrych o drochiad sydd gan Parkhurst trwy ei ysgrif yntau; ond y mae Parkhurst yr ysgolhaig yn anghytuno â Parkhurst y duwinydd.

W. Greenfield.—BAPTIZO, 1. To dip, immerse, or plunge in water. 2. To wash oneself by immersion, or dipping in water. 3. To baptize, immerse in, or wash with water. 4. To baptize into any one. 5. To baptize with the Holy Ghost. 6. To be immersed or plunged in a flood or sea, as it were, of grievous afflictions and sufferings. Deallwyd y darlennydd mai Taenellwyr a ysgrifennasant y Geiriaduron hyn. Y mae rhai o honynt yn ceisio gwneud golchi yn ystyr i *baptizo*; ond nid oes rhyth o awdurdod dros hyn yn yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn y rhan blaenorol o'r erthygl hon.

yn mhob man y mae bedydd yn brænnol, yn ol tystiolaethau diamwys Dr. Edwards a Dr. Addington. Y mae trochi yn sicr o fod yn gyfieithiad cywir o *baptizo* yn ol Dr. Halley a Thaenellwyr dysgedig ereill; ond *dichon* y llall fod yn anngyhurir, a dweyd y *goreu* am dano. Os mai yr ystyr blaenaf yw y mwyaf naturiol a phriodol mewn gair a fyddo yn agored i ddau ystyr, *immerse* ddylai fod yn ein Beibl Saesneg yn lle *baptize*; a dimu mai y gair hwn, neu un cyfystyr ag ef, a arferasid gan gyfieithwyr lango, oni buasai y cyfarwyddiadau at y rhai y cyfeiriwyd yn barod. Os yw geiriau i'w deall yn eu hystyr mwyaf cyffredin ac *adnabyddus*, fel y sylwa Syr William Blackstone, trochi, ac nid dim arall, yw ystyr *baptizo*; oblegid darfu i ni brofi (tud. 708-5) mai yn yr ystyr hwnw y defnyddid ef cyn Crist, ac yn yr oes apostolaidd.

3. Pe cawsai *baptizo* ei gyfieithu yn *immerse*, yn hytrach na'i drosi i fod yn *baptize*, gan gyfieithwyr y brenin, yr ydym yn gofyn yn ddirifol i'n cyfeillion, a fuasai cymmaint ag un o honynt mor ynfyd a haeru nad yw *immerse* (*trochi*) yn golygu dull *pennodol*, ond ei fod yn arwyddo *unrhyw* ddull? Diau na chwaisid un o honynt yn barod i wneyd ei hun *islaw* sylw creadurisaid rhesymol trwy haeru y fath ffolineb. Pe taerai rhywun y *fath* ynfydrwydd, byddai yr un peth iddo haeru nad yw crogi a dibenu (*beheaded*) yn arwyddo dulliau pennodol o ladd neu ddyfetha. Nid oes un deiliad cyfrifoldeb tu allan i'n gwallgofdai a wnelai ei hun yn destun gwadd i blant o gwageddos, trwy ddweyd peth mor ddisail. Gyda'r un dirifoldeb gofynir iddynt gwestiwn arall, sef:—Os ydyw cyfieithiad priodol o *baptizo* yn arwyddo dull i'r rhai y cyfieithir ef iddynt, ar ba dir y gellir dadleu nad yw y gair *heb* ei gyfieithu yn dynodi yr un peth? Os nad yw'r gwreiddiol a'r cyfieithiad yn cyflew yr un meddylddrych, i ba beth y mae cyfieithiad dda? Paham y cyfieithir o gwbl? Y mae'r ffaith o fod Eglwys Groeg yn bedyddio trwy drochiad, yn profi fod *baptizo* yn cael ei ystyried yn berwyddiad moddol (*modal verb*) gan y Groegiaid, fel y golygid cyfieithiad cywir o hono gan hiliogaeth Gomer a'r Saeson. Os mai math o air penagored, nad yw yn arwyddo un math o ddull, yw *baptizo*, paham y mae'r Groegiaid yn ei arfer i ddy-nodi y dull o drochi yn unig? Paham na fyddai rhai o honynt yn dadleu ei fod mor ffafriol i daenelliad ag y mae i droch-



iad? Os yw yn dëg barnu y dylai pob cenedl wareiddiedig wybod ei hiaith ei hun yn well nag y gall cenedl estronol ei deall; onid yw yn ddigon rhesymol i ni gredu fod y Groegiaid yn fwy adnabyddus âg ystyr baptizo, nag y mae estroniaid yn gyffredin? Os nad yw yr ymresymiad yn dëg, dangoser ei annhegwch.

4. Pan geir llawer o enghreifftiau eglur a phendant o air yn arwyddo dull pen-nodol o weinyddu neu wneyd, mewn cyfnod neillduol, yr ydym at ein rhyddid i gasglu nad oedd, ac nas gallasai fod i'r gair modol hwnw un ystyr arall yr amser hwnw. Os nad yw y rheol hon yn gywir, byddai yn ddymunol gwybod pa fodd y deuir i benderfyniad o barthed i ystyr hen eiriau? Ai nid fel hyn y penderfynir ystyr *rantizo* a *raino*? Paham y gwneir *baptizo* yn eithriad, os nad oes dyben neillduol i'w sicrhau trwy hyn? Prof-asom fod *baptizo* yn dynodi dull neillduol cyn Crist ac yn ei amser—dull mor ben-nodol a *rantizo*, fel y gellid dadleu gyda'r un priodoldeb fod *rantizo* yn golygu trochi, ag y gellir haeru fod *baptizo* yn arwyddo taenellu; o ganlyniad, dylid ystyried y dwsinau o enghreifftiau a gawsom hyd y nod mewn tymhor pan na arferid *baptizo* ond yn anfynych, yn hollol derfynol ar y pwnc mewn dadl. Os dywedir ddarfod i ni ganiatau y byddid yn achlysurol yn defnyddio *baptizo* am orchuddio gan beth, yrydym ninnau yn gofyn, pa un ai y mwyrif ynte y llairif o enghreifftiau sydd i ffurfio rheol? Os mai y mwyrif, fel yr addefir yn gyffredin, y mae yn canlyn ynte, nad yw y rheol ond eithriad i'r rheol gyffredinol. O ganlyniad, can belled ag y mae a fydd *rheol* â'r pwnc, y Bedyddwyr o angenrheidrwydd sydd yn iawn, a rhaid i'r Taenellwyr ymfoddloni ar eithriad anfynych (a dweyd y goreu), neu ymfoddloni ar ddim, oblegid yr ydym wedi profi mai yn *eithriadol* yr arferid *baptizo* am orchuddio yn flaenorol i amser Crist, ac yn yr oes apostolaidd. A chaniatau bodoliaeth yr eithriad, ni chlywsom erioed am un eithriad geiryddol arall y gwneid cymmaint o hono gan ddosparth o grefyddwyr. Os mai yr eithriad ddylai ymostwng i'r rheol, ac nid y rheol i'r eithriad, y Bedyddwyr yw meistriaid y ddadl, a chaniatau i'r Taenellwyr yr hyn y maent mor awyddus am dano; sef, yr ystyr anmherthynasol ac eithriadol, a gyssylltwyd â *baptizo* mewn nifer fechan o amgylchiadau, yr hyn sydd yn beth digon adnabyddus i ysgrifenyddwyr, fel y dangoswyd mewn rhan,

ac y dangosir yn mhellach yn yr adran ganlynol.

5. Nid yw yr ystyr anmherthynasol a gyssylltir â gweithredair moddol yn achlysurol yn newid ystyr gwreiddiol y gair hwnw, nac yn ychwanegu at ei arwyddocâd cyntefig; ond yn hytrach yn grymysu neu brydferthu yr ymadrodd yn yr hwn yr arferir ef, ac efallai yn ateb rhai dybenion ereill. Defnyddir y gair Saesneg *dipping*, er enghraifft, mewn ystyr anmherthynasol yn y frawddeg, "*I have had a dipping*" (cefais drochiad), pan fyddo dyn wedi cael gwlychiad trwm mewn, neu gan wlaw; ond nid yw hyn yn rheswm dros roi *to pour, to sprinkle, to purify, &c.*, gyferbyn â'r gair *dip* mewn Geiriaduron i'w esbonio; ac y mae yn ddiaua na fu geiriadurwr erioed yn ddigon ynfyd i'w defnyddio i'r dyben hwnw. Rhoddir i *dipping* yn yr enghraifft uchod ystyr nad yw yn perthyn iddo, i'r perwyl o rymusu yr ymadrodd, neu ddangos y cyflawnder o wlaw a ddisgynodd ar y person a'i defnyddia; a'r ffaith nad yw ystyr priodol y gair yn berthynasol i'r amgylchiad yw y rheswm dros ei ddefnyddio fel y gwneir. Beth sydd yn afresymol yn hyn? Pan ddywedir fod dyn wedi trywanu, neu ladd ei hunan â chleddyf, neu wedi cael ei drywanu gan arall; cyflëir, nid yn unig y meddylddrych o ladd, ond hefyd y dull o ladd, sef, trwy gymhwyso y cleddyf at y corff, ac nid y corff at y cleddyf. Ond darfu i Saul a'i yswain (1 Sam. 31. 45) *syrrhio* ar eu cleddyfau, yn hytrach nâ brathu eu hunain, fel y gwneir gan hunan-leiddiaid yn gyffredin; er hyn, nid oes un geiriadurwr Cymreig mor ffôl a rhoddi *syrrhio* ar *gledddyf* yn ystyr i'r ferf trywanu, o herwydd yr eithriad hwnw, nac un geiriadurwr Seisnig yn rhoi "*to fall on a sword*" yn ystyr i "*transfix*," a "*stab*." Trywanodd y ddau eu hunain mewn ffordd *anarferol*—yn eithriadol i'r llwybr cyffredin; ond nid oedd y weithred eithriadol hono yn rhoi ystyr *newydd* i'r ferf trywanu, nac yn dyfetha neu yn newid yr ystyr cyntefig. Sylwasom fod "*bathed in tears*," "*bathed in perspiration*," mewn arferiad mynych; ond pwy sydd mor ddireswm a haeru oblegid hyn fod "*to perspire*," a "*to shed tears*," yn ystyrion i'r perwyddiad "*bathe*?" Os yw geiriau i'w deall yn eu hystyrion *cyffredin* ac *adnabyddus*, fel y sylwa Syr W. Blackstone—"Nid yn gymmaint gyda golwg ar briodoldeb gramadeg, ag ar eu defnydd cyffredin a phobl-



ogaidd," gwna "barn a llafar gwlad" sefydlu ystyr foddol amryw eiriau. Y mae cryn wahaniaeth rhwng crogiad Ahithophel (2 Sam. 17. 23), a chrogiad Absalom (2 Sam. 18. 10); ond pan yr ydym yn siarad am ddyn wedi cael ei grogi, crogiad o'r un fath ag eiddo y blaenaf a olygir mewn siarad cyffredin—cyfeirir at y *modd* neu y *dull* y dygwyd ei fywyd oddiarno, ac nid oes neb mor amddifad o reswm a haeru mai ei grogi wrth ei wallt mewn derwen a gafodd, oblegid mai felly y crogwyd Absalom, er fod gradd o debyg-olrwydd rhwng y ddau grogiad. Pe gofynid i'r dyn mwyaf anlythyrenog, beth yw ystyr y gair crogi, rhoddai atebiad priodol i'r cwestiwn; a phe ammheud ef gan ryw un, trwy ddweyd mai hongian dyn wrth ei wallt yw crogi; neu, pe ceisid ei ddarbwylllo fod hyny *hefyd* yn grogi (deallir mai nid yn llys y geiriadurwyr, ond yn y "*court of public opinion*" yr ydym yn awr), tosturiai yr atebydd anwybodus wrth yr ammheuw'r a'r esboniwr. Y mae boddi dyn, neu ryw greadur arall, yn fodd-air hefyd (yn marn gwlad), yr hwn a arwydda *ddull* neu fodd pennodol o ddwyn bywyd, sef achosi iddo *soddi* mewn dwfr, er mai nid felly y boddwyd Pharaoh a'i filwyr, a llawer ar eu hol. Er fod boddi trwy orchuddiad yn gystal a thrwy *soddiad*, nid yw hyny yn peru i'r *public* roi ystyr *newydd* i'r gair boddi, nac i newid ei ystyr gwreiddiol chwaith. Gorchwyl hawdd fyddai cyfeirio at luoedd o eiriau cyffelyb.

Profwyd yn y tŷ dalenau blaenorol fod *baptizo* yn berwyddiad moddol (*modal verb*) cyn Crist ac yn ei amser, a dangoswyd hefyd y byddid weithiau yn cyssylltu âg ef yr ystyr amherthynasol o orchuddio, fel y gwneir yn bresenol â "*dipping*," "*to bathe*," ac amryw eiriau ereill. Y pwne, gan hyny, ydyw, nad ydym i olygu yr ystyr amherthynasol o orchuddio a gyssylltid weithiau â'r gair *baptizo*, yn ystyr newydd a phriodol i'r ferf foddol (*baptizo*) y cysylltid ef â hi, ac nad ydym i feddwl chwaith fod y defnydd achlysurol hwn a wneid o'r ferf, yn dileu neu yn dyfetha ei hystyr cyntefig (trochi), neu yn ei newid o fod yn un foddol i fod yn ferf rywiaethol (*generic*) neu gyffredinol, yr hon nad yw yn dynodi unrhyw ddull pennodol. Os nad yw "*bathed in perspiration*" (trochedig mewn chwys), a "*bathed in tears*" (trochedig mewn dagrau), yn ystyrion i'r berwyddiad "*to bathe*" (baddo), ar yr un tir y nacëir i orchuddiad (nid

tywallt na thaenellu cofier) yr anrhydedd o gael ei wneyd yn ail ystyr i'r gair *baptizo*.

Os nad yw "*dipping*" gan gawod o wlaw yn ystyr newydd i "*dip*;" ac os nad yw bod yn foddedig mewn chwys neu ddagrau yn ystyr newydd i baddo, diau fod y cyfeillion a ymdrechant wneyd gorchuddio gan ddwfr yn ail ystyr i *baptizo*, yn meddu *nerve* ag sydd yn deilwng o well achos—meddant fwy o benderfyniad i geisio nag o allu i gwblhau. Nid yw'r gair "*dipping*" o dan gawod o wlaw, yn gwneyd y modd-air *dip* yn *generic word*; ac nid yw bod yn foddedig mewn chwys ac mewn dagrau, yn difodi nodwedd foddol baddo (*to bathe*); ac ar yr un tir y dywedwn ninnau heb ofni gwrthwynebiad llwyddiannus, nad yw y ffaith o fod y brwyn y cyfeiria Aristotle atynt yn cael eu bedyddio trwy *orchuddiad* yn dyfetha nodwedd foddol y perwyddiad *baptizo*. Nid yw arferiad gair mewn ystyr amherthynasol ond eithriad i'r rheol gyffredin, ond nis gall eithriad nac eithriadau, ddifodi na chyfnewid y rheol ei hun.

Gan fod llyfr Dr. Conant (*Meaning and Use of Baptizein Philologically and Historically Investigated*) yn rhan bwysig o lenyddiaeth bedydd yn y blynyddau hyn, yr ydym yn dyfynu y sylwadau canlynol o eiddo un ysgrifenydd manwl arno, gan obeithio y tueddant lawer o Daenellwyr ymchwilgar a gonest i ddarllen cyfansoddiad ysgolbeigaidd y Dr. American-aidd hwn. Bydd y fath ymddygiad yn sier o ateb gwell dyben nâ darllen a gwrandaw haeriadau disail a chywilyddus brawdoliaeth y chwech ystyr a deugain!!!

"Y mae Dr. Conant, o ran dysg a thalent, yn sefyll yn y rhes flaenaf yn mhilith enwogion America. Mae ei wybodaeth ieithyddol a chlasurol yn eangach a dyfnach nag eiddo nemawr neb o'i gyfoedion yn yr oes hon. Mae ef yn cymmeryd rhan bwysig gyda'r *American Bible Union*—cymdeithas a sefydlwyd er rhoddi i'r byd gyfieithiad tēg, gonest, cywir, a chyflawn o'r Ysgrhythrau yn yr iaith Saesneg. Mae y traethawd sydd yn awr o'n blaen wedi ei gyhoeddi er cyflawnhau yr Undeb yn ei waith yn *cyfieithu* y gair *Baptism* yn hytrach nâ'i drosi fel ag y gwnawd gan gyfieithwyr y cyfieithiad awdurdodedig. Mae y Dr. dysgedig wedi myned i mewn i'r manyldra mwyaf. Nid oes yr un agwedd o'r cwestiwn wedi ei adael heb y driniaeth fwyaf llwyr a chyflawn. Mae cynllun yr awdwr yn gyfryw ag sydd yn sier o rodidi y boddhad mwyaf i'r darllen-



ydd Saesneg yn unig, yn gystal a'r ieithwyr mwyaf dysgedig. Y mae yn y lle cyntaf yn rhoddi enw yr awdwr, yna yn nodi y llyfr, y bennod, a'r ddosran yn y bennod; ac mewn nodyn, gesyd allan yr amser ag oedd yr awdwr yn ysgrifenu. Er gwneyd y dyfyniadau yn fwy dealladwy, y mae yn egluro yr amgylchiad dan ba un yr ysgrifenydd. Un enghraifft yn siampl o'r lleill oll; dyma y cyntaf:—

"Polybius,\* *History*, book i. chap. 51. 6. In his account of the sea-fight at Drepanum, between the Romans and Carthaginians, describing the advantages of the latter in their choice of a position, and in the superior structure and more skilful management of their vessels, he says,

"For, if any were hard pressed by the enemy, they retreated safely, on account of their fast sailing, into the open space; and then with reversed course, now sailing round, and now attacking in flank the more advanced of the pursuers, while turning and embarrassed on account of the weight of the ships, and the unskilfulness of the crews, they made continued assault, and SUBMERGED (baptized) many of the vessels."

"Wedi rhoddi yr enghraifft fel yna yn y Saesneg, mae ar waelod y ddalen yn rhoddi y dyfyniad yn y wreiddiol, yn mha iaith bynag y bydd yn dyfynu o honi. Fel hyn y mae yr ysgolor addfed yn cael pob chwareu tēg i farnu cywirdeb a thegwch y cyfieithiad; ac os myn, gall gario ei ymchwiliad yn mhellach, trwy droi i'r llyfrau eu hunain, er edrych a barnu drosto ei hun am onestrwydd a fflyddlondeb y dyfyniadau o weithiau y gwahanol awduron.

"Mae yr awdwr wedi rhanu y gwaith hwn i naw o ddosraniadau. Mae y cyntaf o'r rhai hyn yn olrhain y gair trwy holl feusydd llenyddol Groeg am ddwy fil o flynyddau, gyda gweithiau awdurol y tadau Cristionogol, *pan nad oes yn y cyssylltiad unrhyw gyfeiriad at yr ordinhad Cristionogol*. Mae yr enghreifftiau a gymmer o weithiau awdurol y Groegiaid yn unig yn agos i ddau cant. Maent wedi eu cymmeryd o lyfrau ysgrifenydd yn mhob cangen o lenyddiaeth a chelfyddyd; o weithiau awdurol y beirdd, areithwyr, athronwyr, beirniaid, haneswyr, daearyddwyr; o lyfrau dynion yn ysgrifenu ar amaethyddiaeth, meddyginaeth, gramadeg, duwinyddiaeth; hefyd o blith pob rhyw ffurf

o gyfansoddiad, megys ffug-chwedlau, epistolau, areithiau, awdlau, pennillion, pregethau, traethodau; mae hefyd wedi cymmeryd yr enghreifftiau o blith awdwyr o bob gwlad a barn dan y nef—Paganiaid, Iuddewon, a Christionogion. Ac yn yr holl faes hwn, er mor eang, ac ar ol yr ymchwiliad mwyaf manwl, nid oes modd cael un—dim cymmaint ag un siampl o'r gair yn golygu dim amgen nâ throchi neu suddo y gwrthddrych mewn elfen, neu fod y gwrthddrych yn cael ei drochi trwy gael ei orchuddio gan yr elfen. Cofier yma,—nid oes un cyfeiriad at yr ordinhad; felly, nid oedd yma yr un amcan i ddefnyddio y gair i foddio unrhyw blaid yn y byd. Ond y mae holl lenyddiaeth Groeg am ddwy fil o flynyddau wedi cael ei chwilio, er mwyn cael gweled pa fodd yr oedd y Groegiaid eu hunain yn deall, ac yn defnyddio y gair. A dedfryd holl lenyddion Groeg, heb gymmaint ag un eithriad, yw hyn,—Mae y gair yn gyfryw ag sydd yn golygu gwrthddrych yn cael ei orchuddio mewn elfen; a gellir ei gyfieithu i'r Saesneg â'r geiriau *immerse, dip, plunge*; i'r Gymraeg, trwy y geiriau *trochi, suddo*; ac nas gall, dan unrhyw amgylchiadau neu mewn unrhyw gyssylltiad, olygu *tywallt*, neu *daenellu, puro* na *glanhau*; ond mor bell ag y bydd y buredigaeth neu y glanhad yn cael ei effeithio trwy drochiad yr holl gorff yn y dwfr.

"Yn Nosran II., mae yr awdwr yn gwneyd ymchwiliad manwl i arferiad y gair yn y cyfieithiad Groegaidd o'r Hen Testament. Yna cawn ddosran ar arferiad y gair yn y geirlyfrau a'r gramadegau. Yna ei gymhwysiad yn y Testament Newydd. Yn nesaf, ei arferiad gan y Tadau Cristionogol. Sylwa yr awdwr yn Nosran VI., ar reolau a gofynion yr eglwysi Cristionogol; yr eglwys Roegaidd, Lladinaidd, ac eglwys wladol Lloegr. Daw dan sylw yn nesaf y cyfieithiadau a wnaed o'r Testament Newydd, yn cynnwys pedwar dosparth,—yr Hen Gyfieithiadau Lladinaidd, yr hen gyfieithiadau Dwyreiniol, y rhai Teutonaidd, yn gystal a'r rhai diweddar, ag sydd wedi eu gwneyd er mwyn yr ysgolheigion. Mae yn ffaith bwysig fod pob cyfieithiad diweddar a fwriedir i'r *dysgedigion*, yn cyfieithu y gair i air cyfystyr â throchi neu suddo; mae y cyfieithwyr yn gwybod mai sarhad fyddai cynnyg i ysgolor unrhyw gyfieithiad arall; ond am danom ni, y werin, gwna Beibl amherffraith ein tro. Cymmerwn yn siamplau y rhai hyn o blith llawer:—Cyfieithiad y Testament Newydd i'r Lladin gan Schott, yn 1839; cyfieithiad

\* "Born 205 before Christ."



yr Efengylau gan y Proffessor Campbell o Scotland; yr Epistol at y Rhufeiniaid gan Fritzehe; a chyfieithiad o Efengyl Mathew gan Kuinoel. Mae yr awdwr dysgedig yn Nosran VIII. yn galw yn mlaen *leng* o ddysgedigion o bob oes, o bob enwad, o bob iaith, a phob gwlad, y rhai ydynt un ac oll yn tystio ar eu gair gwir mai *trochi* neu *suddo* yw ystyr y gair *baptizo*, ac nad oes iddo unrhyw ystyr arall; ac os oes rhyw Gymro dysgedig (?) yn dywedyd yn amgen, y mae yn gwneyd hynny naill ai am nad oes oleuni yn ei ben, neu am fod drygioni yn ei galon. Y casgliadau a dynir oddiwrth yr oll gan Dr. Conant yw, y dylai y gair *Baptisein*, fel pob gair arall yn y Beibl, gael ei gyfieithu, er rhoddi Beibl cyfan i'r darlennydd unieithog.

"Mae y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu yn yr ysbryd mwyaf boneddigaidd a Christionogol. Nis gellir casglu oddiwrth unrhyw frawddeg ynddo fod y fath beth a *gwa-hanol* enwadau yn y byd. Nid oes yma y cyfeiriad pellaf at un enwad yn y byd. Ond mae yr awdwr dysgedig wedi olrhain y gair yn ei holl dreigliadau, a thu hwnt i unrhyw amheuaeth wedi sefydlu ei feddwl am byth yn marn pob dyn pwylllog ac ymofyngar am y gwir. Mae yr awdwr wedi llwyr ddiyspyddu y pwnc, mor bell ag y mae meddwl y gair yn myned." (*Seren Cymru*, Chwef. 20, 1862.)

Y mae'r darlennydd yn gwybod mai nid y cwestiwn, a ydyw *suddo* neu *drochi* yn ddull priodol o weinyddu bedydd yw y pwnc, nac ychwaith, a raid cael y peth a fedyddir i'r elfen fedyddiadol mewn trefn i'w fedyddio, oblegid darfu i Dr. Halley\*

\* Y mae Dr. Halley yn sefyll yn uchel iawn; cydnabyddir ef yn athraw o ddawn a dysg, yn ysgolhaig a gwr boneddig. Y mae ei olygiadau ef ar fedydd yn bwysig. ebe'r Parch. Thomas Price, gan eu bod wedi eu rhoddi yn nghofres y *Congregational Lectures*, yr hyn sydd ar unwaith yn gosod arnynt werth enwadol. Y mae Dr. Halley wedi llafurio yn galed iawn dros y "taenellu," a thros y "taenellu ar fabanod," ac wrth wneyd hynny y mae wedi chwilfrwio yn agos yr *oll* o'r hen amddiffynfeydd ag oedd gan ei flaenreddegwyr yn ochr y taenellu ar fabanod. Ond er ei holl ddysg a'i lafur y mae yn gadael y pwnc yn hollol amhenderfynol. Y cwbl a ofyna yw hyn—Fod i'r Bedyddwyr "addef fod rhyw werth mewn *rhyw ddull* o fedyddio heblaw trochi;" y mae efe yn cydnabod fod trochi yn fedydd," ac y "gallasai yr apostolion fedyddio eu proselytiaid Iuddewig yn unol âg arferiad eu cenedl (sef, trwy drochiad), o berwydd fod y dull hwnw y mwyaf addas, ac yn gyffredin y mwyaf cyfleus." Yr arferiad y cyfeirir ati yma oedd, bedydd y proselytiaid cyn amser Ioan, ebe efe. "Yr ydwyf yn teimlo yn rhwym mewn teg- wech i addef," medd efe, "fod y bedydd Iuddewig

ateb y naill a'r llall o'r ddau gwestiwn hyn yn gadarnhaol; ond yn hytrach, a ydyw y *dull*, sef doddi y peth, neu y person, *meion* dwfr, ac nid ei orchuddio gan ddwfr, yn *hanfodol* i weinyddiad yr ordinhad? ac os ydyw, a oes rhywbeth yn natur y gair *baptizo* yn peru ei fod felly? Gan fod yr enghreifftiau a ddyfynasom yn profi mai trochi neu suddo yw ystyr y gair,—mai yn eithriadol yr arferid ef i ddynodi gorchuddio; ac os nad yw eithriad yn dinstrio nac yn newid rheol, y mae *baptizo* yn weithredair *moddol*, ac fel y cyfryw yn profi fod trochi yn *hanfodol* i weinyddiad y bedydd Cristionogol. Dyweder a fyner am fedydd trwy orchuddiad, y mae ein cyfeillion goleuedig a gonest (nid gwyr y deugain neu yr hanner cant ystyr—*debio*, *tynu dwfr*, *yfed llawer*, *ystaenio*, *taenellu*, *golybnaewio*, &c.), sef Halley a'i ddysgyblion, wedi dwyn y ddadl eiryddol i gyloch bychan mewn cymhariaeth; ac os nad oes dim yn afreymol mewn cymharu un dull o wlychu brwyn, &c., ar lán y môr (neu beru iddynt fod mewn dwfr), o herwydd ei helaethrwydd, i ddull arall, yr hwn sydd yn cyfleu yr helaethrwydd mwyaf, y mae ystyr *baptizo* yn sefyll, a'r fantol yn troi o ochr y Bedyddwyr. Os oedd y brwyn pan yn orchuddiedig gan y llanw, a'r anifeiliaid ar lanau y Nilus, yn *debyg* i bethau wedi eu soddi mewn dwfr, yn erbyn pa reol ieithyddol y troseddtrwy ddwyed eu bod yn fedyddiedig? Yr oedd y tebygolrwydd rhyngddynt hwy yn y cyflwr hwnw, a pheth wedi ei soddi yn y dull cyffredin, yn fwy o lawer nâ'r tebygrwydd rhwng dyn mewn llawer o chwys a dagrau ("*bathed in tears*," and "*bathed in perspiration*"), a dyn yn faddedig mewn baddon. Gan nad yw y chwys a'r dagrau, fel y sylwasom, yn ychwanegu at ystyr gwreiddiol "*to bathe*," nac yn dyfetha ei nodwedd foddol, nid yw gorchuddiad llestr ar y môr gan y tonau, gorchuddiad y brwyn yn ei ymyl gan y llanw, na boddiaid yr anifeiliaid ar lán y Nilus, yn ychwanegu at ystyr *baptizo*, nac yn newid ei natur fel moddair. Y mae'r ymresymiad yn hunaneglur, fel na theimla yr ysgrifenydd ei hun o dan rwymau i neb am ei dderbyn. Os caniatêir y

i broselytiaid trwy drochiad. O hyn nis gall fod un amheuaeth resymol pa bynag" (*Sac.* part i. p. 309). Dyma addefiad Dr. Halley. Hysbysa yr athraw dysgedig ni, ei fod yn rhwym mewn *tegwech* i wneyd yr addefiad. ("*Trochiad yn y Bedydd Cristionogol*," gan y Parch. Thomas Price, *Aberdar*.) Dylai y llyfr rhagorol hwn, a "*Bapto a Baptizo*" gan yr un awdwr medrus, fod yn fwy adnabyddus nag y maent.



cynseiliau, y mae'r casgliad yn anochel-adwy.

Ceisia rhai geiriadurwyr gyssylltu yr ystyr o *olchi* â'r gair; ond ni ellir profi y pwnc trwy un enghraifft allan o awduron Groegaidd; ac arferiad y gair gan y Groegiaid, fel y caniatêir, yw yr unig awdurdod anffaeledig (gwel *Baptizein* gan Dr. Conant). Gair cyffredinol yw golchi, ac un yn dynodi *dull* o wneyd hyny (os bydd yr elfen yn bur) yw suddo neu drochi. Ai nid hynyna yw dedfryd synwyr cyffredin? Yr *achos* yw trochi, a'r *effaith* yw golchi. Beth sydd yn fwy rhesymol?

Yn gymmaint a bod rhai geiriaduron yn rhoi golchi a gwlychu yn ystyrion i *baptizo*—yn rhoi yr effaith am yr achos, casgla amryw fod gwlychu a golchi yn ystyrion iddo, ac y gellir bedyddio (*baptizo*) gan hyny trwy daenellu neu dywallt. Nid oes un gair yn ddiogel os trafodir ef ar yr egwyddor Jesuitaidd hon. Gellir perui *dip* i arwyddo tywallt neu daenellu yr un modd. Rhoddir i *dip* chwech neu saith o ystyrion (*meanings*) yn y geiriaduron Seisnig—*immerge, to put into any liquor, moisten, wet, engage in any affair, engage as a pledge, to sink*. Golyger fod *dip* yn cael ei drosi i'r French fel y troswyd *baptizo* i'r Saesneg, a bod Ffrancwr dysgedig (?) yn cymmeryd arno i brofi mai nid ystyr gwreiddiol *dip*, yw trochi, o herwydd y *meanings* yn Walker's, &c., ac y gellir trochi dyn yn ol ystyr y gair trwy dywallt neu daenellu, neu gymhwyso yr elten at y gwrthddrych. Gallai haeru fod *wet* a *moisten* yn mysgr ystyrion gan Walker, ac y gellir gwlychu a lleitho trwy daenellu. Chwarddai y Sais mwyaf anllythyrenog am ei ben; ond ar yr egwyddor hon yn hollol yr ymlwybra y Taenellwyr Thornaidd yn nadi *baptizo*. Y mae cadach gwddf (*neckcloth*) yn cael ei sythgaledu (*stiffened*) trwy ei drochi mewn *starch*, haiarn yn cael ei galedu trwy ei soddi mewn dwfr, a theisenau (*biscuits*) yn cael eu meddalhau trwy eu trochi mewn gwin. Nid yw sythgaledu, caledu, a meddalhau, ond effeithiau y weithred o drochi; ac nid oes un geiriadurwr mor ffol a dodi caledu a meddalhau yn ystyrion i'r gair Cymraeg trochi; oblegid hyny erys ystyr y gair hwn yn ddigysfnewid, pa effeithiau bynag a gynnyrchir ganddo neu trwyddo. Ar yr egwyddor mewn arferiad cyffredin, y mae yn debyg, y gwna rhai geiriadurwyr roi *wet* a *wash*, yn ystyrion i *baptizo*, a'r Saeson roi *moisten* a *wet* gyferbyn a *dip*, sef, rhoddi yr effaith am yr achos. Os yw yr holl

effeithiau a gynnyrchir gan, neu trwy ferfau, i gael eu golygu yn ystyrion i'r perwyddiaid hyny, ffolieub yw sôn am ystyr geiriau rhagllaw, ac ynyfdrwydd yw siarad am y fath *nondescript* a ieithyddiaeth. Bydd yn angenrheidiol cyfeirio yn fyr at y pwnc hwn etto, ar un o'r tudalennau nesaf.

Amcana y rhai a fynant gael golchi yn ystyr i *baptizo*, sylfaenu eu tybiaeth ar Marc 7. 4; Luc 11. 38, lle y sonir am ymolchi cyn bwyta; ond y gwir yn fyr yw, mai golchiad mewn canlyniad i soddiad neu drochiad oedd hwnw, a bod ein cyfieithwyr wedi gosod yr *effaith* am yr achos—dim mwy na dim llai. Dywed y Doctoriaid Lightfoot a Campbell, mai cyfeiriad sydd yma at drochiad y dwylaw trwy yr hyn y golchent hwynt. Dywed y dysgedigion hyn, y byddai yr Iuddewon yn tywallt dwfr ar eu dwylaw cyn bwyta, ac yn eu trochi wedi dod o'r farchnad. Y farn gyffredin a mwyaf tebygol ydyw, y byddent yn golchi eu dwylaw cyn bwyta, ac yn trochi yr holl gorff wedi dod o'r farchnad neu o dyria o bobl. "Yr oeddynt," ebe Grotius, "yn ymburo gyda mwy o ofal ar ol halogi eu hunain yn y farchnad; nid yn unig trwy olchi eu dwylaw, ond hyd y nod trwy drochi eu holl gorff." Coledda De Wette yr un golygiad a Grotius. Meyer yn ei "*Manual on the Gospels of Mark and Luke*," a ddywed,—“Nid yw y geiriau yn Marc 7. 4 (*eon me baptizontai*) i'w deall am *olchi* y dwylaw, ond am y trochiad, yr hyn a olyga y gair bob amser yn y prif awduron (*classics*) a'r Testament Newydd; hyny yw, yn ol y cyd-destunau, ymdrochi (*the taking of a bath*). Felly hefyd Luc 11. 38. Wedi dyfod o'r farchnad, lle yn mhlith torfeydd o bobl y gallent ddod i gyffyrddiad â phersonau, nid ydynt yn bwyta, oddieithr iddynt yn gyntaf ymdrochi. Y mae'r disgrifiad yn myned rhagddo yn ol esgyniaith (*climax*); cyn bwyta, y maent bob amser yn *golchi eu dwylaw*; ond yn *ymdrochi* pan y deuant o'r farchnad, ac yn awyddus i gymmeryd bwyd.” Y mae yr Ysgrhythyr yn profi y byddai yr Iuddewon yn puro eu hunain trwy ymdrochi (Lef. 15, 5, 16; Lef. 22. 6), a chyfeiria Josephus a Tertullian at eu harferiad o ymdrochi.

Y mae rhai pethau i'w hystyried mewn cyssylltiad â'r golchiadau dan sylw:—(1.) Y mae Marc yn esbonio arferion Iuddewig yn fanwl i'w ddarllenwyr, oblegid mai at wasanaeth dychweledigion



Rhufeinig yr ysgrifennai. (2.) Rhaid i ni gofio am y cyfarwyddiadau a roddwyd gan Iago i awdwyr y Cyfieithiad Cyffredin, at y rhai y cyfeiriasom. (3.) Fod geiriadurwyr a chyfieithwyr yn defnyddio geiriau moddol a rhai cyffredin (*generic*) lawer pryd yn gyfystyr, yr hyn sydd yn esgeulusdra i'w gondemnio mewn beirniadaeth fanwl. (4.) Pa un bynag ai at yr *holl* gorff, ynte at ran o hono, y cyfeiria *baptizantai* yn yr adnodau dan sylw, y mae ystyr y gair, trochi, tu hwnt i ammheuaeth resymol, yn ol oraclau y Taenellwyr eu hunain, sef, Lightfoot, Campbell, &c. (5.) Y mae'r ffaith o fod *nipito* (golchi) yn cael ei arfer yn Marc 7. 2, 3; ac mai *baptizantai* (*ymdrochi*) sydd yn y bedwaredd adnod, yn cadarnhau y syniad y dadleuwn drosto. Arferid *nipito* am olchi *rhan* o'r corff, y dwylaw neu y gwyneb (Math. 6. 17; 15. 2; Ioan 13. 5), a *baptizo* am olchi yr *holl* gorff. Y mae yn anhawdd gwybod pa beth sydd yn aneglur yn hyn, os nad oes syniad neillduol i'w amddiffyn trwy geisio ammheu.

Bernir nad yw yn debygol y byddid yn trochi y llestri, y byrddau, &c., ac mai eu taenellu yr oeddylt. Y mae'r nodiadau canlynol yn hawlio ystyriaeth ar y pwnc mewn dadl. 1. Yr oedd golchi llestri trwy eu soddi, yn rhan o'r ddeddf seremoniol (Lef. 11. 32). 2. Y mae hanesiaeth eglwysig yn cydgordio â'r Beibl ar y pwnc. "Y gyfraith Hebraidd ydoedd hon," ebe Maimonides:—"Pob arian, pa un bynag ai dynion ai llestri, ni lanheir hwy ond trwy drochiad mewn dwfr; a pha le bynag y mae'r gyfraith yn sôn am olchi cnawd dyn, neu olchi dillad oblegid aflenid, y mae hynny trwy drochi yr *holl* gorff ynddo" (*Ainsworth's Annotations on Lev. 11. 32*). 3. Dylid ystyried yn mhellach, y byddai llawer o'r Iuddewon yn arfer seremoniau na ordeiniasid mo honynt gan Dduw:—"Gan ddal traddodiad yr *hynafiaid*" (adn. 3). Pan ddechreuo dynion ddyfeisio seremoniau crefyddol, nid oes braidd bendraw ar eu hynfydrwydd, fel y mae dynion goleuedig mewn hanesiaeth yn gwybod. Y mae yn dra thebyg mai camddefnydd ofergoelus o'r gorchymyn yn Lef. 11. 32, oedd golchi y byrddau a'r gwelyau. 4. Ystyr y gair *kline*, a gyfieithir byrddau yn y cyfieithiad cyffredin, yw gorseddfainc—a *table-seat*, math o *sofa*, ar yr hon y gallai dyn eistedd a lled-orwedd. Y mae yn ffaith y byddai yr Iuddewon yn tynu hyd y nod

y rhai hyn yn ddarnau oddiwrth eu gilydd, ac yn eu trochi.\* 5. Nid oedd mor anhawdd trochi gwelyau ag y myn rhai Taenellwyr i ni gredu. Yn *Bagster's Bible* ar 1 Sam. 19. 15, ceir y disgrifiad canlynol o honynt:—"Yr oedd y gwelyau dwyreiniol yn cael eu gwneyd i fyny oddau frwydyn cotwm (*quilt*) trwchus, un o ba rai, wedi ei blygu yn ddwbl, a wasanaethai fel *matras*, a'r un arall yn wrthban, neu gwrlid (*covering*). Onid oes pethau o'r fath yn cael eu defnyddio weithiau yn y wlad hon, y rhai a drochir mewn dwfr pan olchir hwynt? Gallasai yr Iuddewon olchi yr eiddynt hwy yn Nghanaan gyda llai o anfantais, o gymmaint a bod gwres yr haul yn gryfach yno nag yma, fel y gellid eu sychu mewn llai o amser. (Cytuna'r hanes hwn â Math. 9. 6.) Ni ddywedir pa mor fynych y golchid y rhai hyn; efallai mai unwaith mewn blwyddyn. Dywed Josephus am aelodau un sect, y rhai a ymolchent trwy drochiad bob dydd.

Dyma ni bellach wedi darfod âg ystyr *baptizo* fel y deallid ef gan yr hen Roegiaid. 1. Cawsom ef yn air *moddol*—gair yn arwyddo *dull* pennodol o osod un peth mewn peth arall. Ni wna arwyddo hyd y nod orchuddio (fel rheol, ond yn eithriadol) na golchi, a gadael o'r neilldu daenellu, puro, yfed llawer, dwbio, ac ystyrion rhyfeddol ereill y gwna rhai duwinyddion? ddadlen drostynt. Ni fyn ddwbio, sefyll fel pawl, yfed llawer nac sychdig, ond saif yn anhyblyg, fel y sylwasom, i arwyddo trochi neu suddo. 2. Yn ngwyneb y sylwadau blaenorol, nid rhyfedd fod dosparth lluosog o Daenellwyr dysgedig yn caniatáu nad oes iddo ond un ystyr, ac nad yw dau ddosparth o'r pedwar a nodir yn y *Gwyddionadur* yn ceisio ei gymhorth i amddiffyn taenelliad. 3. Byddai yn ddoethach i foneddigion y dwbio, y panu, yr yfed llawer, y taenellu, &c., uno â'r dosparthiadau lluosog a pharchus a geisiant ymgynnal heb ei gynnorthwy? 4. Gan fod y gair yn arwyddo *dull*, fel y profwyd, nid yn unig y mae trochiad yn ddull (fel y caniatâ Taenellwyr uwch na dosparth y dwbio a'r panu), ond efe hefyd yw yr *unig* ddull—y mae yn *hanfodol* i weinyddiad yr ordinhad, os nad oes gan ein cyfeillion hawl i newid y trefniadau apostolaidd.†

\* "The later Jews even directed that the framework of their couches should be taken in pieces and dipped."—(*The Annotated Paragraph Bible, on Mark 7. 4, Rel. Tract Society.*)

† Pan y mae Dr. Halley yn dweyd mai trwy drochiad y bedyddid y Proseltytiaid Iuddewig, ac



Un o'n hegwyddorion sylfaenol yn yr erthygl hon ydyw, rad oes; o ganlyniad, trwy drochiad, ac nid mewn un dull arall, y mae bedyddio, oddieithr i'n cyfeillion allu profi ddarfod i'r apostolion ddefnyddio *baptizo* mewn ystyr gwahanol i bawb ereill, yr hyn a gondeimnir gan un o'r canonau blaenorol.\*

Wedi chwilio llenyddiaeth Groeg a'r *Septuagint*, y mae Dr. Conant yn rhoi crynodeb o ganlyniadau ei ymchwiliad fel y canlyn. Ni wnawn ond rhoi talfyriad o'i sylwadau er mwyn byrddra:—1. Oddiwrth y siamplau blaenorol y mae yn ymddangos mai y meddylddrych sylfaenol (*ground-idea*) mynegedig yn y gair hwn yw, *rhoddi peth meun neu dan ddwfr* (neu ryw sylwedd treiddiadwy arall) fel ag i'w drochi neu ei suddo; fod y meddylddrych hwn bob amser yn cael ei fynegu yn nghymhwysiad llythyrenol y gair, a'i fod yn sail i'w arferiadau traws-symudol (*metaphorical*). Mynegir y meddylddrych sylfaenol hwn yn Saesneg, yn y gwahanol gyssylltiadau lle y defnyddir y gair, gan y termau cyfystyr (yn yr elfen sylfaenol hon) â throchi, suddo, claddu, &c. 2. Y mae'r enghreifftiau hyn wedi eu cymmyrdd o lyfrau yn mhob canghen o lenyddiaeth a chelfyddyd, o weithiau awdurol y beirdd, athronwyr, beirniaid, haneswyr, daearyddwyr, meddygon, hwsmonwyr, &c. (gwel tud. 53, nodiad), pan nad oes yn y cysylltiad unrhyw gyfeiriad at yr ordinhad

y gallasai yrapostolion fod yn bedyddio yr un modd o herwydd mai y dull hwnw oedd y mwyaf addas, ac yn gyffredin y mwyaf *cyfleys*; dywed:—"Yn ein hoed a'n hinsawdd ni, beth bynag, byddai cyfaddasrwydd yn hytrach yn rheswm dros daenellu neu dywallt" (*Sac. p. 309, sec. edit.*) Gwna'r Parch. Thomas Price, Aberdar, y sylwadau canlynol ar y dyfyniad uchod:—"Y mae ei reswm dros daenellu neu dywallt yn un grymus rhyfeddol—cyfaddasrwydd (*expediency*). Dichon fod hwnw yn rheswm digonol yn eich golwg chwî (ei wrthwynebydd). Ond nid dyna y rheol. Y mae y rheol yn bendant. Nid wyf etto wedi deall fod gan Dr. Halley a'i frodyr hawl i newid rheol bendant Mab Duw, er ateb cyfaddasrwydd oes a hinsawdd. Buasai yn fwy cyfleys i daenellu dwfr ar blant gynt na thêri y blaengroen; ond nid cyfleysdra oedd y pwnc. Yn hytrach, 'Beth a ddywed yr Arglwydd?' Cyfaddefwn yn rhwydd ei bod yn fwy cyfleys i daenellu na throchi; ond tra byddo y Nefoedd yn gorchymyn trochi, na ato Duw i ni ddadleu dros daenellu ar dir cyfleysdra. Gwell i ni gadw at y rheol na thafu anfrî ar ddoethineb Duw yn ngosodiad yr ordinhadau."—*Trochiad yw y Bedydd Cristionogol*; tud. 62-3, ail argraffiad.

\* Rhoddir i *baptizo* yr un ystyr gan y Deg a Thrigain hefyd; troer i 2 Bren. 5. 14; Job 9. 31; Sal. 69. 2; 9. 15; Isaiah 21. 4.

Gristionogol. 3. Yn yr holl enghreifftiau, y mae'r gair wedi cadw ei ystyr sylfaenol yn ddigyfnawid. O ddechreu llenyddiaeth Roegaidd hyd y diwedd (tymhor o tua dwy fil o flynyddau), ni chafwyd cymmaint ag un enghraifft, yn mha un y mae i'r gair un ystyr arall. Nid oes un enghraifft yn yr hyn y mae yn dynodi cymhwysiad rhanol o ddwfr trwy dywalltiad neu daenelliad, neu lanhau, neu buro, ar wahan oddiwrth drochiad llythyrenol, fel moddion glanhad neu buredigaeth. Pan ddywedir mai *rhan* o wrthddrych a drochwyd, cymhwysir y gair at y rhan hono yn unig, a gwneir y rhan arall yn eithriad, fel y dangosa'r Dr. trwy bump neu chwech o siamplau. 4. Darlunir y gwrthddrych yn cael ei drochi, neu yn suddo, neu y mae'r elfen suddiadol yn ei orchuddio. Am y blaenaf y defnyddir ef yn *gyffredin*, ond y mae *rhaf* enghreifftiau o orchuddiad (yna cyfeiria atynt). Yn yr arferiad traws-symudol a wneir o'r gair, defnyddir trochiad a gorchuddiad yn sail i'r defnydd cyffelybiaethol. 5. Y sylwedd trochiadol yn gyffredin yw dwfr; dyma'r elfen yn yr hon y cymmer y weithred le yn fwyaf cyffredin; ond y mae sylweddau ereill yn cael eu crybwyll (cyfeiria at yr enghreifftiau yma). 6. Y mae'r gair trochi a'i eiriau cyfystyr yn mynegu neu yn cyn-cynuwys llawn ystyr neu arwyddocad y gair Groeg *baptizein*.\* Golyga yn unig, rhoi mewn neu dan ddwfr (neu ryw sylwedd arall), heb benderfynu pa un a ydyw y gwrthddrych trochedig yn soddi i'r gwaelod, yn nosis yn y gwlybwr, neu yn cael ei gymmyrdd allan yn fuan. Nid yw y meddylddrych o ddadsuddiant (*emersion*) yn cael ei gynuwys yn y gair Groeg. Penderfynir hyn, nid gan y gair ei hun, eithr gan natur yr achos, a chan ddyben y weithred yn mhob amgylchiad neillduol. Pan osodir creadur byw o dan ddwfr heb fwriadu ei fodd, tynir ef allan o hono yn uniongyrchol wrth reswm; ac y mae hyn i gael ei ddeall yn mha le bynag yr arferir y gair gyda chyfeiriad at y fath achos neu amgylchiad. Ond arferir y gair Groeg hefyd pan osodir creadur byw o dan ddwfr gyda bwriad i'w fodd, yr hwn wrth reswm a adewir i fodi o dan yr elfen drochiadol. Cyfeiria at lu o siamplau yma etto, y rhai a eglurant ac a brofant y chweched gosodiad. 7. Arferid y gair gan y Groegiaid i

\* Deallod yr aunghyfarwydd, mai *baptizo* yw y ferf yn ei flurf wreiddiol, ac mai *baptizein* (*to baptize*) yw yn y modd annherfynol (*infinitive mood*), yr amser presenol.

ddynodi cyflawniadau a dygwyddiadau mwyaf adnabyddus bywyd cyffredin; sef, trochi gwlan mewn lliw, haiarn a dur mewn tân, cwpan mewn gwlybwr i'r dyben o yfed, gwêr mewn olew, darnau o erfin yn nwfwr y môr, &c., &c. 8. Cyfeiria at ddeg neu ddeuddeg o siamplau i'r dyben o brofifod y meddylddrych sylfaenol (*ground-idea*) yn cael ei gadw yn mhob amgylchiad y gwneir defnydd cyffelybiaethol o hono. 9. Mewn llenyddiaeth Roegaidd Gristionogol, y mae'r gair yn cadw ei ystyr gwa-haniaethol, a defnyddid ef yn fynych yn ei ystyr llythyrenol a thraws-symudol, a chyfeiria at saith ar ugain o'r siamplau dyfynedig ganddo i brofi ei osodiad. 10. Y mae yn rhoddi i ni ddeuddeg o siamplau yn y rhai y defnyddir ef mewn modd cyffelybiaethol yn hollol i ddynodi claddiad neu orchuddiad *mewn*, neu *d* dinystr, gofidiau, trallodion, dyoddefiadau, meddwod, &c., heb un cyfeiriad at ddwfr mewn ffordd o gyffelybiaeth.\*

Yn ngwyneb tystiolaethau mor eglur a phendant, y mae yn naturiol gofyn, trwy ba ystryw neu ystrywiau y ceisir gorlwytho y gair â deugain neu hanner cant o ystyrion? ac yn neillduol, trwy ba ddichellion yr amcenir gwneyd rhai o'r Bedyddwyr yn gyfrifol am danynt? Y peth cyntaf a wneir, yw haeru yn y modd mwyaf haerllug a digywilydd, mai nid trochi yw ystyr llythyrenol a gwreiddiol *baptizo*, eithr ys-taenio (*staining*), yr hyn sydd yn cau allan yn hollol y meddylddrych o drochi.† Wedi cael dyn digon rhyfygus i gamddarlunio awdwyr Groegaidd dysgedig a pharchus, trwy wneyd y fath haeriad anwreiddus, y drwg nesaf a gyflawnir yw, defnyddio *bapto* (i'r hwn y mae ail ystyr) a *baptizo* yn gyfystyr. Byddai yn dda genym gael ein hargyhoeddi mai nid rhyw-

\* "The Meaning and Use of Baptizein," p. 87—91. Byddai yn dda i weinidogion a myfyrwyr ein gwlad, o bob enwad, i ddarllen y llyfr hwn yn ofalus. Nid oes ynddo ddim o duedd i ddolurio teimladau neb; ond y mae ynddo drysorfa lawn o dystiolaethau pwysig, wedi eu caaglu gyda gofal a gonestrwydd. Yr ydym yn barnu y dylai darlleniad pwyllog ac ystyriol o hono ddarbwyll pob darlennydd diduedd—pob ymgeisydd am y gwirionedd, mai trochi yr holl gorff mewn dwfr yw bedydd y Testament Newydd, yn ol fel yr appwyntiwyd ef gan Grist. Gellir ei gael trwy anfon at *Trübner and Co.*, 60, *Paternoster Row*.

† As to its primary meaning (*baptizo*), I have no hesitation in asserting that it is not to dip. The sense they (ancient Greek writers) attach to it is that of staining, &c. . . . . clearly excluding the idea of dipping." (*Dipping is not Baptizing*, by the Rev. Wm. Thorn, p. 8.)

beth gwaeth nag anwybodaeth a difater wch yw'r achos o hyn. Dealler mai nid am Daenellwyr dysgedig a gonest fel Dr. Halley ac ereill yr ydym yn siarad, ond am y frawdoliaeth Winchesteraidd. Y mae ys-grifenu yn barchus am hon yn anhawdd iawn. Ar ol haeru peth nad yw wirionedd, rhaid gwneyd rhywbeth arall tebyg, mewn trefn i geisio ei wisgo â gradd o olygusrwydd. Y trydydd cam yn y gorchwyl crefyddol (?) hwn yw, cymmysgu achosion ac effeithiau wrth esbonio yr hyn a arwydda y gair, a gosod y *dyben* mewn golwg am y *modd* i'w gyrhaedd (gwel tud. 9). Rhoddwn ychydig o enghreifftiau. Un o'r ystyrion a roddir i baptizo gan Thorn yw,—eneinnio penwisg (*head-dress*) boneddiges ("anointing a lady's head-dress;" *Dipping is not Baptizing*, p. 8). Yma defnyddir y *dyben* am y *modd* i'w gyrhaedd. Y mae Mr. Wood yn cyfieithu y frawddeg o'r iaith wreiddiol fel y canlyn:—"Having dipped (*baptized*) the crown in ointment;" h.y., wedi trochi y goron mewn enaint. *Soddid* y goron, neu ran o honi, mewn enaint, i'r dyben o beru iddi arogl yn lyfryd, yr hyn oedd y *dyben* mewn golwg wrth wneyd hyn. Y mae'r person rhyfedd hwn yn rhoddi i'r gair hefyd yr ystyr o daenellu dwfr santaidd ("sprinkling holy water"). Gallai y darlennydd diosfal ac anwybodus feddwl fod hyn yn brawf pendant fod *baptizo* yn arwyddo taenellu, ond nid oes dim yn debyg i hyn yn yr ymadrodd gwreiddiol. Y mae'r frawddeg wedi ei chymmeryd o Jamblichus, yr hwn sydd yn ein hysbysu mai un o gyfarwyddiadau yr athronydd Pythagoras i'w ddysgyblion oedd:—"Peidiwch a throchi yn, neu i Periranterion." Y Periranterion oedd y llestr yn yr hwn y cedwid y dwfr santaidd a ddefnyddid i daenellu yn y seremoniau paganaudd; yr oedd yn angenrheidiol trochi rhywbeth yn y llestr hwn i'r dyben o daenellu rhan o'i gynnwysiad, fel y mae ein cyfeillion y Taenellwyr yn trochi eu bysedd mewn cawg (*basin*), i'r perwyl o daenellu dwfr ar y deiliaid. Yn y ddwy enghraifft hyn, fel mewn amryw enghreifftiau ereill, y mae Thorn yn ddigon beiddgar a digywilydd i roi *dybenion* y weithred o drochi yn wahanol ystyrion i *baptizo*! Nid oes eisieu gofyn a ydyw dichell mor orwael yn deilwng o weinidog yr efengyl.\* Ar yr egwyddor dwyllodrus

\* Caniatäer i ni ddyfynu sylwadau Mr. Wood ar ddichell Jesuitaidd Thorn, a hyn yn ei iaith ei hun. Gwel y llygadgraff nad gorchwyl hawdd yw eu cyfieithu heb eu niweidio:—"The fallacy of



hon y gwneir *panu* yn ystyr i'r moddair dan sylw. Gosodir y defnydd yn drochedig

Mr. Thorn's mode of interpreting passages to shew the meaning of certain words may be clearly seen by applying it to the English word *dip*. By the same mode a Frenchman might prove respecting *dip*, precisely what Mr. Thorn attempts to prove respecting *Baptizo*. The Frenchman reads in English books such sentences as these:—"The laundress having cleansed her cap, dips it into starch"—"the shepherd dips his sheep into the washpit"—"colours dipped in heaven"—"to dip the scythe in fragrant dew"—"I sometimes dip into Shakspeare"—"the epicure again dipped into the savoury liquid." The learned Frenchman argues, "I shall proceed to shew that the word *dip* is often used in connections which prove that to render it by pouring or sprinkling, will in no degree violate its current application by English writers. English poets, moralists, and historians, frequently employ it to express the act of stiffening a lady's cap—washing sheep—dyeing blue—mowing grass—reading Shakspeare—pouring out soup." But after all the learned critic's argumentation, an Englishman would not believe he had proved that *dip* might be properly rendered by words signifying pour or sprinkle. If Mr. Thorn's principle is sound, the Frenchman does prove this; if the Frenchman does not prove this, then the principle is unsound, and Mr. Thorn does not prove by it that *baptizo* may be rendered by pouring or sprinkling.

"Ni ddefnyddir un ddadl gan Daenellwyr i amddifadu *baptizo* o'i ystyr cyffredin, nas gellir gyda'r priodoldeb mwyaf ei defnyddio i amddifadu dip o'i ystyr priodol. Y gwir yw, er fod *dip* yn air priodol a phennodol, y mae *baptizo* yn fwy felly. Sonir am 'dip of the magnetic needle,' am 'dip of a stratum in geology,' a sonia Pope am 'dip in a volume of history.' Pe gallai y Taenellwyr gael allan fod *baptizo* yn cael ei ddefnyddio yn y fath gyssylltiadau, byddai llawenhau o Dan i Beerseba. Ceisient dynu taenellu, tywallt, ac y mae yn anhawdd gwybod beth arall, oddiwrth y fath ddefnydd o'r gair. Chwerddid am ben dyn a geisai brofi fod *dip* yn arwyddo taenellu, eithr byddai ei ymdrech yn fwy rhesymol, ac ymddangosai yn harddach, na phe cynnygiai brofi fod *baptizo* yn golygu hyny. Gallai y cyfryw ddyn ddweyd fod Johnson a Webster yn eu geiriaduron mawrion, yn rhoddi lleithio a gwlychu yn ystyrion i'r gair *dip*, gan gyfeirio at Milton fel awdurdod:—"Trochir fi droswyf oll â gwlyth oer crynedig." Gallai y dyn ymresymu fel hyn:—"Y mae yn ffaith fod *dip* yn golygu lleithio a gwlychu. Pwy a all amheueu yr hyn a ddwyed Johnson a Webster, pan yn cael eu hamddiffyn gan dywysog y Beirdd Prydeinig? O'r goreu. Golyga *dip* lleithio, neu wlychu; a gŵyr pawb y gellir lleithio neu wlychu peth trwy dywallt neu daenellu dwf arno! Y mae hwn yn well ymresymiad o lawer nag eiddo y rhai a geisiant orfodi *baptizo* i dywallt, taenellu, dwbio, a phanu. Er hyny, gwel pawb ei fod yn llawn twyll ddadleuath. Y mae yn cymmeryd y twyll canlynol fel gwyrionedd; sef, os gellir gwneuthur peth mewn dwy ffordd wahanol, fod y ddwy fferf a ddefnyddir i ddynodi y ffyrdd hyny yn golygu yr un peth. Gellir lleithio yr un gwrthdrys trwy daenellu neu dy-

mewn trefn i'w banu, ac felly, nid oes un anhawsdra i wneyd *panu* yn ystyr i baptizo, o herwydd *panu* yw y *dyben* mewn golwg gan y panwr wrth drochi y brethyn. Nid ydym yn amheueu nad yw yr ystryw Thornaidd hon yn ddigon cyfleus i greu hanner cant arall o ystyrion i'r gair condemniedig hwn.

Efallai y gellir ei ystywtho hefyd i "sefyll fel pawl," i "ddwbio," ac i "yfed llawer," fel y gorfodwyd (?) ef i daenellu dwfr santaidd, ac i eneiunio penwisgoedd boneddigesau. Sonia awdwr yr ysgrif ar Ddydd St. Bartholomew am *India rubber conscience*; gallasai grybwyll gyda llaw, fod cydwytodau felly yn gallu creu neu gyfansoddi *India rubber theories*, y rhai y gellir eu defnyddio i brofi (?) y peth a fynir, ac i ateb unrhyw ddyben. O ddifrif, onid yw yn resyn meddwl fod personau a broffesant eu hunain yn ysgolheigion ac yn athrawon crefyddol, yn gallu ymostwng i'r fath waeledd ofnadwy, mewn trefn i geisio amddiffyn yr hyn sydd yn anamddiffynadwy, yn hytrach nag ymostwng i drefniadau Crist. Y cam nesaf yn y twyll mawr hwn yw, haeru fod Bedyddwyr dysgedig yn rhoddi yr ystyrion hyn iddo, yr hyn a gredir gan lawer o ddynion gonest ond anwybodus, ar sail tystiolaeth eu hathrawon duwinyddol. Pan yn ysgrifenu y fath anwiredd disail ar y Bedyddwyr, ni chymmerant arnynt roi "chapter and verse" wrth reswm: gwyddant yn ddigon da nad gwiw ceisio gwneyd yr hyn nas gall hollalluogrwydd ei gyflawnu. Os llwyddir i dwyllo'r werin, y mae'r amcan gogoneddus (?) wedi ei gyrrhaedd. Drwg genym orfod ysgrifenu fel hyn am nifer fechan o Daenellwyr anonest; ond y mae eu pechod mor ysgeler, fel nas gellir cael cydwytod dawl heb ddwyn yn eu herbyn y cyhuddiad o *dwyllo bwriadol*. Nid camsyniad o'u heiddo yw yr hyn a gam-briodolant i Booth, Ryland, Cox, Gibbs, a Gale, ond *anwiredd yn cael ei lunio a'i ysgrifenu* i'r dyben o gamarwain yr anwybodus, a'u cadw mewn tywyllwch. Efallai y gall fod rhai wedi haeru yr anwiredd disail hwn ar dystiolaeth Thorn, gan gredu mai gwir-

wallt dwf arno; ond nid yw hyny yn profi fod lleithio a thaenellu, a thywallt a lleithio, yn golygu yr un peth. Gall lleithiad gael ei achosi trwy druchiad, tywalltiad, neu daenellu, ond nid yw hyny yn profi mai nid tair gweithred wahanol ydynt er hyny." Nid yw lleithio ond *effaith*, a gwahanol *achosion* trwy ba rai y cynnyrchir ef yw trochi, tywallt, a thaenellu.



ionedd oedd yr haeriad; ond dylasant chwilio a barnu drostynt eu hunain mewn achos o gymmaint pwys, yn hytrach na phregethu ac ysgrifenu fel y gwnaethant. Pan fyddo gwybodaeth yn gyrhaeddadwy, nid yw ei habsenoldeb yn ddigon i esgusodi drygioni. Gwyddai dyfeiswyr yr anwiredd hwn y bydd dydd barn wedi gwawrio, a thragywyddoldeb wedi ei dreulio, cyn y gallasant roi "*chapter and verse*," a dylasai eu hefelychwyr wybod hyny hefyd. "Y mae'n wir," ebe un ysgrifenydd gonest a medrus, "y ceir y geiriau taenellu a thywallt yn eu gweithiau, megys ag y ceir y geiriau, 'cyfiawnhad trwy weithredoedd' yn epistolau Paul; ond byddai yr un mor annheg dweyd eu bod hwy yn dysgu fod taenellu a thywallt yn ystyrion i baptizo, oblegid fod y geiriau hyny yn eu gweithiau, ag a fyddai dweyd fod Paul yn dysgu 'cyfiawnhad trwy weithredoedd,' am fod y geiriau hyny yn yr epistol at y Rhufeiniaid."\* Os yw dyfyniadau o weithiau ereill, y rhai a ddyfynir er mwyn eu gwrthbrofi, i gael eu priodoli i'r rhai a'u dyfynant, gellir dweyd fod awdwr yr erthygl hon yn rhoi yfed llawer, dwbio, ac ystyrion gogoneddus ereill, i'r moddair baptizo, am eu bod yn ei ysgrif. "Yr wyf wedi sylwi yn fanwl ar y gair am gryn amser, fel y dygwyddai wrth ddarllen," ebe Dr. Gale, "ac yr wyf yn eich sicrhau na welais I ef unwaith yn cael ei ddefnyddio i arwyldo tywallt neu daenellu, neu unrhyw beth llai na throchiad" (*Dr. Gale's Reflections on Dr. Wall's History*, p. 98. 1833).† Er hyny, y mae Dr. Gale yn

\* *Greal*, Ebrill, 1862.

† Nid yw pob un o'r duwiolion (?) a ddymunent dwyllo y lluaus o barthed i'r Bedyddwyr a'r deugain ystyr, yn ddigon haerllug i haeru yn bendant fod Gale, Cox, Ryland, &c., yn rhoddi deugain neu hanner can ystyr i'r gair dan sylw; ond ceisiant dwyllo yr anwyliadwrs dipyn yn fwy gonest fel y canlyn. Wedi taeru y gwna baptizo, iro, tori, oeri, hullo, malurio, halogi, boddi, gwanychu, llenwi, llygru, dyrysu, diffodd, andwyc, gwenwyno, cysgu, glynu, mwydo, dwbio, yfed llawer, panu, &c., &c., &c., (dyma was ufydd a galuog—beth na wna?), ysgrifenant, "gwel Booth, Ryland, Gale, Cox, Keach, sef, dysgedigion neu gewri y Bedyddwyr," neu ymadrodd tebyg i hwnyna ar ol yr haeriad. Y mae'r ystryw hon wedi ei llunio yn y fath fodd ag i beru i rai feddwl mai esbonio yr ystyrion a roddir iddynt gan y Bedyddwyr y mae'r ysgrifenydd. Ond pan edrycher yn fanwl ar eiriau y twyllwyr crefyddol hyn, yr ydym yn gweld nas gellir galw yr awdwr yn llunwyr celwydd, oblegid y mae'r ystyrion uchod yn llyfrau y Bedyddwyr a nodwyd, fel y maent yn yr erthygl hon, ac fel y mae cyfiawniad

ol y creaduriaid digydwylbod a gondemniwn, yn rhoi o ddeugain i hanner cant o ystyrion i baptizo!! "*Wonders will never cease!*"

Diau y caiff yr ysgrifenydd ei gyhuddo o anfoneddigeiddrwydd gan rywrai am ysgrifenu mor ddiseremoni; bydd hyny yn hawddach o lawer, ac yn ateb dyben mwy cyfleus na cheisio amddiffyn y twyll a ddynoethir yn y llinellau hyn. Nid ydys yn ysgrifenu yn llymach yma nag y gwnelai yr ysgrifenyddysbrydoledig, pan yn ceryddu gwahanol bechaduriaid, am bechodau nas gallasant fod lawer yn waeth na'r pechod dan sylw. Nid yw boneddigeiddrwydd na chrefydd yn ein dysgu i bechu yn erbyn rheitheg, trwy arfer geiriau melfedaidd a sidanaidd yn nynoethiad pechod. Pe dywedem mai effaith camgymeriad o eiddo y pechaduriaid dan sylw, ac nid twyll bwriadol ynddynt, yw yr hyn a gondemniwn, gosodem ein hunain yn yr un dosparth a hwythau, trwy gamddarlunio ein cymmydogion. Edifarhaed a diwygied awdwr a lledaenwyr y gamdystiolaeth ysgeler hon, fel y byddo iddynt gael maddenant gan Dduw a dynion.

#### BAPTIZO YN Y TESTAMENT NEWYDD.

Yr ydym wedi gweld yn mha ystyr yr arferid y gair gan ysgrifenyddwyr Groegaidd. Rhaid bod ysgrifenyddwyr y Testament Newydd yn ei arfer yn yr un ystyr ag yr arferid ef yn yr iaith yr ysgrifenydd ynddi; pe amgen, buasent yn euog o ddweyd un peth wrth y Groegwr, pan mewn gwirionedd yr oeddynt yn meddwl peth arall. Pe yr arferasent ef mewn ystyr gwahanol i'r ystyr a roddid iddo gan y Groegaidd, a hwythau heb roddi un eglurhad ar yr ystyr newydd, buasem yn rhwym o'u hystyried yn ysgrifenyddwyr anochelgar neu dwyllodrus fel yr awgrymasom (rheol ii. tud. 1); ac os dywedir mai felly yr ymlwybrasant, yr ydysar unwaith yn aberthu ysbrydolrwydd y Beibl, er mwyn amddiffyn golyg-ddysg fympwyol. Gwnawn yn awr agor y Testament Newydd, er mwyn gweld pa fodd y darllenid ac y deallid yr ymadroddion canlynol, gan y rhai a ddeallant y gair yn yr ystyr a roddwyd iddo yn yr enghreifftiau blaenorol. "A hwy a drochwyd gauddo ef yn yr Iorddonen" (Math. 3. 6). Y mae iddo yma yr un ystyr ag sydd iddo yn yr ymadrodd:—"ac a ymdrochodd saith

trwy weithredoedd yn ysgrifau Paul. Yn oly rhan hon o'u Jesuitiaeth, gellid meddwl mai eu barn yw, nad ydynt yn pechu trwy dwyllo fel hyn.



waith yn yr Iorddonen" (2 Bren. 5. 14). "Profer oddiwrth enghreifftiau ereill," ebe Dr. Halley, "fod baptizo yn golygu trochi, ac nad oes un gwrthwynebiad i dderbyn yr ystyr hwnw yn yr adnod hon" (*Sac. p. 379, sec. ed.*). Yr ydym ni wedi profi hyny; o ganlyniad, *trochi* ei hun a wnaeth Naaman, a *throchi* yn yr Iorddonen a wnelai Ioan. Etto:—"Ac a'u *trochwyd* oll ganddo yn yr Iorddonen" (Marc 1. 5). "Ac efe a *drochwyd* gan Ioan yn yr Iorddonen" (adn. 9). Nid oedd yn bosibl i Roegwyr, neu rywrai yn medru yr iaith Roeg, gamddeall yr ymadroddion hyn pan yn darllen y Testament Newydd; ac yr oeddynt o angenrheidrwydd yn gwybod mai trochi a olygai ein Ceidwad yn Math. 28. 19. Beth pe dywedasad wrthynt gan rywun o'r un *stamp* a Thorn, fod baptizo yn arwyddo "taenellu dwfr santaidd," &c; ac o ganlyniad, mai gorchymyn i *daenellu* yw y commissiwn, neu, y gellir ufyddhau iddo trwy daenellu dyferion ar bersonau!! Diau yr ystyriasant y fath ddywediad yn ymfydrwydd o'r fath ynfytaf; ac os mai yn y goleuni hwnw yr edrychaisid arno y pryd hwnw, y mae yn anhawdd gwybod paham y dylid edrych arno mewn goleuni mwy ffafriol yn bresenol.

Y mae'r defnydd ffigural a wneir o hono, yn cyfateb yn hollol i'r ystyr llythyrenol hwn. "A ellwch chwi fyned o dan y *trochiad* y rhaid i mi fyned dano?" "Y mae genyf *drochiad* i fyned o dano" (Marc 10. 38; Luc 12. 50).\* Y mae'r ystyr yn sylfaenedig ar y meddylldrych o soddiad trwyadl, fel mewn llifeiriant o ofid a thristwch. Defnyddia Josephus yr un gair (*Jewish War*, book iv., ch. 33), i arwyddo trallod Jerusalem yn ystod y gwarchae. Nid yw y gair yn ei berthynas â bedydd yn y Testament Newydd, yn golygu mwy na'r weithred o drochi, a dysgir yr hyn sydd o natur grelyddol yn perthyn iddi oddiwrth yr amgylchiadau cyssylltiedig (Math. 28. 19; Rhuf. 6. 4). Y mae yn ymddangos mai traddodiad Phariseaidd a olygir yn Marc 7. 4; Luc 3. 11, ac mai at drochiadau seremonïol yr Iuddewon y cyfeirir yn Heb. 9. 10. Cyfieitha Dr. Macknight (Taenellwr) "bedyddiadau," yn Heb. 9. 10, yn drochiadau. Y mae'r weithred a ddynodir gan y gair yn y manau hyn yr un; y cyssylltiad yn yr hwn y cyflawnir hi sydd yn gwneyd i fyny yr unig wahan-iaeth. Pan drochir yn y bedydd, a hyny

gyda chyfeiriad at orchymyn Crist, ei gladdedigaeth a'i adgyfodiad, y mae'r gweinyddwr a'r ymgeisydd yn ymwybodol eu bod yn gwneyd gwasanaeth crefyddol; ond nid oddiwrth ystyr y gair y cesglir hyny.

#### TYSTIOLAETHAU Y TADAU EGLWYSIG.

Dechreuwn gyda rhai o'r tadau Groeg-aidd, y rhai a ysgrifenasant tra yr oedd yr iaith Roeg mewn arferiad cyffredin (*a living language*), i'r perwyl o wybod eu barn hwy am ystyr *baptizo* yn y Testament Newydd. Cyfeiria Cyril (o.c. 315\*) at ddynion "yn myned i waered i'r dwfr, ac mewn ystyr yn cael eu *claddu* yn y dyfroedd, fel Crist yn y graig." Crybwylla hefyd am rai yn cael "eu harwain i fedydd-fan cyssegredig y *trochiad* dwyfol—yn cael eu trochi dairgwaith, wedi profesu crediniaeth yn y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, trwy yr hyn y cysgodent gladdedigaeth Crist." Dywed yn mhellach fod dwfr y bedydd yn feidd ac yn fam i'r bedyddiedig. Yn ei draethawd ar yr Ysbryd, y mae yn ein dysgu fod amgylchyniad y bedyddiedig gan y dwfr pan yn drochedig ynddo, yn debyg i drochiad yr apostolion yn yr Ysbryd Glân.† Ceir cyfeiriad eglur yn ngwaith Justin Ferthyr (yr hwn a anwyd tua diwedd y ganrif gyntaf) at y dull o fedyddio, yn y crybwylliad a wna am drochiad allanol y corff, a throchiad yr enaid.

Sonia Basil (o.c. 330) am ddilyn neu efelychu claddedigaeth Crist trwy *drochiad*, oblegid fod cyrff y rhai *trochedig* mewn ystyr yn gladdedig mewn dwfr, ac am gyfammodiad trwy y *trochiad*. Hônâ Chrysostom (o.c. 398) fod y *soddiad* yn arwydd o'r disgyniad i'r byd isod, ac o'r esgyniad o hono; ac mewn rhan arall o'i waith, cymhara a chyferbynia gladdiad y bedyddiedig trwy drochiad a chladdedigaeth Crist mewn bedd. Geilw Athanasius (tua diwedd y drydedd ganrif, neu ddechreu y bedwaredd) y *trochiad* yn fath o sierwydd am y nefoedd, ac yn efelychiad o gladdedigaeth Crist. Dywed Hippolytus (esgob yn Rhufain, yn debygol tua dechreu y drydedd ganrif), ddarfod i Ioan *drochi* Crist yn yr Iorddonen; a llefara mewn

\* Cyfeiria o.c. a'r ffigurau at oed Crist, pan anwyd y Tadau hyn.

† Ceir y gweithiau, y pennodau, yr adraniadau, y tudalenau, yn Saesneg a Groeg, yn nghyd â'r testun gwreiddiol, yn "Baptizein" gan Dr. Conant. Yr ydym yn talffyr y tystiolaethau yma, ac yn gadael allan y cyfeiriadau er mwyn byrdra.

\* Dyma gyfieithiad Dr. Campbell (Taenellwr), diweddar Lywydd Marischal College, Aberdeen.



syndod am yr afon yr hon sydd yn llawen-hau dinas Duw, yn cael ei chladdu mewn ychydig ddyfroedd. Gallaisid dwyn llawer o enghreifftiau ereill, ond ateba hynyna y dyben mewn golwg.

Cyfeiriwn etto at ychydig o lawer o enghreifftiau a geir yn ngweithiau y tadau Lladinaidd. Llefara Tertullian (tua chanol yr ail ganrif) am *drochi dair* gwaith, yr hyn sydd i raddau yn ychwaneg, ebe efe, nag a orchymynir gan Grist yn yr efengyl; a dywed ein bod yn proffesu y fydd Gristionogol, pan yn myned i'r dwfr. Profir yr un peth gan amryw gyfeiriadau ereill yn ei waith. Ambrose (o.c. 340) a'n sicrhaf fod dyn yn cael ei soddi i lawr, hyny yw, yn cael ei gladdu, a bod bedydd yn arwyddocad o farwolaeth ac adgyfodiad Ceir yn Ambrose amryw grybwyllion pendant ereill, y rhai (yn nghyd â'r cyfeiriadau), sydd i'w cael yn Lladin ac yn Saesneg yn "*Baptizein*" gan Dr. Conant. Barna Jerome (o.c. 331), fod *trochi dair* gwaith yn dâl rhyw gyssylltiad âg athrawiaeth y Drindod, a chyfeiria Alcuin (o.c. 735) at y *tri throchiad*.

Onid yw yn syndod fod rhai personau yn ddigon ynfyd a gwyneb-bresaidd i haeru yn ngwyneb y ffeithiau blaenorol, mai defod ddynol, o ddechreuad diweddar, yw trochiad. Wedi dangos pa ystyr a roddai y Groegiaid i *baptizo*, cyfeiriwyd at rai o'r crybwyllion sydd genym am fedydd yn y Testament Newydd, i'r dyben o ddangos mai nid cyssylltu ystyr newydd â'r gair a wnaeth yr apostolion, eithr ei arfer yn yr unig ystyr adnabyddus, sef, trochi. Ond o herwydd fod rhai Taenellwyr yn haeru yn erbyn pob prawf fod y gair yn dwbio, yn yfed llawer, yn ystaenio, yn taenellu, ac yn eneinio penwisgoedd boneddigesau yn mysy y Groegiaid, ac mai tywallt neu daenellu oedd ei orchwyl yn yr oes apostolaidd, gofynasom gan yr hen dadau blaenorol y gymmwynas o dori y ddadl rhwng y cyfeillion ystyfnig hyn â'r Bedyddwyr, ac ni chawsom wneyd yr apeliad yn ofer. Trwy *drochiad*, ebe'r hen *fathers*, yn un a chytun, y gweinyddid bedydd yn yr oes apostolaidd; yr oedd yr apostolion a'u hol-ynwyr yn arfer *baptizo* yn yr un ystyr a'r Groegiaid yn hollol. O'r holl dadau Groegiaid a Lladinaidd, nid oes brawddeg na gair yn ngwaith cymmaint ag un o honynt yn profi yn wahanol. Pa dad eglwysig sydd yn dweyd mai trwy daenell- iad y byddai Ioan a'r apostolion yn bedyddio? Dywed Dr. Woods (Taenellwr) o America, ei fod ef yn caniatáu mai troch-

iad oedd y dull cyffredin o weinyddu bedydd yn yr oesoedd canlynol i'r oes apostol- aidd, oblegid fod hanesiaeth eglwysig yn profi hyny. Os mai trochiad a arferid am oesoedd *ar ol* yr oes apostolaidd—yr oes- oedd nesaf at yr oes hōno, rhaid mai y dull hwnw a arferid gan y deuddeg apostol, oddieithr i ryw ddirywiad rhyfedd, byr, a dison am dano, gymmeryd lle rhwng oes y taenellu (?) ac oesoedd y trochiad. Ni ddygwyddodd i ni glywed na darllen am neb yn ddigon ynfyd i feddwl y fath beth. Y mae hyn yn ein harwain at

#### YR EGLWYSI DWYREINIOL A GORLLEWIN- OL, AC EGLWYS LOEGE.

Gan fod y cyfundebau mawrion hyn yn gwneyd i fyny ran mor bwysig o hanes- iaeth eglwysig—yn dâl cyssylltiad mor agos â'r tadau y cyfeiriasom atynt, a dwy o honynt yn bodoli ac yn gweithio er yn foreu—yn gallu ymfrostio mewn perth- ynas agos â llenyddiaeth Gristionogol y cyfnod cyntefig, ac un o honynt o angen- rheidrwydd yn deall yr iaith Roeg yn well nag un cyfundeb crefyddol arall, nis gall tystiolaethau unol yr eglwysi hyn mewn perthynas i ffaith lenyddol yn perthyn i'r oes apostolaidd fod yn ddibwys yn yr ym- chwiliad presenol. Deallir mai mater *llenyddol* hollol, ac nid pwnc o *athrawiaeth*, sydd mewn dadl—mai yn y cymmeriad o ysgolheigion cydnabyddedig, ac nid fel duwinyddion ammheus, y ceisir ganddynt draethu; canys nid oes, fel y dangoswyd, un cyssylltiad rhwng ystyr neu arwyddo- cād *baptizo* ynddo ei hun âg unrhyw olyg- iad duwinyddol. Profwyd yn barod fod y tadau eglwysig yn rhoddi i *baptizo* yr unig ystyr a gyssylltid âg ef gan yr hen Roeg- iaidd, sef trochi, a'u bod yn hōni yn y modd mwyaf diamwys, eglur, a phendant, mai yn yr ystyr o drochi y deallid ac yr arferid ef gan yr apostolion; ac yn gymmaint a bod y tadau hyn yn cynnrychioli yr eglwysi Dwyreiniol a Gorllewinol, nid oes eisieu gwneyd nemawr yma heblaw dyfynu y ffurfiau arferedig wrth weinyddu yr ordi- had yn yr eglwysi crybwyllledig. Wedi'r seremoniau rhagarweiniol, fel y canlyn y mae ffurf ordeiniedig eglwys Groeg yn darllen:—"A phan eneinnier yr holl gorff, gwna yr offeiriad ei drochi, gan ei ddâl yn unionsyth, ac edrych tua'r dwyrain, gan ddywedyd, Y mae gwaz Duw (yr enw) yn cael ei drochi yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Santiaidd, yn awr ac yn dragwydd, ac i oesoedd yr oesoedd. Amen." Bob tro yr arferir y geiriau hyn, efe a'i gesyd i



lawr, ac a'i cyfyd i fyny. Ar ol y trochiad, yr offeiriad a wna olchi ei ddwyllaw, gan ganu gyda'r bobl, 'Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu pechodau,' &c.\* Y mae Athanasius yn y bedwaredd ganrif yn cyfeirio at y tri throchiad (*Questions on the Psalms, Prop. 92*) yn y geiriau canlynol:—"Y mae marwolaeth Crist a'i adgyfodiad ar y trydydd dydd, yn cael eu dangos pan y mae'r plentyn yn soddi lawr dair gwaith yn y bedyddfan, ac yn dod fyny." Yn y drydedd gaurif, yr oedd cyfraith, yr hon a elwid yn ganon apostolaidd, yn ei llawn rym yn eglwys Groeg, yr hon oedd fel y canlyn:—"Os bydd i esgob neu bresbyter weinyddu bedydd, nid trwy dri throchiad, ond un, cosper ef â difuddiad (*deprivation*)." Yn y bedwaredd ganrif, dywedai Basil:—"Trwy dri throchiad yr ydym yn gweinyddu y seremoni bwysig o fedydd." Y mae ein cyfeillion y Taenellwyr (hyny yw, y rhai hyny o honynt ag y mae eu barn, eu tystiolaeth, a'u haddefiadau yn deilwng o sylw parchus), yn addef mai trwy drochiad y bedyddiai yr eglwys hon er y dechreuad. Dywed Dr. Wood, fel y sylwasom, mai trochi yr oeddynt yn gyffredin yn yr oesoedd cyntaf wedi'r oes apostolaidd, ac y mae pob hanesydd eglwysig yn gwybod fod ei dystiolaeth yn wirionedd; ond haera Thorn druan, mai y dull cyffredin o'r ail ganrif i waered oedd, i'r "ymgeisydd sefyll yn y dwfr hyd ei figyrnau, ei benliniau, neu ei ganol, a'r gweinyddydd yn tywallt dwfr ar ei ben o'i law neu o lestr!" Haera hefyd yn y modd mwyaf anwyliadwrus, gan herio hanesiaeth, mai "tywallt neu daenellu yw y rhan bwysicaf o fedydd yn eglwys Groeg!" Nid chymmerasai John Wesley, Charles o'r Bala, na Dr. Halley, yr holl fyd am wneyd haeriadau mor ddisail ac anesgusodol. Blin genym feddwl fod gweinidog yr efengyl yn gallu ysgrifenu y fath bethau; ond y mae tegwch yn ein rhwymo i sylwi, nad yw Taenellwyr yn gyffredin yn rhoi i'w darllenwyr y fath olwg wrygam ar hanesiaeth eglwysig. Nid oedd y gwyradau oddiwrth yr arferiad (er mwyn cyfleustra neu ryw achos arall) ond achlysurol neu eithriadol, ac heb un awdurdod ganonaidd. Gyda golwg ar ddynion mewn oed, y mae'r ffaith ganlynol yn deilwng o sylw. Yn y flwyddyn 1745, pan ddyweddiwyd Sophia Augusta i'r Czar Peter II., trochwyd hi

yn ol defod eglwys Groeg, er fod Protestaniaid wedi ei thaenellu yn ei mabandod.\*

Gan mai eglwys Groeg a gydnabyddir yr henaf o'r gwahanol gyfundebau eglwysig (ymrafaeliodd yr un Ladinaidd a hithau yn yr ail ganrif), y mae ei barn hi am fedydd, a'i dull o'i weinyddu, o bwys mawr yn yr ymchwiliad o barthed ystyr *baptizo* yn yr oes apostolaidd. Terfynwn y rhan hon o'n hysgrif trwy ddyfynu darn neu ddau o waith Dr. Wall, un o haneswyr eglwysig penaf y Taenellwyr, a brawddeg neu ddwy o Pantalogia:—"Mae holl Gristionogion Asia, yr holl Gristionogion yn Affrica, ac oddeutu y drydedd ran o holl Ewrop, yn arfer *trochi*. Mae eglwys Groeg yn ei holl ganghenau yn parhau i drochi." Etto, "Mae eglwys Groeg yn parhau i arfer trochiad, ac felly y mae'r holl Gristionogion ereill, ond y Lladinwyr" (*Hist. of Infant Bap.*, p. 1—11, ch. 9).† "Y rhan hono o'r eglwys Gristionogol a sefydlwyd gyntaf yn Groeg, ond sydd yn awr wedi ymdaenu dros fwy o diriogaeth nag un eglwys sefydledig arall, gan ei bod yn cynnwys yn ei mynwes, Groeg, yr Ynysoedd Groegaid, Wallachia, Moldavia, yr Aifft, Abyssinia, Nubia, Lybia, Arabia, Mesopotamia, Syria, Cicilia, a gwlad Canaan. Dylid sylwi eu bod OLL (er eu bod yn gwahaniaethu mewn llawer o fân bethau) yn parhau i fedyddio trwy *drochiad*, yr hyn yn ddiammheu oedd y dull cyntefig" (*Pantologia, Art. Greek Church*). Os na phroffasom mai y dull Groegaid oedd, ac ydyw *trochi*, ni ddylid apelio at hanesiaeth eglwysig o gwbl mewn unrhyw amgylchiad, nac i unrhyw ddyben. Os yw llyfr defodau eglwys Groeg ei hun i'w gredu, ffeithiau hanesyddol i'w derbyn, a haeriadau mympwyog a disail personau ystyfnig i'w gwrthod gyda dirmyg, trochi yw ac oedd trefn yr eglwys dan sylw er y dechreu: er ei holl ddiffygion gyda golwg ar y deiliaid, &c. (caiff y pwnc hwn sylw cyn y gorphenom), y mae wedi para i drochi o'r oes apostolaidd hyd yn bresenol.

\* Y *dwfr* a daenellir, ac nid y dyn; er hyny, yr ydym yn arfer yr ymadrodd cyffredin er mwyn cyfleustra yma, ac nid gyda golwg ar un cywirdeb beirniadol sydd ynddo.

† Y mae rhai o'r mân Daenellwyr, naill ai yn ddigon drwg neu yn ddigon anwybodus i haeru fod pob dosparth o grefyddwyr, oddieithr y Bedyddwyr, yn bedyddio trwy daenellu neu dywallt, er mai trwy drochiad y bedyddia eglwys Groeg (y luosocaf ei deiliaid yn y byd), ac mai dyma ddull awdurdodedig eglwys Loegr hyd heddyw. Nid yw fod dyn yn caru cyfeiliornad yn fwy na gwirionedd, yn arwydd er daioni.

\* Extract from Goar's "Euchologion, or Ritual of the Greeks." "Office of the Holy Immersion" (*baptism*).



Ynnefod-lyfr yr eglwys Ladinaidd, wedie'i ysgrifenu gan Gregory I. (yr hwn a anwyd o.c. 54), y mae'r geiriau canlynol:—"Yna gwnaed yr offeiriad fedyddio â thri *throchiad*, trwy alw enw y Drindod santaidd unwaith, gan ddywedyd: Yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad (yna *troched* unwaith), a'r Mab (yna gwnaed *drochi* yr ail waith), a'r Ysbryd Glân (yna gwnaed *drochi* y drydedd waith)." Y mae Tertullian, Ambrose, Jerome, ac Alcuin, a thadau Lladinaidd ereill, fel y sylwasom, yn cyfeirio yn y modd mwyaf diamwys a phendant at y dull hwn o fedyddio yn y cyfundeb Lladinaidd.

Yr ystyr o drochi a roddid i'r gair *baptizo* gan yr eglwys Saesneg (*Anglican church*) hefyd, fel y dengys y dyfyniadau canlynol. Yn y Llyfr Gweddi Cyffredin cyntaf (yn cynnwys cyfarwyddiadau i weinyddu y sacramentau), sef llyfr cyntaf Edward VI. (1549), yr ydym yn darllen y brawddegau canlynol:—"Yna gwna'r offeiriad gymmeryd y plentyn yn ei ddwyllaw, a gofyn ei enw. A chan enwi y plentyn, efe a'i trocha dair gwaith yn y dwfr. Yn gyntaf, troched yr ochr dde; yn ail, yr ochr aswy; yn drydydd troched a'i wyneb (i waered) tua'r bedyddfan: gwnaed yn bwylllog a gofalus (*discreetly and warily*), gan ddywedyd, N., yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, Amen. Os bydd y plentyn yn wan, gwna tywallt dwfr arno y tro, gan lefaru y geiriau blaenorol." Yn yr un llyfr wedi ei ddiwygio yn Nghynnadledd Savoy yn amser Siarl II. (Edr. BARTHOLOMEW, STR. DYDD), yn 1662, ceir y cyfarwyddiadau hyn:—"Yna cymmered yr offeiriad y plentyn yn ei ddwyllaw, a dywedod wrth y tadau bedydd, a'r mamau bedydd, Gwnewch enwi y plentyn hwn. Yna, gan ei enwi ar eu hol hwy (os gwnant hwy sicrhau y gall y plentyn oddef hyny), efe a'i trocha mewn dwfr yn bwylllog a gofalus, gan ddywedyd, N., Yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Amen. Ond os tystiant fod y plentyn yn wan, gwna tywallt dwfr arno ateb y dyben, gan lefaru y geiriau blaenorol. Byddai eglwys Loegr yn trochi cyn y Diwygiad hefyd:—"Bydded i'r Presbiteriaid wybod nad ydynt i dywallt dwfr santaidd dros benau y babanod pan yn gweinyddu y bedydd santaidd, ond bydded iddynt bob amser i gael eu trochi yn y bedyddfan; fel y rhoddodd Mab Duw ei hun siampl i bob crediniwr, trwy gymmeryd ei drochi dair gwaith yn nhonau yr Iorddonen"

(*Canon of the Council of Calchuth*, A.D. 816, ch. xi).

Y mae J. Lingard, yn ei "*History and Antiquities of the Anglo-Saxon Church*" (vol. i. p. 317), yn ein dysgu mai *trochiad* oedd y dull rheolaidd o weinyddu bedydd gynt yn eglwys Loegr, mewn bedyddfan (*baptistry*), sef adeilad bychan cyfagos i'r eglwys, yn yr hwn yr oedd baddon (*bath*) cyfleus wedi ei adeiladu at y gwasanaeth. "Pan fyddai dyn mewn oed yn galw am fedydd, gelwid arno i broffesur crediniaeth yn y gwir Dduw," &c.; yna disgynai i'r bedyddfan (*font*), a gwasgai yr offeiriad ei ben dan wyneb y dwfr dair gwaith, gan ddywedyd, "Yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Y dyfyniad canlynol o Tyndale's "*Obedience of a Christian Man*" (ed. of 1571, p. 143), a ddengys i ni arferiad yr eglwys Seisnig mor ddiweddar a'r hanner gyntaf o'r unfed ganrif ar bumtheg. "Y mae'r golchiad (o fedydd) yn pregethu i ni ein bod i gael ein glanhau â thywalltiad gwaed Crist, yr hwn oedd yn offrw m ac yn iawn âros bechod pawb a edifarhant ac a gredant, gan gyd-synio a gostwng eu hunain i ewyllys Duw. Y mae'r soddiad mewn dwfr yn arwyddo ein bod yn marw, ac yn cael ein claddu gyda Christ, gyda golwg ar yr hen fywyd o bechod, yr hwn yw Adda. Y mae'r tyniad allan drachefn yn arwyddo ein bod yn codi gyda Christ mewn buchedd newydd lawn o'r Ysbryd Glân, yr hwn a wna ein dysgu a'n harwain, a gwneyd ewyllys Duw o'n mewn, fel y gwelir yn Rhuf. vi." Y mae Brenner, ysgrifenydd Pabyddol galluog,\* wedi chwilio yr holl awdurdodau gwreiddiol yn y modd manylaf, yn ysgrifenu fel hyn o berthynas i weinyddiad bedydd gan y tair eglwys flaenorol:—"Am dri chant ar ddeg o flynyddau, bu bedydd yn cael ei weinyddu yn rheolaidd a chyffredinol trwy drochiad y person o dan ddwfr, a dim ond mewn achosion annghyffredin trwy dywallt neu daenellu dwfr; yn mhellach, dadleuid yn erbyn yr olaf fel dull o fedydd, ac yr oedd hyd y nod yn cael ei wahardd." Y mae'r sylw hwn o eiddo Brenner yn hawlio ystyriaeth neillduol, oblegid fod Bedyddwyr a Thaenellwyr yn ystyried Pabyddion yn fwy amhleidiol ar fedydd nag yr ystyria rhai o honynt eu gilydd, am y rheswm nad yw y *Catholics* yn ammheu cyfreithlondeb trochiad na thaenelliad. Dywedant mai trochiad a

\* "Historical Exhibition of the Administration of Baptism from Christ to our own times," p. 306.



ddysgir yn y Testament Newydd, a bod traddodiad yn cyfreithloni taenelliad; ac yn gymmaint a'u bod yn golygu traddodiadau yn ogyfuwch â'r Beibl mewn awdurdod, nid yw o un pwys iddynt hwy beth a geir yn ngair Duw ar y pwnc. Gallant newid taenelliad am drochiad, a throchiad am daenelliad bryd y mynont; nid yw o un pwys iddynt hwy, gan hyny, beth oedd y dull a arferid yn y cyfnod a grybwylla Brenner; nid oedd gan yr awdwr hwn, o ganlyniad, un amcan enwadol i'w gyrhaedd wrth wrydroi ffeithiau a chelu'r gwirionedd. Nid fel *special pleader* y mae yn ysgrifenu, ond yn y cymmeriad o hanesydd pwylog, manwl, goleuedig, ac amhleididol.

#### YR HEN GYFIEITHIADAU.

Wedi cael y Testament Newydd, ysgrifeniadau y tadau, llyfrau defodau (*rituals*) yr eglwysi Groegaidd, Lladinaidd, a Seisnig, ac hanesiaeth eglwysig; o du bedydd trwy drochiad, ac yn erbyn taenelliad; neu, wedi eu cael oll i arferyd *baptizo* yn yr un ystyr a'r hen Roegiaid cyntefig, yr ydym yn gofyn yn mhellach, â pha eiriau y mae yn cael ei gyfieithu mewn hen gyfieithiadau o'r Testament Newydd? Y mae Tertullian (yr hwn a anwyd tua chanol yr ail ganrif), y boreuaf o'r tadau Lladinaidd, yn dyfynu y commissiwn (Math. 28. 19) o'r gyfieithiad brodorol (*vernacular version*), ac nid o'r Groeg gwreiddiol, fel y canlyn:—"Ewch a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu *trochi* yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Yn ei sylwadau ar fedydd (pennod xi.), dyfyna Ioan 4. 2, fel hyn:—"Er na *throchasai* yr Iesu ei hun, eithr ei ddysgyblion ef." Yn yr un gwaith (pen. xiv.), y mae yn adrodd geiriau Paul:—"Ni anfonwyd fi i *drochi*." Ceir yn ysgrifau Tertullian amryw ddyfyniadau ereill o'r Testament Newydd, yn y rhai y gwna yn ddieithriad ddefnyddio trochi. Y mae Cyprian hefyd, yr hwn a anwyd tua hanner can mlynedd ar ol Tertullian, yn dyfynu Math. 28. 19 (Epistol xxv.), yn yr un modd:—"Ewch, gan hyny, a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu *trochi*," &c. Adrodda y commissiwn yn yr un geiriau mewn man arall (epistol 63); ac yn epistol 75, dyfyna eiriau Paul:—"Cynnifero honoch a *drochwyd* yn Nghrist, a wisgasoch Grist."

Yn y cyfieithiadau boreuaf i'r Lladin, cyfieithid ef yn ddieithriad i *mergere*, sef, gair yn arwyddo *trochi*; ond mewn cyfieithiadau Lladinaidd diweddarach, troswyd enw Groegaidd y ddefod, ac hyd y nod y

ferf Roegaidd ei hun; a hyny ar y dybiaeth babyddol, y dylid mynegu neu adrodd pethau cyssegredig yn yr enwau cyssegredig perthynol iddynt.

Cyfieithiwyd ef â geiriau yn cyfleu yr un meddylddrych yn y cyfieithiadau Grollewinol, sef y *Syriac* (yn yr ail ganrif), y *Coptic* (y drydedd ganrif), a'r *Ethiopic* (y bedwaredd ganrif). Cedwir yr un ystyr yn y cyfieithiadau Teutonaidd (*Teutonic*). Yn y *Gothic version*, gan Ulflas, ebe Dr. Conant, yr hwn a wnawd yn y bedwaredd ganrif, *daupjan* yw y gair a arferir, ystyr yr hwn yw soddi; ond mewn dwy enghraifft (Luc 3. 21; 7. 29), defnyddir *updaupjan*, yr hwn a arwydda *tansuddo*, fel y gair Lladin *submergere*. Yn y cyfieithiad dan sylw, cyfieithir Math. 3. 11:—"Myfi yn wir wyf yn eich trochi chwi *mewn dwfr*." Marc 1. 8:—"Yr wyf yn eich trochi chwi *mewn dwfr*." Hôna Conant fod y gair yn cael ei gyfieithu i eiriau yn arwyddo trochi yn yr holl gyfieithiadau brodorol (*vernacular*) a barotôwyd i'r gwahanol lwythau Teutonaidd. Yn y *Lower-Saxon Bible* cyntaf (1470-80), er enghraifft, *doepen*—(*to dip*)—trochi, yw y gair a arferir. "Yr hwn a'm hanfonodd i *drochi* mewn dwfr" (Ioan 1, 33); "ac yr wyf yn ddiau yn eich *trochi* chwi *mewn dwfr*" (Math. 3. 11), ac nid *â* dwfr. Yn yr *Augsburg German Bible* (1473-75), *tauffen* (*to dip*) a ddefnyddir. "A myfi yn ddiau wyf yn eich *trochi* chwi *mewn dwfr*" (Math. 3. 11). "Efe, yr hwn a'm hanfonodd i *drochi* mewn dwfr"—nid *â* dwfr (Ioan 1. 33).

Yn nghyfieithiad Germanaidd Luther (*New Testament*, 1522; *entire Bible*, 1534), *taufen* (*to dip*)—trochi, a arferir. Mewn pregeth ar fedydd, y mae Luther ei hun yn esbonio y gair fel y canlyn:—"Yna yn diammheu, yn y ieithoedd Germanaidd, y mae'r gair *tauf* yn dod oddi wrth y gair *tief* (*dyfnder*), canys y mae dyn yn soddi y peth a fyddo yn fedyddio yn ddwfn i'r dwfr. Yn y *Dutch version* (1526, *diwygiedig* 1522, ac wedi hyny trwy orchymyn y Taleithiau Cyffredinol, 1628-32), *doopen* yw y gair; a *doepa* a geir yn y cyfieithiad Swedenaidd (*New Testament*, 1526, *diwygiedig* 1615, ac yn fwy trwyadl 1711-28); *doebe* sydd yn y *Danish version* (1550—1589), y rhai ydynt oll o'r un gwreiddyn a'r gair yn nghyfieithiad Ulflas (*daupjan*) ac eiddo Luther, ac yn arwyddo *trochi*. Y mae yr hen gyfieithiadau mor ffafriol i'r dull o drochi ynte, a phe buasent oll wedi eu paratoi



gan y diweddar Ddoctor Carson, Dr. Conant, neu Alexander Campbell.

Y mae yn deilwng o sylw fod pob cyfieithiad o'r Testament Newydd a fwiadwyd at wasanaeth dynion dysgedig, yn *cyfieithu baptizo*, ac nid yn ei *drosi*, fel y gwneir yn nghyfieithiad y brenin Iago. Os gwna *trosiad* y tro i'r werin, rhaid cael *cyfieithiad* i foddioni dysgedigion. Os gellir twyllo yr anwybodus, nid yw cam-arwain ysgolheigion yn bosibl mewn pwynt sydd mor hawdd i'w benderfynu. Cyfieithiad perthynol i'r dosparth hwn yw eiddo Schott (*the New Testament, with a critically edited Greek text, and a new Latin translation*, 1839). Dyma ychydig o siamplau o'r cyfieithiad ardderchog hwn:—Math. 3. 6, "A hwy a *drochwyr* ganddo ef yn yr Iorddonen." Adn. 11, "Myfi yn ddiau ydwyf yn eich *trochi* chwi mewn dwfr." Adn. 13, "i'w *drochi* ganddo." Adn. 14, "Y mae arnaf fi eisieu fy *nhrochi* genyt ti." Adn. 16, "a'r Iesu wedi ei *drochi*." Marc 7. 4, "Oni bydd iddynt *ymdrochi*." "Megys *trochi* cwpanau ac ystenau." Marc 10. 38, "A myned dan y *trochiad* y rhaid i mi fyned dano." Ymataliwn rhag dyfynu rhagor o'r cyfieithiad rhagorol hwn; ond caniatäer i ni sylwi fod *baptizo* yn cael ei *gyfieithu* yn briodol ynddo, a hyny yn ddiethriad. *Trochi yn*, ac nid *ä*, yr Ysbryd Glân ac mewn tân, a arferir ynddo, yn gystal ag mewn, ac nid *ä* dwfr. Beth bynag oeddynt olygiadau neillduol y cyfieithwyr, yr oedd ganddynt ormod o barch iddynt eu hunain ac i'r gwirionedd, i wneyd cam ä'r testun gwreiddiol. Nid yw dynion dysgedig yn barod i aberthu anrhydedd y boneddwr a dysgeidiaeth yr ysgolhaig, ar allor ystyfnigrwydd yn nheml mympwy. Cyfieithir *baptizo* ä'r gair *trochi* (*immerse*) gan Dr. Campbell (*Pres. of Marischal College, Aberdeen*) hefyd, yn ei gyfieithiad rhagorol o'r pedwar efengylwr; ac felly y gwna Dr. Macknight yn ei gyfieithiad galluog yntau. Bwriedid y ddau ddiweddar yn fwy at wasanaeth y lluaws nä'r cyntaf, er eu bod yn addasach i ysgolheigion nag i'r werin. Gellir dweyd yr un peth am gyfieithiadau Fritzsche a Kuinoel; y mae y rhai hyn hefyd yn cyfieithu *baptizo* fel y cyfieithir ef gan y diweddar Barch. J. Williams yn yr Oraclau Bywiol. Er hyn oll, myn rhyw nifer fechan haeru, mai defod ddynol yw *trochiad*, ac mai ystyr gwreiddiol *baptizo* yw ystaenio, a'i fod yn golygu dwbio, ac *eneinnio* penwisgoedd menywod; cam-

ddarluniant hen awdwyr Groegaidd; cam-esboniant y Testament Newydd; diystyrant dystiolaethau unol y Tadau Groegaidd a Lladinaidd; gŵyrant ffeithiau mewn hanesiaeth eglwysig, a chyfansoddant "*ffeithiau*" (?) i ateb eu dybenion personol, änt heibio i hen gyfieithiadau a'r rhai mwyaf dysgedig, ac ni chymmerant arnynt eu hod yn gwybod am danynt. Onid yw cyndynrwydd duwinyddol yn fawr!!!

#### BARNAU TAENELLWYR DYSGEDIG DIWEDD- AR AE YSTYR BAPTIZO YN YR OES APOSTOLAIDD.

Y mae addefiadau tyst mewn unrhyw lys, o gymmaint pwys, ac yn fynych o fwy pwys, nag unrhyw ran arall o'r dystiolaeth. "Y mae yn ffaith fod ugeiniau o brawfiadau yn cymmyrdd lle yn llysoedd Prydain Fawr, bob blwyddyn, lle y bydd y naill ochr yn ymddibynu yn *hollol* ar addefiadau a wneir gan y llall. Y mae yn ffaith hefyd fod ein barnwyr oll, o'r *Lord Chief Justice*, i'r ynad distadlaff yn y deyrnas, yn gosod mwy o bwys ar *addefiadau* tystion nag ar y tystiolaethau a roddant dros y pynciau y byddant yn eu pledio.\* Y mae'r tystion canlynol yn gwneyd eu haddefiadau yn bwyllog a gwirfoddol, heb gael eu gorfodi gan neb nac unrhyw beth. Nid yw y ffaith o'u bod yn dweyd y gwna taenelliad y tro yn lle trochiad, yn effeithio yn y mesur lleiaf ar y pwnc mewn dadl. "Y mae yn sicr," ebe Witsius, "fod Ioan Fedyddiwr a dysgyblion Crist yn gyffredin, yn arfer *trochiad*, a dilynwyd eu siamplau hwy gan yr Eglwys gynt, fel y mae Vossius wedi dangos, trwy ddwyn llawer o brawfiadau o blith ysgrifenyddwyr Groeg a Lladin." Dywed ef, fel pob ysgolhaig arall, mai ystyr *baptizo* oedd *trochi*, neu *suddo*; nid oedd panu, cyflwyno, ac yfed llawer, wedi eu darganfod yn nyddiau Witsius. "Gwelliannau yr oes oleu hon" yw y rhan hyn. Fel y canlyn y llefera John Calvin:—"Y gair bedyddio ei hun sydd yn arwyddocau *trochi*; ac y mae yn sicr fod y ddefod o drochi yn cael ei harfer gan yr eglwys gynt" (*Calvin's Inst. Lib. ch. 15, s. 19*). O barthed y bedyddio yn Ainon, dywed fel y canlyn:—"Öddiwrth y geiriau hyn, gallwn weled fod bedydd yn cael ei weinyddu gan Ioan a Christ trwy *suddo* yr holl gorff mewn dwfr" (*Nodiad yn Paed. Ex. vol. i. p. 173*). Nid

\* "*Trochiad yw y Bedydd Cristionogol*," gan y Parch. Thomas Price.



oedd Calfin yn byw yn ddigon diweddar i wybod mai er mwyn cael dwfr i anifeiliaid yr ymgeiswyr i'w yfed y bedyddid yn Aion. Ceir y sylw canlynol yn ei waith ar fedydd yr eunydh:—"Yr ydym yn gweled yma pa fodd y gweinyddid bedydd gan yr henafiaid; *trochent* yr holl gorff mewn dwfr." Dr. Wall a hōna fod "arferion y Cristionogion y rhai oeddynt yn byw yn yr oesoedd agosaf at yr apostolion, wedi eu rhoi i ni mewn llyfrau, ac y mae yn wybodus y byddai y Cristionogion hyny yn arfer *trochiad* hollol" (*Hist. of Infant Bap.* p. 2. ch. 9). Gwna'r Dr. mewn man arall o'r un gwaith gondeinio'r "*gwawd halogedig* a ddangosir gan rai dynion at y Bedyddwyr, yn unig am eu bod yn *trochi*; gan ei fod, yn ol pob tebygolrwydd, y *dull* yn yr hwn y bedyddiwyd ein Gwaredwr bendigedig; a chan ei fod yn *sicr* y dull cyffredin o fedyddio gan yr hen Cristionogion. Y mae'r fath ymddygiad yn gwneyd y cwbl a ddywedir genym yn beth amheus." Gwirionedd bob gair yw y llinellau pwysig hyn o eiddo Dr. Wall. Y mae'r ddwy frawddeg ganlynol i'w gweled yn ngweithiau Dr. Campbell (*Lec. on Pulpit Eloquence*, p. 304):—"Yn ddiweddar, clywais ddadleuwr yn haeru, yn ngwyneb geirddarddiad ac arferiad, fod y gair *baptizo* yn golygu taenellu yn fwy priodol na *throchi*; ac yn taeru yn erbyn pob hynafiaeth mai taenellu oedd y dull cyntefig a mwyaf cyffredin o fedyddio. Y mae'r dyn a ddadleuo yn y modd hwn, bob amser yn sicr o lwyddo i fradychu yr achos y ceisia ei amddiffyn gyda dynion gwybodus. Er fod haeriadau haerllug yn llwyddo yn fynych gystal a rhesymau, ac weithiau yn well, gyda'r dosparth anwybodus; er hyny, byddai yn fach gan bob meddwl didwyl i gymmeryd cynnorthwy *CELWYDD*, hyd y nod i amddiffyn *gwirionedd*." Y mae yn anhawdd peidio meddwl am y brawddegau hyn o eiddo'r ysgolor addfed, a'r beirniad galluog, o goleg Aberdeen, pan yn darllen haeriadau disail a haerllug Thorn a'i ddysgyblion. Ysgrifennai Luther mor eglur a diamwys ar y pwnc, ag y dymunai unrhyw Fedyddiwr ei fod wedi gwneyd:—"Baptismos (bedydd) sydd air Groeg, a gellir ei gyfieithu *trochiad*, pan fyddir yn trochi peth mewn dwfr, fel y gorchuddir ef â dwfr. Ac er ei fod, gan fwyaf, bron wedi ei hollol ddileu, oblegid nid ydynt yn trochi yr holl blant, ond yn unig eu taenellu ag ychydig ddwfr; ond *dylent*, er hyuy, gael eu *trochi yn gyflawn*, a'u tynu allan yn union dra-

cheffn, am mai hyny y mae ystyr y gair yn ei ofyn. Mi a fynwn fod i bawb ag sydd yn cael eu bedyddio i gael eu *trochi* mewn dwfr." (*Tom.* i. 71, &c.; *Tom.* ii. 10). Gwna y geiriau hyn o eiddo'r Diwygiwr mawr, aros yn dystiolaeth eglur a phendant yn erbyn yr arferiad anapostolaidd o daenellu, cyhyd ag y byddo y ddefod heb ei llwyr ddileu. Nid oes eisieu hysbysu llenorion eglwysig, mai un o'u hawdurdodau pwysicaf mewn materion perthynol i hanesiaeth yr eglwys yw Mosheim: fel y canlyn yr ysgrifenna efe ar y pwnc:—"Y ffurf a fabwysiadodd Ioan at bawb oedd eu *suddo* mewn dwfr" (*Comt. on First Three Centuries*). Etto:—"Dysgyblion Ioan a ddygwyd i mewn i deyrnas y Frynwr trwy y gyn-ddefod o *suddiad*, neu fedydd" (*Eccles. Hist.* ch. i. part i.) Dr. Adam Clarke a Dr. Lightfoot a farnent mai trwy suddiad y corff mewn dwfr y gweinyddid bedydd Ioan. "Mai trwy suddo y corff (yn yr un modd a golchiad dynion aflan a bedydd proselytiaid), yr oedd bedydd Ioan yn cael ei weinyddu, a ymddengys yn debygol oddiwrth y pethau hyny a adroddir am dano; sef, ei fod yn *bedyddio yn yr Iorddonen*; ei fod yn *bedyddio yn Aion*, am *fod dyfroedd lawer yno*; ac i Grist, ar ol ei fedyddio, ddyfod i fyny o'r dwfr, i'r hyn yr ymddengys y geiriau yn Act. 8. 38, yn gyfatebol.\*"

Yn ol Dr. Macknight, darfu i Grist "ymostwng i gymmeryd ei fedyddio, hyny yw, *ei gladdu dan y dwfr gan Ioan*, ac i gyfodi o hono drachefn, fel arwydd o'i farwolaeth a'i adgyfodiad. Yr oedd bedydd Crist yn arwyddlun o'i farwolaeth a'i adgyfodiad. Ac yn yr un modd y mae bedydd y *crediniol* yn arddangosiad o'n marw, a'n claddu, a'n hadgyfodiad" (*Esbon. ar Rhuf.* 6. 4). Addefir gan bawb mai un o'r dynion mwyaf oedd Dr. Chalmers. Fel y canlyn yr esbonia efe y

\* *Clarke's Comt.*, vol. 5. p. 263. Yr *Esboniad Beirniadol*, gan *Idrisyn*, cyf. 4., tud. 415. Y mae barn Dr. Lightfoot a Dr. Clarke yn y dyfyniad uchod, canys darfu i'r olaf, yn ei esboniad, fabwysiadu golgiadau y blaenaf ar fedydd. "Y mae Dr. Lightfoot wedi dywedyd yn dda ar y pwnc," ebe Clarke, "ac yr wyf wedi cadw ei sylwadau ef erbyn y lle hwn, ac yn eu gorchymyn hwynt yn ddifrifol i sylw pob darlennydd diragfarn." Yna â rhagddo i ddyfynu o waith Lightfoot ar fedydd. Y mae yn wir fod Clarke yn ceisio dadleu, nad yw trochiad yn *fyw* cyfreithlon na thaenelliad, a bod tebygolrwydd yn erbyn fod bedydd Ioan trwy drochiad, ond ni effeithia hyny ar yr addefiad uchod o'i eiddo fel ysgolhaig a dyn gonest. Y mae'r ysgolhaig a'r duwinydd yn anghytuno yn mynwesau rhai Taenellwyr dysgedig.



geiriau hyn (Rhuf. 6. 4):—"Ystyr gwreiddiol y gair bedydd yw trochiad. Ac er ein bod ni yn edrych arno yn beth di-bwys, pa un a weinyddir yr ordinhad yn y dull hwn neu trwy daenelliad; etto y mae yn ddiammheu mai y dull cyffredin yn nyddiau yr apostol oedd, *trwy suddiad gweithredol yr holl gorff mewn dwfr*. Yr ydym yn cyfeirio at hyn er mwyn taffu goleuni ar y gyferbyniaeth a ddygir yn mlaen yn yr adnodau hyn. Yr Iesu, trwy ei farwolaeth, a aeth o dan y fath hyn o fedydd, sef *suddiad* o dan wyneb y ddaear, o ba le y darfu iddo yn fuan ddadysmuddo trwy ei adgyfodiad; ninnau, trwy gael ein bedyddio i'w farwolaeth ef, a olygir megys wedi gwneyd symudiad cyffelyb yn y weithred o fyned i lawr o dan y dwfr bedydd, wedi rhoi ymaith yr hen fuchedd, ac yn y weithred o ddyfod i fyny wedi dadysmuddo i ail neu fuchedd newydd" (*Lect. on Romans 4, 6.*) Nid yw o un gwahaniaeth nad oedd y dyn talentog a dysgedig hwn yn ystyried y dull o bwys; y mae yn ddigon i ni, yn y rhan hon o'n hymchwiliad, ei fod fel lluoedd o Daenellwyr dysgedig ereill, yn addef "mai trwy suddiad gweithredol yr holl gorff dan y dwfr, y gweinyddid bedydd yn nyddiau yr apostolion." Addefa y Parch. John Wesley, M.A. (*Esbon. ar Rhuf. 6. 4.*), sylfaenydd y Cyfundeb Wesleyaidd, mai cyfeiriad at "yr *hen* ddull o fedyddio trwy drochiad" sydd yn Rhuf. 4. 6. Cawn hefyd y cofnodiad canlynol yn ei ddyddlyfr am weinyddiad bedydd:—"Mary Welsh, un diwrnod ar ddeg oed, yr hon a fedyddiwyd yn ol arferiad yr eglwys gyntefig, a rheol Eglwys Loegr, trwy *drochiad*. Yr oedd y plentyn yn glaf ar y pryd, ond gwellhodd o'r awr hono allan" (*Dyddlyfr y Parch. J. Wesley*, tud. 11, 2 ar.) Y mae'r dyfyniad hwn etto yn dangos yn mha ystyr, yn ol barn Wesley, yr arferid *baptizo* yn yr oes apostolaidd—yr "*hen* ddull o fedyddio trwy drochiad." Ni ddarfu i Mr. Wesley ein hysbysu pa bryd, na chan bwy yr awdurdodwyd ei gyfeillion ac yntau i newid dull yr "eglwys gyntefig," ond nid oes a fyno hyny chwaith â'r ystyr a gyssylltai â *baptizo*.\*

\* "The distinctive characteristic of the institution of baptism is *immersion*, *baptisma*, which cannot be omitted without destroying the mysterious sense of the sacrament, and contradicting at the same time the etymological signification of the word, which serves to designate it. The church of the West has, then, departed from the example of Jesus Christ; she has obliterated the

Dangoswyd ar dudalenau ereill mai trochiad oedd y dull cyffredin o weinyddu bedydd am dri chant ar ddeg o flynyddau, ond rhagi ryw frawd gwan feddwl nad yw Brenner yn dweyd y gwir, o herwydd ei gyssylltiad â Phabyddiaeth, dygwn ddau neu dri o dystion ereill i'r llys. Y cyntaf yw yr Esgob Bossuet:—"Yr ydym yn alluog i brofi, trwy weithrediadau y cymmanfaoedd, a hen ddefodau cynghor-lysoedd fod bedydd trwy *drochiad* yn cael ei weinyddu, hyd ag oedd bosibl, gan yr holl eglwys am dri chant ar ddeg o flynyddau" (*Stenett's Ans. to Russen*, p. 176). "Y mae amryw awdwyr wedi profi fod *trochiad* yn cael ei arfer (can belled ag yr oedd yn ddichonadwy) gan yr eglwys am dri chant ar ddeg o flynyddau ar ol Crist" (*Stokhouse's Hist. of the Bible*, p. 8). Ceir barn Dr. Whitby ar y pwnc yn y geiriau canlynol:—"Gan y mynegir mor bendant yma (Rhuf. 6. 4), ac yn Col. 2. 12, ein bod wedi ein *claddu* gyda Christ yn y bedydd, trwy gael ein *claddu* o dan y dwfr, a chan fod y trochiad hwn wedi ei gadw mewn modd crefyddol gan y Cristionogion dros dri chant ar ddeg o flynyddau, a'i fod wedi ei gymmeradwo gan ein heglwys ninnau, a chan fod ei newidiad i daenelliad heb un caniatad oddiwrth Awdwr y sefydliad, neu genad unrhyw gynghor eglwysig, yn beth ag y mae'r Pabydd etto yn ei gynnig i gyflawnhau ei wrthodiad o'r cwpan i'r lleigion, byddai

whole sublimity of the exterior sign; in short, she commits an abuse of words and of ideas, in practising baptism by aspersion, this very term being, in itself, a decisive contradiction. The verb *baptizo*, *immergo*, has in fact but one sole acceptation. It signifies, literally and always, to plunge. Baptism and immersion are, therefore, identical, and to say baptism by aspersion, is as if one should say immersion by aspersion, or any other absurdity of the same nature." (*Considerations on the Doctrine and Spirit of the Orthodox Church, by Alex. de Stourza, Russian State-Councillor of the Greek Church*). Pa un ai Taenellwyr dinod Cymru, ynte y Groegwr dysgedig uchod, sydd yn gwybod oreu beth yw ystyr y gair mewn cwestiwn? Dywed ef yn bendant nad oes i'r ferf ond un ystyr—fod bedydd a throchiad yn eiriau cyfystyr, a bod siarad am fedydd trwy daenelliad mor wrthun a dweyd, *trochiad* trwy daenelliad, neu ryw wrthuni cyffelyb. Y mae llawn cymmaint o synwyr mewn crogi neu groeshoelio trwy daenelliad ag sydd mewn bedyddio trwy daenelliad. Paham na welai ein cyfeillion? Ac os ydynt yn gweled, paham nad ydynt yn ddigon dewr a Christionogol i adael eu dull anysgrythyrol a gwrthun, a mabwysiadu yr unig ddull a arwyddas *baptizo*?



yn ddymunol cael y ddefod i arferiad cyfredin etto" (*Note on Rom. 6. 4*).

Gŵyr ein cyfeillion goleuedig gystal a ninnau, mai gorchwyl hawdd fyddai cael ugeiniau o dystion ereill o fysg Taenellwyr gwybodus; ond y mae ystyriaethau pwysig yn ein darbwyllio i geisio gwrthsefyll y demtasiwn o ddyfynu rhagor o'u gweithiau.

Pan yn edrych ar y rhanau blaenorol o'r ysgrif hon ar *baptizo*, y mae'r pethau canlynol yn ymddangos mor amlwg a bod dau ddau yn gweyd pedwar, sef:—1. Mai trochi, neu suddo, yw *gwir* ac *unig* ystyr *baptizo*, yn ol tystiolaethau diamiwys ac unol ysgrifenydd Groegaidd, cyn, ac yn amser yr apostolion. 2. Mai y *gwir* a'r *unig* ystyr uchod, a gyssylltwyd âg ef gan yr ysgrifenyddysbrydoledig mewn cysylltiad â'r ordinhad o fedydd. 3. Mai trwy drochiad y bedyddid gan yr apostolion, a chan eu holynwyr, yn ol tystiolaeth y tadau Groegaidd a Lladinaidd, y rhai oeddynt yn byw yn y canrifoedd cyntaf, yr hyn sydd yn profi nad oedd taenelliad yn adnabyddus yn yr oes apostolaidd. 4. Fod awdwyr y cyfeithiadau henaf, a'r rhai a arferir yn bresenol yn ngogledd Ewrop, yn ystyried trochi a bedyddio yn eiriau cyfystyr, a bod yr holl gyfeithiadau hyny, yn gystal a thystiolaeth y Tadau a enwasom, yn erbyn y Taenellwyr ac o blaid y Bedyddwyr. 5. Mai y dull o *drochi* a arferid yn gyfredin gan bob cyfundeb crefyddol o bwys o'r oes apostolaidd hyd yn ddiweddar, fel y dengys llyfrau eu defodau ac hanesiaeth eglwysig. 6. Fod y nifer fechan ag sydd yn ceisio gorfodi *baptizo i ddwbio*, i banu, ac i yfed llawer, &c., yn gwneyd eu hunain yn wrthddrychau tosturi i bob dosparth goleuedig, trwy ddyfeisio ac amddiffyn golyg-ddysg (rhoi *effaith* peth yn *ystyr* i'r *moddion* neu yr achos a'u cynnyrha), yr hon sydd yn dyfetha pob beirniadaeth ieithyddol, yn gwneyd moddeiriau yn ddigon hyblyg i bob mympwy, ac yn fwy ystwyth nag *India rubber*. 7. Fod ysgolheigion presenol a diweddar, o bob cyfundeb crefyddol, Taenellwyr a Bedyddwyr, yn unol yn eu barn o ethryb ystyr *baptizo*, ac o berthynas i'r dull apostolaidd o fedyddio.

#### Y GWRTHDDADLEUON.

Gellid meddwl y gwasanaethai hynyna ar y dull; ond y mae'r ffaith o fod rhai o'r Taenellwyr yn cyssylltu cryn bwys â'r gwrthddadleuon a ddygant i'n herbyn, yn ein rhwymo yn mhellach i ddangos gwen-

did y rhai penaf o honynt, fel na fyddo gan ein cyfeillion mwyach un rhith o esgus dros lynu wrth eu dull dynol ac anmhwyrpasol hwy, a nacau ufydd-dod i'r unig ddull cyntefig a Beiblaidd. Wrth ddymchwelyd y rhai hyn, ceir cyfleustra i sylwi yn fyr ar rai o'r fleithiau a ddefnyddir i amddiffyn dull y Bedyddwyr. Y gwrthddadleuon blaenaf a wnawn alw yn—

"*Wrthddadleuon yr arddodiaid*." Ymagorant i dri neu bedwar o ddosparthiadau gwahanol, y rhai a gant ein hystyriaeth yn y drefn ganlynol:—"Bedyddio â dwfr" (*Math. 3. 11, &c., &c.*). Rhoddir cryn bwys ar *â* gan rai nad ydynt yn alluog i gymmeryd mwy na golwg arwynebol ar y mater; tybir ei bod yn profi y dylid cymhwyso'r dwfr at y person, ac nid rhoi y person mewn dwfr, yr hyn yw y cwbl a chwennychant yn nabl y dull.

Ein sylw cyntaf ydyw, mai dynodi *moddion* neu gyfrwng gweithred, ac nid dangos *dull* ei chyflawniad, yw swydd yr arddodiaid *â* pan yn cael ei *flaenori* gan weithredair, a'i *ganlyn* gan sylweddair neu enw cadarn; o ganlyniad, pe *mynid* cadw *â*, a hyny yn groes i bob rheswm, gwnelai yn ol y rheol uchod ddangos yr *elfen fedyddiol*, ond ni ddynodai y *dull* o'i defnyddio. Os oes eithriadau, nid ydym yn cosio am danynt. "Dygi hwynt ymaith megys *â* llifeiriant" (*Salm 90. 5*). "Canys *â* llaw gadarn y dug yr Arglwydd ni allan o'r Aifft" (*Exod. 13. 16*). A oes rhywun tu allan i'r gwallgofdy yn ddigon nyfyd i haeru mai *dulliau* o weithredu, ac nid *cyfrwngau* y gweithrediadau, a ddysgir yn y brawddegau uchod? Beth bynag a feddylir am "law" yr Arglwydd, sonir am dani fel *cyfrwng* gwaredigaeth yn *Exodus*. Gwyddom rywbeth am llifeiriant; pan ddygir dynion ymaith ganddo, y mae'r trueniaid yn drochedig *ynddo*, onid ydynt? ac nid yn cael eu taenellu, er mai "*â* llifeiriant" yw yr ymadrodd yn y *Salm*. Nid dyben y *Salm* yd oedd dangos *dull*, eithr crybwyll cyfrwng gweithrediad, fel y mae Ioan yn cyfeirio at y gwahanol elfenau bedyddiol, yn *Math. 3*. Crybwylla Paul am lanhau "*â* r olechia ddwfr trwy'r gair" (*Eph. 5. 26*). A oes rhyw Daenellwr yn ddigon ffol i daeru mai *dull* o weithredu, ac nid *moddion* neu gyfrwng y weithred, a ddynodir gan yr arddodiaid bannodol *â* r yn yr adnod hon? Rhan o genadwri yr Arglwydd at Pharaoh oedd:—"Ac os gwrthodi eu gollwng, wele, mi a darawaf dy holl derfynau di *â* llysfaint" (*Exodus 8. 2*). A oes rhywun yn foddlon profi ei



hawl i amgeledd y *madhouse* trwy haeru fod *a* yn yr adnod hon yn profi mai *cym-hwyso* y llyffaint at wahanol bersonau a wnawd, yn debyg i'r modd y taenellir dwfr ar wyneb maban? Y mae *dull* gweinyddiad y farnedigaeth hon yn cael ei gofnodi yn y bennod, ond nid yw *a* yn yr adnod ddyfynedig yn un cymhorth i ni wybod beth ydoedd yn annibynol ar yr hanes. Darllener y cyssylltiad, a gadawer i synwyr cyffredin roi barn. Rhoi hanes y *moddion* a arferwyd, ac nid darlunio y *dull* o ymlwybro, oedd pwnc yr ysgrifenydd. "A'th ddeheulaw a'm cynnaliodd, a'th fwynder a'm lluosogodd" (Salm 18. 35). A ydyw'r a gyntaf yn y frawddeg hon yn ein dysgu yn mha *ddull* y mae deheulaw Duw yn cynnal? a'r ail yn ein gwneyd yn adnabyddus a'r *modd* y mae mwynder Duw yn lluosogi? Os nad ydynt, ar ba dir y mae "*a* dwfr" yn dysgu pa *ddull* y dyliad bedyddio? Y mae *a* yn ateb yr un dyben yn yr enghreifftiau a ddyfynasom, ag a wasanaetha yn Galar. 4. 9:—"Gwell y rhai a laddwyd *a* chleddyf, na'r rhai a laddwyd *a* newyn"—dangos cyfryngau neu foddion, a dim arall. Dywed Crist y gwna ymladd yn erbyn rhywrai "*a* chleddyf ei enau" (Dad. 2. 16), ac y mae gwybod y *sut*, y *pa* *fodd*, neu y *dull* a gymmer i ymladd yn eu herbyn oddiwrth *a* yn y geiriau a ddyfynwyd, mor anhawdd ag y mae penderfynu *dull* gweinyddiad bedydd oddiwrth *a* yn "*a* dwfr,"—y mae'r naill mor anhawdd a'r llall. Defnyddir *a* yn arddodiad gwreiddiol a moddol weithiau, pan y mae'r dyn neu y peth yn drochedig yn, neu yn orchuddiedig gan wrthdrych yr arddodyn ("*a* llifeiriant"); ac arferir ef hefyd pan gymhwysir gwrthdrych yr arddodiad at wrthddrych arall, sef y cleddyf at y person a leddir ag ef, &c. Nid yw *a* yn ein dysgu pa un ai y cyfrwng neu yr offeryn sydd yn cael ei gymhwyso at ei wrthddrych, ynte y gwrthddrych a gymhwysir at yr offeryn. Pan ddywedir fod dyn wedi lladd ei hun *a* chleddyf, nid yw *a* yn profi mai cymhwyso *ei hun* at ei gleddyf a wnaeth, fel y darfu Saul a'i yswain, nac yn brawf i'r *gwrthwyneb* chwaith; nodi allan *offeryn* o fysg offerynau ereill yw y nŵd mewn golwg, ac nid darlunio un *dull* pennodol, a chau allan bob *dull* arall. Yn 1 Sam. 30. 11, ceir hanes gweision Dafydd yn diodi dyn lluddedig "*a* dwfr;" ond nid yw *a* yn ein dysgu yn mha *ddull*, pa un ai rhoddi dwfr iddo (yn y drefn gyffredin) i'w yfed a wnaethant, *neu ynte ei ddodi yn ei enau*. Efallai

mai y llwybr olaf o'r ddau a fabwysiadasant, gan fod y truan wedi byw am drī diwrnod a thair noson heb fwyd na diod. Nid yw *a* yn dweyd pa un o'r ddau. Peth rhyfedd ei bod yn llefaru mor groyw a chyfarwyddiadol yn Math. 3. 11, ac mor aflafar mewn manau ereill. Nid yn gyffredin y mae yn chwareu triciau mor ofidus. "Pwy a'm dioda i *a* dwfr o bydew Bethlehem?" (2 Sam. 23. 15) gofynai Dafydd, ond y mae *a* mor ystyfnig yn y cwestiwn hwn etto, ag y mae mewn llawer o ymadroddion ereill. Crybwylla awdwr yr epistol at yr Hebraid am olchi ein cyrff "*a* dwfr glân" (Heb. 10. 22); dywed Macknight fod cyfeiriad yn y geiriau at Lef. 16. 4; ac at y golchiad mewn bedydd (yr hwn a weinyddir trwy drochiad yn ol Macknight); os felly, nid yw *a* yn fwy anffafriol i drochiad nag y mae i daenelliad. Nid yw porthi *a* bara, diodi *a* dwfr, a dilladu *a* dillad, yn arwyddo dulliau pennodol o weithredu; y *dull* o borthi a diodi babanod yw dodi ymborth a diod yn eu geneuau, ond nid yn y *dull* hwnw y porthir ac y diodir dynion mewn oed. Dilledir rhai bychain, nid yn unig pan yn darparu dillad iddynt, ond hefyd trwy eu gwisgo am danynt. "A'i phlant hi a laddaf *a* marwolaeth" (Dad. 2. 23); ond a oes rhywun mor ynyd a cheisio penderfynu *dull* eu marwolaethiad oddiwrth yr ymadrodd hwn. Efallai fod *amryw* *ddulliau*, nis gwyddom. Ceir *a* yn hollol ddystaw. Y mae llawer ffordd i ladd, a llawer ffordd i ddefnyddio dwfr. Lledir rhai trwy eu suddo mewn dwfr, ac ereill trwy eu trywanu, &c. "Wele, eich Duw chwi a ddaw *a* dial, ie, Duw *a* thaledigaeth" (Esa. 35. 4). Os mai swyddogaeth *a* yw dynodi *dull*, dylai y ddwy *a* hyn roi hysbysrwydd am *ddull* gweinyddiad y farnedigaeth hon, yn ol golygddysg ein cyfeillion; ond os dylent, y mae'r ddwy mor ystyfnig a Pharaoh yn ngwyneb hawliau dyledswydd. "Ac a amgylchir *a* dyfroedd," medd Nahum (3. 8), am "No dylwythog;" ond nid yw *a* yn ein dysgu o ethryb y *dull*—pa un ai arwain y dwfr o amgylch y lle wedi ei orphen a wnawd, ynte ei adeiladu rhwng y môr ac afonydd yn y gymmydog-aeth. Y mae'r *dull* yn adnabyddus; ond nid i *a* yr ydym i ddiolch am hyny. Mor angharedig y mae'r arddodiad hwn yn mhob man, ond yn unig pan y mae eisieu ei gymhorth i benderfynu *dull* bedydd. Os gofynnwn iddo *sut* y mae Duw yn llwyddigoni dynion "*a* brasder ei dy," ac yn eu diodi "*ag* afon ei hyfrydwech" (Salm 36. 8),



ni chawn un math o ateb, ac nid yw yn fwy parod i roi goleuni ar *ddull* yr Arglwydd yn diodi dynion "*â* gwin madron-dod" (Salm 60. 3). Gwyddom sut y diodwyd ein Ceidwad bendigedig â finegr (Ioan 19, 29, 30), ond os oes cyfeiriad at yr amgylchiad yn Salm 69. 21, nid oes achos i ni ddiolch i'r arddodyn *â* yno am ein gwybodaeth. Gorchwyl rhyfedd yw diodi dynion "*â* dagrau" (Salm 80. 5), a byddai gwybod dull y diodiad yn ddyddorol; ond yn ofer yr apelawn at *a* am oleuni ar y pwnc. Y mae Duw yn crybwyll am borthi *â* wermod, a diodi "*â* dwfr bustl" (Jer. 9. 15); ond yr oedd *a* mor anfwyn ac anufydd yn amser Jeremiah ag yn amser Dafydd: o ba herwydd, ceidw ei gwybodaeth iddi ei hun. *Conservative* i'r pendraw oedd yr arddodiad hwn (gyda golwg ar ddulliau) o dan yr hen oruchwyliaeth; ond can gynted ag y gwawriodd y newydd, aeth yn *liberal* eithafol ar unwaith yn mherson Ioan Fedyddiwr. Ni pharhâodd yn hir yn mysg y *radicals*, canys yr oedd mor anmharod ag erioed i gyfranu gwybodaeth am ddulliau yn amser Ioan y Difnydd, ac nid oedd nemawr gwell yn amser Paul. Yr oedd mor anhyblyg a *rantizo* yn nyddiau Dafydd, ond trwy ryw oruchwyliaeth nas gwyddom am dani, daeth mor ystywyth a *baptizo* ei hun, pan y cafodd olwg ar Ioan yn afon yr Iorddonen. Ac ysgrifenu yn ddifrifol, gellid cael ugeiniau lawer o enghreifftiau ereill i brofi mai dangos offerynnau neu foddion, ac nid egluro dull pennodol o weithredu, y mae yr arddodiad *a*; ond golygir fod yr hyn a ddyfynwyd yn ddigon.

Yr ail sylw a gynnygiwn ar yr wrthddadl hon yw, mai "*mewn dwfr*," ac nid "*â* dwfr," sydd yn y cyfieithiadau goreu a henaf, ac yn neillduol yn mhob cyfieithiad o'r Testament Newydd a fwriadwyd i ysgolheigion. Dangoswyd yn barod nad yw *a* o un gwerth i'n cyfeillion; ond gwerth neu beidio, nis gellir caniatu iddynt ei chadw. Tröed y darlennydd yn ol at y cyfeiriadau a wnaethom at y cyfieithiadau, a'r hyn a ddyfynwyd o honynt. Nid oes un darlennydd mor gibddall fel na theimla ddyllanwad y ffaith o fod "*trochi mewn dwfr*" yn lle "*bedyddio â* dwfr," yn y cyfieithiadau a fwriadwyd i *ddysgedigion*. Ffaith *arwyddol* iawn yw hon, a llefara gyfrolau ar y pwnc. Paham y mae Dr. Campbell ("*Four Gospels translated from the Greek in two vol.*"), yn cyfieithu Math. 3. 11, *mewn dwfr*, ac nid *â* dwfr, ac yntau yn Daenellwr? A oes rhywun a feiddia

ddweyd nad ei ddysgeidiaeth a'i onest-rwydd fu yr achos? Yn mha le y mae'r ysgolhaig sydd yn ddigon ynfyd i ammheu cyfieithiad y Dr.? Ai nid yr un rhagoriaethau a barasant i'r geiriau "*â* dwfr" gael eu cyfieithu "*mewn dwfr*" yn nghyfieithiad uchelglod Schott. Os "*a* dwfr" sydd yn iawn, y mae Schott, Campbell, ac ysgolheigion ereill, yn tywyllu y Beibl yn hytrach nâ'i egluro yn eu cyfieithiadau gorchestol, ac y mae Math. 3. 11, yn enghraifft; ond a oes un dyn gwybodus ac ystyriol a feiddia wneyd y fath honiad? Y mae ateb yn gadarnhâol yn llwyr anmhosibl. Cyhudda rhai o'r pethau ysgafnaf yn mysg y Taenellwyr y Bedyddwyr o fod wedi gwneyd Beibl Newydd, o herwydd mai "*trochi mewn dwfr*," ac nid "*bedyddio â* dwfr," sydd yn nghyfieithiad rhagorol y diweddar Barch. John Williams; ond gŵyr y gwybodus na ddarfu i Williams (parch i'w enw) wneyd mwy nag a wnaethid cyn ei eni ef, gan rai o ysgolheigion goreu y Taenellwyr. Pan fethir dyfetha *pethau* dynion, ceisir eu dinystrio âg *enwau cas*. Y mae anwybodaeth rhai yn peru iddynt wneyd eu hunain yn wrthdrysychau tosturi i ereill. Dawn gwerthfawr yw yr hwn sydd yn galluogi dyn i guddio ei ffolineb. Y mae Beibl Gymdeithas y Bedyddwyr yn America, yr hon sydd wedi dwyn allan gyfieithiad diwygiedig o'r Testament Newydd, yn cyfieithu *baptizo* i *drochi*, ac "*â* dwfr" i "*mewn dwfr*," a bydd dydd barn wedi gwawrio cyn y gellir dangos annghywirdeb y cyfieithiad yn ei berthynas â'r geiriau hyn.\*

Y trydydd sylw a gynnygir ar wrthddadl yr *a*, a gynnwysa ran o feirniadaeth Dr. Campbell ar Math. 3. 11. Dywed mai yr arddodiad Groeg *en* (*mewn neu yn*) sydd yn yr unfed adnod ar ddeg ag a geir yn y chwechfed; buasai ysgrifenu

\* Amddiffyn ymddygiad y Gymdeithas yn defnyddio *immerse* yn lle *baptize* yw un o amcanion ymddangosiad "*Baptizein*" gan Dr. Conant. Fel y canlyn y llefara efe ei hun ar y pwnc:—"In substituting the literal English meaning of this word for its Anglicised form, in a revision of the New Testament for popular use, the writer feels that a just deference to public opinion, as well as to Christian feeling, requires that the reasons of this change should be fully set forth. It is believed, that the method adopted in the investigation will commend itself to the candid inquirer. By allowing the impartial witnesses of antiquity to speak directly to the reader, he is placed in a position to judge for himself of the writer's deduction from their testimony, which is recorded in the revised text" (*Baptizein*, pref.).



bedyddio *d'r* Iorddonen yn annoddefadwy o chwithig, am hyny arferwyd *in Jordan* (*yn yr Iorddonen*); ond defnyddiodd y cyfieithwyr *â* yn yr unfed adnod ar ddeg, a hyny o herwydd rhyw reswm adnabyddus iddynt hwy. Y mae yn dra thebyg mai boddio'r brenin oedd yr amcan mewn golwg. "Y mae yn beth galarus," ebe Dr. Campbell, "fod hyd y nod dynion da a dysgedig yn gadael i olygiadau ac arferion y sect i'r hon y perthynant i wro eu barn." Ei gyfieithiad ef o'r adnod yw:—

"*I immerse you in water.....he shall immerse you in the Holy Spirit and in fire.*" "Haera llawer," meddai un awdwr manwl, "fod *a* hefyd yn un o ystyrion yr arddodiad Groeg *εἰς*. Pe caniateid hyny, ni ddylid sylfaenu un ddadl arno y naill ochr na'r llall, oblegid nis gellir sylfaenu dadl ar ystyr gair, os bydd y gair hwnw yn meddu rhagor nag un ystyr. Gwyr pob un sydd yn gallu darllen y Testament Groeg, fod *εἰς* yn cael ei gyfieithu yn *yn* bob tro yr arferir ef yn y gwahanol adnodau yn Math. 3., oddieithr yn yr unfed adnod ar ddeg. Adn. 1, '*Ac yn* (*εἰς*) y dyddiau hyny.' '*Yn* (*εἰς*) niffaethwch Judea.' Adn. 3, '*Yn* (*εἰς*) y diffaethwch.' Adn. 6, '*Yn* (*εἰς*) yr Iorddonen.' Adn. 9, '*Ynoch eich hunain*' (*εἰς εαυτοῖς*). Adn. 12, '*Yn* (*εἰς*) ei law.' Adn. 17, '*Yn* (*εἰς*) yr hwn.' Dyma bob man yr arferir ef yn y bennod hon, ond yn yr unfed adnod ar ddeg; ac y mae wedi cael ei gyfieithu yn *yn* (*in*), yn y cyfieithiad cyffredin *yn mhob* un o honynt, ond gwneir yr adnod mewn dadl yn eithriad. Yr oedd yn rhaid ei gyfieithu felly yn mhob adnod arall o'r bennod, mewn trefn i wneyd synwyr o hono; ac onid yw cyfieithiad unfurfiol *εἰς* yn *yn* (*in*) yn mhob adnod arall yn ddigon i dafu amheuaeth ar yr *â* yn yr unfed adnod ar ddeg, pe na fuasai genym un ffordd arall i benderfynu ystyr yr arddodiad *εἰς*? Onid yw yn naturiol i ni farnu, fod rhyw amcan yn cael ei gyrrhaedd yn yr eithriad hwn? Gwyddai y cyfieithwyr, y buasant i raddau pell yn rhoddi pen ar y ddadl, pe y cyfieithasant *εἰς* yn *yn* yn adn. 11, fel y dylasant wneyd."\*

Y pedwerydd sylw yw, mai *mewn* ac nid *â* ddylai fod yn yr adnod hon ac adnodau cyffelyb (Marc 1. 8; Act. 1. 5, &c.), yn olyrhyn a ddywed gramadegwyr ar swydd yr arddodiad *εἰς*. Ystyr llythyrenol *εἰς* yw *yn*, ac nid *â*: dyma y *rheol*. Dywed Winer, un o'r gramadegwyr dysgedigaf ac enwocaf

yn Germany:—"Yr arddodiad hwn (*εἰς*) a arwydda gofod (*space*) o fewn pa un y mae unrhyw beth" (*Gram. of New Test. Dict.* part iii). Yn ngeirlyfr Robinson, y mae'r ddwy frawddeg ganlynol:—

"*Εἰς*, a preposition, governing the *dative*, with the primary idea of rest in a place or thing, as also *on, at, by*. As compared with *εἰς* and *εἰς*, it stands between the two; *εἰς* implying motion *into*, *εἰς* the being or remaining *in*, and *εἰς*, motion out of."

Beth bynag a all fod yn *eithriad*, dyna y *rheol*; a gwyr pawb a fyno wybod, nad oes yn yr adnodau sydd yn cynnwys "*â* dwfr" ac "*â* than," ddim yn ein rhwymo i droi y rheol o'r nilldu, a mabwysiadu unrhyw eithriad.\* Cofier mai nid *tybiaeth* yw hynyna, eithr flaith nas gallwn fforddio amheueichywirdeb heb wneyd ein hunain yn agored i amheuaeth. Os yw dysgeidiaeth addfed i gael ei pharchu, rheolau sefydlog ieithyddiaeth i gael sylw, a barn synwyr cyffredin i gael gwrandawriad, nid yw'r geiriau "*â* dwfr," *d'r* Ysbyrd Glân, ac *â* than," yn gyfieithiadau ffyddlon o *εἰς* y Groegiaid, a dylai fod *mewn* ac *yn* (fel bo'r achos) yn lle'r *â*. Os tueddir unrhyw sectwr cul ac arwynebol i'n dwrddio am geisio "newid y Beibl," ystyried hwnw nad ydym yn gwneyd rhagor na dadleu golyg-ddysg yr hon a amddiffynir gan Daenellwyr o'r dosparth uchelaf. Cytuned ein cyfeillion â'u gilydd cyn ein beio ni. Gan fod *en* yn golygu *gorphwysiad mewn* lle neu beth, fel y dywed Robinson—*eis* yn arwyddo ysgogiad neu fynediad i beth —*ek* yn golygu dyfod allan o—ac *en* rhwng y ddau, yn dynodi *arosiad* rhwng y mynediad i *mewn* a'r dygiad allan, neu yr ymadawriad o *hono*, y mae anaddasrwydd yr arddodiad *â* i fod yn gyfieithiad o *en*, a chyfaddasrwydd *yn* i gymmeryd ei le, mor eglur, fel nas gall y basaf ei feddwl, na'r mwyaf anllythyrenog lai na'i weled. Beth sydd yn eglurach na myned i *dŷ* neu *ddwfr*, bod *ynddo* wedi myned *iddo* (am eiliad, hanner eiliad, neu awr, &c.), a dod o *hono*—allan wedi hyny.

Y *pummed* sylw a wnawn ydyw, mai *yn* a *mewn* sydd yn cydweddu yn synwrol âg ystyr *baptizo*. Y mae "*trochi â* dwfr," "*suddo*" neu "*tansuddo â* dwfr," nid yn unig yn swnio yn chwithig, ond hefyd i'r graddau eithaf yn wrthun. Nid yw y geiriau yn llai felly yn Saesneg:—To immerse

\* Gwel SEREN GOMER, cyf. i., o'r gyfres newydd, 1861.

\* Nid yw *â* yn gwneyd synwyr (fel y cawn ddangos) ar ol trochi, am hyny, ni ddylai gael bod lle mae.



with water, to dip with water. Oni swniai yr ymadroddion canlynol yn chwithig fel y canlyn:—"Yr oedd Ioan yn trochi *d'r* (en) diffaethwch;" "ac a'u trochwyd oll ganddo *d'r* Iorddonen" (Marc 1.4,5). "Ac yr oedd Ioan hefyd yn trochi *d* neu *dg* (en) Ainon" (Ioan 3. 23). "Yr hwn a drocha ei law gyda mi *d'r* (en) ddysgl" (Math. 26. 23). Y mae pawb yn gweled fod y gwrthuni yn rhy amlwg i'w wadu yn yr enghreifftiau uchod, ac y gwnelai *yn* yn lle *a*, bob un o honynt yn synwrol. Pe gadewid bedyddio fel y mae, nis gwnelai *d* ac yntau lawer mwy o synwyr nag a wna *d* a *throchi*:—bedyddio *d'r* diffaethwch, bedyddio *d'r* Iorddonen, bedyddio *d* (neu *ag*) Ainon, trochi ei law gyda mi *d'r* ddysgl. Gellir haeru gyda'r sicrwydd mwyaf, na cheir ymadroddion mor ddisynwyr mewn unrhyw iaith. Yr ydym yn caniatáu fod *en* yn golygu *d* weithiau, ond yn anfynech iawn; y mae *en* i'w weled mewn pedwar ar ddeg o fânau yn Ioan 1, ac i *yn* y cyfieithir ef yn *ddieithriad* yn mhob un o honynt. Y rheol gyda golwg ar *yn* ac *d* fel cyfieithiadau o *en* yw, fod *en* i gael ei gyfieithu yn *ya* neu *mewn* bob amser y byddo synwyr yr ymadrodd cyfieithiedig yn caniatáu hyn (ac yn anfynech y mae yn peidio), ac mai *d* sydd i gael ei defnyddio yn yr eithriadau na wnant synwyr trwy gyfieithu *en* yn *yn*. Gan mai dyma y rheol sydd yn cael ei dilyn gan gyfieithwyr, yr ymofyniad ydyw, a wna *yn* a *mewn* y tro yn lle *d* yn yr ymadroddion "*d* dwfr," "*d* thân," ac "*d'r* Ysbyrd Glân?" Nis gwnawn sarhau synwyr ein darlennwyr i gymmaint graddau a cheisio *profi* iddynt yr hyn sydd yn hunan-eglor i bob un o honynt. Y mae ein hail sylw ar yr wrthddadl hon ("*d* dwfr"), sef cyfieithiadau'r dysgedigion, yn dangos nad yw ein hymresymiad yma yn dwylodrus. *Yn* a *mewn* ddylai fod genym yn lle *d* yn y cyfieithiad cyffredin; os nad yw deddfau iaith ac onestrwydd yn galw am hyn, paham y mae llawer o'r Taenellwyr dysgedicaf yn eu cyfieithu felly eu hunain?

*Gwrthddadleuon eis ac ex, sef yr arddodiaid i ac o.* Yn eu perthynas â bedydd yn y Testament Cymraeg, y maent yn gyffredin i'w cyfarfod yn y ffurf o arddodiaid *bannodol*, *i'r* ac *o'r*; sef, talfyriadau o *i yr* (*i'r*), ac *o yr* (*o'r*). Aeth Philip a'r eunych *i'r* dwfr, a daethant *o'r* dwfr (Act. 8. 38. 39). Haera amryw Daenellwyr nad yw "*i'r* dwfr" yn golygu rhagor na myned i *ymyl* neu *at y* dwfr, ac nad yw dod "*i fyny*" o hono, yn arwyddo mwy na dyfod

*oddiwrtho*. Math o wrthddadl ymosodo o eiddo ein cyfeillion yw gwrthddadl "*d* dwfr," ond rhai amddiffynol yw gwrthddadleuon yr *eis* a'r *ex*. Y mae yma etto fwy o ddymuniad o lawer nag o allu. Dylai ein cyfeillion ystyried fod arddodiad arall yn cael ei ddefnyddio yn hanes Philip a'r eunych, er enghraifft, am ddyfod i *ymyl*, neu *at y* dwfr, sef *epi*—mai wedi dyfod *at* (*epi*) y dwfr, yr aethant *i'r* (*eis*) dwfr, ac mai wedi dyfod *at* (*epi*) yr elfen, a myned *iddi*, a bedyddio *ynddi*, y daethant *o'r* (*ek*) dwfr. Y mae yn yr hanes, fel y gwelir, *ddau* arddodiad, sef *epi* ac *eis*; a thrwy gyfeirio at ymadroddion ereill yn y rhai y maent i'w gweled yn yr un sefyllfa berthynasol, yr ydym yn alluog i ddarganfod swydd neillduol pob un o honynt:—"Ei ddysgybllion a aethant i waered *at* (*epi*) y môr; ac wedi iddynt ddringo i (*eis*) long," &c. (Ioan 6. 16, 17). "Hwy a ddaethant *at* (*epi*) y porth haiarn sydd yn arwain *i'r* (*eis*) ddinas" (Act. 12. 10).<sup>\*</sup> Daeth *epi* a'r dysgybllion *at* neu i *ymyl* y môr, ac aeth *eis* â hwynt *i'r* llong. Dygodd *epi* yr angel a'i gyfaill *at y* porth, trwy yr hwn y byddid yn myned *i'r* (*eis*) ddinas, a thrwy yr hwn, yn ol yr hanes, yr aeth y *ddau* *i'r* lle. Os darfu i *epi* ddwyn y dysgybllion *at y* môr, a'r angel a'r apostol *at* borth y ddinas, paham y nacëir iddo yr anrhydedd o fod wedi dwyn Philip a'r eunych i *ymyl* y dyfroedd; ac os llwyddodd *eis* i gael y blaenaf *i'r* llong a'r olaf *i'r* ddinas, beth oedd yn ei analluogi i ddwyn Philip a'r eunych *i'r* dwfr? Os darfu iddo fethu cael y bedyddiwr a'r gwr o Ethiopia *i'r* elfen fedyddiol, pa brawf sydd genym ddarfod iddo lwyddo i gael y dysgybllion *i'r* llong, a gwahanol bersonau trwy y porth *i'r* ddinas? Y mae'r naill a'r llall o'r amgylchiadau hyn o angenrheidrwydd yn cydsefyll neu yn cydsyrthio. Fel y canlyn yr ysgrifena un o gedyrn Cymru ar y pwnc:—"Nid yw yr Ysbyrd Glân yn dweyd un peth ac yn meddwl peth arall. Dywed ef iddynt fyned i waered *i'r* (*eis*) dwfr" (nid ato, fel yr haera ei wrthwynebydd.) "Yr oeddynt wedi dyfod *at* (*epi*) y dwfr o'r blaen, adn. 36, ac yna, hwy a aethant ill dau i waered *i'r* (*eis*) dwfr. Nid oedd gan y Groegwyr un gair arall am *i=into*, ond *eis*.† Nid

\* Y mae'r cyfieithiad cyffredin yn ddiffygiol yn yr adnod hon; o ba herwydd, dyfynir o gyfieithiad Williams.

† Yn *Boyer's French and English Dictionary* y mae deg o wahanol ystyron *i'r* arddodiad *in* (*yn*) y Cymro, ac *eis* y Groegwr; ac heblaw y rhai



yn unig arferir *eis*, ond hefyd *katabainw eis*, geiriad sydd o angenrheidrwydd yn golygu, *myned i waered i, disgyn i*; '*na ddisgyned i'r tŷ*'; '*myned i waered o Jerusalem i Jericho*'; '*aeth hwn i waered i'w dŷ*'; '*efe a aeth i waered i Capernaum*'; '*aeth Jacob i waered i'r Aifft*'; '*i'r ffordd sydd yn mynd i waered o Jerusalem i Gaza*'; '*hwy a ddaethant i waered i Attalia*'; '*hwy a aethant i waered i Troas*'; '*ac wedi iddo ddyfod i waered i Cesarea*'; '*Efe a aeth i waered i Cesarea*' (Luc 10. 30; 18. 14; Ioan 2. 12; Act. 7. 15; 8. 26; 14. 25; 16. 8; 18. 22; 25. 6). Yn yr holl enghreifftiau hyn, y rhai a gynnwysant yr holl siamplau o'r geiriad a ddygwydd, llyfr yr Actau, *katabainw eis* a arferir. Arferir arddodiaid ereill gyda *katabainw* pan y golygir *myned i waered at, o'r, &c.* 'A'r Ysbryd yn disgyn arno' *ἐν αὐτῷ*, (Marc 1. 10). 'Y duwiau yn rhith dynion a ddisgynasant atom' (*πρὸς ἡμᾶς*), (Act. 14. 11). Byddai yr un mor briodol, gan hyny, i'r Taenellwyr *wadu fyned o Iesu i waered i Capernaum*, i Jacob fyned *i waered i'r Aifft*—fod y ffordd y cyfeiriai yr Ysbryd Phylip i fyned iddi yn *myned i waered i Gaza*, ac i Paul a'i gymdeithion *fyned i waered i Attalia*, i Troas, ac i Cesarea, a gwadu i Phylip a'r eunych *fyned i waered i'r dwfr*, oblegid yr un geiriad a arferir yn y cyntaf ag a arferir yn y diweddaf." Pe caniateid yr egwyddor Thornaidd a gondemiwn, profai nad aeth Crist *i'r* nefoedd, ond *ati*; a thra y gwnelai a'r annuwolion y caredigrwydd mawr o'u cadw rhag *myned i'r* tân tragwyddol, rhwystrai fynediad y gwaredigion *i'r* deyrnas a barotöwyd iddynt "cyn seiliad y byd," a gorfodai hwynt i aros am byth yn ei *hymyl*. Er mwyn ceisio profi na fu Phylip a'r ymgeisydd o Ethiopia *yn* y dwfr, ac mai yn ymyl yr Iorddonen y bu Crist a Ioan Fedyddiwr, &c., dywedir yn fuddugoliaethus (?) nad yw *myned i'r* ffynnon neu y llyn i ymofyn

hyn, rhoddir enghreifftiau o tuag ugain o wahanol ffyrdd i'w arfer ef, y rhai a wnant oll ddeg ar huan o wahanol gyssylltiadau yn mha rhai y defnyddir y gair. Golyger fod Efrancwr anffyddol yn darllen y dysfyniad yn y Testament Newydd, o barthed i Jonah *yn* mol y morfil am dridiau a thair nos. Dywedai, "y mae hyn yn anmhosibl," a chyfeiriai at "*Boyer's Dictionary*" i'r perwyl o brofi ei haeriad. Gallai ofyn "pa ddyn tēg, yn meddu synwyr cyffredin, a'r ffeithiau anammheuadwy hyn o'i flaen, a feiddia haeru i Jonah fod *yn* mol y morfil." Chwarddai pob Sais am ben ymresymiad (?) y Frenchman. Fel hyn yn gwir y mae Thorn a phersonau ereill yn dadleu mewn perthynas i *eis*.

dwfr, yn golygu rhagor nâ *myned at* y naill a'r llall. Y sylw cyntaf a wnawn ar yr wrthddadl hon ydyw, nad yw'r ymadrodd *myned i'r* ffynnon i 'mofyn dwfr, ond dull *talfyrol* o siarad. Yr ymadrodd yn gyflawn fyddai, Yr wyf yn *myned at* y ffynnon, i 'mofyn dwfr o honi; neu ryw-beth tebyg i hynyna. Nid oes eisieu hysbysu y darlennydd nad yw y weithred a gyflea y geiriad, yn terfynu *tu allan* i'r ffynnon, oblegid nid *wrthi* neu yn ei *hymyl* y ceir dwfr, ond *ynddi*. Y mae toliaith (*ellipsis\**) mewn arferiad mynych yn ein siarad cyffredin, ac yn achlysurol mewn cyfansoddiadau llenorol o bwys. Yn y dull hwn yr ydys yn talfyru ymadrodd trwy adael allan *air* neu eiriau ynddo; aberthir manylwch ar allor cyfleustra. Gellid dwyn ugeiniau o enghreifftiau o'n hymddyddanion beunyddiol, a'r Beibl, a llyfrau ereill, pe byddai angen am danynt; ond i ba ddyben y ceisiwn egluro gosodiad ag sydd yn hunan-eglur? Dull agored i gael ei gamddefnyddio yw yr un tolieithiol (*elliptical*); gall gwrandawwyr neu ddarllenwyr gymmeryd arnynt gamddeall er mwyn ceisio sicrhau eu hamcanion personol, ond gobeithiwn mai anystyriaeth o natur y rhan hon o reit heg gyffredin yw y rheswm paham y gwna rhai Taenellwyr ei defnyddio yn erbyn tystiolaeth y Beibl ar y mater mewn dadl. Yn ail; pa bryd bynag y mae *eis* yn arwyddo at, neu yn ymyl, nid yw byth yn golygu y fath beth pan yn canlyn *epi*, ac mewn cyssylltiad uniongyrchol âg ef mewn ymadrodd. Er enghraifft, y mae yn cynnwys y meddyl-ddrych gwreiddiol o ysgogiad neu symudiad i le yn y frawddeg ganlynol:—"Wedi *myned at* (*epi*) y drws, aeth *i'r* (*eis*) tŷ." A oes rhywun mor ynfyd a haeru mai *wrth* y drws y mae *i'r* (*eis*) yn arwyddo yn y frawddeg hon, ac yntau yn gwybod fod yr arddodiad arall (*at*) wedi dwyn y dyn i *ymyl* y tŷ, neu *at* y drws, yn barod? Gan fod *epi* wedi dwyn yr ymwelydd *at* y drws, sut y gall *eis* wneyd yr hyn a wnawd yn gyflawn gan *epi*, sef dwyn y dyn *at* y tŷ? Y mae'r peth ynddo ei hun yn cynnwys *impossibility*. Gan fod *epi* yn dwyn Phylip a'r eunych "*at* ryw ddwfr" (adn. 36), nid yw yn bosibl i *eis* (yn adn. 38) wneyd yr un peth wedi hyny, tra y mae yn canlyn *epi*, ac mewn cyssylltiad agos ac uniongyrchol âg ef yn yr hanes. Os

\* Ellipsis, a figure of rhetoric, by which something is left out.—Walker.



oes gan *eis* rywbeth i'w wneyd wedi i *epi* orphen ei waith, rhaid iddo ddwyn Phylip a'r gwr o Ethiopia dipyn yn mhellach na'r man y cawsant eu gadael gan yr arddodiad arall, sef *i'r* dwfr. Wedi i *epi* ddwyn y ddau i *ymyl* y dwfr, rhoddodd eu gofal i *eis*, yr hwn a dderbyniodd y cyfrifoldeb, ac a dechreuodd weithio yn y man y *gorphen-asai* y gweithiwr blaenorol, sef *wrth* y dwfr, a *gorphenodd* mewn rhyw fan *yn* yr elfen fedyddiol. Os yw "*dringo i long*" yn arwyddo myned *iddi* ac nid *ati* (ar ol dyfod *at* y môr o'r blaen, Ioan 6. 16), onid ynfydrwydd hollol yw haern nad aeth Phylip a'r eunych i'r dwfr wedi dyfod ato? Os nad oedd eisieu myned *i'r* dwfr, bedyddiasid yr eunych ar ol dyfod *ato*, ac wedi derbyn ei gyffes, ac ni soniasid am fyned yn mhellach; ac os mai yn *ymyl*, neu *wrth* y dwfr, y cafodd ei fedyddio, y mae'r geiriau,—"*a hwy a aethant i waered ill dau i'r dwfr*," yn cynnwys anwiredd disail. Golyger fod dyn yn dyfod *at* ddrws ei dy, ac yn syrthio yn farw yn y fan (y mae *cases* o'r fath wedi dygwydd), cyn myned yn mhellach, a bod rhywun yn ysgrifenu yr hanes fel hyn:—"Wedi dyfod *at* ei ddrws a myned *i'r* tŷ, syrthiodd a bu farw," &c.; oni olygid yr ysgrifenydd yn greadur celwyddog ac annheilwng hollol o un ymddiried? Dyn felly yw hanesydd yr Actau, os mai wedi dyfod *at* y dwfr y cymmerodd bedydd yr eunych le, ac nid ar ol myned iddo. Gair bach ryfedd yw *eis*; yn Math. 2, gwelir ef mewn chwech neu saith o fanau, ac y mae yn *useful* dros ben ynddynt. Aeth â'r doethion "*i'r* tŷ," "*i'w* gwlad;" arweiniodd Joseph ei wraig, a'r mab bychan, "*i'r* Aifft," i dir Israel, "*i* barthau Galilea," &c. Addefa ein cyfeillion fod *eis* yn golygu *i'r* yn mhob un o'r manau hyn a lleoedd cyffelyb; nid oes ganddynt un gwrthwynebiad i'r ystyr hwn oddieithr fod *dwfr* mewn cyssylltiad âg ef. Os yw yr hyn a ddywed ein cyfeillion am dano yn wir, y mae yn air nodedig o ddeithr. Cymmer ddyn *i'r* wlad, *i'r* ddinas, *i'r* llong, *i'r* tŷ, *i'r* nef, i uffern—i bob lle ond *i'r dwfr*. Gellid, meddwl, ebe un, ei fod wedi ei gystuddio â'r gynyddaredd.

Gallwn fyned *at* ddwfr o dan ei foddlonrwydd, ond nid *iddo*; nid yw mewn un modd yn gwgu ar y weithred o fyned i'r elfen, os nad *bedyddio* fydd yr amcan mewn golwg. Goddefa i *gythraul* (Marc 9. 22) i dafu dyn *i'r* dyfroedd gystal ag i'r tân; ond ni chaniata i *ddyn* i arwain ei gyd-ddyn *i'r* dwfr i'w fedyddio ar un cyfrif.

Paham y mae yn fwy pleidiol i gythraul nag i ddyn, nid ydym yn gwybod. Ond, a siarad yn fanwl, nid y *dwfr* y mae yn ffeiddio gymmaint, eithr y *dyben* a'r amgylchiadau. Onid yw yn air hynod yn mysg geiriau y byd gwareiddiedig? Pa bryd yr arfera dynion synwyr cyffredin mewn materion crefyddol? Paham y gwna Cristionegion eu hunain yn ffolach uwchben y Beibl, nag uwchben un llyfr arall? Y *trydydd* sylw ydyw, fod y geiriau, "*a phan ddaethant i fyny o'r dwfr*" (sef yr hyn a gymmerodd le mewn canlyniad i'r bedyddio), yn profi mai *yn* yr elfen fedyddiol, ac nid *yn* ei *hymyl*, y gweinyddwyd yr ordinhad. Y mae'r arddodiad *ex* (o'r) yn y geiriau hyn yn arwyddo symudiad, neu ymadawiad, o le neu beth arall. Golyga wrthddrych yn dyfod o'r ochr neu y rhan *duswola* i beth arall. Gan mai pwnc o bwys mawr yn ei berthynas â'r ddadl hon ydyw arwyddocad yr arddodiad bannodol o'r, dyfynwn rai awdurdodau ar ystyr *ex*, o'r hwn y mae yn gyfieithiad. Nis gwnawn gyfieithu:—

"Ek, as signifying point of departure, or motion from one point to another, always implies that the point of departure is *within* the object, not *without* it."—(Dr. Carson.) "Ek, in its original meaning, is employed only in reference to such objects as proceed from the *interior* of another object, or from the most *intimate* connection with it."—(The London Greek Grammar of the New Testament.) "Spoken of such objects as before were in another, but we are now separated from it, either in respect of place, time, source, or origin, &c. It is the direct antithesis of *eis*."—(Robinson's Greek and English Lexicon.) "The original signification of ek is issuing from *within* (the compass, sphere, of) something. It is antithetical to *eis*."—(Winer's Grammar to the New Test. Dict., part iii.)

Os aeth Phylip a'r eunych *i'r* dwfr, gallasant ddyfod o'r dwfr; heb hyny, nis gallasai y weithred o *ddyfod i fyny o*, darddu o *fewn* (issue from *within*) y dwfr. Os yw y geiriau mwyaf diamwys ac eglur i ymddibynu arnynt, y casgliad anocheladwy ydyw, ddarfod i Phylip a'r eunych fyned ill dau i *waered* i'r dwfr—fod y bedydd wedi cymmeryd lle *yn y dwfr*, ac iddynt wedi hyny ddyfod i fyny o'r *dwfr*, beth bynag a ddywedir i'r gwrthwyneb. Y geiriad a arferir am *ddyfod i fyny o*, yn Act. 8. 39, yw *καταβαιεν ex*, a'r un sydd yn Dad. 9. 2, am y mwg yn codi o'r pydew; ac hefyd yn pennod 11. 7, i ddynodi y bwystfil yn dyfod allan o'r pwll diwaelod. Os haerir (yn erbyn Winer, Robinson, ac ereill) mai *oddiorth* yw ystyr o'r yn Act. 8. 39, ar yr un tir y gellir dweyd mai o *ymyl* y



y pydew, ac nid o hono, y cododd y mwg, ac mai nid o'r pwll diwaelod y daeth y bwystfil allan, eithr o rywle gerllaw iddo neu yn y gymmydogaeth. Awgrynwyd yn barod nad yw pawb o'r Taenellwyr mor ynyfod a haeru nad aeth y ddau i'r dwfr; ond myn dosparth lluosog a dysgedig o honynt ddarfod i'r ddau fyned i'r elfen, trochi ynddi, a dyfod i fyny o'r dwfr wedi gorphen. Yn ol ereill, aeth y ddau hyd eu migyrnau, neu eu penliniau, i'r dwfr; a thywalltwyd dwfr ar ben yr eunych gan Philip; tra y taera dosparth arall nad aethant i'r dwfr o gwbl, ac mai ar lán y dwfr y gweinyddwyd. Y mae'r dosparth blaenaf o'r un farn a'r Bedyddwyr, deiliad yr ail yn gwneyd eu hunain yn blentynaid wrth geisio amddiffyn golwg-ddysg, a'r trydydd yn herio ystyr geiriau a deddfau iaith, ac yn gwneyd synwyr cyffredin yn aberth i fympty. Os oedd taenellu neu dywallt yn gwneyd y tro, pa ddyben a atebid wrth fyned cuwch â phen y lán i'r dwfr? Y mae synwyr cyffredin yn ein dysgu mai gwell fuasai gweinyddu ar dir sych. Os oedd bedydd yn gynwysedig mewn gwlychu y pen, pabam yr ymgymmodent â'r annghyfleustra afreidiol o wlychu y traed a'r gliniau hefyd? Nid ydym mewn un modd yn cellwair, ond yn gofyn cwestiwn difrifol—cwestiwn ag sydd yn hawlio atebiad. Dywed *common sense* na fuasai dynion o synwyr byth yn myned cyfuwch a'u gliniau i'r dwfr er mwyn tywallt neu daenellu, os nad oedd y Nef-oedd yn hawlio'r fath beth. Pe gwelem weinidogion parchus yr Annibynwyr a'r Methodistiaid yn myned cyfuwch a'u gliniau i afonydd i daenellu dyferynau ar fabanod a dynion mewn oed, byddai yn anhawdd credu eu bod yn eu hiawn bwyll; ac os bernid y fath ymddygiad yn arwydd o wallgofrwydd yn awr, ar ba dir y gellid ei ystyried yn wahanol yn yr oes apostolaidd? Gadawer i synwyr cyffredin roi barn ar y mater.

Taera rhai nad yw "yn yr Iorddonen" yn arwyddo mai "*yn*" ei dyfroedd y bedyddiai Ioan, ond yn ei hymyl, ar ei glân, neu yn ei chwâr. Y mae yn ymddangos mai tipyn o esgeulusdod a byrbwylldra, wrth esbonio Josua 3. 8, mewn cyssylltiad â phrinder mawr a phoenus yn marchnad profion, a barodd i rai dynion rhagorol syrthio i'r camsyniad dibryd hwn. "Wel," gofyna yn ysgrifenydd crassus, "pa wahanlaeth sydd rhwng sefyll *yn* yr Iorddonen, a sefyll yn ei *chwâr*? Nis gallasai Ioan sefyll ynddi oll; gan hyny, os safai ynddi

o gwbl, rhaid mai mewn *cwâr* o honi y safai; ac os oedd yn sefyll yn *nghwâr* yr Iorddonen, rhaid ei fod yn sefyll *yn* yr Iorddonen..... Gan mai *yn* yr Iorddonen, ac nid yn ei *chwâr*, yw y geiriau yn hanes bedydd Ioan, dygir *cwâr* yr afon i mewn fel y nodwyd, am fod y gair *cwâr* (neu *gwâr*) yn Josua 3. 8. Os yw ein gwrthwynebwyr am wybod beth a feddylir wrth *gwr dyfroedd yr Iorddonen*, cânt y wybodaeth a ewyllysiant yn y 15fed adn. o'r un bennod:—'A phan ddath y rhai oedd yn dwyn yr arch hyd yr Iorddonen, a gwlychu traed yr offeiriaid oedd yn dwyn yr arch yn *nghwâr* y dyfroedd,' &c. Fel hyn y deallodd yr offeiriaid orehymyn Duw, yn yr 8fed adnod. Aethant hyd yr Iorddonen, ac mor bell i'w *chwâr* nes gwlychu eu traed ynddi, yr hyn sydd yn profi mai nid y lán a olygid wrth y *cwâr*, eithr y dwfr *gerllaw* y lán."\*

Yr ydym yn barod wedi sylwi fod *en* (yn) ac *eis* (i'r) yn cael eu harfer yn achlysurol i ddynodi meddylddrychau gwahanol i'w prif ystyrion; ond gyda golwg ar *ek*, tueddir ni i gredu yr hyn a ddywed Carson, sef, nad yw yn arwyddo ond yr hyn a grybwyllwyd. Nid oes neb a daera mai nid *mewn* lle, *mewn* tŷ, *mewn* afon, yw ystyr cyffredin *en* (yn); ac addefa pawb mai peth gwrthun i'r eithaf fyddai sôn am fedyddio *â'r* anialwch, ac *â'r* Iorddonen, ac mai i *yn* y dylid cyfieithu *en* yn yr ymadroddion hyn, fel yr awgrymasom. Gan mai ystyr *anarferol en* yw *â*, a all dyn yn ei iawn bwyll gredu ddarfod i Ioan a'r apostolion arfer yr arddodiad hwn a'r arddodiad arall (*eis*) yn eu hystyrion *anarferol*, a hyny yn hollol ddiachos? Pe caniatâem, er mwyn ymresymu, fod i *ek* hefyd ragor nâ'r ystyr a esboniasom, a ydyw yn gredadwy ddarfod i'r ysgrifenyddwyr ysbrydoledig ddefnyddio y *tri* arddodiad yn yr ystyr annghyffredin perthynol i bob un o honynt, fel pe buasent yn bwriadu camarwain neu dwyllo eu darllenwyr. Yr ydym yma yn apelio at synwyr cyffredin dynion. Pe byddai i *baptizo* ddeugain neu ragor o ystyrion, fel y taera rhai personau, a'r efengylwyr yn defnyddio hwnw hefyd mewn ystyr annghyffredin, yn rhoddi iddo yr ystyr o daenellu neu buro, oni fyddai yr ymddygiad hwn o'u heiddo, sef rhoddi i eiriau ystyrion *anarferol*, yn eu gwneyd yn debyg i dwyllwyr bwriadol? A oes rhyw un yn mysg edmygwyr y Beibl yn

\* SEREN GOMER, IORAWR, 1862.



ddigon penfeddal i gredu y fath beth? *Tri arddodiad, a'r prifair*, yn cael eu harfer mewn ystyrion anghyffredin gan weision Crist, mewn cyssylltiad âg un o ddwy ordinad fawr ei deyrnas, yn groes i'w harferiad cyffredin wrth ddefnyddio geiriau, a hwythau yn gwybod y gwnelai y fath ymddygiad ddrysus dynion! Y mae'r fath dybiaeth yn hollol anghredadwy. Y mae ystyrion arferol pob un o'r arddodiad hyn yn ffafriol i'r Bedyddwyr; ac y mae lle i ofni mai hyn yw y rheswm gan rai dros geisio eu dirdynu fel y gwneir. Yn gyffredin, arwydda y gair *en* fod *meion* peth arall; ond yn mhob haes am fedydd, rhaid iddo arwyddo *d* er mwyn cadw trochiad allan. Ystyr arferol *eis* yw myned i beth, ond er mwyn rhwystro dynion i gael eu suddo mewn bedydd, mynir rhoi iddo ystyr gwahanol i'w *brif* arwyddocad; ac er nad oes ond un ystyr i *ek*, ac un i *baptizo*, rhaid llunio ystyrion newyddion i'r rhai hyn, a'u cyssylltu â hwynt, er mwyn bod ar dir sych. Ofnwn nas gall fod dim heblaw amddiffyn golyg-ddysg mewn golwg gan rai o'r cyfeillion a wrthwynebwn. Fodd bynnag, y mae'r ystyr-iaethau canlynol yn deilwng o sylw:—(1.) Nad yw yn briodol cyssylltu â gair ystyr anarferol, os na fydd rheswm neu resymau cryfion ac eglur dros wrthod y prif ystyr, neu yr un arferol. Ond beth, attolwg, yw y rheswm dros roddi i'r geiriau dan sylw ystyrion anarferol yn y crybwyllion sydd genym am fedydd yn y Testament Newydd? Ystyrier y cwestiwn, a rhodder chwareu tég i gydwybod i'w ateb. (2.) Y mae'r ffaith o fod Bedyddwyr a Thaenellwyr yn cytuno â'u gilydd o barthed i ystyrion y geiriau hyn mewn manau ereill, yn profi fod rhywbeth *neillduol* yn achosi yr anghydweliad o barthed iddynt yn y crybwyllion am fedydd. Gan mai dros y *primary meanings* yr ydym ni, y mae baich y prawf yn gorphwys ar y rhai a'u gwadant. Os nad yw *en* yn arwyddo *yn* yn Math. 3, y mae eisieu gwybod paham. (3.) Yn mhellach, y mae defnyddio y geiriau yn yr ystyrion a roddir iddynt gan y Taenellwyr yn yr hanesion sydd genym am fedydd, yn gwneyd y crybwyllion hanesiol hyn yn ymfyrwydd hollol, fel y profasom mewn man arall (tud. 40). Pa synwyr sydd mewn bedyddio *d'r* (en) aniswlch, ac *d'r* (en) Iorddonen? Wedi dweyd i Phylip a'r eunych ddyfod *at* ryw ddwfr (adn. 36), onid *libel* ar iaith yw haeru fod *eis* (adn. 38) yn arwyddo yr un peth, neu yn gwneyd y gwaith a fyddo

*wedi* ei gyflawnu gan air arall yn barod? (4.) Y mae'r ffaith o fod ugeiniau a chan-noedd o'r dysgedigion goreu a mwyaf cydwybodol yn mysg y Taenellwyr yn rhoddi i'r arddodiad hyn eu hystyrion gwreiddiol fel ninnau—eu bod yn credu mai trwy drochiad y bedyddiaid yr apostolion, i raddau pell yn profi cywirdeb y Bedyddwyr. Nid â ni yn unig y mae'r Taenellwyr yn ymryson, eithr â'u horaclau a'u "poetau" eu hunain.\* (5.) Gan mai ystyr *baptizo* yw *trochi*, nis gellir cystrawenu a âg ef mewn ymadrodd. (Gwel. tud. 40.)

Y mae unrhyw air a wnelo frawddeg yn ddisynwyr, fel y sylwasom, yn ddigon o brawf nad yw y gair hwnw yn ei le priodol yn y frawddeg hono.† Gan nas gellir trochi na thywallt *d* dwfr, mwy nag y gellir trywanu neu frathu *d'r* un elfen, nid yw yr arddodiad *a* i gael ei ddefnyddio mewn cyssylltiad â'r moddair *baptizo*,

\* Golyga Dr. Halley mai yn ffrwd afon yr Iorddonen y bedyddiaid Ioan, a bod *en* gydag enw afon yn golygu *yn*:—"On the contrary, *en* with the name of the river must, I think, be rendered in. John was baptizing (I must repudiate the version, with the Jordan, or with its water) in the Jordan, either within the channel, standing at the edge, as Dr. Carson thinks, p. 131, or in the stream, as I, being here a better Baptist, believe" (*sec. ed.* p. 326). Nid yw y gwahaniaeth yn fawr rhwng Carson ac yntau ar yr arddodiad Groeg:—"On the subject of Greek prepositions, I have, on account of the length of these Lectures, suppressed the remarks which I had prepared. I do this the more willingly, as I do not observe in regard to them any difference from Dr. Carson, in more than one particular. That particular relates to the peculiar use of the preposition *eis* in such phrases as 'he died in (*eis*) ekbatana,' to which I have hastily adverted in a note" (p. 386).

† "Nis gellir tywallt dyn, am fod tywalltiad yn cynnwys ffrwd barhaus o'r sylwedd a dywelltir. Dywedaf etto, mai y dwfr a fedyddir, os ydych chi bedydd yn y Testament Newydd yn golygu taenellu neu dywallt. Ond ni cheir dwfr mewn un man yn achos gwrthdrrychol (*objective case*) ar ol y ferf weithredol bedyddio; ac nid yw mewn un man yn achos enwedigol i'r ferf yn y llais goddefol. Nid ydych chi byth yn darllen, Yr wyf yn bedyddio *dwfr* arnoch chi, ond, Yr wyf yn eich bedyddio *chwi*. Ni ddywedir mewn un lle; *bedyddiwyd dwfr arnynt*; eithr dywedir, '*hwy a fedyddiwyd*, yn wyr ac yn wragedd.' Gwrthdrrychau yr ordinad a fedyddir, ac nid y dwfr. Am hynny, nid ydych chi bedydd yn y Testament Newydd, yn golygu na thywallt na thaenellu. Ond mor ddealladwy ac ardderchog ydych chi hanes pob bedyddiad, pan roddir yn lle hynny drochiad yn ystyr iddo. Yr wyf yn eich trochi *chwi*, nid y dwfr. *Hwy* a drochwyd, hynny yw, y gwyr a'r gwragedd. Dylai y rhai na welant y dystiolaeth hon ar y mater yn benderfynol yn erbyn taenellu a thywallt, ymroddi ar unwaith i ddyysgu gramadeg Saesneg, hyd y nod pebyddent Ddoctoriaid Duwinyddol" (*Pemberton*.)



oblegid ei fod yn gwneyd yr ymadrodd i'r graddau eithaf yn wrthun. Rhodder i'r sylw hwn yr ystyriaeth a hawlia ei wirionedd a'i bwysigrwydd mewn cyssylltiad â'r pwnc mewn dadl.

*Gwrthddadl bedydd yr Ysbryd.*—1. Y mae'r darlennydd yn cofio mai un o'n hegwyddorion sylfaenol yn yr erthygl hon yw, nad ydym i ddysgu dim o berthynas i ystyr llythyrenol geiriau oddiwrth y defnydd ffugrol neu gymharol a wneir o honynt; neu, nas gellir dysgu dim o ethryb i'r adnabyddus oddiwrth yr anadnabyddus, ond ein bod i ddysgu llawer am yr anadnabyddus neu y ffugrol, oddiwrth y llythyrenol, sef yr adnabyddus (tad. 4—5). Os felly, ynfydrwydd yw myned at fedydd ffugrol yr Ysbryd mewn trefn i geisio penderfynu *dull* y bedydd llythyrenol. Gan mai rhywbeth *tebyg* i fedydd oedd bedydd y Pentecost, yr hwn a elwid yn fedydd ar sail y tebygolrwydd hwnw, byddai yr un peth haeru y dylem fyned i'r "llyn sydd yn llosgi o dân a brwmstan" (Dad. 21. 8), mewn trefn i wybod beth yw tân a brwmstan, a thaeru fod dylanwad dyeithr y Pentecost i'n dysgu ni yn mha *ddull* y dylid bedyddio. Y mae genym grybwyllion am aur, dinas, pyrth, afon, gorseddfaine, meini gwerthfawr, a llawer o bethau ereill yn y nefoedd; ond nid oes neb mor ynydd a chymmyrd y cyfeiriadau ffugrol hyn i'w galluogi i roi barn ar y pethau hyn yn llythyrenol yn y byd hwn. Defnyddir pethau adnabyddus yn y byd presenol, i'r perwyl o roi i ni ryw feddylddrych am bethau anadnabyddus y byd tragywyddol. Dywedir fod addolwyr y nef yn canu, yn llefain yn uchel, yn syrthio o flaen yr orseddfaine, &c., &c.; ond nid oes neb mor ddisynwyr a meddwl mai y cyfeiriadau hyn sydd i'n cyfarwyddo ni gyda golwg ar ffurfiau ein cyflawniadau crefyddol. Y mae amryw bethau *ffugrol* yn llyfr y Dadguddiad wedi eu cymmyrd oddiwrth amgylchiadau llythyrenol ac adnabyddus; nid oes neb yn gwybod hyn yn well nâ'r Taenellwyr, nac yn llai awyddus nâ hwynt i'w cymmyrd i reoleiddio neu i gyfarwyddo yr eglwys ar y ddaear yn ei chyflawniadau addoliadol. Pahan y gwna ein cyfeillion roddiad yr Ysbryd yn eithriad? Dywedir fod tebygoliaeth rhwng dyrchafiad y sarff yn y diffaethweh, a dyrchafiad Mab y dyn (Ioan 3. 14); ond nid yw y Taenellwyr mor ynyddag edrych ar ddyrchafiad Crist mewn trefn i benderfynu *dull* dyrchafiad y sarff, eithr ânt yn hytrach i ddarllen haes codiad y sarff (Num.

21. 8, 9), i'r perwyl o ddeall y cyfeiriad ffugrol yn Ioan. Os nad oes syniad neillduol i'w ategu, nid yw yn hawdd gwybod pahan yr eithriedir bedydd a rhoddiad yr Ysbryd. Y mae Crist yn galw ei gnawd yn fara, a'i waed yn ddiod, ac yn dysgu yr angenrheidrwydd o fwyta y naill, ac yfed y llall (Ioan 6. 48—58): ond ni fu Taenellwr erioed yn ddigon ynydd i chwilio y bwyta a'r yfed ysbrydol y cyfeirir atynt gan y Gwaredwr, mewn trefn i wybod y dulliau o fwyta ac yfed yn llythyrenol; ond eir oddiwrth y llythyrenol a'u heffeithiau, at y bwyta a'r yfed ffyddiog a'u canlyniadau. Yn Ioan 6, y mae Crist yn cyferbynu, ac mewn ystyr yn cymharu y manna yn yr anialweh â bara'r bywyd; eithr gyda'r manna llythyrenol y dechreuadynion eu hefrydiaeth, ac nid gyda'r manna ffugrol, sef y Gwaredwr. Gŵyr ein cyfeillion fod esbonio y llythyrenol oddiwrth y ffugrol, yn groes i reolau dehongliaeth Feiblaidd a beirniadaeth dëg; ceisiant yn y lle cyntaf wybod y llythyrenol, ac yn ngoleuni y llythyrenol esboniant y ffugrol. Onid yw yn annheg ac afresymol iawn eithriadu bedydd llythyrenol a ffugrol?

2. Rhoddir cryn bwys ar y geiriau *taenellu* a *thywallt*, fel pe byddai y rhai hyn yn cael eu harfer am yr Ysbryd yn eu hystyrion priodol a llythyrenol (Ezec. 36. 25; Eisa. 44. 34); ond os yw ystyr y gair bedydd i gael ei ddeall oddiwrth roddiad yr Ysbryd Glân, pahan nad yw ystyrion y geiriau tywallt a thaenellu i gael eu penderfynu oddiwrth yr un peth, os yw y tair berf yn cael eu harfer am yr un weithred? Pe dilynem y rheol hon wrth chwilio ystyrion geiriau, i ba le yr arweinid ni? Byddai yn anmhosibl penderfynu ystyr unrhyw air. Y mae ein cyfeillion yn ei gwrthod o barthed tywallt a thaenellu, ac yr ydym ninnau yn hawlio i bedyddio yr un chwareu tég. Yr ydys yn meddwl yr addefant hwy fel ninnau, mai yn ffugrol yr arferir tywallt a thaenellu am roddiad yr Ysbryd Glân; ond os na wnant, rhaid mai eu barn ydyw, fod yr Ysbryd Glân yn sylwedd materol, ac fel y cyfryw yn rhanadwy (*divisible*). Ond os addefant, fel y credwn y gwnant, nad yn briodol a llythyrenol yr arferir y geiriau hyn am roddiad yr Ysbryd Glân, y mae yn canlyn mai yn gymharol neu ffugrol y lleferir; gan hyn, ni ddylid myned at y dywed-iadau, "tywalltaf o'm Hysbryd," a "thaenellaf arnynt ddwfr glân," i brofi ystyrion llythyrenol y geiriau hyn, oblegid wrth eu hystyrion llythyrenol, fel y profasom, y mae



penderfynu eu hystyrion cymharol neu ffigurol.\* Am yr un rheswm, ni ddylid myned at y geiriau *bedydd* yr *Ysbyrd Glân* i benderfynu ystyr llythyrenol y gair *bedydd*. Y mae'r holl arferiad ffigurol hyn o eiriau yn sylfaenedig ar egwyddorion adnabyddus mewn natur, arferion cenedl, neu rywbeth cyffelyb. Cymmerwyd y ffigur yn Ezec. 36. 25, "Taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân," oddiwrth yr arferiad o daenellu ar yr halogedig, am y byddai doniau yr *Ysbyrd* yn cyflawnu mewn gwirionedd yr hyn a arwyddid trwy buredigaeth cnawd yr halogedig. Yn y geiriau "*Tywalltaf fy Ysbyrd*," benthycir y ffigur oddiwrth y gwlaw maethlawn yn Esa. 44. 34, i osod allan helaethrwydd doniau yr *Ysbyrd*; ac oni arferir yr ymadrodd *bedydd* yr *Ysbyrd* i osod allan yr effaith hydreiddiol ar yr apostolion a'r dysgyblion gwyddfodol ereill ar ddydd y Pentecost, pan y dywedir iddynt gael eu *llenwi* â'r *Ysbyrd Glân*? Meddwl yr ydym yn bendant, na fuasai neb yn dywedyd yn wahanol i hyn, oni bai fod ganddynt syn-

\* Siaredir ac ysgrifeniir gyda'r fath foddhad neillduol ar y geiriau:—"Tywalltaf fy *Ysbyrd* ar bob cnawd," &c., a "chwi a fedyddir â'r *Ysbyrd Glân*," a phe byddent yn cyfleu yr un meddyl-ddrych, a bedyddio a thywallt yn eiriau cyfystyr. Cyfnewidier y gair tywallt am fedyddio yn y naill frawddeg, a bedyddio am dywallt yn y llall, i edrych pa synwyr a ellir wneyd o honnynt:—*Bedyddiaf fy Ysbyrd ar bob cnawd; bedyddiaf fy Ysbyrd ar dy hâd*. Yma, yr *Ysbyrd* sydd yn cael ei fedyddio. Pa feddylldrych a all peth fel hyn gyfleu? Dylent wneyd synwyr os yw tywallt a bedyddio yn gyfystyr. Gall geiriau cyfystyr sefyll y naill am y llall, ac heb hyn nis byddent yn gyfystyr. Ond ni saif tywallt am fedyddio, na bedyddio am dywallt, gan hyny, nid yw tywallt a bedyddio yn gyfystyr. Saif yr un ymresymiad yn gywir a chadarn am daenellu. Nis gall hwn sefyll am fedyddio, ac am hyny nid yw yn gyfystyr âg ef. Ond gall trochi a suddo sefyll yn mhob man y saif bedyddio:—Chwi a suddir yn yr *Ysbyrd Glân*; myfi wyf yn eich trochi chwi mewn dwfr, ond efe a'ch sudda chwi yn yr *Ysbyrd Glân*. Y tebygolrwydd gan hyny, oddiwrth hyn yw, fod *bedyddio* yn gyfystyr a *throchi* a *suddo*. Ni chytuna tywallt a bedyddio mewn cystrawen. Dwfr neu sylwedd hylifol (yn llythyrenol neu ffigurol) sydd yn caelei dywallt; ond personau sydd yn cael eu *bedyddio*. "*Tywalltaf ddyfroedd* ar y syohdir, a'm *hysbryd* ar dy hâd;" "Efe a'ch bedyddia chwi yn yr *Ysbyrd Glân*;" "Myfi ydwyf yn eich bedyddio chwi." Cymhwysiad (a defnyddio gair holl gan faban-fedyddwyr) o'r *elfen* at y *dyn* yw *tywallt* (a thaenellu hefyd o ran hyny); ond cymhwysiad o'r *dyn* i'r *elfen* yw *bedyddio*. Yr *elfen* a dywelltir, ond y *dyn* a fedyddir. Cael ei dywallt yr oedd yr *Ysbyrd* ar ddydd y Pentecost; a'r canlyniad o hyn oedd, i'r dysgyblion gael eu *bedyddio* ynddo, eu suddo, a'u llwyr feddiannu ganddo; "a hwy oll a lanwyd o'r *Ysbyrd Glân*!"—*Parch. E. Roberts*.

iadau neillduol i'w hattegu trwy hyny. Y mae yn fwy na thebyg mai ar gyfrif ei helaethrwydd y galwyd rhoddiad yr *Ysbyrd* ar ddydd y Pentecost yn fedydd. Rhoddasid ef o'r blaen i ryw fesur (Salm 51. 11; 1 Pedr 1. 10, 11; 2 Pedr 1. 21; Ioan 20. 22); ond ni chymmerodd *bedydd* yr *Ysbyrd Glân* le cyn y Pentecost. Arweinir ni gan brophwydoliaethau yr Hen Destament i dybied y rhoddid yr *Ysbyrd* yn fwy helaeth dan y Testament Newydd nag y rhoddasid ef o'r blaen. I osod hyn allan, dywedai Joel y byddai i'r "*Ysbyrd* gael ei dywallt ar bob cnawd;" ond Ioan, gan ei fod yn gweinyddu *bedydd*, a'i gosodai allan trwy yr ordinhad hono a weinyddid ganddo ef; a pha gymhariaeth neu ffigur oedd yn fwy cyfaddas i osod allan y *cyflawnder* o doniau a pha un y cynnysgaethid yr apostolion ar ddydd y Pentecost, na dywedyd y byddai iddynt gael eu bedyddio neu eu *suddo* ynddo.\* Defnyddiai Ioan y peth adnabyddus hwnw i osod allan yr hyn oedd yn anadnabyddus i'w wrandawwyr. Ni ddartu iddo ef ddefnyddio yr anadnabyddus i egluro dull yr adnabyddus fel y gwna Taenellwyr; ond dangosodd y ffigurol yn ngoleu y llythyrenol. Yn unol â'r golygiad uchod, sef, tod y meddylldrych o helaethrwydd neu gyflawnder yn y geiriau, "*bedyddia chwi* â'r *Ysbyrd Glân*," cyfieitha Dr. G. Campbell, o Aberdeen, Math. 3. 2:—"He shall immerse you in the Holy Ghost and in fire". Rhodda Dr. Lange, o Bonn, un o'r esbonwyr Germanaidd mwyaf dysgedig, ddarlenniad cyffelyb o'r adnod:—"He will baptize you, or immerse you, in the Holy Spirit, and in fire." Dengys y Geirlyfrwyr enwog Robinson, Parkhurst, Schleusner, a llawer ereill, fod y meddylldrych o helaethrwydd neu gyflawnder yn cael ei olygu yn y gair *bedyddio* yn yr *Ysbyrd Glân*. Cyril, yr hwn a wnawd yn esgob Jerusalem yn y flwyddyn 350, a ddywed,—"*Oblegid fel y mae yr hwn sydd yn suddo yn y dyfroedd, ac a fedyddir, yn cael ei amgylchynu ar bob llaw gan y dyfroedd, felly hefyd bedyddiwyd hwy yn hollol gan yr Ysbyrd Glân*." Basil Fawr, yr hwn a wnawd yn esgob Cesarea yn 370, yn ei waith ar yr *Ysbyrd Glân*, pen. xv. 35, a ddywed,—"*Gan efelychu claddiad Crist trwy y bedydd; oblegid y mae cyrff y rhai a fedyddir yn cael eu claddu megys yn y dwfr*." Gwasanaethed hynyna fel enghreifftiau o'r llunaws o frawddegau cyffelyb sydd i'w cael

\* *Seren Gomer*, 1861, tud. 181-2.



yn ngweithiau yr hen dadau cyntefig. 3. Nid tywallt a thaenellu yw yr unig ffigurau a arferir i osod allan roddiad yr Ysbryd: dywedir ei fod yn cael ei "roddi," yn "syrrthio ar," yn "tystiolaethu," yn "llanw," yn "ysgrifenu," "dylifo," "ffrydio," &c.; ac os haerir fod tywallt a thaenellu yn ein dysgu o barthed y *dull* o weinyddu bedydd, ar yr un tir y gellir taeru fod ysgrifenu, dylifo, syrthio ar, tystiolaethu, &c., yn profi yr un peth. Os mai dyma y dull i drin gair Duw, y mae genym lawer o ddulliau, ond nid oes neb yn alluog i wybod pa un neu pa rai o honynt yw y goreu. Ar y dybiaeth y medda dynion hawl i ddewis y naill ffigur a gwrthod y llall, byddai yn ddymunol gwybod pa bryd, gan bwy, ac yn mha le, y cawsant y fath awdurdod. Ond hyd y nod pe rhoddasid caniatâd i'r Taenellwyr (gan ysbrydoliaeth) i ddewis tywallt neu daenellu o fyssg y rhai ereill, ni atebai hyn un dyben, oddieithr iddynt brofi gyda llaw ddarfod i'r Ysbryd gael ei dywallt neu ei daenellu yn llythyrenol ar yr apostolion, fel dwfr neu ryw wylbwr arall, yr hyn a'i gwnelai yn sylwedd *materol rhanadwy*. Ond gan fod y fath syniad yn groes i air Duw, ac yn ddirmyg ar reswm, rhaid i ni gredu mai bedydd ffigurol oedd bedydd y Pentecost; o ganlyniad, yr ydym i egluro bedydd yr Ysbryd wrth fedydd dwfr, ac nid bedydd dwfr wrth fedydd yr ysbryd. 4. Haera rhai Taenellwyr ein bod yn cael ein dysgu "gan ddwyfod ysbrydoliaeth, nad yw bedydd dwfr ddim ond arwydd allanol o fedydd yr Ysbryd Glân;" ond nid ydynt wedi gweled yn dda i'n hysbysu yn mha le y mae'r Beibl yn dysgu y fath beth; ac y mae eu dystawrwydd ar y pen hwn yn hawdd i'w esbonio. Y gwyr yw, nad oes y fath athrawiaeth yn y Beibl, er fod yr haerriad wedi ei wneyd yn fynych gan rai a ddylasant wybod yn well. Efallai ddarfod i rai dynion da (ond anwyliadwrs), yn eu cyfyngder am brofion i ategu eu cyfeiliornad, *ddyghymmygu* mai arwydd o fedydd yr Ysbryd yw y bedydd efengylaidd; ond nid yw dychymmyg ffirwythlawn namyn peth gwael yn lle ffeithiau ansigl- adwy. Dywedir fod "bedydd dwfr a bedydd yr Ysbryd yn cael sôn am danynt yn y Testament Newydd, yn gyfiredin, mewn cyssylltiad â'u gilydd;" a cheisir casglu oddiwrth hyn nad yw y ddau yn annhebyg yn null eu gweinyddiad. Dyma ffordd rwydd i *settlo* materion, onide? Yn awr os oes grym yn y dull hwn o resymu, y mae yn profi fod tebygolrwydd rhwng

bedydd yr Ysbryd â pha beth bynag a gyssylltir âg ef yn y Testament Newydd. Gadewch i ni weled. Yn Luc 1. 15, cyssylltir peidio yfed âg ef fel hyn:—"Nid yf na gwin na diod gadarn, ac efe a gyflawnir o'r Ysbryd Glân;" *ergo*, y mae rhyw debygolrwydd rhwng ymattaliad oddiwrth ddiodydd meddwol a bedydd yr Ysbryd Glân; ond y mae'r fath ffiloreg braidd yn rhy blentynaid i hawlio ystyriaeth ddi-frifol a pharchus.\*

*Gwrthdadd y cwmwl a'r môr*.—Barna rhai o bleidwyr taenelliad fod y geiriau yn 1 Cor. 10. 2, yn ffafriol i daenellu ac yn erbyn trochi, ac ymdrechant gael rheswm o honynt dros daenelliad dwfr ar fabanod. Llefara y dysgedig Bengel fel y canlyn:—"Y cwmwl a'r môr a'u cymmerodd hwy o'r golwg, gan eu hadferu i'r golwg dra- chefn, a hyn yw y peth a wna'r dwfr i'r rhai a fedyddir." Esbonia Dr. Whitby (taenellwr) y geiriau fel hyn:—"Ac yn y môr," canys yr oeddynt (y tadau) yn cael eu cuddio bob tu gan y môr (Exod. 14. 22). Felly yr oedd y cwmwl a'r môr yn dwyn rhyw debygolrwydd i'n gorchuddiad gan y dwfr yn y bedydd; yr oedd eu mynediad i'r môr yn debyg i'r hen arferiad o fyned i'r dwfr, ac yr oedd eu dyfodiad allan o hono yn dangos cyfodiad y rhai a fedyddid allan o'r dwfr." Gan mai y *dull* o weinyddu bedydd sydd genym yn bresenol mewn llaw, digon yw dweyd o barthed i'r syniad o fod ganddynt *blant*, nad oeddynt heb lawer o *anifeiliaid* hefyd, ac os cafodd y mabanod eu bedyddio, cafodd yr anifeiliaid yr un peth. Nid yw profi gormod yn llai niweidiol na phrofi rhy fach.

1. Y sylw cyntaf a wnawn yma ydyw, na chafodd yr Israeliaid eu trochi neu eu suddo yn llythyrenol yn y cwmwl ac yn y môr. Nid yw yn debyg y gwna ein cyfeillion ein hamheu yn hyn; credant ein tystiolaeth heb un prawf, ond nid yw yn debyg y byddant mor barod i dderbyn ein gosodiad nesaf (er y dylent fod), sef,

2. Na thywalltwyd ac na thaenellwyd dwfr arnynt chwaith, yr hyn a brofir yn y modd mwyaf eglur gan yr ystyriaethau canlynol:—(1.) Nid oedd y cymylau yn tywallt ar yr Israeliaid, fel yr haerir, oblegid dywedir ddwy waith yn yr hanes mai ar dir *syech* yr aethant drosodd, yr hyn nas gallasai fod os oedd y cymylau yn tywallt. Yr oedd yno ddwyreinwynt cryf gan yr Arglwydd, yn gyru y môr yn ei ol, ac yn *syachu* y tir. Y mae ein cyfeillion yn

\* *Greal, Mehefin, 1862.*



awyddus iawn am daenelliad yma, ond gwna ysbrydoliaeth nacau iddynt gymmaint a dafn o ddwfr at y gorchwyl. Efallai fod y cymylau yn tywallt ar yr Aifftiaid *tu ol* iddynt, fel y meddylia Mathew Henry; ond yr ydym yn sicr ar dystiolaeth y Beibl fod llwybr Israel yn *syoh* (gwel Henry ar Salm 77). (2.) Mewn *cwmwl* (1 Cor. 10. 12), ac nid mewn neu dan *gymylau*, y cawsant eu bedyddio; o ganlyniad, nid yw Salm 68. 8, 9; a 77. 17; yn dal un cyssylltiad â'u bedydd, beth bynag ydoedd. (3.) Nid oedd dwfr yn y cwmwl neillduol y cyfeirir ato, oblegid "*goleuo'r nos i Israel*" oedd ei ddyben. Gan mai yn y *nos* yr aethant drosodd, a bod y cwmwl yn oleuni iddynt ar yr adeg hono, rhaid mai *tân* a dywalltwyd, os tywalltwyd rhywbeth. Dywedir hefyd mai o'u *hol* hwynt yr oedd y cwmwl, rhyngddynt hwy a'r Aifftiaid yn eu mynediad trwy y môr. Dywed un ysgrifenydd mai yr un faint o wlaw oedd yn y cwmwl hwnw ag oedd yn yr un yr aeth ein Ceidwad adref yn fuddugoliaethus ynddo, a dim yn rhagor. (4.) Pe caniatïem (er mwyn bod yn garedig i'n gwrthwynebwyr) fod y cwmwl ag oedd yn "*goleuo'r nos i Israel*"—y cwmwl gwyrthiol, yn *gwlawio* ac yn *goleuo*, ac mai ei gynnwysiad *dyfrllyd* (?) oedd yr elfen fedyddiol, byddai yn angenrheidiol gofyn wedi hyn, beth oedd gan y môr i wneuthur yn y gorchwyl? Dim, ond dywed Paul:—"Ein tadau a fedyddiwyd i Moses yn y cwmwl ac yn y môr." Os oedd yno daenellu neu dywallt llythyrenol, yr oedd a fynai y môr a'r cwmwl â'r weithred. Dealler mai nid cwmwl a ddywedir, ond y cwmwl—cwmwl neillduol, ac nid *cymylau* chwaith. Nid yw Salm 77, 16, 17, o un pwys i ni yn yr ymchwiliad presenol, o gymmaint a bod yr hyn a ysgrifenywyd yn dangos nad oedd a fynai y cymylau â'r Israeliaid, na'r Israeliaid â hwythau.

Myn Barnes ac ereill nad oes yma gyfeiriad at y weithred o fedyddio o gwbl, ond yn hytrach at ymgyssegrïad y genedl i Moses, ei chydabyddiaeth o'i arweiniad a'i awdurdod, yr hyn sydd yn cymmeryd lle gyda'r bedyddiedig yn ei berthynas â Christ pan yn cael ei fedyddio. Ymddengys i ni fod sylw Barnes yn cynnwys rhan, a'r rhan bwysicaf, os nad y cwbl, a olygid gan yr apostol. Tueddir rhai i feddwl fod Paul â'i olwg ar yr ordinhad, ac yr edrychais ar Israel yn orchuddiedig yn y cwmwl ac yn y môr, pan yn cefnu ar yr Aifft o dan arweiniad Moses, fel yn

Henwi sefyllfa *gyffelyb* i'r credadyn yn ei fedydd pan yn cefnu yn broffesedig ar yr Aifft ysbrydol, ac yn dechreu y daith tua'r Ganaan nefol. Claddwyd y genedl o olwg yr Aifftiaid yn y cwmwl ac yn y môr, a daethant allan yr ochr arall i ddyfod dan gyfammod eu Duw, yn debyg fel y dywed Paul fod y Cristion yn cael ei gladdu gyda Christ yn y bedydd i farwolaeth pechod, ac yn adgyfodi i newydd-deb buchedd (Rhuf. 6. 2—4). Cofier, ni ddywedir fod y tadau wedi eu bedyddio *mewn* dwfr nac *â* dwfr, ond yn y cwmwl ac yn y môr. Safai y môr yn fur ar bob llaw iddynt, fel y dengys Exod. 14. 22. Tebygolai eu mynediad i'r môr a than y cwmwl gymmaint i fedydd, gan eu bod mewn ystyr yn gladdedig ynddynt, fel yr oedd yn naturiol i Paul ei alw yn fedydd; yn enwedig gan eu bod yn yr ymddygiad hwn yn tystio eu ffydd yn arweiniad Moses. Fel yna y barna rhai o'r beirniaid Beiblaidd goreu; a rhaid caniatáu golygusrwydd yr athrawiaeth y dadleuant drosti. "Wrth ein bedyddio i Grist," ebe un ysgrifenydd, "yr ydym yn ei gymmeryd yn flaenor mewn modd cyhoeddus." Yr oedd yr Israeliaid pan yn cael eu bedyddio i Moses, yn ei gymmeryd yn arweinydd felly iddynt. Cyfatebolrwydd eu mynediad trwy y môr, a'r cwmwl uwchlaw iddynt, i drochiad Cristionogol, a awgrymodd i Paul briodoldeb y iaith a ddefnyddiodd. Nid oedd yno fedydd llythyrenol, na dim tywalltiad na thaenelliad. Nid oes yn meddwl y môr coch ddim yn *debyg* i daenelliad, ond gellir canfod tebygolrwydd rhyngddo a'r trochiad llythyrenol—cymmaint, fel y gellir ei alw yn fedydd ar sail y tebygolrwydd hwnw. Yn y bedydd Cristionogol y mae tri pheth yn cymmeryd lle, sef mynediad i lawr i'r dwfr, suddiad yn y dwfr, a dyfodiad allan o hono. Yr oedd bedydd y môr coch yn debyg yn y tri pheth hyn; aeth yr Israeliaid i'r môr, buont yn aros am yspaid ynddo, yn cael eu gorchuddio gan y môr a'r cwmwl, ac yna ymddadsuddasant yr ochr arall. Gan ein bod wedi profi nad oedd yno drochiad, tywalltiad, na thaenelliad llythyrenol, rhaid mai rhywbeth *tebyg* i'r naill neu y llall oedd bedydd y môr coch, a barned y darllynydd pa un ai i daenelliad, tywalltiad, neu drochiad, yr oedd yn debyg.

Gwrthoddadleuon yr anghyfleusderau neu yr anhawsderau. Sylwasom (tudalen 3) nad yw anhawsderau i'w hystyried yn derfynol yn erbyn gwirionedd unrhyw athrawiaeth, os na fyddant yn cynnwys



annhosiblwydd. Pan na ellir symud pob anhawdwr, nid ydym at ein rhyddid i anghredu; ond os gellir ei chwalu, ein dyledswydd yw gwneyd hyn.

1. Dywedir nas gallasai un dyn byth drochi yr holl ddyinion a fedyddiwyd gan Ioan heb wyrth barhaus. Haerir mai am chwe mis y bu efe yn bedyddio, ac nas gallasai drochi trigolion Jerusalem, "holl Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen" (Ioan 3. 5, 6), mewn amser mor fyr. Taerir ddarfod i'r bedyddiwr fedyddio tua *dwyr filion* yn yr yspaid byr o chwe mis, yr hyn, fel y meddylir, sydd yn cau allan y meddylddrych o drochi. Haera Thorn, nad oedd Ioan yn bedyddio llai na deuddeg cant bob dydd; ond darfu i anghof, neu ryw beth gwaeth, beru iddo gadw ei awdurdod (?) oddiwrthym. (a) Nid yw hŷd y tymhor y bu Ioan yn gweinidogaethu, sef chwe mis, namyn tybiaeth hollol ddisail: gallasai fod yn chwe blynedd gystal a chwe mis o ran dim a ddwyed y Beibl yn wahanol. (b) Haeriad noeth arall heb un math o brawf iddo yw, ddarfod i Ioan fedyddio dwy filiwn o bobl. Pwy oedd yn cadw y cyfrif? ac os oedd rhywun neu rywrai, pa bryd, yn mhale, a chan bwy y gwelwyd ac y rhifwyd y gofres? Gan fod yr haeriadau hyn heb eu profi, ac yn wir yn hollol anmbrofadwy, nis gellir profi dim oddiwrthynt. (c) Dylid ystyried bodoliaeth y fath ffigur â gormodeb (*hyperbole*) mewn iaith, a bod yr Ysgrhythrau yn frith o hono. Darllenir am "fyned gorchymyn allan i drethu yr holl fyd"—ddyfod o air yr Arglwydd at y Colosiaid "megys ag y mae yn yr holl fyd"—"ddyfod holl ddinas y Girgesiaid i gyfarfod yr Iesu"—ac am "holl ddinas Capernaum unwaith wedi ymgasglu wrth y drws lle yr oedd yr Iesu" (Luc 2. 1; Col. 1. 6; Math. 8. 34; Marc 1. 33). A drethwyd yr holl fyd cyfan, pob cyfandir, pob gwlad, pob ynys, gan Augustus? A oedd yr efengyl wedi myned i'r holl fyd erwn pan ysgrifennai Paul at y Colosiaid? A ddaeth holl ddinas y Girgesiaid, heb adael neb yn ol, i gyfarfod Iesu? A gasglodd holl ddinas Capernaum, pob gwrryw a benyw, hen ac ieuanc ynddi, at y drws lle yr oedd Crist? Os nad oedd y pethau hyn felly, y mae yn amlwg fod gormodeb yn mhob un o'r ymadroddion uchod, a bod yr un ffigur yn Math. 3. 5, 6. Gŵyr pob geiriadurwr (*philologist*), nad oes un ffigur yn fwy cyffredin mewn iaith nag arfer yr *oll am y rhan*, neu am *luaws mawr*; ac ar yr egwyddor hon y mae pob ysgol-

haig yn deall llawer o adnodau yn y Beibl.\* Mai llawys mawr o Jerusalem, Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen, ac nid yr holl boblogaeth, a fedyddiwyd gan Ioan, sydd amlwg, oblegid darfu y Phariseaid a'r cyfreithwyr "yn eu herbyn eu hunain," ddiystyru "cyngor Duw, heb eu bedyddio ganddo" (Luc 7. 30). Dywedai dysgyblion Ioan "fod yr Iesu yn bedyddio, a phawb yn dyfod ato" (Ioan 3. 26). Gan nad oedd Iesu yn bedyddio y rhai a fedyddiasid o'r blaen Ioan, nis gallasai efe gael neb i'w bedyddio, ar y dybiaeth fod pawb wedi eu trochi gan Ioan. Dysgir ni hefyd y byddai yr Iesu "yn gwneuthur ac yn bedyddio *mwy* o ddysgyblion nag Ioan" (Ioan 4. 1). Os bedyddiodd Ioan *bawb* yn Judea a'r cylchoedd, pa fodd y gallasai Iesu fedyddio neb heb fedyddio eilwaith y rhai a fedyddiasid gan Ioan? A phe buasai yn ail fedyddio *pawb* a drochasai ei flaenreddegwr, nis gallasai wedi hynny fedyddio *mwy* nag a drochasai Ioan; oblegid yn ol tybiaeth rhai Taenellwyr, yr oedd Ioan wedi bedyddio *pawb* oedd i'w cael, ac nis gallasai Crist wneyd mwy na hynny.

Haera ambell un nad oedd yr Iorddonen yn lle addas i drochi, o herwydd ei bod yn rhy ddwfn; ond dywed y teithiwr enwog Dr. Edward Robinson, ddarfod iddo ef ymdrochi ynddi heb fyned i ddyfnder annghyfleus (*Biblical Researches in Palestine*, vol. ii., p. 256). Meddylia y Groegiaid mai mewn man tua phedair milldir o'r Môr Marw y bedyddiai Ioan; ac ar y dybiaeth hono, â miloedd lawer o bererinion Groegiaid yno bob blwyddyn i ymdrochi. Yn y flwyddyn 1837, gwelodd y Parch. C. B. Elliott tua phum mil o honnynt yn myned i'r lle hwnw; can gynted ag y cyrhaeddasant y man cyssegredig, gwnaethant ruthr i'r afon, gan ymsuddo i'r dyfroedd—hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, gwrrywod a menywod, rhieni a phlant. Yma ac aew gwelid tad yn trochi ei blentyn yn grefyddol yn y ffrwd; rhoddai ereill o'r dyrfa eu hunain i fyny i'r offeiriaid, y rhai a safent yn y dwfr fel Ioan Fedyddiwr (*Pictorial Sunday Book, edited by Dr. Kitto*). Gellid llanw tudalenau lawer â dyfyniadau, y rhai a broffent fod manau neillduol o gyfleys i fedyddio yn yr Iorddonen.† Addefa Dr.

\* Parch. E. Roberts, Pontypridd.

† Unless men in John's time were twice as tall as at the present day, dipping them in the Jordan was altogether impracticable. .... I contend that dipping persons in the Jordan was altogether



Halley, a Thaenellwyr dysgedig a gonest ereill, mai yn yr afon y bedyddiai Ioan. Y mae yn syndod sut na wnaeth Dr. Carson ddangos ar unwaith mai anhawsdra dychymmygol hollol oedd dyfnder yr afon. Yn y pwnc hwn, y mae Halley, fel y dywed, yn fwy o fedyddiwr nag ef. Nid fel y trocha ambell offeiriad yn ein dyddiau ni y gweinyddai Ioan; ond yr oedd yr ymgeiswyr ac yntau yn yr afon.

2. *Bedydd y tair mil ar ddydd y Pentecost.* Haerir nad oedd yn gyfleus i gael dwfr i drochi y fath dorf yn Jerusalem. Meddai Ioan *ormod* (?) o ddwfr i drochi, os credwn ein gwrthwynebwyd; ond erbyn dydd y Pentecost, yr oedd yr elfen fedyddiol yn rhy brin. Anhawdd genym gredu fod pob un o'n cyfeillion a ddefnyddiant yr wrthddadl hon yn ddifrifol. Y mae llawer o honynt wedi darllen gwaith Dr. E. Robinson, y teithiwr a'r ysgolhaig enwog, yn yr hwn y mae'r geiriau canlynol:—"Y mae Jerusalem wedi cael cyflawnder o ddwfr i'w thrigolion mewn amseroedd hen a diweddar. Nid ydym yn darllen i'r ddinas fod mewn angen dwfr yn y gwarchaeadau lluosog â pha rai y blinwyd hi yn yr hen oesoedd" (*Biblical Researches*, vol. i., page 479). Yr oedd baddo yn rhan bwysig o waith yr Iuddew (Num. 19; Lef. 15); gofynai y gyfraith wladol hyny, ebe Jahn, ac yr oedd llawer o'r tai Iuddwig yn gyfleus i'r gorchwyl.\* Yr oedd dinasoedd a threfi yr amherodraeth Rufeinig hefyd, yn y rhai y bu yr apostolion yn pregethu, yn nodedig am eu baddonau. Yr oedd baddo yn arferiad ddyddiol yn mysg y Rhufeiniaid; cymmerai baddonau cyhoeddus Dioclesian tua 18,000 iddynt ar yr un pryd. Fodd bynag, mynir sychu Jerusalem; haerir nad oedd yn ac o amgylch y ddinas ond tair ffynnon,—bod y dwfr 60 troedfedd islaw wyneb y tir mewn dwy o honynt yn yr haf, ac mai chwaer bod heb ddim yw y drydedd. Dywedir nad yw Cedron ond ffrwd fechan, yr hon sydd yn llifo yn unig yn y gauaf; ac er fod yno lynoedd mawr-

ion cyhoeddus, nid yw ein cyfeillion yn cymmeryd arnynt eu gwled. Y mae un ysgrifenydd manwl a goleuedig yn ysgrifenu fel y canlyn ar y pwnc hwn:—"Yn Ioan 9. 17, cawn grybwylliad am llyn Siloam; ac yn Ioan 5. 2, am llyn Bethesda, yr hwn oedd mor fawr fel yr oedd iddo bump mynedfa, a lluwys mawr o gleifion yn gorwedd ynddynt, ac yn ddigon dwfn iddynt fwrw eu hunain a disgyn iddo, heb dderbyn niwed. Y mae olion chwech o lynoedd yn aros hyd heddyw yn Jerusalem, a'r mesuriadau canlynol wedi eu gwneuthur o honynt:—1. Llyn Bethesda, yn 360 troedfedd o hyd, a 130 troedfedd o led. 2. Llyn y Brenin, yr hwn y sonir am dano o dan yr enw pysgodlyn yn Neh. 2. 14. 3. Llyn Siloam, 53 wrth 18 troedfedd. 4. Yr Hen Llyn, neu y Llyn Uchaf (2 Bren. 18. 17), 316 wrth 200 troedfedd. 5. Llyn Hezekiah, 240 wrth 144 troedfedd, yn rhoddi yn awr ddigon o ddwfr ar dymhor y Pentecost, ac iddo ddisgynfa raddol i'r dwfr, fel yr oedd holl lynoedd Jerusalem, ac a arferir etto fel lle i ymdrochi. 6. Llyn Isaf Gihon, 592 wrth 250 troedfedd. Y mae hwn yn awr yn sych, ond yr oedd ynddo ddigon o ddwfr mor ddiweddar a rhyfeloedd y groes, ac arferid ef y pryd hwnw i ddyfrhau ceffylau. Yr oedd bob ochr i hwn ddisgynfa raddol hollol gyfleus i fyned iddo o bob tu. Yma y gallasai y deuddeg feddyddio y tair mil mewn pum awr, yn ol 50 yr un yn yr awr; a phwy oedd addasach i'r gorchwyl na hen bysgotwyr môr Galilea? Ond nid ydym yn rhwym o gyfyngu y gorchwyl iddynt hwy, o ran dim a ddywedir yn yr hanes. Yr oedd digon o le yn Llyn Isaf Gihon i'r deg a thrigain gyda hwy. Casglwyd y ffeithiau hyn am lynoedd Jerusalem allan o Draethawd gan y Parch. G. W. Samson, Washington, America, yr hwn a elwir 'Digonoldeb o Ddyfroedd yn Jerusalem a manau ereill yn Palestina.' Dealler fod y Beibl yn crybwyll am bedwar o'r chwech llyn uchod, sef Llyn Bethesda, Pysgodlyn y Brenin, Llyn Siloam, a'r Llyn Uchaf. Pa bwys i'r Bedyddwyr, gan hyny, pe na byddai yn Jerusalem namyn tair ffynnon fechan, ac afon Cedron ond ffrwd ansefydlog, gan fod ynddi lynoedd mawrion? Yr oedd y rhai hyn yn fwy cyfleus o lawer i fedyddio ynddynt na ffynnonau. Gweinyddwyd yr ordinad o fedydd trwy drochiad yn llyn Siloam yn y blynyddau diweddar hyn, ac y mae dyn ietane yn awr (yn y fl. 1862) yn Nghymru, yr hwn a

impracticable; and unhesitatingly conclude they were only affused, or sprinkled with the water of it"!!!—*Wm. Thorn*. Nid ydym yn synu cymaint ei fod ef yn ysgrifenu fel hyn.

\* "The gate or door opening to the street (Act. 12. 13).....the space immediately inside the gate is called the porch.....from the porch we are introduced through a second door into the quadrangular area, or court.....in the centre of it, if the situation of the place will admit, there is a fountain.....large companies are received into the court, as at nuptials, circumcisions, &c."



fedyddiwyd trwy drochiad yn y llyn hwn. Mae'r dyn ieuanc hwnw yn barod i sierhau, ar sail tystiolaeth ei synwyrâu a'i brofiad, fod yno ddigon o ddwfr i fedyddio y sawl a fydd yn y drefn apostolaidd.\*

Mawr yw ymdrech ein cyfeillion i sychu gwlad Canaan, a Jerusalem yn neillduol; haera rhai o honynt na chafodd "pobl Samaria eu trochi yn wŷrac yn wragedd," am nad oes sôn yn yr hanes am afon na llyn!! a bod dwfr yn brin yn Samaria pan na fyddai yn gwlawio. Dywedodd Moses am dani ei bod yn "wlad dda, gwlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfnderau, yn tarddu allan yn y dyffryn ac yn y mynydd; gwlad gwenith, haid, gwinwydd, a ffigyswydd" (Deut. 8. 7, 8). Rhaid i ninnau ddewis rhwng Moses a hwythau, oblegid nis gellir galw eu haeriad hwy a'i dystiolaeth yntau yn wirionedd; ond nid yw y Bedyddwyr mewn petrusder pa un ai y deddfroddwr Iuddewig ynte y Taenellwyr sydd yn hawlio crediniaeth. Beth bynag am ragor, gwyddom fod yn Samaria un llyn (1 Bren. 22. 23), sef y llyn yn yr hwn y golchwyd cerbyd Ahab oddiwrth ei waed, pan y lladdwyd ef yn Ramoth Gilead. Gallasai fod yno amryw lynoedd o ran dim a ddywedir yn wahanol. Barna Halley mai yn Sichem, hen brif ddinas Samaria, y cawsant eu bedyddio. Tueddir y R. i feddwl fod dwfr yn brin yno; ac o gaulyniad, na chafodd y bobl eu trochi; ond addefa yn onest nad yw ei farn o berthynas i brinder yr elfen fedyddiol, yn unol â thystiolaethau teithwyr yn y dwyrain:—

"I must here acknowledge I cannot reconcile with these inferences from the Gospel the accounts which travellers give of the flowing stream and the fertility of the country, on account of its perpetual water in the neighbourhood of Sichem, or Neapolis" (Sac., part i., p. 320, sec. ed.)

Barna Dr. Halley fod yr ymddyddan

\* "I do not wish, in our ignorance of all the facts, to press this objection too far. To find sufficient water for the temple service before the construction of the aqueducts has always appeared a matter of extreme difficulty. I must candidly, as I do cheerfully acknowledge, that there must have been abundance of water in the city to have washed away the blood of two hundred and fifty thousand lambs slain at one passover. How to reconcile the sufficiency of water for such a sacrifice with the accounts of its scarcity may not be easy; but that sufficient water must have been in Jerusalem, I am bound to acknowledge" (Dr. Halley, Sac., part i., p. 318, sec. ed.). Tueddir Dr. Halley i feddwl fod trochiad y tair mil yn Jerusalem yn annhebygol; ond ni themla ei hun at ei ryddid i sierhau dim y naill ffordd na'r llall o berthynas dull eu bedyddiad.

rhwng Crist a'r wraig o Samaria o barthed ffynnon Jacob, yn profi nad oedd llawer o ddwfr yn y ddinas. Dywed y Parch. G. Fisk, yr hwn a ymwelodd â Phalestina yn 1842, mai oerni y dwfr yn ffynnon Jacob a barai fod cymmaint o ymdrech i'w gael, "pan yr oedd ffynnonau ereill wrth law, a thra yr oedd yn nyffryn Sychar *gustlawnder o ffrydiau gwerthfawr*."

Y mae Fisk, ac amryw deithwyr ereill, yn dwyn tystiolaeth i wirionedd hanes Moses, ac yn profi pa mor ddisail yw haeriadau rhai Taenellwyr o ethryb sychder y wlad. Pe yr ymlwybrem yn ol y rheol hon, sef casglu nad oedd yno lawer o ddwfr, yn unig am na sonir am dano mewn cyssylltiad â bedyddiad y gwŷr a'r gwragedd (pan yr oedd wedi crybwyll am dano yn ddigon amlwg cyn hynny), y mae yn anhawdd gwybod i ba le yr arweinid ni. Byddai raid casglu na ddefnyddiwyd dwfr o gwbl i'w bedyddio, oblegid nid oes un sôn am dano yn yr hanes; a gorfodid ni i gredu hefyd na arferwyd dwfr nac un math o lestr—*basin*, nac unrhyw beth arall i'w ddal ar yr achlysur o fedyddio Saul o Tarsus, canys nid oes sôn am y naill na'r llall o honynt gan yr hanesydd. Dengys hyn pa mor ynyd y gall dynion call fyned, wrth geisio ategu yr hyn sydd yn hollol annatgadwy.

3. Barna rhai Taenellwyr y ceir yn hanes bedyddiad Saul brawf eglur na chafodd efe ei drochi (Act. 9. 18). Gŵyr ein cyfeillion fod y gair Groeg *anastas* yn gyffredin yn dynodi *dechreuad* ysgogiad nad yw etto wedi ei orphen, ond sydd yn fuan i gael ei gwblhau. Yn Luc 15. 18, dywed y mab afradlon:—"Mi a godaf (*anastas*), ac a âf at fy nhad," &c.; ac yn yr 20fed adnod dywedir, "Ac efe a gododd, ac a aeth at ei dad." Onid "cyfododd" (*anastas*), oedd dechreuad y dychweliad edifeiriol? "A Mair a gysgododd (*anastasa*) yn y dyddiau hynny, ac a aeth i'r mynydd-dir" (Luc 1. 39). Yma golyga *anastasa* ddechreuad yr ysgogiad trwy yr hwn yr aeth i'r mynydd-dir. Felly y mae *anastas* yn Act. 9. 18 (wedi ei ysgrifenu gan yr un awdwr) yn golygu dechreuad y gwaith angenrheidiol i'w fedyddiad. Y mae "cyfododd" (*anastas*) yn ddadl gref dros ei drochiad ac yn *erbyn* taenelliad dwfr arno; yr oedd cyfodi yn angenrheidiol mewn trefn i'w suddo; ond nid oedd eisieu un cyfodiad mewn trefn i dywallt neu daenellu yr elfen fedyddiol arno. Yr oedd ei drochiad yn cynnwys yr ysgogiad y cyfeirir ato gan *anastas*, ond nis gallasai tywalltiad neu



daenelliad gynnwys y fath both. Yn adnod 39 o'r un bennod, dywedir:—"A Phedr a gyfododd (*anastas*), ac a aeth gyda hwynt," hyny yw, i Joppa: cyfododd fel y peth cyntaf i'w wneuthur er myned yno, fel y cyfododd Saul (y rhan gyntaf o'r ys-gogiad) i'r perwyl o fyned i fan cyfleus i gael ei drochi. Ond caiff Saul ei *hyn* ein hysbysu sut y bu:—"Claddiwyd ni, gan hyny, gydag ef trwy fedydd." Cafodd Saul ei drochi os *claddwyd* ef trwy fedydd, oblegid nid yw taerellu na thywallt yn gladdiad.

Golyga y Taenellwyr na chymmerodd dim le rhwng ei ymglyfodiad a'i fedyddiad; ond oddiwrth ba gynseiliau y tynant y fath gasgliad nid yw yn hawdd dyfalu. Y mae'r ffaith ddarvoud i Saul gaei ei *gladdu* trwy fedydd, yn profi fod rhyw bethau wedi cymmeryd lle rhwng y cyfodi a'r bedyddio.

Yn 2 Sam. 12. 21, ceir y frawddeg ganlynol:—"Ti a gyfodaist ac a fwytaist fara" (un debyg iawn i "efe a gyfododd ac a fedyddiwyd"); ond cam-gasgliad hollol oddiwrthi fyddai dywedyd, na chymmerodd dim le rhwng y cyfodi a'r bwyta bara; a gwnelai y fath haerriad iddi filwrio yn erbyn yr ugeinfed adnod, yr hon sydd yn darllen fel hyn:—"Yna Dafydd a gyfododd oddiar y ddaear, ac a ymolchodd, ac a ytneneinniodd, ac a newidiodd ei ddillad, ac a ddaeth i dŷ yr Arglwydd, ac a addolodd; wedi hyny y daeth efe i'w dŷ ei hun; ac a ofynodd, a hwy a roddasant iddo fara, ac efe a fwytaodd." Yn ol yr adnod hon, cymmerodd *wyth gweithred* le rhwng y cyfodi a'r bwyta; saith o honynt wedi eu cyflawnu gan Dafydd, ac un gan ei weision; ac etto symiai y gweision y cwbl yn yr ymadrodd byr:—"Ti a gyfodaist ac a fwytaist fara," fel y symia Luc yr hanes am fedyddiad Saul yn yr ymadrodd:—"Efe a gyfododd ac a fedyddiwyd."\* Ni ddywedir iddo fyned i waered i'r dwfr y mae yn wir; ond ni ddywedir ychwaith i neb ddyfod â dwfr i'r lle. Os yw y dywediad, "Efe a gyfododd, ac a fedyddiwyd," yn groes i grediniaeth y Bedyddwyr, am na ddywedir iddo fyned i'r dwfr, y mae dywedyd hyn yr un mor groes i'r dybiaeth iddo gael ei daenellu, oblegid na ddywedir fod neb wedi *ymosyn* dwfr, neu fod yno ddwfr o gwbl.

4. Bernir mai o blaid taenelliad y mae hanes bedydd ceidwad y carchar a'i deulu, ac nid o du trochiad. Dywedir mai yn y

*nos* y cawsant eu bedyddio, ac "yn y *man*," sef yn y carchar, yn ol barn ein gwrthwynebwyr. (1.) Nis gallasai "yr awr hono o'r nos" fod yn rhwystr neillduol, oblegid yr oedd "*goleu*" ganddynt (Act. 16. 25—33). (2.) Y mae haeru mai yn y *carchar* y bedyddiwyd, yn profi, naill ai bod ein cyfeillion yn ddarlennwyr anarferol o ddi-osal, neu eu bod yn taeru yr hyn nad ydynt yn gredu er mwyn ceisio amddiffyn eu cyfeiliornad. Yn gyntaf, tynodd y ceidwad ei gleddyf. Yn ail, galwodd am oleu. Yn drydydd, rhuthrodd i mewn. Yn bedwerydd, syrthiodd i lawr gerbron Paul a Silas. Yn bummed, dygodd hwynt *allan*. Ymddengys mai i'w *dŷ* y cymmerodd efe hwynt, oblegid yn adnod 32, y mae'r ddau bregethwr yn traethu iddo air yr Arglwydd, "ac i *bawb* oedd yn ei *dŷ* ef." Yn chwechfed, cymmerodd hwynt oddiyno (o'r tŷ, fel y sylwasom) i ryw fan lle yr oedd dwfr. Yn seithfed, "golchodd eu briwiau" yn y man hwnw, a chafodd yntau ei fedyddio, "a'i eiddo oll yn y *man*," sef yn y man i'r hwn y cymmerasid hwynt o'r tŷ i olchi eu briwiau. Yn wythfed, dygodd y ddau bregethwr drachefn i'w dŷ. Yn nawfed, rhoddodd fwyd iddynt, "ac a fu lawen, gan gredu i Dduw, efe a'i holl deulu." Pregethwyd yn y *tŷ*; ond awd *allan* o'r tŷ i fedyddio, a *dychwelasant* iddo pan oedd y bedydd drosodd. Y mae'r ffaith iddynt ymadael o'r tŷ i fedyddio, yn brawf amgylchiadol o'r fath bwysicaf, nad taenellu neu dywallt dwfr ar y ceidwad a'i deulu oedd i gymmeryd lle, oblegid nid oedd eisieu myned o'r tŷ i wneyd hyny, fel y mae synwyr cyffredin ac arferiad y Taenellwyr yn profi. Y mae yn dra thebyg mai mewn baddon, dyfrgist, neu firwd, y golchwyd briwiau y ddau bregethwr, onide, ni chawsent eu dwyn o'r man lle buont yn pregethu i'r ceidwad, ac i "*bawb* oedd yn ei dŷ," oblegid yr oedd yn bosibl cymhwyso dafnau at eu clwyfau heb fyned o'r annedd-dŷ. Y mae'r castell hwn etto, fel y lleill, yn syrthio ar ben ei adeiladwyr.\*

\* SEREN GOMER, Ionawr, 1862; y "Tri Rheswm," gan y Parch. J. M. Pendleton, A.M.

\* Dywed y Parch. Hugh Hughes (*Tegai*), fel y canlyn:—"Yr wyf yn ddigon parod i ganiatau mai trochi oedd dull bedydd yr apostolion, er nas gallaf gyssoni trochiad a bedydd 'yn y fan,' yn y carchar,' 'yn y tŷ,' 'hammer nos,' &c. Ac nid rhyw glir iawn yw amgylchiad y 3000 ar ddydd y Pentecost: er fy mod yn ddigon parod i gydsynio âg Adam Clark, nad yr un amser, nad yn yr un lle, na chan yr un y bedyddiwyd hwy," &c. Y mae Tegai yn ysgrifenu yn fanwl ac yn onest iawn, yn deilwng o athronydd Cristionogol, ac nid fel *special pleaders* y deugain ystyr. (?) Yr ydychi yn



5. Haerir yn mhellach, nad yw trochiad yn weddus nac yn ddiberygl yn y gweinyddiad o hono. O'r braidd y mae'r wrthddadl ddwbl hon yn hawlio sylw difrifol. Dywed Richard Watson (*Theological Institutes*, vol. ii., pp. 648—66) ei fod yn beryglus i ieched, yn groes i deimladau, ac yn warth i wyleidd-dra, a bod yr eglwys at ei rhyddid i gymhwyso dwfr at y corff, hyd y nod pe byddai trochiad y dull gwreiddiol o fedyddio. Dywedai John Wesley, mai yr *hen* ddull o fedyddio oedd trochi; o ganlyniad, ufyddhaodd Crist i ordinhad anwedus a gwarthus, a gorchymynodd i ninnau wneyd yr un peth.\* Rhaid cael llawer o ryfgy neu anystyr-iaeth mewn dyn cyn y gallo haeru fod dwyfol osodiad yn "warth i wyleidd-dra." Haerir nad yw menywod yn ufuddhau i'r ordinhad, heb frwydro yn galed a'u gwyleidd-dra! Y mae yn hawddach o lawer i'r Taenellwyr ddarbwyllio rhai menywod diwroldeb i beidio cymmyrd eu trochi, trwy gyfeirio at anweduswydd dychymyngol trochiad, na phrofi fod trochiad yn groes i air Duw.† Gorchwyl hawdd yw

meddwl y gellir cyssoni trochiad â bedydd yn y fan, bedyddio yn y tŷ, &c., o'r goreu; ac yn y modd mwyaf parchus yn gwahodd sylw y cyfeillion a allant fod fel *Tegai* yn petruso ychydig o berthynas i'r pwyntiau hyn, at ein sylwadau arnynt yn yr erthygl hon, gan obeithio y cânt hwy yn hollol foddhaol.

\* Arferai Wesley fedyddio babanod a dynion mewn oed yn fynych trwy drochiad; gwrthododd daenellu dwfr ar un baban, oblegid ei fod yn ddigon cryf i gymmyrd ei drochi (*Mason's edition of Wesley's Works*, 1856, vol. i. p. 24, 29; vol. ii. p. 446).

† Haerir fod gwyleidd-dra gwragedd dwyreiniol yn gwahardd y meddylldrych o drochi. Y mae gwyleidd-dra ac ymneillduad menywod yn India yn fwy nag y bu erioed yn Mhalestina; etto yr ydym yn cael eu bod yno yn gwasanaethu eu duwiau mor ddiofn a'r rhyw arall. Darlunia y cenadwr Chamberlain yr hyn a welodd ger ynys Gunga Saugur, yn India, fel y canlyn:—"Y mae geiriau yn methu rhoi disgrifiad cywir o'r olygfa hon. Y mae yma ddinas boblog iawn wedi ei chyfodi mewn ychydig iawn o amser..... Gadawsom y cychod yn fuan, ac aethom i blith y bobl, lle y gwelsom weithredoedd eilunaddoliaeth ac ofergoeddd. Tyrfaodd mawrion o wrywod, gwragedd, a phlant pensyfrdanol, uchel ac isel, ieuanc a hen, cyfoethog a thlawd, yn ymdrochi yn y dwfr, ac yn addoli *Gunga*, trwy blygu a gwneuthur cyfarchiadau, a lledaenu eu hoffrymau o reis a blodau ar y traeth, fel y gallai y ddwies eu cymmyrd pan ddeuai y llanw" (*Dr. Cox's Hist. of the Bap. Mission*, vol. i. p. 113). Y mae gwahanol awduron yn dangos fod menywod, gystal a gwrwywod, yn ymdrochi yn fynych yn ngwylliau India (*Noel's External Act of Baptism*, pp. 82—84; *Darllith y Parch. H. Jones*).

"Myfi a glywais rai, a diau i chwithau hefyd

ennill balchder a llygredigaeth rhai calon-  
au gwamal, trwy gyfeiriadau Jesuitaidd at wyleidd-dra a gwedduswydd. CREDU yr ydym fod y personau a welant unrhyw beth yn anwedus neu yn groes i wyleidd-dra mewn trochiad, yn greaduriaid anfoesgar eu hunain—mai ynddynt hwy, ac nid yn y weithred o drochi, y mae'r holl anfoesgarweh. Buasai gan y boneddigion (?) hyn wersi dyddorol i'w dysgu i'r Hollwybodol, pe dygwyddasent fod yn y byd pan sefydlwyd yr enwaediad. Hyd y nod pe byddai soddiad yn anwedus, ar Sylfaenydd yr ordinhad y gorphwysai y cyfrifoldeb, oblegid hwn yw yr unig ddull ysgrythyrol yn ol addefiadau lluoedd o'r Taenellwyr mwyaf goleuedig a gonest. Yn hytrach na bod yn anweddaidd, y mae gweinyddiad priodol o'r ordinhad, ac ufydd-dod gofalus iddi, yn deilwng o'r foneddiges foesgar a'r Cristion llednais. Y mwyaf anfoesgar yn gyffredin a hawl-honant fwyaf o foesgarweh, ac nid yw yn anhawdd gwybod pahan. Pan y mae dyn yn alluog i ddweyd:—"Fel hyn y llefarodd yr *Arglwydd*," gall fforddio i edrych gyda thosturi ar y rhai fyddo naill ai yn ddigon ffol neu yn ddigon drygionus, i feio a gwawdio ei ufydd-dod i orchymyn y Nefoedd. Y rhyddid (?) i drefnu pethau yn wahanol i'r modd y gosodwyd hwy (at yr hwn y cyfeiria Watson), yw blagur Pabyddiaeth, ac nid oes neb ond yr Hollwybodol yn gwybod am ddyfnder ei ddrygedd ac helaethrwydd ei weith-

glywed rhai, yn dywedyd nad ydyw gweinyddiad yr ordinhad yma drwy drochiad, ond braidd yn gysson â gweddeidd-dra. Yn gysson â gweddeidd-dra! Meddylwyf fod rhai pobl i'w cael yn y byd a fyddent o blaid gadael allan o'r Ysgrythyr y bennod gyntaf o'r llythyr at y Rhufeiniaid; rhaid mai peth priodol yn ngolwg rhai dynion fyddai tynu y seithfed gorchymyn allan o'r deng-air-ddeddf; a dylent ymdrechu i gael allan argraffiad pureddig o'r bregeth ar y mynydd; ac hyderwyf y bodlonid hwynt ar hyn. Gyfeillion anwyl, cafodd yr ordinhad yma o drochiad ei sefydlu gan Grist, a'i harfer gan ei apostolion ef; nid oes dim yn fwy sier nag iddynt ei harfer; nid oes yr un ammheuaeth am hyn. Y mae dadl pa un a ydyw yr ordinhad, yn y flurf yma, yn awr yn rhwymedig; ond mewn gwirionedd, nid oes yr un ddadl i hyn gael ei orchymyn, ac i hyn gael ei gyflawnu. A ydych chiwi yn meddwl y buasai ein Harglwydd Iesu Grist byth yn caniatáu dim a fuasai yn tueddu at y gradd lleiaf o anweddeidd-dra? Nid oes genym ond un gair i'w ddywedyd wrth y rhai a gyfodant yr wrthddadl hon, a'r gair hwnw ydyw, 'Pur, yn ddiaf, yw pob peth i'r rhai pur; eithr i'r rhai halogedig a'r di-fydd, nid pur dim; eithr halogedig yw hyd y nod eu meddwl a'u cydwybod hwy.'—(*Pregeth y Parch. H. Stowell Brown, ar Fedydd*.)



rediaidau drygionus. Y rhyddid (?) hwn, h.y., rhyddid i wyro oddiwrth y drefn a sefydlodd Crist, sydd wedi sefydlu y gallu Pabyddol, ac wedi achosi ffurfiad pob eglwys Daenellyddol ar wyneb y ddaear. Y mae'r farn hon o'n heiddo yn cael ei hattegu gan dystiolaeth yr enwog John Calvin, fel y dengys y dyfyniadau canlynol. Yn ei esboniad ar Ioan 3. 22-3, dywed:—"Gallwn gasglu oddiwrth y geiriau hyn fod Ioan a Christ yn gweinyddu bedydd trwy drochi yr holl gorff o dan y dwfr." Yn ei esboniad ar Actau 8. 38, cawn y geiriau hyn:—"Yma cawn y ddefod mewn arferiad yn mhlith pobl yr hen amseroedd wrth fedyddio, y rhai a osodent yr *holl gorff mewn dwfr*. Yr arferiad yn bresenol ydyw, fod i'r gweinidog daenellu ychydig ddwfr ar y corff neu y pen. Ond ni ddylem ddâl cymmaint ar ychydig o wahaniaeth mewn defod, fel ag i ranu yr eglwys, neu lanw yr unrhyw ág amrysonau."..... Sylwer, "*Am hynny cymmerodd yr eglwys y rhyddid oddiar y dechreuad, i gyfnewid ychydig ar y defodau, ond nid y sylwedd*." Gan mai dyma farn Calvin, paham y beir y Bedyddwyr am ddweyd mai yr hawl-fraint a hōnid i newid pethau Crist, sydd wedi rhoi bodoliaeth i daenelliad dwfr ar fabanod, ac o ganlyniad, i bob eglwys daenellyddol o dan y nef? Nid oes gan ein cyfeillion hawl i apelio at air Duw o gwbl; ond dylent fod yn ddigon gonest i addef, fel John Calvin, ddarfod i'r eglwys gymmeryd rhyddid i "gyfnewid ychydig ar y defodau!!" Byddai yr un peth iddynt apelio at Genesis a throi i'r Testament Newydd am sail taenelliad, oblegid yr un faint o oleuni sydd yn y naill ag yn y llall ar y pwnc. Paham na fabwysiedid syniad Calvin ar unwaith, yn hytrach nag ehedeg uwchben y Testament Newydd, fel colomen Noah yn chwilio yn aflwyddiannus am orphwysfa i wadn ei throed mewn byd boddedig (Gen. 8. 8, 9).

Haerir mai arferiad beryglus yw trochiad, a'i bod "wedi profi yn angeuol i lawer." Gan i ni brofi mai *suddo* yw baptizo, trochiad a orchymynodd Crist; o ganlyniad, nid ar weinyddwr yr ordinad, ond ar ei Sylfaenydd y mae cyfrifoldeb y perygl. (?) Ystyrir ymdrochi mewn dwfr gan bawb yn beth iachus; y mae'r farn hōno yn myned rhagddi yn barhaus, a'r arferiad o ddwfr a'r *baddon* hyd y nod fel moddion meddyginiaethol ar gynydd beunyddiol; ond pan sonir am drochi mewn bedydd, meddiennir y fynwes gan arswyd, oblegid y mae'r gorchwyl yn beryglus ac yn ang-

euol i lawer!! Nid yw barn na phrofiad y Bedyddwyr, er bod yn sylfaenedig ar sylwadaeth hir a manwl, yn hawlio ystyr-iaeth, nac hyd y nod yn haeddu crybwylliad, er ein bod yn tystio "ar air a chydwybod," nad oes un perygl yn yr arferiad,\* a'n tystiolaeth yn cael ei chadarnhau gan awdurdodau meddygol a synwyr cyffredin. Pe caniatâem er mwyn dadl fod rhywun wedi dygwydd cael tipyn o anwyd ryw-bryd trwy esgeulusod neu ddiffyg gofal pan fedyddiwyd ef, onid ymfydrwydd ynfytach nag ymfydrwydd ei hun fyddai haeru mai arferiad niweidiol ydyw trochiad oblegid hynny? Onid oes llawer wedi dyoddef mewn canlyniad i'w diofalwch wrth ymdrochi mewn gwahanol fanau? Onid trwy'r *cramp* mewn ymdrochfa yn Llynlleifiad y bu'r enwog Spencer (un o weinidogion ieuaine doniolaf yr Annibynwyr) farw? *ergo*, ni ddylai gweinidogion yr Annibynwyr, na neb arall ymdrochi, o herwydd bu'r weithred yn angeuol i'r pregethwr hyawdl hwnw. Lladdwyd Williams a Mackay, ac amryw genadon Cristionogol ereill, gan anwariad paganaidd; ond nid oes neb yn haeru na ddylid myned i bregethu yr "esengyl i bob creadur" oblegid hynny, gan daeru "na sefydlodd Crist erioed drefn mor beryglus." Blin genym orfod ymostwng i chwalo gwrth-ddadleuon ag sydd braidd islaw sylw.

6. Haerir gyda llawer iawn o hyder nad yw y Bedyddwyr yn rhoi ufydd-dod llythyrenol a manwl i osodiadau ereill, a'u bod oblegid hynny yn anghysson â hwy eu hunain.† Y mae y rhai a arferant yr wrthddadl hon yn ymddangos fel pe byddent yn rhoi y ddadl i syny i'r Bedyddwyr. Fodd bynnag, pe caniatâem wirionedd eu gosodiad, nid yw wedi'r cwbl yn *erbyn trochiad* nac o *du* taenelliad.

Nid yw fod dyn yn methu neu yn nacau cyflawnu rhan neu ranau neillduol o'i ddyledswydd, yn profi ei fod yn ddiffygiol hefyd mewn rhan neu ranau ereill o honi.

\* "Nid ydym ni yn gwybod am un perygl mewn cyssylltiad â throchi, nac am neb wedi marw o'i herwydd, nac am un bedyddiwr ychwaith yn gwybod am dano; ac y mae yn rhyfedd na wyddom ni fwy na'r Taenellwyr, a rhai o honom wedi trochi llawer o gannoedd, ac efallai filoedd yn ein hamser."

† "They (the Baptists) solemnly assure us that 'we should on no account, nor in the least degree, depart from the practice of the apostles, respecting this or any other positive institution of the New Testament'—when they themselves neglect the 'kiss of charity,' 'washing one another's feet,' &c. (See "*Dipping is not Baptizing*," by Rev. W. Thorn.)



Haera y gelwir y defodau darpariadol yn gladdedigaeth; ac os ydym yn deall ei feddwl, golyga y gwna taenelliad neu dywalltiad arwyddlun o olchiad neu eneinriad corff ein Harglwydd. Dywed Carson nad yw y golygiad hwn yn haeddu sylw difrifol. (1.) Y gair Groeg *thapto* a arferir am gladdu, yr hwn na arferir i ddy-nodi y defodau darpariadol yn neillduol. Y mae Ewing, ebe Carson, yn rhoi i'r gair hwn ystyr na chyssylltir âg ef yn y Beibl nac mewn gweithiau clasurol, i ateb ei ddyben ei hun. *Entaphiazō* yw y gair a ddefnyddir i ddy-nodi perarogliad corff marw, ond ni arferir *thapto* byth i arwyddo hyn. (2.) Dynoda *thapto* bob math o gladdedigaeth. Yr hen drefn o gladdu oedd, cloddio pwll yn y ddaciar, gosod y marw ynddo, a'i orchuddio â phridd. Wedi hyn, adeiladwyd cadwfanau (*repositories*), a chafodd beddau eu naddu allan o greigiau, yn mha rai y gosodid cyrff y meirwon; ond *thapto* yw y gair a arferid am bob math o gladdedigaeth, fel y defnyddir y gair claddu genym ni, pa un bynag ai mewn bedd cyffredin, ynte mewn *vault* y gosodid y cyrff. Toi, gorchuddio, neu amgylchynu y marw â rhywbeth i'w gadw rhag halogiaid, yw y meddylddrych cyffredin am bob math o gladdu. (3.) Y mae'r darluniadau Beiblaidd yn golygu ddarvoud i Grist gael ei gladdu (Math. 12. 40; 1 Cor. 15. 4). Ar ba *drydydd* dydd y cyfododd, ond ar y trydydd dydd o'r amser y claddwyd ef. (4.) Dim ond tybiaeth noeth yw'r golygiad ddarvoud i gorff Crist gael ei olehi o gwbl; ac nis gellir casglu dim oddiwrth dyb. (5.) Gan nad oes genym un hanes am olehiad ei gorff, onid yw yn wrthun i ni olygu ddarvoud i Grist ordeinio ordinad i arwyddlunio amgylchiad neu beth, nad yw yn cael ei grybwyll gymmaint ag unwaith yn ei hanes.

Dywed Dr. Wardlaw, ac nid heb achos, nad yw'r olyg-ddysg ryfedd uchod o eiddo Ewing yn deilwng o dderbyniad; a dyfeisia yntau ffordd mor annheilwng a'r hon a gondeimnia, i roddi dystawrwydd ar yr hyn a ddywed yr adnodau hyn o blaid y Bedyddwyr. Ei farn ef ydyw, nad oes un math o debygolrwydd rhwng bedydd a chladdu o unrhyw fath—y defodau darpariadol na'r weithred ei hun.

Golyga mai ymadroddion cyfystyr yw bedydd i farwolaeth, â ffydd yn marwolaeth Crist; nid yw cymmeriad na therfynau ein hysgrif yn caniatáu i ni fanylu ar hyn; ond gellir gofyn, pahan na ddefnyddiasid y gair *ffydd* yn lle'r gair bedydd

gan yr apostol? ac onid yw claddu trwy ffydd i farwolaeth yn swnio i raddau yn odd? Dywed Ewing nas gellir gwadu y *tebygolrwydd* y cyfeiria yr apostol ato, a barna mai y Bedyddwyr bia'r ddadl, os nad rhwng defodau darpariadol y claddu a'r bedydd y mae'r tebygrwydd hwnw. Na, ebe Wardlaw, os yw y meddylddrych o debygolrwydd yn y geiriau o gwbl, nis gellir eu hegluro heb ganiatau trochiad, a chaniatau mai y Bedyddwyr sydd yn uniongred ar y pwnc mewn cwestiwn.

Yr haeriad cyffredin yw, nad oes tebygolrwydd rhwng trochiad a chladdedigaeth ein Ceidwad, oblegid na chladdwyd Crist yn ol y drefn gyffredin; ac o ganlyniad, nas gall y naill fod yn arwyddluniol o'r llall. Os yw ymadroddion yn cyfêu meddylddrychau, y mae yn yr adnod dan sylw sôn am *gladdu*, a chladdu trwy *fedydd* hefyd; nis gall geiriau ddysgu dim yn eglurach. (1.) Gall tebygolrwydd fodoli rhwng dau wrthddrych; ond os mai damweiniol ydyw, nid yw yn fwy na ffigur mewn iaith, ac fel y cyfryw nis gall ddysgu dim i ni. Y mae tebygrwydd rhwng ymadrochiad mewn baddon a chladdedigaeth Crist; ond gan nad yw yn arwyddluniol, eithr yn hollol ddamweiniol, nid yw y tebygrwydd yn fwy na ffigur reithegol. Nid ffigur yw bedyddio, ond gweithred arwyddluniol; y mae'r tebygrwydd yn fwriadol, a'r weithred yn arwyddol. Y mae'r gwahaniaeth hwn yn hunaneglur ac o bwys mawr. Parodd diffyg ystyriaeth o hono i rai feddwl y meddwn hawli edrych am rywbeth cydweddol â phlanu gystal ag â chladdu mewn bedydd. Traws-symudiad (*metaphor*) yw planu; golyga radd o debygrwydd, ond nid oes iddo un ystyr arwyddluniol. (2.) Dylid ystyried y gwahaniaeth rhwng yr arwyddluniol (*emblematical*) a'r dynwaredol (*dramatic*), ac mai arwyddlun ac nid peth drama-yddol yw bedydd. Yn yr olaf, rhaid cael y tebygolrwydd yn fanwl ac yn gryno, ond nid yw y blaenaf yn gofyn y fath fanylwch. Nis gellir gwybod bob amser fod tebygolrwydd rhwng arwyddlun a'r peth arwyddluniedig, heb i'r tebygrwydd hwnw gael ei hysbysu; ond y mae'r tebygrwydd rhwng y drama-yddol a'r hyn y mae yn ddarlun o hono, yn ddigon amlwg i bawb. Nis gellid gwybod oddiwrth oiwg allanol yr aberthau Iuddewig eu bod yn arddangos aberth Crist; ond y mae'r tebygrwydd rhwng *dramas* yn cael eu *hactio*, a'r hanesion a arddangosir ynddynt, yn eithaf eglur. Yr yâys mewn modd neillduol yn galw sylw



at y pwnc hwn. Mewn arwyddlun o gladd-  
edigaeth, gan hyny, nid oes angen am de-  
bygolrwydd manwl rhwng gosodiad yr ym-  
geisydd mewn dwfr, a dodiad corff marw  
mewn ogof neu fedd cyffredin. Nid oes  
un tebygolrwydd rhwng tori bara a thy-  
wallt gwin â marwolaeth Crist? ac nis  
gellir dweyd fod bwyta ac yfed yn *debyg*  
i ymborthiad slyddiog yr enaid ar ddar-  
pariaeth yr efengyl. Y mae pawb yn  
gwybod, er hyny, fod y swper yn arwydd-  
lun o'r amgylchiad pwysig hwnw (1 Cor.  
11. 26). Gan fod bwyta ac yfed yn cyf-  
ansoddi arwyddlun, er eu bod yn an-  
nhebyg i'r hyn a arddangosir trwyddynt,  
ar ba sail y dadleuir yn erbyn bedydd, o  
herwydd nad yw yn hollol debyg i gladded-  
igaeth Crist? Sefyllfa'r corff pan yn  
gladdedig mewn dwfr, sydd yn gwneyd i  
fyny yr arwyddlun. Nid yw y tebyg-  
rwydd i'r adgyfodiad chwaith yn gyn-  
nwysedig yn y *modd* y codir dyn o'r dwfr,  
ond yn y codiad ei hun. Nis gellir cael  
tebygrwydd hollol i'r adgyfodiad. Nid  
oedd tebygrwydd rhwng lladdiad yr  
aberthau, ac aberthiad Crist, na rhwng  
carchariad a gwaredigaeth Jonah, a'r  
modd y gosodwyd Crist mewn bedd ac y  
daeth allan o hono; etto yr oedd Jonah  
yn mol y morfil yn arwyddlun o Grist  
yn y ddaear.

(3.) Y mae llawer o wahaniaeth rhwng  
cysgod ac arwyddlun. Cyfeiria cysgod  
bob amser at y dyfodiant; ond arwydd-  
lun at y gorphenol, y presenol, a'r dyfodol,  
fel y mae bedydd a swper yr Arglwydd  
yn dangos. Pethau gwirioneddol a chref-  
yddol yw defnydd cysgod; ond gwneir  
defnydd arwyddlun i fyny weithiau o  
bethau dychymmygol a naturiol, megys  
llewpard ac adenydd iddo, &c. Gelwir  
llewpard ac adenydd iddo yn arwyddlun;  
a phwyso blew y pen a'r farf, a chario  
allan ddodrefn y tŷ, &c. (Ezec. 5. 12), yn  
weithredoedd arwyddol. Math o ym-  
ddangosiadau gweledigaethol yn gyffredin  
oedd yr arwyddluniau prophwydol; ond  
pethau gwirioneddol ac nid gweledigaethol  
yw y gweithredoedd arwyddocaol (*Mill's*  
*Sacred Symbology*). Yn yr Hen Desta-  
ment, y mae genym lawer o siamplau o  
weithredoedd arwyddol. "Er enghraifft,  
gyrwyd Jeremiah i gladdu gwregys new-  
ydd ar lân yr Euphrates, ac yn mhen  
llawer o ddyddiau ei ddychwelyd oddiyno  
wedi cwbl fraenu; i ddangos mewn  
gweithred pa mor ddiwerth yr oedd Is-  
rael wedi myned yn ngolwg yr Arglwydd  
(Jer. 13)—i ddinystrio llestr pridd fel nad

oedd modd i'w gyfanu, er dangos llwyr  
ddinystyr Israel (Jer. 18)—i wneyd gefyn-  
au, a'u dwyn am ei wddf at genadon bre-  
ninoedd Edom, Moab, &c., a'u rhoddi  
iddynt i'w cymmeryd i'w meistriaid, er  
dangos y byddai i'r breninoedd hyny was-  
anaethu brenin Babilon (Jer. 27)." Y  
mae'r darlennydd yn gweled nad oedd  
tebygolrwydd hollol rhwng y gweithred-  
oedd arwyddol uchod, a llawer e:ill a  
allesid nodi, â'r amgylchiadau yr oeddynt  
yn arwyddlunol o honynt. Nid *drama*  
yw bedydd, eithr gweithred arwyddlunol;  
o ganlyniad, nid yw hi mwy na'r rhai a  
grybwyllasom yn hollol debyg i'r pethau  
y mae yn arwyddlunol o honynt. Y mae  
y golygiad rhesymol ac anwrthwynebadwy  
hwn yn ysgubo ymaith yn llwyr yr wrth-  
ddadl hōno a godir oddiwrth *ddull* cladd-  
edigaeth ein Harglwydd. Efallai y gall  
fod rhai Bedyddwyr, oddiar ddiffyg ystyr-  
iaeth briodol o'r pwnc hwn, wedi chwilio am  
ormod o debygolrwydd rhwng yr arwydd-  
lun a'i wrthddrychau mewn bedydd, a  
thrwyr hyny wedi niweidio eu hunain; ond  
cymmerer yr olwg uchod ar y pwnc, ac ni  
fydd achos ofni y canlyniad.

(4.) Y mae'r eglurhad blaenorol yn  
dangos nad yw Dr. Halley yn gwneyd yn  
iawn trwy alw myned "i mewn trwy y  
porth cyfyng," cymmeryd "helm yr iach-  
awdwriaeth," claddu "trwy fedydd," &c.,  
yn ymadroddion ffigurol, fel pe na fyddai  
un gwahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd.  
Gŵyr pawb ag sydd yn gwybod rhywbeth  
am reithec, mai *figures of speech* yw y  
ddwy frwaddeg gyntaf; ac y mae i'r raddau  
yn syn sut na fuasai boneddwr o enwog-  
rwydd Dr. Halley yn ystyried fod llawer  
o wahaniaeth rhwng y drydedd a hwythau  
—cymmaint ag a all fodoli rhwng ysgog-  
iad *moesol* o eiddo'r enaid, a gweithred  
*allanol* a wneir ar y corff trwy gydsyniad  
yr ewyllys. Yr ydym yn sier na chym-  
merasai y Dr. dysgedig lawer am alw y  
gweithredoedd arwyddol at y rhai y cy-  
feiriasom yn flaenorol, yn ymadroddion  
ffigurol, oblegid yr oeddynt yn gyflawn-  
iadau corfforol ac arwyddlunol; a rhaid  
cael person gwahanol i bawb o blant Adda  
i ddangos fod bedydd yn wahanol. Nid  
yw ffigur mewn iaith namyn gŵyrad gair  
neu ymadrodd oddiwrth yr ystyr a roddir  
iddo yn gyffredin; ond ar ba dir y dywedir  
nad oes rhagor na hyny yn Rhuf. 6. 4, nid  
yw yn bosibl dyfalu. Y mae hyd y nod  
taenellu dwfr ar dalecn dyn yn fwy na  
hyny, heb siarad am *gladdu* mewn bedydd.  
Caniatâ pawb mai gweithredoedd arwydd-



luniol yw bwyta ac yfed yn y cymmun-deb; ond ar yr un tir y gellir dweyd fod "Yfwech bawb o hwn" (Math. 26. 27) yn ffigurol, a haeru mai ymadrodd felly yw claddu trwy fedydd. Y mae bwyta, yfed, achladdu, yn osodiadau pendant, ac nis gellir ammheu nodwedd arwyddluniol y naill a'r llall o'r cyflawniadau pwysig hyn.

"A wado hyn aed â hi,  
A gwaded i'r haul godi."

(5.) Haera rhai nas gall yr un ordinhad fod yn arwyddlun o gladdedigaeth Crist, ac o olchiad moesol pechadur; a gwna amryw siarad yn wawdyd am farw mewn baddon, a golchi mewn bedd. Y gwir yw, nad oes yn yr adnod dan sylw sôn am olchi o gwbl; cyfeirir at gladdedigaeth ac adgyfodiad llythyrenol Crist, y rhai a arddangosir yn yr arwyddlun o fedydd; ac y mae claddedigaeth ac adgyfodiad moesol pechadur yn cael eu cyffelybu neu eu cymharu i'r amgylchiadau pwysig hyny. A oes yn hyn ysglyfaeth i wawdiaith ai nad oes? barned y diduedd, a chyhoeddodd synwyr cyffredin y ddedfryd. Sylwasom fod y swper yn arwyddlun o farw Iesu fel *ffaith* llythyrenol (1 Cor. 11. 26); a chredir fod â fyfyr yn ordinhad â *dyben* ei farw hefyd. "Yfwech bawb o hwn; *cany*s hwn yw fy ngwaed o'r Testament Newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau" (Math. 26. 27, 28). Os oes â fyfyr swper â *ffaith* llythyrenol, ac â bendith *ysbrydol* a dderbynir trwyddi; pa un ai yn ol efengyl Crist ynte yn ol mympwy rhagfarn, y gwaudir y meddylddrych o fod y weithred arwyddluniol o fedyddio yn arddangos amgylchiadau gwirioneddol, ac yn cyfeirio hefyd at fendithion moesol a dderbynir trwyddynt?

(6.) Golyga rhai oraclau y dylid cymuno cyn bedyddio, os yw barn y Bedyddwyr yn gywir: fel y canlyn y llefara un o honynt ar y pwnc:—"Dywedant [Bedyddwyr] fod bedydd yn arwyddocau claddedigaeth ac adgyfodiad Crist, a'r swper santaidd yn arwydd o'i farwolaeth ef; ac etto, y maent yn gweinyddu bedydd, yr hwn sydd yn arwydd o'i gladdedigaeth ef, yn gyntaf; a'r swper, yr hwn sydd yn arwydd o'i farwolaeth ef, yn ddilynol; a thrwy hyn dangosant iddo gael ei gladdu cyn iddo farw, oblegid cofiant am ei gladdedigaeth yn flaenorol i'w farwolaeth, ac felly y gwnant Dduw yn awdwr anghydfod (1 Cor. 14. 33)." Ystyrier y pethau canlynol mewn trefn i weled cadernid yr *ymresymiad* hynod hwn. (a) Yr ydym yn

bedyddio yn gyntaf ac yn cymmuno wedi hyny, am mai dyma y drefn apostolaidd; ac os oes yma anghydfod, Crist a'i apostolion a'i gwnaeth. (b) Darllener y dyfyniad grymus (?) uchod yn ei berthynas â golygiad ein cyfeillion ar y pwnc, mewn trefn i weled a ydyw'r awdwr yn llwyddo yn yr amcan o godi ei hun a'i blaid wrth geisio darostwng y Bedyddwyr yn eu perthynas â chyssondeb:—"Dywedant fod bedydd yn arwyddocau golchiad moesol pechadur, neu lanhad yr enaid trwy yr Ysbyrd, a'r swper santaidd yn arwydd o farwolaeth Crist; ac etto y maent yn gweinyddu bedydd, yr hwn sydd yn arwydd o olchiad pechadur, yn *gyntaf*; a'r swper, yr hwn sydd yn arwydd o farwolaeth Crist (y ffynnon yn yr hon y golchir), yn *ddilynol*; a thrwy hyn dangosant i'r pechadur gael ei olchi *cyn* agor ffynnon i'w olchi, oblegid cofiant am y glanhad yn *flaenorol* i'r ffynnon yn yr hon y golchwyd ef, ac felly gwnant Dduw yn awdwr anghydfod." "A pha farn y barnoch, y'ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau."

(7.) Y mae'r darllenydd yn deall yn barod, fod rhai Taenellwyr selog, dysgedig, a gonest, yn credu mor gryf a ninnau, mai at drochiad, sef y dull apostolaidd o fedyddio, y mae'r cyfeiriad yn yr adnod dan sylw. Caiff nifer fechan o ddyfyniadau pellach o'u gweithiau, fod yn ddiwedd i'n sylwadau ar yr wrthdadd mewn ewestiwn. Fel y canlyn y llefara Dr. Macknight, yn ei esboniad ar yr adnod hon:—"Nid oedd bedydd Crist yn fedydd edifeirwch, oblegid ni phechodd erioed; ond, fel y sylwydd, cymmerodd ei fedyddio, hyny yw, i gael ei *gladdu* dan y dwfr gan Ioan, ac i'w godi allan o hono drachefn, i fod yn arwydd o'i farwolaeth a'i adgyfodiad. Yn yr un modd, y mae bedydd credinwyr yn arwyddluniol o'u marwolaeth, eu claddedigaeth, a'u badgyfodiad." Ysgrifena Barnes fel hyn:—"Y mae yn hollol debyg fod yr apostol yma yn cyfeirio at yr arferiad o fedyddio trwy drochiad. Nis gellir profi hyn, fel ag i'w osod tu hwnt i ammheuaeth; ond tybiwyf mai y meddylddrych hwn a wna daro y lluaws o ddarllenwyr diragfarn." "Y mae yn ddiangenrhaid ychwanegu fod bedydd (ond mewn achos neillduol) yn cael ei weinyddu trwy drochiad; yr oedd y dychwelledig (*convert*) yn cael ei suddo islaw gwyneb y dwfr, i ddangos ei farwolaeth i bechod, ac yr oedd cael ei gyfodi o'i gladdedigaeth fynydol (*momentary burial*) i ddangos ei adgyfodiad i



fywyd o gyflawnder. Y mae yn beth i alaru o'i herwydd, fod rhoddi heibio y dull cyntefig hwn o fedyddio wedi tywyllu (i ddynion yn gyffredin) adnodau pwysig o'r Ysgrythyrau, (Rhuf. 6. 4; Col. 3. 1). Claddwyd ni gydag Ef trwy fedydd, yn yr hwn yr ydym yn cyfranogi o'i farw, pan y suddasom yn y dyfroedd. Nis gellir deall yr adnod hon heb gadw mewn cof mai *trochiad oedd y bedydd cyntefig*" (*Life and Epistles of Paul*, vol. i. p. 518; vol. ii. p. 209, by Conybere and Howson).

"Gan y mynegir mor bendant yma (Rhuf. 6. 4), ac yn Col. 9. 12, ein claddu ni gyda Christ yn y bedydd, trwy gael ein claddu dan y dwfr, a chan fod y trochiad hwn wedi cael ei gadw mewn modd crefyddol gan y Cristionogion, dros dri chant ar ddeg o flynyddau, a chan ei fod wedi cael ei gymmeradwyo gan ein heglwys ninnau, a chan fod ei newid i daenellu, heb ganiatad oddiwrth Awdwr y sefydliad, neu gynghor eglwysig, yn beth ag y mae y Pabydd etto yn ei gynnyg i gyflawnhau ei wrthodiad o'r cwpan i'r lleygion; byddai yn ddimunol pe byddai y ddefod etto yn dyfod i arferiad cyffredin" (*Dr. Whitby's Notes on Romans* 6. 4).

Credai y. Parch. John Wesley, fel y sylwasom, mai yr *hen* ddull o fedyddio oedd mewn golwg gan yr apostol yn yr adnod. Gwnaeth Mr. Ewing ei oreu i alltudio trochiad o'r adnod hon, fel y dangosasom; ond cafodd ei geryddu yn llym am hyn, mewn adolygiad awnawd ar eilyfr yn y "*Presbyterian Review*," cylchgrawn galluog iawn gan Daenellwyr Scotland:—"Nis gallwn lai na gofidio fod Mr. Ewing wedi gwneyd cynnifer o gamsyniadau mor eglur a gwrthun wrth geisio profi taenell-iad. Nid yn tynych y cyfarfuasom â darn o ymresymiad mor wael a dychymmygol ag eiddo Mr. Ewing, er enghraifft, wrth geisio ein perswadio nad oes un cyfeiriad at y dull o fedyddio trwy drochi yn y geiriau, '*claddwyd* ni gydag ef trwy fedydd.' Dylai y pwynt hwn gael ei gydnabod yn onest; ac yn wir, nis gellir ei wadu gydag un math o reswm." (*Review*, vol. i., p. 351.) "Gweinyddid bedydd ar y cyntaf trwy drochiad, ac y mae amryw gyfeiriadau gan Paul at y dull hwn o'i weinyddu. Y mae trochiad yn arwyddlun o farwolaeth—o fod yn gladdedig gyda Christ; y dyfodiad allan o'r dwfr yn arwyddlun o adgyfodiad gyda Christ, a'r ddau yn nghyd a osodant allan yr ail enedigaeath, marwolaeth yr hen ddyn, ac adgyfodiad i fywyd newydd" (*Neander's*

*Hist.*, vol. i. p. 359). Dywed Baxter fel hyn:—"Cyfaddefir yn gyffredin genym wrth y Bedyddwyr, fel y mynega ein hesbonwyr, fod y bedyddiedig yn yr amseroedd apostolaidd, yn cael eu trochi dros eu penau mewn dwfr, a bod hyn yn arwyddo eu proffes grediniol o gladdedigaeth ac adgyfodiad Crist, ac o'u gwrthodiad presenol hwytlau â'r byd a'r cnawd ..... fel y mae'r apostol yn dangos yn Rhuf. 6, a Col. 2" (Dyfynedig yn *Booth's Paedobaptism Examined*). Fel y canlyn y llefara Neander ar y pwnc mewn man arall:—"Pan ddywed St. Paul mai trwy fedydd y cleddir ni gyda Christ, ac y cyfodwn eilwaith gydag ef, y mae yn cyfeirio yn ddiddadl at yr arwydd o drochi mewn, a chyfodi drachefn allan o'r dwfr" (*Appendix to Judd's Review of Stuart*).

Beth feddylir, ynte, am y Taenellwyr hyn a haerant na ellir profi fod trochiad mewn arferiad cyn yr unfed ganrif ar bumtheg? Dywed un boneddwr dysgedig eu bod yn greaduriaid *neillduol*—naill ai am eu hanwybodaeth neu ddiffyg gonestrwydd. Dylent fyfyririo rhanau egwyddorol hanesiaeth eglwysig; yna deallent mai trochi oedd y rheol gyffredin hyd o fewn nifer fechan (mewn cymhariaeth) o flynyddoedd yn ol, ac mai taenellu oedd yr eithriad. Deallent fod nifer y babanod a drochwyd yn fwy o lawer na rhifedi y rhai y taenellwyd dwfr arnynt. Nid yw y dyn a wado hyn yn gwybod nemawr o ddim am hanesiaeth eglwysig. Nid yw trochiad, fodd bynnag, can belled ag y mae yn perthyn i fabanod, yn well na thaenell-iad. Y mae'r ddau yn anorchymynedig yn ngair Duw, ac yn perthyn i deulu lluosog a niweidiol y traddodiadau dynol.

Dengys y dyfyniadau blaenorol, a brawddegau i'r un pwrpas, o eiddo Calvin, Chalmers, Wesley, &c. (y rhai sydd yn ddyfynedig mewn rhan arall o'n hysgrif), fod llawer o Daenellwyr o'r dosparth uchelaf o'r un farn a ninnau o barthed claddu "trwy fedydd."

8. Un o wrthddadleuon amddiffynol ein cyfeillion yw, mai nid i'r dyben o gael llawer o ddyfroedd i fedyddio y gweinyddai Ioan yr ordinhad yn Aion; ond yn hytrach i'r perwyl o gael dwfr at y golchiadau Iuddewig, ac i dori syched yr ymgeiswyr a'u hanifeiliad. Haerir y byddai y lluoedd a ymwelent â Ioan yn aros gydag ef am ddiwrnodau yn olynol, ac y byddent yn arfer golchiadau dyddiol, &c. (*Miller on Baptism*, p. 92, 93; *Dr. Rice* yn y *Lexington Debate*, p. 193). Yn mha



le y dysgodd Dr. Rice y byddai y lluoedd a aethant at Ioan yn aros gydag ef am lawer o ddyddiau yn olynol? Pwy ddywedodd wrtho am y golchiadau dyddiol, ac am yr anifeiliaid? Ar ba dir y gellir dangos fod eisien llawer o ddwfr ar yr Iuddewon at bethau ereill, ond nid at fedydd, pan mai bedydd yw *yr unig* beth (y sonir am dano) ag sydd yn gofyn dwfr yn y geiriau mewn dadl? Dywed Ioan ei hun:—"Y byddai yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim, *cany*s dyfroedd lawer oedd yno: a hwy a ddaethant ac a'u bedyddiwyd" (Ioan 3. 23). A oes yma ryw-beth am "wersyllfaoedd," "anifeiliaid," ac "ymolchiadau dyddiol"? Aeth y bobl at Ioan i gael eu *bedyddio*, nid i wersyllu, nid i ddyfrhau eu hanifeiliaid, ac i gadw eu golchiadau dyddiol. Oni ddewisodd Ioan Ainon fel lle addas i'w amcan, *oblegid* fod llawer o ddyfroedd yno? Paham y beiddir dweyd nad yw yr hanes hwn yn cynnwys prawf amgylchiadol cryf o blaid trochiad? Oni bai fod y pwnc yn un sobr, ebe y Parch. J. M. Pendleton, M.A., byddai yn ddifyrus dwyn yn mlaen resymiad cyferbyniol i hwn. Pe dywedid fod dyn wedi cymmyrd melin fasnachol ar ryw gornant neillduol *oblegid* fod yno lawer o ddwfr, dywedai dynion yn gyffredin fod arno angen y dwfr i'r dyben o falu. Dywedai y Doctoriaid Miller a Rice, 'Yr ydych yn camgymmyrd meddwl y dyn yn hollol. Cyfododd y felin ar y ffrwd, nid am fod arno ei hangen i droi y felin, eithr fel y gallo y rhai sydd yn gwersyllu wrth y felin gael dwfr i'w yfed, a gwneuthur eu golchiadau dyddiol, ac hefyd fel y gallo eu hanifeiliaid yfed.' Ystyrid unrhyw ddyn a ddadleuai felly yn addas i'r gwallgofdy; ond nid yw mewn modd yn y byd yn gam-ddarluniad o ymresymiad Miller, Rice, a Thaenellwyr ereill, o barthed "dyfroedd lawer Ainon." Addefa Calvin, fel y sylwasom (tud. 55), y gellir casglu oddiwrth "ddyfroedd lawer" Ainon, mai trwy drochi yr holl gorff o dan y dwfr y byddai Ioan a Christ yn bedyddio. Byddai tyrfaoedd mawrion yn canlyn Crist yn nechreu ei weinidogaeth gyhoeddus; darfu iddo unwaith borthi pedair mil a phum cant o wyr, heblaw gwragedd a phlant; dro arall, amgylchynid ef gan "fyrddiwn" o bobl; ond ni sonir am ddwfr. Paham na chrybwyllir am yr elfen hono mewn cyssylltiad â'r tyrfaoedd a ganlynet Grist mor fynych? Ond pan gyfeirir at fedydd Ioan, *dywedir y byddai* "yn bedyddio yn Ainon

yn agos i Salim, *cany*s dyfroedd lawer oedd yno." A oedd Crist yn llai ystyriol na Ioan o barthed cysur ei wrandawwyr? Gwnaed ein gwrthwynebwyr a fynont o'r geiriau, nis gallant beru iddynt ddywedyd dim, ond fod Ioan yn bedyddio yn Ainon, am fod yno ddyfroedd lawer; ac y mae y *rheswm* dros fedyddio yno mwy nag mewn rhyw le arall, yn profi mai nid *ychydig* o ddwfr a wnelsai y tro i fab Zecharias. Myn rhai i nigredu mai "flynnonau lawer," ac nid "dyfroedd dyfnion," a arwydda y geiriau mewn dadl. Ond nid flynnonau lawer (*pegai polai*) sydd yma, na dyfroedd dyfnion (*udata bathea*) o ran hyny, ond dyfroedd lawer (*udata polea*); sef yr un gair ag sydd yn Salm 32. 6, am ddyfroedd lawer, ac yn Dad. 1. 5; 14. 2; 17. 1; 19. 6, am yr un peth. Yn yr adnod dan sylw, ac yn yr adnodau uchod, y cyfeirir atynt yn llyfr y Dadguddiad, yn unig yr arferir y geiriad hwn yn yr holl Destament Newydd; ac yn gymmaint ag mai dyfroedd lawer, ac nid flynnonau lawer, yw ei ystyr yn y Dadguddiad, paham y gwneir ef yn eithriad yn Ioan, os nad oes amcan annheilwng o onestrwydd beirniadol i'w sicrhau? Dangoswyd yn y tudalenau blaenorol, fod rhai o'r Taenellwyr dysgedicaf ac enwocaf a fu erioed ar y ddaear, yn ystyried yr adnod dan sylw (Ioan 3. 26) yn brawf pendant dros drochiad; ac y mae fod rhai Cristionogion wedi ceisio barnu yn wahanol, yn ffaith i'w rhyfeddu ac i ofidio o'i herwydd.

9. Y mae Taenellwyr a gredant mor gadarn a'r Bedyddwyr mai trwy drochiad y bedyddiai yr apostolion, ond a farnant y gwna taenelliad y tro, yn dweyd mewn iaith ac ymddygiad mai peth *diwbys* yw bedydd. Gelwir ef yn "blisgyn" ac yn "ffin wellt;" dywedant nad yw yn hanfodol i iachawdwriaeth—mai bedydd yr Ysbryd sydd yn hawlio sylw—fod dynion duwiol gyda phob sect—fod dynion da yn amddiffyn taenelliad, a chondemnir y Bedyddwyr am gadw cymmaint o dwrw o barthed y dull o fedyddio.

(1.) Y mae'r athrawiaeth hon yn ddirmyg ar gymmeriad enwadol y byd crefyddol. Plant bychain sydd yn gyffredin yn ymladd am deganau diwerth; ac weithiau y mae eu hymrafaelion bychain a diniwed yn destunau chwerthin i ddynion mewn oed. Os mai peth diwbys yw bedydd, o berthynas i ba un y bu cymmaint o siarad ag ysgrifenu, onid yw yn beth rhesymol i ni feddwl fod deistiaid ac ereill yn tosturio wrth ein plentynyddiwrch, ac



yn dirmygu ein crefydd a ninnau. Gellid meddwl nad yw anffyddwyr yn rhy anaml i wawdio crefydd a chrefyddwyr, fel nad oes eisieu i ni iselu ein hordinhadau crefyddol trwy alw y naill na'r llall o honynt yn "blisgyn" nac yn "ffin wellt." Bu dynion dysgedig a duwiol ar y maes o bryd i bryd yn dadleu ar y pwnc; ond yn ol yr athrawiaeth a gondemniwn, gwallgofiaid oeddynt oll—gwariasant eu harian am yr hyn nid oedd fara, a'u llafur am yr hyn nad oedd yn digoni. Pe dywedai plentyn wrth ei feistr mewn ysgol, nad oes un pwys yn y wers a ddyysgir iddo; byddai yn ol ei allu yn diystyru ei athraw gwybodus a pharehus. Y mae'r cymhwysiad yn amlgw. Os yw dull bedydd mor ddibwys yn ngolwg Taenellwyr ag y dywedant, dylent fabwysiadu dull y Bedyddwyr, er mwyn undeb a chydweithrediad; ni fyddai newid eu dull yn anhawdd iddynt hwy yn ol y dystiolaeth dan sylw; ond nis gallai y Bedyddwyr droi yr eiddynt hwy o'r neilldu heb aberthu cydwybod.

(2.) Y mae yn yr athrawiaeth a gondemniwn fwy o hunan-fodddhad nag o ysbryd ufydd-dod. Nid deddf-wneuthurwr na deddf-newidiwr yw dyn yn ei berthynas â chrefydd; ond deiliad ufydd i ddeddfau gosodedig. "Pa beth a *wnaif*?" yw arwyddair yr ufydd-dod a gymmeradwya efengyl. Hawliai cyfundrefn Sinai llawer o lafur a gofal; a diau fod musgrellni llawer o grefyddwyr yn ein hamser ni, yn cael ei gondemnio gan fanylwch yr Iuddewon gyda defodau eu crefydd. Byddent hwy weithiau, y mae'n wir, yn ymorphwys yn ormodol ar seremoniau allanol, ac yn esgeuluso egwyddorion moesol eu crefydd; ond nid eu manylwch gyda'r mintys a'r anis a gondemnir gan Chwiliwr y galon. I'r graddau byddai yr Iuddewon yn esgeulus o osodiadau Moses, y byddai crefydd yn gwywo, a'r gogoniant yn bygwth ymadael. Y mae hyn yn ein harwain i sylwi

(3.) Mai ben arfer Duw yw cymmeradwyo manylwch mewn ufydd-dod crefyddol, ac annghymmeradwyo esgeulusdod o'i orchymynion pendant. Trwy ufydd-dod manwl i Dduw, y sierhâodd Abraham iddo ei hun gyfoeth na dderfydd ac enw na phydra; a thrwy wneyd "yn ol yr hyn *oll* a orchymynodd yr Arglwydd," yr ennillodd Noah foddlonrwydd ei Dduw. Y mae pob enghraifft Feiblaidd sydd genym o foddlonrwydd Duw i fanylwch, yn dweyd:—"Beth *bynag* a ddywedo efe wrthyh, gwnewch." Y mae edrych ar yr arch a'r portreiad dwyfol, a gallu dweyd yn yr olwg

ar y ddau,—"*Gwnaethwyd fel y gorchymynaist*," yn werthfawrocach na gemau y greadigaeth. Dyma hanfod dedwyddwch ar y ddaear, ac yn ngwlad y dydd. Onid yw'r athrawiaeth hon yn hunan-eglur i bawb. Y mae anufydd-dod Adda ac Efa, gwraig Lot, Moses, Saul, a llawer ereill, yn ddigon adnabyddus, ac ysgrifenydd yr hanes am danynt hwy "*er addysgi ni*." Os nad yw Duw yn anfoddlon i ddynion am newid ei osodiadau yn bresenol, fel yr oedd gynt, rhaid fod yr Annghyfnawdrol ei hun wedi newid. Er nad yw yr Arglwydd yn ymweled â ni yn awr trwy farn-edigaethau tymhorol a chyhoeddus fel y gwnelai gynt, nid yw hyn yn profi nad yw yn dwyn yr un eiddigedd dros bwysigrwydd ei air, a santeiddrwydd ei enw.

(4.) Y mae dweyd nad oes pwys mewn bedydd, yn tueddu i bellhau dynion digrefydd oddiwrth yr efengyl, ac i feithrin musgrellni yn eu mynwesau. Un o *secrets* llwyddiant Paganiaeth a Phabyddiaeth yw, fod y naill fel y llall yn cyssylltu llawer o ddifrifoldeb â'u holl ddefodau crefyddol: pe buasant hwy yn galw "*trimmings*" a "*finiau gwellt*" ar eu pethau, ni fuasai eu deiliaid mor lluosog, a'u dylanwad mor helaeth. Rhaid i ddyn ystyried pob gweithred grefyddol yn bwysig mewn trefn i fod yn dweydrfynol yn y cyflawniad o honi. Nid ydym yn foddlon aberthu llawer ar allor peth dibwys. Y mae cymhell dynion at Iesu Grist, a defnyddio yr annogaethau cryfaf i'w hannog i ufydd-dod, a dweyd ar yr un pryd nad yw yr ordinhad o fedydd y cymhellir hwy i ymostwng iddi namyn peth dibwys—peth y gall dynion ei gweinyddu fel y mynont, yn un o'r annghyssonderau penaf y gall marwolion fod yn euog o honynt. Dywedai un deist wrth weinidog yr efengyl unwaith, nad yw crefyddwyr eu *hunain* yn credu yr hyn a broffesant; o herwydd nad oes, ebe efe, un cyssondeb rhwng eu profies a'u buchedd. Y mae ein cymmydogion digrefydd yn gwraddau ar ein geiriau, ac yn edrych ar ein ffyrdd; ac os na chanfyddant ddifrifoldeb, nid yw yn hawdd iddynt barchu crefydd na'i deiliaid.\*

\* Meddylied y darlennydd ei fod yn ymweled â rhyw fasnachdy cyfrifol, a bod y masnachwr yn dwyn rhyw nwydd gerbron, gan annog yr ymwelydd yn y modd taeraf i'w brynu, ac ar yr un pryd yn dweyd am dano nad yw ond peth *dibwys* neu *sham*; byddai yn naturiol i'r dyn dweithr, wedi clywed a gweled y fath ynydrwydd, geisio gan y siopwr ddodi y peth dibwys o'r neilldu, a dwyn rhywbeth o werth i'r counter. Meddylied yn mhellach, fod y masnachwr yn gwrthod gwerthu



(5.) Y mae'r athrawiaeth a gondenmiwn yn *tueddu* i ladd crefydd yn mynwesau y rhai a'i coledant. Y mae meddwl goruchel am Dduw a'i bethau yn hanfodol i fodoliaeth a chynnydd gwir grefydd; os coledir meddwl ysgafn am un neu rai o ordinhadau y nefoedd, rhaid bod yn dra gofalus rhag i'r teimlad oeri yn y fynwes, ac i'r gân rewi yn hollol ar y wefus. Y mae gwrthgiliad yn dechreu yn y meddwl:—"Fy mhobl sydd ar feddwl cilio oddiwrthf." Gan mai dyma y *tendency* sydd yn yr athrawiaeth hon, pwy a wŷr nad yw wedi gyru rhai i geisio dwfr y bywyd mewn pydewau toredig! Gwaelder tybiedig y manna a berodd i Israel geisio y cig a fu yn foddion i'w dyfetha; ac esgeuluso gosodiadau y nefoedd a achosodd iddynt gwympo o flaen eu gelynion mewn amser dyfodol.

(6.) Darfu i Grist gyssylltu ei bresenoldeb a'i fendith â gweinyddiad yr ordinhad hon, yn gystal ag â phregethiad yr efengyl:—"Ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd," medd efe ei hun, pan yn anfon ei weision i waith y cynauaf mawr. Os yw ei bresenoldeb i gael ei fwynhau yn ac o *gompas* yr areithfa, y mae ei fendith i'w dysgwyl tua chymydogogaeth yr afon. Yn gymmaint a bod Iesu wedi addaw fel y nodwyd, y mae genym gystal sylfaen i ddysgwyl boddlonrwydd Duw pan yn yr Iorddonen, a phan yn sefyll yn ymyl y groes.

Os darfu i Iesu addaw bendithion i ni mewn cyssylltiad â phregethu a bedyddio, y maent o werth i ni ddysgwyl am danynt. Y mae yr holl bethau a fu yn ddigon o werth i Dduw i'w haddaw, o werth i ni i'w dysgwyl, ac i dderbyn yr ammodau ar ba rai y cynnygir hwy. Nid peth dibwys yw ordinhad y mae bendithion arosol mewn cyssylltiad â'i gweinyddiad. Llai o bechod

un nwydd arall, nes gwneio y *customer* brynu y plisgin dibwys yn gyntaf, gan ddweyd fod pob un a fyddo yn dod i'w faelfa ef, yn rhwym o brynu hwnw (y nwydd dibwys) cyn cael unrhyw beth arall; oni fyddai hyn yn ymddangos yn rhyfedd? Fel hyn yr ymlwybra y cyfeillion sydd yn gweddio am "fwy o dân a llai o ddwr," ac yn haeru nad yw o un pwys sut y bedyddir. Pe byddai dyn heb ei fedyddio gan y Bedyddwyr, ac heb gael taenellu dwfr arno, yn ceisio aelodiaeth ganddynt heb ymestwng i'r peth dibwys—heb brynu y *sham*, gwrthodid ei gais yn benderfynol ac ar unwaith. A ydyw hyn rywbeth gwell na chellwair â phethau mawrion Duw? Nid trwy gellwair y mae gwella'r byd. Os dywedwn ni fod rhai pethau crefyddol yn ddibwys, gall hyny beru i ereill daeru fod pob peth felly. Gwell gadael bedydd yn hollol, na'i arfer a'i wneyd yn ammod aelodiaeth, a'i ddibrisio ar yr un pryd.

fyddai galw "*trimmings*," a "ffiniau gwellt," ar wyrthiau Moses ac Elias, a dweyd mai rhai amddifad o bwys oedd arwyddion Crist a'i apostolion, na difenwi gosodiadau pendant ac arosol yr efengyl, mewn cysylltiad â pha rai y mae Crist wedi arfer cyfranu bendithion i bechadur "hyd ddiwedd y byd." Math o *scaffolds* oedd y gwyrtiau er adeiladu muriau yr oruchwyliaeth newydd; ond nid *scaffold* yw bedydd, eithr rhan o'r adeiladaeth ei hun. Gan fod yr ordinhad hon yn rhan o Gristionogaeth, nis gellir pregethu yr efengyl yn iawn heb bregethu bedydd.

(7.) Ufyddhâodd Crist ei hun i'r ordinhad. Gwnaeth ef ei hurddasoli a'i hafarwoli yn afon yr Iorddonen; ac o hwydd ein bod ninnau yn mynwesu par mawr tuag at ein Blaenor, nis gallwn l na theimlo yn ofidus wrth wrandaw ddynion yn siarad yn ddiystyrlyd am hyn a ordeiniodd trwy ei alw yn "blisgyn ac yn "ffin wellt." Ai i'r perwyl o gynmeradwyo a chadarnhau seremoni wellaidd a phlisgynaid y disgynodd yr Ysbryd, ac y bloeddiodd y Nefoedd foddlonrwydd? Y mae yn resyn na wnelai yr ystyriaeth o gyssylltiad Iesu â'r ordinhad, gadw pob crefyddwr rhag siarad yn ysgafn am dani. Nid yn unig ufyddhâodd iddi ei hun, ond sefydlodd hi yn awdurdodol yn ei eglwys. Pe yr ymlwybrasai Noah yn ol ei fympwy, gan alw pethau bychain ar gyfarwyddiadau ei Dduw; a phe dywedasai Moses nad oedd o bwys sut i weinyddu y seremoniau Iuddewig; diau y buasai iddynt gael dyoddef am gynyg taslu y fath anfri ar gymmeriad y Cynlluniwr doeth. Os buasai y fath ymddygiad yn bechadurus ynddynt hwy, ar ba dir y gellir ystyried un cyffelyb yn rhinweddol o dan oruchwyliaeth oleuach? Os dywedwn mai peth ysgafn yw yr ordinhad hon, yr ydym ar yr un pryd yn rhwym o wadu dwyfoldeb y Messiah, canys y mae dwyfoldeb yn cynnwys pwysigrwydd. Yn gyffredin, byddai y prophwydi yn dweyd:—"Fel hyn y llefarodd yr Arglwydd." Dwyfoliaeth y genadwri a hawliai sylw. Yr ydym ninnau yn cymhell dynion at ordinhad a sefydlwyd gan Frenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi. Nis gellir galw y dull yn un dibwys heb ddiystyru y Bôd a all ddattod rhwymau Oriôn—y ddoethineb a gynlluniodd drefn iachawdwriaeth.\*

\* "Nid ydwyf yn meddwl y gellir ein cyhuddo (Bedyddwyr) yn gyflawn, o wneuthur gormod o'r ordinhad. Pan fyddom ni yn dywedyd am yr ordinhad ei bod yn adgenedlu yr enaid—pan ddy-



(8.) Y mae gweinyddiad yr ordinhad i fod "yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Os oedd cyssylltiad enw Duw â chenadwriaethau Moses, Elias, ac ereill, yn argraffu pwysigrwydd arnynt, pahan y beiddir galw y dull a ordeiniodd Crist i weinyddu bedydd yn beth ysgafu? Diau na theimlem ni yn gysurus pe galwai ein cymmydogion ryw beth amddifad o bwys ar unrhyw achos y byddem ni wedi ysgrifenu ein henwau wrtho, gyda bwriad i'w gyflwyno i sylw a chydymdeimlad y cyffredin; dysgwyllem i'n *signatures* i gael eu derbyn fel profion o'i bwysigrwydd. Pa fodd y beiddia dynion a deimlent felly yn yr amgylchiad a dybiwn, haeru nad oes nemawr pwys mewn sefydliad ag y mae enw y nefoedd yn argraffedig arno? Deall-er mai ar fedydd *Ysgrythyrol*, yn ei ddull a'i ddeiliaid, y mae'r enw hwnw wedi ei argraffu, ac nid ar unrhyw beth a adweinir gan ddynion wrth y cyfryw enw. Os mai "defod ddynol yw trochiad" y crediniol

wedom ni fod personau ganddi yn cael eu gwneyd yn "aeidau o Grist, yn blant i Dduw, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd"—pan fyddom ni yn rhuthro gyda phob brys i fedyddio yr hwn sydd yn glaf, ac yn marw—a phan wrthodom ni i'r rhai sydd yn marw heb fedydd, ddefodau, gweddusderau, a chymmwynasau claddedigaeth Gristionogol, yna dywedwch wrthym ein bod i raddau aruthrol yn mwyhaupwysigrwydd yr ordinhad hon, a byddwn yn wir haeddiannol o'r cyhuddiad" (*Pregeth y Parch. H. S. Brown, cyfieithiedig gan Llewelyn*). Llefara yr un awdwr fel y canlyn am fedydd yn ei berthynas â iachawdwriaeth:—"Er hyny, chwi a ddywedwch, Nid ydych yn ei hystyried yn hanfodol i iachawdwriaeth; pahan, gan hyny, yr ydych yn gwneyd yr ordinhad yma yn sylfaen ysgariaeth oddiwrth eich brodyr? Gyfaill anwyl, ai Cynulleidfaoelwr (*Congregationalist*) ydych? Nid ydych yn credu fod y drefn Gynulleidfaoel yn hanfodol i iachawdwriaeth; gan hyny, pahan na fydd-ech yn ymuno â'r Eglwys Esgobyddol? Ai Prefnydd ydych? Nid ydych yn meddwl fod y *Conference* i achub eich enaid; pahan, gan hyny, na ddychwelech i fynwes yr Eglwys Sefydledig? Ai i Eglwys Rydd Ysgotland y perthynwch? Caniatwch y gall dynion gael eu hachub o hyd yn yr Hen Eglwys; gan hyny, pahan y darfu i chwi ystwrlo cymmaint gyda yr ymraniad hwnw? Nid ydwyf, mewn modd yn y byd, yn eich beio am yr ymraniad; feallai i chwi wneyd yr hyn oedd yn berffaith iawn. Gall peth beidio bod yn hanfodol, ac er hyny, fod yn mhell oddiwrth fod yn ddi-bwys. Nis gallwn ni lai nag edrych ar fedydd babanod fel prif wreiddyn yr athrawiaeth ofergoelus a dinystriol o adgenediad yn y bedydd, i'r hon yr ydym fel Protestaniaid yn wrthwynebol; nis gallwn lai nag edrych ar fedydd babanod fel penconglafael Eglwysyddiaeth Wladwriaethol, i'r hyn yr ydym fel Ymneillduwyr yn wrthwynebol; nis gallwn lai nag edrych ar fedydd babanod fel yn anysgrythyrol; ac i bob peth anysgrythyrol, yr ydym, fel dysgyblion i Iesu Grist, yn rhwym o fod yn wrthwynebol."

mewn dwfr, nid yw enw y Drindod yn perthyn i'w weinyddiad; ond os mai defod babyddol yw taenellu dwfr ar fabanod, nid "yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân" y dyldid ei gweinyddu, eithr yn enw y Pab o Rufain. Pe cyflawnasai Jeremiah y gweithredoedd arwyddluniol, at y rhai y cyfeiriasom, mewn dulliau gwahanol i'r rhai ordeiniedig—cynnyrchion ei fympwy ei hun, nis gallasai ddweyd,—"Fel hyn y llefarodd yr *Arglwydd*;" a phe gwnaethai Noah yr arch yn hirach ac yn gulach na'r portreiaid, gan daeru mai cael arch oedd y pwnc mawr yn annibynol ar ei hyd a'i lled, ni ennillasai iddo ei hun yr enwogrwydd a sierhâodd trwy faulwch ei ufydd-dod. Gallasai yr arch fod yn llai mewn lled, ac yn fwy mewn hyd, heb fod yn *llai* nag yr oedd mewn gwirionedd; ond nid ufydd-dod i *Dduw* fuasai ei hadeiladu felly, eithr ymborth i fympwy a maeth i anufydd-dod. Y mae hyn yn ein harwain i sylwi,

(9.) Fod ordeiniad unrhyw ddull pennodol o weithredu, yn cynnwys gwaharddiad pendant o bob modd neu ddull arall. Haera amryw o'n cyfeillion mwyaf goleuedig, mai cymhwyso dwfr at y person mewn unrhyw ddull, *neu* ei osod *mewn* dwfr, i'r dyben o arwyddo glanhad moesol pechadur yw bedydd, ac nad oes a fydd ychydig na llawer o ddwfr, na'r *dull* o weinyddu, â'r pwnc. Dywedir fod taenellu dwfr ar ddyn yn gystal arwydd o'r gwirionedd efengylaidd, a fwriedir ddangos trwy fedydd, a throchiad trwyadl yn yr elfen fedyddiol.\* (a.) Pan y mae y rhai a ddadleuant fel hyn yn pennodi *dull* neillduol o weithredu, i'r perwyl o sierhau dyben pennodol, nid oes gan y gweision a neillduant

\* I can, and I do, most conscientiously avow, that I have not the slightest wish to make a single convert to sprinkling. Having no preference for any mode, I only attempt to vindicate our right to be regarded as baptized Christians, to which character we have, I believe, as good a title as any church on earth can supply..... That our baptism ought to be acknowledged, even if we have mistaken the mode of administering it, I have maintained; because the ordinance itself being only a sign of evangelical truth, the recognition of the truth signified in obedience to the command of Christ, comprehends all that is essential or important. I have now to maintain that we are not labouring under mistake, but that we have full liberty according to the principles of interpretation stated in the New Testament, in construing the words which relate to a positive institution, to consider its nature and design, and preserving the integrity of the emblem, to adopt in exhibiting it *any mode* which is in accordance with its nature, and by which its design may be carried into effect" (*Dr. Halley*, p. 240-1-2).



i wneyd y gwaith hawl i newid y dull gan ddweyd, Cyrhaedd y *dyben* yw'r pwne mawr trwy *unrhyw* ddull. Hyd y nod pe byddai yn bosibl cyrhaedd y dyben mewn gwahanol fflydd, nid yw'r meistr yn caniatáu i'w weision droi yr un *ordeiniedig* o'r neilldu, a boddio mympwy trwy ddewis un arall. Y mae llywodraethau gwladol, nid yn unig wedi ordeinio *diennyddiad* llofruddion, ond hefyd y *dulliau* o ddiennyddio. Ni feiddia swyddogion Prydain groeshoelio na thôri pen mwrddwr, a thaeru fod *dyben* diennyddiad yn cael ei ateb felly, oblegid *crogi* yw y dull a ordeiniwyd. (Paham y cymmerir mwy o ryddid gyda phethau Duw na chydha gosodiadau dynion?) Ystyrir fod y llwybr ordeiniedig o ddiennyddio, yn *gwahardd* yn bendant bob llwybr arall, ac felly mewn gwirionedd y mae. Wedi i feddyg orchymyn i ddyn claf *ymdrochi* mewn dwfr, nid yw yn gwenu ar y *patient* o dan y *shower bath*, na'r claf ei hun yn ystyried y fath ymddygiad yn ufydd-dod i'r *Doctor*. Pe byddai yr egwyddor a gondemniwn yn teyrnasu yn gyffredinol (sef fod dulliau ordeiniedig mewn gwahanol gylehoedd yn cael eu troi o'r neilldu, a phob un yn dilyn ei fympwy ei hun), darfyddai trefn, peidiai llywyddiant, a threngai dedwyddwch cymdeithas.

(b.) Nid yw yr Arghwydd yn llai eiddigeddus o'i ddulliau gosodedig nag y mae dynion. Pe *taenellasi*d gwaed yr aderyn marw a'r dwfr rhedegog ar yr aderyn byw, yn lle *trochi* yr aderyn byw ynddynt (Lef. 14, 5, 6, 51) yn ol y gorchymyn, ni fuasai y fath ymddygiad yn fwy boddhaol gan Dduw nag eiddo Corah, Dathan, ac Abiram (Num. 16). Yr oedd yn angenrheidiol i Naaman ymolchi (*ymdrochi*) saith waith yn yr Iorddonen (2 Bren. 5. 10) yn ol y cyfarwyddyd; pe diystyrasai y drefn osodedig trwy gymmeryd dwfr yr afon i'w dŷ, a'i gymhwyso at "y fan," ni chawsai y fendith a dderbyniodd. Yr oedd Moses i *daenellu* gwaed yr hwrdd ar yr allor, ac nid i'w *dywallt* arni (Exod. 29. 16), ond i *dywallt* dwfr ar y sychdir, ac nid i'w *daenellu* (Exod. 4. 9). Nid *gwneyd* rywsut oedd dyledswydd Moses, eithr ymlwybro *fel* y gorchymynasid. Dywed ein cyfeillion nad yw bedydd ddim yn mhellach nag y mae yn *arwydd* o beth arall; nid oedd yr enwaediad hefyd ond "*arwydd* o'r cyfammod" rhwng Duw ac Abraham; ond rhaid oedd cael yr *arwydd* a *osodasi*d gan Dduw, ac nid rhywbeth

arall yn ei le. Os gwaherddid rhyddid i Abraham i borthi mympwy yn y mater, ar ba dir y mae gan Gristionogion hawl i newid yr *arwydd* gosodedig o'r hyn a alwant yn lanhad moesol pechadur? Nid yw y flaith mai *arwydd* yn unig yw bedydd yn rhoi hawl i ni'i'w droi o'r neilldu, a dewis peth arall yn ei le. Buasai yr un mor rhesymol i Abraham daenellu dwfr ar bawb yn lle eu henwaedu, ag yw i'n cyfeillion ymwrthod â throchiad ac arfer taenelliad. Os oedd y gorchymyn i *enwaedu* yn gwahardd taenellu, onid yw'r gorchymyn i *drochi* yn ei wahardd hefyd? Os yw ystyr *baptizo*, hanesiaeth eglwysig, addefiadau diamwys a gonest Taenellwyr dysgedig, a thystiolaethau eglur a phendant y Beibl, i ymddibynu arnynt, *trochi* neu *suddo* yw bedyddio; a thrwy drochiad y bedyddiai yr apostolion; o ganlyniad, y mae yr hyn a orchymynodd Crist, sef trochi, yn *gwahardd* y peth a elwir yn daenelliad.\* Pe appwyntiasai ein Gwaredwr wlychiad neu *olchiad* heb grybwyll un dull neillduol, byddai gan ein cyfeillion rywbeth tebyg i reswm o'u plaid; ond yn gymmaint ag mai trochiad a ordeiniodd, y mae bedydd yn gwahardd taenelliad mor eglur a phendant, ag yr oedd neillduad Isaac i gael ei offrymu, yn cynnwys gwaharddiad ddwyn Ismael i dir Moriah i'r dyben hwnw (Gen. 22. 1—3). Yn mha le bynag y ceir gorchymyn i *dywallt* neu *daenellu* dwfr neu rywbeth arall ar beth, y mae'r gorchymyn hwnw o angenrheidrwydd yn cynnwys gwaharddiad i *drochi* y peth hwnw yn yr elfen a daenellir neu a dywelltir arno; os felly, onid yw'r gorchymyn i *drochi* person mewn

\* "Os yw Pen yr eglwys yn gorchymyn trochi y mae yn waharddiad i daenellu; ac os yw yn gorchymyn taenellu, y mae yn waharddiad i drochi, oblegid nis gall fod wedi gorchymyn y ddau. Gorchymyn i fedyddio mewn afon, a fuasai yn waharddiad i fedyddio mewn un man arall; gorchymyn i fedyddio yn y boreu a fuasai yn waharddiad i fedyddio yn y prydawn; gorchymyn i fedyddio mewn gwisg wen, a fuasai yn waharddiad i fedyddio mewn gwisg ddu; gorchymynir ni yn bendant i *baptizo*; am hyny, y mae pob dull arall yn waharddedig. Mae cyfraith Lloegr yn gorchymyn i bob priodas gael ei gweinyddu yn y boreu, mewn lle neillduol, o flaen swyddog appwyntiedig, trwy gydnyiad y pleidiau a briodir; ond tybiwch fod rhywun yn gweinyddu priodas yn y prydawn, allan ar y maes, i ddau faban heb eu cydsyniad, ond fod dau gymnyddog yn siarad drostynt, ni ystyrid hono yn briodas gyfreithlon; felly hefyd y gweinyddiad o fedydd heb fod yn unol â chommissiwn Crist, nis gall fod yn gyfreithlon yn ol y Testament Newydd." (*Athrawiaeth Bedydd*, gan y Parch. John Evans.)



dwfr, yn cynnwys gwaharddiad pendant i dywallt neu daenellu yr elfen hono arno? Os yw y gorchymyn, "taenellwch ddwfr ar y plentyn hwn," yn dangos *nad* ewyllys y gorchymynwr yw trochi y plentyn mewn dwfr, onid yw y gorchymyn,—“Ewch, dychwelwch (dysgwch yn ol y cyfieithiad cyffredin) yr holl genedloedd, gan eu trochi hwynt i enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,” yn cynnwys gwaharddiad pendant i dywallt neu daenellu yr elfen fedyddiol arnynt? Os nad yw yr ymresymiad hwn yn eglur ac anwrthwynebadwy, y mae yn anhawdd gwybod pa fath ymresymiad a all fod felly. (c.) Addefir gan bawb yn gyffredin mai gorchymyn pendant ac nid moesol yw bedydd; o ganlyniad, y mae yn gofyn ufydd-dod llythyrenol a manwl. Nid oes i osodiadau pendant unrhyw awdurdod heblaw yr hyn a geir yn ngeiriad y ddeddf neu y sefydliad, a gallasant fod yn wahanol i'r hyn ydynt pe buasai y Deddfroddwr yn ewyllysio hyny. Cynnyrchion *penarglwyddiaeth* ydynt, tra y mae deddfau moesol o *angenrheidrwydd* yr hyn ydynt. Dywed Dr. Halley, mai ysbryd y ddeddf foesol yw cydgordiad y weithred â chyffaddasrwydd pethau, ac mai ysbryd deddf bendant yw cydgordiad yr ufydd-dod neu y parch a delir iddi â'r gwirionedd a arwyddir. Os yw y darluniad hwn o eiddo y Dr. dysgedig yn gywir (nid yw yn angenrheidiol i ni i'w amnheuo na'i dderbyn yn yr ymchwiliad hwn), nid ufyddhau i ddeddf bendant o eiddo *Duw* yr ydym pan yn troi gosodiad dwyfol heibio, ac yn gosod ffrwyth dychymmyg personol yn ei le. Pe buasai Abraham yn esgeuluso enwaedu, ac yn taenellu neu yn trochi yn lle hyny, ar y dybiaeth fod hyny *gystal* os nad *gwell* arwydd o'r cyfammod na'r enwaediad, nis gallasai gweinyddiad y peth hwnw fod yn ufydd-dod i Dduw; ac os nad yw y meddylddrych o *ufydd-dod* yn cael ei gynnwys mewn deddf bendant, nid yw yn hawdd dyfalu beth ydyw y fath ddeddf, nac i ba beth y sefydlwyd hi. Pe buasai Abraham yn newid *man* ac *amser* yr enwaediad, ac heb newid y gosodiad ei hun, nid ydym yn meddwl y ceid Bedyddiwr na Thaenellwr ar wyneb y ddaear, yn barod i gyfiawnhau y fath hyf-dra. Paham? oblegid mai gosodiad pendant ydoedd yr enwaediad, ac fel y cyfryw yn gofyn manylwch llythyrenol. Os na fuasai tad y ffyddloniaid i'w gymmeradwyo am wneyd dau gyfnewidiad bychan mewn deddf bendant, ar ba dir y gellir cyfiawnhau Thaenellwyr, nid am wneyd newidiad

mewn ordinhad bendant, ond yn hytrach am dafu gosodiad dwyfol dros y bwrdd; a sefydlu ac arfer yr hyn a elwir taenelliad babanod yn ei le? Mewn trefn i osgoi yr anhawsdra hwn, dywed Dr. Halley y gall cydgordiad yr arwydd mewn gosodiadau pendant, ac yna ei ddefnyddioldeb, newid gyda newidiadau amser, ond y gellir cadw ysbryd yr ordinhad yn nghanol y newidiadau, wedi i'r llythyren gael ei gwneyd yn anaddas gan amgylchiadau. Cyfeiria'r Dr. at y crybwyllion sydd genym am y phylacterau Iuddewig (Exod 13.9, 16; Num. 15. 38, 39; Math. 23. 5); a barna y byddai y rhai hyny yn cael eu gwisgo yn llythyrenol cyn i gopiau o'r Ysgrhythrau gael eu lluosogi, ac yn flaenorol i ymddangosiad y synagogau, ac na wisgid hwy wedi hyny, oddieithr gan y Phariseaid.

Y sylw cyntaf a gynnigiwn ar y gosodiad hwn ydyw, mai pethau am *dymhor* yw gosodiadau pendant—rhai i fodoli am amser byr mewn cymhariaeth, ac ereill am dymhor maith. Os gwisgid y phylacterau, fel y golyga'r Dr., parhâodd yr arferiad cyhyd ag yr oedd *eisieu* iddi barhau. Yn ail, bodolai y naill a'r llall o honynt hyd nes y cyflawnid dyben eu sefydliad. Nid oedd eisieu edrych ar y sarff bres pan nad oedd brathiadau i'w gwella. Yn drydydd, nid oedd gan neb oddieithr Duw ei hun, hawl i newid y gosodiadau hyn, i'w taflu *overboard*, ac i sefydlu rhai ereill yn eu lle. Yn bedwerydd, nid yw Duw yn arfer symud un gosodiad pendant, a gosod peth arall o'r un natur yn *ei le* i ateb yr un dyben. Chwareu plant fyddai hyny. Ei drefn ydyw, dileu neu symud gosodiadau pendant pan fyddont wedi ateb eu dyben, heb sefydlu dim yn eu lle. Yn bummed, cyhyd ag y byddo sefydliad pendant mewn grym, dysgwylir ufydd-dod llythyrenol a manwl iddo, oddiwrth y personau y byddo a fyno efe â hwy; ac nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a'i hesgeuluso, neu a gynnigio mewn unrhyw fodd i'w newid, neu ei symud. Yn olaf, sefydliad pendant yw bedydd, ac nid yw oes ei ddefnyddioldeb wedi dirwyn i ben; o ganlyniad, gofynir ufydd-dod llythyrenol iddo; ac y mae y rhai a'i galwant yn beth dibwys, ac a osodant i fyny daenelliad babanod yn ei le, yn ymlwybro yn hollol groes i'r "gair a'r dystiolaeth." Pan y mae y Thaenellwyr yn ystyried nodwedd bendant bedydd, teimla llawer o'r dosparth mwyaferaffus o honynt eu hunain ar lawr (ac y mae yn annhosibl iddynt deimlo fel arall), a'r hyn a wnant yn gyffredin yn y cyflwr hwnw



ydych, taeru y dylai y Bedyddwyr olechi traed eu gilydd, mewn trefn i fod yn gys-sou â hwy eu hunain yn nabl pendant-rwydd. Y maent yn deall gystal a ninnau y gellir cyflawnu gorchymyn moesol mewn llawer modd, ac nad oes ond un ffordd i gadw gosodiad pendant; teimlant eu hun-ain mewn cyfyngder na chareu wybod trwy brofiad am dano. Os mai taenellu dwf ar ddynion a orchymynwyd gan Grist, ac a arferwyd gan yr apostolion, y mae'r Bedyddwyr yn euog o fod wedi troi ordin-had ddwyfol heibio, i'r perwyl o wneyd ffordd i'r "ddefod ddynol o drochiad," (?) ac y mae pawb o honant *heb* eu bedyddio, oblegid sefydliad pendant yw bedydd, ac nis gellir talu iddo y warogaeth ymarferol a ofynir, ond trwy y dull pennodol o daen-ellu. O'r ochr arall, os mai trochi a or-deiniwyd gan y Gwaredwr, ac a weinydd-wyd gan ei ddysgyblion, defod babyddol a dychethr i'r Beibl o angenrheidrwydd yw taenelliad, ac y mae'r Taenellwyr wedi rhy-fygu troi yr arch o'r Tabernacl, a gosod Dagon yn ei lle; ac y maent, o ganlyniad, yn hollol ddifedydd, oblegid nid yw y parch a delir i ddefod ddynol yn ufydd-dod i ordinhad bendant, yr hon sydd yn ol ei natur yn hawlio manylwech llythyrenol. Y mae yn amhosibl i'r *ddau* ddosparth fod yn iawn; *rhaid* fod y naill neu y llall o honant wedi gadael "fynnon y dyfroedd byw" yn y mater mewn cwestiwn, ac wedi cloddio "pydew toredig" yn ei lle. Y mae yn amhosibl cael tircanol. Gan i ni brofi tu hwnt i amheuaeth resymol mai trochi oedd yr arferiad apostolaidd, y mae yn canlyn mai gan y Bedyddwyr y mae'r arch, a bod y Taenellwyr yn gwasanaethu Dagon. Dyledswydd ein cyfeillion gan hyny yw cydnabod eu dirywiad yn onest, a dwyn "ffrwythau addas i edifeirwch," trwy gymmeryd eu bedyddio yn ol trefn y Testament Newydd, a gadael taenelliad i'r Pab a'i gardinaliaid. Nid ysgrifenu yr ydym mewn ysgafnder neu gellwair; ond teimlwn yn hollol ddifrifol, ac yr ydym yn foddlon gadael i'r achos sefyll neu syrthio yn mrawdler Beibl a llys cydwybod. Gada-wed y darlennydd i'w gydwybod lefaru.

10. Cymmer amryw arnynt ddadlen fod rhai gwledydd yn rhy oerion i arfer trochi-ad, a bod hyny yn rhoi hawl iddynt i fabwysiadu taenelliad, tra y ceisia ereill ddangos anghyfleusderau mawrion i gael gwin mewn amryw leoedd, ac y dylid defnyddio gwlybyroedd gwahanol yn y swper oblegid hyny mewn rhai amgylch-iadau. Nid ydym ar hyn o bryd yn derbyn

nae yn gwadu y naill na'r llall o'r gosod-iadan hyn; ond gwnawn, er mwyn ym-resymu, dybied eu gwirionedd, a chyn-nygiwn y sylwadau byrion canlynol ar y dybiaeth:—(1.) Yn mha le bynag y mae anallu naturiol i roi ufydd-dod i unrhyw ordinhad bendant, nid yw yr ordinhad hono yn rhwymedig ar ddeiliad neu ddeil-iaid yr anallu hwnw, fel y sylwasom (tud. 56). Sarhad ar synwyr y darlennydd fyddai cynnyg profi y gosodiad hwn, gan ei fod yn hunan-eglur, ac yn cael ei dder-bynt fel y cyfryw gan bob duwinydd ag sydd yn werth sylw. (2.) Os felly, nid yw yn ddyledswydd ar yr analluogion i gynnyg i Dduw unrhyw ddefod *yn lle* yr hon nas gallant ufyddhau iddi. Tra yr oedd plant Israel yn y caethiwed Babilon-aidd, nid oedd gorchymynion pendant goruchwyliath Moses yn rhwymedig ar-nynt fel yn ngwlad yr addewid, ac ni ddarfu i Dduw ddigio wrthynt am beidio ffurfio ac arfer defodau ereill yn eu lle. (3.) Os nad yw trochiad yn arferadwy mewn rhai lleoedd, fel yr haerir, y mae'r holl gyfrifoldeb o hyny yn gorphwys ar ei Sylfaenydd ac nid arnom ni. Gan i ni brofi mai trochiad a sefydlodd Crist, nid yw'r Bedyddwyr o dan un *rhwymau* i gym-meryd sylw o'r wrthddadl hon. Heblaw hyny, nid yw dangos y *pa fodd* perthynol i bob ffaith, yn un o ammodau y gredin-iaeth o honi.

Ond rhag i'n cyfeillion feddwl fod yr wrthddadl hon yn ein dychrynu, ac mai taenelliad yn unig a ellir weinyddu yn mhob man ac o dan bob amgylchiad, yr ydym yn cynnyg y sylwadau canlynol yn mhellach. Er fod yr hin yn oer iawn yn yr hinsawdd ogleddol, sef yn Iceland, Lapland, Greenland, &c., nid yw mor oer i'r trigolion ag yr ydym ni yn barod i feddwl, oblegid y maent hwy wedi eu cyf-addasu i'w hinsawdd. Yn hanes teithiau Capel de Brooke yn Sweden, Norway, a Lapland, ceir y brawddegau canlynol:— "Y mae pobl Sweden yn ofalus iawn am eu dyledswyddau crefyddol; y mae'r eg-lwys yn mhell a gwasgarecig, fel y mae'r bobl yn fynych yn teithio ugain milltir i fod yn bresenol yn eu heglwys; ond nid ydynt yn prisio dim am *bellder y ffordd a gerwinder yr hin*—nis gall dim eu hattal rhag cyflawnu yr hyn sydd yn rhwymedig arnynt." Dywedir hefyd mai peth cyffre-din iawn yw fod meibion a merched yn rhwyfocychod yno, ac yn neidio i'r dwf heb un petrusder pan gyrhaeddir yn agos i'r lân neu yr ymyl. Ymddibyna trigolion y



gwledydd gogleddol lawer am fywioliaeth ar bysgota; ac os ydynt yn gallu pysgota, beth sydd yn rhwystr iddynt gael eu claddu gyda Christ yn y bedydd, os ewyllysiant hyny? (Gwel *Travels, pub. by Cassell*, vol. i., p. 16, 22.)

Y brawddegau canlynol o eiddo Mr. Bell (*Sys. Geo.*, vol. i., p. 155) a hawliant ystyriaeth:—"Y mae nifer fawr o lynoedd yn Iceland, a rhai o honynt yn eang iawn. Y rhai penaf yw Thingvalle Vatu, My Vatu, a Fiske Vatu; nid yw y *My Vatu* byth yn rhewi. Y mae yno hefyd afonydd bychain a mawrion, ac amryw ffynnonau poethion. Y mae bath gerllaw Reckholt, yr hwn a wnaed 600 o flynyddau yn ol, a ffynnon boeth a ffynnon oer yn rhedeg iddo, fel y gellir ei gael i'r gwres a fyrr." Ffolineb, gan hyny, yw haeru nas gellir trochi mewn gwledydd oerion. Nid oes oerach gwlad na Siberia; y mae yno rew ac eira oesol yn y rhanau sydd yn ymylu ar y *North-ern Ocean*. Gan mai y Rwsiaid sydd yn ben yn y wlad hono, crefydd Eglwys Groeg a broffesir gan y trigolion, ac fe wyl pawb mai trochi dair gwaith y mae'r eglwys hono.\* Os gellir trochi babanod

\* Y mae Eglwys Groeg yn ffyrnig yn erbyn taenellu, fel y dengys y brawddegau canlynol o lyfr a gyhoeddwyd gan Fynach Groegaidd yn y flwyddyn 1757, "i argyhoeddi y Pabyddion hereticaidd, ac er lleshad Cristionogion uniawngred."—"Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gair yr Efyngyl a geiriau y Pabyddion, canys y mae'r Efyngyl Santiaidd yn dywedyd *bedyddio*; ond rhaid i'r swynwyr mileinig hyn ddywedyd *rhantizo* (taenellu), am eu bod hwy yn tywallt ac yn taenellu. Hefyd, pa gytundeb sydd rhwng bedyddio, a thywallt a thaenellu? Nid oes dim yn sicr. Nid yw taenellu yn ffrwyth dwyfol, ond y mae o *dddechreniad Pabyddol*; y mae yn *arferiad newydd*, ac yn groes i air yr Efyngyl, a mynegiadau yr apostolion a'r cynghorffeydd.....Nyni a gleddir gydag Ef trwy fedydd. Ti a glywi, O Babydd, os nad wyt yn fyddar, ein bod yn cael ein bedyddio i'w farwolaeth, a'n bod yn cael ein claddu gydag Ef yn y bedydd; ond nid trwy daenellu, fel yr ydych chi y Pabyddion yn gwneyd yn awr yn annuwiol.....Yr wyf yn meddwl fod tystiolaeth y Tad dwyfol (Gregory Nyssen) yn ddigon, nad yw y rhai hyny nad yw yn gwneyd bedydd yn ddelf o farwolaeth Crist, *wedi eu bedyddio o gwbl*. Ni ddynoda y gair *bedydd* unrhyw beth heblaw trochi. Aeth Crist i lawr i'r dwfr, a daeth i fyny; ond nid yw y Pabydd yn myned i lawr i'r dwfr; pa fodd, yn wir, ynte, y ceisia efe ddyfod i fyny? Ac yn wir, pe buasent yn addolwyr y Drindod, ac nid fel Satan, ni feiddiasent gymmeryd ymaith un iod oddiwrth sacrament y bedydd dwyfol.....Ond pa beth y mae taenellu yn arwyddo? Tybiwyf ei fod yn arwyddo y tân a losgodd Sodom, canys bydd i daenelluad yn yr un modd, ddifa y rhai sydd yn ei ddysgu a'i aunddiffyn." (Gwel *Bap. Mag.* 1842, p. 473.) Nid ydym yn dal ein hunain yn gyfrifol

yn y gwledydd oerion, ynfyrwydd yw haeru nas gellir trochi *dynion mewn oed* ynddynt.

Dywedir hefyd fod dwfr yn rhy brin i drochi mewn gwledydd poethion, yr hyn sydd gwbl mor ddisail a thaeru nas gellir ufyddhau i'r gorchymyn yn yr hinsawdd ogleddol. Yn hanes teithiau Denham a Clapperton yn Affrica, lle mae y dwfr brinaf, ceir y geiriau canlynol:—"Y mae llawer yn dweyd nad oes fawr glanweithdra yn perthyn i'r Arabiaid yn Affrica; ond yr wyf yn sicr eu bod yn fwy syber yn eu personau na'r isel radd yn Ewrop. Y mae'r *golchiadau lluosog* ag y mae eu crefydd yn ofyn, yn eu tywys i lanweithdra" (*Cassell's Footprints, &c.*, vol. v., p. 41). Dylid ystyried mai Mahometaniaid sydd yn preswyllo yn y gwledydd yn y rhai y mae dwfr brinaf, a'u bod hwy, yn ol gorchymyn Mahomet, yn ymdrochi yn fynych (*Koran*, pen. v). "Pan eloch i weddio," ebe'r gau brophwyd, "rhaid i chwi ymbarotoi—golchewch eich gwynebau a'ch dwylaw; ac os byddwch wedi ymhalogi, rhaid i chwi olchi eich cyrff oll." Ysgrifena Mr. Sale, cyfieithydd y *Koran*, fel y canlyn:—"Y mae dau fath o buredigaethau yn mhlith y Mahometaniaid, un yw y *trochiad trwyadl*, a'r un arall yw golchi y gwyneb a'r dwylaw yn ol dull neillduol" (*Prelim. Dis.*, p. 138). Gorfodir yr holl fenywod Mahometanaidd i ymdrochi unwaith bob mis. Gan fod canlynwyr y gau brophwyd yn gallu ymdrochi cymmaint, nid heb lawer o anystyriaeth neu haerllugrwydd yr haerir nas gellir bedyddio credinwyr yn Affrica trwy eu claddu mewn dyfroedd. Wedi dwyn y profion hyn yn mlaen (gallesid dwyn llawer yn ychwaneg) yr ydym yn y modd mwyaf penderfynol a diofn yn dweyd, nad oes gwlad drigianadwy ar wyneb y ddaear, nas gellir suddo credinwyr ynddi yn ol y drefn apostolaidd.

am eirwirdeb y dyfyniad hwn. Yr ydym yn ei ddyfynu yn benaf er mwyn y rhai sydd naill ai yn ddigon anwybodus neu yn ddigon dibareh i'r gwirionedd i haeru fod "yr holl enwadau ereill (ond y Bedyddwyr) yn barnu mai y dull Ysgrhythol o fedyddio yw taenellu neu dywallt." Gresyn meddwl fod rhai yn ddigon drygionus i wneyd haeriadau heb un *rhith* o sail iddynt, i'r perwyl o gadw anwybodusion mewn anwybodaeth. Dangoswyd hefyd mai unig ddull *awdurdodedig* Eglwys Loegr heddyw yw trochi, ac mai peth *goddefol* yn unig yw taenellu. Y Bedyddwyr, gan hyny, yw yr unig ddosparth *loyal* yn y deyrnas yn ol y *Common Prayer*. Yn ol yr ysgrifenydd blaenorol, a llawer creill, y mae taenelluad yn ddyledus am ei fodoliaeth ar y cyntaf i'r Pab o Rufain.



Dywedir mai peth peryglus yw trochi dynion mewn afechyd, ac yn ymyl y bedd. Gan mai pethau perthynol i ddynion mewn iechyd yw y bedydd a'r swper, nid oes eisieu bedyddio cleifion, na thaenellu dwfr arnynt chwaith (pe byddai taenelliad yn fedydd) ar derfynau eilfyd. Y mae llawer wedi twyllo eu cydgreaduriaid, a miloedd wedi cael eu twyllo trwy ryw seremoniau crefyddol yn amser cystudd ac angeu. "Na thwyller chwi, ni watworir Duw, beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." Nid yw y Testament Newydd yn ein hysbysu ddarfod i'r Apostolion fedyddio rhai oeddynt yn rhy glaf i dderbyn y fraint. (Gwel *Sylwadau rhagorol y Parch. T. Lewis, Rhymney, ar ddwy bregeth y Parch. E. Hughes, Penmain.*\*)

Wele ni bellach wedi ysgrifenu yr hyn a fwriedid ar y dull o fedyddio—wedi dangos yn y modd mwyaf eglur mai trwy drochiad yn unig y mae'r ordinhad i gael ei gweinyddu—wedi dynoethi gwendid y prif wrthddadleuon a ddefnyddir gan ein gwrthwynebwyr, a hyny yn y fath fodd ag i adael y rhai a barhant yn ystyfnig yn hollol ddiesgus am eu hanufydd-dod. Os yw ystyr *baptizo*, tystiolaeth ddiamwys y Testament Newydd, ac addefsiadau gonest lluoedd o Daenellwyr dysgedig o berthynas i'r dull apostolaidd o fedyddio, yn hawlio trediniaeth; os nad oes genym ninnau hawl i newid gosodiadau Pen yr Eglwys, ac os mai gair Duw yn annibynol

\* Dywed Dr. Halley, ac ereill, nad yw y gweinyddwr yn trochi y rhai a fedyddia, oblegid fod yr ymgeiswyr yn trochi eu hunain mewn rhan wrth gerdded i'r dwfr!!! Y mae'r fath wrthddadl blentynaidd yn deilwng o rywrai, ac o'r ddefod y ceisir ei hamddiffyn wrth ei defnyddio, ond yn hollol annheilwng o'r Dr. dysgedig. Dywed ef y byddai yr Iuddewon yn trochi proselytiaid, ac ni ddefnyddia yr ymresymiad rhyfedd hwn yn erbyn y gweinyddiad; ond rhaid cofio yr hen arwyddwrs—"Circumstances alter cases." Pe dywedem ninnau fod y Taenellwr yn arfer dau ddull wrth weinyddu yr hyn a eilw yn fedydd; sef *trochiad a thaenelliad* (trochi ei fysedd a thaenellu y dwfr), byddai ein hymresymiad can gadarned, os nad yn gadarnach, nag eiddo ein cyfeillion; ond nid oes arnom ni eisieu y fath ddull isel. Cyfeiria Polybius (tud. 16—17 o'r gwaith hwn) at drochi llongau, rhanau o ba rai oeddynt o angenrheidrwydd yn drochedig yn barod. Yr oedd y bachgen Aristobulus, yr hwn a drochwyd nes ei fogi mewn *swimming bath* ar gais Herod, i fwy o raddau yn drochedig na'r rhai a fedyddir genym ni, cyn cael ei drochi yn farwol (gwel tud. 17); er hyny, dywed Josephus (*Jewish Antiquities*, book xv. ch. 3) ddarfod iddynt ei drochi *pan* yr oedd yn nofio. Gellid cael ugeiniau o enghreifftiau cyffelyb. Y mae'r wrthddadl silloregaidd hon yn dangos gwendid aches y rhai a'i defnyddiant.

ar draddodiadau ac hanesiaeth yw rheol Protestaniaid, yr ydym yn gofyn yn ddifrifol i'n cyfeillion, ai nid tir y Bedyddwyr yw y tir diogelaf? Sut y mae cael cydwybod dawel ar unrhyw dir arall? Os nad oedd gan Abraham awdurdod i newid amser a man yr enwaediad, neu hawl i osod defod o'i ddyfais ei hun yn ei le, ai nid rhesymol yw barnu nad yw yn bosibl newid bedydd yn ei ddull na'i ddeiliaid, heb droseddu yn erbyn yr awdurdod Ddwyfol? Cofier addefsiad Calvin, sef, ddarfod i'r "*Eglwys ganiatai iddi ei hun ryddid i gyfnewid yr ordinhad ychydig, ond nid y sylwedd.*"

### DEILIAID BEDYDD.

Mewn trefn i fod yn fyr, mor ddealladwy, ac mor gynnwysfawr ag y gellir mewn terfynau mor gyfyng, gosodwn i lawr rai gosodiadau hunan-eglur, y rhai a gydnabyddir gan Brotestaniaid yn gyffredin, a daliwn y pwne yn ei wahanol agweddau gyferbyn â'r canonau neu yr arwireddau hyny.

I. GAN MAI Y TESTAMENT NEWYDD YW RHEOL EIN CREFYDD, Y MAE POB SEFYDLIAD PENDANT O DAN YR EFENGYL I GAEL EI BROFI WRTHO, FEL NAS GALL UNRHYW GYFLAWNIAD CREFYDDOL PENDANT O'N HEIDDO FOD YN YSGRYTHYROL, OS NA FYDD GORCHYMYN AM DANO, NA SIAMPL EGLUR O HONO YN LLYFR EIN HARGLWYD.\* Y Beibl a thraddodiad yw arwyddair y Pabyddion, ond y

\* "Wel, ynte, sylwch mai yr egwyddor ar yr hon yr awn yn mlaen ydyw, nad ydym i apelio ond yn unig at air Duw; rhaid i bob Protestant gonest a ehalon ddidwyll gyduno â ni yn yr egwyddor hon; y mae yn egwyddor iddo ef yn gystal ag i ninnau, a dyma'r unig egwyddor a'i gwareda oddiwrth holl gyfeiliornadau ac ofergaelion Pabyddiaeth. Felly, trwy gymmeryd y pwne i lys gair Duw yn unig, nid ydyw o fawr pwys i ni pa beth a ddywedir gan y cyfryw-a'r-cyfryw gynghor—gan y cyfryw-a'r-cyfryw eglwys, neu gan y cyfryw-a'r-cyfryw Dad Parchedig. Gwneir y pwne yn llawer mwy syml gan yr ystyriaeth ein bod yn bwriadu ei drin wrth air Duw, ac wrth air Duw yn unig. Dywedaf wrth bob Protestant sydd yn bresenol, ei fod ef yn rhwym o dderbyn yr egwyddor hon, a gweithredu arni. Os dechreu efe gyfeirio at dadau ac eglwysi, a chynghorfeydd, bydded iddo gymmeryd gofal, gall fod yn benderfynol na fydd efe, ar y fath egwyddor, yn alluog i sefyll am foment. Os meddylia efe ein gorchfygu ni âg arfau o'r fath yna, gwybydded y bydd iddo yn fuan iawn gael ei orchfygu gan ei arfau ei hunan..... Y mae yr egwyddor hon, ynte, yn egwyddor a dderbynir gan bob Protestant, oddi-gerth gan y rhai sydd yn y dyddiau hyn yn dechreu ardystio yn erbyn yr Ysgrythyr ei hunan; ond pob Protestant iach ei galon, a didwyll ei



Beibl yn unig yw arwyddwrs Protestaniaid. Pe byddai genym hanes *ysbrydoledig* am fedyddio babanod neu daenellu dwfr arnynt hyd y nod yn yr oes apostolaidd, ni wnelai hyny yr arferiad yn Feiblaidd, os nad oes gorchymyn am dani, na siampl eglur o honi yn y Testament Newydd. Nid y Beibl ac hanesiaeth yw y rheol Brotestanaidd, eithr y Beibl ar ei ben ei hun, neu y rhan hono o'r gyfrol Ddwyl ag sydd yn fwyaf neillduol yn gyfraith i Gristionogion o dan yr Efyngyl.\*

1. Yn ol yr egwyddor hon, nis gellir sylfaenu ordinhad bendant ar *ddystawrwydd* y Beibl, nac ar *gasgliadau* a dynir oddiwrth hanesion a chrybwyllion Beiblaidd. Mai *casglu* fod dwfr i gael ei daenellu ar fabanod y mae ein cyfeillion sydd amlwg wrth y dyfyniadau canlynol o'u hysgrifau ar fedydd:—Dywedir nad oes genym "orchymyn pendant neu siampl eglur, yn awdurdodi newidiad y Sabbath," ac nas "gellir profi cyssondeb y newidiad heb lawer o ymresymu a thynu casgliadau; *cyffelyb i'r drefn a ddefnyddir i brofi hawliion babanod i fedydd*. Os felly, dymunwn wybod beth yw yr achos fod *diffyg gorchymyn pendant a siampl eglur* yn dirymu rhesymau y Taenellwyr, pan nad yw yn cyffwrdd â rhesymau y Bedyddwyr?"† Etto, "Os ydyw cymhwysder i eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd yn brawf digonol y gallant (gwragedd) gyfranogi o'r swper, a hyny heb na gorchymyn na siampl, rhaid felly fod cymhwysder i fedydd yn hawl ddigonol i'r ordinhad hono, *er yn amddifad o orchymyn a siampl*..... Dengys hyn fod y Bedyddwyr, wrth ddadleu o blaid cymmundeby gwragedd, yn gorfod taflu eu hen resymeg i'r gwynt, ac yn dyfod megys un o honom ni, i benderfynu trwy *gasgliadau*, hawliau ac addasrwydd gwragedd i ordinhad bendant, sef y swper santaidd. Yn awr gellid gofyn, os oes rhyddid iddynt hwy, trwy ymresymu, i *gasglu* a phenderfynu pwy ydynt

feddwl, a gyduna â ni i ddywedyd mai gair Duw yw yr unig frawdle y gallwn fyned iddi" (*Pregeth y Parch H. S. Brown*, wedi ei chyfieithu gan Lleurwg).

\* Dealler ein bod yn gwerthfawrogi yr Hen Destament fel gair Duw; ond yn y *Newydd* y mae rheolau crefydd i Gristionogion, fel yr oedd yr Hen yn cynnwys rheolau i'r Iuddewon. Dealler fod gwahaniseth mawr rhwng athrawiaeth a rheol. Gwel *Athrawiaeth Bedydd*, gan y Parch. J. Evans, tud. 18, 19, lle ceir sylwadau campus ar y pwnc hwn.

† "*Bedydd Babanod*," gan y Parch. Richard Prichard, ail argraffiad, tud. 82-3.

ddeiliaid addas un ordinhad, paham y gwrthodir i ninnau gymmeryd yr un rhyddid o berthynas i ddeiliaid yr ordinhad arall?" (tud. 85-6).<sup>\*</sup> Ar tud. 25 cawn y geiriau canlynol:—"Yn awr, gan mai yr un yw eglwys Dduw yn mhob oes o'r byd, a chan fod babanod yr Iuddewon yn perthyn i gommissiwn yr Hen Destament, y mae yn eithaf teg i ni *gasglu* (casglu o hyd) fod babanod y cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon, yn perthyn i gommissiwn y Testament Newydd." Yn mhellach:—"Onid y *casgliad* naturiol a thêg oddiwrth hyn ydyw, fod plant y Cristionogion cyntaf wedi eu bedyddio oll yr un amser a'u rhieni, a'u cydgorffoli yr un adeg yn aelodau o eglwys y Testament Newydd" (tud. 68). Gan nad oes gorchymyn nac esiampl, beth a wneir ond casglu neu fod heb ddim. Ceisia yr awdwr hwn *gasglu* fod sail i daenelliad babanod yn yr enwaediad, y gommissiwn, a manau ereill; ond wedi'r holl drafferthu a'r chwysu, dengys y dyfyniadau blaenorol na chafodd na gorchymyn pendant i daenellu dwfr ar y rhai bychain, na siampl eglur o'r arferiad yn yr holl Feibl. Tâl tlawd am lafur mor fawr. Gan fod y Beibl yn ddystaw ar y pwnc, ceisia Mr. Prichard, fel llawer ereill, wneyd y goreu o'r gwaethaf yn y drefn ganlynol:—"Gan fod bedydd wedi cymmeryd lle yr enwaediad," eb efe, "yr oedd bedyddio babanod yn ganlyniad mor naturiol, fel nad oedd yn galw am un sylw arno. Gwrthddadleuaeth yn erbyn peth a throsto, sydd yn ei wneuthur yn destun sylwadau ac ysgrifenu; a chan nad oedd neb yn gwadu bedydd babanod yn yr oes apostolaidd, nid yw yn rhyfedd fod y Beibl mor ddystaw yn ei gylch" (tud. 86). (a) Gan nad oes na gorchymyn am dano na siampl o hono yn y Beibl, fel y mae'r awdwr yn gorfod *casglu* ei fodoliaeth neu fod hebddo, sut y gellir bod mor benderfynol o barthed iddo? Yr ydym yn credu nad oedd yn cael ei ammheu yn yr oes apostolaidd, oblegid nas gellir ammheu peth nad yw yn bodoli. (b) Os mai adnabyddiaeth gyffredinol dynion â bedydd babanod oedd y rheswm neu yr achos na wnaed sylw o hono gan yr ysgrifenywyr ysbrydoledig, paham na fuasent yn ddystaw o barthed bedydd dynion mewn oed hefyd o herwydd yr un peth? Cytuna Taenellwyr a ninnau fod hwn yn ddigon adnabyddus; o ganlyniad, yn ol yr ymresymiad a ddy-

<sup>\*</sup> Caiff "cymmundeby gwragedd" sylw yn adran y gwrthddadleuon.



noethwn, dylasai yr efengylwyr ac ereill beidio cyfeirio ato o gwbl!!! (c) Yn ôl yr olygddydg ryfedd hon, nid oes gorchymyn nac hanes yn y Beibl, na chyfeiriad at unrhyw ddygwyddiad neu ffaith, heb fod y cyfryw yn destun *gwrthddadleuath* ar y pryd!! Gallai y Mormoniaid gymmeryd yr untir, a dweyd mai adnabyddiaeth y cyn-Gristionogion ag anlwreigiaeth, a'r ffaith(?) nad oedd neb yn amheus y pwnc, a achos-odd ddystawrwydd y Testament Newydd o barthed iddo. Os caniatëir i ddynion gasglu fel hyn, yr Hollwybodol yn unig a wŷr i ba le yr ânt. "Oni raid fod ein brodyr gwrthwynebol mewn cyfyngder mawr am atgigion i gynnal i fyny eu cyfundrefn, cyn yr ymostyngent i ddefnyddio y fath wrthddadleuon ffol a hyn, y rhai nad ydynt amgen nâ dywedyd rhywbeth er mwyn dâl gafael mewn pwnc."\*

\* Dywed un o weinidogion y Methodistiaid "nad oes eisieu un gorchymyn arall yn ychwanegol at y gorchymyn a roes Duw i'w Eglwys gynt yn nghylch yr enwaediad." Os "nad oes eisieu un gorchymyn arall" am fedydd "ond y gorchymyn a roes Duw yn nghylch yr enwaediad," ebe y Parch. H. W. Hughes, "nid oes eisieu y *commission*; ac yn wir y mae yn amheus a oes eisieu yr *efengyl* ei hun! Llefara, *Rescue!* gwaedda, *Gydwylbod!* Os amgen, rhoddwch le i leferydd yr Ysgrhythyr:—'Enwaediad nid yw ddim' (1 Cor. 7. 19). "Yn Nghrist Iesu ni all enwaediad ddim" (Gal. 5. 6). "Os enwaedir chwi, ni lesâ Crist ddim i chwi," &c. &c. Os "y gorchymyn a roes Duw i'w eglwys gynt yn nghylch enwaediad," yw sail bedydd babanod, cyfraith yr enwaediad wrth gwrs yw rheol ei weinyddiad. A oes gan Mr. D. ryweth yn erbyn hynyn? Nac oes, wrth gwrs. Pe buasai Nicodemus byw yn awr, galleid arbed iddo y drafferth o'i "*eni drachefn*," gwnaethai ei enwaediad y tro yr un eystal, a phaham yn amgen, tra y dywed Mr. D. nad oes eisieu yr un gorchymyn ond hwnw; ac nid ei fai ef, eithr yr eiddo ei rieni, yw yr achos na buasai yntau wedi ei enwaedu yn lle ei daenellu â dwfr, trwy yr hyn, er hyny, ni wnaed mo hono, mewn un dim yn llai luddewaidd. (Dyfnyddig o'r "*Ymddiffynydd*," gan y Parch. H. W. Hughes, Dinas) "Ond Mr. A. a R. P. a ymdrechant ein darbwyllo, nad oedd gorchymyn nac esiampl yn angenrheidiol; ac y gellir amddiffyn ac arferyd bedydd babanod hebddynt (Gwel lyfr Aubrey, tud. 67-81; R. P. 85). Dywed Mr. A. 'nad oes angen am orchymyn pendant,' &c., oblegid 'pe na buasai ein Harglwydd yn ewyllysio i'w ddysgybllion fedyddio babanod, y buasai yn rhoddi *gwaharddiad* pendant iddynt pan yn sefydlu yr ordinarh." Dywed R. P. 'nad yw dystawrwydd yr Ysgrhythyr o bertynnas i fedydd babanod, ond rhoddi *nerth* a grym yn yr arferiad!! Yn ôl y cyntaf, beth bynag nad yw ein Harglwydd wedi ei wahardd, y mae yn ei ewyllysio!! Yn ôl yr ail, po ddystawaf y byddo'r Beibl am arferiad, mwyaf i gyd yw ei nerth a'i rym!! Dyma y ddyseidiaeth a ddysgir gan ddau o weinidogion y Wesleyaid yn Nghymru yr oes hon! Onid yw yn syndod fod dau wein-

Cyhuddir, y Bedyddwyr o fod yn cyfeiliorni oddiwrth air Duw (tud. 90) er hyny; ond os nad oes gorchymyn nac esiampl Feiblaidd yn cyfiawnhau taenelliad babanod, y mae yn anhawdd gwybod sut yr ydym yn cyfeiliorni oddiwrth air Duw yn ein gwaith yn ei wrthwynebu. Er mor hyderus yr ymddangosir gyda'r cyhuddiad pwysig hwn yn erbyn y Bedyddwyr, etto, pan gydir ynddo, y mae fel afalau Sodoma, yn myned yn llwch rhwng ein bysedd. Y fath wagedd, ynte, yw amgylchu môr a mynydd i'n cyhuddo o gyfeiliorniad oddiwrth beth nad oes gorchymyn nac esiampl ysgrythyrol drosto. "Onid yw tir fel hyn yn dir peryglus iawn i'w gerdded, a'r rhai a'i tramwyant oddiar sêl bartiol, i dosturio yn fawr wrthynt?"

Y mae dysgedigion penaf a duwinyddion goreu y Taenellwyr yn gyfiredin yn addef, nad oes ganddynt orchymyn nac esiampl eglur o blaid y ddefod a gondemniwn. Dyfynwn nifer fechan o enghreifftiau o tgeiniau lawer a ellid gael. Dywed Dr. Wall fel hyn ar y tudalen gyntaf o'i Ragymadrodd i'w "*History of Infant Baptism*:"—"O'r holl bersonau a goflyrwyd fel wedi eu bedyddio gan yr apostolion, ni sonir yn neillduol am un baban." Pan y mae Neander, yr hwn yn ddiau yw hanesydd blaenaf y ganrif hon, yn cyfeirio at y "rhan olaf o'r oes apostolaidd," dywed fel y canlyn:—"Fel yr oedd bedydd yn dâl cyssylltiad cydwylbodol âg ymarferiad o gymmunde Cristionogol, yr oedd ffydd a bedydd bob amser yn gysylltiedig â'u gilydd; ac fel hyn, y mae i'r gradd eithaf yn debygol, na weinyddid bedydd ond lle gallai y ddau gyd-gyfarfod, ac na wyddid am fedydd babanod yr amser hwnw. Nis gallwn gasglu bodoliaeth bedydd babanod oddiwrth hanes bedyddiad teuluocdd cyfain, am fod 1 Cor. 16. 15, yn dangos twyll y fath gasgliad, oblegid ymddengys oddiwrth yr adnod hon fod holl deulu Stephanas, y rhai a fedyddiasai Paul, yn gynnwysedig o rai mewn oed" (*Planting and Training of the Church*, pp. 101, 102). Yn Nhraethawd y Proffeswr Stuart ar Fedydd (tud.

idog, y rhai a broffesant ysgrifenu dros *ysgrythyroldeb* taenelliad babanod, un yn dadleu nad oedd *gorchymyn* pendant yn angenrheidiol idd ei arferyd; ac ar yr un pryd yn haeru fod *gwaharddiad* pendant yn ofynol i'w *wrthod*; a'r llall yn dadleu mai *dystawrwydd* yr Ysgrhythyr sydd yn rhoddi grym a nerth yn yr arferiad!!!! (*Athrawiaeth Bedydd*, gan y Parch. John Evans, tud. 48.)



101), ceir y frawddeg ganlynol:—"Gorchymynion neu siamplau eglur yn y Testament Newydd mewn perthynas iddo (bedydd babanod) nid wyf yn eu cael, a chyda'm golygiadau i arno, nid oes arnaf eu heisiau." Dr. Woods, yr hwn a fu yn gydswyddog â'r Proffeswr Stuart am dymhor hir yn Athrofa Andover, a sylwa fel y canlyn yn ei "*Lectures on Infant Baptism*," (p. 11):—"Y mae yn eglur nad oes gorchymyn pendant am fedyddio babanod yn yr Ysgrifeniadau Santaidd; yna rhaid gwneyd y prawf allan mewn rhyw ffordd arall, fod bedydd babanod yn sefydliad dwyfol." Dr. Mac Niele, wrth derfynu cwrs o ddarlithoedd ar lyfr yr Actau, a ddywedai:—"Wel, dyma fi wedi myned trwy holl lyfr Actau yr Apostolion, heb gymmaint a gair o sôn am fedydd babanod:" ond i'r perwyl o wneyd y goreu o'r gwaethaf ychwanegai: "Pe buasai ysbrydoliaeth yn parhau ychydig yn *hwy*, diau y buasai wedi ei gofnodi." Barned y darlennydd pa faint o gysur a allasai ei wrandawwyr gael oddiwrth y frawddeg olaf. Mewn cyhoeddiad taenellyddol o fri mawr, sef y "*North British Review*," y mae'r geiriau canlynol i'w gwled, Awst 1862:—"Ni ŵyr yr Ysgrhythrau ddim am fedydd babanod. Nid oes yn ddiammheu gymmaint a brisg (*trace*) o hono i'w gael yn y Testament Newydd. Y mae ymadroddion a ellir eu cymmodi âg ef, pe gellid ond profi fod yr arferiad wedi bodoli; ond nid oes yr un gair ag sydd yn profi ei bodoliaeth. Iâ, rhagor, gellir dywedyd fod 1 Cor. 7. 14, yn annghydweiddol â'r dybiaeth fod bedydd babanod yn cael ei arfer y pryd hwnw yn Corinth. Y mae yn hollol anhebgorol i rym yr ymresymiad hwn o eiddo Paul i santeiddrwydd y plant ddeilliaw yn unig oddiwrth santeiddrwydd y briodas; canys ni allasai santeiddrwydd y plant fod yn un prawf o santeiddrwydd y briodas ar unrhyw dybiaeth arall. Pe buasai y plant wedi eu bedyddio, buasent yn santaidd yn eu hawl bersonol fel aelodau o Grist; a gallasai tad yr hwn y buasai ei blant wedieu bedyddio, ddadymchwelyd yn llwyr ymresymiad yr apostol, trwy ateb nad oedd santeiddrwydd ei blant ef fel aelodau eglwysig yn un rheswm dros iddo ef ystyried ei briodas yn santaidd, nac yn erbyn iddo roddi ei wraig annghrediniol ymaith." Sylwa yr un ysgrifenydd campus yn mhellach fel y canlyn:—"Y mae hanesiaeth yn cyfiawnhau y casgliad a dynir oddiwrth y gyfrol santaidd. Ni ellir olrhain bedydd babanod yn uwch na chanol yr ail ganrif,

ac nid oedd yn gyffredinol hyd y nod y pryd hwnw. Rhai yn wir a ymresymasant ei fod yn dæg, yn nystawrwydd y Beibl, i gasglu fod arferiad ag oedd yn bodoli yn yr ail ganrif wedi disgyn oddiwrth yr apostolion; ond y mae y tebyg-olrwydd yn hollol o'r ochr arall. Gosodir bedydd allan yn y Testament Newydd fel y ddefod trwy ba un yr oedd y dychwel-edigion yn cael eu cydgorffori â'r gymdeithas Gristionogol; y mae baich y prawf yn gorwedd yn hollol ar y rhai a haerant ei fod yn gymhwysiadol at rai y mae eu meddyliau yn analluog o unrhyw weithred ymwbyddol o flydd." Dywed esgob Burnet, "nad oes un gorchymyn eglur, na rheol wedi ei rhoddi yn y Testament Newydd dros fedyddio babanod." "Nid oes dim yn ngeiriau ysefydliad" (medd Mr. Palmer o Hackney, Annibynwr enwog), "nac ychwaith yn hanes gweinyddiad yr ordinhad ar ol hyny, mewn perthynas i fedydd babanod. Nid oes gorchymyn dros, nac esiampl o hyn, trwy yr oll o'r Testament Newydd." "Cyn y gallo un gael olion bedydd babanod yn y Testament Newydd," ebe Schliermacher, "rhaid eu rhoddi ynddo yn gyntaf." Dywed Lauge fod "pob cynnyg i gael bedydd babanod yn y Testament Newydd, wedi troi yn fethiant." (Gwel *Testimonies of Eminent Paedobaptists*, pp. 50, 51, 52.) Luther a dystia yn y modd mwyaf diamwys a phendant, "Nas gellir profi trwy yr Ysgrhythrau Santaidd, fod bedydd babanod wedi ei osod gan Grist, na'i ddechreu gan y Cristionogion cyntaf ar ol yr apostolion." Yn ol Dr. Lewis, "Y mae pawb yn cyfaddef nad oes genym yn y Beibl un siampl eglur o fedydd babanod, na gorchymyn pendant i'w bedyddio." Mewn beirniadaeth ar yr addefiad gonest hwn o eiddo Dr. Lewis, sylwa un fel y canlyn:—"Os nad oes genym siampl eglur, na gorchymyn pendant, rhaid nad oes genym orchymyn nac esiampl o fath yn y byd. Oblegid os oes genym orchymyn, rhaid ei fod yn *bendant*; ac os oes genym siampl, rhaid ei bod yn *eglwysig*."

Dyma addefiadau pwysig yn cael eu gwneuthur gan ddynion, ag y mae enwogrwydd rhai o honynt yn cydreded â Christionogaeth. Pe buasai brawddeg neu sill dros fedydd babanod yn y Beibl, ni fuasai yr enwogion uchod yn dweyd fod yr Ysgrhythyr yn hollol ddystaw ar y pwnc. Yn awr, os na ategir y ddefod gan y Testament Newydd, oni ddylai pawb ei rhoddi i fyny? Os yw bedydd, fel yr haera cyffes



Westminster, "yn sacrament y Testament Newydd, wedi ei ordeinio gan Iesu Grist," y mae yn eglur mai i'r Testament Newydd y dylem fyned i edrych pwy ydynt ei iawn ddeiliaid. Os ordeiniwyd yr ordinhad gan y Gwarddwr, dylem adael iddo ef benderfynu pwy sydd i gael eu bedyddio, ac nid myned â'r pwnc i gael ei benderfynu gan Abraham na Moses. Ond am fod y Taenellwyr yn analluog i brofi bedydd babanod o'r Testament Newydd, ânt i'r Hen (rai o'honynt), ac ymdrechant ei gynnal i fyny â rhesymau, perthynas, neu gasgliad. A fabwysiadwyd y fath gynllun erioed o'r blaen i geisio profi ordinhad ddwyfol? Gofynir i'r Iuddew paham yr oedd ei dadau yn cadw y gwylliau Iuddewig, gŵyl y Pasg, y Pebyll, &c., ac ete a ddywed, am fod Duw wedi gorchymyn iddynt wneuthur felly. Gofynir i'r Cristion paham y dylai credinwyr gael eu bedyddio, a chyfranogi o swper yr Arglwydd? a'i ateb fydd, fod Iesu wedi gorchymyn y pethau hyny, a bod genym siamplau eglur o'honynt yn y Testament Newydd. Ond gofynir i Daenellwyr paham y dylid bedyddio babanod? a neidia rhai o'honynt yn ol at yr enwaediad, unrhywiaeth y ddwy eglwys (er yr haerant yn y modd mwyaf eöfn fod bedydd wedi dod yn lle yr enwaediad), y cyfammodau, bedydd y Môr Coch, &c.; caniatu ereill mai chwilio am y byw yn mys y meirwon y mae'r cyfeillion a wnant hyny, ac ânt hwy rhagddynt i guro wrth borth y commissiwn ac wrth ddrws Lydia a'i babanod? \* Onid

\* "Os gofynir i Noe paham yr oedd yn adeiladu arch o goed Gopher, yn dri chan cufydd ei hŷd, yn ddeg cufydd a deugain ei lled, ac yn ddeg cufydd ar hugain ei uchder? &c., gall ateb, am mai felly y gorchymynasai Duw (Gen. 6. 22). Gofynir i Abraham paham yn gadael ei wlad? paham yn cymmyrd yr enwaediad? paham yn offrymu Isaac? ateb, am fod Duw wedi gorchymyn. Yr un modd deddf y Pasg—paham oen? paham oen blwydd? paham oen perffaiht? paham ei ddal y degfed dydd? paham ei gadw hyd y pedwerydd dydd ar ddeg? paham ei ladd yn y cyfnos? paham ei fwyta gyda dail surion: yr unig ateb ellir roddi, mai dyma oedd cyfraith Duw. Felly y dylem ninnau wrth weinyddu ordinhadau y Testament Newydd, fod bob amser yn alluog iddywedyd, "Fel hyn y gorchymynodd yr Arglwydd" (*Athrawiaeth Bedydd*, gan y Parch. John Evans, tud. 13).

Etto: "Taenellwyr babanod ni safant at un reol; wedi eu gyru o'r Testament Newydd, ânt i'r Hen; wedi i chi eu gyru o'r Hen, ânt i'r Talmud; wedi eu gyru o'r Talmud, ânt i esbonio cyfreithiau natur..... I ddeall sefydliad yr ordinhad o fedydd, ânt at Maimonides; i ddeall pwy yw deiliaid yr ordinhad, ânt at Abraham a'r

yw hwn yn ddull dyeithr i brofi y dylai y rhai bychain gael eu bedyddio? Pe byddai gorchymyn, nis gallai dadl fodoli am eiliad. Nid yw y Taenellwyr na ninnau yn dadlew y dylai credinwyr gael eu bedyddio, oblegid y mae gorchymyn Crist, a'r siamplau eglur sydd yn Llyfr ein crefydd, yn gwneuthur hyny yn hollol afreidiol; ond beth, attolwg, yw y rheswm dros wneyd bedydd babanod yn eithriad? Os oes gorchymyn, yn mha le y mae? Os oes siampl, dangoser hi? Os nad oes gorchymyn nac esiampl, paham y taenellir dwfr ar y rhai bychain, ac y gelwir y seremoni yn ordinhad ysgrythyrol? Nid yn unig byddai yn well i'n cyfeillion gymmyrd yr un tir a'r Pabyddion (sef addef awdurdod traddodiad fel rheol ffydd), ond y mae rhaid iddynt wneyd hyny; nid oes ganddynt un dewisiad o gwbl yn y pwnc.

Gan nad oes gorchymyn nac esiampl Destamentaidd o blaid eu defod, fel yr addefant eu hunain, y mae yn anmhosibl iddynt ymladd â'r Pabyddion, fel yr awgrymwyd yn barod.\*

enwaediad; i ddeall dull yr ordinhad, ânt at addewedion y prophwydi; ac i ddeall dyben yr ordinhad, ânt at y sacrament baganaidd oedd yn mys milwyr Rhufain. Ond nid ydym dan unrhywmau idd eu dilyn, nes byddo iddynt hwy yn gyntaf brofi nad yw y Testament Newydd yn cynnwys rheolau perffaiht, digonol i holl ranau ymarferol y grefydd Gristionogol; er nad ydym yn teimlo un anhawsder idd eu gorchygu ar eu tir eu hunain fel yr ymddengys yn ol llaw" (tud. 37). Beth yw y rheswm mai bedydd yw yr unig beth y myn ein cyfeillion ei lusgo i'r llysoedd a nodu Mr. Evans? Credant fel ninnau fod y Testament Newydd yn cynnwys rheolau perffaiht at gyflawniadau ereill crefydd. Y mae hyn ynddo ei hun yn dweyd, "there is something rotten in the state of Denmark."

\* "Yn mhlith fy nghyd-deithwyr o Burmah (medd Mr. Denham, o Serampore) yr oedd Jesuit o'r enw y Tad Pirazza, cenadwr Pabyddol o Rangoon: cefais gryn ymddyddan lled ddyddorol âg ef. Nid oedd ef yn gwybod pwy, na pha beth oeddwn i, ac nid oedd dim yn fy ngwisg yn arwyddo fy mod yn genadwr. Yr ail ddydd o'u cyfarfyddiad, yr oeddyd mewn llong, a bu cryn ddadl rhwng Pirazza a swyddwr Protestanaidd; ni ddywedais i un gair rhyngddynt, ond gwrandewais yn ddydystaw ar yr hyn oedd yn myned yn mlaen. Yn nghwrs y dydd, pan oeddwn wrthyf fy hun, daeth Pirazza ataf, a ddywedodd. 'clywsoc'h yr hyn dywedodd — wrthyf; nid wyf yn meddwl iddo ymddydd yn ddeg tuag ataf. Y mae y Protestanaidd yn rhafarnllyd iawn; ac yn wir, ni wyddant fawr yn nghylch eu crefydd. Go-beithiwyf nad yw y sylw hwn yn eich tramgwyddo chiwi.' Wedi cael sierwydd nad oedd, dywedodd, 'Nid wyf yn ofni cwrdd â Phrotestanaidd; y mae Eglwys Loegr, er siampl, yn dal llawer o bethau yr un modd â ni; ac y mae llawer o'r offeiriad yn gwbl o'n tu ni; a gallaf ymgyddu â sectau



Pan y cyhudda ein cyfeillion blant y "dyn pechod" o anysgrhythroldeb erthyglau eu ffydd, gofynant hwythau iddynt yn fuddugoliaethus, pahan yr arferwch chwi fedydd babanod, tra y gwyddoch nad oes un sill o'r Ysgrhythr o'i blaid? Yr ydym yn gofyn yn ddifrifol, a ydyw yn bosibl fod y fath gyfundraeth—cyfundraeth mor anghysson,—yn profesu cymmeryd y Beibl yn unig reol, tra yr ymlwybra yn ol traddodiad y tadau, yn unol â meddwl Duw? Pahan nad ystyriai ein cyfeillion fod rhaid cael sail a rheol pob ordinhad berthynol i'r oruchwyliaeth Gristionogol yn y Testament Newydd, ac nad oes un ran o'r Hen yn rheol i ni weinyddu ordinhadau yr oruchwyliaeth efengylaidd? Os mai llyfrau Moses oedd i ddysgu yr Iuddew, ac os mai yr Alcoran yw deddf y Mahometan, pahan yr â Cristionogion at Abraham, na Moses, o berthynas i fedydd, yn hytrach nag ymfoddloni ar gyfarwyddiadau y Testament Newydd? Onid yw braidd yn anghredadwy y gwna dynion gwybodus geisio sylfaenu ordinhad bendant ar ddystawrwydd y Beibl, ac ar ryw gasgliadau ffiloregaidd a geisiant dynu oddiwrth amgylechiadau nad yw yn eu cynnwys? Nid nyini sydd yn eu cyhuddo o hyn, eithr hwyntwy eu hunain sydd yn addefhyny, fel y dangoswyd. Y mae rhai yn ddigon ynfyd i haeru, y buasai Crist yn gwahardd taenellid babanod os nad oedd yn bwriadu iddo gael ei arferyd. Nid yw wedi gwahardd "bedyddio llongau a chlychau," na seremoniau lluosog ac ynfyd

ereill; ond y seet hono sydd yn *Burmah*, ac y mae rhai o'i chenadon yn *Rangoon*; yr wyf yn addef nad wyf yn caru hono, ac nid wyf yn hofsi cwrdd â'i haelodau.' 'Pa seet sydd genych mewn golwg?' ebe Mr. Denham. 'Y *Bedyddwyr*,' oedd yr ateb. 'Pahan nad ydych yn hofsi cwrdd â hwy?' gofynai Denham. 'Ni wnant ymresymu; ni wrandawant, ac ni thalant sylw i'r *Priest* a'r *Eglwys*,' oedd atebiad *Pirazza*. Wedi i Denham hysbys y Pabydd mai un o genadon y Bedyddwyr ydoedd ef, a'i fod wedi gadael Pabyddiaeth, ac i'r ddau ddadlau ychydig, dywedodd *Pirazza*:—'Y mae ymresymu â chwi yn llwyr ddiwerth, gan eich bod yn gwrthod traddodiad.' Ar ol yr amgylechiad hwn, dywedai Mr. Denham, 'Y mae un dosparth o ddynion, y mae yn llawen genyf fy mod yn perthyn iddo, a all gwrdd â Phabyddiaeth ar dir diogel; gall y dosparth hwn dafu traddodiad *overboard*, ac apelio oddiwrth ddyn at air Duw. Pe buaswn i o du neu o blaid taenellu dwfr ar fabanod, gorchfygasid si gan y *Jesuit*; ond can gynted ag y deallodd fy mod yn ymwrthod â hyny, dywedodd, 'Pa fodd y gallaf ddadlau â chwi?' Yr unig beth a roddodd nerth i Mr. Denham oedd, ei fod yn cadw at y Testament Newydd yn unig' (*Bap. Mag.*, 1851, p. 282).

y Pabyddion (yn yr ystyr a gyssylltir gan ein cyfeillion â'r gair gwaharddiad), *ergo*, y maent oll yn rhesymol ac yn Ysgrhythrol! Os mai dystawrwydd y Beibl sydd yn rhoddi grym mewn arferiad neu ddefod grefyddol, fel yr haera rhai o oraclau y Taenellwyr, y mae'r ordinhadau nefolaidd (?) o groesi y talcen â dwfr santaidd, *bowio* i'r *Virgin Mary*, cyssegru mynwentau, yspeilio a charcharu am beidio talu treth eglwys, ac offrwrm Pasc, llosgi hereticaid, (?) a llawer o orchwylion grasol cyffelyb, yn orgrefyddol, o herwydd y maent oll yn sugno nerth o ddystawrwydd y Beibl. Os yw bedydd babanod yn cael grym o'i ddystawrwydd, fel yr haera Taenellwyr, pahan lai? Nid cellwair yr ydym, eithr ysgrifenu yn ddifrifol, i'r perwyl o ddangos i'n cyfeillion eu hannghyssondeb, yn profesu cymmeryd y Beibl yn unig reol eu ffydd, ac etto yn sylfaenu bedydd babanod ar ei ddystawrwydd a chasgliadau. Os gellir cyssoni eu profes Brotestanaidd a'u hymddygiad anmbrotestanaidd a'u gilydd, nid gwaith hawdd yw esbonio ystyr y gair cyssondeb.

2. Y mae ein hegwyddor sylfaenol gyn-taf (tud. 70) yn ein dysgu yn mhellach, nad yw rheol gweinyddiad bedydd yn ymddibynu ar un gorchymyn pendant perthynol i'r Hen oruchwyliaeth, ac nad yw yr "unrhywiaeth" y siaredir am dano, yn bodoli rhwng yr oruchwyliaeth Iuddewig a'r eglwys Gristionogol. Nid yw ein cyfeillion gwrthwynebol mor ynfyd a haeru y gwelant un cyssylltiad rhwng y gorchymyn pendant a roddwyd i Moses i wneuthur y Tabernacl, a'r un a roddasid cyn hyny i Noah i wneyd arch; ond credant fel minnau fod y ddau yn hollol annibynol ar eu gilydd. Gan hyny, onid oes rhywbeth yn ddrwgdybus yn y ffaith o'u bod yn ceisio gwneyd yr enwaediad a'i ddeiliaid yn rheol i benderfynu deiliasid bedydd, a hwythau yn gwybod mai dau sefydliad pendant hollol annibynol ar eu gilydd (yn gymmaint felly a'r Arch a'r Tabernacl) ydynt? "Y mae pob gorchymyn pendant yn cynnwys gwaharddiad i wneyd fel arall, hyd y nod pan na fyddo hyny yn cael ei fynegu. Onid oedd *oen blwydd* yn cynnwys mai nid dafad dair blwydd a olygid; ac onid oedd dywedyd Isaac yn cynnwys mai nid Ismael a hawlid. Felly hefyd y mae'r gyfraith sydd yn gosod allan pwy ydynt iawn ddeiliaid bedydd, a pha ddull i weinyddu yr ordinhad dan sylw, yn gwahardd yn hollol ac am byth bob math arall o ddeiliaid, a phob dull arall o wein-



yddiad." Os mai y Testament Newydd yw rheol ein cretydd, ac os mai ordinhad berthynol i'r oruchwyliaeth Gristionogol yw bedydd, rhaid cael sail a rheol ei weinyddiad yn y *test-book* perthynol i'r oruchwyliaeth a'i heglwys. Yr ydym yn caniatu dwyfoldeb yr Hen Destament fel yr awgrymwyd yn barod, a defnyddioldeb cyfraith Moses; ond y mae ein gosodiad sylfaenol (yr hwn a dderbynir gan Daenellwyr, ond a wedir gan rai o honynt yn ei berthynas â bedydd,) yn ein rhwymo i beidio cymmeryd y deddfau Iuddewig yn rheolau gweinyddiad ordinhadau yr oruchwyliaeth efengylaidd. Os nad yw yr athrawiaeth hon yn bwysau yn nghlorian rheswm, ac yn fesur wrth linyn y cyssegr, y mae dangos pa beth neu bethau sydd felly, mor anhawdd a phrofi Ysgrhytholdeb taenelliad babanod. Y mae y rhai a farnant yn wahanol yn fwy o wrthddrychau tosturi na chenfigen. Felly y mae'r Profleswr Stuart, Dr. Halley, a llawer o Daenellwyr dysgedig ereill, yn edrych ar y rhai a geisiant sail bedydd babanod yn yr enwaediad, fel y dengys y dyfyniadau canlynol:—"A raid i ni ddywedyd fod y plant oll i gael eu bedyddio, am fod plant yr Iuddewon yn cael enwaedu arnynt? Pa fodd, yn awr, y gwnawn allan yr oll yn yr achos hwn? Ni enwaedir neb ond plant gwrrywaidd.\* Yna etto yr oedd y

gwasanaethyddion oll, hyny yw, caethion, hefyd i gael eu henwaedu. Pa beth, gan hyny, sydd yn dyfod o'r gyfatebiaeth (*analogy*)? Y mae allan o'r cwestiwn i'w ddal, o leiaf mewn ystyr priodol a goddefadwy. Heblaw hyny, pa beth sydd eglurach na bod gwrrywaidd Iuddewig a'u gwasanaethyddion i gael eu henwaedu, mewn trefn i'w himpio i'r cyfundeb gwladol-eglwysig (*politico-ecclesiastical*)? Yr oedd pob dinesydd yn rhwymedig dan ordinhadau crefyddol yn gystal a gwladol, a darostyngai yr enwaediad ef i'r ddau..... Mor anochelgar yw llawer o ddynion rhagorol, wrth ddadleu dros fedydd babanod ar dir cyfatebiaeth Iuddewig o'r enwaediad!! Onid yw menywod yn addas ddeiliaid bedydd? Etto hefyd, a ydyw caethion dyn i gael eu bedyddio, oblegid ei fod ef i gael? A ydynt o angenrheidrwydd yn aelodau eglwysig am eu bod wedi eu bedyddio? Onid oes gwahaniaeth rhwng impio i gyfundeb gwladol-eglwysig, ac i un, am yr hwn y dywedir, 'nad yw o'r byd hwn?' Yn fyr, daw anhawsderau dirif ar ein ffordd can gynted ag y dechreuwn ddadleu fel hyn" (*Stuart on the Canon of the Old Testament*, Sect. 22). "Wedi cryn ystyriaeth ofalus," ebe Dr. Halley, "y mae yn ymddangos i mi fod y ddadl o blaid trosglwyddiad arwydd y cyfammod Cristionogol (bedydd) oddiwrth y rhiant crediniol i'w blant, wedi ei sylfaenu ar drosglwyddiad arwydd y cyfammod Abrahamaid trwy y llinach etifeddol o olyniaeth yn hiliogaeth Abraham, yn methu

\* "Nid yn fynych y gwelwyd Taenellwyr babanod yn ymaflyd yn yr wrthddadl hon mewn tymher dda. Y mae yr olwg arni fel pe byddai yn cyffroi eu holl natur, ac os gallant wedd yn y byd, ant heibio iddi heb gymmeryd arnynt ei gweld; a phan y gwesgir hwynt i gydio ynddi, digrif-neillduol yw y twyllddadleuon a ddefnyddiant er ceisio dianc o'u gafael." "Ystyfir hi yn gyffredin yn un o'r saith peth cas gan Daenellwyr. A phan y dygwydd iddynt ei chyfarfod, y maent yn chwewi, ac yn myned yn anynad eu hysbryd, wrth geisio ei nyddu a'i gwrthdroi i'w golygiadau eu hunain; ond er ei holl ymdrechion, y mae yn aros yn ddigyfnawid fel pryd wrth wreiddyn eu cyfundraeth." Teimla Stuart fod enwaedu menywod yn amhosibl; ond y mae'r Parch. Richard Pritchard wedi dyfeisio cynllun i roi rhyw fath o o enwaediad i un gwrryw a llawer o fenywod *yr un pryd*!! Fel y canlyn y mae darganfyddwr y ddyfais yn esbonio y drefn newydd:—"Er na dderbyniant y nod hwn yn bersonol, etto yr oeddynt yn dyfod yn enwaediaid trwy rinwedd y sêl hono o eiddo eu tadau; ac felly yr oedd merched pob tad enwaededig *gn yr eglwys*, a merched pob tad dienwaededig *allan o'r eglwys*; os dienwaededig oeddynt, pahan nad oedd caniatad iddynt briodi rhai dienwaededig?" (*ail argraff*, tud. 35.) Hyny yw, pan enwaedid gwrryw, ystyrid y weithred yn enwaediad iddo ef yn bersonol, ac i bob merch a genedlai rhagllaw. (1.) Beth bynag a feddylir am y cynllun newydd, y mae yn ddigon amlwg

nad yw yn sefydlu cyfatebiaeth gyfan rhwng yr enwaediad a thaenelliad babanod. (2.) Nid yw y Beibl yn ein dysgu fod deddf un gosodiad pendant, yn gyfraith i sefydliad pendant arall; ond dylid cofio fod *dystawrwydd* y Beibl yn ateb i rai mewn un amgylchiad, er y dirmygant y meddylddrych o sylfaenu ar ei ddystawrwydd mewn amgylchiadau ereill. (3.) Nid yn rhinwedd y cyssylltiad rhwng y plentyn a enwaedid a'i dad uniongyrchol y rhoddid yr arwydd iddo, ond ar gyfrif y berthynas rhyngddo a phen y cyfammod, sef Abraham (gwel y dyfyniad dilynol o waith Dr. Halley). (4.) Os ystyrid enwaediad y tad yn enwaediad i'w ferch yn ol y *theory* newydd, pa fodd y cyfrifid menywod na enwaedasiid eu tadau o gwbl yn mysg pobl yr enwaediad? Ai gwrrywod yn unig a broseltyd? (5.) Y mae dyn yn un o genedl y Cymry, oblegid mai Gomeriaid yw ei rieni, pa un bynag a fyddo yn alluog i siarad y Gymraeg ai peidio; ac felly y golygid menywod yn rhan o'r llwyth enwaededig, pa un bynag a fuasai eu tadau wedi eu henwaedu ai peidio, ar gyfrif eu cyssylltiad â'r llwyth ag yr oedd enwaediad yn arwydd cenedlaethol perthynol iddo. (6.) Os gellid enwaedu tad a'i ferched yr un pryd, pahan na allasid enwaedu y tad a'i feibion yr un modd?



braidd yn mhob peth" (*Sacraments*, part ii., 2 edit., p. 34). Yn y dyfyniad canlynol, y mae yn dangos ffolineb y rhai a siaradant am "fedyddio hâd y ffyddloniaid," am "epi yn yr hawl i fedydd," am "fedyddio ar bwys ffydd eu rhieni," am "fedydd yn lle'r enwaediad," &c. "Yr wyf yn caniatáu fod arwydd bendithion y cyfammod hwnw yn cael ei weinyddu i blant, trwy ordeiniad Duw," ebe efe; "ond y mae'r ddadl yn golygu mai ar gyfrif perthynas y plant hyn â'u rhieni y gweinyddid ef. Ond ymddengys i ni y byddid yn rhoi arwydd y cyfammod Abrahamaid i bob plentyn, nid o herwydd ei gyssylltiad uniongyrchol â'i rhieni, eithr ar gyfrif ei berthynas bell â phen y cyfammod. Gwnaed y cyfammod yn wreiddiol ac yn uniongyrchol âg Abraham, yn ail ac yn anuniongyrchol â'i gyssylltiadau o bob math, ac yr oedd i barhau trwy yr holl genedlaethau hyd ei gyflawniad yn nyfodiad bendith Abraham ar y cenedloedd trwy Iesu Grist. Meddai pob un o hiliogaeth Abraham fath o fudd dechreuol (*incipient interest*) yn y cyfammod efengylaidd hwn pan yn cael ei eni, ac yr oedd yn perthyn i'r Messiah yn ol y cnawd, yn gymmaint a'i fod yn perthyn i gyndad yr hâd addawedig. Derbynid y ffrainc ac arwydd y cyfammod gan hiliogaeth Abraham, nid ar gyfrif y personau trwy ba rai, ond ar gyfrif y personau oddiwrth ba rai y cawsent eu gwneyd yn etifeddiion yr addewid. Sefydlodd Duw ei gyfammod âg Abraham a'i hâd ar ei ol—nid ei blant yn unig, eithr ei hiliogaeth trwy oesoedd. Yn ol y telerau hyn, derbyniodd plant Esau, fel plant Jacob, arwydd yr enwaediad, sêl cyfiawnder ffydd eu hendar cyffredin. Cafodd meibion Reuben arwydd y cyfammod, ond nid yn y cymmeriad o blant Reuben, ond fel disgynyddion o Abraham yn y bedwaredd genedlaeth. Enwaedwyd Ahaziah, ond nid fel mab i Ahab a Jezebel, eithr o herwydd ei fod yn llinach gyfammodol Abraham ffyddlon. Y mae'r ffrainc, gan hyn, yn gynnwysedig yn y cyssylltiad rhwng Abraham a'i hiliogaeth, ac nid yw yn ymddangos fod un arall yn cael ei chydabod yn y cyfammod Abrahamaid—nid wyf yn gallu cael y gradd lleiaf o ôl un arall yn yr ymrwymiad ar gyfatebiaeth arwyddion a seiliau y ddwy oruchwyliaeth. Gallai tad trwy anghrediniaeth, dori ei hun ymaith oddiwrth ei bobl, a haeddu ffriffediad ei freintiau; ond nis gallai trwy hyni rwystro ei blentyn i hawlio adferiad fel mab i Abraham; ond os nad oedd y ffriffediad yn etifeddiol, nid

oedd y ffrainc chwaith felly. Yr oedd profi perthynas âg Abraham yn ddigon, pa mor doredig bynag y gallasai cadwyn y cyssylltiad fod. Pan yn chwilio am berthynas gyfammodol y plant, ni sylwid ar gymmeriad y rhieni uniongyrchol. Gallent fod yn gredinwyr neu yn anghredinwyr, yn enwaeddig neu yn ddiennawedig" (tud. 39, 40). Wedi dwyn profion anwrthwynebadwy i ddangos fod cyssylltiad yr Iuddewon â'u cyndad yn bodoli yn annibynol ar gymmeriad y rhieni uniongyrchol,\* y mae yn sylwi, gan mai yn rhinwedd eu perthynas âg Abraham, ac nid â'u rhieni uniongyrchol, y rhoddid arwydd yr enwaediad i'r plant Iuddewig, mai y casgliad têt (ar dir cyfatebiaeth rhwng yr enwaediad a bedydd) fyddai, fod gan hiliogaeth dyn da bedyddiedig hawl i fedydd trwy wahanol genedlaethau, ar gyfrif eu perthynas â'u cyndad crediniol. Pe gwnelai Duw yn awr gyfammod neillduol â dyn da, ac a'i hâd ar ei ol; a phe sefydlai fedydd yn "arwydd cyfammod," byddai, yn ol Dr. Halley, gan bob un o hiliogaeth y dyn hwnw hawl i fedydd, nid "ar bwys ffydd eu rhieni" uniongyrchol, eithr yn rhinwedd eu cyssylltiad â'u cyndad. Pe cymmerai hyni le, byddai y gyfatebiaeth rhwng bedydd ac enwaediad yn gyflawn. Nis gellir sefydlu cyfatebiaeth rhyngddynt mewn un ffordd arall. Y mae llawer o'r Bedyddwyr yn galw cyfammod yr enwaediad yn gyfammod bendithion tymhorol, ac yn ystyried yr enwaediad ei hun yn arwydd gwladol neu genedlaethol; ond nid yn yr erthygl hon y mae dadleu

\* Y mae Dr. Wardlaw yn ceisio sylfaenu taenelliad babanod ar yr enwaediad (ac os nad ydym yn camgofio, yn beio dynion am y ffolineb o geisio ei seilio ar y commissiwn):—"Before the coming of Christ," ebe efe, "the covenant of grace had been revealed; and under that covenant there existed a divinely instituted connection between their children and their parents, according to which the sign and the seal of the blessings of the covenant were, by divine appointment, administered to children; and there can be produced no satisfactory evidence of its having been done away with." Ond yn ol yr ymrwymiad uchod o eiddo Dr. Halley, fel hyn y dylasai Dr. Wardlaw ysgrifenu:—"In that covenant there existed a divinely instituted connection between" an ancestor and his posterity in their generations, "and there can be produced no satisfactory evidence of this connection having been done away with;" and the inference from the analogy, or if it so please, the identity of the covenants, according to this mode of reasoning, would be that the posterity of a believer throughout all generations ought to be baptized.



y pwyntiau hyn. Nid yw ein gosodiad sylfaenol yn ein rhwymo i sylwi o gwbl ar wrthddadleuon eiddilaidd yr enwaediad; ond nis galleid gwrthsefyll y demtasiwn o ddyfyn y brawddegau blaenorol o weithiau Stuart a Halley. Llauer, ymdrech galed a fu rhwng rhai Taenellwyr a'r enwaediad, i geisio ei ystywto i'w tybiau eu hunain; ond dengys y dyfyniadau hyn fod eu holl lafur wedi bod yn ofer hyd yn hyn; a diau mai felly y bydd hefyd tra y rhoddir parch i reswm ac Ysgrythyr. Gan fod rhai Taenellwyr wedi profi nad oes sail i daenelliad babanod yn yr enwaediad, a Thaenellwyr ereill wedi dangos nas gellir ei sylfaenu ar y commissiwn, y maent rhyngddynt a'u gilydd wedi profi yr hyn a gyhoeddwyd gan lawer o honynt, sef, nad oes un math o sail iddo yn ngar y gwirionedd o gwbl.

Yn ol yr egwyddor sylfaenol a osodasom i lawr, nis gall yr unrhywiaeth tybiedig fodoli rhwng y ddwyflywiaeth Iuddewig a'r eglwys Gristionogol. Os ydynt yn wahanol, rhaid fod llyfr neu reolau penodol yn perthyn i'r naill a'r llall o honynt; ond os mai yr un ydynt, y mae'r Hen Destament yn cynnwys rheolau i'r eglwys yn gystal ag i'r ddwyflywiaeth. Dywed Dr. Rice (*Lexington Debate*, p. 285):—"Yr un ydyw yr eglwys ynte, o dan y goruchwyliaethau Iuddewig a Christionogol—yr un, yn yr hon y gosododd Duw gredinwyr a babanod, trwy ddeddf bendant." Y mae Mr. Hillard dipyn yn fwy gochelgar:—"Ein pwne nesaf," ebe efe, "a berthyn i unoliaeth sylweddol, neu unrhywdeb yr eglwysi Iuddewig a Christionogol. Yr ydwyf yn dywedyd unoliaeth sylweddol, oblegid er eu bod yn gwahaniaethu mewn llawer o bwyntiau damweiniol, etto un ydynt yn holl agweddau sylweddol eglwys Dduw. Ac yma, addas ydyw rhybyddio y darlennydd am bwysigrwydd y gosodiad hwn. *Ar y tir hwn yr ydym yn gosod pwys y ddadl Feiblaidd dros fedydd babanod*"\* (*Christian Baptism*, p. 31, 32).

\* Y mae Dr. Halley a'i ddysgyblion yn wahanol iawn:—"This commission," ebe Halley, "being the chief authority for the continued practice of baptism in the Christian Church, its literal signification ought to be preferred to that of the incidental and casual mention of baptism in other places, should there be any apparent discrepancy. .... Were this one text obliterated from scripture, we should have no direct authority for the administration of baptism" (*Sac.* p. 5). Y mae Dr. Halley wedi profi nad gwiw ceisio sail i daenelliad babanod yn yr enwaediad, a darfu Dr. Wardlaw ac ereill ddangos yn ddigon eglur nas

Nid yw Dr. Miller yn llai gochelgar, fel y dengys y frawddeg ganlynol:—"Megys y cydnabyddir yn gyffredin fod had ieuano pobl Dduw yn aelodau cyfartal a'u rhieni o dan oruchwyliaeth yr Hen Destament, felly y mae'r un mor sicr fod eglwys Dduw yr un mewn sylwedd yn awr a'r amser hwnw" (*Sermons on Baptism*, p. 18). Gan mai ar yr unrhywiaeth tybiedig dan sylw y "gorphwys pwys y ddadl Feiblaidd dros fedydd babanod," yn ol addeffiad llawer o bleidwyr y ddefod, nid gorchwyl dibwys yw dangos mai ar sail dywyddyd y sylfaenir hi, yr hyn a wnawn trwy ddangos mai yn nychymmyg ein cyfeillion yn unig y bodola yr unoliaeth y dadleuant drosto. Mai nid yr un oedd y ddwyflywiaeth gynt a'r eglwys bresenol sydd amlwg; oblegid rhag-

gellir seilio yr arferiad ar y commissiwn. Clywsom am un gweinidog perthynol i'r An-nibynwyr, yr hwn, wedi darllen Wardlaw a Halley, a ymunodd â'r Bedyddwyr. Gan fod Wardlaw yn dyfetha cyfundrefn Halley, a Halley o'r ochr arall yn dinstrio ei gyfundraeth yna, barnodd y gweinidog nad oedd rhith o sail Ysgrythyr i'r ddefod o daenellu dwf ar fabanod. Taenella rhai ddwfr arnynt am eu bod yn rhan o'r holl genedloedd; ereill a wnant hyny ar ffydd eu rhieni; eglwys Loegr ar ffydd y *sponsors*, a llawer ar ffydd yr eglwys, &c., &c. Bedyddia rhai blant *paeb*, ereill blant *tad neu fam* grefyddol, tra y myn dosparth arall gael y tad a'r fam yn Gristionogion mewn profes. Yn ol amryw, bedyddir er mwyn dwyn y rhai bychain i'r cyfammod, tra y gweinyddia ereill yr un seremoni arnynt oblegid eu bod yn y cyfammod yn barod—"wedi eu geni yn yr hawl," &c. Bwriada rhai ddwyn babanod i'r eglwys trwy fedydd (*alias*, taenelliad), a dadleua ereill y dyldid eu bedyddio oblegid eu bod yn yr eglwys yn barod. Dywed y naill y dyldid eu taenellu i'r dyben o'r: *gwneyd* yn santaidd, a'r llall a wna felly oblegid eu bod yn santaidd cyn y gweinyddiad. Y mae'r dosparthiadau hyn mor groes i'w gilydd ag y maent i'r Bedyddwyr. Nid os braidd bendraw ar annghyssonderau ein cyfeillion. Ceisia rhai (y Parch. R. P. ac ereill) seilio y ddefod ar y cyfammod ag Abraham a'r enwaediad, ac ar eangder y commissiwn. Bedyddiant babanod am fod babanod yn cael eu henwaedu ac yn yr eglwys gynt, ac am eu bod yn rhan o'r holl genedloedd. Y mae rhai fel R. P. yn dadleu dros daenellu dwf ar blant *paeb* ar gyfrif y commissiwn, ond yn arfer y seremoni ar blant Cristionogion professedig!! Y mae ceisio ennill pwne rywaut o fwy pwys na chyssondeb. Y mae rhai yn cael eu geni yn yr hawl, ac ereill yn cael hawl yn y commissiwn!! "Pa ragoriaeth, gan hyny, sydd i'r Iuddew; neu pa fudd sydd o'r enwaediad?" Pa beth mae R. P. yn ennill trwy *ddwneyd* fel hyn, a *gwneyd* fel arall? Os gwnaeth Crist fedydd yn gyffredinol, fel yr haera efe, paham y gwrthwyneba efe drefn Crist trwy ei gyfyngu? "Their reasoning," ebe Halley am Wardlaw a'i ddysgyblion, "as against the Baptists, is for the enlargement of the commission; as against us for its limitation" (p. 36.)



*fynegwyl am sefydliad teyrnas newydd, a hyny y mhen cannoedd o flynyddau wedi sefydliad yr oruchwyliaeth Iuddewig.* (Esa. 2. 2). Y mae yma gyfeiriad eglur at deyrnas Crist, yr hon oedd i gael ei sefydlu. Golyga "y dyddiau diweddaf" yr un peth ag yn Heb. 1. 1, sef cyfnod goruchwyliaeth yr efengyl. Teilynga prophwydol-iaeth Daniel (pen. 11. 44) sylw neillduol. Yr oedd y deyrnas hon i gael ei sefydlu yn mhen cannoedd o flynyddau ar ol i Daniel brophwydo. Y mae'r gair "*cyfyd*," yn dangos sefydliad teyrnas, ac nid ail gyfansoddiad yr hen gyfundrefn. At y deyrnas newydd hon, yr hon oedd i fodoli yn nghanol holl lithriadau oesoedd a chwyldroadau amser, y cyfeiria Ioan yn y dywediad:—"Edifarhewch, canys *neshäodd* teyrnas nefoedd." Dywed *common sense* mai nid yr hên deyrnas Iuddewig oedd yn agoshau, ac mai at sefydliad un newydd y cyfeiriai Crist (Marc 1. 15) ac yntau. Yr oedd rhywbeth mor anarferol a gwahaniaethol yn mhregethau Crist a'i ragflaenor, fel ag i arwyddo dechreuad tymhor newydd; a dywedodd Iesu yn eglur fod gweinidogaeth Ioan yn ddechreuad cyfnod na welsid ei fath (Luc. 16. 16). Yn ngwynneb yr ystyriaethau hyn y mae yn dëg i ni ofyn, pa fodd y gall y ddwyflywiaeth Iuddewig a'r eglwys Gristionogol fod yr un? Os mai yr un ydynt, pa fodd y gallasai y prophwydi ragfynegu sefydliad yr olaf, pan yr oedd y flaenaf wedi bodoli am gannoedd o flynyddau yn flaenorol? Y fath ymdrech annaturiol i ddâl gafael mewn pwnc!!

*Yn ail, nis gallasai aelodau rheolaidd yr hen eglwys\* Iuddewig gael aelodiaeth yn yr efengylaidd, heb edifeirioch, ffydd, ailmedigaeth, a bedydd.* Y mae eglurder y gosodiad hwn yn gwneud sylw helaeth arno yn hollol afreidiol. Darllener gweinidogaeth lem y Bedyddiwr i aelodau yr eglwys Iuddewig, a'r ammodau manwl ar y rhai y derbynid hwynt i'r un Gristionogol (Math. 3). Ystyrid y Phariseaid a'r Saduceaid—"cenedlaeth gwiberod," yn aelodau o'r ddwyflywiaeth Iuddewig; ond yr oeddynt, er eu perthynas âg Abraham, yn hollol anaddas i eglwys Crist. Cyhoeddai yr Athraw mawr yr ysgrifenyddion, y cyfreithwyr, a'r doctoriaid, yn rhag-

rithwyr; "cany's," ebe efe, "yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion; canys chwi nid ydych yn myned i mewn; a'r rhai sydd yn myned i mewn nis gadewch i fyned i mewn" (Math. 23. 13). Y mae'r ymadrodd hwn yn profi *dau* beth; sef fod teyrnas nefoedd *mewn bod* yr amser hwnw, ac nad ydoedd yr un a'r deyrnas Iuddewig. Pe na fuasai mewn bod, nis gallasid ei chau i fyny; a phe buasai yr un a'r hen sefydliad, yr oedd yr ysgrifenyddion ynddi yn barod. Ond nid oeddynt ynddi, oblegid dywed Crist, "Canys chwi *nid ydych* yn myned i mewn." O ganlyniad, os oeddynt yn y ddwyflywiaeth Iuddewig heb fod yn nheyrnas nefoedd, nis gallasai y ddwy deyrnas fod yr un. Braidd nad yw dadleu pwnc mor eglur yn sarhad ar y darllenydd; ond gan y gelwir yr unrhywiaeth honedig dan sylw yn *brif* reswm dros fedydd babanod gan ddosparth o Daenellwyr, rhaid i ni ei ddynoethi. "Y fath wrthgordiad rhyfeddol sydd mewn cyfundraethau dynol, y rhai nad yw y Beibl yn sail iddynt!!"

*Yn drydydd, y mae cyfammod yr eglwys efengylaidd yn wahanol iawn i gyfammod yr oruchwyliaeth Iuddewig.* Ammheuir y gosodiad hwn gan y dosparth hwnw o Daenellwyr a wrthwynebw'n yn y rhan hon o'n hysgrif. Gan fod yr erthygl i raddau yn faith yn barod, rhaid cyfeirio y darllenydd at y gair CYFAMMOD (*Geir. Beiblaidd a Duwinyddol*), am esboniad ar y gwahaniaeth y cyfeirir ato yma.

*Yn bedwerydd, y mae'r meddylddrych o unoliaeth y ddwy eglwys, yn cynnwys pethau afresymol ac annichonadwy.* Yn ol y syniad hwn, yr oedd yr ysgrifenyddion, y Phariseaid, y Saduceaid, a'r holl Iuddewon yn aelodau o'r eglwys Gristionogol, ac etto croeshoeliasant ei Phen. Yr aelodau eglwysig hyn, ac amryw o honynt mewn sefyllfaoedd swyddogol, a ddarfu amlygu yr elyniaeth fwyaf ofnadwy at Arglwydd y bywyd; cyhuddent ef o fod mewn cyng-hrair â Beelzebub, a phan gafodd ei gondemnio i farw, dywedent:—"Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant." Iaith ddyeithr i gael ei defnyddio gan aelodau eglwysig. Y mae'r olwg hon ar y pwnc yn cynnwys afresymoldeb yn ymylu ar wrthuni; ond nid dyma'r cwbl. Os yw sefyllfa y Taenellwyr hyn yn ddiffynadwy, cafodd tair mil eu hychwanegu at yr eglwys ar ddydd y Pentecost, er eu bod oll yn yr eglwys yn flaenorol. Chwanegodd yr Arglwydd yn ddyddiol at yr eglwys, nid yn unig y rhai a fyddent gadwedig, ond yr hen aelodau oedd ynddi yn barod!

\* Gwell genym y gair Dwyflywiaeth Iuddewig, neu Gweriniaeth Iuddewig, nâ'r gair Eglwys Iuddewig; ond o gymmaint ag mai yr olaf a ddefnyddir fyndchaf, os nad yn ddiethriad, gan y dosparth hwn o Daenellwyr, gwnawn ninnau ei arfer yn achlysurol yn gyfystyr a'r ddau arall.



Pan ufyddhaodd llawer o'r offeiriad i'r ffydd, ac yr ymunasant â'r apostolion, cawsant eu hesgymuno o'r synagogau, er fod yr Iuddewon a'u bwriasant allan yn perthyn i'r un eglwys! Erlieddodd Saul o Tarsus "yr eglwys"—"anrheithiodd hi," a phan argyhoeddwyd ef, daeth yn aelod o'r eglwys a erlidasai, er y meddai aelodiaeth ynddi yn flaenorol! Iê, mwy, cafodd awdurdod i erlid gan aelodau swyddogol o'r eglwys. Yn ol yr athrawiaeth a gondemniwn, yr oedd y dysgyblion yn perthyn i'r un dosparth a'r rhai y dywedai Crist am danynt:—"O'ch tad diafol yr ydych chiwi;" ac aelodau o'r un eglwys oedd yr Iuddewon erlidgar a'r apostolion erlidiedig. Y mae'r pethau afresymol a gwrthun hyn, a llawer ereill, yn y syniad o unrhywiaeth y ddwy gyfundrefn. Pe dywedaisid wrth yr Iuddewon annghrediniol yn amser Crist, mai yr un oedd eu heglwys hwy a'r hon a wrthwynebenent mor egniol, diau y buasai iddynt ystyried y fath ddywediad yn ddirmyg, os na wnlsent edrych ar y llefarwr yn y cymmeriad o wallgofddyn. Yn yr oes apostolaidd, golygid fod y ddwy yn hanfodol wahanol gan gredinwyr ac annghredinwyr; a pha bryd bynag y cynnygiai y gau-athrawon halogi purdeb yr eglwys â surdoses Iuddewaeth, cynhyrfai hyny ddiogloneidd hŵawdlaf apostol mawr y cenedloedd. Nid oeddid yn gwybod am y fath beth a bedydd babanod yr amser hwnw; o ganlyniad, nid oedd eisieu dyfeisio yr "unrhywiaeth" na'r "unoliaeth sylwedol" i'r dyben o'i ategu. Ac yn gymmaint ag nad oes unoliaeth cyflawn na sylwedol, nid oedd cyssylltiad babanod â'r weriniaeth Iuddewig yn un awdurdod dros aelodiaeth yr un dosparth yn yr eglwys efengylaidd.\*

\* "Yr un yw yr eglwys o dan bob goruchwyliaeth. Fel yr oedd hi gan yr Iuddewon, felly y mae hi gan y cenedloedd. Fel yr oedd pan y tŵrwyd hwy allan, y bydd pan impir hwy i mewn drachefn" (*Pregeth y Parch. J. Davies, ar Fedydd*). "Syndod byth!" ebe Mr. Hughes, yn ei feirniadaeth alluog ar y dyfyniad hwn. "I ba beth y bu Crist farw? I ba beth y mae y Testament Newydd da? Ac i ba ddyben y pregethir yr efengyl. Y mae'r Iuddewon yn cynnal eu heglwys, yn cadw eu gwyliu, a'u defodan, eu seremoniau, a'u tradodiadau; ac yn gwneyd puredigaethau, aberthau, &c., hyd heddyw; ac os gwir a ddywed Mr. D. mai fel yr oedd yr eglwys gan yr Iuddewon, y mae hi gan y cenedloedd, nid wyf fi yn gweled un rheswm, pahan yr ydym ni a hwythau ar wahan y naill oddiwrth y llall..... Pryd gofyn, o ba le y tŵrwyd yr Iuddewon allan? Nid o'r eglwys Gristionogol, a bod yn siwr, canys ni fuont erioed ynddi; a pha synwyr sydd yn y dywediad, 'fel yr

Golygir fod yr hyn a ysgrifenyddwyd yn profi tu hwnt i ammhueaeth gywirdeb ein gosodiad, sef, mai y Testament Newydd yw *Text Book* yr eglwys Gristionogol—mai efe yn unig yw y rheol wrth yr hon yr ydym i benderfynu y pwyne o fedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid, oblegid fod yr eglwys efengylaidd yn gyfundrefn *hollol wahanol* i'r ddwyflywiaeth Iuddewig. Hyd y nod pe buasai y peth a elwir bedydd babanod mewn arferiad o dan yr hen oruchwyliaeth (a'r ddau ryw yn ddeiliaid iddo); ni allesid profi oddiwrth hyny y dylid ei arfer yn bresenol, heb na gorchymyn am dano nac esiampl o hono yn y Testament Newydd, ar gyfrif y gwahaniaeth (y cyfeiriasom yn fyr ato) rhwng y ddwy eglwys. Onid yw mynegiad yr Ysgrythyr Lân yn bendant:—"Yr hen bethau a aethant heibio: wele, gwnaeth-

*oedd pan dorwyd hwynt allan, y bydd pan impir hwy i mewn drachefn, ac fel yr oedd hi (yr eglwys) gan yr Iuddewon, felly y mae hi gan y cenedloedd?* Os fel yr oedd yr eglwys gan yr Iuddewon, y mae hi gan y cenedloedd, pa wahaniaeth fydd rhyngddynt wedi eu 'himpio' rhagor yn awr? Pa fodd y gallodd Mr. D. haeru mai yr un eglwys oedd gan yr Iuddewon ag sydd gan y cenedloedd, tra y gwyddai fod eu tramgwydd cenedlaethol yn cyfodol yn uniongyrchol oddiwrth y gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt? Yr oedd cymmaint o wahaniaeth rhwng yr eglwys oedd gan yr Iuddewon a'r eglwys sydd gan y cenedloedd, fel pan ymddangosodd ei Sylfaenydd, er iddo ddyfod at ei eiddo ei hun, yr 'eiddo ei hun nis derbyniasant ef.' Pa un ai fel yr oedd yr eglwys gan yr Iuddewon, y mae hi gan Mr. D., ni chymmeraf arnaf wadu; ond mai fel yr oedd hi gan yr Iuddewon y mae hi gan ddi-fuant ganlynwyr Crist, a wrthodaf gyda dirmyg. Attolwg, ai dau enw ar yr un peth yw deddf ac efengyl? Tra y byddo y Testament Newydd yn gosod i'fyny Grist, yn lle Moses; cyflawnder ffydd, yn lle'r eiddo gweithredoedd; yr Ysbryd, yn lle y llythyren; ffydd *bersonal* yn Nghrist, yn lle perthynas naturiol ag Abraham; enwaediad yr Ysbryd, yn lle enwaediad y cnawd; a'r nefoedd yn lle Canaan; gwylied y neb a geisio guddio y gwahaniaeth rhwng Iuddewaeth a Christionogaeth, rhag ei gael yn 'ymhladd yn erbyn Duw.' Beth a ddywed Mr. D. wrth yr enghreifftiau canlynol o anwiredd ei haeriad:—"Wrth ddywedyd, 'cyfammod newydd,' efe a farnodd y cyntaf yn *hen*; canys yr hwn sydd *hen* ac oedranus sydd agos i ddiiflanu' (Heb. 8. 13). 'Yr hen bethau a aethant heibio, wele gwnaethpwyd pob peth yn newydd' (2 Cor. 5. 17). 'Efe a dynodd ymaith y cyntaf, fel y gosodai yr ail' (Heb. 10. 9). 'Yn gyfyngwr cyfammod gwell, wedi ei osod ar addewidion gwell' (Heb. 8. 6). 'Pe buasai y cyntaf hwnw yn ddi-feius, ni cheiasid lle i'r ail' (adn. 7). 'Ar Destament gwell o hyny y gwnaethpwyd Iesu yn fachniyydd (pen. 7. 22). Galleid yn hawdd ychwanegu yr enghreifftiau, ond y mae a nodwyd yn fwy na digon, os yw efe yn rhydd i argyhoeddiad." (Yr "Ymddiffynnydd," gan y Parch. H. W. Hughes.)



pwyd pob peth yn newydd?" Y mae aberth Crist yn sail newydd i undeb a Duw; a fydd *bersonol* yn Nghrist Iesu yn gymhwysder newydd i'w fwynhau. I ba beth y cenir yr hen fyrdwn disail:—"Yr un yw yr eglwys o dan bob goruchwyliaeth," byth a hefyd? Attolwg, ai yr un yw eu *Cyfyngter*? Ai yr un yw eu *hegwyddorion*? Ai yr un yw *ëangder eu cylch*? Ai yr un yw *cymhwysderau eu deiliaid*? Ai yr un yw eu *rhagorfreintiau*? Mewn gwirionedd, y mae yn drueni meddwl fod Cristionogion professedig yn gwneyd egwyddorion mawrion a gogoneddus yr efengyl yn syll-ddrychau i edrych ar "egwyddorion llesg a thlodion" yr hen oruchwyliaeth; a hyny yn unig er mwyn dâl i fywy y ddefod o fedydd babanod, yr hon nid yw nac yn ogoniant i Dduw nac yn lles i ddyn. Beth a all enwaediad yn Nghrist Iesu? Dim! (Gal. 5. 6). Nid yu yr enwaediad, ond yn y *dienwaediad* y cyfiawnhawyd Abraham ei hun; hyny yw, yr oedd wedi ei gyfiawnhau cyn i'r enwaediad gael ei sefydlu, ar gyfrif ei fydd *bersonol* yn Nuw (Rhuf. 4. 10, 11). Y fath ynyfdrwydd yw gosod Abraham a'i gyfammod i fyny fel cyfrwng dyfodiad at Dduw, tra y mae'r Ysgrythyr yn gosod Crist *rhung* Abraham, a holl genedloedd y ddæar? Trefa dynion yw dyfod i berthynas â Christ trwy Abraham; trefn Duw yw dyfod i berthynas âg Abraham trwy Grist. Na thwyllled ein cyfeillion eu hunain na'u gilydd: ni ddaw un enaid i berthynas âg Abraham o dan yr efengyl, ond trwy fydd *bersonol* yn Nghrist. Hyn yn unig a wna bechadur yn gyd-etifedd âg Abraham o "addewid yr Ysbryd trwy fydd" (Gal. 3. 14). Dywed y credöau a'r cyffesion fydd:—"Yr oedd y plant yn yr eglwys o dan yr hen oruchwyliaeth, ac ni fwrwyd mo honynt erioed allan, gan hyny y maent yn yr eglwys hyd yr awr hon." Ond beth a ddywed yr Ysgrythyr?—"Bwrw allan y wasanaethferch (yr hen oruchwyliaeth), a'i mab (ei deiliaid), canys ni chaiff mab y wasanaethferch etifeddu (fod yn gyd-aelodau) gyda mab y wraig rydd" (deiliaid yr oruchwyliaeth newydd)\* (Gal. 4. 30, 31). Gan fod y credöau

a'r Ysgrythyr yn yr amgylchiad hwn, fel mewn llawer ereill, yn groes i'w gilydd, byddai yn burion i ni wybod pa un o honynt sydd i'w credu, yr hyn fydd yn hawdd ddigon, ond penderfynu yn gyntaf, pa un ai wrth y credöau ai wrth yr Ysgrythyr y bernir y byd. Y fath gyfrifoldeb ofnadwy raid fod ar y rhieni hyny a ddysgant i'w plant gredu eu bod hwy wedi eu gwneyd yn blant i Dduw, yn aelodau o Grist, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd yn eu babanod! Y mae eu dwyn i fyny o dan yr argraff eu bod wedi eu "geni yn yr hawl," wedi eu "selio yn nghyffiammod Duw," a'u santeiddio cyn ymddwyn arnynt, yn gyru miloedd o honynt i ddifaterwch llwyr, ac i galedwch dychrynallyd (*Gwel "Yr Ymddiffynydd"*).

3. Yn ol yr egwyddor sylfaenol a osodwyd i lawr genym, sef, mai i'r Testament Newydd, ac nid i'r Hen, yr ydym i droi am orchymyn bedydd, y mae yn rhesymol i ni edrych i ryw ran neu ranau neillduol o hono am dano, ac am enghreifftiau eglur o'i weinyddiad yn ol y gyfraith osodedig. Yn nghommissiwn ein Harglwydd y ceir y ddeddf, ac y mae cyfeiriadau eglur at y warogaeth ymarferol a dalwyd iddi gan y dysgyblion, i'w cael yn yr Efengylau, Actau yr Apostolion, ac mewn rhai o'r Epistolau. Yn ol y commissiwn (Math. 28. 19, 20; Marc 16. 15, 16), yr oedd yr apostolion i fyned allan o'r terfynau Iuddewig at yr holl genedloedd—i bregethu, neu i ddysgu—i fedyddio, ac i ddysgu drachefn wedi bedyddio; a chalonnogid hwy i hyny gan yr addewid am y presenoldeb Dwyfol, neu ofal y nefoedd am danynt, a bendith y Goruchaf ar eu llafur.

Golyga llawer o Daenellwyr fod "yr holl genedloedd" yn Math. 28. 19, 20, yn "cynnwys plant yn gystal a'u rhieni," ac nas gellir "mewn un modd wneyd dysgyblion o'r holl genedloedd a gadael allan y plant." Haerir mai "trwy fedyddio" y gwneir babanod yn ddysgyblion, ac mai ystyr y gair *matheteusate*, a gyfieithir "dysgwch," yw, "gwnewch ddysgyblion,

allan y wasanaethferch a'i mab." Nid oedd gan yr Iuddewon, a'u hystyried fel hâd Abraham, un hawl i fondithion a rhagorfreintiau eglwys Crist. Rhaid oedd iddynt fod yn *flaenaf* yn eiddo Crist, ac yna buasant yn hâd Abraham yn ystyr bwysicaf y gair. Nid yw yn bosibl i fabanod y Methodistiaid a'r Wesleyaid fod yn hâd *naturiol* Abraham, oblegid nid ydynt (yn gyffredin) o'r un *llyth* neu *genedl* âg ef; ac nis gallant fod yn hâd ysbrydol iddo, oblegid trwy fydd yn Nghrist y sicrheir y rhagorfreint hönö.

\* Meddylia Mr. Barnes nad yw yn hawdd esbonio y rhan hon o'r Ysgrythyr (Gal. 4. 22—31); a diau fod ynddi anhawederau peryglus i feddwl esboniwr taenellyddol. Y mae yn rhyfedd sut y gall y rhai sydd yn meddu rhyw belitebyg i olygiad cywir ar yr adnodau hyn gefnogi taenellind babanod. Y mae ynddynt awdurdod i gadw pawb allan o'r eglwys ond ailenedigion:—"Bwrw



neu broseltyiaid, o'r holl genedloedd, trwy eu bedyddio!" Y Bedyddwyr, o'r ochr arall, a ddywedant mai y brif weithred, yn ol y commissiwn, yw dysgu neu bregethu—gwneyd dyn yn ddysgybl i Grist trwy ei egwyddori yn y gwirionedd, nes rhoddi o hono ei gred yn Nghrist;—mai'r weithred sydd i ganlyn y dysgu yw bedyddio, ac yna dysgu y bedyddiedigion yn fanylach yn ngorchymynion Crist. Y mae gan y Taenellwyr hyn ryw fath o ddau esboniad ar y commissiwn, y rhai sydd yn ateb i'r modd yr ymlwybrant hwy gyda gwlwg ar fedydd; sef, fod rhai mewn oedran i gael eu *dysgu yn gyntaf*, a'u bedyddio *wedi hyny*; a'r babanod i gael eu *bedyddio yn gyntaf*, a'u *dysgu yn ganlynol*.<sup>\*</sup> Pe yr unai pawb o blant Adda a'r dosparth dan sylw, byddai bedyddio *cyn* dysgu yn rheol *ddieithriad*; ond gan nad yw y nôd hwnw wedi ei gyrrhaedd hyd yn llyn, y mae dallineb a phechadurusrwydd y byd yn gwneyd y ddau esboniad uchod yn angenrheidiol yn ol yr olyg-ddysg a gondemniwn. Ein rheol ninnau yw pregethu i bechaduriaid, bedyddio credinwyr, a dysgu y dychweledigion i gadw pob peth a orchymynodd y Ceidwad. Yr ydym yn amcanu ymostwng i'r rheol *fel y mae*, yn hytrach na cheisio ei hystwytho i ateb rhagfarn neu fympwy. Mewn trefn i wybod pa un o'r ddwy blaid sydd yn iawn, rhaid cytuno ar egwyddorion cyffredinol, a barnu y commissiwn yn ngwyneb y rhai hyny:—Yr egwyddor gyntaf yw, *mai yn Math. 28. 19, 20; a Marc 16. 15, 16, y mae deddf bedydd i'w chael, a bod geiriau y ddau efengyltur yn rhwym o gydgorddio â'u gilydd*. Yr un-commissiwn sydd gan Matthew a Marc, er eu bod yn ei eirio yn wahanol. Golyger ein bod yn gofyn cwestiwn neu ddau i'r ysgrifenyddysbrydoleddig i'r perwyl o ddeall yr hyn a olygant. Gofynnwn yn gyntaf:—Pwy ydynt ddeiliaid y weinidogaeth? "Yr holl genedloedd," ebe Mathew, a "phob creadur" yw atebiad Marc. A ydyw cylch y weinidogaeth yn äangach nag eiddo bedydd? Ydyw, o angenrheidrwydd felly. Y mae a fynom âg aberth Crist fel bodau dynol

<sup>\*</sup> "Os gellir bedyddio rhai heb eu dysgu, gellir bedyddio pawb heb eu dysgu: os oes yma orchymyn i wneyd un yn ddysgybl heb ei ddysgu, y mae yma orchymyn i wneyd yr holl genedloedd yn ddysgyblion heb eu dysgu; ond os gellir profi fod yma orchymyn i ddysgu rhai cyn eu bedyddio, y mae yma orchymyn i ddysgu pawb cyn eu bedyddio; nid oes un gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall, nac un eithriad yn y ddeddf, y mae y rheol yn gyffredinol."—*I. Parch. Ellis Evans, D.D.*

syrrthiedig;—â'r weinidogaeth fel creaduriaid rhesymol, ac â bedydd fel credinwyr:—"Y neb a *gredo* ac a fedyddir." Pe buasai *pawb* i gael eu bedyddio, ni fuasid yn nodi allan bersonau neillduol (sef credinwyr) o'r "holl genedloedd" a'r "pob creadur" i fod yn ddeiliaid bedydd. A phersonau dysgadwy y mae a fyno'r weinidogaeth (ond nid yw babanod mis oed yn ddysgadwy mewn ystyr grefyddol), ac i'r rhai a fyddo yn credu o'r dosparth dysgadwy hwnw y mae bedydd yn perthyn.\* Yr ail egwyddor ydyw:—"Nad yw commissiwn i wneuthur peth neu bethau, ond yn unig yn awdurdod cyflawniad y peth hwnw neu'r pethau hyny a gynnwysir ynddo." Y mae cyflawnu pob peth arall yn cael ei wahardd, fel y dangoswyd yn y tudalennau blaenorol. Pe amgen, ni fuasai un sicrwydd mewn ammodau neu gytundebau rhwng dynion a'u gilydd. Gorchymynodd Duw i Noah wneyd arch o *goed Gopher*; ac yr oedd y gorchymyn hwnw yn gwahardd defnyddio coed ereill, fel yr oedd appwyntiad Isaac i fod yn aberth yn gwahardd aberthu un aelod arall o'r teulu. Ar yr egwyddor hon, y mae gorchymyn Crist i fedyddio credinwyr, yn cynnwys gwaharddiad i fedyddio babanod nas gallant gredu. Ni wnai y tro i ddywedyd, nid ydym yn cael ein gwahardd mewn cynnifer o eiriau i fedyddio babanod. Gellir dywedyd yr un peth am anghredinwyr; i.e., am anifeiliaid, llongau, a chlychau. "Os awdurdodaf fy ngwas i brynu i minifer o eiriaduron *maurion* Webster," ebe Mr. Jewett, "oni throddai ei hyfforddiadau pe prynai hefyd ar fy nghyfrif I nifer o'r rhai bychain?" (*abridgement*.) Pe dywedai, "Ni chefais fy *ngwahardd* i brynu copiau o'r *abridgement*," dywedwn nad oedd yn angenrheidiol i mi osod i lawr yn ei hyfforddiad, *waharddiad* i brynu llyfrau ereill: gan i mi ei gyfarwyddo i brynu y rhai *maurion*, rhaid ei fod yn gwybod nad oedd ganddo awdurdod i brynu rhai *bychain*" (*Jewett on Baptism*). Ond

\* Curo i fynd am filwyr yw y peth *cyntaf* a wna y *Recruiting Sergeants* mewn lleoedd cyhoeddus; yn ail, rhoi arian y brenin neu y frenin i'r rhai a ymrestrant yn wirfoddol; ac yn *drydydd*, dysgu y milwyr newyddion i drin yr arfau, &c. Nid rhoi sylltau yn gyntaf yn nwyllaw holl fabanod y wlad, a dod i guro i fynd am filwyr yn mhen blynyddau wedi hyny, gan obeithio y *listia* y rhai y gwithiwyd yr arian i'w dyrnau yn ddiafrybod iddynt, pan glywont y tabwrdd a'r chwibanogl. Fel y dosparth blaenaf yr ymlwybra y Bedyddwyr, a'r ail yw y cynllun a gymmer y Taenellwyr.



dywed Mr. Hibbard (Taenellwr galluog), mewn beirniadaeth ar y sylw uchod o eiddo Jewett:—"Gall amgylchiadau fodoli, neu dichon i gyfarwyddiadau gael eu rhoddi mewn ffordd arall i awdurdodi pryniad y llyfrau bychain, *alias*, bedydd babanod; a gallai hyn fod yn ddealltwriaeth mor berffaith rhwng y meistr a'i genad, fel yr oedd yn hollol afreidiol nodi hyn yn bendant. *Ac yr ydym yn dadleu mai fel hyn y mae yn bod yn hollol, mewn cyssylltiad â bedydd babanod.*" Y mae Mr. Hibbard yma yn caniatáu nad yw y gorchymyn (y commissiwn) i fedyddio credinwyr, yn awdurdod i fedyddio babanod; ond dywed y *gallasai* fod cyfarwyddiadau wedi eu rhoddi "mewn ffordd arall" i brynu y llyfrau bychain; "ac yr ydym yn dadleu," ebe efe, "mai fel hyn yn hollol y mae yn bod, mewn cyssylltiad â bedydd babanod;" hyn ydyw, yr oedd y pwnc mor ddealladwy rhwng Crist a'i apostolion, eu bod i fedyddio babanod, fel yr oedd yn hollol afreidiol iddo ef yn y commissiwn i fynegu neu orchymyn am iddynt wneuthur felly. Os yw y syniad rhyfedd hwn o eiddo Mr. Hibbard yn iawn, y mae yn anhawdd gwybod paham y rhoddwyd y commissiwn i fedyddio o gwbl. Dealltwriaeth ddirgel yn anymddibynol ar, ac ar wahan oddiwrth y commissiwn! Os oedd yr apostolion yn deall eu bod hwy i fedyddio babanod, ac os oedd y wybodaeth hono yn gosod o'r neilldu yr angenrheidrwydd o enwi babanod yn y commissiwn; ar yr un tir, rhaid fod y wybodaeth eu bod i fedyddio dysgyblion a chredinwyr, yn ei gwneuthur yn afreidiol i enwi y rhai hyn yn y commissiwn hefyd. Pa fodd bynag, yr oedd yr apostolion wedi bedyddio y dysgyblion a wnaethai Crist yn ystod ei weinidogaeth, ond ni fedyddiasent fabanod; a dywedyd y lleiaf, ni phrofwyd erioed iddynt wneuthur hyn, ond dangoswyd droion gan Daenellwyr yn gystal a Bedyddwyr, fod y Testament Newydd mor ddystaw a'r bennod gyntaf yn Genesis ar y pwnc. Os oedd y Gwaredwr, gan hyn, wedi bwrriadu i fabanod a chredinwyr i gael eu bedyddio, onid yw yn llawer mwy rhesymol i dybied y buasai wedi nodi babanod yn hytrach na chredinwyr. Bu yr apostolion yn llygaid-dystion droion o fedydd y crediniol, ond nid oes genym un *sill* i brofi ddarfod iddynt erioed welod bedydd babanod; o ganlyniad, yr oedd angenrheidrwydd *neillduol* am enwi bedydd babanod yn y commissiwn, os ystyriai y Ceidwad

y rhai bychain yn ddeiliaid addas i'r ordinad. Paham na orchymynwyd eu bedyddio? Yr unig ateb ydyw, nad oedd Awdwr y commissiwn yn ewyllysio hyn. Os gallasid rhoddi awdurdod i brynu copïau o'r "*abridgement*" (*alias*, bedydd babanod) mewn "ffordd arall," y cwestiwn ydyw, a roddwyd y fath awdurdod? Os atebir yn gadarnhaol, yr ydym yn gofyn yn mbellach, pa bryd, yn mha le, gan bwy, ac yn mha ran o'r Testament Newydd y ceir yr hanes? Hyd y nod pe gellid ateb y gofyniadau hyn yn gadarnhaol a boddhaol, ni phrofuai yr atebion hyn wedi'r cwbl fod sail i daenelliad babanod yn y commissiwn.\* Onid yw cyfyngder ein cyfeillion yn fawr iawn?

Pa ryfedd eu bod mor dueddol i wylltio, a myned i dymherau chwerwon a phigog, pan eu dilynir fel hyn i'w llochesau? Oblegid y maent yn teimlo eu hunain yn gorfod sefyll ar *ddim*—dim un math o sail yn y byd i'w haerriad ond eu dychymmygion toreithiog eu hunain. Y mae eu cyfundrefn yn debyg i'r ffugchwedl Hindwaidd, yn ol yr hon y mae y belen ddaearol wedi ei gosod ar gefn *elephant*, a'r cwepant ar gefn *tortoise*, a'r *tortoise* ar *ddim*. Felly y mae sail cyfundrefn y Taenellwyr yn myned gyfyngach, gyfyngach, fel y dilynir hi, nes y mae o'r diwedd yn difanu yn hollol. Gwna rhai o'n gwrthwynebwyr eu hunain yn wrthddrychau tosturi yn y cyfyngder hwn, trwy haeru "nad yw y geiriau yn Marc 16. 15, 16, yn cynnwys *gorchymyn* i fedyddio neb; ond mai *add-*

\* Er nad yw Luc yn cofnodi y commissiwn fel Mathew a Marc, etto gwna gyfeiriad eglur ato (Luc 24. 46, 47). Y mae Mathew yn ein hysbysu fod dysgu neu wneuthur dysgyblion, yn blaenori bedydd. (Ynfydrwydd yw haeru fod dysgu a bedyddio yn eiriau cyfystyr, fel y dangoswn yn fuan.) Marc a'n sicrhau fod ffydd yn flaen- orol i fedydd; a Luc a gyssyllta edifeirwch a maddeuant pechodau â gweinyddiad y commissiwn. Nis gall neb, gan hyn, mewn ufydd-dod i'r commissiwn, fedyddio baban neu berson anghrediniol. Nid yw'r annghredadyn yn ddysgybl edifeiriol, ac y mae yn annhosibl i faban edifar- hau a chredu yr efenryl. Er cymmaint oedd gallu a llwyddiant yr apostolion, nid oeddynt yn gallu gwneyd dysgyblion i Grist o *fabanod*. Dywed Dr. Bloomfield (Taenellwr) fod y tri pheith canlynol yn gynnwysedig yn y geiriau:—"1. Eu dysgyblu hwy, neu eu dychwelyd i'r ffydd, gangyn- nws y ddysgeidiaeth elfenol fwyaf syml. 2. Eu dwyn i mewn i'r eglwys trwy fedydd. 3. Eu dysgu wedi eu bedyddio, mewn modd helaethach, yn athrawiethau a dyledswyddau y bywyd Cristion- ogol" (*Greek Testament*). Beth all fod yn fwy rhesymol a naturiol, ac yn fwy cydgordiol â rhed- iad y Testament Newydd, na hyn?



*ewid* ydynt i gredinwyr bedyddiedig y byddant gadwedig. Yr wrthddadla dynir oddiwrth y geiriau hyn ydyw, nas gall baban gredu, ac am hynny na ddylid ei fedyddio; a'r unig reswm ydyw, o herwydd fod y commissiwn yn dywedyd mai y neb a gredo ac a fedyddir a fydd cadwedig.\* Os nad yw y cyfeiriad at fedydd yn y *ffurf* orchymynol yn yr adnodau hyn, y mae geiriad Mathew o'r un commissiwn yn y ffurf hono yn ol addefiad yr awdwr ei hun:—"Sail gweinyddiad bedydd fel ordinhad efengylaidd," ebe efe, "yw yr awdurdodiad, neu y commissiwn mawr, a roddodd Crist i'w apostolion ychydig cyn ei esgyniad i ogoniant" (tud. 9). Dylai yr ysgrifenydd wybod nad yw yr efengylwyr yn geirio hanes sefydliad yr ordinhad arall yr un modd (Math. 26. 26-30; Marc 14. 22-26; Luc 22. 14-23); ond y mae yn debyg nad yw efe yn arfer cecraeth gyfllyb gydagolwg ar yr ordinhad hono, oblegid nad oes amcan neillduol i'w gyrhaedd trwy hynny. Ystyrir geiriau y gwahanol efengylwyr yn *un reol*, tra nad oes dim yn y naill yn groes i'r llall, er fod Paul (1 Cor. 11. 23-26) a hwythau yn wahanol iawn i'w gilydd yn cofnodi geiriau Crist ar yr achlysur. Nid yw yr ymadrodd pwysig:—"Yfwrch bawb o hwn," er eng-hraifft, wedi ei ysgrifenu yn y ffurf orchymynol gan Marc, Luc, na'r apostol Paul; ond nid yw y Taenellwyr yn gyffredin yn ystyried nad yw yfed yn *orchymynedig* oblegid hynny, o herwydd y mae'r frawddeg yn y modd gorchymynol gan Mathew. Paham na chaiff hanes sefydliad bedydd yr un chwareu tēg? Tybier, er mwyn dadl, nad yw Mathew yn ein dysgu yn eglur pwy sydd i gael eu bedyddio, ond ei fod wedi cofnodi y gorchymyn i fedyddio *rhywrai*; beth sydd yn fwy rhesymol ar y dybiaeth hono nâ gofyn i Marc pwy ydynt y deiliaid? Atebiad Marc, fel y gŵyr y darlennydd, yw,—"*y neb a gredo*," hynny yw, y cyfryw (o'r "holl genedloedd" a'r "pob creadur") a roddo dderbyniad crediniol i'r genadwri.† Pe tybiem, o'r

\* "*Bedydd Babanod*," gan Pritchard, tud. 42, ail argraffiad.

† Gan fod babanod yn yr eglwys Iuddewig, ebe ein cyfeillion, dylent fod yn yr eglwys Gristionogol. Pe rhoddid y gair enwaedu yn y commissiwn yn lle y gair bedyddio, beth bynag oedd yr arferiad o'r blaen, byddai yn cau allan fabanod oddiwrth enwaediad, yr un modd ag oddiwrth fedydd; oblegid nis gallai gorchymyn i enwaedu credinwyr gyrhaedd yn nihellach nâ chredinwyr. Pe byddai i frenin anfon swyddog i lanw byddin o wŷr chwech troedfedd o uchder, ac yntau yn

ochr arall, fod Mathew yn ein cyfarwyddo i fedyddio credinwyr a babanod, yn ol barn rhai Taenellwyr, ac mai *un* o amcanion Marc (16. 15, 16) oedd ein dysgu pwy oedd ac ydynt ddeiliaid bedydd (yr hyn a gamatōir gan luoedd o Daenellwyr), byddai raid i ni ystyried fod y ddau efengylwr yn croesi eu gilydd. Os mai "*addewid* i gredinwyr bedyddiedig" yw "y neb a gredo ac a fedyddir a fydd cadwedig," y mae yn anhawdd gwybod paham na roddwyd yr un addewid i'r *babanod* "bedyddiedig" hefyd, neu i'w rhieni.\* Gan nad

gwneyd y fyddin i fyny o ddynion pum troedfedd ac wyth modfedd, a fyddai y swyddog hwnw trwy hynny yn cyslawnu gorchymyn y brenin? A oedd y gorchymyn i'r gŵyr fod yn chwech troedfedd o hŷd, ddin yn cau allan bawb ag oedd o dan y mesuriad hwnw? Yr oedd yn annichonadwy dwyn i mewn i'r commissiwn rai ag oedd yn *ŷr* o'r mesur. Pe dywedai y swyddog, Gan na ddarfua i'ch Mawrhydi wahardd yn benderfynol rai o dan chwech troedfedd, yr oedd genyf hawl i benderfynu nad oedd y gorchymyn yn cael ei gyfyngu iddynt hwy yn unig. Y mae yn wir i chwi ddywedyd chwech troedfedd, ond y mae yn wybodus fod rhai nad oeddynt yn mesur chwech troedfedd wedi bod yn eich gwasanaeth o'r blaen, &c. Nid oes eisieu dweyd beth fyddai atebiad y brenin. Y dull hwn yn gymhwys a ddefnyddir gan rai Taenellwyr i gyflawnhau eu hanufydd-dod i gommissiwn Crist (*Gwel Dr. Carson on Baptism, ac Athrawiaeth Bedydd, gan y Parch. J. Evans*).

\* Cyhuddir ni o rodidi pwys ar drefn geiriau "y neb a gredo ac a fedyddir," &c. Dylid ystyried fod y drefn hon i ymddibynnu arni mewn *cyfarwyddyd fel rheol*, os na fydd amgylchiadau yn ein dysgu yn wahanol. Onid yw y Taenellwyr yn ei dilyn eu hunsin mewn cysylltiad â dynion mewn oed? Os oes ganddynt wrthwynebiad iddi, paham na ddangosent hynny trwy fedyddio *pawb* yn gyntaf, a'u dysgu wedi hynny? Y ffaith nas *gallant* ddysgu babanod yw yr unig reswm na ddilynent y rheol fel ninnau, sef, dysgu yn gyntaf, a bedyddio yn ganlynol. Y mae'r geiriau "gan ddysgu iddynt gadw pob peth a orchymynais i chwi," yn profi mor eglur ag y mae yn bosibl mai credinwyr yn unig sydd i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn yn annibynol ar drefn geiriau. "Yma," ebe un ysgrifenydd da, "y mae y personau bedyddiedig yn cael eu tybied yn alluog i gadw neu i ymarier pob ordinhad arall ag oedd Iesu wedi orchymyn; am hynny, nis gall babanod gael eu cynnwys. Dyma yw y commissiwn: pregethu yr efengyl i bob creadur; bedyddio y rhai a gredent i enw y Tad, y Mab, a'r Ystryd Glân; a dysgu i'r bedyddiedig yn ollaw i gadw pob peth a orchymynodd Iesu. Ni bu erioed gommissiwn yn hawddach ei ddeall, ac ni chafodd commissiwn erioed ei drosoddu mor ddiesgus. Ac er hynny, y mae trahauder doethineb ddynol, wedi diddymu yr holl ordinhad sydd yn cael ei gorchymyn. Taenellir dwf'r fabanod heb orchymyn, a gadewir credinwyr heb eu bedyddio, er mai hwyntwy yn unig sydd i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn." A'i nid hwn yw ysbryd annghrist? Barned y darlennydd!!



oes eisieu i'r bedyddiedig wybod dyben yr ordinhad, os bydd y rhieni a'r gweinidog yn gwybod, fel yr haera rhai Taenellwyr,\* paham na allesid rhoddi *addewid* iddynt befyd, er nad oeddynt yn ei deall, os oedd y rhieni a'r gweinidog yn ei hamgyffred? Yn ol yr olyg-ddysg ffiloregaidd o dan sylw, darfu i Grist, yn ei gommissiwn, awdurdodi dynion i fedyddio *pawb*, ond ni roddodd sicrwydd am *gadwedigaeth* neb heblaw "*credinwyr* bedyddiedig," a gadawodd y babanod heb un math o addewid, er ei holl hoffder o honynt!! Pe na fuasai Mathew wedi ysgrifenu gorchymyn ein Harglwydd, buasem yn ol yr haeriad disail a ddynoethwn yn meddu commissiwn heb un math o gyfarwyddyd ynddo o barthed deiliaid bedydd—dim ond "*addewid i gredinwyr* bedyddiedig!!" Onid yw dynion yn myned i eithafion peryglus wrth geisio ategu mympwyon, ac ystwytho Beibl anhyblyg Duw i dalu gwarogaeth i gymnyrchion dychymmyg!! Barnarhai fod Marc i raddau yn eglurach (ar yr olwg gyntaf) na Mathew yn ei gyfeiriad at deiliaid Bedydd, a'i fod yn cyfeirio at gadwedigaeth y *bedyddiedigion*, tra y mae Mathew a'i olwg yn fwyaf neillduol (yn yr adnodau dan sylw) ar gysur y *rhai a anfonid i fedyddio*. Gresyn ein bod fel hyn yn cael ein gorfodi i saethu at gastell yn yr awyr, ac i amddiffyn gwirionedd ag sydd mor eglur, fel nas gellir ei wneyd yn eglurach nag y mae yn y Testament Newydd.

*F drydedd egwyddor ydyw, fod golyg-ddysg a fyddo yn profi gormod, yn un i'w rhoi fyny, o herwydd y perygl i ba un y gwna ni yn agored.* Dywedir fod y commissiwn "yn un helaeth"—fod y geiriau 'yr holl genedloedd,' "yn cynnwys plant yn gystal a'u rhieni"—nas "gellir gwneyd dysgyblion o'r holl genedloedd, a gadael allan y plant." . . . . . "Pa fodd y gwneir dysgyblion o'r 'holl genedloedd?' Trwy eu bedyddio." Dywedir mai "ystyr y gair (*matheteusate*), a gyfieithir 'dysgwch,' yw, gwnewch ddysgyblion, neu broselyt-iaid, o'r holl genedloedd, trwy eu bedyddio." Yr ymresymiad mewn byr eiriau sydd fel y canlyn:—"Y mae'r "holl genedloedd," y rhai sydd i gael eu dysgu, o angenrheidrwydd yn cynnwys babanod. Nid yw cylch y bedyddio yn gyfyngach

na chyleh y dysgu; o ganlyniad, y mae'r "holl genedloedd" i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn. Nid ydym yn meddwl fod un Taenellwr a all roi yr ymresymiad gerbron yn decach nac yn gryfach. Pe caniateid gwirionedd y gosodiadau, byddem yn rhwym o dderbyn y casgliad a dynir o honynt; ond y gwir yw, fod diffyg yn y cynseiliau (*premises*), oblegid, fel y maent, profant ormod. Nid oes eisieu gwneyd rhagor na gosod yr ymresymiad mewn ffurf arall, fel y canlyn, mewn trefn i weled hyn. Y mae'r "holl genedloedd" i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn. Y mae'r "holl genedloedd" o angenrheidrwydd yn cynnwys gwallgofiaid, godinebwyr, meddwon, llofruddion, atheistiaid, &c., a phob dosparth arall o annuwiolion. O ganlyniad, y mae yr holl rai hyn i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn. Dyma'r *dilemma* i ba un y mae ymresymiad ein cyfeillion o angenrheidrwydd yn arwain; a boddlon neu beidio, rhaid iddynt farchogaeth ei chyrnau, neu roddi fyny y syniad fod yr "holl genedloedd" i gael eu bedyddio yn ol y commissiwn. Os gwrthodant fedyddio y cymmeriadau hyn, paham na wrthodant fabanod hefyd? Os dywedant fod babanod i gael eu bedyddio am eu bod yn "holl genedloedd" y commissiwn, dywedwn ninnau fod y cymmeriadau uchod i gael eu bedyddio am yr un rheswm. Os caniatânt nad yw y rhai hyn yn cael eu cynnwys yn yr "holl genedloedd," pa fodd y gallant brofi fod babanod ynddynt? Onid ar y dybiaeth fod "holl genedloedd" y commissiwn yn cynnwys *pob* dosparth, o'r baban newydd eni hyd yr hen wr ar fin y bedd, y dywedant eu bod yn cynnwys babanod? Ac os ydyw mor gynnwysfawr, rhaid ei fod yn cynnwys y cymmeriadau a nodasom. Os nad yw yn eu cynnwys, y mae'r dybiaeth sydd wrth sail yr ymresymiad yn syrthio i'r llawr, a rhaid i'r ymresymiad syrthio gyda hi, i wneyd i fyny un pentwr adfeiliedig.\*

Mewn trefn i ddangos mai yn yr ystyr *ëangaf* y defnyddiant yr "holl genedloedd," gwrandawer ar un o'u horaclau:—"Hefyd, gorchymynir dysgyblu yr holl genedloedd, gan, neu trwy, eu bedyddio, heb wahaniaeth rhyw nac oed; a chan fod plant yn gwneyd i fyny ran fawr, os nid y rhan fwyaf, o bob cenedl, rhaid eu bod o ganlyniad yn cael eu cynnwys mewn modd effeithiol yn y commissiwn. Nid yw y frawddeg '*holl genedloedd*,' byth yn cael

\* "Wrth fedyddio, nid oes angen ar i'r bedyddiedig ar y pryd wybod y dyben, os bydd y rhieni a'r gweinidog yn gwybod." (*Pregeth y Parch. J. Davies, Nerquis, tud. 24.*)

\* "SRREN GOMER," Gorph., 1862.



NEU YN RHEDIAD Y GWAHANOL YMADRODDION, YN GALW AM YSTYR ANNGHYFFREDIN.

Mewn trefn i geisio gwneyd y ddefod anysgrhythrol o daenellu dwfr ar fabanod yn ordinhad Feiblaidd, haera ein cyfeillion mai ystyr *matheteusate* a gyfieithir dysgwch yn y commissiwn ydyw, "*gwnewch ddysgyblion neu broseltyiaid o'r holl genedloedd trwy eu bedyddio*." Yn ol yr ystyr eangfawr hwn, y mae *matheteusate* yn cynnwys "yr holl genedloedd," yn gystal a "gwnewch ddysgyblion neu broseltyiaid o honynt." Os ydyw y ferf yn cynnwys ynddi ei hun, "yr holl genedloedd" a "thrwy eu bedyddio" hefyd, pahan gan hyny y darfu i Grist grybwyll "yr holl genedloedd" a "gan eu bedyddio?" A oes rhywun yn ddigon rhyfygus i haeru nad oedd ein Ceidwad yn deall ystyr y gair? Y mae'r gair hwn mewn *dau* fan yn y commissiwn (*dysgwch* yr holl genedloedd..... "*gan ddysgu* iddynt," &c.); o ganlyniad, os mai ei ystyr yw, "gwnewch ddysgyblion neu broseltyiaid o'r holl genedloedd trwy eu bedyddio," fel yr haera Taenellwyr, ewyllys y Ceidwad yw, fod iddynt gael eu bedyddio *ddwywaith*; y tro cyntaf i'w gwneyd yn ddysgyblion neu broseltyiaid, a thrachefn ar ol eu dysgyblu neu eu proseltyio. Y mae ynfyrwydd y fath esboniad (?) yn gyfryw, fel y mae gan y darlennydd braidd hawl i ddysgwyl ymddiheurad oddiwrthym am wneyd sylw o hono; ond yn gymaint a bod llawer yn ei gredu, ac yn ei ystyried yn sylfaen taenelliad babanod, gwnawn y sylwadau canlynol ar ystyr cyffredin *matheteusate*. Mewn trefn i gael allan ei wir feddwl, gwnawn yn ol yr egwyddor a osodasom i lawr ddilyn ei arferiad mewn manau ereill. Yr ydym yn meddwl mai teirgwaith yr arferir ef yn y Testament Newydd heblaw yn y commissiwn.

Yn Math. 13. 52, crybwyllir am "bob ysgrifenydd wedi ei ddysgu (*μαθητευται*) i deyrnas nefoedd," &c. Yn ol yr adnod a'r cyssylltiad, y mae yn amlwg fod *deall y pethau*, a bod wedi ei *ddysgu* i deyrnas nefoedd, yn golygu yr un peth, ac mai un wedi ei *ddysgu* sydd yn gallu dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen. Yn Math. 27. 57, dywedir am Joseph o Arimathea — "yr hwn a *fuasai* yntau yn ddysgybl (*μαθητης*) i'r Iesu." Ai wedi ei fedyddio yn ei fabanod yr oedd Joseph? neu ynte, a oedd efe wedi ei fedyddio o gwbl? Ni ddywedir hyny yn un man; ond dywed Ioan am dano ei fod yn

ddysgybl i'r Iesu, "eithr yn *guddiedig*, rhag ofn yr Iuddewon" (Ioan 19. 38). Yn Derbe, darfu i Paul a Barnabas "ennill llawer o ddysgyblion" trwy bregethu yr efengyl (Act. 14. 21). Pregethu yr efengyl oedd y gorchwyl cyntaf, a'r canlyniad oedd ennill llawer o ddysgyblion. Er nad yw *matheteuo* yn cael ei arfer mewn un man arall, heblaw yn y commissiwn, y mae genym ddywediad cyfochrog iddo yn Ioan 4. 1, yr hwn a ellir ystyried yn esboniad ar "dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy." Yma dywedir, "fod yr Iesu yn *gwneuthur a bedyddio mwy o ddysgyblion nag Ioan*." Wele yma wneuthur a bedyddio dysgyblion. Os mai trwy fedyddio y mae gwneuthur dysgyblion, pa synwyr sydd mewn *gwneuthur a bedyddio dysgyblion*? Nid yw ond yr un peth a dywedyd *gwneuthur a gwneuthur* dysgyblion, neu *bedyddio a bedyddio* dysgyblion. Beth bynag yw barn y Taenellwyr hyn am ysgrifenydd y Testament Newydd fel cyfansoddwyr, byddai yn anhawdd ganddynt briodoli y fath ynfyrwydd iddynt, er fod yr esboniad (?) hwn o'u heiddo ar *matheteusate* yn eu rhwymo i wneyd yr awdwr ysbrydoledig yn gyfrifol am y fath ffolineb\* anesgusodol. Y mae yn anhawdd cael dynaion yn fwy o wrth-ddrychau tosturi na'r rhai a geisiant seilio eu defodau anysgrhythrol a niweidiol, ar air Duw.† Oni raid fod dynion braidd

\* "Seren Gomer." Gorph. 1862, tud. 196—7.

† Ceisia'r Parch. Mr. P. awgrymu nad oedd Crist yn gwneuthur ac yn bedyddio dysgyblion:—"Ond dylid ymholi yn gyntaf." ebe efe, "pw y oedd yn dwyn y dystiolaeth hon, a pha fath oedd eu cymmeriad am dystio'r gwirionedd. Dywedir mai y Pharisaid oeddynt, a gwyddom nad oedd pob peth a ddywedai y blaidd hon am Grist yn wirionedd. Dywedent ei fod Ef yn bedyddio; ond fe ddywed Ioan na fedyddiasai Efe neb" (tud. 38). 1. Dylai Mr. P. wneyd *apology* i Ioan am ysgrifenu yr hyn nad yw wir o barthed iddo: "fe ddywed Ioan na fedyddiasai Efe neb!" ebe Mr. P., ond fel y canlyn y dywed Ioan ei hun:—"Wedi y pethau hyn, daeth yr Iesu a'i ddysgyblion i wlad Judea; ac a arosodd yno gyda hwynt, ac a fedyddiodd" (Ioan 3. 22). Pa un ai y Testament Newydd ynte Mr. P. sydd yn hawlio crediniaeth, barned y darlennydd. Ceir math o eglurhad neu esboniad (rhwng cromfachau) ar yr adnod uchod yn pen. 4. 2, ac ymddengys mai yr adnod hono yn *unig* a welodd Mr. P. Yn ol yr adnod hon, nid oedd Crist yn *gweinyddu* bedydd yn *bersanol*, ond gweithredai yr apostolion o dan ei awdurdod. O ganlyniad, gosodir ef allan fel yn gwneuthur yr hyn a wnaud mewn ufydd-dod i'w orchymyn ac wrth ei gyfarwyddyd. 2. Nid oes dim yn yr hanes yn awgrymu fod y Pharisaid wedi *lunio* oelwydd ar Grist, ond yn hollol i'r gwrthwyneb; dywedir mai wedi *elydd* yr oeddynt, ac nid oes cymmaint a



wedi gwallgoffi, cyn y beiddiant haeru yn ngwyneb adnod mor eglur a phendant, mai yr un peth yw dysgu a bedyddio. Y peth cyntaf mewn trefn yn ol y geiriau hyn oedd *gwneuthur* dysgyblion, yna eu bedyddio fel cydnabyddiaeth o hyny. Y mae gwneuthur a bedyddio dysgyblion yn *ddau* beth gwahanol, medd y Beibl; *na*, ebe'r Taenellwyr, *un* weithred yw y ddwy; geiriau *cyfystyr* yw dysgu a bedyddio. Y maent hwy yn rhwym o haeru fel hyn yn erbyn y Beibl, neu roi fyny daenelliaid babanod, oblegid y maent yn gwybod nas gellir gwneyd y rhai bychain yn ddysgyblion cyn gweinyddu y seremoni arnynt. Os mai y commissiwn yw "yr *unig* orchymyn a roddodd Crist gyda golwg ar fedydd," ac os mai "trwy fedyddio y mae cyflawnu hwn," ni ddylid *pregethu* i, neu ddysgu neb *cyn* eu bedyddio (h.y., dysgu cyn dysgu!), nae yn wir *wedi* eu bedyddio; oblegid y mae'r dyferynau a daenellir yn cynnwys y cyfan, fel y mae yn anhawdd gwybod beth arall sydd eisieu i wneyd dyn yn barod i'r nefoedd. I ba beth y mae pregethu dda nis gwyddom. Yn ol yr egwyddor daenellyddol hon, nid oes a fydd dysgybl â dysgu o gwbl! nid un yn *dysgu yw dysgybl*, ac nid oes a fydd dysgu â gwneuthur dysgyblion!! Fel y canlyn y llefara un o athrawon taenelliaid ar y pwnc:—"Dysgyblion Moses (ebe'r Iuddewon) ydym ni (Ioan 9, 27, 29). Pa bryd y cawsant eu gwneuthur yn ddysgyblion Moses? Pan yn fabanod. Pa fodd? Trwy gael eu henwaedu. Pa fodd y gwneir babanod y cenedloedd yn ddysgyblion i Grist? Trwy eu bedyddio." Pa ryfedd fod un awdwr bedyddiedig yn

sill yn yr adroddiad yn rhoi ar ddeall i ni ddarfod i'r Phariseaid hyd y nod *ail adrodd* yr hyn a glywsent, er fod Mr. P. yn haeru mai hwyntwy oedd "yn dwyn y dystiolaeth!" "Pan glybu yr Arglwydd, gan hyny, *glywed* o'r Phariseaid fod yr Iesu yn gwneuthur ac yn bedyddio mwy o ddysgyblion na Ioan." Yr ydym yn gofyn yn ddi-frifol a oes *rhwy* fath o sail i haerriad Mr. P. yn y geiriau hyn? Gresyn fod gweinidog efengyl yn gallu gwneyd y fath beth er mwyn amddiffyn mympwy. "Ymddengys," ebe Dr. A. Clarke, "fod y rhai hyn yn cael eu dyfynu fel y gwir eiriau a *ddygwyd* at y Phariseaid." "As they (Pharisees) were displeased with John," ebe Barnes, "so they were with Jesus, who was doing the same thing on a larger scale, not only making disciples, but baptizing also without their authority, and drawing away the people after him." Fel yna yr ysgrifena y Taenellwyr hyn; ac nid ydym yn gwybod am un Taenellwr heblaw y Parch. R. P., yn meddu digon o *nerce* i wneyd yr haerriad dsail a ddy-noethir yma.

dweyd fod y ddefod o daenelliaid yn fwy gwerthfawr filwaith na'r *Philosopher's stone*, os yw y dyferynau yn gwneuthur y baban yn ddysgybl i Grist. Proffesa y Pabyddion a'r Puseyaid ei aileni yn y bedydd, a dysga y Llyfr Gweddî Cyffredin y gwneir babanod yn eu bedydd "yn blant i Dduw, yn aelodau o Grist, ac yn etifeddi- ion teyrnas nefoedd." Barna yr Anni- bynwyr a Thaenellwyr ereill fod y syniadau uchod yn *libel* ar Gristionogaeth; ond byddai yn ddymunol gwybod pa wahan- iaeth sydd rhyngddynt a'u heiddo hwy? Os mai trwy eu bedyddio y mae gwneyd babanod a phawb yn ddysgyblion, onid yw bedydd o angenrheidrwydd yn eu dwyn i afael bendithion dysgyblion? A pha beth yw y bendithion hyny ond y rhai y proffesa Pabyddion ac Episcopaliaid eu cyf- ranu *trwy*, neu yn y peth a alwant yn fedydd?\*

Ond ai enwaedu a thaenellu yw ystyr y

\* "Son am y Bedyddwyr yn gwneuthur mws- twr yn nghylech bedydd, ac yn rhoddi pwys gor- modol arno! Ni chlywsom ni erioed etto am un Bedyddiwr yn dywedyd mai trwy fedydd wrtho ei hunan y mae gwneuthur dysgyblion. Pe credem ni yr hyn a ddywed y Taenellwyr hyn, byddai ein mwstwr yn llawer mwy, ac ni theimlem ein cyd- wybod yn dawel hyd nes byddem wedi bedyddio pawb, ie, wedi bedyddio yr holl genedloedd, bodd neu anfodd, yn ystyr helaethaf y gair. Beth! eu gadael heb eu gwneuthur yn ddysgyblion, a'u gwneuthur yn ddysgyblion yn aros ar ein llaw ni trwy weithred mor hawdd! Mynem ryw ffordd i'w bedyddio oll, pe credem fod y fath fendith an- nhraethol a bod yn ddysgyblion i Grist yn dyfod i'w gafael trwy daenella yehydig ddwfr arnynt." Etto, "A ydych chiwi a'ch brodyr yn credu hyn, syr?" (sef mai trwy fedyddio yr holl genedloedd y mae cyflawnu y commissiwn.) Os ydych, chiwi ddylech fyned allan, chiwi a'ch brodyr, â'r *basin* bach yn eich llaw, heb gyfarch gwell i neb ar y ffordd, a llawer mwy heb bregethu, rhag colli amser, a bedyddio pawb, bodd neu anfodd, oblegid felly meddwch chiwi eich hunan (yr hwn a wrthwy- neba) y mae gwneuthur dysgyblion o'r holl genedloedd yn ol y commissiwn. Bedyddio ddylech chiwi, a phawb sydd yn *endorso* eich tybiadau, o flaen pob peth arall, oblegid meddwch, 'Trwy fedyddio yr holl genedloedd, y mae cyflawnu y gorechymyn.' Ai fel hyn y mae eich cenadon yn gwneyd yn mysg y paganiaid? Ai fel hyn y gwnewch chiwi a'ch brodyr gartref gyda rhai mewn oedran? Cofiwch mai y commissiwn, yn ol Mathew, yn ol eich gosodiad chiwi yw, 'yr unig orchymyn a roddodd Crist gyda golwg ar fedydd; a chofiwch hefyd 'mai dysgu *trwy*, ac nid *cyn* bedyddio, yw y commissiwn, ac mai 'trwy fedyddio yr holl genedloedd y mae cyflawnu y gorechymyn' yn ol eich esboniad chiwi.' (Parch. E. Roberts, *Pontypridd, i ysgrifau campus yr hwn yr ydym yn ddyledus am amryw o'r sylwadau dilynol a geir yn yr erthygl hon ar y commissiwn.*)



gair *dysgybl* yn Ioan 9. 27—29? Ai meddwl y dall pan yn gofyn, “A ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddysgyblion iddo ef?” oedd, A ydych chwithau yn ewyllysio cael eich *bedyddio*?

Yn mhellach, ai meddwl yr Iuddewon wrth ddywedyd:—“Tydi sydd ddysgybl iddo ef, eithr dysgyblion Moses ydym ni,” oedd, Yr wyt ti wedi dy *fedyddio*, eithr nyni a *enwaedwyd*? Nid ydym yn meddwl fod y Taenellwyr yn ddigon ynfyd i haeru mai hynyna a olygent, er y rhwyma y brawddegau a ddyfynwyd hwy i wneyd hyn ar dir cyssondeb. Os mai trwy yr enwaediad y gwnawd yr Iuddewon yn ddysgyblion i Moses, sut y gellir cyssoni y fath athrawiaeth â'r rheswm a rydd yr Iuddewon eu hunain am fod yn ddysgyblion iddo? sef, y “gwyddent *lesaru o Dduw wrth Moses*?” A oeddynt yn gwybod hyn cyn eu henwaedu yn wyth niwrnod oed? Amlwg yw eu bod yn ddysgyblion i Moses o *ddewiadiad*, ac nid am eu bod wedi eu henwaedu, ac mai hyn oedd eu cred pan yn siarad â'r dall. Eu gwybod-aeth o awdurdod Moses fel dysgawdwr a barai iddynt broffesu bod yn ddysgyblion iddo ef, a'u hanwybodaeth am Iesu Grist oedd eu hesgusawd dros beidio bod yn ddysgyblion iddo yntau. Y mae gofyniad y dall, “A ydych chwithau yn ewyllysio bod yn ddysgyblion iddo ef?” yn tybied mai ffrwyth *ewyllys* yw bod yn ddysgyblion i Grist; ac y mae atebiad yr Iuddewon yn cydgordio yn berffaith â hyn; profffesent eu hunain yn ddysgyblion i Moses, am y *gwyddent lesaru o Dduw wrtho ef*; ond nid yw y naill na'r llall yn cytuno â'r dybiaeth eu bod yn ddysgyblion trwy eu henwaediad. Heblaw hyn, pe ar gyfrif yr enwaediad yr oeddynt yn ddysgyblion Moses, yr oedd y dall yn gystal dysgybl i Moses a hwythau, a Christ hefyd o ran hyn; oblegid yr oedd pob un o honynt wedi derbyn yr enwaediad. Y mae yn amlwg i bob meddwl diragfarn, fod syniadau ein cyfeillion yn arwain i eithafoedd a gwrthuni. Beth ond dallineb wedi ei achosi gan ragfarn sydd yn rhwystro ein cyfeillion i weled mai geiriau cyd-berthynasol (*correlatives*) yw *dysgybl* ac *athraw*, fel *gwas* ac *Arglwydd*? “Nid yw y dysgybl yn uwch na'i athraw, na'r gwas yn uwch na'i Arglwydd” (Math. 11, 24, 25; Luc 6. 40; Ioan 13. 16; 15. 20). Pwy yw gwir ddysgyblion Crist? Ai rhai wedi eu bedyddio iddo yn *unig*? Nage; a bydded Crist ei hun yn farnwr:—“Yna y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon a gredasant

ynddo, os aroswech yn fy ngair i, dysgyblion i mi ydych yn wir” (Ioan 8. 31). “Os daw neb ataf fi, ac ni chasâo ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i chwiorydd, ie, a'i einioes ei hun hefyd, ni all fod yn ddysgybl i mi. A phwy bynag ni ddycco ei groes, a dyfod ar fy ol i, ni all efe fod yn ddysgybl i mi” (Luc 14, 26, 27). Un yn gwybod rhywbeth am eiriau Crist, ac yn aros ynddynt—un yn dyfod at Grist, ac yn ei barchu ef yn fwy na phob peth arall, yw dysgybl; ar gyfrif hyn y mae yn ddysgybl i Grist yn ol barn Crist ei hunan, ac nid yn unig am ei fod wedi ei fedyddio, fel yr haera y Taenellwyr.

Y mae'r fympwy a wrthwynebnwn mor groes i'r Geirlyfrau ag y mae i air Duw:

LIDDELL AND SCOTT: *μαθητευω*, *To be a pupil or scholar*: trans. *to make a disciple of one*; *teach, instruct*, from *μαθητης*, *a learner, a pupil*. Lat. *discipulus a discipule*.” ROBINSON: “*To disciple*. i.e., (a) intrans. *to be a disciple of any one*, Math. 27. 57; (b) in the New Test., also trans. *to train as a disciple, to teach, to instruct*, Act. 14. 21; Math. 13. 52; 28. 19.

Yn ol yr awdurdodau hyn, a llawer ereill a allesid grybwyll, gwir ystyr *μαθητευω* yw *dysgu*, gwneuthur dysgyblion trwy ddysgu, neu arwain i'r fydd Gristionogol. Fel hyn y mae arferiad y gair mewn manau ereill o'r Testament Newydd, ac awdurdod y Geirlyfrwyr, yn dangos mai *trwy ddysgu* y mae gwneuthur dysgyblion, ac *nid trwy fedyddio*. Gorchwyl hawdd fyddai profi mai dyma yr ystyr a roddai y Groegiaid i'r gair. Gwasanaethed enghraifft neu ddwy:—“Yr wyf yn awr ond megys dechreu *dysgu*” (*matheteuesthai*), ebe Ignatius, “ac yr ydwyf yn siarad â chwi fel cyd-ddysgyblion.” Etto:—“Bydded iddynt hwy gael eu dysgu (*matheteuthenai*) gan eich gweithredoedd da chwi.” Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid dywed:—“Mi a ddymunwn gan hyn fod i'r pethau hyn hefyd gael eu cadarnhau yn eich ymddygiad, y rhai a osodasoch allan wrth ddysgu (*matheteuontes*),” &c. (Dr. Gale, p. 284—286.)

Onid yw yn rhyfedd fod rhai yn ngwyneb yr ystyriaethau annymchweladwy blaenorol, yn para i haeru yn gyhoeddus a gwyneb-bresaidd, “mai ystyr y gair a gyfieithir ‘dysgwch’ (*matheteusate*) yw, gwnewch ddysgyblion neu broselytiaid o'r holl genedloedd trwy eu bedyddio!”—“nas gellir gwneyd dysgyblion o'r holl genedloedd, a gadael allan y babanod”—ac mai “trwy eu bedyddio y gwneir batanod yn ddysgyblion, fel y gwnelid yr



## BEDYDD.

Iuddewon yn "ddysgyblion trwy yr enw-  
nediad!!" Y mae llawer iawn o Daenell-  
wyr dysgedig yn edrych gyda dirmyg  
goruchel ar y ffiloreg a ddynoethasom yma;  
ac yn darllen y commissiwn fel hyn:—  
"Ewch gan hyny, a gwnewch ddysgyblion  
o'r holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy  
yn enw," &c. Fel yna y mae Boothroyd  
yn ei ddarllen, a sylwa fel y canlyn ar y  
lle:—"Gan eu bedyddio hwy *ar ol* eu  
gwneyd yn ddysgyblion. Pe cadwasai  
dysgawdwr Cristionogaeth at y rheol  
hon, dedwydd fuasai hyny i ddynolryw!  
Gynnifer o bethau y maent wedi orchymyn  
i ddynion gadw na orchymynodd ein Har-  
glwydd erioed." Yn ol Boothroyd, a  
Thaenellwyr dysgedig ereill, nid gorchym-  
yn i "*fedyddio* yr holl genedloedd" a gaf-  
odd yr apostolion, ond gorchymyn i wneyd  
dysgyblion o honynt, trwy bregethu yr  
efengyl iddynt, a bedyddio y rhai hyny i  
enw y Tad, y Mab, a'r Ysbyrd Glân. Nid  
at yr holl genedloedd y mae hwy yn cy-  
feirio, ond at y rhai a wneid yn ddysgybl-  
ion, fel y cawn ddangos yn y sylwadau  
canlynol.

Y mae'r bummed egwyddor yn dâl cys-  
sylltiad agosach â gramadeg nag â duwin-  
yddiaeth; sef:—*Naraid fod rhangymmeriad*  
*a fyddo yn dilyn berf derfynol, yn cael ei ar-*  
*fer fel eglurhad ar y fers ddywededig; neu,*  
*nad gosod allan pa fodd y cyflawnir gweithred*  
*y fers derfynol y mae y rhangymmeriad yn*  
*y sefyllfa hono.* Mewn trefn i geisio  
atgwyboda'r olyn-ddysg a ddyddychwelasom  
ddiweddaf (sef, mai trwy fedyddio y mae  
dysgu neu wneyd dysgyblion), ceisir  
gwneyd allan mai eglurhad ar *matheteu-*  
*sate* ("dysgwch") yw y rhangymmeriad  
(*participles*) "gan fedyddio," a "gan  
ddysgu;" hyny ydyw, mai yr hyn a ddysgir  
yw, mai *gan* neu *trwy* fedyddio, a dysgu i  
gadw, &c., y mae gwneuthur dysgyblion.\*  
Dywed y gramadegydd dysgedig Mat-  
thiae, yn ei sylwadau ar y *Greek partici-*  
*ple*, fel y canlyn:—"Pob gweithred a  
oddefa ei hystyried fel yn unig yn dilyn  
un arall, yr hon yw y brif weithred, ac a  
all fel hyn gael ei gosod allan fel amgylch-  
iad ychwanegol at hon; yr oedd y Groeg-

wyr yn hoff o'i chyflëu trwy rangymmeriad;  
ac hyd y nod pan fyddai dwy fers derfynol  
yn cael eu cydio yn nghyd gyda *καί*,  
rhoddid un o honynt yn gyfiredin yn  
rhangymmeriad, gan adael y rhwymyn  
allan. . . . . Y mae amryw rangymmer-  
iaid yn sefyll yn yr un gosodiad heb gys-  
sylltiad, lle y gwnelai y manig cyssylltol  
osod allan y berfau hyn fel amryw weith-  
redoedd gwahanedig." Gwasanaetha yr  
enghreiffiau canlynol i egluro y ddeddf  
hon o eiddo Matthiae:—Math. 9. 35,  
"A'r Iesu a *aeth* o amgylch yr holl ddi-  
nasoedd a'r trefydd, *gan ddysgu* yn eu  
synagogau hwynt, a *chan bregethu* efengyl  
y deyrnas; a *iachau* pob clefyd a phob  
afiechyd yn mhllith y bobl." Dyma *bedair*  
gweithred wahanol; y gyntaf yn cael ei  
gosod allan trwy fers derfynol, a'r tair  
dilnol trwy rangymmeriad. Ai trwy  
*ddysgu*, *pregethu*, a *iachau*, y cyflawnwyd y  
*myned* hwn o eiddo Crist, ynte tair gweith-  
red wahanol ac ychwanegol at y *myned*  
ydynt? Yr ydym yn sicr nad oes un  
Taenellwr, a'wyr ryw beth am ramadeg,  
mor ynyd a haeru mai *eglwriad* ar y fers  
derfynol *myned* (*aeth*) yw y rhangymmer-  
iaid dilnol. Ar ba dir oddieithr ar dir  
mymppy a rhagfarn ynte, y ceisir gwneyd  
y commissiwn yn eithriad? Etto:—  
(Eph. 5. 18—20), "Eithr *llanwer chwi*  
(*πληροῦσθε*) a'r Ysbyrd, *gan lefaru* wrth  
eich gilydd (*ἀλλήλους*) . . . . . gan ganu a  
phyncio yn eich calonau i'r Arglwydd;  
*gan ddiolch* (*ευχαριστοῦντες*) yn wastad i  
Dduw," &c. Wele yma bwn gweithred  
wahanol,—y gyntaf yn cael ei gosod allan  
trwy fers derfynol, a'r pedair dilnol trwy  
rangymmeriad. Col. 3. 16:—"Prescylled  
gair Crist yn och yn helaeth yn mhob  
doethineb; *gan ddysgu* a *rhybyddio* bawb  
eich gilydd. . . . . *gan ganu* trwy ras,"  
&c. Cawn yma bedair gweithred, y gyntaf  
yn cael ei gosod allan trwy fers derfynol,  
a'r tair ereill trwy rangymmeriad. Gellid  
dwyn llawer o siamplau ereill; ond gwas-  
anaetha hynyna i egluro rheol Matthiae,  
ac i lwyd ddyddychwelyd castell dychym-  
mygol ein gwrthwynebwyr. Yn awr, ni a  
welwn fod y *myned* oddiamgylch yn blaen-  
ori y *dysgu*, a'r *pregethu*, a'r *iachau*, yn  
Math. 9. 35; neu o leiaf, fod y rhangym-  
meriad, *gan ddysgu*, *gan bregethu*, a *chan*  
*iachau*, yn gosod allan weithrediau gwa-  
hanol oddiwrth yr *aeth* a blaenora. Pa-  
ham, gan hyny, nad yw *βαπτίζοντες* a  
*διδασκοντες* y commissiwn yn gosod allan  
weithrediau gwahanol oddiwrth y *μα-*  
*θητευσάτις*? A phaham nad yw y *dysgu*,

\* Gwneir dysgyblion weithiau trwy eu bed-  
yddio yn unig; bryd arall, rhaid eu dysgu wedi  
eu bedyddio cyn y byddont yn ddysgyblion cyf-  
lawn; fel y gellir meddwl mai rhyw *hanner* dysg-  
yblion oeddnt wedi eu bedyddio. Y mae gan  
ein cyfeillion y fath llosgogrwydd o *theories* gwrthi-  
wynebol i'w gilydd, fel y mae yn anhawdd gwy-  
bod (os gwyddant eu hunain) pa beth y maent yn  
feddwl.



neu y gwneuthur dysybblyon, yn blaenori y *bedyddio* a'r *dysgu* i gadw? Yr un yw cyfansoddiad (*construction*) y brawddegau yn y naill a'r llall. Ai trwy *lesaru*, *canu*, *pyncio*, a *diolch*, yr oedd yr Ephesiaid i gael eu llanw a'r Ysbryd? Onid y "*llanwer* chwi a'r Ysbryd," yn hytrach, oedd i flaenori, *fel* y byddai i'r *llefaru*, a'r *canu*, a'r *pyncio*, a'r *diolch* ddilyn? A allasai y Colosiaid *ddyysgu* a *rhybyddio* eu gilydd heb fod gair Crist, i ryw raddau, yn *preswyllo* ynddynt yn flaenorol? Yr oedd y gair i *breswyllo* ynddynt *fel* y gallent *ddyysgu* a *rhybyddio* bawb eu gilydd. Gan fod cys-trawen y comissiwn yn hollol yr un fath a chystrawen y siamplau a nodasom, y mae y *dysgu* o angenrheidrwydd yn blaenori y rhangymmeriad "*gan fedyddio*." Gan fod y rhangymmeriad yn yr adnodau hyn yn gosod allan weithrediadau gwahanol oddiwrth weithrediadau y berfau terfynol perthynol iddynt, pahan nad yw y rhangymmeriad βαπτισμός yn y comissiwn, yn gosod allan weithred wahanol i'r ferf derfynol μωθειστας? Onid yw y comissiwn yn ddarostyngedig i'r un rheolau ieithyddol a rhanau ereill o'r Testament Newydd? Dyged ein gwrthwynebwyr ryw reol neu siampl yn erbyn hyn os gallant; nid ydym ni yn gwybod am un yn ei erbyn, ond gallwn ddwyn llawer o'i du. Os mai yr un peth a olyga *dysgu* a *iachau*, yn Matthew 9. 35, a'r ferf derfynol *myned*, neu os ydynt yn egluro y *myned*, yr un peth yw *dysgu* a *bedyddio* yn y comissiwn; ond os dynodant weithredoedd gwahanol, ar yr un egwyddor y mae'r *bedyddio* yn wahanol i'r *dysgu* yn Math. 28. 19. Os mai geiriau i egluro "*llanwer*" yn Eph. 5. 18—20 yw *llefaru*, *canu*, *pyncio*, a *diolch*, yr ydym yn foddol caniatu mai eglurhad ar y *dysgu* yn y comissiwn yw *bedyddio*; ond, o'r ochr arall, os ydynt i gael eu hystyried yn bethau gwahanol i'r *llanw*, ac nid yn eiriau i'w egluro, yr ydym yn dweyd yn hyf, heb ofni cael ein gwrthwynebu yn llwyddiannus, mai hollol wahanol i'r *dysgu* yw'r *bedyddio* yn nghomissiwn ein Harglwydd. Os nad oes gan y Taenellwyr hawl i wneyd *fel* y gwelont yn dda â deddfau iaith i ateb eu dybenion personol mewn amgylchiadau neillduol, y mae yn anmhossibl iddynt amddiffyn yr ymresymiad a ddy-noethir yma.

Y mae'r *chwechfed* reol etto yn perthyn i ramadeg, *fel* yr un flaenorol; sef, *Nad yw rhai rhagenwau Groeg bob amser*

*yr un hyd a'r un led a'u rhagflaenedyddion* (*antecedents*), a'u bod weithiau yn cyfeirio at eiriau a arwyddir (*implied*) mewn rhyw air blaenorol, neu a awgrymir (*suggested*) oddiwrth natur y cyssylltiad. Ymdrechir gwneyd y rheol hon yn hollol ddealladwy yn yr enghreittiau a ddygir i'w hegluro a'i phrofi. "Y mae y *dysgu* a'r *bedyddio* i fod yr un hyd a'r un led," meddai y Taenellwyr; "y mae'r naill i fod mor helaeth a'r llall. . . . Nid *dysgu* 'yr holl genedloedd,' gan *fedyddio* rhai o honynt, ond *dysgu* 'yr holl genedloedd' gan eu *bedyddio* *hwy*," yw y gorchymyn. Pwy sydd i gael eu *dysgu*? "Yr holl genedloedd." Pwy sydd i gael eu *bedyddio*? Pawb a *ddysgir*." Fel yna yr ymresymir. Y mae'r darlennydd yn gweled mai ar y rhagenw *hwy* y sylfaena ein cyfeillion y rhan hon o'r ddadl. Cyn cynnyg sylwadau beirniadol ar y rhagenw *hwy*, yr ydym yn sylwi nad yw o nemawr pwys i ni, pa un a ydyw *hwy* yn y comissiwn "yr un hyd a'r un led" a'r "holl genedloedd" neu beidio; oblegid, *fel* y dangoswyd yn ddigon eglur, meddwl y gair *matheteusate* yw gwneuthur dysgybblyon trwy eu *dysgu*; gan hyny, mis gall yr holl genedloedd sydd i'w *dysgu*, gynnwys mwy na lai na'r rhai galluog i dderbyn *dysgu*. Fodd bynnag, ynfydrwydd yw bod yn hyderus obarthed hyd a led y rhagenw dan sylw, *fel* y dengys y sylwadau canlynol. Yn Luc 5. 17, darllenwn:—"A bu ar ryw ddiwrnod, *fel* yr oedd efe yn athrawiaethu, fod y Phariseaid a doctoriaid y gyfraith yn eistedd yno, y rhai a ddaethent o bob pentref yn Galilea, a Judea, a Jerusalem; ac yr oedd gallu yr Arglwydd i'w iachau *hwynt* (*autous*)."

Am bwy y saif yr *hwynt* hwn? A ydyw *autous* "yr un hyd a'r un led" a'r "Phariseaid a doctoriaid y gyfraith, y rhai a ddaethent o bob pentref yn Galilea, a Judea, a Jerusalem?" A oeddynt oll yn afiach? At bwy y gall "gallu yr Arglwydd i'w iachau *hwynt*," gyfeirio, ond at y rhai afiach yn eu plith? gan hyny, dyma *autous* yn cael ei arfer heb fod "yr un hyd a'r un led" a'i ragflaenedydd. Beth ddywedir o barthed yr holl ddrw am y rhagenw *autous* yn ngwyneb hyn? Yn Luc 4. 15, darllenir:—"Ac yr oedd efe yn athrawiaethu yn eu synagogau *hwynt*." Synagogau pwy? Yr adnod o flaen hon sydd *fel* y canlyn:—"A'r Iesu a ddychwelodd trwy nerth yr Ysbryd i Galilea; a sôn a aeth am dano ef trwy yr holl fro oddiamgylch." Yr enwau o flaen "*hwynt*"



yma yw Galilea, *son*, a *bro*, ac nis gall *hwynt* (*αυτων*) fod “yr un hŷd a’r un lled” a’r naill na’r llall, oblegid y mae pob un o honynt yn y rhif unigol, tra y mae *hwynt* yn y rhif luosog. Y mae Winer yn cyfrif am hyny, neu yn ei esbonio fel y canlyn:—*αυτος* yn y lluosog, yn aml a gyfeiria at enw cynnullol, yn enwedig enw lle-neu wlad, gan gynnwys syniad o’r trigolion” (*Greek Gram. to the N. T.*, *Clarke’s ed.*, p. 158). Cyfeiria at 1 Thes. 1. 9; Math. 4. 23; 9. 35; 11. 1; Act. 8. 5; 20. 2; 2 Cor. 2. 12, 13, am enghreifftiau. Dywed y Parch. W. Trollope fel y canlyn:—“Y gair at yr hwn y cyfeiria ansoddair, neu ragenw, weithiau yn unig a arwyddir (*implied*) mewn rhyw air blaenorol, neu a awgrymir (*suggested*) oddiwrth natur y cyssylltiad. Y mae hyn yn bod yn neillduol yn y Testament Newydd gyda y rhagenw dangosol *αυτος*, yr hwn bob amser a arwydda mewn ystyr gynnullol, drigolion y wlad, a enwir yn y frawddeg flaenorol” (*Greek Gram. to the New Test.*, p. 43). Dywed Winer hefyd:—“*Αυτος* a gyfeiria weithiau naill ai at air a enwir yn flaenorol, neu o leiaf, at air dealliedig yn y brif ferf. 1 Pedr 3. 14:—‘Nac ofnwech rhag eu hofn *hwynt*,’ hyny yw, rhag ofn y rhai a’ch drygant (*τοις κακουσιν υμας*), dealliedig yn ‘a phwy a’ch dryga chwi’ (*τις ο κακουσιν υμας*) yn yr adnod o’r blaen” (*Greek Gram. to the New Test.*, p. 159). Eph. 5. 12:—“Canys brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt *hwy* (*αυτων*) yn ddirgel.” “Yr un hŷd a’r un lled” a pha beth yw *hwy* yma? Nid oes un enw yn blaenori y gall yr *hwy* hwn gyfeirio ato. Yn ol Winer (yn mha le y ceir awdurdod uwch?) nid cyfeirio at air yn cael ei arfer, ond at air dealliedig yn “gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwech,” yn yr adnod o’r blaen y mae; hyny yw, “brwnt yw adrodd y pethau a wneir yn ddirgel” gan y rhai sydd yn ymarfer â “gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwech.” Yn 2 Cor. 5. 19, cawn enghraifft arall gyffelyb, lle nis gall yr *αυτος* fod yr un hŷd a’r un lled a’r enw sydd yn myned o’i flaen, “sef bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd (*κοσμον*) âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt (*αυτοις*) eu pechodau.” Er mai *κοσμον* (byd) yw yr enw sydd yn myned o flaen *αυτοις*, nid hwn yw rhagflaenydd *αυτοις*; neu, ynte, rhaid fod y byd yn cael ei arfer mewn ystyr cyfyngedig iawn; oblegid nid yn unig y maent yn aunghytuno mewn rhif, gan fod y cyntaf yn unigol, a’r ail yn lluosog, ond gwneelai

hyny i’r apostol i ddywedyd, nad yw Duw yn cyfrif pechod i’r byd; neu, mewn geiriau ereill, fod Duw yn maddeu pechodau yr holl fyd. Ond yn ol y gramadegwyr dysgedig y dyfynasom o’u gweithiau, y mae rhagflaenedydd *αυτοις* yn ddaelledig yn y *καταλλασσιν* a flaenora; a’r meddwl o ganlyniad yw, “heb gyfrif eu pechodau i’r rhai cymmodedig.” Yn mha le y cafodd y Taenellwyr hawl i ddirmygu cystrawen ac i sathru ieithyddiaeth, trwy haeru nad yw y commissiwn i gael ei ddeall yr un modd? “Eweh a dysgwech, neu gwnewch ddysgybllion o’r holl genedloedd, gan fedyddio y rhai a ddysgir, neu a wneir yn ddysgybllion, gan ddysgu iddynt gadw pob peth a’r orchymynais i chwi.” Dangoswyd yn barod fod arferiad *αυτος* mor gyffredinol, fel y cymmer yr ystyr hwn, ac nas gall gymmeryd unrhyw ystyr arall yn yr enghreifftiau a ddyfynasom, a bod y darlleniad uchod o’r commissiwn yn berffaith gyson âg arferiad *αυτος* mewn manau ereill. Heblaw hyny, fel y sylwa y Parch. E. Roberts, nid yw *αυτους*, a *παντα τα εθνη*—*hwy* a *holl* genedloedd y commissiwn, yn cytuno â’u gilydd mewn cenedl. Gwrrywaidd yw y cyntaf, a diryw (*neuter*) yw yr ail; ond cytuna *αυτους* a’r *μνηται*—*dysgybllion* dealliedig yn *μαρτυροεισιν* mewn cenedl, ac yn mhob peth arall (Gwel SEREN GOMER, 1862.)

Wedi dangos mai yn nychymmyg y Taenellwyr yn unig y bodola dadl *hwy* (*αυτους*) y commissiwn, dangoswn yn mhellach y gwrthuni anocheladwy i ba un y mae yn arwain. Pwy sydd i gael eu dysgu? “Yr holl genedloedd,” yn ol barn y Taenellwyr hyn (ond dangosasom nas gallant, ac nad ydynt yn cymmeryd arnynt i wneyd hyn). Pwy sydd i gael eu bedyddio? Pawb a ddysgir yw eu hatebiad; ond yn gymmair ag nas gallant ddysgu babanod, ni ddylent eu bedyddio, oblegid haerant fod “y dysgu a’r bedyddio yr un hŷd a’r un lled.” Ond yn annibynol ar hynyna (yr hyn a ddynoethwyd yn barod); os yw “y dysgu a’r bedyddio i fod ‘yr un hŷd a’r un lled,’ oni raid fod y bedyddio a’r “dysgu i gadw pob peth a’r a orchymynais i chwi,” hefyd, “fod yr un hŷd a’r un lled?” Os yw yr holl genedloedd yn yr ystyr eangaf i gael eu bedyddio fel yr haerir, y mae y rhai hyny i gael eu dysgu hefyd i “gadw pob peth” a orchymynodd Crist; canys y rhai a fedyddir, yn ol geiriau Crist ei hunan, sydd i gael eu dysgu i “gadw pob peth” a orchymynwyd ganddo. A ydyw y



Taenellwyr yn dysgu eu babanod bedyddiedig i gadw pob peth a orchymynodd Crist? Os yw y βαπτίζετε=*gan fedyddio*, yn rhan o'r μαρτυροῦσθε (dysgwch), y mae δδασκοντες=*gan ddysgu*, yn rhan o hono hefyd; oblegid rhangymmeriad, yn yr un cyssylltiad cystrawenol, yw y ddau; ac y mae cymmaint o reswm dros ddywedyd, "Gwnewch ddysgyblion o'r holl genedloedd, trwy ddysgu iddynt gadw pob peth a'r orchymynais i chi," ag sydd mewn dywedyd, "Gwnewch ddysgyblion o honynt trwy eu bedyddio." Os dywedir fod yr hwy sydd i gael eu bedyddio yr un mor helaeth a'r "holl genedloedd" sydd i gael eu gwneuthur yn ddysgyblion, yr ateb yw, fod yr hwy sydd i gael eu dysgu wedi eu bedyddio hefyd yr un mor helaeth, oblegid αὐτοὺς (*autous*) a saif am y naill a'r llall; ac os mai "yr holl genedloedd" yw rhagflaenedydd (*antecedent*) yr αὐτοὺς cyntaf, "yr holl genedloedd" yw rhagflaenedydd yr αὐτοὺς diweddfaf hefyd; ac os yw "y dysgu a'r bedyddio i fod yr un hŷd a'r un lled," y mae y bedyddio a'r dysgu i gadw holl orchymynion Crist, i fod "yr un hŷd a'r un lled," am yr un rheswm; gan hyny, nid oes neb wedi eu gwneuthur yn ddysgyblion hyd nes y byddont wedi eu bedyddio, ac wedi eu dysgu i gadw holl orchymynion y Gwaredwr. A hōna ein gwrthwynebwyd eu bod yn gwneuthur hyn? Os na wnant, cynnwysa hyny addefiad nad ydynt yn gwneuthur eu bedyddiedigion yn ddysgyblion; os gwnant, y mae hanes a sylwadaeth yn rhoi celwydd ar yr hōniad, a synwyr cyffredin yn dweyd ei fod yn anmhosibl. O'r holl rai sydd yn arfer bedyddio babanod,\* dylai yr Annibynwyr beidio ymresymu fel y gwnant oddiwrth y commissiwn, oblegid o bawb braidd (ac eithrio eglwys Loegr) sydd yn arfer bedydd babanod, hwyntwy yw y rhai mwyaf diofal gyda golwg ar wneyd eu bedyddiedigion yn ddysgyblion cyflawn. "Ceidw y Trefnyddion Calfinaidd a'r Presbiteriaid, ac amryw faban-fedyddwyr ereill, eu bedydd o fewn cyleb hād yr eglwys, lle y mae rhyw gymmaint o le i ddysgwyl y dysgir y rhai bychain yn ffordd yr Arglwydd, fel y byddont yn tyfu i fyny; ond bedyddia

yr Annibynwyr blant pawb, i.e. plant y rhieni mwyaf annuwiol a diofal am ffyrdd Duw, yn gystal a'u plant eu hunain, heb betruso na gofalu dim fod neb i'w gael i ddysgu y bedyddiedigion i gadw gorchymynion Crist, ac felly i'w perffeithio yn ddysgyblion;" a hyny, fel y dangoswyd, heb gymmaint a rhith o sail i'w hymddygiad yn nghommissiwn ein Harglwydd. Er cymmaint yw medrusrwydd rhai Taenellwyr i dywyllu yr hyn sydd eglur, a rhoddi meddyliau i eiriau amgen na'r gwir ystyrion a berthyn iddynt, nis gall dyfais na dichell o'u heiddo gael sail i'r ddefod yn ngorchymyn y Gwaredwr.

Y seithfed egwyddor, a'r ddiweddfaf, ydyw: —*Fod barn ysgrifenedig ac ufydd-dod neu ymostyngiad ymarferol dynion anffaeledig i unrhyw ddeddf y byddo ammheuaeth o ethryb i'w heglurdeb, i gael eu hystyried yn esboniad terfynol ar y ddeddf hono, i'r rhai a fyddo yn petruso o barthed i'w hystyr.* Y mae eglurder a rhesymoldeb yr egwyddor hon yn gyfryw, fel nad oes eisieu ysgrifenu brawddeg na llinell i'w hegluro na'i phrofi. Caniateir gan Daenellwyr fod yr apostolion yn deall y commissiwn, ac na ddarfu iddynt ŵyro oddiwrtho mewn dull na deiliaid. Y cwestiwn i'w ateb, ynte yw, a ddarfu iddynt hwy fedyddio babanod, neu daenellu dwfr arnynt, gan gymmeryd arnynt weithio allan gommissiwn Crist trwy hyny? Dangoswyd yn y tudalenau blaenorol, fod Taenellwyr dysgedig yn caniatáu, nad oes un siampl eglur o'r fath arferiad yn y Testament Newydd; a'r gwir yw, na cheir un math o gyferiad at y fath beth yn llyfrein crefydd. Ymdrecha rhai dynu casgliadau oddiwrth yr enwaediad a bedyddiad teuluoedd, a sylfaenu ar y rhai hyny; ond nis gellir seilio ordinhad bendant ar gasgliadau yn absenoldeb gorchymyn. Ai casglu yr ydym y byddai yr apostolion yn bedyddio credinwyr? Nid oes neb a feiddia ateb yn gadarnhaol. Gan fod genym gynnyfer o enghreifftiau o'r gweinyddiad apostolaidd, ac nad oes ynddynt gymmaint ag un siampl o fedydd babanod, a all y Taenellwyr gasglu (gan eu bod mor hoff o gasglu) oddiwrth hyny, fod yr apostolion yn deall y commissiwn fel y ceisiant hwy ei esbonio? Profwyd yn barod, nas gellir sylfaenu dim y naill ffordd na'r llall ar ddystawrwydd y Beibl. Os yw bedydd yn perthyn i bawb yn ddiwahaniaeth, pahan y gwnelai yr apostolion ffydd yn Nghrist yn ammod bedydd? "Os wyt ti yn credu â' th holl galon, fe a ellir." Os mai dysgu dynion trwy eu

\* Yr ydym yn arfer bedyddio babanod, a thaenellu babanod, yn unig am mai y geiriau hyn sydd yn fwyaf adnabyddus ac mewn arferiad cyffredin. Bod yn ddealladwy yw y pwnc. Yn feirniadol, nid yw babanod Taenellwyr yn cael eu taenellu, eu tywallt, na'u bedyddio. Y mae gair yn ddigon i gall.



bedyddio yr oeddynt hwy, rhaid eu bod yn gweithredu yn groes i'r commissiwn trwy fedyddio yn ammodol. Os oeddynt yn gofyn am ffydd yn yr ymgeiswyr, onid yw hynny yn profi eu bod yn ystyried crediniaeth yn gymhwysder i fedydd? O ganlyniad, y mae'r Bedyddwyr yn esbonio y commissiwn fel y gwnelai dynion ysbrydoledig yr oes apostolaidd. A oes genym hanes am yr apostolion yn dysgu rhai trwy eu bedyddio, ac yn dysgu ereill trwy bregethu iddynt? A ydyw ysgrifenydd y Testament Newydd yn rhoi ar ddeall i ni fod "y dysgu a'r bedyddio yr un hŷd a'r un lled?" A ydynt hwy yn dysgu hynny, ac ar yr un pryd yn haeru mai yr un peth yw y dysgu a'r bedyddio? Os ordeiniodd Crist ddau fath o ddeiliaid, mae yn ffaith hynod nad oes genym ond hanes bedyddiad un o'r ddau fath yn yr holl grybwyllion a geir am fedydd yn y Testament Newydd.\* Pe byddai ffaith debyg i hon mewn pwysigrwydd o blaid y Taenellwyr, gwnelent hwy, ond odid, *gasglu* llawer oddiwrthi, ac adeiladu llawer arni. Heblaw fod yr apostolion yn gwneyd ffydd yn ammod bedydd, y mae'r pethau a ddywedir am ufydd-dod y Cristionogion apostolaidd i'r ordinhad yn profi nad yw barn y Taenellwyr yn gywir. Sonir am "gydgladdu âg Ef yn y bedydd," a chyd-gyfodi "trwy ffydd gweithrediad Duw" (Col. 2. 12)—am wisgo Crist yn y bedydd (Gal. 3. 27)—am fedyddio "er maddeuant pechodau"—ac am ryw gyssylltiad rhwng bedydd âg achubiaeth ac â chydwybod dda (1 Petr 3. 21). Gan mai eithafion ynydwrwydd fyddai haeru y gall babanod wisgo Crist ac "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw," &c., yn y bedydd, ac mai credinwyr yn unig a ellir "gydgladdu âg ef yn y bedydd," ac nas gall neb heblaw

hwynt hwy "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw" trwy ufydd-dod i'r ordinhad, y canlyniad anocheladwy ydyw, nad oedd yr apostolion yn ystyried fod babanod yn cael eu cynnwys yn y commissiwn. Hyd y nod pe byddai genym orchymyn pendant ac eglur i fedyddio babanod (neu i daenellu dwfr arnynt), byddai yn anmhosibl cymmodi'r cyfeiriadau blaenorol at yr ordinhad âg ef; ond y maent oll yn eithaf dealladwy yn eu cyssylltiad â throchiad y crediniol, neu, fel y dywedir yn gyffredin, â bedydd y crediniol trwy drochiad. Pe tybiem, er mwyn dadl, fod taenelliad a thywalltiad yn fedydd yn gystal a throchiad (yn ol athrawiaeth Dr. Halley, &c.), a bod dau fath o ddeiliaid, babanod a chredinwyr, nis gallai y fath dybiaeth sefyll am eiliad yn ngwyneb yr ymadroddion uchod, canys y mae'r cyfeiriadau sydd at y dull ynddynt, yn cau allan bob dull ond trochiad, ac y maent oll yn perthyn i un math o ddeiliaid, sef credinwyr. Ni cheir ynddynt yrawgrymiad lleiaf mai at un o'r gwahanol ddulliau o fedyddio y cyfeirir, ac mai am un dosparth neillduol (credinwyr) o'r deiliaid yr ysgrifennai yr awdwyr; ond y maent yn cyfeirio at fedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid yn y modd *mwyafr cyffredinol*; yr hyn sydd yn cau allan yn hollol ddulliau a deiliaid gwahanol i'r rhai a grybwyllir gan weision ysbrydoliaeth. Rhodder sylw neillduol i'r ffaith hon, oblegid y mae o bwys annhraethol. Un dull ac un math o ddeiliaid oedd yn yr oes apostolaidd; ond medda'r Taenellwyr ddau ddosparth o ddeiliaid, ac y mae rhai o honynt yn foddol i amrywio ddulliau. Crediniaeth a phroffes o honi a ofynai yr apostolion; ond *genedigaeth* ac *anadliad* yw yr oll a geisir gan ddosparth lluosog o Daenellwyr. "*Os wyt ti yn credu*," ebe'r pregethwyr cyntaf; ond y mae anallu naturiol i wrthwynebu'r gweinyddiad yn ddigon o gymhwysder, yw'r "*order of the day*" gan lawer o'r cyfeillion a wrthwynebwyr. Y mae rhai Taenellwyr yn deall ac yn esbonio y commissiwn fel ninnau; gwasanaetha dyfyniad neu ddau fel siamplau o luaws ereill:—"Y mae yn amlwg," ebe Dr. G. Campbell, "fod tri o bethau y rhai a orchymyna ein Harglwydd yn eglur i'w apostolion weinyddu gyda golwg ar y cenedloedd; sef, eu dychwelyd i'r ffydd, dwyn y dychwledigion i mewn i'r eglwys trwy fedydd, a dysgu y bedyddiedigion yn holl ddyledswyddau y bywyd Cristionogol." Er cymmaint a ysgrifennodd Bax-

\* Y mae Dr. Halley yn caniatáu fod Act. 8. 37, yn profi fod cymhwysder neillduol yn angenrheidiol i fedydd, os yw yr adnod hon yn *rhannu o'r Ysgrifthyrr*; ond ceisia efe brofi mai cael ei gosod i mewn a wnaeth, *wedi* i lyfr yr Actau gael ei ysgrifenu:—"If Philip insisted upon faith as a qualification for baptism, and, as these words imply, would not have baptized the Ethiopian without a distinct profession of faith, I must admit they offer an objection to which I cannot reply. But as I do not believe this verse to be any part of Holy Scripture, I do not feel myself bound to pay the least respect to its authority" (*Sac. p. 18*). Hyd y nod pe byddai yr adnod hon yn *spurious* (yr hyn ni ellir profi), y mae hanes am ffydd yn cael ei gofyn fel cymhwysder mewn manau ereill; o ganlyniad, yn ol addefiad y Dr. dysgedig ei hun, yr oedd ffydd yn gymhwysder i fedydd yn yr oes apostolaidd.



ter yn erbyn y Bedyddwyr, ni chymmerai arno sylfaenu bedydd babanod ar y commissiwn, fel y dengys y dyfyniad canlynol:—"Nid yw hwn fel rhyw grybwylliad hanesyddol dygwyddiadol am fedydd; ond gwir gommissiwn Crist i'r apostolion ydyw, i bregethu a bedyddio; a noda yn fwiadol eu gorchwylion amrywiol yn eu hamryw leoedd a'u trefn. Eu gwaith cyntaf oedd, trwy bregethu, gwneuthur dysgyblion, y rhai gan Marc a elwir yn gredinwyr. Eu hail waith oedd eu bedyddio, at yr hyn yr ychwanegir addewid am eu hiachawdwriaeth. Y trydydd gorchwyl oedd dysgu iddynt gadw yr holl bethau ereill sydd i'w dysgu yn ysgol Crist. Dirmygu y drefn hon yw rhoddi fyny holl reolau trefn; oblegid pa le y gallwn ddysgwyl am drefn os nad yma. Cyfaddefaf fod fy nghydwylbod yn hollol foddlon i'r testun hwn, mai un math o ffydd, hyny yw, ffydd gadwedigol, raid flaenori bedydd; a rhaid i'r gweinidog ddysgwyl profes o honi" (*Disput. Right to Sacra.*, p. 149).

II. EGWYDDOR GYFFREDINOL A SYLFAENOL ABALL YDYW:—NAD YW Y BEIBL YN CYDNABOD UN TIR CANOL RHWNG Y BYD A'R EGLWYS O DAN YR ORUCHWYLIAETH HON—NAD YW YN RHANU DYNOLRYW MEWN YSTYR FOESOL I RAGOR NA DAU DDOSPARTH, SEF, CREFYDDWYR A DYNION DIGREFYDD, A BOD AELODIAETH RANOL NEU HANNER AELODIAETH, YN HOLLOL DDYEITHR I'R TESTAMENT NEWYDD. Gellid meddwl mai sarhad ar y darlennydd fyddai ceisio profi y gosodiad eglur hwn; ac nid yw ein cyfeillion yn ei wadu (os nad ydym yn camsynied), oddieithr fod eu syniadau anysgrythyrol ar fedydd yn gyru rhai o honynt i'w ammhew yn ei berthynas â'r ordinhad hono. Os ydyw yn wir, y mae holl gyfundrefn Dr. Halley o barthed deiliaid bedydd yn syrthio i'r llawr, oblegid ei egwyddor ef yw, bedyddio babanod na allant wrthwynebu ("*but if children can be baptized, then we say they ought to be baptized.*" p. 60), a phawb a fyddo am gael eu bedyddio, heb un cyfeiriad at eu gwybodaeth ysgrythyrol\* ar y pryd, nac at eu haelodiaeth ddyfodol yn yr eglwys. Ystyria fabanod yn rhyw fath o aelodau yn nheyrnas nefoedd, sef yr or-

uchwyliaeth efengylaidd; ond nid yw y barnu eu bod yn aelodau yn y gwahan eglwysi efengylaidd, y rhai a wneir i ffrwyth o wirfoddolion. Gwna teyrnas nef oedd, neu yr oruchwyliaeth newydd, fath o eglwys gyffredinol, a'r gwahan gymdeithasau crefyddol yn eglwysi neillduol yn yr un gyffredinol; ac fel aelod o'r eglwys gyffredinol ceisia ddadleu ha babanod i fedydd. Fel hyn yr ymdrec brofi mai sefydliad goruchwyliaethol yw bedydd—rhywbeth rhwng y byd a'r eglwys, neu ordinhad berthynol i ddynion cyn ymuno â'r eglwysi neillduol.\* Os yw y golygiad hynod hwn yn gywir, ffurfia y rhai a fedyddiwyd yn eu babandod ddosparth canol rhwng y byd a'r eglwysi neillduol; neu y maent yn aelodau o'r eglwys gyffredinol; o ganlyniad, medda Crist ddwy eglwys wahanol, a dau fath o aelodau o dan yr oruchwyliaeth bresenol. Nid yw Dr. Halley wedi profi y gosodiad rhyfedd hwn, ac y mae yn hawdd ei esgusodi am beidio. Dywed, y mae'n wir, y byddid yn bedyddio dynion yn fuan iawn wedi iddynt glywed am Grist yn yr oes apostolaidd, trwy yr hyn y ceisia gasglu mai peth perthynol i ddeiliaid yr oruchwyliaeth yw bedydd, ac nid ordinhad yn perthyn i gredinwyr; ond nid yw er ei holl ddysgeidiaeth a'i wybodaeth wedi profi ddarfod i'r apostolion fedyddio cymaint ag un heb gredu yn Nghrist, pa mor anwybodus bynag y

\* "We ascertain from the narrative that a stranger utterly ignorant of the gospel was baptized after a few hours instruction—a fact explicable only upon the theory that baptism was readily administered to all who desired it" (p. 25).

\* "If infants are members of the kingdom of heaven, they ought, by the officers of the Church, to be recognized in that relation. They are not indeed members of a particular church or Christian Society, for that is formed by the voluntary act of Christian men, and every man joins any such society.—any one of several in his neighbourhood,—on his own election, and is received on the approbation of its members. Were he rejected by them, he would not be expelled from the kingdom of God. Were all these particular churches dissolved, the kingdom of God would remain a kingdom which cannot be moved. Who will say there was no kingdom of God in Britain, until Robert Brown gathered a Congregational Church? Indeed, men must be members of the general kingdom, before they are eligible to the particular church, if the church be composed only of professing Christians. But how is an infant to be recognised as a member of the kingdom of Christ? Is not baptism the proper recognition of a member of Christ's kingdom? And if we refuse to baptize an infant, do we not virtually disown him, as if he did not belong to us, or to our kingdom? If we refuse to acknowledge a relation which a child has to Christ's kingdom, do we not despise one of those little ones, depreciate its privileges, and act the part of the disciples in refusing to allow parents to bring their children to Christ, in the only way in which infants can be brought to him?" (p. 64.)



gallasai fod. Gan nad oes *unrhyw* grybwylliad am fedyddio babanod yn y Testament Newydd, fel yr addefa lluoedd o Daenellwyr dysgedig, ac yn gymmaint a bod yno *lawer* o hanesion am fedydd credinwyr; y canlyniad yw, hyd y nod pe tybiem, er mwyn dadl, mai peth goruchwyliaethol yw bedydd, fod credu yn Nghrist yn un o ammodau derbyniad i'r oruchwyliaeth neu yr eglwys gyffredinol am yr hon y siarada Dr. Halley. Os felly, pa beth yn rhagor a all fod yn angenrheidiol er cael derbyniad i'r eglwys neillduol? Os mai trwy fedydd y mae *cydnabod* dyn yn aelod o'r eglwys gyffredinol yn ol athrawiaeth y Dr. parchus, ac os na ellir derbyn dyn yn aelod i'r eglwys neillduol ond o'r un gyffredinol, nis gellir rhoddi aelodiaeth i berson na chafodd ei fedyddio yn ei fabanod mewn unrhyw eglwys.

"Indeed," ebe'r Dr., "men must be members of the general kingdom, before they are eligible to the particular church.".....Is not baptism the proper recognition of a member of Christ's kingdom?" (p. 64.) Ai nid *genedigaeth*, ac nid bedydd, sydd yn aelodi dyn yn yr oruchwyliaeth?

Nid yw dyn yn aelod cydnabyddedig o'r oruchwyliaeth efengylaidd neu yr eglwys gyffredinol o gwbl, os heb ei fedyddio, yn ol Halley, oblegid "*rhaid* iddo fod yn aelod o'r eglwys gyffredinol" yn gyntaf, yr hyn a wna ei dderbyniad i eglwys neillduol yn annhosibl. Ond os caniatêir fod ei aelodiaeth yn ddichonadwy, rhaid ei fedyddio pan mewn oed, i'r dyben o'i dderbyn *trwy hynny i'r eglwys gyffredinol*, neu yr oruchwyliaeth, yn gyntaf; *wedi hynny*, derbynir ef trwy ryw oruchwyliaeth nas gwyddom am dani, i aelodiaeth yr eglwys neillduol!! Y mae gosodiad yr athrawiaeth hon gerbron, neu adroddiad syml o honi, yn ddigon o ddymchweliad iddi, ac nid ydym yn sicr y gwnelsem sylw ohoni pe na fuasai'r enwog Dr. Halley yn ei hamddiffyn. Os yw bedydd yn beth goruchwyliaethol—yn perthyn i *bawb* a fyddo yn dewis ei gael yn gystal ag i ereill na fyddo ganddynt un dewisiad yn y pwnc, pahan nad yw y swper felly hefyd? Gan bwy y cafodd y Taenellwyr hyn hawl i wneyd bedydd yn oruchwyliaethol, a'r swper yn beth eglwysig? Os yw y geiriau "*holed* dyn ef ei hun" yn profi nad yw'r *swper* yn perthyn i bawb, onid yw y cyssylltiad rhwng bedydd, a chredu, ateb cydwybod dda, a gwisgo Crist, &c., yn profi fod *bedydd* hefyd i'w gyfyngu i ddosparth neu ddosparthiaeth neillduol? Yn ol ein gosodiad, y mae p. w. b. ereill naill ai yn y *byd* neu yn yr *eglwys*;

ond yn mha le y cafodd y Taenellwyr hyn hawl i greu dosparth canol nid ydym yn gwybod; ond yr ydym yn sicr nad yn y Testament Newydd; os amgen, profer hynny. Can belled ag y mae y bedydd goruchwyliaethol (?) dan sylw yn sefydliad crefyddol, y mae y rhai a'u cawsant, ac oddiwrth ba rai y cedwir y swper, o angenrheidrwydd yn grefyddwyr *rhanol*; ond a w'r y Testament Newydd rywbeth am y fath beth, sydd bwn arall. Ymddengys mai yr un pryd y profir fod *aelodiaeth ranol* yn ysgrythyrol, ag y dangosir ysgrythyroldeb yr eglwys gyffredinol at yr hon y cyfeiriwyd. Os nad oes y fath beth ag eglwys gyffredinol i'r hon y derbynir babanod trwy daenelliad, ac os mai ordinhad eglwysig yw bedydd, y canlyniad yw, fod y rhai a fedyddiwyd, neu a daenellwyd, yn aelodau eglwysig parhaus yn rhinwedd eu bedydd, fel'nad oes eisieu gwneyd rhagor nâ thaenellu dwfr ar yr holl fabanod a enir, mewn trefn i wneyd pawb yn aelodau yn yr eglwys Gristionogol. Gweithreda eglwys Loegr yn ol hyn, oblegid y mae hi yn diolch i Dduw am gymmeryd yr ysgelerddyn bedyddiedig mwyaf annuwiol ato ei hun, ac yn ei gladdu "*mewn llawn a diogel obaith* am adgyfodiad gwell!!!" Pe tybiem nad yw y babanod yn cael eu gwneyd yn aelodau *parhaus* trwy fedydd neu daenelliad, onid yw yn rhesymol eu ceryddu a'u hegwyddori fel aelodau ereill, a'u *diaelodi* fel aelodau ereill, pan fyddo pob dysgyblaeth arall wedi methu? Os aelodau, dysgyblaeth aelodau. Beth all fod yn decach? \*

\* Gall rhai feddwl ein bod yn cellwair yn y cyfeiriad hwn at aelodiaeth babanod; ond nid felly yr ydym, fel y dengys y crybwyllion canlynol:—Dywed y Parchedig R. P. fod "*bedydd* yn arwydd allanol o dderbyniad gweledig i restr dysgyblion Crist;" siarada hefyd am "*aelodiaeth eglwysig babanod*," a'u "*hawl i fedydd* a rhagorfreintiau y grefydd Gristionogol" (tud. 11)—ac am addasrwydd babanod i deyrnas nefoedd (tud. 49), &c. Beia y Bedyddwyr am "*eu cau o'r eglwys*." "*A chan iddo ef gymmeryd babanod yn ei freichiau, onid ein lle ninnau yw rhoddi lle iddynt yn ei eglwys?*" (tud. 51). Y mae llyfr Prichard, a'r rhan luosocaf o lyfrau y Taenellwyr dros fedydd babanod, yn llawn o ymadroddion dros aelodiaeth y babanod bedyddiedig. 1. Os yw yr *holl* fabanod bedyddiedig yn *aelodau*, pahan yr anerchir hwy gan bregethwyr y Taenellwyr yn y cymmeriad o ddynion digrefydd, ac nid fel saint, neu aelodau? 2. Os yw pawb y taenellir dwfr arnynt yn aelodau, yn mha le y mae llinyn y gwahaniaeth rhwng byd ac eglwys? 3. Addefir nas gellir eu dysgu yn yr ysgol er eu bod ynddi; os nad ydynt yn dysgu, pa les iddynt fod ynddi o gwbl, gan mai lle i ddysgu yw ysgol?



O'r ochr arall, os nad ydynt yn aelodau eglwysig, beth sydd a fynont hwy â'r ordinhad eglwysig o fedydd mwy nag sydd a fyfyr o'r ordinhad â hwythau? Os mai rhyw ordeiniad neu sefydliad *gwladol* neu gymdeithasol anghysylltiedig â chrefydd yw bedydd, eglurur ac amddiffynur ef fel y cyfryw, ac na sonier am dano mwyach mewn cyssylltiad â'r efengyl. Os mai sefydliad goruchwyliaethol ydyw, pahan y gofynai yr apostolion i'w ddeiliaid edifarhau a chredu mewn cyssylltiad â'u hufydd-dod? Onid oedd ganddynt hawl i feydd fel deiliaid yr oruchwyliaeth, yn hollol annibynol ar ffydd ac edifeirwch? Os yw mor gyffredinol ag y myn ein cyfeillion, pa awdurdod oedd gan yr apostolion i fedyddio ar ammodau fel y gofynasom yn barod? \* "Os wyt ti yn credu â'th holl galon, fe a ellir," &c. "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau," &c. Gan i Dduw godi y sarff brës er budd i bawb o'r clwyfedigion a edrychent arni, a fuasai yn briodol i Moses *ganiatau* iddynt edrych arni ar ammodau? Os mai bod yn un o'r holl genedloedd yw yr unig ammod (os ammod hefyd) a gyssylltodd Crist â bedydd, pahan y gwnaeth yr apostolion gysylltu ammodau ereill? a phahan y gwna Taenellwyr osod crediniaeth yn Nghrist yn ammod derbynriad rhai mewn oed trwy fedydd? Onid oes ganddynt, ar dir Dr. Halley, hawl i fedydd, yn rhinwedd eu perthynas â'r oruchwyliaeth o dan yr hon y maent yn byw? Gan eu bod yn bedyddio babanod (neu yn taenellu dwfr arnynt) yn ddiammod, pahan y gwnant eithriad o rai mewn oed?†

\* "Gan hyny, os oes genym gariad at ein plant," ebe Mr. Prichard, "ac awydd i'w dwyn i fyny i'r Arglwydd o'u mebyd, bydded i ni, heb oedi, eu cyflwyno iddo trwy yr ordinhad a sefydlwyd ganddo i'r perwyl hyny" (tud. 52, 53). Os felly, nid yw yn ddyledswydd ar y rhai nad yw yn caru eu plant, nac yn teimlo tuedd eu dwyn i fyny i'r Arglwydd, er fod y commissiwn yn gorchymyn-bedyddio *pawb* yn ddiethriad yn ol yr athraw hwn. Nid yw efe yn gadael i ereill y pleser o ddymchwelyd ei bethau, oblegid y mae efe yn gwneyd hyny ei hun, a hyny yn fwy effeithiol na dim arall.

† Y mae rhai Taenellwyr yn ymddangos fel pe byddent wedi ymwerthu i ysgrifenu ynydrwydd ac anghyssonderau ar y pwnc o fedydd. Dywed y Parch. R. P., er enghraifft, fod plant ceidwad y carchar wedi eu bedyddio "mewn canlyniad i ffydd eu tad," a bod plant ieuaie Lydia wedi cael "eu bedyddio ar bwys ffydd eu mam" (tud. 61, 62); o ganlyniad, ffydd y ceidwad ac eiddo Lydia oedd ammod bedyddiad y plant; yr hyn sydd yn dangos na chawsent eu bedyddio o gwbl

III. *Yr egwyddor nesaf yw* :—FOD CRISTIONOGAETH FEL CYFUNDREFN ADNABYDDUS YN YMWNEYD YN UNIONGYRCHOL YN EI HOLL RANAU A DEILIAID CYFRIFOLDEB YN BERSONOL—MAI PRIODOLIAETHAU MOESOL YN HOLLOL ANNIBYNOL AR GYSSYLLTIADAU NATURIOL YW Y CYMHWYSDERAU A OFYNA YN EI DEILIAID, AC NAD YDYM AT EIN RHYDDID I WNEYD EI DYLANWAD POSIBL, TERYGOL, NEU SICR AR GYSUR DYFODOL Y RHAI NAS GALLANT EI DEALL FEL CYFUNDRAETH, YN RHEOL EIN HYMDYGLIAD TUAG AT Y CYFRYW MEWN YSTYR GREFYDDOL YN Y BYD HWN, TRA NAD OES GENYM UN REOL I'N CYFARWYDDO YN Y CYFEIRIAD HWNW. Gellir dweyd am hon etto, fod ei hysgrythyroldeb a'i rhesymoldeb mor eglur,

pe na fuasai y ceidwad a Lydia yn credu; ond yn gymmaint a bod y plant yn gwneyd i fyny ran o'r "holl genedloedd," onid oedd ganddynt, yn ol ymresymiad Mr. P. ei hun, hawl i fedydd yn annibynol ar ffydd eu rhieni? Sail bedyddiad y rhai hyn oedd ffydd y ceidwad a Lydia; ond dywed yr awdwr mewn man arall mai "sail gweinyddiad bedydd, fel ordinhad efengylaidd, ydyw yr awdurdodiad neu y commissiwn mawr" (tud. 9), ac ysgrifena lawer i'r perwyl o geisio profi y dylid bedyddio babanod *pawb*, pa un bynag a fydd eu rhieni yn credu ai peidio. Os yw y commissiwn yn rheswm dros fedyddio babanod *pawb* yn ddiethriad, fel yr haera Mr. P., beth gwell yw plant crefyddwyr o gael "eu geni yn yr hawl" (tud. 97), na phlant y rhai na chawsant eu geni felly? Sut yr oedd yn ddichonadwy i ddyn a allasai ysgrifenu yr ymadroddion a ddyfynwyd gyntaf, ysgrifenu y rhai canlynol hefyd? "Hefyd, gorchymynir dysgyblu yr holl genedloedd, gan, neu trwy eu bedyddio, heb wahaniaeth rhyw nac oed; a chan fod plant yn gwneyd i fyny ran fawr, os nid y rhai fwyaf, o bob cenedl, rhaid eu bod o ganlyniad yn cael eu cynnwys mewn modd effeithiol yn y commissiwn." Etto, "Gellid meddwl fod yn rhaid wrth lawer iawn o ryw resymu i allu cau allan fedydd babanod o lythyren commissiwn fel hwn, sydd yn gorchymyn bedyddio yr holl genedloedd" (tud. 41). Yr oedd Wardlaw yn ddigon call i wybod nas gallesid sylfaenu bedydd babanod ar y ddau, sef, yr enwaediad a'i gyfammod a'r commissiwn, ac felly Halley; ond ymdrecha Mr. P. ei seilio ar y ddau dir, tra y mae yn hawdd i bawb wybod fod y naill yn dinstrio y llall. Os yw y commissiwn i'w gymmeryd yn yr ystyr *helaethaf* fel yr haera y Parch. R. P., pa sut y mae efe yn cyssoni ei ymddygiad yn bedyddio y babanod a aned "yn yr hawl" yn unig, â'r hyn a orchymynodd Crist? Onid yw ymddygiad yr awdwr ei hun, fel un o weinidogion y Weleynaid, yn taslu'r celwydd i wyneb ei haeriad o barthed hŷd a lled y commissiwn. Gobeithiwn mai anystyriaeth, neu anfedrusrwydd fel dadleuydd, ac nid yr amcan o wneyd ei lyfr yn werthadwy yn mŷg *gwahanol* ddosparthiadau o Daenellwyr, a barodd iddo wneyd y fath aberth dychrynlyd o gyssondeb. Buasai o'r goreu i rai o'r cymmeradwywyr ddangos yr un gochelgarwch ag a ddangoswyd gan y Parch. Owen Thomas, yn hytrach na chymmeradwyo llyfr ag sydd mor nodedig am ei wrthddywediadau a'i anghyssonderau yn *wholesale*.



fel nad ydym yn meddwl fod Taenellwyr yn gyffredin yn teimlo y duedd wanaf i'w gwadu, oni bai ei bod yn myned o dan wraidd Taenelliad babanod. Ai nid â dynion mewn sefyllfa i fod yn gyfrifol y mae â fynd yr efengyl? Credwn na feiddia dyn ystyriol a diragfarn ateb yn nacöol. A raid i fabanod dau ddiwrnod oed roi cyfrif i Dduw mewn barn? Os ceir rhywun yn ddigon anwybodus neu ragfarnllyd i ddweyd rhaid, yr ydym yn gofyn yn mhellach, am ba beth neu bethau y maent yn gyfrifol? Gan mai am y talentau y gelwid y gweision i gyfrif gan eu Harglwydd, am ba dalent y gelwir ar y baban anwybodus a diniwed i roi cyfrif? Os dywedir fod babanod i gael eu cadw (yr hyn ni ammheuir genym), yr ydym yn gofyn, ai yn y cymmeriad o ddysgyblion Crist y cedwir hwynt? Haera y Parch. R. P. "fod babanod yn ddeiliaid rhwymedigaeth foesol" — "yn ddeiliaid sefyllfa foesol, a thrwy ras yn meddu cymhwysder moesol i fod yn ddeiliaid bedydd" (tud. 90). Gan fod rhwymedigaeth foesol o angenrheidrwydd yn rhagdybied *gallu* i ufyddbau i ddeddf foesol, yr ydym yn gofyn pa allu sydd mewn baban i ufyddbau i'r ddeddf nad yw yn bosibl iddo wybod am dani? Pa un ai i ddynion mewn oed a synwyr yn *unig* y bwriadwyd y ddeddf dan sylw, ynte i'r cyfryw rai *ac* i fabanod? Os yw babanod o dan rhwymedigaeth foesol fel yr haerir, y mae'r ddeddf o angenrheidrwydd yn perthyn iddynt hwy i gymmaint graddau ag i'w rhieni; ond os nad oes, a fynd hi â hwynt, y mae hyn yn profi nad ydynt y pryd hwnw o dan rhwymedigaeth foesol, fel ag y byddant pan mewn oedran a synwyr i wybod rhywbeth am eu perthynas â Duw, &c. Pe na chyhuddid ni o anfoneddigeiddrwydd, gofynem i'n hathraw, a ydyw efe o ddifrif yn credu rhwymedigaeth foesol babanod? Ac os ydynt fel yr haera, yn meddu cymhwysderau moesol i fod yn ddeiliaid bedydd, yr ydym yn gofyn yn ddiffrifol pa gymhwysderau moesol sydd ganddynt? Nid ydym wrth reswm yn dysgwyl atebiad boddhaol, tu yma i ddydd y farn nac yn nhragywyddoldeb. Baban yn ddeiliaid rhwymedigaeth foesol ac yn gyfrifol! Mor bell yr â dynion wrth geisio sylfaenu traddodiadau dynol ar air Duw! Dywed y Beibl mai "yn ol ei *weithredoedd*" y gwna Duw dalu i bob dyn (Rhuf. 2. 6). Y mae Paul yn ein dysgu na chaiff paganiaid oedranol eu barnu yn ol y ddeddf (Rhuf. 2. 12), yr hyn sydd yn dangos nad ydynt hwy o dan yr

un rhwymedigaeth foesol a deiliaid gwlad efengyl, a bod Duw yn dirionach wrth anwariaid nag y mae Mr. P. tuag at fabanod.\* Os nad yw babanod yn ddeiliaid rhwymedigaeth foesol, nid ydynt yn ddeiliaid bedydd, yn ol ymresymiad Mr. P. ei hun. A oes rhywun heblaw Mr. P. a feiddia ddadleu rhwymedigaeth a chyfrifoldeb babanod er mwyn cael eu bedyddio? Os nad ydynt yn foddol canlyn Mr. P. i'r dyrswch ofnadwy hwn, y maent yn rhwym o ymrwrthod â bedydd babanod, oblegid mai â deiliaid rhwymedigaeth a chyfrifoldeb y mae a fynd yr efengyl fel y mae yn adnabyddus yn y Testament Newydd. Yn ol Mr. P. dylid bedyddio rhai babanod oblegid eu bod yn rhan o'r "holl genedloedd;" y mae ereill i gael y dyferynau ar "bwys fydd eu mam," neu "mewn canlynid i fydd eu tad;" myn weinyddu y seremoni ar rywrai ar gyfrif eu rhwymedigaeth foesol a'u cyfrifoldeb, ac ni ddadleua yn erbyn dosparth arall oblegid fod y babanod a'i gwna i fynd, "trwy ras yn meddu cymhwysder moesol i fod yn ddeiliaid bedydd" (tud. 90). Y mae ei resymau yn lluosog ac yn amrywiol, ac yn hynod gyfaddas i ateb y gwahanol gyfyngderau â pha rai y mae ein cyfeillion mor adnabyddus. Efallai nad ydynt hwy yn teimlo llawer o anfantais oddiwrth y ffaith o fod y rhesymau (?) hyn yn lladd eu gilydd, oblegid fod arfer-

\* Dywed Mr. P. fod gwadu rhwymedigaeth foesol babanod, "yn eu rhyddhau ar unwaith oddiwrth y posibilrwydd o fod yn ddarostyngedig i effeithiau y pechod gwreiddiol, yr hyn o orfod a gynnwys amddifadrwydd o ryw gymhwysder moesol a ddylasai fod yn eu meddiant" (tud. 90). Ai rhwymedigaeth foesol sydd yn gwneyd dyn yn agored i effeithiau y pechod gwreiddiol? Er mor awyddus y mae Mr. P. i gael babanod o dan y ddeddf, y mae yn debyg y caniatâ ef iddynt gael eu geni cyn eu rhwymo; os gwna, nid eu rhwymedigaeth sydd yn peru iddynt fod dan effeithiau y pechod gwreiddiol, canys y mae hwnw a'i effeithiau yn bodoli *cyn* eu geni. "Mewn anwired ym llun iwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Beth y mae'r awdwr yn feddwl wrth yr "amddifadrwydd o ryw gymhwysder moesol a ddylasai fod yn meddiant" babanod, nid ydym yn gwybod. Beth sydd a fynd y pechod gwreiddiol a'u bedydd ac a'u cyfrifoldeb? A ddarfa i Mr. P. erioed deimlo euogrwydd ar gyfrif ei bechod gwreiddiol, a gweddio am faddeuant o hono? Os ydyw babanod yn gyfrifol am bechod gwreiddiol (am ba beth arall y maent felly?), dylai Mr. P. weddio am faddeuant o hono yn bresenol, oblegid y mae yn dra thebyg (pa rhwymedigaeth foesol bynag oedd arno pan yn faban), mai gorchwyl hawdd fyddai cyfrif ei weddio am faddeuant pan yn ei gylwr babanaid, os nad oedd yn wahanol iawn i fabanod yn gyffredin.



iad â sefyllfa anhapus i raddau yn dwyn meddwl y dyoddefydd i gymmod â hi.\*

Dywed Mr. P. fod Duw yn galw rhai yn sugno bronau i gadw ympryd yn amser Joel (2. 15, 16), a bod genym hanes am feibion mis oed yn cadw cadwraeth y cyssegr (Num. 3. 28). Y mae hefyd wedi cael ar ddeall fod y "cerubiaid bychain hyn," mewn rhyw "gyngherdd Cristionogol," yr hwn sydd naill ai *wedi, yn*, neu i ddechreu, "gyda lleisiau plant—babanod—a rhai yn sugno. Yn eu swm llawenycha angylion; a'r Iachawdwr mewn boddlonrwydd santaidd a'u cyhoedda yn berffaith!" (tud. 91. 92). Yn ol Joel, yr oedd i gyssegru ympryd a galw cymmanfa, ac yr oedd y plant bychain fel ereill i gael eu casglu yn nghyd; nid oes un sicrwydd oddiwrth yr hanes fod y rhai bychain i gael eu cadw heb fwyd. Ond os oeddynt i'r perwyl o beru i'w llefau am ymborth effeithio ar eu rhieni ac ereill (fel y sylwa Henry), beth sydd a fyno'r amgylchiad hwnw â chrefydd ag sydd yn gofyn gwasanaeth *personol*? Os oedd y rhai bychain i ymprydio, i *ereill* yr oedd y fendith ac nid iddynt hwy; ond a ydyw Mr. P. yn foddlon cyfaddef mai *ereill yn unig*, ac nid

\* Pan ddywed Mr. P. fod babanod "trwy ras yn meddu cymhwysder moesol i fod yn ddeiliaid bedydd," y mae yn cyfaddef wrth reswm fod rhyw *gymhwysder moesol* yn angenrheidiol, yr hyn sydd yn dangos ddarfod iddo newid ei farn lawer gwaith yn ystod yr amser y bu yn ysgrifenu y llyfr ger cin bron. Ar y cyntaf, bod yn un o'r "holl genedloedd" oedd *yr unig* beth a ofynid. Wedi hyn cofiodd mai Wesleyad oedd efe, a bod eisieu "geni yn yr hawl," a "bedyddio ar bwys ffydd eu rhieni." Yn fuan ar ol hyn yr ydym yn ei gael yn dadleu dros gymhwysderau *personol* babanod, ac yn haeru eu bod "trwy ras" yn meddu y rhai hyn; ond ni chosiodd ddwyed wrthym beth ydynt, ac nid yw yn anhawdd genym ni faddu iddo am beidio. Rhaid i rai gredu cyn y gwna efe eu bedyddio; ond gwna rhwymedigaeth foesol babanod, a'u cyfrifoldeb y tro fel cymhwysderau i *weinyddwyr ereill*; ond ni chymerai Mr. P. *ei hun* lawer am daenllu dwf ar ddosparth mor halogedig! Dywed y Bedyddwyr nad yw babanod yn gwybod dim am natur na dyben bedydd, ond amcanu Mr. P. dori grym yr ymresymiad hwn trwy ddwyed na wyddai y tabernacl a'i lestri ddim am ddyben eu cyssegr i Dduw; ond a oes rhith o gyfatebiaeth rhwng cyssegr iad y tabernacl ac ufydd-dod personol i fedydd? Pe buasai yr Arglwydd wedi ordeinio cyssegr iad addoldai trwy ryw seremoniau neillduol, gellid canfod gradd o *analogy* rhwng y ddau. Yr oedd cyssegr iad y tabernacl yn ateb dyben; ond a all Mr. P. haeru fod yr hyn a elwir cyssegr iad babanod trwy fedydd yn ateb rhyw ddyben daionus? Yn mhla ystyr y mae babanod y Taenellwyr yn rhagori ar eiddo y Bedyddwyr?

y Bedyddiedigion ieuainc mewn *cyssylltiad* âg ereill, a fwriada efe lesoli trwy weinyddu taenelliad? Os yw cyfranogi o'r swper, darllen y Beibl, gweddio, canu, &c., i fod yn gyfryngau cysur personol, a raid i ni gredu fod bedydd yn eithriad iddynt oll yn yr ystyr hyn? Pa ran o'r Beibl sydd yn profi mai dim ond y gweinyddwr a'r edrychwyr sydd i gael bendith mewn cysylltiad â bedydd? A raid i ni gredu fod Mr. P. yn ddifrifol, pan yn defnyddio ympryd iad gorfodol y babanod (os bu y fath beth) yn amser Joel fel prawf o gymhwysderau babanod i fedydd? A chaniatau fod Duw wedi ordeinio ymprydio y rhai bychain, a ydyw yn ddeg defnyddio'r amgylchiad hwnw fel rheswm dros daenelliad babanod, tra nad oes, yn ol addefiad lluoedd o Daenellwyr, un gorchymyn amdano na siampl eglur o hono yn ngair Duw? "Dywedir," ebe efe yn mhellach, "fod miloedd o feibion mis oed ac uchod yn cadw cadwraeth y cyssegr" (Num. 3. 28). Y mae camddarlunio ffaith, neu eu hadrodd yn rhanol, yn niweidiol iawn, ac yn hollol annheilwng o weinidog yr efengyl. Yr hanes sydd fel y caelyn:—"Yr Arglwydd hefyd a lefarodd wrth Moses yn anialweh Sinai, gan ddywedyd, Cyfrif feibion Lefi yn ol tŷ eu tadau, trwy eu teuluoedd; cyfrif hwynt, bob gwrryw, o fab *misyriad* ac uchod" (pen. 3. 14, 15). Dengys y bennod fod gorchwyl neu orchwyllion neillduol mewn cyssylltiad â phabell y cyfarfod, &c., yn perthyn i bob dosparth. Dywedir am un o'r dosparthiadau mai "rhifedi'r holl wrrywaid" perthynol iddo, "o fab *misyriad* ac uchod," oedd "wyth mil a chwe chant," ac mai gorchwyl y dosparth hwnw oedd "cadw cadwraeth y cyssegr" (adu. 28). Yn awr, fe wel y darlennydd mai i ddosparth "teuluoedd meibion Cohath" y perthynai cadwraeth y cyssegr; hyny yw, y rhai hyny o'r teuluoedd ag oedd yn alluog i ofalu am dano, wrth reswm. Nid amcan yr ysgrifenydd ysbrydoledig (fel y gŵyr Mr. P. o'r goreu) oedd ein hysbysu fod babanod mis oed yn gofalu am y cyssegr, eithr rhoi ar ddeall i ni rifedi gwrrywaid dosparth Cohath "o fab *misyriad* ac uchod" yn ol gorchymyn yr Arglwydd, a'n dysgu gyda llaw pa ran o'r gwasanaeth a orphwysai ar y Cohathiaid. A ydyw yn bosibl i ni gredu fod dyn o safle Mr. P. yn credu mai babanod mis oed ac ereill oedd yn gofalu am y cyssegr? "Modd bynag am hyny," ebe efe, "yr oedd Duw yn gorchymyn ac yn ewyllysio i'r peth fod" (tud. 91); hyny yw, ewyllysio





i'r babanod hyn gadw y cyssegr! Y mae yn gofyn "Ai nid oes cymmaint o gymhwysder mewn babanod yn awr i dderbyn bedydd ag oedd ynddynt gynt i wyllo?" Yr ydym yn ateb fod llawn cymmaint; hynny yw, *dim*. Os mai nid yn fwriadol y rhoddodd Mr. P. adroddiad mor annheg ac hannerog o'r hanes dan sylw, gobeithiwn y bydd yn fwy gofalus rhagllaw. Mewn trefn i geisio profi yr athrawiaeth o gymhwysderau moesol babanod i fedydd, dyfyna Mr. P. Salm 8. 2; Math. 21. 15:—"O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant." "Gwelwn yma," ebe efe, "wefusau y Tragwyddol Wirionedd ei hun yn penderfynu, nid yn unig y gall babanod wasanaethu Duw, ond hefyd fod eu gwasanaeth yn berffaith!" Beth bynag all fod meddwl y geiriau, y mae yn anhawdd genym feddwl fod yr awdwr yn credu yn ddifrifol yn eu cyflawniad *llyth-grenol*.

A ddarfu i Mr. P. grefyddu yn berffaith pau yn faban? Neu, a glywodd ef erioed fod rhyw faban arall wedi gwneyd hynny? Yn Esay 55. 12, y mae'r geiriau canlynol:—"Y mynyddoedd a'r brynau a floeddiant ganu o'ch blaen, a holl goed y maes a gurant ddwyllaw." Ar yr un tir y gall ein harweinydd haeru fod mynyddoedd a brynau yn meddu bywyd anifeilaidd (os nad rhesymol) a bod coed y maes yn feddianol ar yr un peth; oblegid yr un faint o gymhwysder sydd ynddynt hwy i floeddio, canu, a churo dwyllaw, ag sydd mewn babanod i wasanaethu Duw mewn perffeithrwydd. Mor bell yr â dynion ar gefn mympwy, wedi iddynt adael ffordd y gwirionedd! Y mae argyhoeddiad Mr. P. yn gryf iawn o'ethryb i'r ffaith o fod cymhwysderau moesol yn hanfodol i ddeiliaid bedydd—fychain a mawrion,—oblegid gwna'r fath ymdrechion rhyfedd i'r perwyl o brofi y "gall babanod wasanaethu Duw." Os yw bod yn rhan o'r holl genedloedd yn ddigon i'w haddasu i fod yn ddeiliaid, pahan y camddarlunia efe ffeithiau ysgrythyrol, ac yr ysgrifena y pethau mwyaf gwrthun, i'r perwyl o geisio profi cymhwysderau moesol y "cerubiad bychain" i'r ordinhad? Dywed Mr. Aubrey:—

\* Nid yw ein gofod na natur yr erthygl hon yn galw am lawer o olygiadau gwahanol esbonwyr ar Salm 8. 2, a Math. 21. 16; ond y mae sylwad-aeth a synwyr cyffredin yn ddigon i ddangos i bob dyn ystyriol a diragfarn, nas gallasai baban mis oed i wasanaethu Duw fel yr haera Mr. P. Meddylia amryw fod y Salmydd yn cyfeirio mewn modd prophwydol at y plant yn llefain yn y deml.

"Pa beth bynag sydd yn dal perthynas â *chymhwysder* y deiliaid, y mae yn gwbl o natur foesol." Y mae'r Parch. J. Evans, yn gofyn y cwestiynau canlynol i Mr. Aubrey o barthed y frawddeg hon:—"1. Os yw dyben yr ordinhad yn gofyn cymhwysderau *moesol*, pahan y dadleuir fod santeiddrwydd *perthynasol* yn *hawl* ac yn *gymhwysder* i fedydd y Testament Newydd? A ydym y santeiddrwydd sydd yn deilliaw trwy gyssylltiad naturiol plant a'u rhieni yn gwbl o natur *foesol*? Rhaid i Mr. A. brofi hynny, neu ganiatau nad yw babanod yn meddu cymhwysderau moesol. 2. Pa rai ydynt y cymhwysderau moesol, ag y mae dyben bedydd yn eu gofyn? Onid ffydd, edifeirweh, a derbynriad ewillysgar o'r gwirionedd? Os nage, profed yn amgen. 3. Pahan y mae'r cymhwysderau hyn yn angenrheidiol? a phahan 'yr ydym yn rhwymedig i geisio ynddynt (y deiliaid) reswm ac amcan y gorchymyn?" (geiriau Aubrey). Os nad yw y gorchymyn yn gofyn cymhwysder o fath yn y byd, pa eisieu sôn am gymhwysderau moesol, nac anfoesol sydd? O'r tu arall, os cymhwysderau moesol sydd yn angenrheidiol, rhaid eu bod felly am fod y ddeddf yn gofyn cymhwysderau moesol. Ac os yw y ddeddf yn gofyn cymhwysderau moesol, y mae yn gofyn yr hyn nad yw i'w gael mewn babanod; ac mor bell a hynny, y mae'r cyfaddefiad hwn o eiddo Mr. Aubrey yn ddinystyr ar y gyfundraeth anysgrythyrol, anghysson, a niweidiol yr ymdrecha gymmaint ei hattegu" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 29).

Yr oedd llawer o wasanaeth goruchwyliaeth Moses yn ddirprwyol—y naill yn gweithredu dros neu yn *lle'r* llall; ac

Gwyr pawb y gall plant aberthu moliant; ond nid yw plentyn o angenrheidrwydd yn faban. Ysgrifena Dr. A. Clark yn ei esboniad ar Math. 21. 16, fel y canlyn:—"Y mae'r wythfed Salm, o'r hon y dyfynir y geiriau hyn, yn cael ei chymhwyso at Iesu Grist mewn *tri* lle arall yn y cyfammod Newydd, yr hyn a brawf mai Salm brophwydoliaethol yn unig ydym, yn perthyn i'r Messiah. Yr oedd yn beth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon, i'r plant gael eu rhoddi ar waith mewn bloddestau cyhoeddus; ac fel hyn yr arferent gyfarch eu Rabiniaid enwog. Nid oedd y fanllef hon o eiddo y plant, gan hynny, yn beth aanghyffredin yn y wlad; ond yn unig eu bod hwy yn cael eu chwerti am fod un yn cael ei glodfodi, at yr hwn y teimlent hwy gasineb greddfod. Mewn perthynas i'r brophwydoliaeth a ragfynegai hyn, ni wnaent hwy un sylw o honi. Dychymmyga rhai fod plant bychain, a rhai yn sugno, yn y brophwydoliaeth, yn meddu ystyr llawer helaethach, ac yn cyfeirio hefyd at bregothwyr cyntaf yr cfengyl."



weithiau, pan nad oedd gan y rhai y gweithredid drostynt un dewisiad yn y mater. O'r ochr arall, crefydd *bersonol*—gwasanaeth y dyn ei hun—ufydd-dod personol i'r Gwaredwr—cynnyrch ewyllys-garwech yr addolwr—ffrwyth barn i raddau mwy neu lai yn oleuedig am drefn achub—effaith cydsyniad calon gynhes â gofyniadau efengyl, a ofynir o dan yr oruchwyliaeth newydd. Nid oes arnom eisieu cyfryngwr nac offeiriad, heblaw yr “un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu,” a'r Offeiriad mawr a osodwyd ar dŷ Dduw. Gynt, yr oedd yr aberth a'r aberthwr ar wahan; ond yn bresenol, y mae'r offeiriad a'r aberth yn yr un man, a'r naill le fel y llall yn “dŷ i Dduw, a phorth i'r nefoedd.” A wyt *ti* yn credu? yw'r cwestiwn a ofynir gan efengyl i bob un; ac nid, A ydyw dy dad neu dy fam, neu bob un o'r ddau, yn credu? Os mai un fel hyn yw Cristionogaeth, y mae yn rhesymol i ni ddysgwyl cael bedydd mewn cydweddiad â'i hysbryd, ac yn gysson â'i hegwyddorion. Pa un ai rhywbeth ysgafnach na gwegi, ynte llawn bwysau, yw taenelliad babanod yn y gloriant hon? A ydyw yn wasanaeth personol o eiddo y bedyddiedigion babanaidd eu hunain? A oes yn y seremoni radd o ufydd-dod o du y babanod i Iesu Grist? Ai y rhai diniwed ddarfu ewyllysio taenelliad y dyferynau arnynt? Ai ffrwyth barn oleuedig y “cerubiad bychain,” ac effaith calon gynhes at yr Iachawdwr, yw yr hyn a gyflawnir? Rhaid ateb y cwestiynau hyn yn nacïol wrth reswm, fel yr addefa dynion yn gyffredin, beth bynag a ddywedo rhywrai am allu babanod i wasanaethu Duw mewn perffethrwydd. Os felly, y mae taenelliad babanod yn yr oll o hono, nid yn unig yn annghysson âg efengyl, ond hefyd yn hollol wrthdarwiadol iddi; tra y mae bedydd apostolaidd y crediniol yn berffaith gydgordiol â'r darnodiad blaenorol o Gristionogaeth.

Gan mai maethu y plant yn “addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd,” yw yr hyn a ddysgir yn y Testament Newydd o barthed dyledswydd rhieni, onid peth anysgrythryol i'r graddau eithaf yw myned dros derfynau y gorchymyn trwy ddewis bedydd i'r plant hefyd? Pa ddyben siarad am yr enwaediad, gan y gwyr ein cyfeillion ddarfod i Dduw sefydlu hwnw, ac y cydnabyddiant hefyd fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddwy oruchwyliaeth gyda golwg ar *bersonolrwydd* a gwirfoddoliaeth? Yn mha le yn y Beibl y dysgir fod ordinhadau

yr efengyl wedi eu sefydlu yn *lle* trefniadau Iuddewaeth, a bod y sefydliadau Iuddewig yn *rheolau* gweinyddiad y rhai Cristionogol? Gan fod y Beibl yn ein dysgu nad yw enwaediad (oddieithr enwaediad y galon) ddim o dan yr efengyl, a bod “*pob* peth” wedi ei wneyd “o'r newydd,” onid ydym o angenrheidrwydd yn rhyfela yn erbyn Duw, trwy wneyd cyssylltiadau naturiol, a threfniadau yr hen oruchwyliaeth, yn rheolau i ni o dan y gyfundrefn newydd? Gan mai hâd Abraham yn awr yw y rhai sydd “o *ffydd* Abraham,” ac a gerddant “*lwybrau* ffydd Abraham,” ac nas gall babanod gredu yn debyg i dad y ffyddloniaid na neb arall, onid ynydrwydd yw siarad am fedyddio babanod “mewn canlyniad i ffydd eu tad,” neu “ar bwys ffydd eu mam?” Beth sydd a fyno'r plant â rhinwedd na drygioni eu rhieni, gan mai “Os *myn* neb ddyfod ar fy ol i, &c.,” yw arwyddwrs ddéchreul Crist?\*

Y mae'r gosodiad sylfaenol o dan ein hystyriaeth, nid yn unig yn dangos nad yw yr enwaediad a'i gyfammod *dros* daenelliad babanod, ond fod pob ymresymiad cyfachol cywir o enwaediad i fedydd, yn cloddio o dan wraidd taenelliad, ac yn rhoddi dadl i'r Bedyddwyr, o allu pa un ni wnaethant erioed y defnydd a ddylasent. Tybier, er mwyn dadl, fod bedydd wedi dod yn lle enwaediad, a bod plant Abraham i gael eu bedyddio yn lle eu taenellu, safai yr ymresymiad fel y canlyn:—Enwaedid hâd naturiol Abraham, oblegid eu bod yn meddu hawlfraint enedigol yn y cyfammod a wnaeth Duw âg Abraham. Cristionogion ydynt hâd *ysbrydol* Abraham. Maent yn dyfod felly trwy ffydd, ac y maent yn eglwys-fuddion y cyfammod newydd, darpariadau yr hwn ydynt *ysbrydol*. Y mae cydnabyddiaeth o'u hawl i fendithion y cyfammod hwn yn y bedydd. Yr oedd

\* Gwasanaeth *personol* ydyw. Nis gall un dyn grefyddu dros y llall. Nis gall un dyn garu Duw yn lle ei gymmydog, a chredu dros ei gyfnasaf. Taenellir dwfr ar fabanod ar sail ffydd eu rhieni: os ydyw *ffydd* y rhieni yn gwneyd âros y baban, carwn wybod, paham na wna *bedydd* y rhieni y tro drosto hefyd? Y mae'r naill mor rhesymol a'r llall. Y mae gwasanaeth Duw yn ymwneyd â *meddwl* dyn, a Duw yn cyfarch pawb yn *bersonol*; rhaid i ni gredu, edifarhau, gweddio, dilyn buchedd newydd yn *bersonol*, os ydym am ryngu bodd Duw. Y mae oes y grefydd genedlaethol ar ben, a'r “fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prenau.” ..... Gwasanaeth *gwirfoddol* ydyw. Cariad at Dduw a ffydd yn ei Fab, ydyw enaid ein crefydd. Rhaid i'n holl weithredoedd crefyddol fod yn ffrwythau ffydd, os ydym am dderbyn cymmeradwyaeth Duw.—*Darlith y Parch. H. Jones.*



yn briodol enwaedu hâd naturiol Abraham, ac yn angenrheidiol bedyddio ei hâd ysbrydol. Ond pwy ydyw ei hâd ysbrydol? Credinwyr yn Nghrist, a chredinwyr yn *unig*. O ganlyniad, nid oes gan fabanod hawl i fedydd, am nad ydynt yn hâd ysbrydol Abraham. Yr oedd y babanod Iuddewig yn ddeiliaid addas i enwaediad am eu bod yn hâd naturiol Abraham; ond nis gall babanod Iuddewig na chenedlig fod yn hâd ysbrydol iddo, oblegid eu hanalluogrwydd i arfer ffydd; ac am hyny, nis dylent gael eu bedyddio. Yr Iuddewon yn unig yw hâd naturiol Abraham yn awr fel cynt, ac nid y cenedloedd. Ond fel yr awgrymwyd yn barod, ynfydrwydd o'r fath ynfytaf yw haeru mai ordinad yn lle enwaediad yw bedydd. Oni wŷr ein cyfeillion gystal a ninnau, y byddid yn bedyddio y rhai enwaededig cyn eu derbyn yn aelodau Cristionogol? Pa fodd y bu hyn, os daeth bedydd yn lle enwaediad, ac os ydyw yn sêl o'r un cyfammod? A seliwyd y cyfammod yn gyntaf âg enwaediad, ac wedi hyny â bedydd? A oedd dwy sêl? Paham y rhoddid *dwy* sêl wrth yr un cyfammod i'r Iuddewon (enwaediad a bedydd), a dim ond *un* i'r cenedloedd? Os felly, dyma athrawiaeth y dirprwyad—y naill yn lle'r llall, yn myned gyda'r gwynt.\*

\* "Y mae enwaediad Timotheus yn deilwng o sylw. Yr oedd ei fam yn Iuddewes, a'i dad yn Roegwr; ac oblegid y ffaith olaf, y mae yn debyg na enwaedwyd ef. Ond ar ol ei droedigaeth a'i fedydd, enwaedwyd Timotheus gan Paul. Gwnawd hyn er mwyn heddyheu yr Iuddewon, yr hyn a ddengys eu bod yn ystyried enwaediad yn nód cenedlaethol. Yn awr, y mae'r cwestiwn canlynol yn ymgynnyg, sef, Paham yr enwaeddodd Paul Timotheus, ac yntau wedi ei fedyddio, os daeth bedydd yn lle enwaediad? Cawn fel hyn yn y Testament Newydd fod bedydd yn cael ei weinyddu ar ol enwaediad, ac enwaediad yn cael ei weinyddu ar ol bedydd; ond dywed Taenellwyr wedi'r cwbl fod y naill wedi dyfod yn lle y llall." (*Tri Rheswm paham yr ydwyf yn Fedyddio, gan y Parch. J. M. Pendleton, M.A., cyfieithedig gan y Parch. John Edred Jones, M.A.*). Gesyd Mr. Pendleton ddadl y ddau ryw allan fel y canlyn:—"Enwaediad plant gwrrywaidd o dan yr Hen Destament; o ganlyniad, dylai plant gwrrywaidd a menywaidd gael eu bedyddio o dan yr efigyl! Ai dyma beth yw *logic*? Os na chydabyddir ond un rhyw yn y gosodiad, pa fodd y mae'r ddau ryw yn cael eu cydnabod yn y casgliad? Rhaid fod rhywbeth allan o le yn yr ymresymiad a ddygo fwy allan yn y casgliad nag a gynnwysir yn y gosodiad." Y mae yn debyg nad oedd Mr. Pendleton yn gwybod am gynllun newydd Mr. Prichard i beru fod y menywod yn enwaededig yn gystal a'r gwrrywod. Os mai "cyndynrwydd yr Iuddewon a'u sêl bleidiol dros eu hen ddefodau," fel y sylwa Mr. P. a barai i'r apostolion oddef neu gamiatu iddynt enwaedu eu plant; ai cyndynrwydd yr apostolion a'u sêl dros

Os oedd yr un personau yn cael eu henwaedu a'u bedyddio, nid oedd, cam belled ag y daliai'r pwnc gyssylltiad â hwynt, un dirprwy-osodiad o fedydd yn lle enwaediad. Nid oedd enwaediad yn cael ei ddiddymu yn eu hachos hwy, ac nid oedd dim arall yn cymmyrdd ei "le." Paham ynte y bedyddiwyd y rhai oeddynt wedi eu henwaedu, a phaham yr enwaedwyd ac y bedyddiwyd Crist ei hun. Os daeth bedydd yn lle enwaediad, fel yr haerir, y mae'r gofyniadau uchod yn anatebadwy. Y mae'r athrawiaeth wrth-Feiblaidd a ddynnoethwn yma yn amcanu Iuddeweiddio y gyfundraeth efengylaidd, a thrwy hyny, yn anelu ei saethau gwenwynllyd at fywyd crefydd bersonol, fel y dengys y dyfyniad canlynol o waith Dr. Miller (*Sermons on Baptism*, p. 74). "Mae plant Cristionogion professedig yn yr eglwys yn barod. Ganwyd hwynt yn aelodau! Ni wnaeth eu bedydd hwynt yn aelodau; ond yr oedd yn gadarnhad ac yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o'u haelodiaeth. Bedyddiwyd hwynt am eu bod yn aelodau!" Gresyn meddwl fod boneddwr o safle ac enwogrwydd Dr. Miller (*American author*), yn cyhoeddi y fath ynfydrwydd o dan yr enw duwinyddiaeth. Nid oes braidd eisieu dweyd fod y dyfyniad uchod yn hynod o anysgrhythol—nad oes rhith o sail iddo yn ngair Duw. Os ydyw plant Cristionogion professedig yn aelodau yn yr eglwys trwy rinwedd eu genedigaeth, y mae yn anhawdd gwybod paham y bedyddir hwy o gwbl. Os ydynt yn cael eu geni yn aelodau crefyddol, nid yw yn hawdd dyfalu beth sydd a fyno aberth Crist a dylanwad yr Ysbryd â hwynt wedi tyfu fyny? Y mae un peth yn sicr, sef nad oes raid iddynt hwy fyned trwy y drafferth o gael eu haileni fel pechaduriaid yn gyffredin. Aileni aelodau crefyddol a duwiol! Y mae'r cwbl sydd eisieu wneyd arnynt hwy, wedi ei wneyd cyn eu geni. Os gofalent hwy rhag syrthio oddiwrth ras rhagllaw, y maent yn ddiogel am amser a thragywyddoldeb! Dyma dduwinyddiaeth y Taenellwyr Abrahamaid.

Yn Actau 15. 1—33, y mae hanes yr amryson a fu yn eglwys Antiochia o barthed yr enwaediad (darlener yr hanes), yr hwn a derfynwyd mewn Cynghor o apos-

ou defodau newyddion, a barodd iddynt hwy fedyddio y rhai a enwaedasid? Dylasant ddywedyd wrth hâd Abraham: Yr ydych chi wedi eich enwaedu, o ganlyniad, nid oes eisieu eich bedyddio; ond rhaid i ni fedyddio y cenedloedd, oblegid ni chawsant eu henwaedu.



tolion, henuriaid, a brodyr yn Jerusalem. Y pwnc ydoedd, a ddylid enwaedu y crediniol? Cyfarfu y Cynghor, ac wedi ymddyddan ar y pwnc, "y gwelwyd yn dda gan yr apostolion a'r henuriaid, yn nghyd â'r holl eglwys," i roi barn yn erbyn enwaediad y cenedloedd. Yn awr, os daeth bedydd yn lle enwaediad, yr oedd yr apostolion yn gwybod hyny, a hono oedd yr adeg iddynt hysbysu y peth. Buasai mynegu y ffaith hono yn hollol derfynol, ac yn cau allan bob dadl ar y pwnc. Paham na ddywedasant:—"Nid yw enwaediad yn angenrheidiol, oblegid y mae bedydd wedi cymmeryd ei le." Pe buasai Taenellwyr Abrahamaid yn y Cynghor, diau y buasent hwy yn dweyd hyny yn y modd mwyaf awdurdodol; fodd bynag, ni ddywedodd yr apostolion ysbrydoledig y fath beth yn y llythyr sydd yn cynnwys eu barn ar y mater. Os daeth bedydd yn lle enwaediad (yr hyn sydd mor groes i grefydd bersonol), buasai y rheswm a alwodd y cyfryw Gynghor yn nghyd, yn sier o arwain i gael allan y ffaith; ond nid felly y bu. Y gwir yw, mai nid yn yr oes apostolaidd y cafodd yr athrawiaeth a gondemniwn ei bodoliaeth. Nid oes, ynte, yn yr enwaediad a'i gyssylltiadau, y sail wanaf i daenelliad babanod; ond pe caniatâem mai yn lle y sefydliad Iuddewig hwnw y daeth bedydd, byddai y dybiaeth, fel y dangoswyd, yn erbyn taenelliad y "cerubiaid bychain," ac o du bedydd y crediniol, a chrefydd bersonol y "dyddiau diwedaf."

Llawer sydd wedi ei ddweyd a'i ysgrifenu o barthed i addasrwydd tybiedig babanod fel deiliaid bedydd, oddiar yr ystyriaeth o'u bod i gael eu cadw trwy ras; ond nid ydys erioed wedi dangos, ac ni ddangosir byth chwaith, fod dylanwad dyfodol efengyl ar rai na wyddant am dani, yn rheol i ni ymddwyn tuag at y cyfryw mewn ystyr grefyddol yn y byd hwn. Os gwir yw yr hyn a ysgrifenyddyd o ethryb i berthynas yr efengyl â *deiliaid cyfrifoldeb yn bersonol*, y mae'r cyhuddiad o wneyd "deddf bedydd yn gaethach na deddf y nefoedd," a gofyn, "os yw babanod yn addas i'r nef, paham na chant fod yn yr eglwys?" ac ymadroddion cyffelyb, i gael eu cymmeryd am yr hyn ydynt o werth. Os yw gwallgofiaid yn anfarwol, hyderwn nad oes un Taenellwr mor annhebyg i Dduw a lleoli yr anffodusion hyny yn uffern; os na fyddant yn y "lle poenus hwnw," byddant o angenrheidrwydd yn y nefoedd; ond a ydyw hyny yn brawf y dylent gael bod yn

aelodau yn eglwys Dduw ar y ddaear? Paham lai, os yw cymhwysder i'r nefoedd, a hyny yn ddieithriad, yn brawf o addasrwydd i'r eglwys filwriaethus? Os yw cymhwysder y "cerubiaid bychain" i'r nef yn profi eu hawl i fedydd, paham nad yw yn profi eu hawl i *ragor* na bedydd? Gan y *gellir* rhoi ychydig fara a gwin iddynt, gystal ag y gellir taenellu (ac yn agos mor hawdd) dyferynau ar eu gwynebau, paham na roddir y swper iddynt? Os chant un o'r ddwy ordinhad ar gyfrif eu cadwedigaeth, paham na chant yr un arall o herwydd yr un peth? Paham y gwneir deddf y swper "yn gaethach na deddf bywyd tragwyddol?" Os ydynt yn addas i'r nefoedd, pa anaddasrwydd sydd ynddynt i amgylchu bwrdd yr Arglwydd? Gwelwn fod croes-dyniadau ac anghyssonerau pwysig yn y rhan hon o ymresymiad y Taenellwyr, ac nad yw ond dweyd rhywbeth mewn dyrswch yn hytrach na myned yn fud. Yr hyn sydd wedi ei ddadguddio i ni yw, fod babanod yn gadwedig; ond y mae *amgylchiadau* eu cadwedigaeth yn mysg y "dirgeledigaethau-a berthyn i'r Arglwydd ein Duw." Yn ol ein gosodiad, y mae'r efengyl, fel cyfundrefn adnabyddus i ni, yn ymwneyd â dynion mewn oedran i ffurfio barn am dani, ac am danynt eu hunain, ac fel y cyfryw yn hawlio crediniaeth a derbyniad gan y rhai hyny; ond nid yw ein gwybodaeth ond rhaol iawn o barthed i'w dylanwad ar bersonau ac amgylchiadau "tu draw i'r llen." Gŵyr pawb nas gall babanod gredu, am hyny, nid oes a fyno'r efengyl fel cyfundrefn i ddyn mewn oed â hwynt, ac nid ydynt, oblegid hyny, i gael eu bedyddio. Dywedwyd filoedd o weithiau, os nad ydyw babanod i gael eu bedyddio am nas gallant gredu, nas gellir eu cadw oblegid yr un diffyg. Os ydyw iachawdwriaeth babanod yn ymddibynu ar eu ffydd, nis gellir eu cadw, oblegid eu bod yn analluog i gredu. Diau eu bod yn cael eu cadw ryw-sut trwy gyfryngwriaeth Crist, ond nid trwy ffydd yn y Cyfryngwr. Y mae ein gwrthwynebwyr yn methu yn hollol yn eu hamcan y dwyrn yr wrthddadl hon yn mlaen. Bwriadant ein gorfodi i ganiatau priodoldeb bedydd babanod, neu ein rhwymo i wadu eu hiechydwrriaeth; ond nis gwnawn gyfaddef y naill na gwadu y llall. Gan mai ein crediniaeth yw, fod babanod yn gadwedig *heb* ffydd, ac nid *trwy* ffydd, y mae eu gwrthddadl wedi ei dinystrio. I'r perwyl o effeithio ar deim-



ladau tyner y rhai mwyaf arwynebol, dywedir fod cyfundraeth y Bedyddwyr yn cynnwys damnedigaeth yr holl blant sydd yn marw yn eu babanod. Os felly, ar yr un tir, neu yn ol yr unrhesymiad, y mae'r ffaith o fod y Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaid yn gwrthod bedyddio babanod na fyddo wedi eu "geni yn yr hawl"—plant dynion digrefydd—yn profi eu bod hwy yn credu mai colledig yw pob maban na fyddo ei dad na'i fam yn grefyddol; oblegid yn ol ymresymiad Mr. P. ac ereill, pe buasai ganddynt hawl i'r nef, buasai ganddynt hawl i fedydd!! Yn mhellach, y mae eu gwaith yn gwrthod cymmundeby yn yr eglwys ar y ddaear i blant credinwyr, yn profi (yn ol eu trefn hwy o resymu) nad oes gan blant credinwyr, er eu bedyddio, hawl nac addasrwydd i gymmundeby saint yn y nef; onide, buasent yn meddu addasrwydd i gymmundeby saint ar y ddaear. "Gofynwch i daenellwyr plant," ebe y Parch. John Evans, "paham na roddant gymmundeby i'w babanod gystal a bedydd? Eu hateb yw, 'fod deddf y swper yn gofyn cymhwysderau yn ei deiliaid nad yw babanod yn alluog o honynt.' 'Nid yw babanod (meddant) yn alluog i holi eu hunain, ac i iawn farnu corff yr Arglwydd; ac felly dadleuant yn erbyn eu cymmundeby yn yr un geiriau ag y dadleuwn ni yn erbyn eu bedydd; gwrthodant weinyddu y swper iddynt am yr un rheswm ag yr ydym ni yn gwrthod eu bedyddio; ond os yw babanod yn addas i gael cymmundeby y saint yn y nef, paham na chaent gymmundeby gyda'r saint ar y ddaear? A ydyw cymmundeby Wesleyaid, y Methodistiaid, a'r Annibynwyr, ar y ddaear, yn santeiddiach na chymmundeby saint yn y nef?" Aralleiria Mr. Evans ddadl y Taenellwyr fel y canlyn, gan osod y gair cymmundeby yn lle'r gair bedydd:—"Cyfaddefa Taenellwyr babanod eu hunain nad â neb i'r nef ond trwy farwolaeth a gwaed Iesu Grist. Ac onid yw yn rhyfedd, ynte, fod babanod yn addas i gael eu hachub trwy farwolaeth a gwaed Iesu Grist heb holi eu hunain, ac yn anaddas i dderbyn cymmundeby, yr hwn sydd arwydd o farwolaeth a gwaed Crist, am na allant holi eu hunain!—yn addas i dderbyn y sylwedd heb holi eu hunain, ond yn anaddas i dderbyn yr arwydd o'r sylwedd hwnnw am na allant holi eu hunain! A ydyw yn bosibl fod cyfundraeth o'r fath hyn, yr hon sydd mor llawn o anghysoderau ag yw eiddo gwrthgymmunwyr ba-

banod, yn meddu sail yn ngair y gwirionedd?" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 156). Rhaid fod cryn lawer o haerllugrwydd yn y rhai a gyhuddant y Bedyddwyr o anghyssondeb, ac a geisiant ddarbwyllo gweiniaid i gredu fod ein hegwyddorion yn erbyn cadwedigaeth babanod!! pan mewn gwirionedd, nas gall babanod dynion digrefydd, nac eiddo crefyddwyr chwaith, gael eu cadw yn ol eu dull hwy o resymu.\*

Os yw yr efengyl yn ymwneyd â'i deiliaid yn bersonol fel y sylwasom, y Testament Newydd, o angenrheidrwydd, fydd rheol y farn; ac y mae fod Paul yn ein hysbysu y bydd i Grist ar ei ail ymddangosiad "roddi dial ar y sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufyddhau i EFENGYL ein Harglwydd Iesu Grist" (2 Thes. 1. 7, 8), yn profi nad yw ein gosodiad sylfaenol hwn yn groes i lyfr ein crefydd. Gan nas gall babanod gredu ac ufyddhau, rhaid eu bod oll yn golledig, os mai wrth yr efengyl y bernir eu cyflyrau.

"Os nad yw yr efengyl yn rheol i farnu eu cyflyrau, nid yw babanod yn wrthddrychau y weinidogaeth efengylaidd o gwbl; ac os nad ydynt yn wrthddrychau y weinidogaeth, yna nid yw fod yr efengyl yn gofyn ffydd yn Nghrist, ac ufydd-dod

\* Wedi i eglwysi Affrica dderbyn bedydd babanod rhwng yr ail a'r drydydd ganrif, darfu iddynt fabwysiadu cymmundeby babanod hefyd. Dysgai Innocent I., Gregory I., &c., fod yn rhaid rhoi cymmundeby i fabanod, i'r dyben o'u gwaredu rhag uffern. Parhaodd yr arferiad mewn rhai manau o ddyddiau Cyprian hyd Gynghorfa Trent yn 1460. Yn fuan wedi'r ffyddyn 1000, nacawyd y bara i'r rhai bychain, a rhoddwyd y gwini yn unig iddynt, wedi i'r offeiriad drochi ei frys yn y cwpan. Yn Nghymmanfa Trent, o.c. 1460, penderfynwyd nad bedd eisieu cymmundeby ar fabanod, oblegid eu bod wedi eu hachub trwy fedydd, a chyhoeddwyd melldith ar yr hwn a feiddiai ddyegu yn wahanol. Yr oedd y rhai a roddent gymmundeby iddynt yn fwy cysson â hwy eu hunain na'r Taenellwyr sydd yn peidio. "Derbynid hwy" (y babanod) "i'r eglwys, a rhoddid cyflawn aelodiaeth iddynt. Ond er cymmaint y dadleuwydd yn Nghymru dros aelodiaeth babanod, y gwir yw, nid oes yr un baban yn aelod eglwysig yn y Dywysogaeth. Cedwir y babanod oddiwrth fwrdd yr Arglwydd, ac nid yw eu henwau ar lyfrau yr eglwysi. Dywedir weithiau fod hyn a hyn o ieuenctyd wedi cael aelodiaeth. Derbyn aelodau o'r eglwys i'r eglwys! Nid aelodau oeddynt o'r blaen, ynte, ac nid yw y cynhwrf am aelodiaeth eglwysig babanod ond swm i gyd. Os aelodiaeth, aelodiaeth yn ystyr arferol y gair; os amgen, darfydded y cri o fod y Bedyddwyr yn gwrthod rhoi aelodiaeth i'r rhai bychain, a Thaeenellwyr yn rhoddi aelodiaeth iddynt."



i fedydd yn ei holl wrthddrychau, mewn trefn i fod yn gadwedig, yn profi na ellir achub babanod heb ffydd ac heb fedydd. Ond nid yw eu bod yn cael eu cadw heb ffydd ac heb fedydd, yn profi eu bod yn cael eu hachub heb waed y groes a gwaith yr Ysbryd; oblegid y mae yr angenrheidrwydd am ffydd a'r angenrheidrwydd am iawn, yn ymgodi o ddau achos gwahanol." Nid yw siarad am freintiau eglwysig i fabanod, a chyhuddo y Bedyddwyr o ymddwyn yn greulon tuag at eu plant trwy beidio taenellu dwfr arnynt, ond ffiloreg a ddylai fod yn mhell islaw sylw rhesymolion gwlad efengyl, ac yn neillduol y rhai sydd yn athrawon mewn duwinyddiaeth a chrefydd.\*

A all ein cyfeillion ddweyd wrthym yn *gydwylbodol* a *disrifol*, mai eu cred yw, fod y taenelliaid a arferant yn *fraint* i'r babanod ar y rhai y gweinyddir ef; a'u bod, o'r ochr arall, yn barnu mai creulondeb yn y Bedyddwyr yw peidio taenellu dwfr ar eu babanod hwy? Drwg genym fod amryw o haeriadau y Taenellwyr yn gyfryw mewn ynfydrwydd ac anysgrythyroldeb, ag i'n *gorfodi* i ambeu disrifoldeb y rhai a'u gwnant. Mor ffîl y gwna rhai athrawon eu hunain pan yn ceisio amddiffyn y ffiloreg o dan sylw. Y mae Mr. P., er enghraifft, "yn methu deall pa fodd y gall rhieni *weddio dros* eu plant gydag un hyder, tra y gwrthodant eu bedyddio!" Sylwa y Parch. J. Evans fel y canlyn ar y frawddeg ryfedd hon:—"Y mae yn debyg

nad yw R. P. yn gweddio dros neb ond dros y rhai y gwyr efe a gawsant daenelliaid yn eu babanod. Ac felly nid yw y gweinidog hwn i'r Wesleyaidd yn gweddio dros neb o blant y Bedyddwyr! na thros neb o blant yr annghredinwyr! na thros neb o blant y paganiaid! na thros neb o blant y gwrthffyddwyr! na thros neb o blant yr Iuddewon! oblegid rhaid taenellu arnynt oll cyn y gellir gweddio gydag un hyder drostynt!! Ddarllenwyd hynaws, *addewidion* Duw ydynt *reol* ein gweddiau, a *iawn* y groes yw *sylfaen* ein *hyder* wrth orsedd gras, ac nid defod babaidd." Y mae gan Mr. Evans sylwadau llymion a grymus ar y cyhuddiad gwael a disail o fod y Bedyddwyr "yn gadael eu plant, ar yr un tir a phlant paganiaid" (tud. 159—162); ond nid yw ein terfynau yn caniatáu i ni i'w dyfynu.

Nis gall y darllenydd llygadog lai ná gweled fod ein trydydd gosodiad a'r sylwadau blaenorol, yn myned o dan wreiddiau y pethau a ddywedir mewn perthynas i Grist yn cymmeryd plant bychain yn ei freichiau, santeiddiad y wraig ddigred trwy ei gwr, bedyddiad babanod Lydia, taenelliaid "cerubiaid bychain" ceidwad y carchar "mewn canlyniaid i ffydd eu tad," ac amryw wrthddadleuon ereill. Y mae pob adeilad o angenrheidrwydd yn syrthio o hono ei hun wedi symud ei sylfeini. Os mai peth personol yw crefydd, nis gellir hawlio dim ar dir perthynas naturiol; os caniatêir y gosodiad hwn (a phwy a all ei wrthod yn ngwynneb y Beibl), y mae taenelliaid, beth bynag a ddywedir drosto, mor ddisail a chestyll mewn awyr.

IV. Y MAE FOD UNRHYW SEFYDOLIAD YN METHU CYRHAEDD NEU SICRHAU Y DYBEN NEU Y DYBENION MEWN GOLWG WRTH EI SEFYDLU, YN PROFI BODOLAETH RHYWBETH HEB FOD YN IAWN MEWN CYSSYLLTIAD AG EF, AC YN GALW YN UCHEL AM DDIDDYMIAD Y SEFYDOLIAD HUNW, MEWN TREFN I WNEYD FFORDD I SEFYDOLIAD EFFETHIOLACH.

Y mae'r egwyddor hon etto, yn hawlio derbyniad fel un ag sydd mor hunan-egllur agy gellir cael unrhyw wirionedd na fyddo o fewn terfynau yr "*Exact Sciences*." Atebodd diddymiad Deddfau yr Yd, sefydliad y *Penny Postage*, &c., y dybenion mewn golwg, ac fel y cyfryw hawlia'r diddymiaidau gael aros, tra y mae Deddf yr Unffurfiaeth, a llawer o rai tebyg iddi, wedi gorfod ffioi o flaen cynnydd gwareiddiad a chrefydd. Os yw taenelliaid babanod yn ateb i'r pethau a briodolir i fedydd yn y Testament Newydd, y mae ei hawl yn dda can

\* "Y mae Mr. H. yn sôn llawer am freintiau yr eglwys, fel rhai yn perthyn i'r plant a'r babanod. Addefwyf fod holl freintiau gwladwriaeth Israel yn perthyn i bawb ag oedd o Israel; yr wyf yn gallu deall hyn; ond yn fy myw nis gallaf ddeall pa bethau sydd yn eglwys Crist ag y gall babanod eu gwerthfawrogi fel breintiau. Yr wyf yn gofyn i Mr. H., A oes rhywbeth yn eglwys Crist i ryw rai sydd heb ddeall neu heb ffydd? Y mae yma freintiau....., ond nid oes yma fraint i neb ond y rhai sydd yn meddu cariad Crist yn eu calonau. Y mae Mr. H. hefyd yn sôn am blant—plant bach, a babanod fel pe na byddai gwahaniaeth rhyngddynt. Tra nas gall babanod a phlant bychain gael lles yn nhŷ Dduw, addefwyf y gall plant gael eryn fantais. Ac onid yw y Bedyddwyr yn rhoi pob mantais a allant i'w plant hwy? Pa fantais y mae plant y Taenellwyr yn feddu, nad yw plant y Bedyddwyr yn ei mwynhau?.....Yn fyr, y mae'r Bedyddwyr yn ymddwyn at eu plant gystal a'r enwadau ereill, a gwell hefyd, canys nid ydynt yn rhei dim iddynt i bwysio arno yn dwyllodrus, ac nid ydynt yn eu hamddiffadu o'r pleser a'r fantais o ufyddhau yn bersonol i fedydd y Testament Newydd, wedi iddynt ddyfod i'w ddeall." (Parch. T. Lewis, Rhannol.)



belled a hyny; ond os nad ydyw, rhaid iddo ymestwng i ddedfryd cyfiawnder.

1. Y mae bedydd, fel yr addefa llawus mawr o Daenellwyr, yn llinell wahan-iaethol rhwng byd ac eglwys. Dywed Mr. Prichard (tud. 10) ei fod yn "cynnwys neillduad, neu gyssegriad, hollol yr hwn a fedyddir, i Dduw a'i wasanaeth." Os bydd y neillduad hwn yn *hunan-neillduad*, neu yn *ymneillduad*—yn effaith gwirfoddoliaeth o du'r bedyddiedig; nid oes genym un gwrthwynebiad i athrawiaeth y geiriau a ddyfynwyd, can belled ag y mae yn cyrhaedd. Dysgir ni gan holl rediad y Testament Newydd; y byddid yn ystyried y rhai a fedyddiasid yn aelodau eglwysig yn yr oes apostolaidd, a'r rhai nad ymestynasant i'r ordinhad yn ddynion digrefydd. Y mae hanes bedyddiad y tair mil (Act. 2. 41—47), a'r hyn a gofnodir am deulu ceidwad y carchar, teulu Stephanus, teulu Lydia, &c., mewn canlyniad i'w bedydd, yn profi fod yr ordinhad yn fath o "*line of demarcation*" rhwng byd ac eglwys.\* Yn ol y golygiad hwn, y mae ymddygiad y Taenellwyr yn gwneyd yr holl ladron a'r mwrddwyr bedyddiedig ar wyneb y ddaear, yn aelodau o Eglwys Iesu Grist; a'r mwyafrif o'r plant drygionus sydd yn tyngu ac yn rhegu ar hyd ein heolydd ac yn halogi dydd Duw, yn nghyd â'r rhif luosocaf o buteiniaid cyhoeddus y deyrnas, yn aelodau bedyddiedig!! Os nad yw crybwyll y fath syniad yn ddigon o ddynoethiad i'r *system* ag y mae yn rhan o honi, nid gwiw

daelu ar y pwnc. Yn fyr, y mae'r ffaith o fod taenelliad babanod yn cymmysgu byd ac eglwys—yn dymchwelyd y caerau sydd oddiamgylch i ardd y pomgranadau, fel y gallo'r baedd o'r coed ei thyrio, ac anifeiliaid yr anialwch ei sathru, yn ddigon o brawf y dylai pob Taenellwr Protestanaidd ei yru i Rufain, o'r lle y daeth. Alltudiwyd llawer troseddwr dros ei fywyd am lai o drosedd. Nid oes eisieu profi fod bedydd y crediniol yn ateb y dyben o wahaniaethu rhwng dynion digrefydd a chrefyddwyr. Nid ydym yn meddwl na wna ein gwrthwynebwyr ganiatau hyn. Nid yw fod Simon Magus, Alexander, ac ereill, yn ein twyllo yn achlysurol, ond eithriad i'r rheol. Rhaid, gan hyny, i daenelliad babanod gael ei alltudio i'w le ei hun, a bedydd y crediniol gael gwarogaeth gyffredinol gan y byd Protestanaidd. Os mair Testament Newydd yw ein rheol, rhaid i hyn gymmeryd lle yn hwyr neu yn hwyrach, ac nid oes gan y Taenellwyr sydd yn caru'r Ceidwad un dewisiad yn y mater.

2. Nid yn unig y mae yn fath o ddangosiad gweledig o aelodiaeth eglwysig; ond ystyri'r ef hefyd, can belled ag y mae yn cyrhaedd, yn ysgafnhad neu esmwythder i gydwybod anesmwyth y bedyddiedig—yn brawf i'r dyn ei hun (os bydd yn teimlo fel y dylai), ei fod, can belled ag y mae gweithred allanol o ufydd-dod yn cyrhaedd, wedi dod i gyssylltiad â threfn y cadw trwy aberth Crist. Yn y bedydd yr ydys yn "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw" (1 Pedr 3. 21). Gan nad yw taenelliad babanod yn sierhau y dyben Ysgrhythrol hwn chwaith, a bod bedydd y crediniol yn gyfaddas i'r amcan, y mae yn hawdd i ddyn goleuedig a chydwybodol wybod ei ddyledswydd at y naill a'r llall. Pan yn cymmeryd ei fedyddio, y mae'r dyn yn ymwybodol ei fod y pryd hwnw yn dod i gyssylltiad ordeiniedig Duw â threfn "madd-euant pechodau" (Act. 2. 38). "Nid yw ein hufydd-dod i fedydd yn haeddu madd-euant pechodau," ebe un ysgrifenydd, "na dwfr y bedydd yn golchi ymaith fudreddi y enawd. Er hyny, rhaid penderfynu ar awdurdod yr Ysgrhythrau, fod rhyw gyssylltiad rhwng bedydd edifeirwch a madd-euant pechodau. Ond nid yw maddeuant wedi ei gyssylltu â bedydd, yn mhellach nag y mae bedydd wedi ei gyssylltu âg edifeirwch. Tori y cyssylltiad sydd rhwng bedydd ac edifeirwch, fyddai tori y cyssylltiad sydd rhwng bedydd a maddeuant pechodau. Mewn trefn i ddal y cyssyllt-

\* Yn 1 Cor. 12. 13, cymmerir yn ganiataol fod pawb a fedyddiasid yn perthyn i gorff Crist:—"O herwydd trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corff, pa un bynag ai Iuddewon ai Groegwyr, ai caethion ai rhyddion; ac ni a ddiodwyd oll i un ysbryd. Canys y corff nid yw un aelod, eithr llawer." Y mae pawb a fedyddiwyd yn cael eu tybied yma yn aelodau o'r un corff, ac wedi cyfranogi o'r un ysbryd, i'r rhai y cyfyngid bedydd yn hollol. Yn Gal. 3. 26—28, y mae bedydd yn cael ei alw yn wisgo Crist. Cyfeirir at wisgo dilled neillduol (*licery*) yn ngwasanaeth mawrion y ddaear, ac yn neillduol brenincedd a thywysogion. "Ymddengys fod rhai Iuddewon yn eglwys Galatia wedi proffesu ffydd yn Nghrist, yn glynu wrth gyfraith Moses fel cyfrwng eu cyfiawnhad; yr hyn a barodd i'r apostol eu hadgoffio fod yr ufydd-dod a roddasant yn eu bedydd, yn cynnwys rhoi ymaith Moses a' gwisgo Crist." Y mae Dr. Wardlaw ac ereill yn ceisio dysfetha grym y ddadl a sylfaenir ar Gal. 3. 26—28, trwy eu cymharu â Gal. 5. 2, 5, a thynu casgliadau annghywir; ond y mae'r Parch. J. Evans (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 137-8), yn dymchwelyd eu hymresymiad yn y modd mwyafrif llwyddiannus.



iad sydd rhwng maddeuant a bedydd, rhaid dâl y cyssylltiad sydd rhwng bedydd ac edifeirwch yn y deiliaid. Ac felly yr oedd Ioan yn pregethu bedydd edifeirwch er maddeuant pechodau. Nid yw y bedydd hwn i'w weinyddu ar neb heb edifeirwch. Am hyny, edifarhewch a b. dyddier pob un o honoch! Nid yw babanod yn alluog i edifarhau, gan hyny, nis gall y bedydd hwn fod yn perthyn iddynt."

3. Yn ol y dduwinyddiaeth a dderbynir yn gyffredin, rhagdybir fod yr hwn a fyddo yn ymuno âg eglwys Dduw, wedi ei aileni; a barna llawer o Daenellwyr gystal a ninnau, fod bedydd wedi ei fwriadu i fod yn fath o arddangosiad allanol o'r enedig-aeth sydd wedi cymmyrd lle, a sylfaen-ant yr olygddysg hon ar Ioan 3. 5; Titus 3. 5. Gosodir y rhai bedyddiedig allan megys rhai *wedi* eu haileni, ac nid i *gael* eu haileni, "Nid o weithredoedd cyf-iawnder y rhai a wnaethom ni; eithr yn ol ei drugaredd, yr achubodd Efe ni, trwy *olchiad yr adenedigaeth*, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân." Gelwir bedydd yma yn *olchiad yr adenedigaeth*.

"Y mae'r person bedyddiedig yn cael ei ddangos megys wedi ei *eni* yn yr ordinhad, ac i'w dybied wedi ei adnewyddu yn barod gan yr Ysbryd Glân. Nis gellir dywedyd hyn am fabanod. Nis gall y rhai sydd yn marw yn eu babandod fod wedi eu geni o ddwfr, nac wedi eu haileni trwy air Duw, er eu bod yn cael eu hachub trwy waed Crist. Dywedyd fod bedydd yn arwyddo i fabanod y *bydd* iddynt, neu y *dichon* iddynt, *gael* eu haileni wedi tyfu fyny, sydd ddychymmyg hollol ddisynwyr, oblegid rhagdybia yr ordinhad fod y bedyddiedig *wedi* ei aileni yn barod, a thrwy fydd yn y gwirionedd y mae ailenedigaeth yn cymmyrd lle:—'Wedi eich aileni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig trwy *air Duw*, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragwydd.'" Yn ol yr esboniad hwn ar yr adnodau y cyfeiriwyd atynt, un o ddybenion bedydd yw bod yn arddangosiad allanol o gyfnewidiad mewnol.\* Pan na fyddo yr

hwn a fedyddir wedi ei aileni, nid arnom ni y mae'r bai; gan mai ar y dybiaeth o'i fod yn ailenedig y bedyddir ef, fel y bedyddiwyd Simon Magus yn yr oes apostol-aidd. Sarbad ar synwyr y darlennydd fyddai gofyn, A ydyw y dyben pwysig hwn yn cael ei sicrhau trwy daenelliad babanod.

4. Bwriedir bedydd i fod yn arwydd-luniol o gladdedigaeth\* ac adgyfodiad Crist, fel y dangoswyd yn barod (Rhuf. 6. 1—5; Col. 2. 12). Beth bynag a feddylia rhai Taenellwyr am y sylw hwn, y mae wedi cael ei ddysgu lawer o weithiau yn gyhoeddus gan rai o'u hathrawon dysgedigaf a gonestaf hwy eu hunain.\* (*Gwel y sylwadau yn y tudalenau blaenorol ar ddull gweinyddiad bedydd*). Tybier, er mwyn dadl, nad ydym ni yn esbonio Rhuf. 6. 1—5; Col. 2. 12, yn iawn; a feiddia ein cyfeillion haeru nad oes ynddynt gyfeiriad at unrhyw ddyben neu ddybenion ymarferol? Beth bynag yw y dyben, neu y dybenion a olygir gan ysbrydoliaeth ynddynt, amlwg yw nas gall taenelliad babanod arwyddo yr hyn a olygid? Y

Duw, yr hwn sydd yn ymgflwyno yn wirfoddol i *anrhydeddu, ufyddhau*, a chanlyn Crist. Oddieithr fod dyn yn gyssegru ei hun yn ewyllysgar i Dduw, nis gellir bedyddio i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn ol y comisiwn; oblegid gwaith personol a gwirfoddol y credadyn yw hyn. Nis gall neb gyssegru un arall i Dduw, ac nid ydyw y bedyddiwr ond arddangos yn swyddol *hunan-gyssegriad* y bedyddiedig. Wrth ddyfod yn wirfoddol i gymmyrd eu bedyddio i enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, y maent yn cyflwyno eu hunain i Dduw, yr hyn a arddangosir yn y bedydd. Gellir bedyddio unrhyw beth yn enw y Drindod, ond nis gellir bedyddio i y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, ond *creadur rhesymol*, pechadur edifeiriol, yr hwn yn eifedydd sydd yn gwneyd cyfammod â'i Dduw." (*Gwel Dr. Wayland's Principles of the Baptists*, p. 65. *Darlith y Parch. Hugh Jones*, tud. 23).

\* "Those phrases, 'buried with Christ,' and 'risen with Christ,' are only the sense and signification of that Eastern custom in baptism, viz., of plunging the baptized person under water, and raising him up again; and the significance of them, the apostle (Rom. 6. 3, 4, 5) plainly tells us, wholly refers to the death, and burial, and resurrection of Christ; and therefore the plunging under water necessarily refers to Christ's death and burial, and the raising up again to his resurrection"—*Dr. Scott*.

"'We are buried with him in baptism,' the like expression you have (Col. 2. 12). 'Buried with him in baptism, wherein also ye are risen with him.' The putting the baptized person into the water, denoteth and proclaimeth the burial of Christ, and we by submitting to it are baptized (buried) with him, or profess to be dead to sin; for none but the dead are buried; so that it signifieth Christ's death for sin, and our dying unto sin.'"—*Dr. Manton*.

\* "Meddwl y geiriau yn y comisiwn yw, 'Bedyddio i'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.' Ystyr y geiriau 'bedyddio i un' (*baptizo eis*), ebe Dr. Robinson yn ei *Lexicon*, 'yw bedyddio i broffes o flydd ynddo, ac ufydd-dod didwyll iddo.' Felly Greenfield, '*baptizo eis*—un yn ei fedydd yn ymrwymo i anrhydeddu, ufyddhau, a chanlyn un.' Felly y bedyddiwyd y tadau i Moses—i fod yn ddysgyblion iddo, ac i gydymffurfio â'r gyfraith a roddai efe iddynt oddiwrth Dduw. Y mae'r comisiwn yn gorchymyn bedyddio i'r Tri un



mae rhyw gyssylltiad rhwng bedydd a marwolaeth Crist, ac a'n marwolaeth ninnau i bechod, beth bynag ydyw, oblegid dywedir yn bendant fod cynnifer ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, wedi eu bedyddio i'w farwolaeth, wedi marw gydag ef, ac wedi adgyfodi gydag ef i fuchedd newydd.\* Dywedir hefyd yn bendant eu bod wedi eu cydgyfodi trwy flydd gweithrediad Duw. Nis gellir mynegu unrhyw beth yn fwy eglur. Gwallgofddyn yn unig a haerai y gellir cydgyfodi babanod gyda Christ trwy flydd gweithrediad Duw; am hyny, nis gallasant fod yn mysg y cynnifer ag a fedyddiwyd i Grist Iesu.† Mewn cyfeiriad at yr adnodau at y rhai y cyfeiriwyd yn yr adran hon, y dywed y Bedyddwyr fod bedydd yn arwyddlun o gladdedigaeth yr "hen ddyn," ac o'r fuchedd newydd yr hon y bwriada y bedyddiedig ei ffurfio rhagllaw. Beth sydd yn yr athrawiaeth hon yn wrthwynebol i'r adnodau y cyfeiriwyd atynt? Gadawed dyn diragfarn a goleuedig i'w gydwytod lefaru. Caniateir fod y swper

\* "Paul says, 'we are buried with him by baptism unto death;' that is, the ceremony of wholly immersing us in water, when we were baptized, signified that we died to sin; and that of raising us again from our immersion, signified that we would no more return to those disorderly practices in which we lived before our conversion to Christianity."—*Saurin*.

† "St. Paul here alludes (Rom. 6. 4) to immersion, or dipping the whole body under water, in baptism; which he intimates did typify the death and burial (of the person baptized) to sin; as his rising up out of the water did typify his resurrection to 'newness of life.'"—*Dr. Wells*.

Dyma farn dau daenellwr enwog; ac y mae'r ddau, fel y gwyr y cyfarwydd, yn cynnrychioli *llu*.

† Mewn perthynas i'r hyn a ddywed y Beibl o barthed dybenion ymarferol yr ordinhad, ysgrifena un duwinydd grymus fel y canlyn:—"Ac y mae ystyr a dyben ymarferol yr ordinhad yn cau babanod allan yn hollol; oblegid y mae yn annichonadwy i fabanod fod wedi eu bedyddio i farwolaeth Crist—wedi marw gyda Christ—wedi adgyfodi i fuchedd newydd—ac wedi cydgyfodi trwy flydd gweithrediad Duw. Nid ydynt wedi gwisgo yr Arglwydd Iesu—wedi eu bedyddio yn un corff trwy yr ysbryd, nac wedi rhoddi ufydd-dod o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth, a thrwy hyny ateb cydwytod dda tuag at Dduw. Gwallgofrwydd fyddai ymddyddan a'r babanod taenlledig yn Nghymru, yr un modd ag y mae pawb a fedyddiwyd i Grist Iesu, yn cael eu hanerch yn y Testament Newydd; o ganlyniad, nis gallasai neb o'r personau anerchedig fod yn fabanod. Dysgwn oddiwrth Eph. 4. 5, nad oes ond *un* bedydd. Yn awr, gan nas gellir estyn bedydd y commissiwn i fabanod, rhaid fod *dau* fedydd, os oes y fath beth a bedydd babanod. Dywed yr Ysgrhythyr nad oes ond *un* bedydd wedi ei ordeinio gan Grist; o ganlyniad, nid ordinhad Crist yw bedydd babanod."

yn cyfeirio at ddrylliad corff, a thywalltiad gwaed ein Ceidwad bendigedig; ond pahan y nacëir i fedydd yr anrhydedd o arwyddlunio ei gladdedigaeth a'i adgyfodiad, y mae yn anhawdd dyfalu, ond yn unig ar dir yr olygddysg o anaddasrwydd taenelliad i fod yn arwyddlun o honynt.

Dywed y Taenellwyr "*mai pregeth i'r llygad yw bedydd*," beth bynag y mae yn bregethu. Mewn beirniadaeth ar y sylw hwn, y mae'r Parch. H. W. Hughes yn gofyn:—"Attolwg, pregeth ar ba beth i'r llygad yw bedydd babanod? Nid pregeth ar aflendid moesol y pechadur, canys yn hwnnw y mae y '*pen oll yn glwyfus, a'r galon yn llesg*,' ond yn ol bedydd plant, nid oes yn glaf ond y *talcen* yn unig. Nid pregeth ar yr ymgeledd dwyfol, canys y mae hwnnw yn dilyn yr afiechyd yn ei holl lochesau o '*wadn y troed hyd goryn y pen*.' Nid pregeth ar ddyoddefaint Crist, canys medd efe, '*suddais mewn tòn ddofn, a'r ffrwd a lifodd trosaf*.' Nid pregeth ar ei adgyfodiad, canys nid oes na chladdu na chyfodi, na dim yn debyg, yn nghyflawniad y ddefod. Nid pregeth ar farwolaeth yr enaid i bechod, a'i adgyfodiad i fywyd o ras, canys nid yw dyn yn yr oedran hwn yn bechadur. Nid pregeth ar ddylanwadau santeiddiol yr Ysbryd Glân, canys cymhwysir hwynt at bob rhan o'r dyn yn ddiwahaniaeth. Nid pregeth ar rwymedigaeth bersonol dyn i ofni a charu Duw, canys gwneir y cyfan oll o'r seremoni yn ddirprwyol (*by proxy*). Ac nid pregeth ar wirfoddolrwydd ufydd-dod flydd, canys nid cynt y dygir y rhai diniwed (lawer o honynt) o dan y dyferion, nag y dechreuant rwnach yn dost o dan yr oruchwyliaeth. Gofynaf etto, pregeth ar ba beth ydyw bedydd babanod, heblaw ar ei anysgrythyrolrwydd ei hun, ac annghyssondeb ei bleidwyr" (*Yr Ymddyffynydd*, tudal. 43—4). Y mae ysgafnder y ddefod yn y glorian hon etto (y 4ydd gosodiad), yn y modd mwyaf awdurdodol, yn gorchymyn ei diddymiad hollol a thragywyddol yn y byd Protestanaidd.

V. Yn mbellach.—OS BYDD ARFERIAD NEU DDEFOD GREFYDDOL YN NIWEIDIO NEU YN TUEDDU I DDRYGU DOSPARH NEU DDOSPARTHIADAU O DDYNION YN EU PERTHYNAS A CHREFYDD, GELLIR PENDERFYNU FOD Y DDEFOD NEU YR ARFERIAD HONO YN GROES I FEDDWL DUW, AC NAD OES IDDI FEL Y CYFRYW UN MATH O SAIL YN YR YSGRYTHYRAU.

1. Y mae bedydd babanod, nid yn unig yn *tueddu* i ddrygu, ond hefyd yn *niweidio* llawer o'r personau y taenellir dwfr arnynt



yn eu babanod. Dyfynwn y brawddegau canlynol o weithiau rhai o enwogion ein henwad ar y pwnc pwysig hwn: "Y fath gyfrifoldeb aruthr raid fod ar y rhieni hyny a ddysgant i'w plant gredu eu bod hwy wedi eu gwneyd yn blant i Dduw, yn aelodau o Grist, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd yn eu babanod! Y mae eu dwyn i fyny dan yr argraff eu bod wedi eu 'geni yn yr hawl,' eu 'selio yn nghyfammot Duw,' a'u santeiddio cyn ymddwyn arnynt, yn gyru miloedd o honynt i ddifaterwch llwyr, ac i galedwch anadferol. Mynych y gofidiwyd ein hysbrydoedd wrth glywed llwon a rhegfeydd arswydawn plant wedi eu dwyn i fyny yn y soseïadau, annuwioldeb miloedd o ba rai sydd ar dafod gwlad, a'u gwawdiadau o bethau crefyddol yn ddiareb. A pha ryfedd, gan fod eu rhieni yn eu dwyn i fyny i gredu eu bod yn feddiannol ar hawliau, na wyddant fwy yn brofiadol am danynt, nag anifeiliaid Ephesus. Tuedd uniongyrchol y fath argraffiadau twyllodrus, gyda golwg ar blant dibrofiad, ydyw gwanychu dylanwad annogaethol *rhwymedigaeth beresonol* ar eu meddyliau" (*Yr Ymddiffynydd*, gan y Parch. H. W. Hughes, tud. 54—5). "Mae o bwys," ebe'r Parch. Hugh Jones, "i eglwysi Taenellwyr Cymru edrych rhag ofn fod taenelliad dwfr ar fabanod yn gwneuthur niwed, yn hytrach na lles iddynt. Y mae'r arferiad yn yspeilio dyn o'r rhagorffaint i farnu drosto ei hun. Wedi cael ei daenellu yn ei fabanod, nid ydyw yn teimlo rhwymau arno i chwilio beth ydyw ewyllys Duw o barthed i fedydd; y mae ei rieni wedi barnu y pwnc drosto, ac felly wedi ei yspeilio o'r budd o wneyd ymostyngiad gwirfoddol i Ben yr eglwys" (*Darlith*, tud. 47). Cyfeiria'r Parch. John Evans at ymddygiadau y Bedyddwyr a'r Taenellwyr at eu plant; wedi rhoi darluniad o'r modd yr ymddyga'r blaenaf at eu hanwyliad, dywed:—"Ond Taenellwyr babanod a ymddygant yn dra gwahanol; can gynted ag y bo eu plant yn alluog o gael eu *twyllo*, hwy a ddechreuant eu darbwyllo, 'eu bod wedi eu neillduo i Dduw, wedi eu planu yn yr eglwys, wedi eu gosod yn y cyfammod gras, ac wedi cael hawl i fywyd tragywyddol'—'eu bod yn blant i Dduw, yn aelodau i Grist, ac yn etifeddion teyrnas nefoedd.' Diau fod cannoedd lawer yn myned i dragywyddoldeb bob blwyddyn, o Gymry a Saeson, 'gan dwyllo a chael eu twyllo,' heb fwy o grefydd ganddynt na'r *dychymmyg* o'u bod yn etifeddion iechydwriaeth, o herwydd i ddwfr gael

ei daenellu arnynt yn eu babanod! Mewn gwirionedd, nid oes plant neb yn cael mwy o gam na'r plant a dwyllir fel hyn. Daenellwyr babanod, peidiwch twyllo eneidiau eich plant; gadewch iddynt gael chwareu têt am fywyd tragywyddol. Arweinwch eu meddyliau at groes Crist i geisio iachawdwriaeth yn ei angeu drud; ac at ordinhadau Crist i roi ufydd-dod fydd, fel na siomer hwy am eu gobaith." (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 162).

2. Y mae bedydd babanod yn gymhorth mawr i'r cyssylltiad rhwng crefydd a'r wladwriaeth, a thrwyddo y mae Pabyddiaeth yn cadw safle diogel yn ngwersyll Protestaniaeth. Nis gellir tori y cyssylltiad crybwylledig yn llwyr, cyn difodi taenelliad babanod yn hollol; oblegid y mae'r naill fel y llall yn ymyraeth â rhyddid cydwybod, ac yn ergydio ar wreiddyn cyfrifoldeb. Os yw dyn yn gyfrifol am ei gyflawniadau, rhaid i'r rhai hyny fod yn ffrwyth dewisiad; ond nis gall plant y Taenellwyr roi cyfrif am eu bedydd a'i gyssylltiadau, am nad oedd ganddynt un dewisiad yn y mater. Os nad yw ein cyfeillion wedi derbyn trwydded neillduol i sefyll rhwng eu plant a'r Testament Newydd, y mae taenelliad babanod a chrefyddau gwladol yn hollol ar yr un tir. "Pe gadawsid yr enwaediad yn Jerusalem, a bedydd babanod yn Rhufain, i ymddiflanu gyda'u carneddau maluriedig," ebe'r Parch. H. W. Hughes, "gwaredasid ni rhag gorthrwm 'eglwys wladol,' a phlâu dinystriol 'adenedigaeth yn medydd,' 'olyniaeth apostolaidd,' yn nghyd â'r 'offeiriadaeth' (a holl gymmalau ei llogwrn ysgorpionawg), â'r hon y fflangellwyd saint y Goruchaf yn mhob oes, o gyfodiad Anghrist hyd yr awr hon. Yn ymneillduad y Diwygwyr Protestanaidd oddiwrth Bedyddiaeth, a elwir felly, ymwrthodasant â'i *phethau gwag ac ysmala*, ond cadwasant gorff ac ysbryd y Babaeth gyda hwy, dan gochl bedydd babanod, ac nid ydynt heb gyfattal y pen (yr awdurdod gwladol) trwy yr hwn y maent yn derbyn lluniaeth, &c. Pe gadawsid yr eilumod yn Babilon, ni buasai i'w haddôlwyr etifeddiaeth o fewn ein rhandir ni, na fuasai *led troed*. Pe gallasai Protestaniaid ddweyd am *Pio Nono*, 'Nid oes iddo ddim ynof fi,' buasai ei ymdrech i Babeiddio Prydain yn hafal i ymdrech y cawr yn bwyta y lleuad, a buasai y ddau a'u gorchwylyon ar ben yr un pryd. Megys ag y dygodd arweinwyr y diwygiad Protestanaidd sefydliadau Pabyddol gyda hwynt pan ymddidolasant,



felly hefyd arweinwyr y pleidiau a ymddolasant wedi hyny oddiwrthynt hwythau, ac er iddynt ymwrthod âg 'eglwys wladwriaethol,' glynant wrthi o ran yr *egwyddor* o honi yn *nghabildi* bedydd babanod. Nid yw gwaeddi yn groch yn erbyn crefydd wladwriaethol, a gwneyd crefyddwyr o'r deiliaid fel y genir hwynt i'r byd, gan eu gosod yn y cyfammod, eu selio yn nghyfammod Duw, &c., &c., ond perffeithrwydd ynfyrwydd, ac eithafion annghyssondeb. Digrif yw gweled yr Ymneillduwr yn tynau cibau wrth edrych ar frycheuyn yr 'eglwys wladol' yn llygad yr eglwyswr, a'r Protestant yn ymgroesi wrth edrych ar frycheuyn 'nod y bwystfil' yn llygad y Pabydd" (*Yr Ymddiffinydd*). Y mae'r Annibynwyr a'r Methodistiaid (a rhai o'r Wesleyaid), yn dadleu yn selog yn erbyn *Church and State*, ac yn dweyd mai gwirfoddoliaeth yw Alpha ac Omega Cristionogaeth, tra y mae'r ddefod o daenellu dwfr ar fabanod, naill ai yn gondemniad cyfreithlon a pharhaus ar eu didwylledd, neu yn brawf o'u hanystyriaeth neu eu diffyg manylwch wrth resymu ar y pwnc. Gan fod holl wasanaeth crefydd yn beth personol a gwirfoddol, y mae gorfodaeth eglwysi gwladol a thaenelliad babanod (yn yr hwn y mae'r deiliaid yn hollol *oddefol* heb un ewyllys yn y mater), mor groes i efengyl ag yw pechod i santeiddrwydd, a thywyllwch i oleuni. Os nad oes gan y llywodraeth wladol hawl i wneyd credo na ffurfiau o weddiau, &c., i'w deiliaid, nac awdurdod i orfodi Annghydfurfwyr i gynnal Episcopaliaeth, nid oes gan fedyddwyr babanod chwaith hawl i ddewis bedydd i'w plant. Yr un yw yr egwyddor yn y ddau amgylchiad; y mae'r naill fel y llall yn gwneyd aberth o bersonolrwydd crefydd, ac yn diystyru gwirfoddoliaeth efengyl. Y Bedyddwyr, gan hyny, yn unig a allant ddadleu yn erbyn y cyssylltiad rhwng crefydd a'r llywodraeth, heb beryglu eu cyssondeb yn yr ymdrech. Barnant hwy drostynt eu hunain (fel y dangoswyd), a gadawant i'w plant a phawb ereill wneyd yr un peth; ond yspeilia'r Taenellwyr eu meibion a'u merched o'u rhyddid i chwilio'r Beibl, ac i ufyddhau i fedydd yn ol fel y deallont y gwirionedd. Y mae yn wir fod rhai o'u plant (wedi tyfu fyny) yn chwilio ac yn uno â'r Bedyddwyr, a thrwy hyny yn dadwneyd yr hyn a gamnawd gan ereill, ac yn gosod sêl condemniad ar ymyriad niweidiol eu rhieni â'u rhyddid. Nid i'r tadau na'mamau yr ydys i ddiolch am hyny. Pe byddai y *Liberation Society* yn

llwyddo eleni (1863) i dori y cyssylltiad sydd rhwng crefydd a'r llywodraeth yn y deyrnas hon, bodolai *egwyddor* y peth er hyny, cyhyd ag y taenellid dwfr ar fabanod o dan y goron Brydeinig. Una yr Annibynwyr ac ereill â ni i ddweyd, y bydd *Church and State* Lloegr yn *stigma* ar *garitor* yr oes hon yn y "Mil Blynyddau;" ond dylent ystyried, tra y maent yn ceisio tori rhai o *frigau* y pren *Upas* â'u llaw *aswy*, eu bod ar yr un pryd yn defnyddio y llaw *ddehau* i ddyfrhau ei wreiddyn â dyfroedd taenelliad.

Y mae llawer o Daenellwyr da a galluog yn hollol ymwybodol o'r ffaith, o fod dadl bedydd yn dâl cyssylltiad agos âg egwyddorion gwabaniaethol Crist ac Annghrist; a gwna eu cydwybodau anesmwyth a'u teimladau llethedig dori allan weithiau yn eu hysgrifau cyhoeddus. Mewn erthygl a ymddangosodd yn y "*North British Review*" (cyhoeddiad Taenellyddol o fri mawr), ar Ddiwygiad Ffurfwasaeth Eglwys Lloegr, y mae'r brawddegau onest caulynol i'w gweled:—"Yn yr olwg a gymmerir ar natur ac effeithiau bedydd babanod, y mae y gwabaniaeth hanfodol rhwng Protestaniaeth, a phob ffurf o egwyddorion Pabaidd a elwir felii, yn dyfod i oleuni. *Ni ddyr yr Ysgrhythyrau ddim am fedydd babanod*..... (tud. 763). Y mae'r gwirionedd gan hyny yn eglur. Y mae iaith yr Ysgrhythyrau o berthynas i fedydd yn golygu y weithred ysbrydol o ffydd yn y derbyniadigion. Dyryswech anchwaladwy yw fod ymadroddion a arferid am oedogion,—am bersonau yn feddiannol ar ddealltwriaeth, ac yn alluog o weithredoedd ysbrydol, yn cael eu cymhwyso yn wirfoddol at fabanod anymwybodol; ac nis gall fod yn achos o syndod, i syniad hollol newydd am yr ordinad gael ei greu trwy y fath wrydroad. Diffyg cydnabod y ffaith, mai nid y ddefod allanol o fedydd babanod yw y bedydd y sonir am dano yn yr Ysgrhythyrau, ydyw fflynonell gwendid amlwg isel eglwyswyr (*low English Churchmen*), yn nadleuad y cwestiwn hwn. Nis gall unrhyw ymdro (*shift*) byth eu helpu..... Y maent yn cael eu dyrsu gan feddyliau ofergoelus yn nghylech bedydd babanod; y mae arnynt ofn ei annghredu..... ac y mae arnynt fwy o ofn dweyd nad yw bedydd eglwys Lloegr yr un â bedydd Ysgrhythrol yr apostolion; ond cyhyd ag y gwrthodant addef y ffaith, rhaid iddynt ymfoddloni i gario y ddadl oll-bwysig hon yn llawn o dan anfantais ddychrynlyd; ie, cyhyd, rhaid iddynt barhau i ddyoddef



canlyniadau chwerwon y ffaith, fod ysbryd Pabyddiaeth dan un, neu arall, o'i ffurfiau mwy agored wedi cadw safle yma yn nghanol gwersyll Protestaniaeth, o ba le nid yw hyd yn hyn wedi ei godi ymaith. Ond y mae diwrnod mwy clir yn gwawrio. Y mae Dr. Mc Neile, Mr. Litton, a braid na allem ychwanegu Archesgob Caergrawnt, yn canfod, nad yw yr arferiad o fedydd babanod i'w gael yn yr Ysgrythyrau. Pan y cydnabyddir y ffaith hon yn gyffredinol, bydd i'r ddadl gymmeryd ffurf newydd; bydd i'r sylfaen gael ei chymmeryd ymaith yn hollol oddi-tan yr athrawiaeth sacramentawl, a chaiff Protestaniaeth fuddiant llawn o'i hegwyddor wahaniaethol—yr appeliad at yr Ysgrythyr fel unig safon gwirionedd crefyddol. Tra y mae'r argyhoeddiad hanesyddol hwn yn cael ei ddwyn yn mlaen, er cymmaint yw ein gofid yn achos y drygau a ddeiliant oddiwrth y gwasanaeth bedyddiadol, ystyriem unrhyw gynnyg i ddwyn i mewn gyfnewidiad yn gynamserol." Y mae'r dyfyniad hwn yn llefaru cyfrolau, o gymmaint a'i fod yn dyfod oddiwrth yr "awdurdodau goruchel," ac yn cynnwys cydgasgliad o deimladau unol nifer mawr o ddysgawdwy'r dwfyddol gwledydd cred. Dengys mai teyrnas wedi ymranu yn ei herbryn ei hun yw eiddo taenelliad babanod, a bod amser ei gofwy yn agoshau, a'i thynged wedi ei selio. Y mae'r brawddegau dyfynedig yn dangos yn eglur mai tir bedydd y crediniol yw yr unig safle ar ba un y gellir ymladd yn effeithiol â byddinoedd anghrist:—"A bydded ein gelynyon yn farnwyr." Y mae un o gedyrn y Bedyddwyr yn gwneyd y sylwadau canlynol ar y brawddegau blaenorol o'r *North British Review*:—"Mawr er anrhydedd y duwinyddion Albanaidd yw, iddynt ddryllio rhwymau yr athrawiaethau sacramentawl, a thafu eu rheffynau oddiwrthynt, a chyhoeddi yn ngwyneb haul a llygad goleuni, 'fod y gwahaniaeth hanfodol rhwng Protestaniaeth, a phob ffurf o egwyddorion Pabaid a elwir felly, yn dyfod i oleuni, yn yr olwg a gymmerir ar natur ac effeithiau bedydd babanod,' yr hyn nid yw na mwy na llai nag addefiad digel, fod yn rhaid arfer cred a bedydd, neu gydnabod honiadau eglwys Rhufain, a dychwelyd yn edifeiriol i'w mynwes! Yr ydys yn cydweled yn hollol â duwinyddion henaduriaethol yr Alban, na wŷr yr Ysgrythyrau ddim am fedydd babanod, a bod hanesyddiaeth yn ei gondemnio fel arferiad o ddechreuad apostolaidd; fod

y bedydd efengylaidd yn gofyn cymhwysderau, o ba rai y mae babanod yn hollol analluog; nad yw santeiddrwydd babanod credinwyr ond mympwy; fod cymhwyso yr iaith ysgrythyrol am fedyddiedigion y Testament Newydd at fabanod anymwybodol, ond yn arwain i ddyrswch anchwaldwy; mai nid y ddefod allanol o fedydd babanod yw y bedydd y sonir am dano yn yr Ysgrythyrau; mai diffyg cydnabod y ffaith hon yw gwendid amlwg eglwyswyr; fod ysbryd Pabyddiaeth, trwy gyfrwng bedydd babanod, yn cadw safle diogel yn ngwersyll Protestaniaeth; fod diwrnod mwy clir yn gwawrio; fod Protestaniaid yn dechreu gweled fod rhaid iddynt roddi bedydd babanod heibio, mewn trefn i feddu buddiant llawn o'u hegwyddor wahaniaethol, sef appello at yr ysgrythyr fel safon gwirionedd crefyddol; fod gwyrdroad yr iaith ysgrythyrol am fedydd wedi creu syniad hollol newydd am yr ordinhad; fod drygau annifeiriol yn deiliaw oddiwrth y gwasanaeth bedyddiadol, &c. &c. Ond yr ydym yn mhell o gydweled â hwy, 'fod unrhyw gynnyg i ddwyn i mewn gyfnewidiad yn gynamserol.' Beth! a fynai y *Scotch divines* i ddiwygwyr eglwys Loegr lynu wrth fedydd babanod, hyd oni byddo ei holl offeiriad wedi troi yn Babyddion? Onid gwell ymlid ysbryd Pabyddiaeth o gorlan Protestaniaeth, cyn iddo ddfwyno yr holl braid? Ni fyddai cyfnewidiad uniongyrchol yn niweidiol, oddieithr i Babyddiaeth yn unig, ac ai nid hwn yw y gelyn y mynid ei ddyfetha? Os y cyfnewidiad soniedig sydd i effeithio ei ddi-nystr, pa fod yr ystyrid unrhyw gynnyg i'w ddwyn i mewn yn gynamserol? Onid goreu po gyntaf y bwrir ysbryd Pabyddiaeth o'r gorlan Brotestanaidd? Onid yw y bwystfil wedi bod yn ddigon hir yn 'bwyta yr ŵyn o'r praid? Onid yw ei phiol yn ddigon llawn o waed y saint? . . . . . Gellir dywedyd, a hyny ar awdurdod nid amgen nag eiddo Dr. Wall, Goliath taenelliad, 'fod bedydd babanod a Phabyddiaeth, yn gymdeithion yn mhob gwlad lle y mae awdurdod y Pab yn cael ei chydabod; ond yn y gwledydd lle nad yw, mai yr hen ddull arferir' (tud. 462). Y mae y cydgordiad mwyaf rhwng y dystiolaeth hon a syniad y duwinyddion Albanaidd, sef, 'fod Pabyddiaeth trwy gyfrwng taenelliad babanod, yn cadw safle diogel yn ngwersyll Protestaniaeth,' ac hyd oni ymlidir y naill, y bydd y llall heb ei godi ymaith. Ergyd marwol i awdurdod ysbrydol y Babaeth, fyddai i holl Bro-



testaniaid y byd i ymwrthod â thaenelliad babanod. Trywenid ef yn ei fan gwan, a gollyngid ei waed yn ei wythien fywydol. Nid oedd edliwiadau Luther, Calvin, Knox, &c. &c., i'r Pabyddion, eu bod wedi newid ffurf y gwasanaeth crefyddol, ond gwawd, tra yr oeddynt hwy eu hunain yn cydnabod eu hawl i newid ffurf yr ordinadau yn yr arferiad o fedydd babanod. Y mae'r ymadrodd canlynol a ddefnyddwyd o waith Calvin yn anesboniadwy:—*'Caniatodd yr eglwys iddi ei hun ryddid i gyfnewid yr ordinadau ychydig, ond nid y sylwedd! O! Calvin, Calvin! ai tydi yw yr hwn a roddes fywyd anfarwol yn "No Popery?"* ..... Y gwirionedd yw, pe ymlidid Pabyddiaeth, a elwir felly, o holl ororau gwledydd cred, a thros y terfynau i'r eithafion; byddai ei hanfod yn aros tra yr arferid bedydd babanod. O! Brotestaniaid Prydain a'r byd, 'pa hyd yr ydych chi yn cloffi rhwng dau feddwl?' Os mai Crist yw Pen yr eglwys, 'ewch ar ei ol ef!' ond os y Pab, 'ewch ar ei ol yntau.' A raid i ni ddywedyd, 'Sathrasom y gwinwryf ein hunain, ac o'r bobl nid oedd neb gyda ni.' Na, na, 'deuwch yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.' Cynnorthwywch i godi y fagwyr syrthiedig rhwng eglwys Dduw a'r byd; rhwng corlan Crist a ffau anghrist.

"Hyd oni chyflawnir prophwydoliaeth y duwinyddion Albanaidd, nis gall Cristionogion Protestanaidd, gydag un cyssondeb, ddysgwyl gweled llwyddiant yn dilyn eu harfau yn eu cadgyrchoedd yn erbyn y *beystfil*. Direswm yw ymladd âg ef â'i arfau ei hunan. Tröer ato yr arfau 'nid ydynt gnawdol,' 'cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw,' a buan y 'dyfethir yr anwir hwnw.' Cwynir rhag annghydfod yn nghorff Crist, ac nid yn ddiachos; ond na ddysgwylied yr aelodau weled unffurfiaeth barn, nac unrhywiaeth teimlad yn eu mysg, tra y byddo asgwrn y gynben heb ei dynu ymaith. Nis galleid dysgwyl canlyniadau amgen i'r weithred anfad o gyfnewid ordinhad ddwyfol am *draddodiad*, a hwnw yn hollol annghydweddol â'i natur, ac yn ddinystriol i'w hamcan, trwy yr hyn y siglwyd holl seiliau rhwymedig- aeth *bersonol*, y rhwystrowyd rhydd-weithrediad rheswm, y sathrwyd awdurdod yr ysgrythyr, ac y caethiwyd rhyddid cynhwynol dyn! O'r holl heresiau a ymlusgasant i mewn yn yr oesoedd tywyllion, ni wnaeth yr un o honynt, na'r cwbl yn nghyd, gymmaint dros gynnydd a llwydd-

iant annghrist, ag a wnaeth bedydd babanod, yr hwn a agorodd lifddorau gweilgi anferth traddodiadau; ac yna, 'daeth y *diluw*.' Goroesodd dynolryw ddiluw Noa trwy gyfrwng yr arch, 'yn yr hon, ychydig a achubwyd.' Cyffelybiaeth gyfatebol i'r hwn sydd yr awr hon yn, ac wedi, ein hachub ninnau, sef bedydd (y crediniol), rhag difrod ceullif gorwyllt traddodiadau. O! deued y dydd y byddo dilynwyd yr Oen yn 'appellio at yr ysgrythyr fel *unig safon gwirionedd crefyddol*' (*Yr Ymddiffynydd*, tud. 51, 52, 53).

Gan fod "*bedydd y crediniol*" yn amddiffyn yr egwyddor sylfaenol o "*grefydd bersonol*" yn ei hanfod a'i phriodoliaethau, ac mai hon yw y pegwn ar ba un y mae Cristionogaeth Brotestanaidd yn troi, rhaid i'w hamddiffynwyr o *bob* plaid, ymladd ei brwydrau ar ei thiroedd cyssegredig hi ei hun, ac nid ar faes anghrist. "Y mae bywyd gwirionedd ynddo ei hun, a'i nerth o fewn ei derfynau, ac ni all, i'e, ni *fyn* fod yn fuddugoliaethus tu allan iddynt. Os ydym am oruchafiaeth ar Babilon, cofiwn orchymyn Cadben ein hiachawdwriaeth:—*'Deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd.*' Rhaid i'r rhai a ddygant fanerau Crist ymddeol o gorsydd lleidiog annghrist, ac o'u holl derfynau; neu ymladd o dan ormod o anfantais i ennill y dydd. Ac nid yw yr amser yn mhell, pryd y bydd raid i Brotestaniaid byd, naill ai addef awdurdod y Pab i gyfnewid dull a deiliaid ordinhad Crist, neu fabwysiadu y drefn apostolaidd." Fel y crybwyllwyd yn barod mewn man arall, heria y Pab (a hawdd y gall) holl Brotestaniaid y ddaear i brofi fod bedydd babanod yn gorwedd ar awdurdod ysgrythyrol. Dywed mai ar ei awdurdod *ef yn unig* y sefydlwyd y ddefod, ac una ei offeiriad ac yntau i chwerthin am ben y rhai a geisiant sylfaen ysgrythyrol i'r arferiad. "Gan fod Protestaniaid yn derbyn bedydd babanod ar fy awdurdod," ebe'r Pab, "paham na dderbyniant draws-sylweddiad hefyd ar fy awdurdod?"

Yr ydym yn awr yn gofyn yn ddifrifol i Daenellwyr, a ydyw yn bosibl fod arferiad ag sydd *yn*, ac *wedi* gwneyd cymmaint o niwed i bersonau a chyfundebau a thaenelliad babanod, yn arferiad sylfaenedig ar air Duw? Y mae'r dybiaeth ynddi ei hun yn cynnwys y gwrthuni mwyaf. O ganlyniad, rhaid i'n cyfeillion wneyd un o ddau beth, naill ai ymwrthod â'r ddefod, neu gydnabod awdurdod y Pab trwy



ddydwyl ydychwelyd yn edifeiriol i eglwys Rhufain, a pheidio dweyd gair byth yn erbyn y briodas druenus sydd rhwng crefydd gyfiawn y nefoedd, a llywodraethau gorthymus y ddaear.

VI. NID YW ESGEULUSDOD YMDDANGOSIADOL NEU WIRIONEDDOL O EGWYDDOR MEWN AMGYLCHIAD NEU AMGYLCHIADAU NEILLDUOL, YN PROFI YN Y MESUR LLEIAF NAD YW YR EGWYDDOR BROFFESIDIG HONO YN CAEL EI GWEITHIO ALLAN YN Y MODD MWYAF FFYDDLON GAN EI HESGEILUSWYR TYBIEDIG NEU WIRIONEDDOL MEWN CYSSYLLTIADAU EREILL: NEU, NAD YW GWAROGAETH YMARFEROL A FFYDDLON YN MHOB AMGYLCHIAD I EGWYDDOR NEILLDUOL, YN ANGENEHEIDIOL I'R DYBEN O BROFI FOD YR EGWYDDOR HONO YN CAEL YR YMOSTYNGIAD MWYAF MANWL MEWN AMGYLCHIAD NEU GYSSYLLTIAD ARALL.

Byrdwn parhaus rhai Taenellwyr (wedi cael eu gyru o'u holl lochesau) ydyw, nad yw y Bedyddwyr yn gysson â hwy eu hunain, am nad ydynt yn golchi traed eu gilydd, nac yn nacau y swper i fenywod crediniol, tra nad oes ganddynt orchymyn am yr arferiad, na siampl ysgrythyrol o honi, &c. &c., fel pe byddai diffyg mewn rhai amgylchiadau, yn ddigon i brofi anysgrhytholdeb eu holl gyflawniadau crefyddol. Dealler nad ydym yn addef bodoliaeth yr anghyssondeb hwn y cyhuddir ni o hono; ond *tybier*, er mwyn dadl, nad yw cyhuddiad eix cyfeillion yn ddisail. A wnelai hyny brofi nad yw y Bedyddwyr yn iawn gyda golwg ar ddull a deiliaid bedydd? Darfu i rai o blant Israel droseddu gorchymyn pendant (neu ran o un felly) trwy fyned allan i geisio manna ar y Sabboth (Exod. 17. 27—32); ond a oedd hyny yn profi na ddarfu iddynt wneyd yn iawn trwy fyned allan i'w gasglu yn ystod y "chwe diwrnod?" Nid oes dyn na dynes yn feddiannol ar synwyr cyfredin mor ynfyd a myntumio y fath beth. Yr oedd eu gwaith yn casglu y manna ar y diwrnodau ordeiniedig, can belled ag yr oedd hyny yn cyrhaedd, yn ufydd-dod cymmeradwy i'r ewyllys Ddwyfol. A haerir fod esgeulusdod Moses o'r gorchymyn pendant yn Meribah (Num. 20. 7—17), yn profi ddarfod iddo hefyd anufyddhau i'r un a roddwyd iddo wrth y Môr Coch (Exod. 14. 15—22), a bod yr anufudd-dod wrth ddyfroedd y gynhen, yn brawf na wnaeth chwaith adeiladu y tabernacl yn ol y portread (Exod. 25. 8, 9)? Hyd y nod pe gellid dangos fod

golchi traed ein gilydd yn rhan o'r gwasanaeth pendant a ofynir gan efengyl,—mai ewyllys y Gwaredwr yw cyfyngu y swper i'r rhyw wrywaidd, ac y dylem ail-fedyddio gwrthgilwyr, fel yr haera rhai Taenellwyr; ar yr un tir yr ydym yn dadleu, na fyddai ein hesgeulusdod ni o'r trefniadau hyny, yn profi nad ydym yn iawn yn ein perthynas â bedydd yn ei ddull na'i ddeiliaid. Os nad oedd myned i geisio manna ar y seithfed dydd yn gwneyd ufydd-dod y "chwe diwrnod yn anufydd-dod," ar ba dir yr haerir fod peidio golchi traed, a pheidio cyfyngu'r swper i'r rhyw wrywaidd, yn gwneyd "bedydd y crediniol trwy drochiad" yn anysgrhythol, neu yn "ddefod ddynol" o ddyddiad diweddar?

Haera un dosparth o Daenellwyr, fel y sylwasom, y dylid bedyddio babanod i'r perwyl o wneyd dysgyblion o honynt trwy hyny, oblegid eu bod yn rhan o'r "holl genedloedd," a bod gan "yr oedranol sydd yn credu hawl" i'r ordinhad. Y mae'r gorchwyl o fedyddio "yr oedranol sydd yn credu," gan hyny, yn warogaeth ymarferol i orchymyn pendant, ac nis gall anufydd-dod i bob gorchymyn pendant arall ei amddifadu o'r elfen o ufydd-dod efengylaidd sydd ynddo. Er addef y dylid bedyddio y rhai sydd yn credu, teimlant nad yw y tir hwn yn un diogel iddynt, ac felly ffarweliant âg ef yn frysiog ac yn ddiseremoni, gan obeithio y gallant sicrhau diogelwch ar dir arall; sef, tir gwadu y posibilrwydd (oddieithr yn ddamweiniol) o fedyddio'r "oedranol sydd yn credu." Y mae yn wir nad yw haeru fel hyn heddyw, a thaeru yr hyn a fyddo yn holl groes y fory, yn gysson: ond dylid ystyried nad gwiw dysgwyl am lawer o gyssondeb oddiwrth ddynion mewn helbul a dyrswch. Y mae'r dyfyniad canlynol o eiddo Brutus ar y pwnc yn cael ei edmygu gan lawer o gefnogwyr Taenelliad:—"Os gwir grediniaeth sydd yn sefydlu ac yn cadarnhau bedydd, wrth ba reol y mae y Bedyddwyr i benderfynu hyn? Geill y di-fydd broffesu ei ffydd, a gallant hwythau ei fedyddio; ond a ydyw proffes ragrithiol yn cadarnhau bedydd y cyfryw yn nghyd â'i ufydd-dod yn gymmeradwy gerbron Duw? Ac a ydyw y rhai oll a fedyddir ar broffes ragrithiol, wedi eu bedyddio yn ol y commissiwn a'r dull apostolaidd? Os ydynt, y mae ffydd wedi ei dileu; ac os nad ydynt, ni wyr neb o weinidogion y Bedyddwyr pa un a ydynt wedi gweinyddu bedydd yn ol y *commis-*



sion, ai nid ydynt; ac felly anwybodaeth ydyw y sylfaen oddiar ba un y gweinyddant yr ordinhad. Canys pe gofynid i'r gweinyddwr pan yn yr afon, ac ar roddi y dyn yn y dyfrllyd fedd, A ydych chwi yn sier fod y dyn yna yn credu? Nac ydyw, fyddai yr atebiad. Ar ba gommissiwn y rhoddweh ef yn y dwfr ynte, gan mai y neb a gredo ydyw yr awdurdodiad, ac nid y neb a broffesa ei fod yn credu? Nid oes un gair o fewn yr holl Feibl yn gorchymyn bedyddio neb ar broffes o'i ffydd; felly nid all y Bedyddwyr, trwy roddi ffydd fel ammod bedydd, ddywedyd iddynt ei weinyddu yn iawn erioed! Ond a thynu ffydd allan o'r ddadl, ac ystyried dyben yr ordinhad yn cael ei ateb trwy gyflwyniad i'r Arglwydd mewn bedydd, yna yn ol sierwydd y mae yn cael ei weinyddu yn iawn. Pe buasai yr Arglwydd Iesu yn golygu ffydd fel prawf (*test*) bedydd, diau y rhoddasai reol anffaeledig, modd y gallesid yn sier wybod pa un a fyddai y deiliaid yn ei meddu ai ni byddent; ac nid gadael gweinyddwyr yr ordinhad yn y tywyllwch a than eu dwylaw mewn mater o gymmaint pwys." Gall yr ymresymiad twyllodrus hwn o eiddo ysgrifenydd mor alluog beru i rai darllenywyr arwynebol waeddi:—"There is something rotten in the state of Denmark." Gently, gently, Brutus. Mewn trefn i wybod sut y mae'r achos yn sefyll, y mae'r sylwadau canlynol yn hawlio ystyriaeth:—

1. Fod y rhai a weinyddasant fedydd yn yr oes apostolaidd, yn deall commissiwn eu Harglwydd. A feiddia Brutus a'i gyfeillion wadu hyn?
2. Mai yn ol yr ewyllys ddadguddiedig yn y commissiwn, y darfu i'r apostolion ac ereill weinyddu y bedyddiadau sydd wedi eu cronioel yn y Testament Newydd. Nid oes un Bedyddiwr yn y byd yn barotach na Brutus i ddweyd, *Ie*.
3. Fod y bedyddiadau apostolaidd fel y maent yn gofnodedig yn llyfr ein crefydd, yn siamplau i ni, o gymmaint a'u bod yn cynnwys esboniad ymarferol ar ystyr y commissiwn. Y mae'r gosodiad hwn etto mor rhesymol, fel na thuoddir ein gwrthwynebwyr i nacau eu cydsyniad.
4. Ein bod ni ar dir diogel ac ysgrythyrol pan yn bedyddio yn ol siampl yr apostolion ac ereill a fedyddient yn y cyfnod dan sylw. "*Granted*," ebe Brutus, a gwên ar ei wyneb.
5. Os darfu i'r bedyddwyr apostolaidd fedyddio rhai ar broffes o'u ffydd, tra nad oeddynt yn credu mewn gwirionedd, a hwythau yn ol addefriad ein cyfeillion, yn deall commissiwn eu

Hathraw, ac yn gweithredu yn ol y commissiwn hwnw pan weinyddent yr ordinhad; y canlyniad yw, mai â phroffes o ffydd y mae a fynom ni, a'n bod yn ymlwybro yn ol y commissiwn pan yn bedyddio ar y broffes hono, hyd y nod pan na fyddo pawb a'i gwnant yn wir ddychweledigion.

Os darfu iddynt hwy wneyd hyny, y mae ymresymiad Brutus yn myned gyda'r gwynt, a'r Bedyddwyr yn ddiogel. Rhaid apelio etto at y Testament Newydd. Ai aelodau sychion oedd Ananias a Sapphira? Ai rhagrithiwr heb ei fedyddio oedd Demas? Gobeithiwn na wna ein cyfeillion haeru mai aelodau heb eu bedyddio oeddynt. Os cawsant eu bedyddio o gwbl, gwnaethant ymostwng i'r ordinhad yn y cymmeriad o rai "oedranol" yn profesu crediniaeth. Os yw bedydd yn "cynnwys neillduad neu gyssegriad hollol yr hwn a fedyddir i Dduw a'i wasanaeth," fel y dywed Mr. Prichard, yr oedd Alexander a Diotrophes yn aelodau bedyddiedig, er fod y ddau yn ddain yn ystlys yr eglwys, yn symbylau yn ei chnawd, ac yn genadau Satan i'w chernodio. Y mae yn rhesymol i ni ofyn, Paham y darfu i'r apostolion fedyddio y personau hyn, os nad *proffes* o grediniath oeddynt i ddysgwyl oddiwrth yr ymgeiswyr yn ol commissiwn eu Harglwydd? Pe caniatâem i'u cyfeillion y dybiaeth afresymol a gwrthun, mai aelodau heb eu bedyddio oedd y pum person a nodwyd, beth wneient o achos Simon y swynwr? "A Simon yntau hefyd a gredodd; ac wedi ei fedyddio, a lynodd wrth Phylip" (Act. 8. 13). Profesosodd grediniaeth, ac ar y dybiaeth o fod y broffes yn ddidwyll, cafodd y swynwr ei fedyddio. Ai nid yn ol y commissiwn y bedyddiwyd Simon? Ai nid yr un modd yr ymlwbra'r Bedyddwyr (a'r Taenellwyr hefyd o ran hyny) yn bresenol? Os cafodd dyn y llawr erioed mewn dadl, y mae Brutus ar asgwrn ei gefn, er ei holl alluoedd mawrion, a'i fedrusrwydd fel ysgrifenydd o'r dosparth uchelaf. Deallied y darllenydd mai nid yn Brutus y mae'r diffyg, ond yn y *system* anysgrythyrol y bu efe mor nodedig o aflwyddiannus yn ei ymdrechion egniol i'w hattegu.

Gan nad yw'r Taenellwyr yn taenellu dwfr ar ddynion "oedranol" o herwydd eu bod yn rhan o'r "holl genedloedd," ond yn hytrach ar y dybiaeth o'u bod yn credu yn Iesu Grist, y mae'r dyfyniad blaenorol o lyfr Brutus gymmaint yn erbyn y Taenellwyr ag y mae yn ein her



byn ninnau.\* Os nad yw yn iawn i ni wneyd ffydd yn ammod bedydd, gan bwy y cawsant hwy hawl i wneyd crediniaeth yn ammod taenelliad dwfr ar yr “oedranol?” Pe na soniasent am unrhyw ammod heblaw bod yn “rhan o'r holl genedloedd,” nis gallem fel hyn drechu y cawr Brutus âg arfau Brutusaidd. Drwg iawn genym ddarod i awdwr mor llygadog a'r ysgrifenydd medrus dan sylw ysgrifenu y frawddeg olaf yn y dyfyniad blaenorol, oblegid y mae yn cynnwys *reflection* naill ai ar allu neu ewyllys y Deddf-roddwr. Add-eifar Taenellwyr fod ffydd yn brawf (*test*) bedydd “yr oedranol,” a dywed y Bedyddwyr ei bod yn ammod bedydd pawb: yn awr os yw yn ammod bedyddiad *rhywrai* yn ol barn y Taenellwyr (a gadael allan *bawb* er mwyn dadl), y mae Crist, yn ol y frawddeg anffodus mewn cwestiwn, i'w feio am beidio rhoddi “rheol anffael-edig, modd y gallesid yn sier wybod pa un a fyddai y deiliaid yn ei meddu ai ni byddent; ac nid gadael gweinyddwyr yr

\* “Os gwir grediniaeth sydd yn sefydlu ac yn cadarnhau taenelliad “yr oedranol,” wrth ba reol y mae'r Taenellwyr i benderfynu hyn? Geill y di-ffydd broffesu ei ffydd, a gallant hwythau daenellu dwfr arno; ond a ydyw *profes* *ragrithiol* yn cadarnhau taenelliad y cyfryw, yn nghyd â'i ufydd-dod yn gymmeradwy gerbron Duw? Ac a ydyw y rhai oll y taenellir dwfr arnynt ar broffes *ragrithiol* wedi cael taenelliad *yn ol y commission* a'r dull apostolaidd? Os ydynt, y mae ffydd wedi ei dileu; ac os nad ydynt, ni wyr neb o weinidogion y Taenellwyr, pa un a ydynt wedi gweinyddu taenelliad y crediniol yn ol y *commission*, ai nid ydynt; ac felly anwybodaeth ydyw y sylfaen ar ba un y gweinyddant yr ordinhad. Canys pe gofynid i'r gweinyddwr pan yn myml y *basin*, ac ar daenellu y dyferynau ar dalcen yr “oedranol,” A ydych chiwi yn sier fod y dyn yna yn credu? Nac ydwyf, fyddai yr atebiad. Ar ba *commission* y rhoddwch ddwfr ar ei dalcen ynte, gan mai y neb a *gredo* yw yr awdurdodiad, ac nid y neb a *broffesa* ei fod yn credu? Nid oes un gair o fewn yr holl Feibl yn gorchymyn taenellu dwfr ar neb ar broffes o'i ffydd; felly nid all y Taenellwyr, trwy roddi ffydd fel ammod taenelliad “yr oedranol,” ddywedyd iddynt ei weinyddu yn iawn erioed pan yn taenellu ar rai mewn oed! ..... Pe buasai yr Arglwydd Iesu yn golygu ffydd fel prawf (*test*) taenelliad dwfr ar yr “oedranol,” diau y rhoddasai reol anffaeledig, modd y gallesid yn sier wybod pa un a fyddai y deiliaid yn ei meddu ai ni byddent; ac nid gadael gweinyddwyr yr ordinhad yn y tywyllwch a than eu dwylaw mewn mater o gymaint pwys.” Fel hyn y mae brawddegau ein ben gyfaill Brutus, trwy i ni osod taenelliad yn lle bedydd, a Thaenellwyr yn lle Bedyddwyr, &c., yn profi mwy nag y mae cyfleustra yn ganiatau; a thrwy hyn, buasai yn well i'r Taenellwyr fod hebddynt, er gymaint o edmygedd y maent wedi gwel fel rhai yn gwneyd fyny ymresmiad anorchfygadwy (?).

ordinhad yn y tywyllwch a than eu dwylaw mewn mater o gymaint pwys.”

Pa ddyben i'n cyfeillion ddweyd nad oes genym *orchymyn* i fedyddio ar broffes, tra y mae genym, fel y dangoswyd, siamplau eglur o hyn yn yr oes apostolaidd, a thra y maent hwy eu hunain yn gwneyd yr un peth? Gan fod bedyddiadau yr oes hono, fel y sylwasom, yn esboniad ymarferol ar ystyr y gorchymyn, y mae yn eglur nad yw y Gwaredwr am i ni geisio rhagor gan yr ymgeiswyr na phroffes o'u ffydd. Beth arall *alleid* ddysgwyl oddiwrthynt, gan na roddwyd i ni allu i ddarllen y dyn oddi-fewn? Nid ydym yn sier y byddid yn gofyn *mwyr* na phroffes fel ammod derbyn-iad i blith dysgyblion Crist pan rodiai Efe mewn cnawd ar y dddear, oblegid ni wrthodwyd aelodiaeth hyd y nod i Judas y bradychwr, er mai blaenor y cwmni oedd Chwiliwr y calonau. Nid yw y Taenellwyr mwy na'r Bedyddwyr yn *sier* fod *pob* un a fyddo yn cyfranogi o'r swper yn holi ei hun cyn bwyta ac yfed; ond rhoddir y cymmun i bawb o'r aelodau ar y *dybiaeth* o'u bod yn deilwng o hono, fel y bedyddia'r Bedyddwyr yr ymgeiswyr ar yr ystyriaeth o'u bod yn gredinwyr gwirioneddol, er yr ofnant nad yw *pob* un o honynt yn feddiannol ar wreiddyn y mater. Os na ddylid gwneyd ffydd yn ammod bedydd oblegid nasgellir gwahaniaethu rhwng rhagrithwyr ac ereill, ar yr un tir y dyld peidio gwneyd hunanymholiad yn ammod y swper, canys nid yw gweinidogion y Bedyddwyr nac eiddo y Taenellwyr yn sier pwy sydd yn peidio na phwy sydd yn gwneyd hyny. Gan mai y rheol yw, mai o “helaethrwydd y galon y llefara'r genau,” trefn gyffredin y byd yw cymmyrd geiriau dynion yn arddangosiadau o farnau a theimladau y llefarwyr; ac nid oes nac adnod na sill yn y Beibl yn dangos fod trefn efengyl ar y pen hwn yn wahanol i drefn gyffredin cymdeithas. Y mae'r peth braid yn rhy eglur i'w ddadlau, a diau na fuasai dadl ar y pwne, oni buasai'r cyfeiliornau y ceisiwn ei ddynoethi a'i ddymchwelyd. Gan hyny, beth bynag a all fod ein dyledswydd gyda golwg ar amseriad y Sabboth, golechi traed, y gusan santaidd, cymmundeb y rhyw fenywaidd, &c., y mae yr hyn a ysgrifenydd yn profi nad ydym yn ein perthynas â deiliaid bedydd, yn y mesur lleiaf, yn groes i lythren y gyfraith.

Haerir y dylem ail fedyddio rhai personau, wedi i ni gael profion nad oeddynt yn credu pan fedyddiwyd hwy y tro cyntaf.

1. Hyd y nod pe byddai hyn yn ddy.



ledswydd, a'n bod ninnau yn ei hesgeuluso yn wirfoddol, nid oes un Taenellwr ar wyneb y ddaear a all dasfu careg atom. Gan mai ar y dybiaeth o fod "yr oedranol" yn credu yn wirioneddol y bedyddir hwy, onid yw yn ddyledswydd ar y Taenellwr yr un modd i daenellu dwfr ar wrthgilwyr y dosparth hwnw, pan yn dychwelyd o dir gwrthgiliad? Gan mai *credu* oedd ammod eu derbyniad pan gawsant eu bedyddio (ac nid bod yn rhan o'r "holl genedloedd" fel babanod), paham na ddylent hwy eu bedyddio drachefn, ar ol iddynt gael profion (os yn bosibl) nad oeddynt yn credu pan dderbyniwyd hwy y tro cyntaf? Os *nad* yw yn ddyledswydd arnynt hwy i ail-fedyddio'r cyfryw wedi cael sail i ammheu eu flydd, ar ba dir y mae'n ddyledswydd ar y Bedyddwyr i ail-fedyddio cymmeriadau cyffelyb? "Y meddyg, iacha dy hun." "A pha fesur bynag y mesuroch, yr ad-fesurir i chwithau."\* Yr unig wahaniaeth rhwng y Taenellwyr a ninnau yn hyn yw, ein bod ni yn gwneyd flydd yn ammod bedydd i *baub*, a hwythau yn ei rhoi yn ammod bedydd i *rai*. Y mae'r *egwyddor* yr un, ond gwahaniaethir gyda golwg ar helaethrwydd ei chymhwysiad.

2. Gan fod dynion da yn llithro, ac amryw o honynt, fel yr afradlon, yn byw am yspaid mewn drygioni, tra y mae ereill yn dod i gymmod â Duw yn mhen cryn amser *wedi* cael eu derbyn yn aelodau, sut yr

\* "Pa fodd y mae bedydd y di-flydd yn fedydd crediniol sydd ddirgelwch. Os nad yw yn fedydd crediniol, pa fodd y cydnabyddir ef gan eglwysi y Bedyddwyr yn fedydd yn ol y commissiwn, fel nad oes angen byth bedyddio drachefn, yr hwn a fedyddiwyd unwaith, er ei fod ar y pryd yn anghredadyn rhagrithiol? Dywedyd rhywbeth mewn dryswch yn lle myned yn fud ydyw dywedyd, fod y gweinidog tra y bedyddia efe un ar broffes o'i flydd, yn barnu fod y cyfryw yn ddeiliad addas yr ordinhad, ac am hyny na ddylid ei fedyddio drachefn" (*Bedydd Babanod gan Prichard*, tud. 47). "Pa fodd y mae taenelliad y di-flydd yn daenelliad y crediniol sydd ddirgelwch. Os nad ydyr yn daenelliad y crediniol, pa fodd y cydnabyddir ef gan eglwysi y Taenellwyr yn daenelliad yn ol y commissiwn, fel nad oes angen byth taenellu dwfr drachefn ar yr hwn y taenellwyd unwaith, er ei fod ar y pryd yn anghredadyn rhagrithiol? Dywedyd rhywbeth mewn dryswch yn lle myned yn fud ydyw dywedyd, fod y gweinidog tra y taenella efe ddwfr ar un, ar broffes o'i flydd, yn barnu fod y cyfryw yn ddeiliad addas yr ordinhad, ac am hyny, na ddylid taenellu dwfr arno drachefn." Dangoswyd fod Brutus wedi dysgu y ffordd i ladd ei hun wrth ymresymu; ac y mae'r llinellau uchod yn profi nad yw'r dysgybl yn llai medrus yn hyny o orchwyl na'i athraw. Y mae'r brawddegau a ddyfynwyd "yn profi ar y mwyaf i fod o un gwasanaeth i'ngwrthwynebwyr."

ydym ni i ddyfod i benderfyniad boddhaol o barthed sefyllfa foesol dyn pan gafodd ei fedyddio? A all rhywun heblaw yr Holl-wybodol lesaru gyda sierwydd ar y pwnc? Gwadodd Abraham ei wraig, meddwodd Lot a Noah, godinebodd Dafydd, a gwadodd Pedr ei Arglwydd; ond a raid i ni gredu mai dynion hollol annuwiol oedd y naill a'r llall o honynt pan gyflawnasant y pechodau hyny? Ni wna hyd y nod rhagfarn y Taenellwyr mwyaf penboeth a disynwyr roi lle i'r fath dybiaeth afresyntol ac anysgrhythol am eiliad.

Pan y mae gwrthgiliwr yn dychwelyd yn edifeiriol atom, yr ydym yn gobeithio ei fod yn ystod ei wrthgiliad ar yr un tir ag yr oedd Pedr yn amser y gwadiad—yn eithriad iddo ei hun, ac yn ei dderbyn yn ol heb ei ail-fedyddio, fel y derbyniwyd y gwadwr gan Arglwydd y bywyd. Y mae yn debyg na ddywed ein cyfeillion fod Pedr heb ufyddhau i'r ordinhad pan wadodd ei Geidwad (er nad oes genym hanes am ei fedyddiad); oblegid dywedir fod Crist yn bedyddio trwy ei ddysgybillion, yr hyn a ystyrir yn brawf o fedyddiad y dysgybillion eu hunain. Pan fyddo dynion yn ymadael â ni heb ddychwelyd, ac yn marw ar dir annuwioldeb, yr ydym yn teimlo yn ofidus yn yr olwg arnynt; ond yn gymmaint ag nad ydym yn ein perthynas â'r cyfryw yn is na'r bedyddwyr apostolaidd yn eu cyssylltiad â Simon y swynwr ac ereill, nid yw ein gofid yn cael ei chwerwi âg euogrwydd.

Y mae'r darlennydd erbyn hyn yn gwelod:—(1.) Fod rhan o ymresymiad y Taenellwyr o barthed i wneyd flydd yn ammod bedydd yn taslu sarhad ar Grist fel deddfroddwr. (2.) Fod y cyhuddiad o fedyddio dynion ar broffes o'u flydd heb feddu sierwydd o barthed i sefyllfa eu calonau, yn cynnwys condemnïad ar weinyddwyr yr oes apostolaidd. (3.) Fod Taenellwyr yn cloddio o dan sail rhan bwysig o'u cyfundraeth eu hunain, pan yn beio'r Bedyddwyr am beidio ail-fedyddio gwrthgiliwyr:—"Canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun: canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau." (4.) Mai un o ddau beth sydd gan y Taenellwyr a ninnau i wneyd gyda golwg ar y personau "oedranol;" naill ai chwillio eu calonau i'r perwyl o wybod pa un a ydynt yn credu ai peidio; neu, derbyn eu profes a'u bedyddio ar y broffes hono fel y gwnelai yr apostolion. Gan fod y llwybr blaenaf yn annhosibl, rhaid cerdded yr ail. (5.) Gan



mai gorchymynion a siamplau y Testament Newydd sydd i gyfarwyddo Cristionogion, ac nad oes genym orchymyn nac esiampl o ail-fedyddiad gwrthgiliwr, nid yw yn iawn i ni fabwysiadu yr arferiad o ail-fedyddio, a'i sylfaenu ar ddystawrwydd llyfr ein crefydd. (6.) Fod yr ymresymiad rhyfedd hwn o eiddo ein cyfeillion (fel eu hymresymadau yn gyffredin) yn dangos mwy o awydd i goncro nag o allu i orchfygu. (7.) Nad yw ein gofal am orchymynion pendant yn gyffredin, na'n hesgeulusdod o honynt, yn profi nac yn gwrthbrofi Ysgrhythroldeb ein syniadau o barthed i feddydd yn ei ddull na'i ddeiliaid.

Gan i ni sylwi yn fyr mewn man arall ar olchi traed, awn heibio yr arferiad hono yma, a gwahoddwn sylw y darlennydd at yr hyn a elwir gan Daenellwyr yn "gymmundeb gwagedd." Nid yw dadl bedydd, fel y dangoswyd, yn gofyn hyn; ond gan fod rhai Taenellwyr yn llusgo'r pwnc hwn iddi, rhaid dangos iddynt nad yw presenoldeb y ddau ryw wrth fwrdd yr Arglwydd o blaid y taenelliad babanod, nac yn erbyn syniadau'r Bedyddwyr. Dywed ein cyfeillion nad oes genym orchymyn pendant, na siampl eglur, yn awdurdodi cymmundeb gwagedd; ac nas gallwn ei brofi "heb lawer o ymresymu a thynu casgliadau; cyffelyb i'r drefn a ddefnyddir i brofi hawliau babanod i fedydd." Fel y canlyn yr ysgrifena Mr. Prichard ar y pwnc:—"Hefyd, fe addef y Bedyddwyr fod swper yr Arglwydd yn ordinhad gwbl mor bendant ag ydyw bedydd; ac os ydyw eu hymresymadau yn gywir o berthynas i fedydd, rhaid ymresymu yn hollol yr un modd o berthynas i'r swper. Ond gwelwch y canlyniadau dinystriol o hyny: rhaid cadw merched a gwagedd o'r neilldu pan y gwneir coffa am ddrylliad cnawd a thywalltiad gwaed Crist; canys nid oes yn y Testament Newydd na gorchymyn na siampl o gymmundeb gwagedd; ac felly, yn ol rhesymeg y Bedyddwyr, nid oes ganddynt fwy o hawl i'r swper nag sydd gan fabanod i fedydd. Rhyw adwy led gyfyng ydyw hon i'n brodyr gwrthwynebol: goddefant i ferched ddyfod at y bwrdd, eithr mynant luddias dwfr i fabanod, ac etto nid oes yn y Beibl un gorchymyn dros gymmundeb gwagedd mwy na bedydd plant. Os nad yw diffyg gorchymyn a siampl yn ddigon i attal y naill oddiwrth y swper, pa fodd y gall fod yn ddigon i attal y llall oddiwrth fedydd" (tud. 83). Cyn dymchwelyd y pwnc y ceisia Mr. Prichard ei sefydlu yn y brawddegau rhy-

fedd hyn, yr ydym yn galw sylw at ddau neu dri o addefiadau pwysig sydd yn y dyfyniad. 1. Addefir mai ordinhad *bendant* yw yr un dan sylw, oblegid ysgrifenisr am y swper fel ordinhad "*mor bendant* ag ydyw bedydd." 2. Addefir nad oes gorchymyn na siampl o fedydd babanod yn y Beibl. "Os nad yw diffyg gorchymyn a siampl yn ddigon i attal y naill oddiwrth y swper, pa fodd y gall fod yn ddigon i attal y llall oddiwrth fedydd?" Etto,— "Canys nid oes yn y Testament Newydd na gorchymyn na siampl o gymmundeb gwagedd; ac felly yn ol rhesymeg y Bedyddwyr, nid oes ganddynt fwy o hawl i'r swper nag sydd gan fabanod i fedydd." Hyn yw, ymaerhoi cymmundeb i wragedd heb na gorchymyn na siampl, a bedyddio babanod, ar yr un tir. Nis gall y mwyaf eiddall lai na gweled hyn. Ysgrifennodd Mr. P. lawer i'r dyben o brofi fod y *commission* yn gorchymyn bedyddio babanod; ond yn y brawddegau a ddyfynwyd, addefa yn onest nad oes y fath orchymyn yn y Testament Newydd. Mewn man arall (tud. 82, 83), dywed, mai trwy lawer o ymresymu a thynu casgliadau, y ceisia'r Bedyddwyr brofi cyssondeb newidiad y Sabboth, "*cyffelyb i'r drefn a ddefnyddir i brofi hawliau babanod i fedydd.*" Dywed hefyd fod y Bedyddwyr yn eu cyssylltiad â phwnc y swper "*yn dyfod megys un o honom ni, i benderfynu trwy gasgliadau*" (tud. 86). 3. Y mae yma hefyd addefiad gonest fod Taenellwyr babanod yn arfer defod eglwysig, ac yn galw hono yn ordinhad bendant, tra nad oes gorchymyn am dani nac esiampl o honi yn y Testament Newydd!! Gan mai dyma yr unig ordinhad bendant a sefydlwyd erioed ar *gasgliadau*, y mae yn hyny yn eithriad i bob ordinhad arall. Deallwyd y darlennydd mai nid *tybied*, er mwyn dadl, nad oes na gorchymyn nac esiampl dros fedydd babanod y mae Mr. Prichard, ond traethu y peth fel *ffaith* adnabyddus. Dywed Mr. Aubrey hefyd:—"Nad yw benywaidd yn cael sôn am danynt mewn un gorchymyn nac esiampl ag sydd yn dwyn perthynas â'r swper; nid oes ganddynt hwy, o ganlyniad, ddim mwy o hawli gyfranogi o'r swper, nag sydd gan fabanod i dderbyn bedydd." Gan fod Mr. Aubrey yn gosod cymmundeb benywaidd ar yr un tir a bedydd babanod, y mae yntau o angenrheidrwydd yn addef, nad oes gorchymyn am dano na siampl o hono yn ngair Duw.

Wedi sylwi ar yr addefiadau pwysig hyn, cymmerwn y drefn ganlynol i ddy-



noethi gwendid a thwyll-ymresymiad Mr. Prichard, o berthynas i'r hyn a elwir ganddo ef ac ereill yn "gymmundeb gwragedd." 1. Nid oes gan y Bedyddwyr y fath beth a chymmundeb gwragedd, na chymmundeb merched chwaith; yr unig gymmundeb a arferant hwy yw cymmundeb *credinwyr bedyddiedig*. Y mae'r brawddegau canlynol o eiddo'r Parch. John Evans ar y pwnc hwn yn anwrthwynebadwy:—"Ni sefydlwyd un ordinhad gan Grist erioed ag y mae yn briodol ei galw yn gymmundeb gwragedd, na chymmundeb gwyr, yn gymmundeb benywod nac yn gymmundeb gwrwywod. Nid yw y Bedyddwyr yn arfer un ordinhad ag y mae yn briodol ei galw yn gymmundeb gwragedd; ac nid wyf yn tybied fod y Wesleyaid ychwaith, na neb arall, yn arfer ordinhad grefyddol ag y mae yn briodol ei galw yn gymmundeb gwragedd. A phaham y gofynir gorchymyn pendant, na chasgliad dros yr hyn nad oes neb yn ei arfer. Y mae gwyr a gwragedd, gwrwywod a benywod, Cymry a Saeson, dynion duon a gwynion, mewn cymmundeb; digon gwir. Ond nid am eu bod yn wynion neu yn dduon, nid am eu bod yn Gymry neu yn Saeson, nid am eu bod yn wyr neu yn wragedd, yn wrwywod neu yn fenywod; eithr am eu bod oll yn meddu ar y cymhwysderau angenrheidiol; oblegid y cymhwysder sydd yn cyfansoddi yr hawl. Darllenwn i wyr a gwragedd gael eu bedyddio gan Phylip, ond nid am eu bod yn wyr neu yn wragedd, ond am eu bod wedi credu y pethau a berthynent i deyrnas Dduw (Act. 8. 12). Yr un modd yn neddf y swper, y cymhwysder sydd yn cyfansoddi yr hawl; ac y mae hyny yn cael ei fynegu yn bendant. Yn Math. 26. 26, dywedir i'r Iesu dori y bara, &c., a'i roddi i'r dysgyblion, yr hyn sydd yn dangos fod cymmundeb yn cael ei gyfyngu yn unig i'r dysgyblion. Yn Act. 20. 7, dywedir i'r dysgyblion ddyfod yn nghyd i dori bara. Bod yn ddysgyblion oedd y cymhwysder angenrheidiol. Yn 1 Cor. 10, 16, 17, dywedir:—"Phiol y fendith yr hwn a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydychyd yw? y bara yr ydychyd yn ei dori, onid cymmun corff Crist yw?" Oblegid ni yn llawer ydychyd un bara, ac un corff; canys yr ydychyd ni oll yn gyfranogion o'r un bara." Yma y dysgir fod y bara a'r cwpan yn gymmun i holl aelodau corff Crist. Bod yn aelod o'r corff yw y cymhwysder, nid bod yn fenyw neu yn wrwywod. Yn 1 Cor. 11. 28, 29, dywedir, "*holed dyn*

ef ei hun; ac felly bwytaed o'r bara ac yfed o'r cwpan. Canys yr hwn sydd yn bwyta yn annheilwng, sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun am nad yw yn iawn farnu corff yr Arglwydd." Yn yr adnodau hyn y mae cymmundeb yn cael ei gyfyngu i'r dysgyblion—i aelodau corff Crist—i'r hwn sydd yn holi ei hun, ac yn iawn farnu corff yr Arglwydd. Ond dywedir nad yw hyn yn cynnwys gorchymyn pendant dros gymmundeb gwragedd am nad yw y gair gwragedd na benywaidd yn yr adnodau a grybwyllwyd. Ond tybier fod y gair gwragedd yn lle y gair a ddefnyddir gan yr Ysbyrd Glân i osod allan nodweddiadau y deiliaid, ac edrycher beth fyddai y canlyniadau. Dechreuwn gyda geiriau yr Iesu, 'Ac efe a gymmerodd y bara, ac a'i rhoddodd i wragedd neu i fenywod, gan ddywedyd, Gwnewch hyn er coffa am danaf.' Buasai hyn yn rheol bendant i weinyddu cymmundeb (nid i ddysgyblion) i wragedd neu i fenywod, a neb arall; ac yn agor y drws i bob gwraig a phob benyw, beth bynag ydoedd eu cymmeriadau, heb un cymhwysder arall i roddi hawl, ond ei bod yn wraig neu yn fenyw! Yna gallasai pob putain trwy Gymru a Lloegr ddyfod yn mlaen a dywedyd, Cymmundeb benywaidd yw y cymmundeb; yr wyf fi yn fenyw, gan hyny, y mae genyf hawl i fod yn nghymmundeb benywod Mr. Aubrey! Tybiwch etto fod y gair gwyr neu wrwywod yn lle y gair dysgyblion; yna gallasid dadleu fod genym reol bendant i roddi cymmundeb i wyr neu i wrwywod; ac felly fod gan bob gwr neu bob gwrwywod trwy y byd hawl i fwyta o'r bara ac i yfed o'r gwin yn y cymmun; er ei fod yn byw mewn meddwod a godineb; oblegid nid oes un cymhwysder arall yn ofynol i roddi hawl, ond bod yn wr neu yn wrwywod! Dyma y fath gyfraith bendant y mae Mr. Aubrey yn geisio genym ddangos! Ond y mae geiriau Iesu yn cau pawb allan o'i gymmundeb ond *dysgyblion*. Gwir y gellir dadleu fod y gair dysgyblion yn y rhyw wrwywaidd; ond nid am eu bod yn wrwywaidd, ond am eu bod yn *ddysgyblion*, y cawsant eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd; ac y mae'r *peth* oedd yn cyfansoddi yr hawl yn cael ei fynegu yn bendant" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 143-4-5). Nis gwnawn yma warthruddo deall a gwybodaeth ysgrythyrol ein darllenwyr i gymmaint graddau, a cheisio *presti* fod y gair dysgyblion yn cynnwys menywod yn gystal a gwrwywod; o ganlyniad, y mae'r adnodau at y rhai y cyfeiria



Mr. Evans yn y dyfyniad blaenorol, yn cynnwys *siamplau* eglur o gymmundebed credinwyr bedyddiedig o'r *ddau* ryw yn yr oes apostolaidd. Os felly, nid ydym yn caniatáu i wyr a gwragedd bedyddiedig i eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd, heb orchymyn na siampl fel yr haera Taenellwyr. Nid *casglu* yr ydym, oblegid y mae bodoliaeth ffaith eglur yn gwneyd casgliad yn afreidiol. Gan y byddid yn bedyddio "gwyr a gwragedd," y rhai a ystyrir yn aelodau neu yn ddysgyblion rhagllaw, a'r personau bedyddiedig hyny yn cyfranogi o swper yr Arglwydd; onid yw *casglu* y byddai y *gwrwywod* yn bwyta ac yn yfed, mor rhesymol a chasglu y byddai y *menywod* yn gwneyd hyny? Y gwir yw, nad oes yma ddim *i'w* gasglu o gwbl, o herwydd y mae pob peth yn eithaf eglur. Nid oes eisieu ar ddyn yn meddu synwyr cyffredin i *gasglu* fod y geiriau "meibion," "meibion i Dduw," "meibion Israel," "dysgyblion," "dysgyblion Moses," &c., lawer o weithiau yn golygu y ddau ryw. Byddai mor rhesymol i ni gasglu fod dau ddau yn gwneyd pedwar, pan y mae'r ffaith yn hunan-egllur.

Dengys Mr. Abraham Booth yn ei waith ar fedydd, fod 1 Cor. 10. 17 (at yr hon y cyfeiria Mr. Evans hefyd) yn profi yn eglur y byddai y ddau ryw yn cyfranogi o'r swper, ac nid oes un ammhëuaeth nad ydyw. Er y ceisia Mr. Prichard ystytho adnodau i ateb ei ddyben, teimla fod yr adnod hon yn rhy anhyblyg i'w thrafod. "Ni wedir," ebe efe, "nad all yr adnod ddyfynedig (1 Cor. 10. 17) gynnwys y merched a'r gwragedd, ond nid hyny yw y pwnc; gorchymyn pendant a ofynir am dano" (tud. 84. 85). Beth bynag a ddywedir am dani, y mae yn eglur i bob meddwl diragfarn, fod ynddi hysbysrwydd diamwys am fodoliaeth cymmundebed credinwyr bedyddiedig o'r ddau ryw yn yr oes apostolaidd, ac nad oes eisieu ymresymu na *chasglu* dim oddiwrthi i'r perwyl o brofi gwirionedd y ffaith. Hefyd, dengys y dyfyniad uchod nas gall Mr. Prichard wneyd dim arall o honi; y mae ei heglurder yn gyfryw, fel y gorfodir ef i beidio gwađu "nad all yr adnod ddyfynedig gynnwys y merched a'r gwragedd." A all efe neu ryw Daenellwr arall ddwyn adnod gyffelyb iddi mewn eglurder, i brofi bodoliaeth bedydd babanod yn amser yr apostolion—adnod a *orfoda'r* Bedyddwyr i ddweyd am dani,—Ni wedir na all gynnwys bedydd babanod?

Dyma ni bellach wedi dangos bodoliaeth

apostolaidd cymmundebed credinwyr o'r ddau ryw, yn unig trwy gyfeirio at adnod eglur ac anwrthwynebadwy ar y pwnc, heb ymresymu na chasglu dim ar y mater. Ynfydrwydd fyddai gofyn a all Taenellwyr wneyd yr un peth gyda golwg ar daenelliad babanod. "Rhaid," ebe Mr. Prichard, "i'r adnodau a ddyfynant (y Bedyddwyr) ddwyn prawf eglur a phendant o honynt eu hunain, yn annibynol ar un ystyriaeth arall; onide nid yw eu hawdurdodiad pendant ond dychymmyg disail" (tud. 84). Ond y mae'r adnod o dan sylw yn fesur wrth linyr Mr. Prichard, fel yr addefa efe ei hun. Y mae yn debyg nad yw profi *bodoliaeth* y peth yn ddigon i foddioni ein cyfeillion, heb orchymyn pendant ar yr hwn y sylfeirid y ffaith. Y mae hyn yn ein harwain i sylwi,

2. Ar ddeddf bendant yr ordinhad ei hun. Y mae Paul yn geirio deddf y swper yn 1 Cor. 11. 23—29. Y mae pob peth ag sydd yn hanfodol i weinyddiad yr ordinhad bendant hon yn cael ei gynnwys yn neddf ei sefydliad, yr hon a geir yn yr adnodau uchod, ac nid yw ordinhadau pendant ereill yn wahanol gyda golwg ar hyn.

Cynnwysa'r ddeddf hon amryw bethau; ond bwriedir cyfyngu y sylwadau canlynol i'r unig un o honynt ag sydd yn destun dadl rhwng y Taenellwyr a ninnau; sef, deiliaid y swper. Haerant hwy mai *casglu* cymmundebed y menywod bedyddiedig yr ydym oddiwrthi, fel y casglant hwythau sail i daenelliad babanod; ac yr ydym ninnau yn dweyd nad oes unrhyw fath o gasgliad yn hanfodol nac yn angenrheidiol i hyny, o herwydd fod y ddeddf yn eithaf eglur i feddwl diragfarn. Y mae ystyriaeth o'r pethau canlynol yn angenrheidiol yn y dadl hon. (1.) *Nad oes genym hanes fod gwahaniaeth rhyw (gender) yn dyfod o fewn cylch sefydliad pendant a fyddo wedi ei furiadu i ddosparth neillduol o ddynion yn gyffredin, a bod y rhyw yn cael ei grybwyll pan fyddo yr ordinhad yn cael ei bwriadu i un rhyw yn unig.* Bwriedid y Pasg i fod yn sefydliad perthynol i genedl neillduol, ac nid i un rhyw ynddi; o ganlyniad, nid oes sôn am wrwywod mwy na menywod yn neddf ei sefydliad; ond yn hytrach:—"Lleferwch wrth holl gynnulleidfia Israel, gan ddywedyd," &c. (Exodus 12. 3—21). Yr oedd casglu y manna yn ddyledswydd ar blant Israel fel *cededl*, ac nid ar un rhyw neillduol; o ba herwydd, nid oes sôn am y *gender* yn nhrefniadau y ddar-



pariaeth rasol a phendant hono o eiddo Penarglwyddiaeth (Exodus 16). Y mae'n wir y crybwyllir am "feibion Israel" yn fynych yn yr hanes; ond nid oes neb mor ynydd a meddwl nad yw y geiriau yn cynnwys y ddau ryw. "A meibion Israel a fwytasant y manna ddeugain mlynedd," er enghraifft; nid yw yr ymadrodd hwn yn profi nad oedd y menywod hefyd yn cael eu rhan o'r manna. Nid oes eisieu ymresymu na chasglu hyny allan o'r hanes, oblegid y mae'r peth yn hunan-eglur hyd y nod i'r mwyaf hwydrwm. Bwriadwyd bedydd i ddosparth neillduol o ddynion yn annibynol ar ryw, iaith, na chenedl, sef credinwyr. Sefydlwyd y swper hefyd i grefyddwyr—rhaf yn holi eu hunain—yn iawn farnu corff Crist, yn annibynol ar ryw ac amgylchiadau ereill. Perthynai yr enwaediad a'r offeiriadaeth i'r gwrrywod yn unig; ac y mae hyny yn cael ei nodi yn eglur yn y deddfau perthynol i sefydliad y naill a'r llall o honynt. A oes eisieu i ddyn yn meddu synwyr cyffredin, fyned i drafferth i ymresymu neu gasglu pethau fel hyn, pan y maent mor eglur fel y gallo'r hwn sydd yn rhedeg eu darllen?

(2.) *Nad yw yr efengyl yn cydnabod gwahanol rywogaethau na lloythau; ond yn ymwneyd â gwahanol rywiau a chenedloedd, yn ei hanerchiad cyntaf iddynt fel pechaduriaid, ac yn eysuro y rhai a'i derbyniant yn y cymmeriad o gredinwyr.* Cymhwysderau moesol y mae'r efengyl yn ofyn:—"Nid oes nac luddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwrryw na benyw; canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu" (Gal. 3. 28). Y mae'r efengyl, gan hyny, yn ei hordinhadau a'i holl fendithion yn perthyn i gredinwyr yn annibynol ar ryw, cenedl, a sefyllfa. Ai casglu hyn yr ydym, tra y mae'r adnod uchod mor eglur ar y pwnc?

(3.) *Y mae deddf y swper yn dangos fod pawb a fyddo yn feddiannol ar y cymhwysderau moesol uchod, i fwyta ac i yfed wrth fwrdd yr Arglwydd. "Holed dyn ef ei hun."* Dywed y Taenellwyr mai casglu yr ydym fod y gair "dyn" yn y frawddeg hon yn golygu y ddau ryw, a'n bod felly ar yr un tir a hwythau yn eu perthynas â bedydd babanod. Hwyrach y gall gofyniad neu ddau ar y pen hwn fod o fendith i'n cyfeillion, os ydynt yn agored i argyhoeddiad. (1.) Ai casglu y maent fod y gair dyn yn golygu y ddau ryw yn y brawddegau canlynol:—"Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul" (Job 14. 1). "Canys ei lygaidd ef sydd ar ffyrdd dyn" (Job 34. 21).

"Oddieithr geni dyn drachefn" (Ioan 3. 3)? Nid oes eisieu dweyd nad oes un o honynt a feiddia ateb yn gadarnhäol. Y mae'n ffaith hunan-eglur nad yw y gair yn yr enghreifftiau uchod yn cynnwys llai na *phawb*. (2.) Gan nad oes arnynt eisieu casglu yn yr ymadroddion a ddyfynwyd, pahan y tueddri hwy i gasglu yn y frawddeg arall ("holed dyn ef ei hun"), yr hon sydd mor eglur a'r lleill, os nad oes syniad neillduol i'w amddiffyn, a chyfyngder nodedig yn galw am ymdrech egniol o'i blaid? Gadawer i gydwybod gael *fair play* i ateb yr ail. Wedi gofyn y ddau gwestiwn uchod, y mae genym ddau neu dri o osodiadau i'w gwneyd:—Yn *gyntaf*, Fod rhai ymadroddion yn hunan-eglur, fel y gall dynion o synwyr cyffredin eu deall heb gymharu, ymresymu, na chasglu—brawddegau ag y mae eu darlleniad neu eu gwrandawriad yn rhwymo dyn i'w deall yn annibynol ar weithrediadau ymresymiadol y meddwl. Gwasanaetha pedair neu bump o enghreifftiau byrion. Y mae *rhan* o beth yn llai na'r cyfan. Y mae'r *ewbl* yn fwy na'r rhan o hono. Rhaid fod achos i bob effaith. Ei lygaidd ef (Duw) sydd ar ffyrdd dyn. Holed dyn ef ei hun. Yr holl wahaniaeth sydd rhwng y rhai uchod yw, fod rhai o honynt yn perthyn i'r *exact sciences*, a'r lleill yn rhai duwinyddol; ond nid yw hyny yn effeithio yn y mesur lleiaf ar y mater y ceisir ei egluro. Nid yn unig y maent yn wirioneddau, ond y mae dyn yn ymwybodol o'u gwirionedd-olrwydd, neu yn teimlo hyny pan yn eu gwrandaw neu yn eu darllen y tro cyntaf; yr hyn sydd o angenrheidrwydd yn cynnwys ei fod hefyd yn eu *deall*, a hyny yn hollol ddiymdrech.

Yn ail, y mae ammbheu eglurdeb brawddegau hunan-eglur, a cheisio eu hystwytho i olygu yr hyn na arwyddant, yn gwneyd yr ammbheuer yn ynydd-ddyn, a'i ammbheuaeth yn ynyddrwydd noeth. Cymmerwn frawddegau Ysgrythyrol i'r perwyl o egluro'r pwnc:—"Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul." Nid yw y frawddeg hon yn cynnwys fod *merch* a aned o wraig yn fyr o ddyddiau, nac yn llawn o helbul! "Ei lygaidd Ef sydd ar ffyrdd dyn;" ond nid yw y geiriau hyn yn profi fod ei lygaidd ar ffyrdd dynes. "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;" ond nid yw hyny yn profi na ddichon merch weled teyrnas Dduw



heb ei haileni! "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu;" ond nid yw yr ymadrodd hwn yn profi fod Iesu Grist yn Gyfryngwr rhwng Duw a'r merched. "Canys megys y gosodwyd i *ddynion* farw un waith, ac wedi hyny bod barn;" ond nid yw hyn yn cynnwys fod merched i farw byth!! "Holed *dyn* ef ei hun;" ond nid yw y gorchymyn hwn yn golygu *holed merch ei hun!* Ni fyddai eisieu i *ddyn* wneyd mwy na hynyna mewn trefn i brofi ei hawl i'r ymgeledd a geir mewn gwallgofdy. Nid oes un Taenellwr yn ammbheu hunan-eglurdeb y naill na'r llall o'r pum brawddeg flaenaf o'r chwech a ddyfynwyd; ond caniatant fod *dyn* a *dynion* yn mhob un o honynt yn golygu y *ddauryw*. Os yw *dyn* a *dynion* yn cynnwys gwrrywod a menywod yn yr enghreifftiau blaenaf, pahan nad yw y gair "*dyn*" yn cynnwys pob un o'r ddau yn yr enghraifft olaf? Nid rhyfedd fod ein cyfeillion yn teimlo yn anghysurus, ac yn edrych yn ddiflas, pan y maent fel hyn yn methu cael hawl hyd y nod i *gasglu* tipyn o sail i'r ddefod a arferant.

*Yn drydydd*, Pan y mae'r gair *dyn* heb y fannod (y) yn yr iaith Gymraeg, ac heb fod mewn cyferbyniad i'r rhyw fenywaidd, nac mewn cyssylltiad uniongyrchol â hi, golyga ddynolryw yn gyffredinol—meibion a merched yn ddiwahaniaeth. Y rheol hon sydd yn gwneyd i'r gair *dyn* yn yr enghreifftiau a ddyfynwyd olygu y ddau ryw. Pan fyddo bannod o flaen y gair, cyfeirio y mae at berson *neillduol*; ond pan na fyddo, cynrychiola wrrywod a benywod. Yn ol y rheol ansyfladwy hon, y mae'r gair *dyn* heb y fannod yn y frawddeg, "holed *dyn* ef ei hun," o angenrheidrwydd yn cynnwys gwrrywod a menywod; o ganlyniad, nid *casglu* y dylai chwiorydd crefyddol gael rhan o'r swper yr ydym, oblegid y mae deddf bendant yr ordinhad ei hun, fel y dangoswyd, yn profi yn hollol eglur fod ganddynt hawl i'r wledd. Gan nad oes eisieu *casglu* y golyga y geiriau *dyn* a *dynion* y ddauryw yn y pum enghraifft a ddyfynwyd, pahan rhaid i ni *gasglu* y gwna'r gair *dyn* sefyll am y ddau yn yr adnod mewn cwestiwn? Pahan na chaiff *dyn* yr un chwareu tēg yn mhob man? Os oedd ei derfynau mor helaeth yn amser Job (14. 1; 34. 21), ac heb eu cyfyngu yn nyddiau Ioan (3. 3), pahan y gwnawd ei gylch yn llai o'r hanner pan ysgrifenydd

yr epistol cyntaf at y Corinthiaid (11. 23—29), ac yr helaethwyd ef drachefn i'w hen faintioli pan yn gyru at Timotheus (1 Tim. 2. 5), a'r Hebreaid (9. 27)? Trafodir rhai dynion yn erwin dros ben gan ormeswyr digydwbybod, ond ni chlywsom erioed am *ddyn* yn cael ei drin mor annheg a mympwyog a'r *dyn* hwn (1 Corin. 11. 23—29); ond y mae'r achos o'i gamdriniaeth yn ddigon amlwg i bob meddwl diragfarn.

Caniata Mr. P. fod y gair *dyn* (*anthropos*) yn cynnwys y ddwy ystlen mewn *rhai* manau; ond yr ydym yn dweyd yn y modd mwyaf pwylllog a difrifol, ei fod yn cynnwys y ddwy yn *mhob* man ag sydd yn dod o dan y rheol a osodwyd i lawr genym yma; ac yr ydym yn sicr na ammheuir ein gosodiad gan un Taenellwr goleuedig a gonest. Haera fod "degau o destunau lle nad yw y gair *anthropos* (*dyn*), yn cynnwys y ddwy ystlen;" ond nid hyny yw y pwnc, eithr cael y gair *dyn* heb fannod o'i flaen, ac heb fod mewn cyferbyniad i'r ystlen fenywaidd, nac mewn cyssylltiad uniongyrchol â hi mewn brawddeg neu ymadrodd, i olygu yr ystlen wrrywaidd yn unig, ac nid dynolryw yn gyffredin. Gan fod yr holl ran hon o'r ddaol yn troi ar y pegwn hwn, dylasai Mr. P. ddwyn rhai o'r "degau" gerbron. Cyfeiria at ddwy neu dair, ond yr un peth fuasai iddo ddyfynu y *paragraph* cyntaf yn llyfr Genesis; a bydd y darlennydd yn sicr o fod yr un farn a ni wedi eu gweled. Ceir yr un gyntaf yn Math. 19. 5:—"Oblegid hyn y gad *dyn* dad a mam, ac y glyn wrth ei wraig." (Math. 19. 5). "Da i *ddyn* na chyfflyrddai â gwraig" (1 Cor. 7. 1). Yr ydym yn gofyn mewn sobrwydd, a oes rhith o debygolrwydd rhwng y brawddegau hyn a'r chwech enghraifft sydd wedi eu dyfynu genym mewn man arall? Ni ddymunai neb wneyd mor fach o hono ei hun a chynnyg atebiad cadarnhaol. Yn y ddwy frawddeg hyn, y mae'r *ddwy* ystlen yn cael llefaru am danynt mewn *cyssylltiad uniongyrchol* â'u gilydd.

Yn y flaenaf, cyfeirir at rwymau yr ystlen wrrywaidd i'r un fenywaidd mewn cyssylltiad neillduol; ac yn yr ail, y mae Paul yn *barnu* y byddai yn dda i un o'r ddwy gadw oddiwrth yr un arall. Llefarir am danynt yn eu perthynas â'r cyssylltiad agosaf a mwyaf uniongyrchol a all fod rhwng yr ystlenau â'u gilydd. Nid yw'r naill na'r llall o honynt (na gwynebau



dynion a gwallt gwragedd yn Dad. 9. 7, 8, chwaith) yn perthyn mwy i'r rheol a osodwyd i lawr genym nâ'r adnod gyntaf yn llyfr Esther. A wna Mr. P. neu ryw un arall roi i ni *un* enghraifft a ddeil ei phrofi yn ngwyneb y rheol dan sylw? os gwneir, bydd yn hawdd genym roi ein cyfeillion yn rhydd am y "*degau*" y cyfeirir atynt. Amser a ddengys, mai cwestiwn yw hwn, ag y mae yn hawddach ei ofyn nâ'i ateb.

Gan fod y gorchymyn pendant y mae "*holed dyn ef ei hun*" yn rhan o hono, i gymmiant graddau o blaid cymmundebl menywod a fyddo yn holi eu hunain, ag y mae'r gorchymyn pendant arall o du bedyddiad y ddwy ystlen a fyddo yn credu; nid yw cymmundebl ein chwiorydd yn cael ei seilio ar gasgliad, fel yr haera Taenellwyr; ond y mae iddo yr un sail ysgrythyrol ag eiddo y brodyr a fyddo yn holi eu hunain yn ol y cyfarwyddyd apostolaidd. Crediniaeth yw ammod bedydd yn annibynol ar ystlen, a hunan-holiad yw ammod yr ordinhad arall i'r naill ystlen fel y llall. Y mae cymhwysderau penodol deiliaid yr ordinhadau hyn yn cael eu crybwyll yn eglur yn neddfau pendant eu sefydliad. Paham, yn enw synwyr cyffredin, y beiddia dynion amheu yr hyn sydd mor amlwg? Hyd y nod pe na fuasai genyn namyn casgliadau yn sail i gymmundebl chwiorydd, ni fuasai hyn, yn ol egwyddor yr adran hon o'n herthygl, yn un prawf yn erbyn dull na deiliaid bedydd, nae yn un math o ddadl o blaid y ddefod a wrthwynebwn. Ni phrofasai ragor na'n bod mewn rhan yn *debyg* i'n cyfeillion; ond y mae'r hyn a ysgrifenydd yn profi nad ydym felly. Gan mai ar *gasgliadau* y mae taenelliad babanod yn sylfaenedig, yn ol addefiad ei bleidwyr (ac nid ar orchymyn nac esiampl ysgrythyrol), a'r hawl i dynu y cyfryw gasgliadau yn cael ei seilio mewn rhan fawr ar y dybiaeth gyfeiliornus mai *casglu* sail cymmundebl menywod crefyddol y mae'r Bedyddwyr; y maent yn ngwyneb yr ymresymiad blaenorol yn rhwym o wneyd un o ddau beth rhagllaw; sef, naill ai seilio yr arferiad ar *ddm*, ac uno ynte droi y ddefod o'r neilldu, ac uno a'r rhai y mae eu bedydd yn seiliedig ar orchymyn Crist a siamplau ysgrythyrol. Dewised ein cyfeillion pa un o'r ddau. Y mae yn hawdd gwybod pa un o honynt fyddai'r anhydeddusaf, a'r mwyaf teiliwng o ddyn ac o Gristion.

VIII. *Yr egwyddor olaf a osodir i lawr genym yw* :—FOD AMGYLCHIADAU A ALLANT YMDDANGOS I RAI YN ANEGLUR, NEU O

LEIAF YN ANESBONIEDIG, A RHANAU O'R YSGRYTHYRAU Y DICHON DYNION FOD MEWN AMMHEUAETH O BARTHED I FEDDWL YR YSBRVD YNDYNT, I GAEL EU HESBONIO WRTH AMGYLCHIADAU EGLUR, A RHANAU O'R BEIBL A FYDDO YN YMDDANGOS YN EGLURACH; NEU, NAD YW RHANAU EGLURAF Y BEIBL AC AMGYLCHIADAU A YSTYRIR GAN RAI YN EGLURACH NAG AMGYLCHIADAU EREILL, I GAEL EU HESBONIO WRTH, NEU YN NGWYNEB AMGYLCHIADAU A OLYGIR YN DDYRSLYD, NA RHANAU EGLURAF YR YSGRYTHYRAU I GAEL EU HESBONIO WRTH RANAU A YSTYRIR YN LLAI EGLUR.

Yr ydym yn gwybod y gwna'r Taenellwyr ganiatau y rheol resymol hon yn ei chysylltiad â beirniadaeth ysgrythyrol a duwinyddiaeth yn gyffredin; ac nid ydym yn llai sier hefyd y gwnant eu gwrthod yn ei chysylltiad â thaenelliad babanod. Nid ydym yn meddwl na addefant resymoldeb a chadernid y rhan luoscaf (ac efallai yr oll) o'r gosodiadau sylfaenol sydd yn yr erthygl hon; ond pan gymhwysir hwynt at fedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid, dechreuant ddifasu, a chyhuddant ni o osod pwys gormodol ar fedydd, &c. Y mae hyn, yn annibynol ar bob ystyriaeth arall, yn ddigon i gynnwysu drwgdybiaeth mewn dyn diduedd a berthynas i'w defod. Yr ydym yn y seithfed egwyddor, yn *tybied*, er mwyn rhesymu, fod rhai o'r amgylchiadau y cyfeiria ein cyfeillion atynt yn ddyrslud, er nad ydynt felly mewn gwirionedd i feddwl diragfarn a goleuedig; ac yr ydym yn tybied hefyd (i'r un dyben) fod ammheuaeth wirioneddol yn gorphwys ar ystyr rhai adnodau, er eu bod yn ymdangos i ni yn hollol fel arall.

1. *Bedyddiad y teuluoedd*.—Tybier, er mwyn dadl, nad yw yr hanes yn hollol eglur o barthed i'r deiliaid yn nheulu ceidwad y carchar, teulu Stephanus, ac eiddo Lydia. (1.) Addefir gan Daenellwyr fod bedydd y crediniol yn un o ffeithiau mwyaf adnabyddus y Testament Newydd, ac nad oes genym un siampl eglur o fedydd babanod wedi ei chronio yn y llyfr hwnw. (2.) Gan fod ein cyfeillion mor hoff o gasglu, tybier yn mbellach ein bod yn caniatáu iddynt ryddid i dynu *casgliad* oddiwrth y ffeithiau adnabyddus ac addefedig uchod, i'r perwyl o'u galluogi i farnu pa fath personau a fedyddiwyd yn y teuluoedd a nodwyd; yr ydym, gan hyn, yn gofyn pa gasgliad a allent dynu yn rhesymol? Os gwnelent gasglu yn dëg, casglent fod y bedyddiedigion *adnabyddus* o'r un nodwedd a'r



rhai *adnabyddus* wrth reswm. Tybier fod swyddogion milwrol yn derbyn gorchymyn i gasglu *regiment* o filwyr pump a deg o daldra, a bod y swyddogion hyny yn ysgrifenu hanes eu cofrestriadau mewn deg neu ddeuddeg o fanau, ac yn hysbysu mewn cyssylltiad âg hanes y cofrestriad yn mhob un o'r lleoedd hyny, fod yr holl filwyr cofrestredig yn bump a deg o hyd, sef yr hyd a ofynid gan y llywodraeth. Golyger yn mhellach fod y swyddogion yn cyfeirio yn fyr at hanes y cofrestriad mewn dau neu dri o fanau ereill, ond yn *peidio* cyfeirio o gwbl at daldra y gwahanol wirfoddoliaid yn y lleoedd hyny; yr ydym yn gofyn i'r Taenellwyr, pa gasgliad a wnelent hwy dynu oddiwrth ddystawrwydd y swyddogion o barthed taldra y milwyr yn y lleoedd rhagdybiedig? A wnelent gasglu mai pump a chwech neu bump a saith oedd hyd y rhai y mae'r swyddogion yn ddystaw o berthynas i'w hyd? Ni ddymunem dasu cymmaint o sarhad ar ein cyfeillion, a meddwl y sfforddient eu hawl i gael eu galw yn greaduriaid rhesymol trwy y fath ynfydrwydd. Y mae'r cymhwysiad yn amlwg. Gan i swyddogion y nefoedd ysgrifenu hanes bedydd mewn amryw fanau, ac hysbysu fod y rhai a feddyddient yn y lleoedd hyny mewn oedran, ac yn credu yn Nghrist, ai nid ynfydrwydd heb ddim yn debyg iddo (*precedent*) yn holl hanes y byd gwareiddiedig, yw casglu oddiwrth y ffeithiau eglur a grybwyllwyd, ddarvoud iddynt fedyddio babanod yn y teuluoedd o dan sylw? Dealler ein bod yma, er mwyn dadl, yn caniatáu i'n cyfeillion eu hen gynllun arferol o drafod y pwnc hwn, sef *casglu*; ac y maent, hyd y nod ar gefn y cynllun hwnw, yn wrthddrychau tosturi.

Ond nid yw *casglu* o gwbl mor angenrheidiol er penderfynu pa fath rai a feddyddiwyd yn y teuluoedd o dan sylw, ag y myn ein cyfeillion ei fod; a'n gorchwyl nesaf fydd profi hyny. *Teulu Ceidwad y carchar*. Traethodd Paul a Silas "iddo air yr Arglwydd, ac i *bawb* oedd yn ei dŷ ef." Dywedir hefyd ei fod "yn llawen, gan gredu i Dduw efe a'i *holl deulu*" (Act. 16. 32—34). Y mae yn ddiammheuol na phregethwyd gair yr Arglwydd i *fabanod*, ac nas *gallasent gredu* yr hyn a bregethid, pe cyhoeddasid y genadwri iddynt. A ydyw yn bosibl, hyd y nod i *Ysbrydoliaeth* ei hun, i ysgrifenu hanes yn eglurach? Gallesid meddwl fod y cwbl mor eglur, fel na feiddiasai hyd y nod y mwyaf haerllug wadu yr hanes; ond nid felly y mae,

fel y dengys y geiriau canlynol o lyfr Mr. Prichard:—"Bedyddiwyd ceidwad y carchar a'i holl deulu, ac nid oes hanes am neb yn credu ond y ceidwad ei hun!" Nid oes eisieu gofyn i ddyn ystyriol, a ydyw y fath haerriad ofnadwy yn ngwyneb hanes mor eglur yn deilwng o athraw yn Israel? Wedi ysgrifenu dwy neu dair brawddeg ar ol y gosodiad disail uchod, y mae yn ymddangos fel pe byddai cydwybod euog yn ei boeni, a chyfeiria at dystiolaeth yr ysgrhythyr yn y geiriau canlynol:—"Dadleuir iddo lawenychu, gan 'gredu i Dduw, efe a'i holl deulu.' Y mae golygwr dysgedig Geiriadur mawr Calmet, yn ei 'Ffeithiau a'i Dystiolaethau ar ddeiliaid Bedydd,' tud. 39, yn ein hysbysu mai y llwybr priodol i ddarllen adn. 34 yw, 'Efe a gredodd yn Nuw, gan lawenychu yn Nuw, gyda ei holl deulu.'" Dyna'r cwbl a geir ar y pwnc gorbwysig hwn! Tybier fod y golygwr crybwylliedig (nid yw o hyd cyrhaedd yr ysgrifenydd yn awr) yn gwneyd yr haerriad uchod; a ydyw hyny yn rheswm dros haeru "*nad oes hanes fod neb yn credu ond y ceidwad ei hun*?" Gwyddai Mr. P. o'r goreu pan yn ysgrifenu y geiriau hyn *fod* genym hanes mor eglur am y teulu yn credu, ag sydd genym am grediniaeth y ceidwad ei hun. Os oedd yn cyssylltu pwys â barn un dyn o ethryb cyfieithiad yr ymadrodd; onid peth mwy teilwng o ddyn, o Gristion, ac o athraw crefyddol, fuasai *cyfaddef* yr hanes yn onest (yn hytrach nâ'i wadu), a'n hybysu gyda llaw fod un dyn yn amheueu cywirdeb cyfieithiad yr adnod? Can belled ag y gwyddom, nid oes ond un farn gan Daenellwyr (Mr. P. yn eithriad) o barthed y geiriau mewn cwestiwn. Y mae cyfieithiad Dr. Doddridge yr un peth a'r un sydd genym:—"And believing in God-with all his house, he was transported with joy." Dywed Barnes fod y llawenydd yn ymgodi o'r ffaith o'u bod *oll* wedi credu'r efengyl. Yn ol Matthew Henry, ni ddarfu i gymmaint ag *un* yn y teulu wrthod ymostyngiad i fedydd, ond darfu i *bob* un o honynt dderbyn yr efengyl. Ond er hyn ôl, y mae un gweinidog Wesleyaidd yn Nghymru yn gallu haeru, "Nid oes hanes am neb yn credu ond y ceidwad ei hun!" "*Wonders will never cease*!" Mewn trefn i gael prawf pellach o eiddilwch yr ymosodiadau a wneir yn erbyn y gwirionedd, dyfynwn ddwy frawddeg arall o lyfr rhyfedd Mr. Prichard:—"Peth arall: pe meddyliem fod holl deulu ceidwad y carchar yn credu pan eu bed-



yddiwyd, rhaid fyddai fod yno ryw waith brysiog iawn wedi ei wneyd arnynt; oblegid, ar hanner nos, nid oedd un o honynt yn credu; yr oeddynt oll y pryd hwnw, modd bynag, yn anghrediniwr, ac etto ymhell cyn dydd, yr oeddynt oll wedi eu bedyddio. Amser go fyr, gellid meddwl, i ddysgu egwyddorion trefn fawr iachawdwriaeth i deulu cyfan o blant wedi eu codi i fyny yn baganiaid," (tud. 62). Nid yw hyn ond tipyn o ymdrech i brofi nad yw y Beibl yn dweyd y gwir. Yn ol Mr. P., yr oedd y ceidwad ei hun yn credu; o ganlyniad, y mae'r *special pleading* uchod yn erbyn yr Ysbryd Glân, mor gymhwysiadol at y ceidwad ei hun ag y mae at ei deulu, fel y dengys y darlleniad canlynol o hono:—"Peth arall, pe meddyllem fod ceidwad y carchar yn credu pan y bedyddiwyd ef, rhaid fyddai fod yno ryw waith brysiog iawn wedi ei wneyd arno; oblegid ar hanner nos nid oedd yn credu; yr oedd ef y pryd hwnw, modd bynag, yn anghrediniwr, ac etto yn mhell cyn dydd, yr oedd wedi ei fedyddio. Amser go fyr, gellid meddwl, i ddysgu egwyddorion trefn fawr iachawdwriaeth i ddyn wedi tyfu fyny yn bagan." Etto, "A oes yn y dywysogaeth ryw weinidog i'r Bedyddwyr, a deimlai yn rhydd yn ngwyneb ei gyfundrefn, i fedyddio rhagblaen fel hyn deulu cyfan wedi tyfu i fyny yn baganiaid, heb gael fawr dros awr o amser i'w dysgu yn y ffydd sydd yn Nghrist? Yr wyf yn credu y byddai cyssoni pethau fel hyn â'r ysgrythyrau, yn ormod gwaith i'r ffydd hono a all symud mynyddoedd" (tud. 63). "A oes yn y dywysogaeth ryw weinidog i'r Taenellwyr, a deimlai yn rhydd yn ngwyneb ei gyfundrefn, i fedyddio rhagblaen fel hyn bagan (y ceidwad) wedi tyfu i fyny mewn paganiaeth, heb gael fawr dros awr o amser i'w dysgu yn y ffydd sydd yn Nghrist? Yr wyf yn credu y byddai cyssoni pethau fel hyn â'r ysgrythyrau, yn ormod gwaith i'r ffydd hono a all symud mynyddoedd." "Gwelwn i'r fath anialwch yr arweinir ein brodyr gwrthwynebol gan eu rheffynau eu hunain" (tud. 65). Awgrymasom mewn man arall fod Mr. P. yn feddiannol ar ddoniau hunan-leiddiadol o radd uchel; ac y mae'r dyfyniadau blaenorol yn profi nad yw yr awgrym hwnw yn ddisail. Os nad yw dyn a allo ysgrifenu y fath ynyfdrwydd hunan-gondemniol i dosturio wrtho, y mae yn anhawdd gwybod gan bwy y mae hawl i dosturi. Cyhyd ag y byddo gwirionedd Duw yn cael ei gredu, a

haeriadau anwireddus dynion yn cael eu gwrthod, y mae cymmeriad y bedyddiedigion perthynol i garchar Philippi uwchlaw ammeuaeth.

*Bedyddiad teulu Stephanas.*—Yn I Cor. 1. 16, hysbysa Paul ni ddarford iddo ef fedyddio tylwyth Stephanas; ac yn 16, 14, dywed i dŷ Stephanas ymosod i weinidogaeth y saint; a hynyna yw yr holl hanes a geir yn y Testament Newydd ar y pwnc. Fel y gallo ein cyfeillion gael y cwbl yn eu ffordd eu hunain, yr ydym unwaith etto, er mwyn dadl, yn caniatu iddynt ryddid i *casglu* yr hyn a allant yn gyfreithlon oddiwrth y ddau grybwylliad uchod. Mewn trefn i wneyd y pwnc mor eglur ag y mae yn bosibl, y mae yn angenrheidiol gofyn dau gwestiwn:—Yn GYNTAF, Pa beth ydyw casgliad yn ei gyssylltiad â'r gorchwyl o brofi neu wrthbrofi peth? Mewn rhesymeg, casgliad yw yr hyn a dynir yn rheolaidd o gynseiliau (*premises*), neu osodiadau adnabyddus a chydabyddedig. Os bydd y gosodiadau yn wir, ac wedi eu trefnu yn briodol, bydd y casgliad a gynnwysant ac a dynir oddiwrthynt o angenrheidrwydd yn wir hefyd. Nis gellir rhoi rhesymeg bur o dan deyrnged *uniongyrchol* i wirionedd mewn *rhai* amgylchiadau; rhaid i ni, gan hyny, ymddibynu i raddau mwy neu lai ar debygolrwydd yr hwn a gesglir oddiwrth amgylchiadau adnabyddus. Ymddibyna graddau y tebygolrwydd ar nifer neu gymmeriad yr amgylchiadau (ac yn fynych ar bob un o'r ddau) oddiwrth ba rai y gesglir ef. Pan na fyddo amgylchiad yn bodoli oddiwrth yr hwn y gellir casglu unrhyw beth o blaid nae yn erbyn y mater mewn dadl, ynyfdrwydd i'r eithaf fyddai ceisio tynu casgliad o gwbl. Pan fyddo'r amgylchiadau yn gydbwys, *dros* ac yn *erbyn* peth, nis gellir *casglu* dim yn y cyssylltiad hwnw. Pan dueddir dyn i *feddwl* neu i *dybied* fel hyn neu fel arall yn ngwyneb amgylchiadau cydbwys, ymddibyna cymmeriad ei dybiaeth ar ei deimlad neu ei ragfarn flaenorol. Ni wna Taenellwyr na Bedyddwyr ammeu gwirionedd y syniadau uchod. Yr ydym yn gofyn, Yn AIL, Pa amgylchiad, neu amgylchiadau, sydd yn y ddwy adnod at y rhai y cyfeiriwyd, oddiwrth ba rai y gellir casglu ddarford i Paul daenellu dwfr ar faban neu fabanod perthynol i Stephanas? Nid oes cymmaint ag *un* ffaith yn y ddau grybwylliad byr o dan sylw, oddiwrth yr hon y gellir tynu y fath casgliad. Fodd bynag, cymmer rhai o'n cyfeillion arnynt



gredu fod y gair *tylwyth* yn golygu babanod, neu o leiaf y *gall* eu cynnwys; ac am hyny y dylid casglu nad oedd y teulu hwn heb faban neu fabanod. Y mae yma ddau neu dri o bethau yn hawlio ystyr-iaeth. (1). Os yw y gair Groeg *oikos*, yr hwn a gyfieithir "tylwyth" yn y Beibl Cymraeg, yn cynnwys babanod yn *mhob* man y defnyddir ef yn y Testamen Newydd, rhaid addef hawl y Taenellwyr i gasglu yr hyn a geisiant oddiwrtho yn 1 Cor. 1. 16. (2). Os nad yw yn cynnwys y meddylddrych o fabanod yn ddi-eithriad; ond o'r ochr arall yn cael ei arfer mor fynych am ddynion mewn oed; y mae'r amgylchiadau yn gydbwys, fel na ellir casglu dim y naill ffordd na'r llall oddiwrthynt. (3). Y llwybr mwyaf effeithiol i wybod ystyr neu ystyron *oikos*, yw chwilio am yr hyn a arwydda yn y manau yr arferir ef ynddynt. Caiff *Bretschneider* roi ei farn ar y pwnc:—*Yn gyntaf*, ebe efe, cynnwysa y *dynion* mewn tŷ (Act. 7. 10; 1 Tim. 3, 4, 5, 12). Yr oedd Joseph yn llywodraethwr ar holl dŷ Pharaoh; hyny yw, y *dynion* oedd yn ei dŷ. Rhaid i esgob lywodraethu ei "dŷ ei hun yn dda," sef y *personau* o ba rai y gwneir y teulu i fyny, ac a fyddo yn llywodraethadwy. Nid oedd gwasanaethu yn y cymmeriad o *nurse* i fabanod Pharaoh yn rhan o waith Joseph, ac nid yw llywodraethu babanod wythnos oed yn ddyledswydd orphwysedig ar esgob. Rhodder gwrandawriad i'r hyn a ddywed synwyr cyffredin ar y pwnc. Y mae'r diaconiaid hefyd i "lywodraethu eu plant a'i trï eu hunain yn dda." Nid oes un Taenellwr synwrol ar wyneb y ddaear yn foddlon haeru fod *oikos* yn cynnwys babanod yn yr adnodau at y rhai y cyfeiriwyd. *Yn ail*, y mae yn cynnwys *gweision y teulu* (*domestics*), ebe ein bathraw (Act. 10. 2; 11. 14; 16. 15, 31), y rhai nid ydynt yn fabanod. *Yn drydydd*, golyga y *teulu yn gyffredinol* (Luc 10. 5; 16. 27), heb gyfeiriad neillduol at unrhyw ddosparth. Yn ol yr ysgolhaig mawr hwn, y mae yn annhosibl casglu bodolaeth babanod na baban yn nhŷ Stephanas oddiwrth *oikos*; ond y mae'r gair o'r ochr arall o du y Bedyddwyr, fel y dangoswyd. Pe tybiem yn mhellach, er mwyn dadl, fod y gair Groeg o dan sylw yn cynnwys babanod yn *fynych*, ac y golyga ddynion "oedranol" mor *fynych a hyny*; nis gallai y Taenellwyr gasglu dim wedi'r cwbl, o herwydd cyd-bwysedd yr enghreifftiau; o ganlyniad, nid yw ond oferedd iddynt

chwilio am sylfaen i'w defod yn y crybwyllion am Stephanas a'i dylwyth. Pe tybiem yn mhellach, mai gwirionedd yw yr haerid arall a wnant; sef, mai yn mhen saith neu wyth mlynedd wedi eu bedyddio yr "ymosodasant i weinidogaeth y saint," ni fyddai hyny chwaith yn profi ddarod i Paul daenellu dwfr ar dalcen y naill na'r llall o honynt yn ei fabanod. Hyd y nod pe byddai ammheuaeth o berthynas i nodwedd oedranol tylwyth Stephanas, y mae ein hegwyddor sylfaenol, sef, ein dyledswydd i benderfynu yr amheus wrth yr hyn sydd yn fwy adnabyddus, yn nacau iddynt gymmaint a lled trood o sail yn medyddiad y teulu dan sylw. Y mae'r darlennydd yn gweled nad ydym (er mwyn dadl) yn nacau i'n gwrthwynebwyr unrhyw beth a ddymunant; ond er ein holl haelfrydedd, y mae eu hachos wedi'r cwbl yn hollol anamddiffynadwy.

*Bedyddiad teulu Lydia* (Act. 16. 14, 15, 40).—Y mae'r ddau gwestiwn a ofynwyd yn barod gyda golwg ar "dylwyth Stephanas," yn hollol gymhwysiadol at Lydia a'i theulu. A oes sicrwydd fod Lydia yn briod? neu, a oes hanes mai gwraig weddw yn meddu plant ydoedd? Os gellir ateb y naill neu'r llall o'r ddau gwestiwn hyn yn gadarnhäol, A oes genym grybwylliad neu grybwyllion am ei phlant? Os oes, a oes hysbysrwydd o berthynas i'w hoed? Gan nas gellir ateb y naill na'r llall o'r gofyniadau rhesymol hyn yn gadarnhäol, yr ydym yn gofyn mewn sobrwydd, Pa fodd y cesglir ddarod i Paul daenellu

\* O barthed i Gaius, dywed Mr. P.:—"Ond tybed na ddylasid profi yn gyntaf fod ganddo deulu, cyn gofyn am hanes eu bedydd? Oblegid nid yw hanes y Testament Newydd yn yngan yr un gair fod ganddo deulu" (tud. 66). "Ond tybed na ddylasid profi yn gyntaf fod gan Lydia fabanod, cyn haeru eu bod wedi eu bedyddio, neu ddweyd fod hyny yn debyg? Oblegid nid yw hanes y Testament Newydd yn yngan un gair fod ganddi fabanod." Os yw ymresymiad Mr. P. o ryw werth yn ei gyssylltiad â Gaius, nid yw yn llai felly yn ei berthynas â Lydia. "Am blant Lydia," ebe'r Parch. H. W. Hughes, "y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai ganddi hi, ai gan yr eunych yr oedd y rhif luosocaf, canys nid yw yn annhebyg, yn gymmaint ag i'r ddau gael eu bedyddio pan ar daith, eu bod wedi gadael y plant gartref."

Etto: "Os oedd Lydia yn briod, nid oedd ei gwr yn fyw, onide enwasid y teulu iddo ef fel y ddau deulu arall, ac nid iddi hi. Os oedd ganddi fabanod, yr hyn nid yw yn debygol, y mae yn ära sicr nad oedd yn eu cario gyda hi fel Gwyddelles ar hyd y wlad i werthu porphor; ond pe bunasai ganddi blant o dan oedran credu, ni chawsant eu



dwfr ar fabanod neu fabau perthynol iddi? Gan nas gellir casglu yn dëg heb rywbeth i wneyd hyny oddiwrtho, onid yw ceisio casglu yr hyn a amcāna Taenellwyr dynu oddiwrth hanes Lydia a'i theulu, i'r graddau eithaf yn afresymol, ac yn groes i'r ysgrythyrau?

"Cesglir," ebe un ysgrifenydd, "yn gymmaint a bod ei theulu wedi ei fedyddio, fod plant o angenrheidrwydd wedi eu bedyddio; ond nid yw y fath gasgliad yn canlyn, oblegid y rheswm da, fod llawer o deuluoedd yn y rhai nid oes babanod. Y tebygolrwydd yw, ac y mae braidd yn sier, nad oedd gan Lydia na gŵr na phlant; yr ydoedd yn masnachu—"yn gwerthu porphor o ddinas y Thyatiraid," yr hon oedd oddeutu tri chant o filltir-oedd o Philippi. Pe buasai ganddi ŵr a phlant bychain, onid mwy rhesymol fyddai meddwl y buasai y gŵr yn cymmyrd at ei galwedigaeth hi, a gadael i'r fam aros gartref i ofalu am achosion teuluaid a'r plant bychain? Y mae yn ymddangos yn eglur nad oedd ganddi ŵr; oblegid nis gellir meddwl y buasai hi yn bychanu cymmaint ar y sefyllfa briodasol, a darostwng ei phriod mor isel, trwy ddywedyd, 'Deuwch i mewn i'm tŷ,' &c., os oedd yn briod; ac nis gallwn gredy y buasai yr hanesydd ysbrydoledig yn dywedyd i'r apostolion fyned i mewn at Lydia, os oedd o dan iau priodas. Yr hyn sydd yn ymddangos yn hollol rhesymol yw, fod ei theulu yn gynnwysedig o rai yn ei gwasanaeth, ac iddynt gredy a chael eu bedyddio fel hithau."\* Dengys yr hyn a

bedyddio, canys nid oedd yr apostolion yn bedyddio neb heb arwyddion edifeirweh" (Yr Im-ddiffynydd, tud. 29). "Y mae profi fod gan Lydia fabanod yn gorphwys ar y Taenellwyr; ond nis gwnaethant brofi hyny etto, ac nis gallant wneyd hyny byth, o ganlyniad, nid yw yr hanes yn cynnwys un ddadl resymegol a all droi yn lles iddynt."—(Pendleton.)

\* Fel y canlyn yr ysgrifena yr anfarwol Joseph Harris ar y pwnc:—"Nid oes sill o sŵn yn hanes teulu Lydia fod ganddi ŵr na babanod erioed; fe fedyddiwyd rhyw rai hebddi hi, ond ni ddywedir pwy, na pha fath oeddynt; o ganlyniad, nis gall yr hanes yma fod yn brawf o fedydd babanod. Ynfydrwydd wedi ei berffeithio a geisia sylfaenu unrhyw athrawiaeth neu ymarferiad ar ddystawrwydd y Beibl. Can bellad ag y mae'r hanes yn myned, y mae dros fedydd y crediniol. Agorwyd calon Lydia, a hi a fedyddiwyd. Ond pa fath ddynion oedd yn gwneuthur i fyny ei theulu ni ddywedir dim. Pe byddai yr holl Feibl mor ddystaw am fedydd a chymmundeb y crediniol, ag yw'r hanes yma am fabanod Lydia, ni ddywedwn air byth dros fedydd y crediniol. Byddai

ysgrifenydd y gallai'r Bedyddwyr dynu llawer iawn o gasgliadau o'u plaid oddiwrth fedyddiad Lydia a'i theulu, pe tuedd hwy am unwaith i newid tir a'r Taenellwyr; ond nid oes eisieu iddynt ymgyrchu at y gorchwyl o gasglu o gwbl yn yr ymchwiliad. Y mae ganddynt ddigon o brofion mai credinwyr a fedyddid gan yr apostolion, fel y dengys yr hanesion eglur a chyflawn sydd yn y Testament Newydd; a golygant mai eu dyledswydd yw esbonio crybwyllion llai cyflawn yn ngoleuni ac yn ngwyneb hanesion cyflawnach, eglurach, a lluosocach. Pe byddai ordinhadau yr efengyl yn seiliedig ar nifer o gasgliadau, ac nid ar orchymynion pendant a ffeithiau ysgrythyrol lluosog ac eglur, arosem yn hŵy gyda theulu Lydia, a threchem ein gwrthwynebwyr fel arferol, ar y tir y maent hwy mor hoff o fod arno; ond y mae dangos (fel yr ydym wedi gwneyd), nad oes yn hanes y tri theulu blaenorol ddim i'w casglu o blaid taenelliad babanod, yn gymmaint ag y mae'r gangen hon o'n hymchwiliad yn ofyn.

2. Haerir yn ddigywilydd "nad oes yn holl Adroddiadau (Reports) Cenadol y Bedyddwyr yn mhlith y Paganiaid, byth hanes am fedyddio teuluoedd cyfain mewn un lle, nac ar un adeg, fel yn Actau yr

y fath fedydd yn berffaith ddysylfaen, ac felly y mae bedydd babanod yn berffaith ddysylfaen yn yr hanes hwn." "Cyn y gallo ein gwrthwynebwyr," ebe'r Parch. J. Evans, "gael sail i fedydd babanod, yn y ffaith fod teuluoedd wedi eu bedyddio; rhaid iddynt brofi dau beth. 1. Fod babanod yn y teuluoedd hyny ar y pryd. 2. I'r babanod gael eu bedyddio gan yr apostolion. Heb brofi y cyntaf, y maent yn amddifad o fodoldeb y gwrthddrych. Heb brofi yr ail, y maent yn amddifad o fodoldeb y weithred..... Bodoldeb y weithred sydd eglur (yn hanes bedyddiad Lydia a'i theulu); ond bodoldeb babanod yn y teulu sydd heb ei brofi. Ac nid arnaf fi y mae profi nad oedd babanod yn nheulu Lydia; ond gorphwys y prawf ar yr hwn sydd yn gwneuthur yr haeriad. Y sawl sydd yn sefyll mewn angen am y casgliad, sydd i brofi yr osodaeth. Os na ellir profi y gosodiad, nis gellir casglu dim oddiwrtho y naill ffordd na'r llall" (Athrawiaeth Bedydd, tud 121-2). Cymmer y Taenellwyr bob peth yn ganiataol heb brofi dim. 1. Fod Lydia yn wraig ac yn fam. 2. Fod ganddi faban neu fabanod yn Philippi. 3. Bedyddiad y rhai ieuainc. 4. Eu bedyddiad "ar bwys flydd eu mam" yn ol rhai, ac am eu bod yn rhan o'r "holl genedloedd" yn ol ereill. Y mae cymmyrd peth yn ganiataol pan nas gellir profi ei wirionedd, yn ffordd nodedig o gyfeus. "Pan y elywir rhai Taenellwyr yn haeru fod plant gan Lydia, nid oes eisieu dim i ddymchwelyd y fath haerllugrwydd, ac idd eu dystewi, ond gofyn am y prawf."



Apostolion" (Mr. P., tud. 66). Pe byddai yr haeriad hwn yn wirionedd, nis gallai roi un cymhorth i sefydlu taenelliad babanod (?) Lydia, &c.; ond y gwir yw, na ddarfu i dad y celwydd ei hunan erioed wneyd haeriad mwy disail nâ'r un uchod, fel y dengys y ffeithiau canlynol:—"Bedyddiais amryw deuluoedd," ebe Mr. Pengilley (cenadwr), "ac yn mhlith ereill, Lydia a'i theulu; ond erioed ni fedyddiais faban." Dywedai un o'n cenadon yn India ryw amser yn ol:—"Ar ddydd yr Arglwydd yn ddiweddar, cefais yr hyfryd-wch o fedyddio teulu wedi dychwelyd oddiwrth baganiaeth." "Dywedir," ebe Mr. Pendleton, "fod deg ar hugain o deuluoedd cyfain wedi eu bedyddio mewn cyssylltiad â Chenadaeth Americanaidd y Bedyddwyr yn mhlith y *Karens*." Dywed hefyd fod "llawer gweinidog yn y Taleithiau Unedig wedi bedyddio mwy o deuluoedd heb blant ynddynt, nâ'r rhai y cyfeirir atynt yn y Testament Newydd." Ysgrifena y Parch. H. W. Hughes fel y canlyn ar y pwnc:—"Y mae amryw enghreifftiau o fedyddiad teuluoedd yn mhob parth lle y mae ein cenadon yn llafurio. Yr wyf fy hun wedi bedyddio amryw o deuluoedd, a gwn am ddegau o'n gweinidogion yn Nghymru a fedyddiasant laweroedd o deuluoedd. Gallaswn enwi degau ac ugeiniau o deuluoedd bedyddiedig yn Nghymru, a thrwy wahanol barthau y byd." Dengys y ffeithiau hyn fod "y rhai a gyfenwant eu hunain yn Fedyddwyr yn ein gwlad ni" (Llyfr Mr. P., tud. 67) yn fwy gofalus am y gwirionedd nag ambell un o'r rhai sydd "wedi eu geni yn yr hawl;" ac nad yw "awdwyr y droch" (fel y gelwir ysgrifenyddwyr y Bedyddwyr gan Mr. Prichard) yn sathru y gwir ac yn mynwsu celwydd, trwy wadu y gosodiad disail uchod o eiddo Mr. P. Gobeithiwn na chafodd ein cyfeillion "eu geni yn yr hawl" i gamddarlunio eu cymmydogion. Gofynai Mr. P. "a ydyw yn bosibl fod dull y rhai a enwir yn *Fedyddwyr* yn ein gwlad ni, yr un a dull yr apostolion yn ngweinyddiad bedydd, gan nad oes y tebygolrwydd lleiaf yn nghroniclau eu gweinyddiadau" (tud. 67). Y mae'r ffeithiau at y rhai y cyfeiriasom, yn peru i ni obeithio nad oedd cydwybod Mr. P. yn dawel pan yn ysgrifenu y frawddeg gabledus uchod. Os na all y Taenellwyr amddiffyn eu defod heb lunio a thaenu haeriadau a chamddarluniadau o'r fath fwyaf disail, byddai yn well iddynt ei dychwelyd i'r Pab, ac

ymostwng i fedydd y Testament Newydd. Y mae gwê y prif copyn mewn cymhar-iaeth i'r ymresymiad a wneir i fyny o haeriadau anwiredus, fel rhaff dair cainc; ac ni fuasai dynion byth yn meddwl am y fath gynllun dirmygus a hwn, oni bai eu bod mewn cyfyngder mawr am rywbeth i'w ddywedyd yn lle myned yn fud.\*

3. Wedi dangos nad oes i'r ddefod a gondemniwn y sail leiaf yn hanes y teuluoedd blaenorol, ac nad yw yr hyn a ddywed rhai Taenellwyr am bregethwyr y Bedyddwyr yn eu cyssylltiad â bedyddio teuluoedd yn wir, cymhellwn sylw yn mhellach at osodiad arall, â'r hwn y cyssylltir cryn bwys; sef, "nad oes byth son am fedyddio plant proffeswyr wedi iddynt dyfu fyny yn hanes yr apostolion. Bernir fod hyn "yn wahanol iawn i hanes y rhai a *gyfenwant eu hunain yn Fedyddwyr yn ein dyddiau ni*" (Mr. P., tud. 67). Y mae gan Mr. P. ei hun sylwadau nas gallant lai nâ rhoi esboniad boddhaol ar y pwnc hwn:—"Dylem gofio," ebe fe, "nad yw yr hanes a roddir yn yr Actau am lwyddiant gweinidogaeth yr apostolion, ond *talfyrol* iawn. Weithiau ni chofnodir ond yn unig fod yr apostolion wedi ymweled â'r cyfryw wledydd; ond yn ddamweiniol drachefn hysbysir iddynt gyfarfod â llwyddiant mawr. Megys yn Act. 18. 23, hysbysir i Paul 'dramwy trwy wlad Galatia a Phrygia, mewn trefn, a chadarnhau yr holl ddydsygbllion.' Y cwbl a ddywedir am y gwledydd hyn o'r blaen ydyw, 'Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia (Act. 16. 6; tud. 61)'. Y mae'r dyfyniad hwn yn *dygwyl* bod yn wir; ac fel y cyfryw, gwna'r brawddegau ereill a ddyfynwyd yn hollol ddirym fel rhai yn cynnwys cy-

\* Peth cyffredin iawn yw i'n cyfeillion brofi mwy nag sydd yn gyfleus; ac nid ydynt yn eithriad iddynt eu hunain yn yr ystyr hwn yn nadl y teuluoedd, fel y dengys y sylwadau canlynol o eiddo'r Parch. H. W. Hughes:—"Oni w'r Mr. D. fod yn y Testament Newydd hanes *pump* o deuluoedd yn *credu*, cystal a thri wedi eu bedyddio (Ioan 4. 53; Act. 10. 2; 16. 34; 18. 8; 1 Cor. 16. 15). Yn awr, os yw fod tri theulu wedi eu bedyddio gyda'r rhieni yn cynnwys fod teuluoedd yn gyffredinol yn cynnwys babanod i'w bedyddio, yna y mae fod *pump* o deuluoedd wedi *credu*, gyda'r rhieni, yn profi fod teuluoedd yn gyffredinol yn cynnwys babanod yn *credu* pan y byddo y rhieni yn *credu*! Os dywed Mr. D. nad oedd babanod yn y teuluoedd *crediniol* (yr hyn sydd mor wir a'r pader), yr ydym yn ei ddyled, gan ei fod wrth hyn yn addef nad oedd babanod yn y teuluoedd *bedyddiedig* ychwaith!! (Yr *Ymddiffynnydd*, tud. 29.)



huddiad. Hawlia'r ystyriaethau canlynol sylw:—(1.) Nad oes genym *hanes manwl*, fel y sylwa Mr. Prichard, o holl weithrediadau y cyfnod apostolaidd. (2.) Nad yw yn iawn i ni dynu casgliadau o barthed amgylchiadau anadnabyddus y cyfnod hwnw, yn mhellach nag y mae amgylchiadau eglur a diammheuol y cyfryw gyfnod yn ein galluogi. (3.) Fod y mwyafrif o'r eglwysi y cyfeirir yn fyr atynt yn y Testament Newydd, yn rhy ieuainac i roddi cyfleustra i fedyddio plant proffeswyr mewn oedran priodol. (4.) Gan mai bedydd credinwyr yw yr unig un y mae genym ni hanes am dano yn y Testament Newydd (ac yn gymmaint ag nad yw ffeithiau eglur i gael eu penderfynu wrth amgylchiadau anadnabyddus yn ol ein rheol), ynfydrwydd fyddai meddwl fod unrhyw fath o fedydd arall mewn arferiad yn yr oes apostolaidd. Y mae tir dystawrwydd y Beibl mor waharddedig i Gristionogion yn eu perthynas âg ordinhadau pendant, ag yr oedd "pren gwybodaeth da a drwg" i arglwydd paradwys.

4. O dan y pen hwn, y mae dwy neu dair o adnodau yn cymhell eu hunain i'n sylw. Pe caniatëid, er mwyn dadl, fod gradd o aneglurder yn perthyn iddynt, byddai raid eu dwyn hwythau hefyd i gael eu hegluro wrth y rhanau a ystyrir uwchlaw ammhenaeth, yn ol ein hegwyddor sylfaenol, ac nid ystwytho yr adnodau egluraf i gael eu profi wrth rai a ystyrir yn llai eglur. Beth bynag yw ystyr yr adnodau canlynol, y maent yn rhwym o gydgorio â'r crybwyllion diamwys sydd genym am fedydd y crediniol; oblegid nid yw ammhenaeth i gael cymylu eglurdeb, na thybiau dynion i ymyraeth â sicrwydd efengyl. Ond nid oes aneglurdeb yn perthyn i'r adnodau y cyfeirir atynt yma fel y mae llawer yn meddwl, nac un sail i daenelliad babanod, fel y cawn ddangos yn y sylwadau canlynol.

Darlener Marc 10. 13—16. Gan fod y Taenellwyr mor hoff o *gasglu*; yr ydym yn gofyn pa beth neu bethau a allant gasglu oddiwrth yr adnodau hyn? Os casglant fel y dylent, y maent yn sicr o benderfynu na ddarfu i Grist fedyddio y plant bychain hyny. Y mae tair neu bedair o ystyriaethau yn eu rhwymo i dynu y fath gasgliad. (1.) Y dyben mewn golwg gan y rhai a'u dygasant at Grist: sef, fel y *cyffyrddai* efe â hwynt, ac nid fel y *bedyddiai* efe hwynt. (2.)

Gwaharddiad y dysgyblion. Pe buasai Crist yn *arfer* bedyddio babanod, ni waharddasai y dysgyblion y rhieni i ddwyn eu plant ato i'r dyben hwnw. (3.) Yr hyn a gymmerodd le wedi eu dwyn at Grist. Cymmerodd Crist hwynt yn ei freichiau, rhoddodd ei ddwyllaw arnynt, a bendithiodd hwynt. Byddai ceisio profi y dylid gosod dwyllaw ar fabanod yn fwy rhesymol oddiwrth yr adnodau hyn na dadleu y dylid eu bedyddio, neu daenellu dwfr arnynt. (4.) Dywedir mai trwy ei ddysgyblion y bedyddiai Crist, yn Ioan 4. 2. Y mae'r aif adnod yn fath o esboniad ar y gyntaf. Ni ddywedir na fedyddiodd Crist hwynt, ebe ein cyfeillion. "Digen gwir," meddai y Parch. John Evans yn ei atebiad; "ac ni ddywedir na enwaeddodd hwy, ac na aberthodd hwy i Moloch, &c.; ond onid yw dweyd beth a wnaeth yn cynnwys beth na wnaeth? Y mae dywedyd i'r Iesu gael ei enwaedu yr wythfed dydd, yn cynnwys mai nid ei fedyddio a gafodd y pryd hwnw; ac y mae dywedyd iddo gael ei fedyddio gan Ioan yn yr Iorddonen, yn profi mai nid ei enwaedu a gafodd pan yn ddeg ar hugain oed." Y mae'r amgylchiad a gofnodir yn yr adnodau o dan sylw yn milwrio yn erbyn y dybiaeth, mai ewyllys Crist yw i blant bychain neu fabanod i gael eu bedyddio yn ei enw. Nis gellir gwneyd dim yn well (os cystal) na dyfynu sylwadau rhagorol y Parch. John Evans ar y pwnc:—"(1.) Dyma'r *unig* enghraifft yn hanes bywyd Iesu, iddo gymmeryd plant bychain yn ei freichiau a'u bendithio. (2.) Hwn oedd yr amgylchiad mwyaf cyflëus, neu yr un mwyaf manteisiol, ag y darllenwn ni am dano yn ei holl fywyd, i ddangos, os oedd yn ewyllysio, neu yn bwriadu i blant bychain fod yn ddeiliaid bedydd. Ond nid oes yma nac esiampl na gorchymyn am y peth. (3.) Nid oes dim yn ei ymddygiad at y plant bychain hyn yn rheol i ni i'w dilyn; oblegid nid yw gweithred heb orchymyn yn sylfaen dyledswydd, yn fwy nag y mae gweithred heb addewid yn sylfaen gobaith. Marchogodd Iesu ar asyn, ond nid yw hyn yn profi y dylai ei holl ganlynwyr farchogaeth ar asynod; oblegid nid oes gorchymyn. Ond nid yn unig nid oes gorchymyn, eithr nid oes gweithred ychwaith o daenelliad babanod yn ymddygiad Crist at y plant bychain a gymmerodd yn ei freichiau, ac a fendithiodd. Y mae genym orchymyn ac esiampl am fedydd a swper yr Arglwydd; ond nid



oes genym y naill na'r llall dros daenelliad babanod.

"Yr addysg a ddylem wneyd oddiwrth yr hanes dan sylw yw, yr hyn a wnaeth ein Harglwydd ei hun, sef, mai eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw; ac nad â neb i mewn iddi heb ei derbyn fel dyn bach. Diau mai yr un peth a feddylir wrth deyrnas Dduw yn y ddwy frawddeg hyn; ac mai yr un rhai a olygir wrth y rhai y mae teyrnas Dduw yn eiddo iddynt, a'r rhai sydd yn ei derbyn ac yn myned i mewn iddi. Perthyna i deyrnas Dduw athrawiaeth, ordinhadau, bendithion, a dedwyddwch bythol tu draw i'r bedd; nis gall y deyrnas hon, gan hyny, fod yn eiddo plant bychain, o ran ei hathrawiaeth, nac o ran ei hordinhadau; oblegid nad ydynt yn alluog i gredu y naill, nac i ufyddhau i'r llall; ond nid yw hyny yn profi nad oedd Crist yn alluog i'w bendithio yn eu cyrff ac yn eu heneidiau" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 108—9). Dengys y dyfyniad grymus hwn, nad oes gan neb hawl i gasglu i'r plant bychain hyny gael eu bedyddio, nac i fedydd gael ei enwi yn eu presenoldeb. Myn rhai ddadleu fod yr ymadrodd, "Canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd," yn dangos fod y cyfryw blant yn "aelodau o'r eglwys weledig." Dylid ystyried nad yw Crist yn dweyd fod y plant hyny o deyrnas nefoedd, ond mai "eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Dywed y Parch. A. Barnes (Taenellwr o fri mawr) yn ei sylwadau ar yr adnodau o dan sylw fely canlyn:—"O'r cyfryw rai a hyn; hyny yw, o bersonau o'r un tymherau a'r rhai hyn, y mae'r eglwys i gael ei chyfansoddi." Nid ydyw yn dywedyd, o'r babanod hyn; ond o bersonau a debygolant iddynt, neu sydd yn debyg iddynt mewn tymher, y mae teyrnas nefoedd i gael ei gwneyd i fyny. Y mae'r ymadrodd yn eglurach yn yr iaith Saesneg:—"For of such is the kingdom of heaven;" hyn yn Gymraeg yw, canys o'r cyfryw (neu rai cyffelyb) y mae teyrnas nefoedd; hyny yw, o rai tebyg iddynt. Pe ammbeuid Mr. Barnes trwy ddweyd fod y geiriau yn profi aelodiaeth babanod (neu eu hawl i hyny) yn yr eglwys Gristionogol, byddai raid i ni gredu mai hwyntwy yn unig sydd i fod yn aelodau ynddi; oblegid y mae'r ymadrodd, "o'r cyfryw y mae teyrnas nefoedd" yn cau allan bawb ereill, fel y gwy'r pob gramadegwr. Yn ol yr esboniad a roddir gan rai Taenellwyr ar y geiriau, y mae babanod yn aelodau; os felly, yr ydym ninnau yn haeru mai hwyntwy

yn unig sydd i fod yn aelodau yn ol geiriad yr ymadrodd:—"For of such is the kingdom of heaven." Dealler fod y frawddeg "o'r cyffelyb (neu y cyfryw) y mae teyrnas nefoedd," yn ymadrodd diffygiol (*elliptical*), ac mai ei ystyr yn gyflawn yw yr hyn a nodâ Mr. Barnes; sef, o'r cyffelyb y mae teyrnas nefoedd i gael ei gwneyd i fyny.

Y mae'r sylwadau canlynol o eiddo'r Parch. J. Evans ar y pwne yn deilwng o'u hawdwr, ac o'r pwne mewn dadl:—"O barth yr ymadrodd, 'eiddo y cyfryw rai,' dylem ddeall nad oes yn y Groeg ond un gair am y cyfan, sef *τοιοῦτοι* (*toioutôn*). Y mae y gair hwn yn un cyfansawdd, wedi ei wneyd i fyny o ddau air gwahanol, *τοιος* (*toios*) ac *οὗτος* (*outos*). Y mae'r gair *τοιος* yn gyfystyr a'r gair Lladin *talis*, a'r gair Saesneg *such* neu *like*, a'r gair Cymraeg y *fath* neu *gyffelyb*. Y mae'r gair *οὗτος* yn gyfystyr a'r gair Lladin *hic* (ond ei fod yn y rhif lluosog), a'r gair Saesneg *these*, a'r gair Cymraeg *hyn*, neu y *rhai hyn*. Y cyfieithiad llythyrenol a chywiraf o'r geiriau yw, *of such as these*, o'r *fath hyn*, neu rai a debygant i'r rhai hyn, y mae teyrnas Dduw. Ac yn gysson â'r golygiad hwn y dywed ein Harglwydd, I'wy bynag, bydded gyfoethog neu dlawd, dysgedig neu annysgedig, pwy bynag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi. Pe buasai ein Hathraw am i ni ddeall y plant bychain eu hunain wrth y *cyfryw rai*, ac nid rhai *fel* plant bychain, y gair *Αὐτόν* (*autôn*) a ddefnyddiasai, ac nid y gair *τοιούτον*. Sylwer ar y gwahaniaeth sydd rhwng yr ymadrodd yn Math. 5. 3, a Marc 10. 14; yn y cyntaf dywedir, canys *eiddynt* (*autôn*) yw teyrnas nefoedd. Yn yr ail dywedir, canys eiddo y *cyfryw rai* (*toioutôn*) yw teyrnas Dduw. Y mae y rheswm am y gwahaniaeth hwn yn eglur; yn Mathew y mae yn gosod allan nad oes neb yn nheyrnas nefoedd, ond rhai *tlodion yn yr Ysbyrd*, ac nid rhai cyffelyb iddynt. Yn Marc y mae yn gosod allan nad oes neb yn nheyrnas Dduw ond rhai *cyffelyb* i blant bychain, oblegid nad â neb i mewn iddi oddieithr iddo ei derbyn fel dyn bach. Ac oddiwrth yr eglurhad blaenorol y canfyddir, mai nid amcan y geiriau yw gosod allan hawl babanod i fedydd, ac aelodiaeth eglwysig, eithr gosod allan ddynion o ba gymmeriad ac ansawdd meddwl ydynt iawn ddeiliaid y deyrnas nad yw o'r byd hwn. Y mae yn eglur nad yw teyrnas Dduw yn agored i bawb yn ddiwahaniaeth; onide ffolineb fuasai sôn am gymhwysder nac annghym-



hwysder iddi. Ond nid yw y Testament Newydd wedi gadael lle i ddadl yn nghylch y gosodiad hwn; am y dysgir ni mewn geiriau mor eglur pwy ydynt ddeiliaid pennodol teyrnas Crist, sef, y rhai ydynt wedi eu haileni, &c., &c. (Ioan 3, 3, 7; Math. 5, 3; Gal. 3, 9; Ioan 15, 14; Act. 2, 41). Rhai yn derbyn teyrnas Dduw fel plant bychain. Ond nid oes eisieu i ni fod fel babanod yn *mhob* peth, yn fwy na bod fel y sarff neu y golomen yn *mhob* peth. Mewn gwybodaeth, mewn profiad, ac mewn sefydlogrwydd, byddwch *wyr*; ond mewn drygioni byddwch blant; ac mewn didwylledd, gostyngeddwrwydd, a hunan-ymwadiad, byddwch fabanod, yn hawdd eich trin. Ond a ydyw hyn yn profi mai y babanod eu hunain ydyw deiliaid teyrnas Crist ar y ddaear? nag yw, ond mai rhai *fel* plant bychain ydynt." Ynadyfynaeriau un o'r Taenellwyr, y rhai sydd fel y canlyn:—"Y fath ffiloreg yw hyn?" ebe un Taenellwr, "Crist yn bendithio plant bychain, am fod teyrnas nefoedd yn eiddo i rai ereill tebyg iddynt." Gofyna Mr. Evans, "Pwy a ddywed fod Crist yn bendithio plant bychain, am fod teyrnas nefoedd yn eiddo i rai *tebyg* iddynt? Nid yr Efengylwr. Pan oedd y dysgyblion yn gwahardd, bu yr Iesu yn anfodd-law'n iddynt; a gorehymynodd i'r plant gael eu dwyn ato, a dywedodd gyda llaw wrth ei ddysgyblion, i ddangos na ddylent hwy fod yn arglwyddi hunanfaleh; mai rhai cyffelyb i'r plant hyn oedd deiliaid teyrnas Dduw, a bod rhaid i bob un a â i mewn iddi ei derbyn fel *dyn bach*; yna efe a'u cymmerodd yn ei freichiau santaidd, ac a roddodd ei ddwyllaw arnynt, ac a'u bendithiodd. Ni ddywedir iddo eu bendithio am fod teyrnas nefoedd yn eiddo iddynt hwy, nac am ei bod yn eiddo neb arall. *Cerydd* ar y dysgyblion oedd yr hyn a ddywedodd; ond yr oedd y weithred o fendithio y babanod yn hollol annibynol ar y cerydd a roddodd i'w ddysgyblion." Dyfyna Mr. Evans yn mhellach yr ymadroddion canlynol o weithiau un o oraclau y Taenellwyr:—"Os bydd addasrwydd dyn bach mewn dyn o oed, efe a â i mewn iddi; rhaid, o ganlyniad, fod y dyn bach ei hun yn gymhwys iddi. Os yw y deyrnas yn perthyn i bobl am eu bod *fel plant*, rhaid ynte ei bod yn perthyn i'r plant, am eu bod fel y bobl hyn." Yna ateba Mr. Evans:—"Na raid i un o'r ddau fod... Dywedodd yr Iesu wrth ei ddysgyblion pan yn eu hanfon i waith y weinidogaeth, neu i bregethu yr efengyl, 'Byddwch gall

fel seirff, a diniwed fel y colomenod' (Math. 10, 6). Ond nid yw hyn yn profi fod y seirff a'r colomenod yn meddu cymhwyserau *fel* yr apostolion at waith y weinidogaeth, neu i bregethu yr efengyl! Gall un fod fel un arall, mewn rhai pethau, heb fod yr ail fel y cyntaf yn *mhob* peth. Dyn oedranus a all fod *fel* plant bychain, yn ddiwyll, gostyngedig, a hawdd ei drin; ond plant bychain nis gallant fod *fel* y dyn oedranus, yn credu, edifarhau, a rhoddi ufydd-dod i'r efengyl; gan hynny, nid yw fod dyn oedranus fel plant bychain yn profi fod plant bychain fel dyn oedranus. Pa ddyben siarad am 'addasrwydd dyn bach mewn dyn o oed?' Ni ddywedodd Crist fod y *dyn bach* yn meddu ar yr addasrwydd gofynol. Pa addasrwydd sydd mewn baban newydd eni? Y mae yn ddiniwed a diymffrost, ac yn hyn y dylem ymdebygu iddo; ond y ddadl wedi'n yw, ai dyma yr unig a'r holl addasrwydd angenrheidiol i dderbyn ac i fyned mewn i deyrnas Dduw? Nage, onide nid yw ffydd yn y gwirionedd, edifeirwch am ddrwg, cariad at Dduw, ac ufydd-dod i'r efengyl, yn gwneyd i fyny un rhan o'r addasrwydd gofynol! Ac os nad yw babanod yn alluog o'r cymhwysderau hyn, nid ydynt yn alluog ehwaith i dderbyn teyrnas Dduw, nac i fyned mewn iddi, fel y dyn oedranus" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 109, 110). Nid yw barn Mr. Evans yn y brawddegau uchod, yn wahanol i eiddo y Taenellwr dysgedig Olshausen, fel y dengys y ddwy frawddeg ganlynol o'i waith: "O'r cyfeiriad at feddyd babanod a geisir mor gyffredin yma, y mae yn amlwg nad oes y braisg lleiaf i'w gael. Gosoda y Ceidwad y plant gerbron yr apostolion fel arwyddluniau (*symbols*) o adenedigaeth ysbrydol, ac o'r teimlad syml plentynaidd a gyfrenir ynddo." Y mae llawer o Taenellwyr dysgedig ereill yn hollol o'r un farn a'r Eilmynwyr enwog hwn. O'r ochr arall, myn llawer y dylent gael eu "harddel yn gyhoeddus fel deiliaid ei deyrnas," mai "eiddynt yw y ddefod arwyddocaol, a'r arwydd gweledig o'u perthynas â theyrnas Dduw; o *ganlyniad*, y mae yn iawn iddynt (babanod) gael eu bedyddio." "Os yw yr ymresymiad hwn yn gywir," ebe un ysgrifenydd manwl a grymus, "y mae yn canlyn hefyd mai eiddynt yw swper yr Arglwydd; o *ganlyniad*, y mae yn iawn iddynt gael cyfranogi o'r cymmundeib. Y mae y swper yn perthyn i deyrnas Dduw yn hollol gymmaint ag y mae bedydd yn perthyn iddi; gan hynny, os yw 'o *ganlyniad*' y Taenellwyr yn canlyn o angenrheid-



rwydd o'r ymresymiad, y mae'r ail 'o gan-lyniad' yn canlyn yr un mor angenrheidiol ac anocheladwy; hyny yw, y mae'r un mor iawn i fabanod gael cymmuno ag yw iddynt gael eu bedyddio. Os yw bedydd yn perthyn i deyrnas Dduw, y mae'r cymmundebed hefyd felly; ac os yw yn *iawn* bedyddio babanod am fod bedydd yn perthyn i'r deyrnas, y mae yn *iawn* hefyd rhoddi cymmundebed iddynt, oblegid y mae'r cymmundebed yn perthyn cymmaint i'r deyrnas a bedydd. Dylai yr holl Daenellwyr ag sydd yn ymresymu fel hyn oddiwrth yr adnod hon, roddi cymmundebed i fabanod yn gystal a'u bedyddio. A ydynt hwy yn foddllon i hyn?" Gwel pob darlennydd diragfarn fod yr ymresymiad hwn o berthynas i gymmundebed babanod, yn anatebadwy, a bod rhaid i'n cyfeillion dderbyn y rhai bychain at y bwrdd, neu roi fyny eu bedyddio ar y dybiaeth o fod ganddynt hawl i freintiau eglwysig. Nid oes un tir canol i sefyll arno.

Ceisia rhai Taenellwyr sugno cryn nerth o ran o anerchiad Pedr i ddychweledigion y Pentecost (Act. 2. 39):—"Canys i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant," &c.; ond barna llawer o gefnogwyr galluocaf taenelliad, nad oes yn y geiriau hyn un math o sail i'r arferiad a gondebniwn. Dywed y Parch. Albert Barnes, er enghraifft, nad oes ynddynt gyfeiriad o gwbl at blant fel *plant*, ac na ddylid eu defnyddio i sefydlu bedydd babanod, neu fel geiriau cymhwysiadol yn neillduol at fabanod. Ei farn ef ydyw, mai addewid i rieni ydyw, nad yw bendithion yr iachawdwr iaeth i gael eu cyfyngu iddynt hwy yn unig, ond i gael eu hestyn hefyd i'w hiliogaeth. Cyfeiriasai Pedr at yr addewid yn nechreu ei bregeth (adn. 17), ac yn awr cymhwysa hi at yr Iuddewon dychweledig. Gan fod disgyniad yr Ysbryd ar yr Iuddewon, eu meibion a'u merched (Joel 2, 2, 28, 32), wedi ei addaw, cymhwysai Pedr yr addewid at yr amgylchiad neillduol yr oedd yr Iuddewon edifeiriol ynddo ar y pryd. Yr oedd y meibion a'r merched Iuddewig y cyfeiriasai Joel atynt yn ddigon hen i brophwydo, yr hyn sydd yn dangos na olygai y prophwyd fabanod o gwbl. "Y mae'r addewid i chwi," er mai chwi a groeshoeliasoch Arglwydd y bywyd. Gan eu bod hwy wedi dweyd:—"Bydded ei waed Ef arnom ni, ac ar ein *plant*;" y mae yn naturiol i ni feddwl, mai nid eu mater eu hunain yn *personol* a'u blinai yn unig, ond fod gradd o euogrwydd yn eu meddiannu yn achos eu

hiliogaeth. Mewn trefn i symud y rhan hono o'u baich, dywed Pedr fod yr addewid yn perthyn i'w plant hefyd ("aci'ch plant"), fel nas gallasai eu hannuwioldeb blaenorol hwy fel rhieni effeithio yn ddinystriol ar eu had. Nis gall drygioni unigolion neu gymdeithasau, rwystro cyflawniad bwriadau anammodol Jehofah. Yr oedd miloedd o'r Iuddewon yn wasgaredig mewn gwledydd cymmydogaethol ar y pryd, a llawer o honynt wedi eu hargyhoeddi dan bregeth yr apostol. Os felly, y mae yn rhesymol meddwl nad oedd argyhoeddedigion y Pentecost yn ddiofid o ethryb i'r gwasgaredigion; ond mewn trefn i symud eu pryder, dywed Pedr, "Ac i bawb yn *mhell*;" nid i'r dosparth sydd yn byw yn Nghanaan yn unig y mae'r addewid yn perthyn. Gwyr y Taenellwyr fel ninnau mai nid i'r Iuddewon yn unig yr addawwyd yr Ysbryd trwy weision ysbrydoliaeth o dan yr Hen Testament; ond barna rhai nad oedd Pedr ar ddydd y Pentecost yn deall yr addewidion yn helaethrwydd mwyaf eu cymhwysiad, a bod yr hanes yn Actau 10, yn profi hyny; ac mai wedi hyny y daeth yr apostolion ereill ac yntau i'w deall yn drwyadl (Act. 10; Rhuf. 10. 11). Y mae'r ddarpariaeth yn eang, ac yn gyflawn, fel nad oes achos i Iuddew na chenedl ddyn fyned i ddinystr ar gyfrif ei chyfyngder. Haera rhai Taenellwyr, "mai addewid o dderbyniad i'r eglwys trwy *feddydd*," ydyw yr addewid a berthyn i'r tadau, ac mai "yr un hefyd yw yr hon a berthyn i'r plant," er nad oes un rhith o sail i'r fath haeriad yn ngair y gwirionedd. Yr ydym yn gwahodd sylw y darlennydd at y sylwadau canlynol ar y pwnc:—(1.) Mai a dynion mewn oedran i'w deall i ryw raddau y mae'r efengyl yn ei hordinhadau a'i gorchymynion yn ymwneyd (fel y profasom mewn rhan arall o'r ysgrif hon), er fod babanod yn cael eu hachub yn anammodol trwy waed Crist, neu heb un math o ufydd-dod personol. Os yw y gosodiad hwn yn gywir, y mae'r esboniad (?) rhyfedd uchod o eiddo'r Taenellwyr yn profi un o ddau beth; sef, yn gyntaf, nad oedd Pedr yn deall mai peth personol yw crefydd, a'i fod fel y cyfryw yn anaddas i ateb yr ymgeiswyr hyn; neu, yn ail, ddarfod iddo yn wirfoddol eu camhyfforddi. Os gwna'n brodyr y Taenellwyr dderbyn ein gosodiad (ac nis gallant ei wrthod), ac amhheu y ddwy dybiaeth a grybwyllwyd, y maent yn rhwym o wrthod athrawiaeth y geiriau blaenorol a ddyfynwyd o lyfr Mr. Pri-chard. Pe tybiem, er mwyn dadl, fod



rhywbeth yn dywyll yn atebiad Pedr i'r Iuddewon dychweledig, y mae, yn ol yr egwyddor sylfaenol sydd yn awr o dan ein hystyriaeth, i gael ei esbonio wrth yr hyn a ystyrir yn eglurach a thuhwnt i ammhueuaeth. (2.) Nid ar sail unrhyw addewid y gwnaeth Pedr orchymyn iddynt gael eu bedyddio, ond mewn canlyniad i'w hedi-feirwch; "*edifarhewch*, a bedyddier pob un o honoch," &c. Yr oedd tywalltiad yr Ysbryd i gynnrychu edifeirwch, a'r edifeirwch hwnw bedd y cymhwysder a ofynid yn neiliaid bedydd. Sylwa un duwinydd galluog, "Nad yw y bedydd a'r addewid y sonir am danynt gan Pedr, yn dâl un cyssylltiad â'u gilydd, nae un o'r ddau yn perthyn i fabanod yn y mesur lleiaf. Nid oedd yr addewid yn sail gweinyddiad bedydd, na bedydd yn rhoddi hawl i'r addewid. Cyssylltir bedydd âg edifeirwch yn y gwrthdrrychau, a chyssylltir maddeuant pechodau a derbyn dawn yr Ysbryd Glân, â bedydd. Cyfyngir yr addewid i gynnifer âg a alwo'r Arglwydd ein Duw ni ato; o honynt hwy, o'u plant, ac o bawb yn mhell. Os dadleuir mai yr un gwrthdrrychau a feddylir wrth y sawl a elwir gan Dduw ato ei hun, â'r rhai sydd yn ufyddhau ac yn ymostwng i fedydd, ac mai yr un peth a feddylir wrth yr addewid a maddeuant pechodau, a dawn yr Ysbryd Glân; yna nid yw yr addewid i neb ond y rhai sydd wedi edifarhau, ac wedi eu bedyddio yn enw yr Arglwydd Iesu." Os oedd yr addewid yn *unig* yn sail i fedyddio babanod, dylasai yr un peth yn annibynol ar edifeirwch wasanaethu fel rheswm dros fedyddio yr ymgeiswyr a anerchid gan Pedr, os nad yw'r Beibl yn ein dysgu yn bendant y gwna'r addewid *ei hun* y tro i'r naill, a bod addewid *ac edifeirwch* yn hanfodol i'r llall. Nid yw y Llyfr yn gwneyd y fath wahaniaeth; o ganlyniad, nid athrawiaeth Ysgrhythrol yw y syniad a wrthwynebwn, ond mympwy ddynol. Gan mai i ddynion mewn oed y mae'r Ysbryd yn addawedig, paham y beiddir haeru y dylid bedyddio y rhai hyny\* a babanod ar

sail yr addewid? (3.) Y mae'r gair Groeg *tekua*, yr hwn a gyfieithir plant yn yr adnod dan sylw, o blaid y syniad a amddiffynwn. Nid y gair am fabanod ydyw, eithr un yn arwyddo hiliogaeth neu ganlynyddion — *posterity, a remote descendant* (Deut. 29. 29; Math. 10. 21; 21. 22; 27. 23; Ioan 8. 39); ac os oes eithriadau (nid ydym yn cofio am danynt), y mae yr hyn a ysgrifenyddyd yn profi nad yw'r gair yn yr adnod o dan sylw yn un o honynt. (4.) Hysbysa Luc ni yn eglur *pwcy* a feddyddiwyd mewn canlyniad i bregeth Pedr, a'r atebiad a roddodd i'r dychweledigion. Yn adnod 38, y mae yr apostol yn dweyd wrthynt:—"Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw yr Arglwydd Iesu er maddeuant pechodau," &c. Mewn canlyniad i'r gorchymyn cyfarwyddiadol hwn, dywedir wrthym yn adnod yr 41ain, *pwcy* a feddyddiwyd, sef, "y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar;" a dysgir ni ddarfod iddynt gael eu chwanegu at y dysgyblion neu yr eglwys, a'u bod yn parhau yn gyntun, ac yn tori bara o dŷ i dŷ. Ymdrecha Mr. Prichard symud yr wrthddadl ansylfladwy hon trwy sylwi:—"Ond nid oes dim yn y geiriau yna ("y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a feddyddiwyd") yn profi nad allasai babanod lawer fod wedi eu bedyddio ar ddydd y Pentecost, er nad ydynt yn cael eu henwi" (tud. 57). Yn

(*Taenelliad Babanod gan y Parch. R. Prichard*, tud. 56). Y mae Mr. P. yn gwneyd bedydd yn ddwrs i'r eglwys ("cyssegriad hollol yr hwn a feddyddir i Dduw a'i wasanaeth," tud. 9), a'r addewid yn "hawl i fod yn aelodau." "Os felly, paham y gofynai Pedr am edifeirwch *hefyd*? Os oeddynt "o fewn cylch yr addewid," yr oedd ganddynt "hawl i fod yn aelodau;" ac os oedd hawl ganddynt i aelodiaeth, meddant hawl i fyned trwy y drws iddi. Os bydd gan ddyn hawl i dŷ, onid oes ganddo awdurdod i fyned trwy y drws i'r tŷ hwnw? Os bydd gan ddau berson hawl i'r un tŷ, medda y naill fel y llall ryddid i fyned trwy y drws iddo. Paham y gorfodir un i dalu am gael myned i'w dŷ ei hun, tra y gadewir yr un arall i fyned iddo heb dalu? Pe buasai Mr. P. byw yn amser Pedr, ac yn gwrandaw yr apostol yn gorchymyn i'r ymgeiswyr edifarhau mewn trefu i gael myned trwy y drws i'r eglwys, buasai yn debyg o ddangos i Pedr ei ddwli neu ei ormes trwy ddweyd:—"Pawb sydd o fewn cylch yr addewid" (fel y rhai hyn), "y mae ganddynt *hawl* i fod yn aelodau o eglwys y Testament Newydd." O ganlyniad, yr wyt ti yn dangos dy fod naill ai yn ormeswr digydwylbod, neu yn ymyrwr anwybodus, trwy dŷ fod yn gwneyd edifeirwch yn ammod aelodiaeth i rai y mae ganddynt *hawl* i aelodiaeth yn rhinwedd yr addewid. Dyna *specimen* arall o resymau yr hwn a ystyrir gan rai yn fath o "*none such*" fel *champion* taenelliad babanod.

\* "Pawb sydd o fewn cylch yr addewid," ebe Mr. P., "y mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o eglwys y Testament Newydd. Y mae y plant o fewn y cylch; o ganlyniad, dylid eu derbyn hwythau trwy fedydd i'r eglwys yn gystal a'u rhieni. Addewid Duw yn *unig* sydd yn rhoddi hawl i'r tadau, ac ni roddwyd un addewid i'r tadau ond sydd yn perthyn i'r plant hefyd; am hyny, os dylid bedyddio y rhieni am fod yr addewid yn perthyn iddynt, dylid bedyddio y plant hefyd o herwydd yr un rheswm; canys perthyna yr addewid iddynt hwythau yn gystal ag i'r tadau"



Matthew 25. 10, ceir y geiriau canlynol:—  
 “A'r rhai oedd barod, a aethant i mewn gydag ef i'r briodas, a chauwyd y drws.” Ond yn ol trefn Mr. P. i esbonio y fath ymadroddion,—“Nid oes dim yn y geiriau yma yn profi nad allasai rhai amharod fod wedi myned i mewn i'r briodas, er nad ydynt yn cael eu henwi!” Os dywedir fod genym hanes am y rhai amharod yn curo yn aflwyddiannus am agoriad, yr ydym ninnau yn ateb, ddarod i'r rhai a fedyddiwyd ar ddydd y Pentecost wneyd a mwynhau pethau ag sydd o angenrheidrwydd yn cau allan fabanod (Act. 2. 41—47). Gwahodda'r Ceidwad ato ei hun bawb sydd “yn flinderog ac yn llwythog,” (Matb. 11. 28); ond yn ol Mr. P.,—“Nid oes dim yn y geiriau yna yn profi nad all rhai heb fod yn ‘flinderog ac yn llwythog’ ddod at Grist, er nad ydynt yn cael eu henwi.” Rhan o gyfarwyddyd Crist yw:—“Os myn neb ddyfod ar fy ol I, ymwaded âg ef ei hun, a chyfodod ei groes, a chanlyned fi.” “Ond nid oes dim yn y geiriau yna yn profi, na all llawer ddilyn Crist heb ymwadu â hwy eu hunain, na chodi y groes, er nad ydynt yn cael eu henwi!!”\*

\* Yn Nghymru, y brodyr Methodistaidd a Wesleyaidd sydd yn gyffredin yn ceisio llechu o dan gysgod yr adnod flaenorol (Act. 2. 39); ond ceryddir hwy yn llym gan yr Annibynwyr am eu hannglyssondeb gyda bedydd yr ‘hâd,’ fel y dengys y dyfyniad canlynol:—“Drefnyddion: A ydych chiwi yn gallu canfod cyssondeb eich fydd o barth bedydd babanod? Yr ydych yn beio y Bedyddwyr am na fedyddiant eu babanod, ac yr ydych chiwithau yf gwrthod bedyddio neb ond ‘hâd yr eglwys,’ neu efallai hâd y seet. Ni fedyddiwyd fabanod eich gwrandawwr eich hunain. Eich cynghor yw, ‘Ewch â'ch babanod at yr Eglwys neu y Dissenters i'w bedyddio.’ Ar ba dir yr ydych yn cynghori ereill i wneyd peth na wnewch mo hono eich hunain? Yr ydych yn cydnabod bedydd yr Eglwys neu y Dissenters yn fedydd rheolaidd, canys nid ydych byth yn ail-fedyddio y plant hyn, pan gynnygiant eu hunain ar ol dyfod i oed, yn aelodau eglwysig. Paham yn enw cyssondeb y ffydd, na wnelech chiwi eich hunain yr hyn ydych yn ei addef yn ymarferol sydd yn iawn? Yr ydych yn bedyddio y babanod y bydd y tad neu y fam yn profesu gyda chiwi yr un modd a phe byddai y ddau yn aelodau. Onid y peth a elwir ‘hanner bedydd’ ddylai fod mewn amgylchiad fel hyn? Oni ddylai rhyw gydnabyddiaeth gael ei wneyd o hâd y taid a'r nai?” (Y Bedydd Cristionogol, gan Tegai, tud. 22-3.)

Pwnc Tegai yw bedyddio “plant professedig;” gan hynny, beia ei frodyr Annibynol hefyd yn y geiriau canlynol:—“Annibynwyr: Y mae eich haelfrydded bedyddiadol chiwi wrthi geisio cadw pawb yn colli pawb. Yr ydych yn rhoddi y nŵd ar yr wyn bychain, er hynny, y maent yn myned

Dywed rhai Taenellwyr fod 1 Cor. 7. 14, yn ffafriol i daenelliad babanod:—“Canys y gwr digred a santeiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a santeiddir trwy ei gwr; pe amgen, aflan yn ddiau fyddai eich plant; eithr yn awr santaidd ydynt.” Llauer ymdrech galed â fu rhwng ein brodyr gwrthwynebol â'r adnod hon; ond er eu holl ymdrechion i'w nyddu a'i gwrthdroi i'w golygiadau eu hunain, y mae yn sefyll yn anhyblyg o dan bob goruchwyliaeth. Ei hystyr, yn ol rhai Taenellwyr, ydyw:—“Fe gaiff y plant eu neillduo i Ddaw, a'u cyfiwyno i'w eglwys trwy fedydd.” Haerant “mai meddwl y gair *santaidd* yn yr adnod dan sylw ydyw neillduad i'r Arglwydd, sef, os bydd y tad neu y fam yn credu, fe neillduir y plant i'r Arglwydd trwy fedydd; ond os na fydd

oll yn ddefaid cyfrgolledig. Ni wyddoch yn y byd i ba le y maent yn myned, na pha beth sydd yn dyfod o honynt. Oni fyddai yn well genych fedyddio un plentyn bychan crediniol (mor bell ag y gall plentyn fod yn grediniol), a'i gael felly yn aelod eglwysig, fel y byddai rhyw berthynas rhwng ei fedydd ag addysg yr eglwys, na phe bedyddiech gant o fabanod sugno?” (tud. 22). Etto:—“Dim ond troi i Ioan 3, fe derfynir dwy ddadl mewn cylech bychan iawn. Ceir gweled yr o mai ‘yr hyn a aned o'r enawd sydd gnawd.’ Dyma derfyn ar unwaith ar grefydd genedlaethol, neu drosolwyddedig yn yr ‘hâd.’ Camsynied yw y dyb fod crefydd ‘o waed,’ hyd y nod dan gyfammod Abraham. Na, na, ni fu crefydd eriod yn genedlaethol. Pan gaiff y Testament Newydd le gweddillion tywyllwch y canol oesoedd, fe'i derbynir ar ei air, sef, mai ‘yr hyn a aned o'r enawd sydd gnawd,’ ie, a'r ‘hyn a aned o'r Ysbryd sydd ysbryd.’ Nid ‘adenedigseth yn medydd,’ canys ‘y mae yn rhaid geni dyn o ddwfr ac o'r ysbryd,’—o ddwfr, sef y broffes allanol, ac o'r ysbryd, sef yr egwyddor fewnol. Mor ddidrafferth y mae'r Testament Newydd yn gwastadhau dadleuon y bedydd. Yr un modd y mae dysgu a bedyddio yn cael eu cyssylltu â'u gilydd mewn gorchymyn ac esiampl, yn y modd egluraf, yn y llyfr hwn, heb gymmaint ag un enghraifft yn arwyddo dim yn wahanol..... Y mae y dull sydd genym ni yn bresenol o fedyddio plant ar ein cyfer, heb feddwl am ddysgu miloedd o honnynt, yn sarhad noeth ar synwyr cyffredin. Oni fyddai yn fwy dewisol gan bob gweinidog pwylllog fedyddio un dyn neu blentyn a roddai ei hun i'r Gwaredwr, na bedyddio deng mil o fabanod bychain, ac yna eu gollwng ymaith gyda'r llawys i wneuthur drwg, heb i'w bedydd fod yn gymmaint a nŵd ar glust oenig o les iddynt? Ie, heb fod yn agos cymmaint, canys y mae nŵd ar ddafad yn ateb dyben; ond am fedydd heb gael ei gyssylltu âg addysg, nid yw yn ateb unrhyw ddyben, ond dangos pa mor ffôl y gall dynion synwrol mewn pethau bydol gael eu gwneyd gan goelgrefydd” (tud. 28). Cofier fod Tegai yn un o'r dynion mwyaf gwreiddiol a galluog a fedd yr Annibynwyr yn Nghymru; ac fel y cyfryw, y mae'r dyfyniadau hyn o'i lyfr o bwys mawr yn nadd bedydd.



un o'r ddau yn credu, *aflan*, hyny yw, paganiaid yn ddiau fydd y plant" (*Llyfr Mr. P.*, tud. 53, 54). Ni fu erioed ymdrech yn fwy aflwyddiannus i wŷdroi gair Duw.\* Y mae llafur Mr. P. i wneyd yr adnod hon yn bleidiol i daenelliad babanod, mor annaturiol a'i gynllun i enwaedu menywod (ac i enwaedu gwrrywod *ddwy-iaith*, of course), fel y dengys y sylwadau canlynol o eiddo Taenellwr arall ar y geiriau mewn cwestiwn:—"Y mae'r adnod hon yn fynych wedi cael ei hesbonio a'i dyfynu, er profi fod plant yn 'gyfammodol santaidd,' a bod hawl ganddynt i'r rhagor-fraint o fedydd ar gyfrif ffydd un o'u rhieni. Ond y mae gwrthwynebiadau anodod i'r dehongliad hwn. 1. Nid yw yr ymadrodd 'cyfammodol santaidd' yn ddealladwy, nac yn trosglwyddo un math o feddylldrych i'r cyffredinolrwydd o ddynion. Ni chyfarfyddir âg ef yn un man yn yr ysgrythyrau; a pha beth a ellir ddeall wrtho? 2. Nid yw y dehongliad hwn yn cytuno â rhediad ac amcan ymresymiad yr apostol. Nid oes un gair am fedydd yma, nac un cyfeiriad ato; ac nid yw yr ymresymiad yn dâl y cyssylltiad pellaf âg ef. Y pwnc a drinir ydyw, nid a ddylai plant gael eu bedyddio ai peidio, ond pa un a ddylasai ysgariad gymmeryd lle rhwng gwr a gwraig, pe buasai y naill yn Gristion a'r llall heb fod. Dywed Paul pe buasai y fath ysgariad yn cymmeryd lle, y buasai hyny yn cudd gynnwys fod y briodas yn anmhriodol; ac wrth reswm, y buasai rhaid edrych ar y plant fel rhai aflan neu annglyfreithlawn. Ond pa gyssylltiad fuasai rhwng y dybiaeth eu bod yn gyfammodol santaidd, ac yn briodol ddeiliaid bedydd, â hyn? Oni buasai yr un mor wir y buasai yn briodol bedyddio y plant, pa un bynag a fuasai y rhieni yn ymadael â'u gilydd ai peidio? Nid yw pawb yn mysg bedyddwyr babanod, yn dâl mai ffydd y rhieni sydd yn rhoddi hawl i'r plant i fedydd, na bod y pwnc a drinir gan Paul yma yn dâl unrhyw gyssylltiad â'r athrawiaeth hono. Onid oedd yr un mor wir fod plentyn tad neu fam grefyddol i'w fedyddio, pa un bynag a fuasai yn briodol i'w rieni fyw gyda'u gilydd ai peidio? Ond, 3. Y mae y dybiaeth mai y meddwl yw y buasai y plant yn cael eu cyfrif yn *annglyfreithlawn*, os cymmerasai y fath ysgariaeth le, yn un a

gyduna â holl rediad ac amcan ymresymiad yr apostol. 'Pan fyddo un o'r pleidiau yn Gristion, a'r llall heb fod, a fydd ysgariaeth i gymmeryd lle rhyngddynt?' Hyn oedd y gofyniad. 'Na,' medd Paul, 'os bydd y fath ysgariaeth i gymmeryd lle, y mae yn rhaid mai o herwydd fod y briodas yn anwedus y cymmera le; oblegid y byddai yn feis iddynt gydfyw yn y fath amgylchiadau.' Pa beth a ganlyni oddiwrth hyn? Beth, ond fod yr holl blant a anwyd cyn i'r tad neu y fam ddyfod yn Gristion, i'w hystyried fel rhai wedi eu geni tra yr oedd y rhieni yn dâl cyssylltiad anwedus, anghristionogol, ac annglyfreithlawn â'u gilydd, ac wrth reswm eu bod i'w cyfrif yn blant annglyfreithlawn. Ond, medd efe, nid ydych chiwi eich hunain yn credu hyn. Y mae yn canlyn, gan hyny, fod yr undeb, hyd y nod yn ol eich golygiadau chiwi eich hunain, yn briodol. 4. Cytuna hyn âg ystyr y gair *aflan* (*akatharta*). Y mae'r gair hwn yn briodol yn dynodi yr hyn sydd anmhur, halogedig, eilun-addolgar, ac aflan:—(a) Mewn ystyr seremonïol (Lef. 5. 2). (b) Mewn ystyr foesol (Act. 10. 28; 2 Cor. 6. 17; Eph. 5. 5). Gesyd y gair allan yn briodol yr ystyr o enedig-aeth annglyfreithlawn, neu fastardaid; ac y mae yn amlwg, dybiaf fi, fod ymresymiad yr apostol yn gofyn i ni ei ddeall yn yr ystyr hwn. Gellid symio yr ymresymiad i fyny mewn ychydig o eiriau. 'Cyhoeddiad i bawb fyddai eich ysgariaeth, eich bod chiwi yn ystyried eich priodas yn ddirym ac anmhriodol.' Canlynai oddiwrth hyn y byddai plant y fath briodas yn fastardiaid. Ond nid ydych chiwi yn barod i addef hyn; nid ydych yn ei gredu. Yr ydych chiwi yn cyfrif eich plant yn gyfreithlawn, ac y maent felly. Dylai eich cwlwm priodasol, gan hyny, gael ei ystyried yn rhwymiadol, ac ysgariaeth yn ddiangenrheidiol ac anmhriodol.

"*Eithr yn awr santaidd ydynt*.—Santaid yn yr un ystyr ag y santeiddir y gwr digred gan y wraig grediniol, hyny yw, y maent wedi eu geni yn gyfreithlawn. Nid ydynt i ddwyn gwaradwydd a thriniaeth bastardiaid, fel y byddai raid iddynt pe byddech chiwi yn ymadael â'ch gilydd. Yr ydych chiwi yn eu cyfrif fel rhai wedi eu geni mewn priodas gyfreithlawn, ac y maent felly; a dylai eu rhieni ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw, ac nid eu gosod dan warth a gwaradwydd trwy eich ymadawiad chiwi â'ch gilydd" (*Esboniad Barnes*). Y mae yn eglur, gan hyny, mai

\* Gwel y dyfyniad o'r "North British Review," tud. 73. Y mae ymresymiad y dyfyniad hwn yn anorchfygadwy.



y pwnc oedd, dangos na ddylasai ysgariaeth gymmeryd lle rhwng gwr a gwraig ar gyfrif gwahaniaeth mewn golygiadau crefyddol. Meddyliai rhai Cristionogion fod byw mewn undeb â phaganiaid yn anhriodol, a'u dysgu yn wahanol oedd amcan yr apostol, trwy ddangos iddynt eu bod wedi eu huno yn anwahanadwy trwy ordinhad Duw. Y mae'r gwr a'r wraig yn un trwy ei osodiad ef, gan fod eu hundeb priodasol wedi ei awdurdodi ganddo ef; a chan fod un o honynt yn santaidd, felly y mae y llall hefyd i'w hystyried fel wedi ei santeiddio, neu wedi cael ei neillduo i ddyben neillduol yn ol yr awdurdod ddwyfol ar yr hon y sylfaenwyd eu hundeb â'u gilydd; o ganlyniad, y mae yn briodol iddynt gydfyw yn y berthynas briodasol.

Ceisir gorfodi y gair *Groeg egiastai* i arwyddo santeiddrwydd moesol yn yr adnod hon; ond nid yn yr ystyr hwn y mae i'w ddeall yma. "Rheol ddehonglaeth dda," ebe un, "ydyw fod y geiriau a arferir mewn unrhyw fan i'w cyfyngu yn eu hystyr gan yr ymadroddion â pha rai y byddont yn dal cyssylltiad; a'r cwbl a ofynir i ni ddeall yma ydyw, fod y gwr digred wedi ei santeiddio *gyda golwg ar y pwnc dan sylw*; hyny yw, gyda golwg ar yr ymfyniad, pa un a oedd yn briodol iddynt fyw yn nghyd, ai ynte a ddylasent ymwahanu?" Gan fod y gair *Groeg agios*, o'r hwn y mae *egiaistai* yn tarddu, yn golygu neillduad person neu beth i ddyben neu wasanaeth neillduol, yn gystal a phurdeb moesol, nid oes achos i un dyn diragfarn betruso o ethryb ystyr "santaidd" yn yr adnod dan sylw (gwel *Robinson's Greek and English Lexicon*). Ymneillduad i ddyben cysegredig a phwysig a olygai Crist pan ddywedai ei fod yn santeiddio ei hun (Ioan 17. 19); ond nid yw'r ferf *bob* amser yn golygu neillduad i *Dduw*. Y mae'r amser *dyfodol*—*santeiddir*, a roddir iddi yn y cyfieithiad Cymraeg—yn un anhapus; dylasai fod, *santeiddiwyd*, neu, *cafodd ei santeiddio*. Cyflea, "*is sanctified*," yn y cyfieithiad Saesneg, y meddylldrych yn well.

Nis gall y gair *santeiddio* yma olygu y deuai y gwr digred yn santaidd, neu y byddai yn Gristion yn unig ar gyfrif y berthynas â Christion; dirdynu y geiriau fyddai ceisio rhoi y fath ystyr iddynt, a byddai yn groes i fleithiau adnabyddus. Gall gwr duwiol weithiau fod yn offerynol o dan fendith Duw i dduwioli ei wraig, a'r wraig ei gwr; ond nid hyn yw y meddwl

yn yr adnod hon, oblegid sôn y mae'r apostol am rywbeth *oedd y pryd hwnw*, yr hyn a wnelai eu plant *ar y pryd* yn santaidd. Ond y mae yn anhrosibl dyfalu beth oedd y santeiddrwydd hwnw, os nad y santeiddrwydd sydd "yn ymgodi o briodas reolaidd, sef neillduad y pleidiau idd eu gilydd, yr hyn oedd yn cyfreithloni iddynt fyw yn nghyd fel gwr a gwraigedd," heb bechu yn erbyn Duw trwy hyny, er fod y naill yn annghredadyn a'r llall yn Gristion. Gall annghredadyn fod wedi ei neillduo i'w wraig pan na fyddo wedi ei neillduo i Dduw, fel yr oedd yn yr achos o dan sylw. Beth bynag a olygir wrth yr aflendid a'r santeiddrwydd dan sylw, rhaid ystyried, 1. Mai ymadroddion cyferbyniol yw y ddau. O ganlyniad, os mai *aflendid* moesol a feddylir, rhaid mai santeiddrwydd moesol a olygir hefyd. 2. Y mae'r plant wedi dianc rhag yr aflendid, a meddiannu y *santeiddrwydd* trwy eu perthynas â'u rhieni. 3. Os yw plant yn cael santeiddrwydd grasol neu foesol trwy eu perthynas â thad neu fam grefyddol, fel y mae ganddynt hawl i aelodiaeth yn yr eglwys efengylaidd yn rhinwedd y santeiddrwydd hwnw, y mae yn canlyn yn angenrheidiol, fod gan y gwr annghrefyddol, tad y plant, *hawl* i aelodiaeth eglwysig bedydd, yn seiliedig ar yr un sylfaen; canys y mae santeiddrwydd y tad a hwythau yn hollol o'r un natur. Os yw santeiddrwydd y plant yn rhoddi hawl iddynt hwy i aelodiaeth eglwysig, rhaid fod santeiddrwydd o'r un natur yn eu tad, yn rhoddi hawl iddo yntau i aelodiaeth eglwysig, er ei fod yn *ddigred*! Fel hyn y mae ymresymiad ein cyfeillion yn profi gormod, ac nid yw, gan hyny, yn profi dim. 4. Rhaid fod pob plentyn a genedlir cyn y bydd i'w dad neu ei fam ddechreu crefyddda yn aflan, ac fel y cyfryw yn anaddas i freintiau yr efengyl. 5. Y mae Paul i'w feio yn fawr am beidio sylwi ar y gwahaniaeth pwysig hwn yn y ddau ddosparth o blant; oblegid y mae ei eiriau ef yn peru i ni edrych ar y ddau ddosparth (y rhai a genedlwyd *cyn* ac *wedi* dechreu crefyddda) yn hollol ar yr un tir—"eich plant." Dylasai 'ddweyd, y rhai hyny o'ch plant a genedlwyd *wedi* i'r tad neu y fam dderbyn Cristionogaeth.

Yr ydym yn sylwi ar yr ynyfdrwydd hwn i'r perwyl o ddangos pa mor ffôl yr ymlwybra dynion, wrth geisio sylfaenu un o athrawiaethau traddodiad ar air Duw. "Nid oes dim dirgelwch yn yr adnod, nae anhawsdra idd ei deall; y mae holl ddir-



gelweh yn ymgodi o'r camesboniadau a ddyry Taenellwyr arni i'r dyben o geisio amddiffyn y ddefod babyddol o daenelliad babanod. Nid yw yr apostol yn meddwl ychwaneg na bod priodas reolaidd yn neillduo dynion idd eu gilydd am eu hoes, a bod hyny yn angenrheidiol er i'r plant fod yn rhai cyfreithlawn yn ol deddf Duw, a deddf pob gwlad wareiddiedig." Y mae ymwingiadau eiddilaidd ein brodyr o dan bwys yr ymresymiad blaenorol, yn dangos yn eglur fod ei ysgwyd ymaith yn orchwyl nas medrant oddiwrtho, fel y dengys y dyfyniad canlynol o lyfr Mr. Prichard:—"Ceisiant haeru mai meddwl yr apostol ynddi" (1 Cor. 7. 14) "ydyw, fod y cyfryw briodasau yn gyfreithlawn, a'r plant yn gyfreithlawn, ac nid yn *fastarddiad*. Yn ol hyn y mae yr holl briodasau sydd yn ein gwlad ni yn annghyfreithlon ond eiddo y rhai sydd yn credu, a'r plant yn *fastarddiad*! Noeth iawn yn wir." Nid yw y Bedyddwyr ac ereill yn dweyd (a dylasai Mr. P. wybod hyny) mai *crediniaeth* y gwr neu y wraig sydd yn gwneyd priodas yn rheolaidd a'r plant yn gyfreithlon; ond y ffaith o fod y pleidiau wedi ymgylmu mewn priodas yn ol trefn Duw, fel y dangoswyd yn y nodiadau blaenorol. Gellid meddwl fod yr hyn a ysgrifenydd yn ddigon i derfynu y ddadl gyda phawb nad ydynt yn esbonio yr ysgrythyrau yn ol eu cred, ond yn foddlon ffurfio eu cred yn ol y Beibl. Ystyrid yr hyn oedd yn groes i'r ddeddf seremoniol yn aflan (*akatharta*); hyny yw, yn annghyfreithlon yn ngwyneb y ddeddf hono (Lef. 5. 2). Y mae priodas rhwng rhai perthynasau yn cael ei gwahardd gan gyfreithiau Prydain; a byddai undeb priodasol rhwng y cyfryw bleidiau, yn aflan neu yn annghyfreithlon yn ngolwg y deddfau sydd yn ei gondemnio; a'r un modd y plant a genedlid ynddo. Dengys hyn fod y geiriau *aflan* ac *annghyfreithlawn* yn gyfystyr yn y cyssylltiad hwn; o ganlyniad, y mae santaidd a chyfreithlawn, sef y ddau air cyferbyniol iddynt, yn gyfystyr hefyd yn yr un cyssylltiad. Ymlwybro yn unol â deddf reolaidd a chydabyddedig, sydd yn gwneyd gweithred yn santaidd neu yn gyfreithlawn yn ngolwg y ddeddf hono; ac ymddwyn yn wahanol a wna yr hyn a gyflawnir yn aflan neu annghyfreithlawn yn ei gwyneb. Nid yn unig y mae aflan ac annghyfreithlawn yn gyfystyr yn marn synwyr cyffredin, ond y maent felly hefyd yn ol ysbrydolaeth, fel y dengys geiriau Pedr yn y modd mwyaf diamwys ac

eglwur:—"Ac efe a ddywedodd wrthynt, Chwi a wyddoch mai *annghyfreithlawn* yw i wr o Iuddew ymwasgu neu ddyfod at alltud; eithr Duw a ddangosodd i mi na alw'n neb yn gyffredin neu yn *aflan*" (Act. 10. 28). Gan mai geiriau *cyferbyniol* yw santaidd ac aflan yn 1 Cor. 7. 14, a bod aflan ac annghyfreithlawn yn gyfystyr, rhaid, gan hyny, fod y gair santaidd yn yr adnod dan sylw yn gyfystyr â chyfreithlawn, fel y mae aflan yn yr un cyssylltiad yn gyfystyr âg annghyfreithlawn. Y mae'r cyfan mor eglur fel nad yw bosibl ei wneyd yn eglurach. Fe na fuasai taenelliad babanod yn mysg heresiau y byd crefyddol, ni chlywsid sôn am y gŵyr-droad a ddynoethasom yn y llinellau blaenorol.

**BEDYDD IOAN:** Y mae'r Testament Newydd yn dysgu i ni y pethau canlynol o barthed i'r bedydd hwnw:—sef, 1. Ei fod o ddwyfol osodiad, neu yn rhan o "gyngor Duw" (Luc 7. 29, 30). Os oedd y Phariseaid a'r cyfreithwyr yn euog o ddiystyru cyngor Duw wrth anuyddhau iddo, rhaid fod y bedydd y gwrthodent ufydd-dod iddo yn rhan o'r cyngor hwnw. Gosodir dwyfoldeb ei awdurdod ef tu hwnt i ammbheuaeth yn y manau canlynol:—Luc 3. 12; Ioan 1. 6, 7, 26, 27, 33, 34. 2. Fel dwyfol ordeiniad, ymostyngodd Crist ei hun iddo yn afon yr Iorddonen (Math. 3. 13), trwy yr hyn y gwnaeth (yn ol Dr. G. Campbell) *gadarnhau y sefydliad* (Math. 3. 15). 3. Mai bedydd Ioan yw y bedydd cyntaf y mae genym hanes am dano yn y Beibl, ac mai gweinyddwr cyntaf yr ordinhad oedd mab Zacharias. 4. Nad oedd neb yn amser y Bedyddiwr wedi eu "geni yn yr hawl" i'r bedydd a weinyddai efe, ac nad oedd bod yn rhan o'r "holl genedloedd" yn ddigon o gymhwysder i fyned i'r Iorddonen gydag ef (Math. 3. 8, 9, 10). 5. Nad oedd bedydd Ioan yn wahanol i'r bedydd asefydlwyd gan Grist yn ei eglwys. Dengys y Parch. H. W. Hughes nad oedd yn "wahanol o ran ei sefydliad, canys Crist, wedi rhoddi ufydd-dod personol i fedydd Ioan, a'i gweinyddai trwy ei ddysgyblion ar y rhai a'i dilynent yn ei weinidogaeth (Ioan 4. 1, 2), ac a orchymynodd ei weinyddu yn yr 'holl fyd,' ac 'yn mhlith yr holl genedloedd,' hyd 'ddiwedd amser' (Marc 16. 16). Yn 2. Nid oedd yn wahanol o ran ei *ddull*, canys 'yr Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fyny o'r dwfr' (Math. 3. 16). A Phylip a'r eunych a aethant i 'waered ill dau i'r dwfr' (Act. 8. 38), ac nid yw



yn bosibl nad oedd y bedydd a sefydlodd Crist yn ei eglwys wedi ei sefydlu erbyn hyny. Yn 3. Nid oedd yn wahanol o ran ei *ddeiliaid*, canys Ioan a ddywedai wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yn Nghrist Iesu (Act. 19. 4), a dywed Crist yn y commissiwn:— 'Y neb a gredo ac a fedyddir a fydd cadwedig' (Marc 16. 16). Yn 4. Nid oedd yn wahanol o ran ei *rwymedigaethau*, canys, meddai Ioan, 'Dygwch ffrwythau addas i edifeirwch' (Math. 3. 8), a dywedai Pêdr ar ddydd y Pentecost, 'Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch,' (Act. 2. 38). (Yr *Ymddiffynydd*, tud. 11).\*

Ceisia rhai ddangos nad oedd bedydd Ioan yn un efengylaidd, trwy haeru mai bedydd edifeirwch ydoedd, ac nad oedd mab Zacharias yn gweinyddu yn enw y Drindod. Ai peth anefengylaidd yw edifeirwch? Ai nid i "roddi edifeirwch," &c., y dyrchafwyd Crist? Oni ddywedodd Pêdr ar ddydd y Pentecost, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch?" Yr oeddyd ni yn meddwl fod Duw "yr awr hon yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man edifarhau," a bod edifeirwch yn ammod maddeuant pechodau. Os yw yr athrawiaeth ryfedd a wrthwynebwn yn ysgrythyrol, nid o dan yr oruchwyliaeth efengylaidd yr ydym ni yn byw, canys y mae edifeirwch yn un o'r pethau pwysicaf a orchymynir dan hono. Dengys y syniad a ddynoethwn yma fod rhai dynion call yn gwneyd eu hunain yn ynfyd wrth geisio ystytho'r Beibl i ateb i'w credo, yn hytrach nâ ffurfio eu credo yn ol y gwirionedd. Haerir hefyd, fel yr awgrymwyd, "nad oedd yn un efengylaidd, o herwydd fod y bedydd Cristionogol i gael ei weinyddu yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, ond nad oedd Ioan yn

bedyddio yn enw un o'r personau Dwyfol." Ymdrechir profi y gosodiad hwn oddiwrth yr hyn a elwir "ail-fedyddiad dysgyblion Ephesus." Haerir ddarfod i'r personau hyn gael eu *hail-fedyddio*, ac mai y rheswm dros hyny oedd, na chawsent eu bedyddio yn enw y personau Dwyfol y tro cyntaf. Y mae naill ai esgeulusdod, annghof, neu rywbeth arall, wedi peru i'r Taenellwyr i'n cadw mewn tywyllwch o ethryb i awdurdod y "*rheswm*" (?) dros yr hyn a alwant yn *ail-weinyddiad*. Tybier, er mwyn dadl, ddarfod iddynt gael eu bedyddio yr ail waith; a brofai hyny mai y rheswm dros hyny oedd, na chawsent eu bedyddio yn enw y Drindod y tro cyntaf? "Os yw'r Taenellwyr yn credu i'r dysgyblion dan sylw gael eu bedyddio ar yr achlysur hwn â bedydd dwfr, y mae eisieu iddynt ddangos pa wahaniaeth oedd rhwng eu *hail fedydd* a'u bedydd *cyntaf*. Barnant mai y diffyg yn y cyntaf oedd, eu bod heb eu bedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; ond a fedyddiwyd hwy yr *ail* waith yn enw y TRI PERSON? Naddo, o ran dim a ddywedir yn yr hanes:— 'A hwy a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu,' yw yr oll a ddywedir ar y pwnc. Os oedd eu bedydd cyntaf yn ddirym o herwydd absenoldeb enw y Drindod, ar bob cyfrif dylasai hyny gael ei nodi yn bendant mewn cyssylltiad â'r *ail*; os amgen, i ba both yr ysgrifenydwyd yr hanes? Os oedd eisieu ail-fedyddio y dysgyblion hyny am na wyddent 'a oedd Ysbryd Glân,' pan eu bedyddiwyd y tro cyntaf, yn sicr ni ddylai y Taenellwyr feio y Bedyddwyr am ail-fedyddio (?) y rhai a fedyddir (?) ganddynthwy yn eu babandod, y rhai ydynt *bron* mor anwybodus am yr Ysbryd Glân ag yr oedd dysgyblion Ioan." (Gwel *Bedydd Dysgyblion Ephesus*.)

Nid gwiw haeru mai peth Iuddewig ydoedd, oblegid pan ddechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu yn niffeithwch Judea, a bedyddio yn afon yr Iorddonen, ymddangosai yr ordinhad yn beth hollol ddyeithr i'r Iuddewon (Ioan 1. 19—26). Sylwa un ysgrifenydd ar amgylchiadau yr ymchwiliad a wnaed o ethryb Ioan a'i fedydd fel y canlyn:—"Golygent y byddai gan Grist, pan ymddangosai, hawl i osod i fyny ddefodau newyddion. Meddyliasant, o leiaf rai o honynt, mai Ioan oedd y Crist. Aeth blaenoriaid y grefydd Iuddewig i ymholi âg ef. Dywedodd yntau mai nid efe oedd y Crist, ac etto bedyddiai y bobl. Wrth ganfod yr annghyssondeb ymddangosiadol hwn, gofynasant iddo pabam yr

\* "Yn amser y Diwygiad, ystyrid hyn yn gwestiwn o gryn bwys; sef, a oedd bedydd Ioan yr un â bedydd Crist? Myntumiai y Pabyddion eu bod yn hollol wahanol yn eu natur. Yr oedd Zwingli, Calvin, Beza, a'r holl Galvinaid, yn gwadu y gwahaniaeth rhyngddynt; tueddai Luther hefyd at yr un ochr. Cyhoeddodd Cynghor Trent anafthema uwchben y rhai a ddalient fod bedydd Ioan o'r un natur a bedydd Crist. Y rheswm pabam y priodolid cymmaint o bwys i hyn gan y ddwy blaidd oedd, am yr addeffid o bob ochr nad oedd dim rhinwedd achubol yn medydd Ioan; o ganlyniad, yr oedd yn angenrheidiol gwadu ei fod yr un a'r bedydd Cristionogol, i'r hwn y priodolid cymmaint o rinwedd. Ar y llaw arall, yr oedd y Diwygwyr yn gorchfygu y Pabyddion, yn ol eu haddeffid eu hunain, os gallent brofi fod y ddau fedydd yr un o ran natur."



oedd efe yn bedyddio, ac yntau heb fod. y Crist, &c. Nid y gofyniad yw, Pahan yr wyt ti yn bedyddio, a thithau heb fod yn Phariseaol, yn Lefiad, yn flaenor synagog, nac yn offeiriad Iuddewig; eithr pahan yr wyt ti yn bedyddio, os nad ydwyf na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd? Dengys y gofyniad newydd-deb y peth." Y mae yn deilwng o sylw hefyd, ddarhod i Grist ofyn i'r archoffeiriad a'r henuriaid, o ba le yr oedd bedydd Ioan? ai o'r nef, ai o ddynion? a bod eu dyryswech hwythau wrth geisio ateb, yn profi newydd-deb yr ordinhad. Y mae'r sylwadau canlynol o eiddo y Parch. John Evans ar y pwnc hwn yn anatebadwy:—"Pe buasai bedydd Ioan yn Iuddewig, fel y dadleua rhai o Daenellwyr babanod, hyn yw, pe buasai yn rhan o'r grefydd a sefydlwyd trwy Moses; 1. Buasai gorchymyn am dano yn neddf Moses. 2. Buasai wedi dechreu er dyddiau Moses. 3. Buasai yr holl Iuddewon yn meddu hawl iddo. 4. Ni fuasai synwyr i'r Iesu ofyn o ba le yr oedd. 5. Buasai yr archoffeiriad a blaenoriaid y bobl wedi ymostwng iddo, ac allan o berygl condemnio eu hunain wrth ateb ei fod o'r nef. 6. Buasent yn gallu rhoi cyfrif i'r Iesu am dano. Ond eu hateb oedd, Wyddom ni ddim; . . . . yr hyn a brawf nad oedd bedydd Ioan yn rhan o'r grefydd Iuddewig. Ni roddodd Duw orchymyn i neb i fyned a bedyddio y bobl mewn dwfr, cyn Ioan; am hyn y cafodd efe yr enw neillduol, Ioan y Bedyddiwr. Blaenredegwr oedd Ioan i'r Messia. Perthyn yr oedd efe, nid i'r oruchwyliaeth oedd yn diflanu, ond i'r hon oedd yn dechreu taffu ei llewyrch ar y byd. Nid cyfarwyddo y bobl at Moses yr oedd, ond at Iesu o Nazareth. Nid dywedyd wrth yr Iuddewon am ragorfreintiau cyfammod Abraham a wnai, ond gorchymyn iddynt edifarhau a chredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef; sef yn Nghrist Iesu. Y mae yn eglur, gan hyn, mai nid cyhoeddi egwyddorion, na gweinyddu bedydd Iuddewig, yr oedd Ioan, ond efengylaidd; felly yr oedd os credwn y Beibl, ie, os credwn ni Fab Duw ei hun, Math. 11. 11—14; Luc 16. 16. . . . Dangosir yn yr adnodau hyn, 1. Fedoldeb y peth; yr oedd yn annichonadwy i neb ei phregethu, ei threisio, ei chipio, na myned i mewn iddi, cyn i'r deyrnas fodoli. 2. Yr oedd y deyrnas hon yn sefydliad gwahanol i'r grefydd Iuddewig. O ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr yr ydys yn pregethu teyrnas nefoedd; yr oedd y grefydd Iuddewig wedi ei chyhoeddi er dyddiau

Moses. Dywedir fod y bobl yn *ymwethio i mewn iddi*; ond pa synwyr fyddai dywedyd fod aelodau yr eglwys Iuddewig yn ymwethio i mewn i'r eglwys Iuddewig!—fod deiliaid cyfammod Abraham yn ymwethio i mewn i gyfammod Abraham? Nid oes synwyr mewn peth felly; am hyn, rhaid fod teyrnas Dduw yn sefydliad gwahanol oddiwrth y grefydd Iuddewig. 3. Amseriad y deyrnas hon. Cyssylltir ei dechreuad ag ymddangosiad, gweinidogaeth, a bedydd Ioan (Math. 11. 12; Marc 1. 2; Luc 16. 16; Act. 1. 22; 10, 37). Gelwir gweinidogaeth a bedydd Ioan yn ddechreuad efengyl Iesu Grist Fab Duw. Rhaid gan hyn, eu bod yn *rhan* o'r peth yr oeddynt yn *ddechreuad* iddo. Y mae'r adnod gyntaf yn llyfr Mathew yn *rhan* o'r Testament Newydd. Yr un modd yr oedd y bedydd a bregethwyd ac a weinyddwyd gan Ioan, yn dal perthynas â'r oruchwyliaeth efengylaidd, er nad oedd yn gwneyd i fyni yr *oll* o'r oruchwyliaeth efengylaidd" (*Athrawiaeth Bedydd*, tud. 9, 10). Caniata lluoedd o'r Taenellwyr dysgedicaf a thecaf, nad oes dadl i fod o ethryb bedydd Ioan yn ei ddull na'i ddeiliaid; ac y mae yn debyg mai hyn yw y rheswm (?) sydd gan rai dros geisio ei wneyd yn beth Iuddewig, fel na fyddo yn gyduaws âg eiddo y Bedyddwyr. Haerant mai "ar ol esgyniad Crist i'r nef y dechreuwyd y bedydd Cristionogol;" ond nid ydynt wedi gwelod yn dda i'n hysbysu yn mha le neu leoedd, pa bryd, na chan bwy, y bedyddiwyd (neu yr ail-fedyddiwyd) holl ddysgybillion Ioan a Christ, y rhai oeddynt yn hollol ar yr un tir a'r dysgybillion yn Ephesus. Y gwir yn fyr yw, pe gadawsid taenelliad babanod yn Rhufain, i ymddiflanu gyda'r heresiau a'r defodau pabyddol ereill, ni ddywedasai un Protestant byth mai sefydliad Iuddewig oedd bedydd blaenredegdydd ein Harglwydd. Y mae cychwyniad *un* cyfeiliornad yn gwneyd bodolaeth *amryw* yn angenrheidiol i'w gynnal a'i amddiffyn ar ysa dinystr. Onid yw yn beth hollol debygol (a dweyd y lleiaf), fod bedydd Crist a bedydd ei bobl yr un? ac onid oes rhywbeth yn *odd* yn y dybiaeth ddarhod i Awdwr bendigedig Cristionogaeth dderbyn bedydd Iuddewig, ac mai ordinhad efengylaidd yw bedydd ei ganlynwyr?

**BEDYDD CRIST.** Y mae hanes bedyddiad y Gwaredwr yn Math. 3. 13—17. Ceisia rhai Taenellwyr ei Iuddeweiddio; ond nid gyda mwy o lwyddiant nag yr ymdrechant wneyd bedydd Ioan yn sefydliad Iuddewig. Mewn trefn i sicrhau yr



amcan crybwylledig, dywedir i "Grist gael ei fedyddio yn ddeg ar hugain oed. Dyna'r pryd yr oedd yn weddus i'w fedyddio, pan yn ddeg ar hugain oed—dim mwy dim llai." Y mae'r dyben mewn golwg wrth wneyd yr haeriad disail uchod i'w weled yn amlwg yn y dyfyniad canlynol o'r un llyfr:—"Dechreu yr oedd Crist ar ei weinidogaeth gyhoeddus; ac yn ol cyfraith Moses, nid oedd neb o'r Lefiaid i ymgymeryd â swydd gyssegredig heb fod yn ddeg ar hugain oed, a hefyd heb eu golchi â dwfr wrth ddrws pabell y cyfarfod, a'u heneinnio âg olew. Ac fel y byddai Crist yn gymmeradwy gan y genedl, wele yntau yn ymgyssegru yn gyhoeddus mewn oedran a threfn reolaidd. Dyma yn ei fedydd ef, y golchi a'r eneinnio; Ioan yn defnyddio dwfr, a'r Ysbryd Glân yn disgyn arno fel colomen, yn eneinniad" (*Pregeth y Parch. J. Davies, Nerguis, ar Fedydd*). Gwahoddwn ystyriaeth y darlennydd at y sylwadau canlynol mewn ffordd o ddynoethiad i'r dyfyniad uchod:—1. Dywed yr Ysgrhythyr mai yn nghylch *dechreu* ei ddeng mlwydd ar hugain oed oedd Crist pan gafodd ei fedyddio (Luc 3. 23). O ganlyniad, yr oedd yn agos blwyddyn rhwng yr amser y bedyddiwyd ef a'r oedman y byddai y "Lefiaid yn ymgymeryd â swydd gyssegredig." Dengys hyn fod y Taenellwyr yn groes i'r Beibl yn y cynnyg dirmygus hwn o'u heiddo i wneyd Crist yn offeiriad Iuddewig. 2. Gwasanaethai y Lefiaid o ddeng mlwydd ar hugain oed ac *uchod* (Num. 4. 3), tra yr oedd Crist o dan ddeng mlwydd ar hugain pan ddechreuodd ei dymhor cyhoeddus. Profa hyn nad yw gybodaeth ysgrhythyrol rhai o amddiffynwyr taenelliad i ymfrostio ynddi; a bod eu hystrywiau i wneyd bedyddiad ein Harglwydd yn seremoni Iuddewaidd yn hollol ofer. Yr ydym mewn barn cariad yn gobeithio mai anwybodaeth rhai o'n gwrthwynebwyr yw yr unig achos o'r gwahaniaeth rhwng yr ysgrifenyddysbrydoleddig a hwythau. 3. Dengys awdwr yr epistol at yr Hebreaid ddarfod i'r offeiriadaeth gael ei newid yn mherson Crist (pen. 7, 11, 12), ac mai yn ol urdd Melchisedec, ac nid yn ol urdd Aaron, y gwnawd Ef yn offeiriad. Perthyn i urdd Aaron, ac nid i urdd Melchisedec, yr oedd y "deg ar hugain oed ac uchod;" ond nid oedd na "dechreu dyddiau na diwedd einioes" i urdd Melchisedec; "eithr wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw, sydd yn aros yn offeiriad yn dragywydd" (adn. 3ydd). Dylai rhai dynion feitarin mwy o

adnabyddiaeth á'r Beibl, cyn ymwthio o flaen y cyhoedd yn y cymmeriad o ddadleuwyr duwinyddol. 4. Os mai i'r dyben o fod "yn gymmeradwy gan y genedl" y cymmerodd Crist ei fedyddio, bu yn hynod o aflwyddiannus yn ei amcan, fel y dengys hanes ei fywyd a'i groeshoeliad. Heblaw hyny, os mai cymmeradwyaeth Iuddewig oedd y nod mewn golwg ganddo, dylasai fyned trwy y ddefod "wrth ddrws pabell y cyfarfod" (Exod. 29. 4), fel swyddwyr ereill, yn hytrach ná myned i le anghyffannedd, pryd nad oedd, o randim a wyddom ni yn wahanol, neb heblaw ei fedyddiwr ac yntau yn bresenol. 5. Ar gyfrif hlogrwydd personol yr offeiriad, y golehid hwy wrth ddrws pabell y cyfarfod. Y mae awydd ein cyfeillion am gael rhywfath o olchi á dwfr yn Math. 3, gymmaint, fel y myniant olehi hyd y nod y *Gwaredwr* dihalog ei hunan, yn hytrach ná methu yn sylweddoliad eu hamcan.

Beth bynag a wneir o fedydd y Gwaredwr, yr ydym yn meddwl fod y nodiadau byrion hyn yn ddigon i brofi, nad oedd Crist yn, nac yn *debyg* i offeiriad Iuddewig; ac mai nid un o seremoniau yr hen oruchwyliath oedd ei fedyddiad yn yr Iorddonen gan fab Zacharias.

Ymddengys i ni ddarfod i Grist ymostwng i'r ordinhad i'r dyben o'i chadarnhau a'i hanrhydeddu. Gan mai sefydliad newydd perthynol i deyrnas Dduw oedd bedydd, nid oedd cadarnhau y sefydliad âg esiampl Brenin y deyrnas, lawer yn llai angenrheidiol ná sefydlu yr ordinhad ei hun. Y mae cyfeithiad Dr. G. Campbell o Math. 3. 15, (at yr hwn y cyfeiriasom,) o'n plaid:—"Fel hyn y mae yn weddus i ni gadarnhau pob sefydliad." Yr un modd y cyfeithir y geiriau hefyd gan y Parch. J. Williams yn yr *Oraclau Bywiol*. Pob "ordinhad gyfiawn" sydd gan Dr. A. Clarke am "bob cyfiawnder" yn yr adnod mewn cwestiwn. Dywed Barnes mai dyben Crist yn ei ymostyngiad i'r ordinhad dan sylw oedd, rhoi cadarnhad neu awdurdod ei siampl i fedydd Ioan fel sefydliad dwyfol. Beth sydd yn afresymol neu yn anysgrhythyrol yn marn y Parch. Albert Barnes? Os oes rhywbeth, dangosed ein cyfeillion beth ydyw. Yn y swper, ystyrir Crist yn sylfaenydd a siampl, a hyny gan ein gwrthwynebwyr cystal a ninnau. Y mae cymmunnwyr i holi eu hunain; ond nid yw'r Taenellwyr yn dadleu fod afreidioldeb y ddyledswydd hono yn ei pherthynas á Christ, yn anghymhwys o'r Gwaredwr i fod yn siampl



i ni. Nid oes un amgylchiad neillduol yn galw am y fath ymresymiad. Gallesid dysgwyl iddynt gymmeryd Crist yn siaml yn ei fedydd yr un modd; ond yn hytrach nâ gwneyd hyny, dywedant:—"Nid oes eisieu i neb gael ei fedyddio yr un modd a Christ byth mwy; felly nid oedd Crist ddim yn siaml i ni i'w ddilyn yn hyny. Nid oedd dim yn ei fedydd ef i'w ganlyn." Haerir nad oedd Crist yn meddu ffydd nac edifeirwch, ac nas gellir, oblegid hyny, ei ganlyn yn ei fedydd. (1.) Y mae'r haeriad yn y dyfyniad uchod, nad "oes eisieu i neb gael ei fedyddio yr un modd a Christ," yn cynnwys addeffiad eglur a di-amwys nad yw y Taenellwyr yn bedyddio yr un modd ag y bedyddiwyd y Ceidwad. Dengys fod ein cyfeillion yn ymwybodol o'r ffaith o fod gwahaniaeth hanfodol rhwng yr hyn a alwant hwy yn fedydd, a'r ordinhad i'r hon yr ymostyngodd Crist. (2.) Y mae haeru nad oedd Iesu yn credu, yn cynnwys *libel* noeth ar ei gymmeriad; ac y mae crybwyll yr haeriad yn ddigon o ddynoethiad iddo. (3.) Os oedd absenoldeb edifeirwch yn Nghrist yn ei wneyd yn anaddas fel siaml i ni yn ei fedydd; ar yr un tir, y mae'r ffaith nad oedd holi ei hun yn angenrheidiol iddo ef, yn ei anghymhwyso hefyd i fod yn gynllun i'w ganlynwyr yn y swper. (4.) Os nad oes dim yn meddyd Crist "yn gynllun i ni i'w ganlyn," sut y mae i ni gaelein claddu "gan hyny *gydag ef trwy fedydd*?" Yr oedd Crist yn y naill a'r llall o'r ddwy ordinhad, mewn ystyr, yn debyg i ysgolfeistr yn ysgrifenu *copy* i'w ddysgyblion; nid gyda'r bwriad o berffeithio ei hun yn bersonol, fel ysgrifenydd, ond i'r perwyl o roi cynllun neu siaml o flaen ei ysgolheigion. Fel y cyfryw yr edrychir arno gan Fedyddwyr a Thaenellwyr yn ei berthynas â'r cymmundeb; ac wedi i'r tradodiad o daenelliad babanod ymddisflanu, daw pawb i edrych arno yn yr un cymmeriad yn ei gyssylltiad â'r ddau sefydliad.

Ystyrir bedydd Crist yn fath o ddechreuad neu arweiniad i mewn i'w fywyd cyhoeddus; oblegid wedi iddo gael ei fedyddio gan Ioan y dechreuodd bregethu. Parhaodd ei weinidogaeth bersonol am tua thair blynedd, a chyfyngid hi i'r Iuddewon yn hollol; ond wedi codi o'r bedd, gyrodd ei weision i wneyd dysgyblion o'r holl genedloedd. Pan roddwyd y commissiwn, nid oes genym hanes ddarfod i un cyfnewidiad gymmeryd lle gyda golwg

ar fedydd, heblaw helaethiad terfynau ei weinyddiad.\* Credinwyr Iuddewig a fedyddid gan Grist trwy ei ddysgyblion yn ystod y tair blynedd y bu efe yn pregethu, ond bedyddid credinwyr cenedlig yn ganlynol i'r adgyfodiad.

**BEDYDD YR YSBRYD GLÂN:**† Gelwir dylanwad *neillduol* yr Ysbryd yn yr oes gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, yn fedydd yr Ysbryd Glân. Ar ddydd y Pentecost, ac yn nhŷ Cornelius, y cafwyd y cyflawnder helaethaf o hono. Caniata llunaws o Daenellwyr dysgedig, mai at y tywalltiad Pentecostaid y mae'r cyfeiriad yn Math. 3. 11; ac os nad ydym yn camsynied, mai cadarnhau gwirionedd y grefydd Gristionogol oedd dyben y bedydd dan sylw. Os mai profi dwyfoldeb Cristionogaeth oedd amcan rhoddiad yr Ysbryd, nid yw y fath fedydd yn angenrheidiol yn ein dyddiau ni, yn gymmaint ag nad oes eisieu profi gwirionedd y peth fwy nag *unwaith*. Gan fod Ioan a Christ yn galw y dylanwad hwnw yn fedydd, diau na roddasant iddo y fath enw heb reswm neu resymau dros hyny. Gan nad yw ysbrydoliaeth yn ein hysbysu yn y modd mwyaf eglur *paham* (ac nid oedd un angen neillduol am hyny), cytuna unrhyw Daenellwyr â ninnau i gasglu yr achos oddiwrth amgylchiad neu amgylchiadau tebygol.‡ Yr oedd bedyddio dynion yn yr Ysbryd Glân yn weithred neillduol, na chyflawnasid ei chyffelyb o'r blaen, a Christ ei hun oedd i fod yn weinyddydd. Ysgrifena un Bedyddiwr enwog fel y canlyn ar y pwnc:—"Yr oedd yr Ysbryd wedi ei roddi o'r blaen i ryw fesur. Rhoddwyd ef dan yr Hen Destament (Salm 51. 11; 1 Pedr 1. 10, 11; 2 Pedr 1. 21). Yr oedd y dysgyblion wedi cael rhyw fesur o hono cyn dydd y Pentecost (Ioan 20. 22). Credwn nad amhriodol dywedyd i'r Ysbryd gael ei *daenellu*, wrth yr hyn y golygw'n ei roddi mewn rhan, cyn dydd y Pentecost; ond ni chymmerodd *bedydd*

\* Nid yw yr hyn a ddywedir am absenoldeb enw y Drindod ond *tybiaeth* yn unig. Y mae yn amlwg fod Ioan yn bedyddio mewn *rhyw* enw, ac nad yn ei enw ei *hun* y bedyddiai. Meddai wybodaeth am y Tri Pherson, a gelwir ei fedydd yn "*gynghor Duw*;" o ganlyniad, os mynir adeiladu ar dybiaeth yn nystawrydd y Beibl, y mae'r glorïan yn troi o du y Bedyddwyr.

† Gan fod cyfeiriad at fedydd yr Ysbryd mewn man arall (tud. 47-9), ni wnawn ond sylw byr ar y pwnc yn yr erthygl hon.

‡ Y mae casglu yn y fath amgylchiad a hwn, yn wahanol iawn i ymddygiad y Taenellwyr yn ceisio sylfaenu ordinhad bendant ar *gasgliadau*.



yr Ysbryd Glân le hyd y pryd hwnw (Act. 11. 16). Gan fod yr Ysbryd wedi ei roddi o'r blaen, a chan na alwyd y rhoddiad blaenorol o hono yn *fedydd*, rhaid fod rhywbeth yn rhoddiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost yn ei wahaniaethu oddiwrth bob rhoddiad blaenorol o hono. (Gwel tud. 47.) Dengys ein sylwadau a'n dyfyniadau ar dudalen 737 beth oedd barnau amryw o'r tadau eglwysig, y geirlyfrwyr, a'r esbonwyr boreuol a diweddar, ar y pwnc. Yn ol Barnes:—"Bod yn fedyddiedig â'r Ysbryd Glân a arwydda y byddai'r Messiah anfonar y byd ddylanwad cryfach a galluocach o lawer nag a ganlynodd bregethiad Ioan."

Meddylia rhai fod yn yr ymadrodd "bedyddio â'r Ysbryd Glân," gyfeiriad at ddoniau argyhoeddiadol a santeiddiol yr Ysbryd, y rhai sydd yn parhau o dan yr oruchwyliaeth efengylaidd; ond y mae'r fath olygddysg yn hollol ddisail, fel y dengys yr ystyriaethau canlynol. (1.) Wrth ddynion oedd *wedi* eu dwyn i garu Crist y llefarwyd y geiriau gan y Ceidwad. (2.) Cafodd yr adedwid ei chyflawnu yn *fuau* iawn wedi ei rhoddi. (3.) Yr oedd yr Ysbryd i gael ei dywallt i ddyben neillduol (Act. 1. 4, 5, 8; 2. 1-13).

Nid yw dylanwad cyffredin yr Ysbryd o dan yr efengyl, yn cael ei alw yn fedydd yn y Testament Newydd. O ganlyniad, pan y mae rhai yn gweddio am gael eu *bedyddio â'r Ysbryd Glân* (neu hyd y nod yn yr Ysbryd Glân) yn ein dyddiau ni, y maent yn gofyn am yr hyn nad yw mewn adedwid iddynt; neu, am yr hyn a *addawyd* ac a *roddwyd* i'r dysgyblion apostolaidd. Y mae gweddio am ddylanwad achubol a santeiddiol yr Ysbryd yn beth hollol wahanol. Clywir rhai yn siarad am fedydd yr Ysbryd Glân a ffydd yn Nghrist, ar draul dibrisio bedydd dwfr, yr hyn sydd yn hollol anysgrhythrol,\* ac yn tueddu i

haiarneiddio teimladau dynion yn eu perthynas âg un o ordinhadau yr efengyl.

**BEDYDD TAN:** Y mae rhai o'r farn mai yr un peth sydd i'w ddeall wrth fedydd yr Ysbryd a'r bedydd tân, ac mai'r dylanwad ysbrydol cyffredin yn argyhoeddiad a santeiddiad pechadur a olyga'r ddau. Bernir "fod gwaith y trydydd person yn cael ei arddangos yma (Math. 3. 11) o dan y gyffelybiaeth o dân, am ei fod i oleuo a bywiocau yr enaid—i dreiddo trwy bob rhan, a thebygoli y cwbl i ddellw Duw;" ond y mae'r ffaith o fod yr Ysbryd a'r tân yn cael llefaru am danynt fel *dan wrthddrych gwahanol* yn erbyn yr esboniad hwn. Amrywia yr hen dadau eglwysig yn fawr yn eu barnau o barthed i'r bedydd dan sylw. Dywed rhai ei fod yn meddwl y gorthrymderau, y croesau, a'r cystuddiau y gelwir credinwyr yn Nghrist i fyned trwyddynt. Haera ereill o honynt fod *tri* math o fedydd, sef bedydd dwfr, bedydd yr Ysbryd, a bedydd gorthrymderau. Sylw-ant ddarfod i'n Harglwydd bendigedig fyned trwy y tri—iddo dderbyn y ddau flaenaf yn yr Iorddonen, a'r olaf yn yr anialwch yn ei ymdrech â Satan. Myn rhai ei fod yn golygu rhadau gorhelaeth-lawn yr Ysbryd, tra y meddylia Basil a Theophilus mai at dân uffern y mae'r cyfeiriad. Dywed Hilary y bydd yn angenrheidiol i'r cyfiawnion fyned trwy ryw dân purawl yn nydd y farn, i'w puro oddiwrth yr halogiadau i'r rhai yr oeddynt yn ddarostyngedig yma, ac mai y tân hwn oedd mewn golwg gan Ioan. Dywed Ambrose mai Ioan Fedyddiwr fydd yn gweinyddu

yn ateb dyben heb ffydd, yn fwy nag y mae iawn y groes yn ateb dyben yn lle ufydd-dod, neu ufydd-dod ffydd yn ateb y dyben heb iawn y groes. Gwyr a gwragedd yn credu y darllenwn ni oeddynt yn cael eu bedyddio gan Iyr apostolion (Act. 8. 12-38). Yr oedd ffydd mor bell o symud yr angenrheidrwydd o fedydd, fel yr ystyrir ffydd y prif gynhwysder i fedydd, a bedydd heb ffydd yn ddiwerth. Rhai Taenellwyr babanod, ar y pen hwn, a ddadleuant yn hollol groes i fynegiadau egluraf yr ysgrythrau. Y rheswm a dddefnyddir gan yr apostolion dros fedyddio, a ddefnyddir ganddynt hwy dros beidio bedyddio, "Os wyt ti yn credu a'th holl galon, se a ellir," meddai Phylip. Os wyt ti yn credu, nid yw bedydd o bwys yn y byd, meddant hwythau. Pwy all luddias dwfr fel na fedyddier y rhai hyn, y rhai a dderbyniant yr Ysbryd Glân fel niunau? Y rheswm a roddai Pedr dros eu bedyddio oedd, eu bod wedi derbyn yr Ysbryd Glân; ond y Taenellwyr hyn a ddywedant, "Os cawn ni fedydd yr Ysbryd Glân, gallwn hebgor bedydd dwfr yn eithaf, yn groes hollol i Pedr, fel pe byddent wedi eu *suyno* dan effeithiau coelgrefydd."

\* "Peth cyffredin yw clywed rhai dynion yn sôn am fedydd dwfr fel po na byddai yn ddyledswydd ar ganlynwyr Iesu yn ein dyddiau ni fel yr oedd gynt. Galwant fedydd yn beth afreidiol a dibwys, ac yn bllag diwerth. Siaradir llawer am fedydd yr Ysbryd Glân, ffydd yn Nghrist, a chrefydd yn y galon..... Tybied nad oedd Ioan, Crist, a'r apostolion yn cymmeradwyo ac yn gofyn crefydd yn y galon; os nad oeddynt, nid oedd crefydd yn y galon yn angenrheidiol; ac os nad oedd crefydd yn y galon yn ofnol y pryd hwnw, nid yw yn ofnol etto; ond os oedd yn angenrheidiol, yna nid yw crefydd yn y galon yn rheswm dros beidio arferd ordinhadau tŷ Dduw. Nid yw ffydd yn symud yr angenrheidrwydd o fedydd, na bedydd



y Bedydd tân (beth bynag ydyw) wrth borth Paradwys: Origen a Sactantius a ddychymmygent mai afon daalllyd wrth borth y nef ydyw'r tân mewn cwestiwn, rhywbeth yn debyg i *Phlegethon* y pagan-iaid; pan ddel y cyfiawnion i' fyned trwyddi, bydd i'r fflamiau hylifaidd ymwahanu, fel y bydd i'r duwiolion gael mynedfa rydd i dŷ eu Tad. Dywedent y bydd Crist yn sefyll ar lân yr afon hono, ac y derbyn efe trwy y fflamiau yr holl rai hyny, a *neb* ond y rhai hyny, a dderbyniant fedydd dwfr yn ei enw Ef yn y byd hwn. Nid yn unig y mae'r farn hon yn afresymol, ac i'r graddau eithaf yn anysgrhythol; ond y mae hefyd yn hollol annghysson; oblegid dywedent fod amryw, os nad pawb o'r rhai a ddarfu ufyddhau i fedydd dwfr yn y byd hwn, yn byw yn annheilwng o'u proffes—yn adeiladu ar y sail dda, wair, gwellt, a soff, ac y bydd yn angenrheidiol llosgi y pethau hyny yn y tân hwnw. Barnent mai at y bedydd tân hwnw y mae y cyfeiriad yn 1 Cor. 3. 12—15. Os bydd y fflamiau hylifaidd yn "*ywmahanu*" pan fyddo y cyfiawnion yn myned trwy yr afon daalllyd, y mae yn anmhosibl iddynt ddyfetha y llygredigaethau a fyddo yn nglyn â'r duwiolion. Oddiwrth y dybiaeth hon am y tân dan sylw, y darfu i dadau yr oesoedd boreuol, a'r ysgolion, ffurfio athrawiaeth glodfawr ac ennillfawr y purdan. Tybiodd rhai yn yr hen amser, y dylai tân gael ei gyssylltu mewn rhyw ffordd neu gilydd â'r dwfr yn y bedydd; a meddylir y byddai rhai yn gweinyddu bedydd trwy beru i'r personau a fedyddid i fyned rhwng dau dân, neu neidio trwy y fflam; ac weithiau, trwy fod a fflaglen neu ganwyll oleuedig yn y lle. Dengys hyn y fath syniadau ynfyd a gwrthun a gredwyd ac a ysgrifenydd gan rai dynion da, o barthed i'r geiriau dan sylw. (Gwel *Sylwadau Clarke ar Math. 3. 11.*)

Y mae'r enwog Lange yn sylwi fel y canlyn ar yr adnod:—"Efe a'ch bedyddia, neu a'ch sudda (*immerse*) chwi yn yr Ysbryd Glân ac yn tân. Naill ai efe a'ch sudda chwi yn hollol yn yr Ysbryd Glân fel rhai edifeiriol, neu, os yn anedifeiriol, efe a'ch sudda (*overwhelm*) chwi mewn tân barnedigaeth (ac wedi hyny tân uffern). Rhoddwyd yr esboniad hwn ar y gair tân gan lawer o'r tadau (rhai o ba rai, er hyny, a'i cyfeirient at y purdan); ac yn mhlith esbonwyr diweddar, gan Kuinoel, Schott, Neander, ac ereill. Mae

swn rhybyddiol yr adnod, a'r dywediad am dân *anniffoddadwy* yn adn. 12, yn erbyn cymhwyso y gair at yr Ysbryd Glân." Gogwydda Barnes hefyd i'r un tir a Lange, fel y dengys y dyfyniad canlynol:—"Rhan i'r gwrandawwyr oedd i'w bedyddio â'r Ysbryd Glân, ond y drygionus a thân a dialedd. Y mae tân yn arwyddo dial. Gwel Isaiah 5. 24; 61. 2; 66. 24. Os mai hyn yw yr ystyr, fel y mae yn debygol, yna y mae Ioan yn dweyd y byddai gweinidogaeth y Messiah yn fwy nerthol o lawer nâ'i eiddo ef." Nis gall y sylwadau blaenorol lai na phrofi, y dylid bod yn ochelgar iawn wrth geisio esbonio y bedydd tân, a bod bloeddio, "Llai o ddwfr a mwy o dân," yn dangos mwy o benboethni neu deimlad gorwyllt nag o farn bwyllog ac addfed. Er efallai mai gwaith anlawdd yw dod i benderfyniad sicr o barthed y geiriau mewn cwestiwn, tueddir ni i fabwysiadu syniadau Lange a Barnes o ethryb i'w hystyr.

**BEDYDD DYSGYBLION EPHES-  
US:** Barna llawer ddarod i Paul ail-fedyddio y deuddeg dysgybl hyn (Act. 19. 1—5). Mewn erthygl alluog ar y cymhwysderau angenrheidiol i weinyddu bedydd, y mae'r brawddegau canlynol i'w gweled:—"Eglur yw, feddyliwyf, i'r personau hyn gael eu hail-fedyddio, oddiwrth y ffaith fod Paul yn priodoli eu diffyg o ddoniau yr Ysbryd i ryw ddiffyg yn eu bedydd cyntaf. Y mae pob beth yn yr hanes yn ein harwain i gredau mai Paul a'u bedyddiodd i enw yr Arglwydd Iesu. Y mae'r achos hwn yn deilwng o sylw neillduol, am ei fod yn ddamweiniol yn ein cynnysgaethu âg enghraifft o fedydd yn cael ei ail-weinyddu yn yr amseroedd apostolaidd, am fod y gweinyddiad cyntaf yn ddirym, o herwydd *rhyw ddiffyg yn y gweinyddwr*. Y tebygolrwydd yw, fod y bobl hyn yn meddwl eu bod wedi derbyn bedydd Ioan, pan nad oeddynt wedi ei dderbyn mewn gwirionedd. Yr oedd yr athrawiaeth am 'yr Ysbryd Glân' yn cael ei dysgu yn bennodol yn medydd Ioan (Math. 3. 11); ond nid oedd y dynion hyn wedi clywed am fodoliaeth 'yr Ysbryd Glân.' Rhaid, gan hyny, mai derbyn a wnaethant yr hyn a *elwid* yn fedydd Ioan, pan yr oedd Ioan wedi marw, a'i fedydd wedi myned yn ddirym. Pe buasent wedi derbyn yr ordinhad o law Ioan ei hunan, yr hwn yn unig oedd âg awdurdod i weinyddu ei fedydd ef, neu trwy law unrhyw weinyddwr oedd wedi ei



awdurdodi yn briodol, nis gallasant fethu cael gwybodaeth gywir o'r gwirionedd efengylaidd ar y pwnc y cyfeiria Paul ato. O ganlyniad, am nad oeddynt wedi eu bedyddio ar y cyntaf gan weinyddwr cymhwys, ail-fedyddiwyd hwy gan Paul."

Y dyben cyffredin wrth ddadleu iddynt gael eu hail-fedyddio yw, ceisio profi mai bedydd Iuddewig ac nid un efengylaidd oedd bedydd Ioan. Pe llwyddid i daflu Ioan, ei fedydd, a'i weinidogaeth, allan o'r Testament Newydd, beth gwell fyddid?\*

Pe caniatëid ddarfod i Paul ail-fedyddio y deuddeg hyn, profai hyny, wedi'r cwbl, 1. Mai peth o bwys mawr yw fod y deiliaid yn meddu syniadau cywir am natur a dyben yr ordinhad cyn eu bedyddio. 2. Y dylid bedyddio drachefn y rhai na fedyddiwyd yn iawn o'r blaen. Ond na chawsant eu bedyddio drachefn sydd amlwg, ebe y rhai a wrthwynebant eu hail-fedyddiad, os ystyriwn y canlyniadau i ba rai y mae'r athrawiaeth yn arwain:—(1.) Os cawsant eu bedyddio gan Paul, y mae hyny yn profi fod "cynghor Duw" yn ddiwerth yn ei gyssylltiad â'r efengyl, oblegid yr oedd y rhai a wrthodent fedydd Ioan, yn euog o ddiystyru y cynghor hwnw (Luc 7. 30). (2.) Os oedd eisieu i Paul fedyddio rhai o'r personau a ufyddhasent i fedydd Ioan, am fod eu bedydd cyntaf yn anefengylaidd, yr oedd yn angenrheidiol ail-fedyddio pawb a roddasent ufydd-dod i'r un bedydd am yr un rheswm; ond nid oes genym un prawf yn y Testament Newydd ddarfod i hyny gymmeryd lle. (3.) Os bedyddiwyd y deuddeg dan sylw gan Paul o herwydd fod eu bedydd cyntaf yn Iuddewig, y mae hyny yn profi nad oedd bedydd Crist yn efengylaidd, oblegid i fedydd Ioan yr ufyddhâodd ete. Gofynir i'r gwrthwynebwyr, a ydynt hwy yn ddigon rhyfygus i haeru mai bedydd anefengylaidd ac annghristionogol oedd bedydd y Ceidwad.

Bernir mai gan Apolos ac nid gan Ioan y bedyddiwyd y deuddeg. "Dywedir eu bod wedi eu bedyddio i fedydd Ioan; ond

ni ddywedir mai gan Ioan y gweinyddwyd; ac y mae gwahaniaeth mawr rhwng bedyddio gan Ioan a bedyddio i fedydd Ioan. .... Y mae'r holl brawf a ellir gasglu oddiwrth amgylchiadau yr hanes, yn erbyn y dybiaeth mai gan Ioan y cawsant eu bedyddio. 1. Ystyrier pellder y ffordd rhwng Ephesus a'r Iorddonen, neu wlad Judea, lle yr oedd Ioan yn bedyddio, yr hyn nid oedd lai na 300 o filltiroedd. 2. Ystyrier y gwahaniaeth rhwng amseriad hanes Ioan a'r un yn y testun. Amserir yr hanes a gynnwysa y testun, yn y cyfieithiad awdurdodedig, A.D. 56; ac felly rhaid fod pen Ioan wedi ei dori o 24 i 25 o flynyddau cyn hyny. O ganlyniad, yr oedd yn annichonadwy fod Ioan wedi bedyddio y dysgyblion hyn, os nad oeddynt wedi eu bedyddio ganddo 25 o flynyddau yn ol, yr hyn sydd yn annhebyg iawn. 3. Pe wedi eu bedyddio gan Ioan, buasent wedi gwrandaw ei weinidogaeth; buasent wedi clywed sôn am yr Ysbryd Glân, oblegid yr oedd Ioan yn pregethu bedydd yr Ysbryd Glân, ac yn dywedyd am ei ddisgyniad gweledig ar yr Arglwydd Iesu pan ei bedyddiwyd yn yr Iorddonen. Ond hwy a ddywedent, 'Ni chawsom ni gymmaint a chlywed a oes Ysbryd Glân,' yr hyn sydd yn profi mai nid Ioan a'u bedyddiasai; onite, buasent wedi gwrandaw ar ei weinidogaeth. 4. Yn ol yr holl brawf a ellir gasglu oddiwrth amgylchiadau yr hanes, ymddengys mai gan Apolos y bedyddiwyd y dysgyblion hyn, am yr hwn y sonir yn y bennod o'r blaen. Nid oes genym hanes am neb wedi bod yn pregethu yr efengyl yn Ephesus cyn i Paul ddyfod yno o Syria; ac nis gallasai fod yno ddisgyblion heb glywed yr efengyl. Ni fu Paul yno ond ychydig y waith gyntaf, oblegid yr oedd rhaid iddo fyned i'r wyl oedd i fod yn Jerusalem. Gadawodd Acwila a Phrisila yn Ephesus, ac addawodd ddychwelyd yno drachefn. Ac yn yr adeg hono, wedi ei ymadawiad, a chyn ei ddychweliad, y daeth Apolos yno (Act. 8. 24—26). Hysbysir ni amryw bethau am Apolos; dywedir ei fod heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig, er ei fod yn llefaru yn hyf yn y synagog, yn wresog yn yr Ysbryd, ac yn athrawiaethu y pethau a berthynent i'r Arglwydd. Pa fodd y daeth Apolos i ddeall bedydd Ioan, nid oes genym hysbysrwydd. Y farn gyffredin yw, iddo fod yn ei ieuentyd yn gwrandaw Ioan yn pregethu; iddo gredu a chael ei fedyddio ganddo, ac iddo fyw o'r pryd hwnw hyd yr amser y daeth i

\* "Pe diaelodid Ioan a'i weinidogaeth, teflid allan yr un pryd wr oddiwrth Dduw, yr hwn a bregethodd gyntaf deyrnas nefoedd yn niffaethwch Judea; teflid allan fedyddiad yr Arglwydd Iesu ei hun, &c. .... Pe teflid Ioan a'i fedydd allan, ni fyddai hyny yn rhyddhau y ffordd i gael sylfaen i daenelliad babanod; byddai yn angenrheidiol taflu allan gommissiwn Crist a hanes yr apostolion; ac wedi hyny, rhoddi rhywbeth i mewn nad yw, cyn y gellid byth, cael sail i daenelliad na bedydd plant yn y Testament Newydd."



Ephesus, yn Alexandria, yn yr Aifft (tref ei enedigaeth), ac felly heb fod yn adnabyddus i neb o'r apostolion. Rhaid, gan hyny, mai yn ol trefn Ioan yr oedd efe yn dysgu ac yn bedyddio y bobl; ac o herwydd hyny y tueddwyd Acwila a Phriscila i agor iddo ffordd Duw yn fanylach. Dichon nad oedd Apolos wedi cael cyfleusdra i wybod am weinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu, ei wyrthiau, ei gommissiwn olaf, ei farw ar y groes, ei adgyfodiad, a rhyfeddodau dydd y Pentecost, pan y bedyddiwyd yr apostolion yn yr Ysbryd Glân, ac y daethant i ddeall trefn Duw o gyfiawnhau pechadur trwy flydd heb weithredoedd y ddeddf, &c. Eglur yw ei fod yn gadarn yn yr Ysgrhythrau, ac yn alluog i orchfygu yr Iuddewon a'r cyhoedd, trwy ddangos iddynt, o lyfrau Moses a'r prophwydi, mai yr Iesu oedd y Crist. Beth bynag, nis cafodd Paul y dysgyblion hyn yn Ephesus pan fu yno y tro cyntaf; ond yr oeddynt yno pan ymwelodd â'r lle yr ail dro; ac yn yr addeg hono y bu Apolos yno yn athrawiaethu y pethau a berthynent i'r Arglwydd, heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig. Y mae yn ymddangos oddiwrth y ffeithiau hyn, mor bell ag y mae prawfiadau amgylchiadol yn perthyn i'r pwynt, fod yn rhaid penderfynu mai gan Apolos y bedyddiwyd y dysgyblion a gafodd Paul yn Ephesus; o leiaf, nis gall neb ddwyn prawf i'r gwrthwyneb.\*

Rhaid caniatáu fod llawer o olygusrwydd a grym yn yr ymresymiad blaenorol; ond, os yw "y farn gyfiredin" yn gywir, sef, i Apolos "yn ei ieuentyd wrandaw ar Ioan yn pregethu," ac iddo "greda a chael ei fedyddio ganddo," y mae yn canlyn fod Apolos yn gwybod rhywbeth am yr Ysbryd Glân, yr hwn a bregethid gan fab Zacharias. O ganlyniad, os darfu iddo fedyddio dysgyblion Ephesus, y mae yn anhawdd, os nad yn amhosibl rhoi cyfrif am ei ymddygiad yn peidio dweyd rhywbeth wrthynt am y trydydd person (ac yntau yn deall bedydd Ioan); y mae yn eglur na wnaeth, oblegid nid oedd y rhai hyny wedi clywed dim am yr Ysbryd Glân. Gan nad oedd yn gwybod llawer, yn ol pob tebygolrwydd, am y pethau y cyfeirir atynt yn y dyfyniad blaenorol, y mae yn hawdd deall ymddygiad Acwila a Phriscila tuag ato; ond, os cafodd ef ei ddysgu a'i fedyddio gan Ioan, y mae braidd yn sicr na wnellsai weinyddu bedydd Ioan, heb

gyfranu i'r bedyddiedigion gyda llaw, yr addysg a dderbyniasai gan ei athraw a'i fedyddiwr. Dywedir:—"Pe buasent wedi eu bedyddio gan Ioan, buasent wedi gwrandaw ei weinidogaeth; buasent wedi clywed rhyw sôn am yr Ysbryd Glân, oblegid yr oedd Ioan yn pregethu bedydd yr Ysbryd Glân," &c. Os yw yr hyn a elwir "y farn gyfiredin" o ethryb eu bedyddiad gan Apolos yn gywir, gellir dadleu ar yr un tir:—"Pe buasent wedi eu bedyddio gan Apolos, buasent wedi gwrandaw ei weinidogaeth; buasent wedi clywed rhyw sôn am yr Ysbryd Glân, oblegid yr oedd Apolos wedi clywed am yr Ysbryd Glân gan Ioan, yn deall ei fedydd, ac wedi ufyddhau iddo." Er fod llawer o debygolrwydd yn ymresymiad Mr. Evans, etto y mae yn *posibl* mai aid gan Apolos, ond gan ryw un anaddas, y cawsant eu bedyddio, fel y dadleuir gan yr awdwr y dyfynasom o'i waith. Yr oedd *imposters* i'w cael hyd y nod yn nyddiau yr apostolion.

Y mae Mr. Evans (yr hwn sydd yn un o'r ysgrifenywyr galluocaf ar y pwnc), yn dadleu yn erbyn yr ail-fedyddiad mewn cwestiwn, yn y brawddegau grymus canlynol:—"Ni ddwywedir eu bod, ac nid oes y prawf lleiaf i'r dysgyblion yn Ephesus gael eu bedyddio *eilwaith* gan Paul, na neb arall, gan nad pwy oedd wedi eu bedyddio i fedydd Ioan. Nid yw yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn dywedyd iddynt gael eu bedyddio gan Paul, nac yn sôn dim am iddynt gael eu bedyddio *drachefn* neu *eilwaith* gan neb arall. Darlener yr adnodau drostynt o'r ail hyd y seithfed; yna gwelir mai y pwnc mewn dadl, neu destun yr ymofyniad oedd, nid, A oeddynt wedi eu bedyddio yn efengylaidd a Christianogol? ni ddwywedir fod y bedydd a gawsent yn Iuddewig a diwerth, a bod eisieu eu bedyddio drachefn. A rhyfedd iawn yw, os cawsant eu hail-fedyddio, na roddasai yr apostol ryw reswm dros hyny. Nid yn nghylch eu flydd na'u bedydd yr oedd y ddadl; eithr, 'A dderbyniasoch chiwi yr Ysbryd Glân er pan gredasoch?' Nid doniau argyhoeddiadol a santeiddiol yr Ysbryd Glân a olygir; yr oeddynt, fel pob gwir gredadyn, wedi cyfranogi o'r rhai hyny; ond doniau gwyrthiol ac anarferol yr Ysbryd a feddylir. Yr un modd y darllenwn am y rhai a fedyddiwyd yn Samaria:—"Wedi i Pedr ac Ioan osod eu dwylaw arnynt, hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân" (Act. 8. 14-17). Dyma amgylchiad hollol gyffelyb. Ateb y dysgyblion yn Ephesus i Paul oedd:—"Ni chaw-

\* *Pedair o Bregethau*, gan y Parch. J. Evans, Abercanaid, tud. 29-31.



som ni gymmaint a chlywed a oes Ysbryd Glân;’ hyny yw, nid oeddynt wedi clywed fod yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi trwy ddwyllaw yr apostolion, heb sôn am ei dderbyn eu hunain. Yna y gofynnodd Paul:—‘I ba beth, gan hyny, y bedyddiwyd chi, os na dderbyniasoch yr Ysbryd Glân?’ Dengys hyn fod y rhai a fedyddid yn yr oes apostolaidd yn derbyn yr Ysbryd Glân, er nad oeddynt oll yn ei dderbyn yn yr un ystyr, nac i’r un-graddau. Eu hateb oedd:—‘I fedydd Ioan;’ hyny yw, yn ol trefn Ioan; ac nid yw yn ymddangos i mi fod un synwyr arall i’w wneyd o’r atebiad. Yna y mae’r hanesydd yn hysbysu i ni ddau beth am Paul. 1. Ddarfod iddo roddi eglurhad a chymmeradwyaeth i fedydd Ioan. ‘A dywedodd Paul, Ioan yn ddau a fedyddiodd â bedydd edifeirweh, gan ddywed-yd wrth y bobl am gredu yn yr Hwn oedd yn dyfod ar ei ol ef, sef yn Nghrist Iesu. Gan glywed, neu yn clywed,\* A fedyddiwyd, neu a fedyddid (sef y bobl gan Ioan, adn. 4) yn enw yr Arglwydd Iesu. Dyma’r eglurhad a’r gymmeradwyaeth a roddodd Paul i’r dysgyblion hyny o natur a dyben gweinidogaeth a bedydd Ioan. Efallai nad oedd Apolos wedi bod yn ddigon gofalus i egluro iddynt yn ddyladwy natur y broffes ag oeddynt wedi, wneuthur; oblegid dywedir nad oedd ef ei hun ond wedi dechreu dysgu iddo ffordd yr Arglwydd. Er hyny, cynnwysa yr ymadrodd mai ffordd yr Arglwydd a ddysgid gan Apolos, mor bell ag yr oedd yn myned. Ond os oedd Acwila a Phriscula yn barnu yn angenrheidiol i ddysgu ffordd Duw yn fanylach i Apolos, nid rhyfedd fod Paul yn gweled angen dysgu dysgyblion Apolos. 2. Dywedir i Paul osod ei ddwyllaw arnynt, a hwy a draethasant â thafodau, ac a brophwydasant. Y mae’r holl ddadl yn troi ar hyn, Pa un ai geiriau Paul am Ioan a’i ddysgyblion, ai ynte geiriau Luc yr ysgrifenydd am Paul a’i ddysgyblion yn Ephesus, yw y bummed adnod. Os yr olaf, nid oes synwyr yn y dull o ysgrifenu, fel y sylwa Dr. Gill. Pe buasai Paul wedi eu bedyddio *eilwaith*, ni ddywedasai Luc yn y chwechfed adnod:—‘Wedi i Paul roddi ei ddwyllaw arnynt.’ Dylasai fod fel hyn i ateb dyben y rhai a ddadleuant dros ail-fedyddiad:—‘Ac yn clywed hyn, y dysgyblion a ddeallasant fod eu bedydd cyn-

taf yn Iuddewig ac nid yn Gristionogol, am na ddefnyddiwyd enw yr Ysbryd Glân ar ei weinyddiad; yna Paul a’u bedyddiodd yn enw y Tad, y Mab, a’r Ysbryd Glân, ac a osododd ei ddwyllaw arnynt.’ Pe rhoddid y 4 a’r 5 adnod rhwng cromfachau (—), a darllen hebddynt, byddai y cyssylltiad yn eglur. Ond pe caniatëid, er mwyn ymresymu, mai geiriau Luc am Paul a’r dysgyblion yn Ephesus, ac nid geiriau Paul am Ioan a’i ddysgyblion, ydyw y bummed adnod; y canlyniad fyddai, nad oedd Paul yn bedyddio yn ol y commissiwn mwy na Ioan. Ac os oedd eisieu eu bedyddio drachefn am nad oedd y bedydd cyntaf yn enw yr Ysbryd Glân, yr oedd eisieu eu bedyddio y drydedd waith, am nad oedd yr *ail* chwaith yn enw yr Ysbryd Glân, oblegid ni ddywedir eu bod wedi eu bedyddio, ond yn unig ‘yn enw yr Arglwydd Iesu.’ Y mae yn amlwg, gan hyny, mai amcan Paul yn y 4edd a’r 5ed adnod oedd, dangos i’r dysgyblion hyny mai dyben gweinidogaeth Ioan oedd annog y bobl i gredu yn Nghrist, ac mai yn neu i (*eis*), enw Crist, yr oedd efe yn bedyddio y rhai a gredent. Ac nid oes dim yn cael ei awgrymu yn yr hyn a ddywed Paul wrthynt,—Nad oeddynt yn deall mai Iesu o Nazareth oedd y Crist ag yr oedd Ioan yn annog y bobl i gredu ynddo; nac un gair yn awgrymu, nad oeddynt y pryd hwnw yn deall ac yn credu iddo farw dros eu pechodau, ac adgyfodi y trydydd dydd yn ol yr Ysgrythyr. Beth bynag, y mae’r hanesydd yn eu galw yn ddysgyblion, ac y mae Paul yn eu cydnabod yn gredinwyr wedi eu bedyddio. Ac os bedyddiwyd hwy drachefn, peth rhyfedd fod Paul yn ei lythyr at yr eglwys i’r hon yr oedd y dysgyblion hyn yn ddechreuad, yn dywedyd,—Nad oedd ond un Arglwydd, un ffydd, UN BEDYDD, yn perthyn i’r trefniant Cristionogol (Eph. 4. 5). Ond ni ddywedir fod neb wedi eu *hail-fedyddio*; eithr wedi i Paul eu dysgu yn fanylach o barthed eu bedydd, efe a osododd ddwyllaw arnynt, a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân. Gwel Dr. Gill—*a dyma farn amryw o ddysgedigion nad oeddynt yn Fedyddwyr, megys, Beza, Lightfoot, Poole, Guyse,*” &c.\*

Y mae cadernid yr ymresymiad hwn yn gyfryw, fel y mae yn anhawdd i ddyn diragfarn beidio teimlo ei hun yn cael ei *ogowyddo* i’r tir a amddiffynir gan Mr. Evans,

\* Nid yw “hyn” yn yr iaith wreiddiol, a rhan-gymmeriad—yn clywed (*participle*), ac nid y ferf, sydd yma. *Hearing* yw y cyfieithiad gan Campbell a Doddridge.

\* *Pedair o Bregethau* gan y Parch. J. Evans, Abercanaid.



er, efallai, nas gall pob un fod yn hollol sicr ar bwnc ag sydd wedi bod, ac yn bod, yn destun dadleuaeth rhwng enwogion. Ond os cawsant eu hail-fedyddio, diau mai ar gyfrif anghymhwysder y gweinyddwr y cymmerodd hynny le (yn ol y dyfyniad cyntaf yn yr erthygl hon), ac nid o herwydd mai bedydd Iuddewig oedd eiddo Ioan. Dangoswyd fod y canlyniadau i ba rai y gyrir ni gan y dybiaeth olaf yn gyfryw, fel nad yw yn debyg y gwna'r darlennydd ystyriol ei hun yn agored iddynt, trwy ei harddel rhagllaw. O ganlyniad, y mae'r ymofyniad o barthed i fedydd dysgyblion Ephesus, yn hollol amddifad o un pwys yn ei gyssylltiad â bedydd y Bedyddwyr yn ei natur, ei ddull, a'i ddeiliad. Nid yw o un gwahaniaeth i ni pa un a gawsant eu hail-fedyddio ai peidio.

**BEDYDD DROS Y MEIRW.** Y mae'r geiriau yn 1 Cor. 15, 29, yn cael eu hesbonio yn wahanol iawn. Darfu i Bochart gasglu pumtheg o wahanol ystyrion a roddir iddynt gan esbonwyr. Y tri esboniad mwyaf cyffredin ydynt:—1. Fod y geiriau yn appeliad sylfaenedig ar ymddygiad y rhai a argyhoeddidd ac a fedyddid yn yr olwg ar ereill yn cael eu merthyr; trwy uno â chrefydd yn eu bedydd, dangosent eu bod hwythau yn credu athrawiaeth yr adgyfodiad. 2. Meddylia ereill mai cyfeiriad sydd yn yr adnod at ystyr ffigurol y gair bedydd; hynny yw, gorchuddiad mewn, neu gan ddyoddefiadau (Mathew 20, 22, 23). Y mae cael ein gorchuddio mewn dyoddefiadau dros y meirw yn ymddangos yn dywyll iawn. 3. Barna ereill mai cyfeiriad sydd yn yr ymadrodd at ystyr arwyddlaniol arferol yr ordinhad o fedydd Cristionogol, fel yn Rhuf. 6. 4; Col. 3. 12. Defnyddir ef yn y lleoedd hyn, nid yn unig i arwyddo marwolaeth a chladd-edigaeth; ond hefyd adgyfodiad oddiwrth y meirw. Dadl yr apostol, gan hynny, yw: "Os nad oes adgyfodiad, pahan y cyhoeddir y fath grediniaeth yn yr arferiad o'r ordinhad o fedydd? Pa beth a wna y rhai a wnaethant y fath broffes ddifrifol o'u fflydd a'u gobaith, os nad oes gwirionedd neu sylweddolrwydd cyfatebol?" Dyma'r ystyr a roddir i'r geiriau gan y dysgedig Neander; ac y mae yn ymddangos yn fwy naturiol o lawer na'r ddau arall.

**BEDYDD PROSELYTIAID.** Barna llawer mai yn yr eglwys Iuddewig y dechreuwyd bedyddio. Dywedir y byddai yr Iuddewon yn derbyn y proselytiaid neu yr

aelodau cenedlig i'w heglwys trwy fedydd ac enwaediad, a bod yr arferiad yn bodoli yn amser Crist.\* Amddiffynir yr honiad hwn gan Buxtorf, Selden, Walker, Ainsworth, Halley, Giesler, Wall, Jahn, Michaelis, Neander, ac amryw ereill. Dywedant, 1. Na fuasai y llawys, a phleidiau gwrthwynebol fel y Phariseaid a'r Saduceaid, yn eyrchu at Ioan, os oedd ei fedydd yn beth newydd ac anadabyddus iddynt. 2. Golygir fod y gofyniad:—"Pahan yr wyt ti yn bedyddio, onid wyt ti na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd?" yn profi, mai nid peth dweithr iddynt hwy oedd y ddefod, a'i bod, fel y cyfryw, yn sylfaenedig ar gyfraith neu draddodiad. 3. Gwneir prawf arall o'r ymddyddan rhwng Crist a Nicodemus. Os nad oedd y dysgawdwr Iuddewig yn gwybod am y ddefod, golygir nas gallasai ddeall ymadrodd mor ddyweithr a *geni o ddufr*; gan hynny, nas gellir esbonio y cerydd a gafodd gan Grist (Ioan 3. 10) am ei anwybodaeth. Ar y dybiaeth o arferiad cyffredin bedydd yn mysg y genedl, bernir mai nid heb achos y cafodd Nicodemus ei geryddu gan y Gwaredwr. 4. Honir hefyd mai dadl yn nghylch bedydd oedd yr ymddyddan rhwng yr Iuddewon a dysgyblion Ioan mewn perthynas i buredigiaeth (Ioan 3. 25, 26), yr hyn sydd yn profi bodolaeth syniadau blaenorol am y ddefod. Dywedir mai yn y goleu o lantad seremonïol yr edrychai had Abraham ar fedydd proselytiaid—mai bedyddiadau proselytaidd oedd bedydd Ioan, ac eiddo

\* "Baptism is a ceremony. Ceremonies are founded, not on moral, but positive law. There is no law to baptize infants in either Testament, so that there is not even the pretence of Judaism to give a shadow of sanction to such a practice. Infants are mere machines, and utterly incapable of everything requisite to baptism. It subverts the very base of the Christian Church, by giving those the name who have not the thing, and by transferring the whole cause of Christianity from the wise and pious few, to the ignorant and wicked multitude, who, being supposed Christians, interfere in religion, derange the community, invade the offices and convert the whole into a worldly corporation. Had the Royal or Antiquarian Societies, or any of the Academies abroad, taken in their own infants in such a manner, they would have been lost in a crowd of ignoramuses before now, because the qualities of the parents are not hereditary. All these reflections have weight, but there is another of more importance than all these to some people, who think it sinks the credit of Jesus Christ, by making him impose his name upon children before they know who he is, or what he teaches, as if he could not trust mankind to use their reason before he imposed his gospel on their belief" (*History of Baptism*, p. 169).



Crist yn marn y Phariseaid, a bod y naill fel y llall o'r ddau athraw yn gwneyd dysgyblion trwy y cynllun â'r hwn yr oeddynt hwy (y Phariseaid) yn hollol adnabyddus, sef trwy eu bedyddio. 5. Cyssylltir pwys â'r ffaith nad oes hanes i Pedr ar ddydd y Pentecost egluro y ddefod o fedyddio i'r dychweledigion, ond iddo gymmeryd yn ganiatâol nad oeddynt yn anadnabyddus â hi. 6. Cyfeirir at awdwyr Iuddewig, tystiolaethau pa rai sydd yn profi bodolaeth bedydd proselytiaid. Y mae'r tystiolaethau hyn i'w gwled yn ngweithiau Hammond a Lightfoot. Cynnwysa yr hyn a ysgrif-enwyd grynoded talfyrol o'r prif resymau â pha rai y ceisir ategu yr athrawiaeth dan sylw. Dangosir gwendid y naill a'r llall o honynt fel y canlyn:—

I.\* 1. Y mae yn ffaith adnabyddus ac add-fedigfod newydd-deb peth yn tueddu i dynu sylw, yr hyn sydd i raddau pell yn cyfrif am boblogrwydd Ioan. 2. Yr oedd pethau neillduol yn perthyn iddo yn annibynol ar newydd-deb ei fedydd, yn gogwyddo dynion ato. (1.) Hanasai o deulu anrhydeddus. (2.) Yr oedd y diffaethwch a'r Iorddonen yn wahoddiadol i gywreinerwydd y llauws. (3.) Nid oedd ei ymborth na'i wisg yn gydweddol âg arferion cyffredin yr oes. (4.) Parai ei ddull gonest a disremoni o anerch ei wrandawyr i ddynion sylwi arno. (5.) Barnai rhai mai efe oedd y Messiah a hir ddysgwylasid. (6.) Prophwydasid am dano fel blaenredegwr Crist, a phroffesai yntau ddwyfoldeb ei anfoniad.

Pan gymmerwn y pethau hyn at ein hystyriaeth, nid yw poblogrwydd y Bedyddiwr yn bwne i'w ryfeddu, na lluosogrwydd ei fedyddiedigion yn rheswm dros wadu newydd-deb yr ordinhad a weinyddai. Nid oedd y llwyddiant a goronodd ei lafur yn ei wneyd yn eithriad hynod i lawer o ddiwygwyr y darllenir eu hanes yn nghronielau y byd crefyddol. Gan mai cenad uchel oddiwrth Dduw ydoedd, ai afresymol fyddai credu ddarvoud i'r Hwn a'i hanfonasai fendithio ei ymdrechion? Addefir yn gyffredin fod llawer wedi cael troedigaeth i fywyd o dan ei weinidogaeth; y mae yn eglur, gan hyny, fod a fynai'r Nefoedd â'r genadwri a gyhoeddai.

II. Nid oes dim yn y gofyniad, "Paham yr wyt ti yn bedyddio," &c.? o du y golygiad a wrthwynebw. 1. Golygai yr Iuddewon y byddai gan y

Messiah hawl i osodi i fyny ddefodau newyddion, fel y dangoswyd (Edr. BEDYDD IOAN); a meddyliodd rhai o honynt mai Ioan oedd y Crist dysgwyliedig, ac ereill mai y genad oedd i ddyfod o'i flaen ydoedd, fel y mae cwestiwn y blaenoriaid yn dangos. Nid y gofyniad yw, Paham yr wyt ti yn bedyddio, a thithau heb fod yn Pharisead, yn Lefiad, nac yn un swyddog Iuddewig arall; eithr paham yr ydwynt yn bedyddio, gan nad ydwynt y naill na'r llall o'r rhai a ddysgwylir:—"Onid ydwynt na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd?"\* 2. Os mai cymmeryd bedydd fel ei cafodd yn yr eglwys Iuddewig a wnaeth Ioan (a Christ hefyd o ran hyny), pa synwyr sydd yn yr awgrym nad oedd neb ond Crist, Elias, neu'r prophwyd i'w weinyddu? Pa un bynag ai o'r nef ai o'r ddaear yr oedd bedydd Ioan, y mae gofyniad y swyddogion (Ioan 1. 25), yn dangos yn eglur mai eu barn hwy ydoedd, nas gallasai neb ei weinyddu yn gyfreithlon, heb fod yn un o'r tri pherson y cyfeirir atynt yn y cwestiwn a ofynid. A chaniatau, er mwyn ymresymu, fod y fath beth a bedydd proselytaidd, y mae gofyniad yr offeiriad a'r Lefiad i Ioan yn dangos yn eglur, fod bedydd mab Zacharias yn wahanol iddo. Yr ydym yn meddwl nas gall hyd y nod y mwyaf rhagfarnllyd lai nag ystyried y gofyniad dan sylw yn brawf *uniongyrchol* nad oedd un math o gyssylltiad rhwng bedydd Ioan a bedydd y proselytiaid, a thybied, er mwyn dadl, arferiad y fath ddefod. 3. Y mae'r ffaith noeth ddarvoud i fedydd Ioan ennill y fath sylw, a pheru i Iuddewon Jerusalem anfon eu swyddogion crefyddol penaf i wneyd ymholiad yn ei gylch o

\* "Os oedd y fath beth mewn ymarferiad, paham yr anfonodd yr Iuddewon offeiriad a Lefiad i holi Ioan Fedyddiwr am ei fedydd? Os oedd bedydd yn beth mor arferol, paham y mae bedydd Ioan yn creu y fath gyffro ac ymholiad? Pwy oedd gymhwysach i fedyddio nag Ioan, os oedd bedyddio yn beth arferol yn mysg yr Iuddewon? Gan fod Ioan yn fab i offeiriad, a'i fam o ferched Aaron, pwy allasai fedyddio os na allasai efe? Paham, gan hyny, y gofynent iddo, 'Paham, gan hyny, yr wyt ti yn bedyddio,' &c.? Os oedd bedydd yn beth arferol, yr oedd llawer un arall yn bedyddio heblaw Ioan, er nad oedd 'na'r Crist, nac Elias, na'r prophwyd,' heb i ni dybied fod y bedydd proselytaidd hwn yn cael ei weinyddu gan anghristiau a gau-brophwydi. Paham y gofynir hyn i Ioan mwy nag i rywun arall, os nad oedd bedydd yn beth newydd, ac am hyny yn beth, yn marn yr Iuddewon, na ddylasai neb ei weinyddu amgen na'r Crist, neu Elias, neu y prophwyd? Y mae yn anmhosibl ateb y gofyniad hwn ar y dybiaeth o fod bedydd yn beth arferol" (Parch. E. Roberts).

\* Cyfeirir I. II. &c., at y dadleuon blaenorol o du bedydd y proselytiaid.



gwbl, yn profi nad peth arferol ydoedd. Yn ol Maimonides a'r Talmud, gallasai rhai o'r proselytiaid fedyddio eu hunain yn ol deddf y gweinyddiad! Os oedd eu bedydd hwy yn beth mor gyffredin, pa fodd y gwnaeth y llys eglwysig y fath sylw o'r Bedyddiwr, os mai gweinyddu un o'r defodau mwyaf cyffredin yr ydoedd? Ai nid pethau pwysig ac anarferol sydd yn tynnu sylw y llysoedd uchelaf mewn byd ac eglwys?

III. Nid â'r dybiaeth ddisail, mai yr un peth a olygir wrth "eni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd," y mae a fydd y rheswm hwn; ond yn hytrach â'r golygiad o fod "geni dyn o ddwfr" yn cyfeirio at fedydd. Diau mai at yr ordinhad hono y mae'r ymadrodd "geni dyn o ddwfr" yn cyfeirio, fel y sylwa Barnes a Thaenellwyr synwryol ereill. Sylfaenir y trydydd rheswm ar y dybiaeth nad oedd yn bosibl i Nicodemus wybod am fedydd, os nad oedd y ddefod a amheuwu mewn arferiad; ond dengys y sylwadau canlynol nad oedd bedydd Ioan ac eiddo Crist yn anadnabyddus, a bod Nicodemus gan hyny yn deilwng o gerydd am ei hurtrwydd neu ei anwybodaeth. 1. Yr oedd eiddo Ioan wedi sicrhau sylw ac ufydd-dod y lluwys yn mhell ac yn agos, ac yn destun myfyrdod i'r sectau llyuosocaf a mwyaf dylanwadol yn ngwlad fechan yr Iuddewon (Math. 3. 5—7). 2. Talasai blaenoriaid crefyddol y genedl ymweliad swyddogol â Ioan (fel y dangoswyd), i'r perwyl o wneyd ymholiad o barthed iddo ef a'i fedydd (Ioan 1. 19), a hyny ar gais Iuddewon y brif ddinas. 3. Bedyddiasid Crist ei hun pan gymmerodd yr ymddyddan dan sylw le rhwng y dysgawdwr Iuddewig ac yntau. 4. Yr oedd y Ceidwad yr amser hwnw, "yn bedyddio (trwy ei ddysgyblion) mwy o ddysgyblion nag Ioan" (Ioan 3. 26; 4. 1), a Ioan yn bedyddio ar y pryd yn Aion (3. 23).

Dengys yr ystyriaethau hyn nad oedd yr ordinhad a elwir gan Grist yn "eni dyn o ddwfr," yn anadnabyddus yn y wlad; dylasai Nicodemus, gan hyny, wybod am dani, ac os nad oedd yn gwybod (fel y cymmerai arno), yr oedd i'w feio yn fawr am ei esgeulusdod o bwnc ag y dylasai efe fel athraw crefyddol, yn anad neb, feithrin adnabyddiaeth âg ef. Y mae rhai dynion i'w cael yn fwy cyfarwydd braid â phob peth, nag â'r pethau sydd yn perthyn yn uniongyrchol i'w cylchoedd hwy eu hunain. Ceir rhai athrawon crefyddol yn yr oes hon, ysywaeth, y rhai a dalant fwy o sylw i lawer o bynciau nag i'r Beibl a duw-

inyddiaeth, ac i ysgogiadau crefyddol yr oes. Os oedd Nicodemus i ryw raddau felly, yr hyn sydd yn dra thebyg, haeddai y cerydd a roddwyd iddo gan Arglwydd y bywyd.

IV. Y mae Dr. Adam Clarke yn barnu ar seiliau cedyrn, mai âg Iuddew, ac nid Iuddewon, y dadleuai dysgyblion Ioan (Ioan 3. 25). "Y dyn y sonir am dano yma, yn debygol, oedd un o'r rhai a fedyddiasid gan ddysgyblion ein Harglwydd; ac ymddengys mai y pwnc mewn dadl oedd, pa un ai bedydd Ioan neu fedydd Crist, oedd y mwyaf effeithiol er *puredigaeth*" (Clarke). Yn y pedwerydd rheswm, cymmerir y *cwbl* yn *ganiatäol*, heb un ymgais i brofi dim. 1. Rhifai yr Iuddewon amryw o buredigaethau crefyddol; a chaniatau mai un o'r cyfryw oedd yn destun dadl rhwng dysgyblion Ioan a'r Iuddew, pwy ddywedodd wrth ein cyfeillion am *ba* un y dadleuid, a thybied fod y ddefod mewn cwestiwn yn un o honynt? 2. Dywed y Thaenellwyr gyda llawer o hyder mai arwydd o buredigaeth foisol yw bedydd; os felly, a oes rhywbeth yn afresymol neu anysgrythyrol yn y dybiaeth mai bedydd oedd testun y ddadl, yn gymmaint a bod rhai (os nid pawb) o'r dadleuwyr wedi ufyddhau iddo? 3. Os mai barn y Phariseaid ydoedd, mai bedyddio proselytiaid yn ol y drefn arferedig (?) a wnai Ioan a Christ, pahan y gwneid mwy o sylw o honynt hwy nag o ereill a wneient yr un peth?

V. 1. Y mae'r hyn a ysgrifenyddwyd yn profi ddarfod i ddychweledigion y Pentecost (fel Nicodemus) gael digon o gyfleustra i wybod am fedydd, fel nad oedd arnynt eisieu eglurhad ar y mater. Buasai Crist a'i flaen-redegwr am amser hir yn pregethu ac yn bedyddio yn eu plith, fel nad yw yn dëg casglu mai adnabyddiaeth â bedydd y proselytiaid yn unig a'u galluogai i ddeall y pwnc. 2. Ond a chaniatau nad oeddynt wedi iawn ddefnyddio y cyfleusterau a gawsent, y mae pawb yn addef nad oes genym ni namyn hanes talfyrol iawn o'r hyn a gymmerodd le ar ddydd y Pentecost. Nid rhoi manylion yr amgylchiad oedd amcan ysbrydoliaeth, eithr rhoi crynodeb byr o'r prif ffeithiau. Y mae'r cymhwysiad yn amlwg i bob darllenydd llygadog.

VI. Dywedir y byddid yn bedyddio proselytiaid cyn dyddiau Moses—yr arferid eu derbyn hwy a'u plant trwy fedydd ac enwaediad,—a bod haneswyr credadwy o fyrg yr Iuddewon yn dysgu hyny.



1. Y mae'r unig gyfraith a roddwyd gan *Dduw* i Israel o barthed derbyn proselytiaid i'w chael yn y Beibl; ond nid oes ynddi un cyfeiriad at eu bedyddiad hwy na'u plant (Exod. 12. 48, 49). Pan y byddai i Israeliad briodi gwraig a gymmerasid yn gaethglud rhyfel, nid yw y gyfraith bennodol berthynol i'r amgylchiad yn gofyn ei bedyddio (Deut. 21. 10—13). Ceid proselytiaid yn nyddiau Hezechia, ond nid oes sôn am eu trochi (2 Cron. 30. 25). Ymneillduodd rhai oddiwrth halogwydd y cenedloedd pan ddychwelodd Israel o gaethiwd Babilon (Ezra 6. 21, 22), ond ni cheir un crybwylliad am y seremoni dan sylw. Y mae hanes yn yr Apocrypha am rai yn cael eu proselytio, ond nid oes yno un cyfeiriad at y ddefod mewn cwestiwn (Judith 14. 10). Cyfeirir at broselytiaid yn y Testament Newydd, ond ni sonir am drefn eu derbynriad. Nid rhyfedd, gan hyny, fod Dr. Owen yn dweyd nad yw hyd y nod "*tebygriaeth*" o blaid yr athrawiaeth a wrthwynebwn.

2. Os arferid y fath ddefod gan yr Iuddewon cyn dyddiau Crist, y mae yr hyn a ysgrifenyddwyd yn ddigon i brofi mai un o draddodiadau yr hynafiaid ydoedd; oblegid nad oes, fel y dangoswyd, na gorchymyn na rheol Feiblaidd ar y pwnc.\*

3. Pe gellid profi fod y ddefod dan sylw yn un o'r traddodiadau Iuddewig, y mae yr hyn a ddywedwyd gan Grist o barthed i'r rhai hyny yn gyfryw, fel nad oes un sail i gredu y gwnelsai efe fabwysiadu un o honynt i fod yn ordinhad arosol yn ei eglwys (Marc 7. 3—13). Gan mai un o "orchymynion dynion" oedd bedydd proselytiaid (a thybied ei fodolaeth), a dweyd y goreu am dano, ai nid ymadrodd rhyfedd yw, ddarfedd "i'n Harglwydd gymmeryd bedydd *fel* ei cafodd yn yr eglwys Iuddewig?" Yn ol yr athrawiaeth hon, trosglwyddwyd un o "orchymynion dynion" i'r eglwys Gristionogol, a chadarnhawyd ef gan y Ceidwad â'i ufydd-dod personol! Un o "orchymynion dynion" oedd bedydd Ioan hefyd, y mae yn debyg; ond ryw sut, darfu i Ysbrydoliaeth ei alw yn

"gyngor Duw!" Y rheol yw, i ddynion gymmeryd a defnyddio pethau yr Anfeidrol; ond, am unwaith, darfu i'r Arglwydd fenthycu neu gymmeryd un o ddefodau dyn, a'i gwneyd yn un o'r ddwy ordinhad yn ei eglwys! "*Wonders will never cease!*" Pe dygwyddasai i Dduw gymmeryd dyn yn batrwn yn un o'i bethau da, ac nid mewn peth a gondemnid ganddo ef ei hun, ni fuasai y rhyfeddod gymmaint ag ydyw; ond y mae condemnio "gorchymynion dynaion," a gwneyd defnydd mor bwysig o un o honynt ar yr un pryd, yn sefyll ar ei ben ei hun yn mysgrhyfeddodau mawrion y byd crefyddol.

4. Wedi profi fod y Beibl mor ddystaw a "Robinson Crusoe," gan Daniel De Foe, ar fedydd proselytiaid, ein gorchwyl nesaf fydd dangos nad yw haesiaeth yn gyfryw ag y gellir ei sylfaenu arni. Dywed Bedyddwyr a Thaenellwyr dysgedig mai yn Nhalmud Babilon, yr hwn a ysgrifenyddwyd gan y Rabbiau Iuddewig rywbryd rhwng diwedd y bummed a dechreu y seithfed ganrif, y mae'r crybwylliad cyntaf am dano. Cynnwysa y llyfr hwnw gruglwyth o draddodiadau coelgrefyddol, y rhai a gynhōwyd gan y *Rabbies* pan yn gorwedd dan felddith y nefoedd am wrthod y Messiah. "Ond ar ol y cyfan," ebe Dr. Jennings, "y mae yn aros i'w brofi, nid yn unig fod y bedydd Cristionogol wedi ei sefydlu yn lle bedydd proselytiaid, ond fod gan yr Iuddewon fedydd o'r fath o gwbl yn amser ein Gwaredwr; y crybwylliad cyntaf sydd genym am dano, a geir yn y *Mishna* a'r *Gemera*.\*

\* Tua'r amser y casglwyd llyfrau Moses a'r prophwydi gan Ezra, i'w gwneyd yn un gyfrol, yr hon a elwir yr Hen Destament, dechreuodd yr Iuddewon ffurfio yr hyn a elwid cyfraith y genau (*oral law*), yr hon oedd yn fath o adroddiad o draddodiadau yr hynafiaid. Gelwid y casgliad hwnw o'r traddodiadau geneuol yn *Mishna* (ail adroddiad, neu ail gyfraith), yr hwn a ymddangosodd mewn chwech o lyfrau, neu rifynau, wedi eu hysgrifenu yn benaf gan Rabbi Judah Haccades, tua diwedd yr ail, neu ddechreu y drydedd ganrif. Haerai yr Iuddewon ddarfedd i Dduw roddi y traddodiadau i Moses, yn ystod ei arosiad ar Sinai, ac iddo yntau, wedi hyny, eu traddodi i Aaron, Eliezer, a Josua, y rhai a'i hysbysasant i'r deg henuriad a thrigain, gan ba rai y gwnawd hwy yn adnabyddus i'r prophwydi, a chian y prophwydi i wŷr y Sanhedrim, y rhai a'u rhoddasant i wŷr doeth Jerusalem a Babilon. Trwy fod yr Iuddewon yn haeru mai oddiwrth Moses y derbyniasid cynnwysiad y *Mishna* (fel yr haera y Pabyddion eu bod wedi derbyn traddodiad apostolaidd i fedyddio babanod), ystyrid hwy yn bwysig iawn ganddynt. Gelwid cynnwysiad y *Mishna* yn draddodiadau geneuol, mewn gwrth-

\* Ceisia rhai seilio bedydd proselytiaid ar Gen. 35. 2; ond nid oes eisieu hysbysu y darlennydd diragfarn nad oes yma rith o sail i'r fath ddefod, nae ychwaith yn Exod. 12. 48, 49. Yr oedd yr Iuddewon i gael eu santeiddio ac i olechi eu dillad. Yn adnod 14eg, ceir hanes Israel yn golchi eu dillad yn ol y gorchymyn, yr hyn sydd yn ddigon o brofwr "fod holl Israel wedi eu dwyn i'r cyfammod trwy fedydd," yn ol rhai o oraclau y Taenellwyr!



Y mae yn ngweithiau awdwr Iuddewig o'r enw Maimonides, yr hwn oedd yn byw yn y ddeuddegfed ganrif, ryw nifer o ddyfyniadau o'r gronfa sydd yn *Nhalmud* Babilon; ac ar y rhai hyn y mae Light-foot, Hammond, ac ereill, yn adeiladu y *theory* a gondemniwn. Mewn cyfeiriad at y ffaith dan sylw, ysgrifena un awdwr fel y canlyn:—"A all un dyn rhesymol gymmeryd mynegiadau awdwyr, y rhai a ysgrifenasant ganuoedd o flynyddau ar ol yr amser y cyfeirir ato, yn brawf o fodoldeb ffeithiau hanesyddol ag oeddynt wedi cymmeryd lle gynnyfer o oesoedd cyn eu geni? Pe buasai Maimonides, neu y Rabbiau Babilonaidd, yn gallu cofhau awdwyr ereill, y rhai oeddynt yn byw yn yr amseroedd y cyfeirir atynt, buasai yr achos yn wahanol; ond gan nad oes y fath awdurdodau i'w cael, na neb yn cael eu henwi, oni ellir gofyn, yn ngeiriau Dr. Gale—"Pa fodd y gallasai Maimonides adrodd yr hyn a gymmerasai le tua deuddeg cant o flynyddau cyn ei eni, mwy nag y gallwn ninnau yn yr oes hon?" Os cedwir mewn cof natur a dyben *Talmud* Babilon, yr amser yr ysgrifenyddyd ef, yn nghyd â nodweddau moesol ei gyfansoddwyr, bydd yn annichonadwy i Daenellwyr gael llawer o gymhorth oddiwrth y bedydd proselytiaidd yn y Talmud hwnw."

Yn ol Dr. Wall, darfu i Epictetus ysgrifenu llyfryn yn y flwyddyn o.c. 147 (150 meddai Dr. Jennings), yn yr hwn y mae brawddeg y ceisa rhai ei hystwytho i brofi y pwnc mewn dadl. Rhoddir y cyfieithiad canlynol o honi gan Dr. Lardner yn ei "*Heathen Testimonies* :—"Paham y gwnewch alw eich hunain yn Stoiciaid, ac y twyllwch y werin? Paham y cym-

merwch arnoch fod yn Roegwyr, pan mai Iuddewon, Syriaid, neu Aiffiaid ydych? Pan yn gweled dyn ansefydlog neu anffyddlon i'w egwyddorion, dywedwn nad yw yn Iuddew, ond ei fod yn cymmeryd arno mai Iuddew ydyw. Ond pan fyddo vn meddu tymher dyn trochedig a phroffesedig, yna y mae yn wir y gelwir ef yn Iuddew; felly hefyd yr ydym ni yn flugwyr-Iuddewon mewn enw neu broffes, ond mewn sylwedd yn rhywbeth arall." Cyfieithia Dr. Jennings ran o'r dyfyniad uchod fel y canlyn:—"Pan fyddo efe yn dangos tueddiadau a moesau un wedi ei fedyddio, ac wedi ymrestru gyda'r blaid hono." (1.) Y mae o bwys gwnedyd ymholiad pa un ai am broselytiaid at y grefydd Iuddewig, ai am y rhai a ymument â Christianogaeth, yr ysgrifennai Epictetus. "Y mae yn anhawdd meddwl fod llawer yn cael eu proselytio at y grefydd Iuddewig yn yr oes hono, pan yr oedd lluoedd o'r Iuddewon eu hunain yn derbyn yr efengyl, ac fel cenedl wedi colli eu tir, eu dinas, eu teml, a'u ffurf-lywodraeth. Nid oedd dim yn fwy cyffredin yn y ganrif gyntaf, fel y profa Dr. Jennings a Dr. Gale, nag i ysgrifenyddwyr paganaidd gymmysgu yr Iuddewon a'r Cristionogion a'u gilydd; gwnaed hyn gan Suetonius a Petavius; ac y mae yn eglur hefyd oddiwrth Actau 25. 19, 20, fod Ffestus, yr hwn a fu dros amser yn llywodraethu yn Judea, yn ystyried y Cristionogion yn sect newydd o Iuddewon, pan yn dywedyd wrth y brenin Agrippa y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn Paul. Diau mai y Cristionogion a feddylir gan Epictetus, fel y mae y cyfeiriad at eu tueddiadau, eu moesau, eu bedydd, a'u proffes, neu eu hymrestriad yn y blaid hono yn profi." (2.) Nid oes yn y geiriau a ddyfynwyd sôn am fedydd proselytiaid o gwbl, fel y mae yn eglur i bob darlennydd diduedd. (3.) Pe tybiem, er mwyn rhesymu, fod y dyfyniad blaenorol yn profi arferiad y ddefod mewn ewestiwn, yn *nyddiau Epictetus*, ni fyddai yn un math o brawf o'i bodoliaeth *cyn* amser Ioan, a gadael Moses allan o'r ddadl. A oes rhywun mor ynfyd a meddwl fod hysbysrwydd am yr hyn oedd mewn arferiad tua chant a hanner o flynyddoedd *wedi* amser Ioan, yn ein dysgu pa beth neu bethau a arferid ganuoedd lawer o flynyddoedd *cyn* *gent* Ioan? Yr haerid yw, y byddai yr Iuddewon yn bedyddio proselytiaid a'u plant yn amser Moses, a chyn hynny, ac "i'n Harglwydd gymmeryd bedydd *fel ei casodd* ef yn yr eglwys Iu-

gyferbyniad i'r hen gyfraith neu y ddeddf ysgrifenedig. Barna rhai nad oedd y *Mishna* yn ddigon dealladwy i'r cyffredin; o ba herwydd, gwnaeth Rabbinaid diweddarach ysgrifenu esboniadau arno. Ymddangosodd esboniad Rabbi Jochanan cyn diwedd y drydedd ganrif (yr un a ystyrid yr enwocaf o'r esboniadau hyn), yr hwn a elwid y *Gemera* (*perffeithiad* neu *athrawiaeth*). Y *Mishna* a'r *Gemera* hyn yn nghyd a ffurfiant y llyfr a elwir *Talmud Jerusalem*, yr hwn sydd yn perthyn yn benaf i Iuddewon Palestina. Ond wedi ymfudiad yr Iuddewon o'r bron i Babilon, ac i synagogau Jerusalem agos oll ddiflannu, darfu i Rabbinaid Babilon ysgrifenu esboniad arall ar y *Mishna*, yr hwn a elwid *Gemera* Babilon; y *Gemera* hwn a'r *Mishna* (sef y testun gwreiddiol) yn nghyd a elwid Talmud Babilon. Barna rhai mai yn y bumfed ganrif, ac ereill mai tua diwedd y chweched, neu ddechreu y seithfed ganrif, yr ysgrifenyddyd y Talmud Babilonaidd.



ddewig." Yn ofer, gan hyny, y cura Taenellwyr wrth ddrws hanesiaeth am dderbyniad. Y mae'r ysgrifenyddysbrydoleddig, a phob ysgrifenydd arall, fel pe byddent ar eu llw i beidio rhoi i'r ddefod aflesiol a niweidiol o daenelliad dwfr ar fabanod, y gradd lleiaf o gefnogaeth. Os apelir at draddodiad, nid yn ofer y gwneir yr appeliad; ond ceir derbyniad croesawus gan "y dyn pechod" yn mherson y "dyn anffaeledig" (?).

**BEDYDDIADAU EGLWYSIG:** Y mae Duw yn gwneyd pob peth yn berffaith, fel nas gellir ychwanegu at ei bethau, eu newid, na thynu-oddiwrthynt, heb eu niweidio, a phechu yn erbyn y Cynlluniwr Anfeidrol. Pe cawsai yr egwyddor hon ei chredu a'i gweithio allan mewn ymarferiad yn ei pherthynas â'r Eglwys Gristionogol er amser ei Sylfaenydd hyd yn awr, rhagflaenasid gofidiau ac echryslonderau nad oes neb heblaw yr Hollwybodol yn gwybod am eu lluosogrwydd, eu dyfnder, a'u helaethrwydd; ond nid felly, ysywaeth, y bu. Sefydlodd Crist "*un* bedydd" yn ei eglwys; ond darfu i ddynion (fel y dangoswyd) droi hwnw o'r neilldu, a chynllunio amryw fedyddiadau, trwy yr hyn y cymylwyd gogoniant Cristionogaeth, ac y darostyngwyd Cristionogion apostolaidd i anfaetis-ion a thrueni. Dangoswyd yn barod fod y Beibl yn cyfeirio at fwy nag un math o fedydd; ond y bedydd Cristionogol yw yr unig un sydd i fod yn barhaus yn yr eglwys. Ffrwyth dychymmyg ac ofergoel-edd calon lygredig yw y rhai a elwir y *bedyddiadau eglwysig*. Un o'r cyfryw yw—

**BEDYDD BABANOD:** Er fod lluoedd o'r Taenellwyr galluocaf a dysgedicaf (fel y dangoswyd) yn addef yn onest, nad oes un math o sail i fedydd babanod yn ngair Duw; etto, ceisia rhai o honynt ddarbwylllo eu hunain ac ereill i gredu, fod iddo sylfaen mewn hanesiaeth eglwysig, neu yn ysgrifau y tadau cyntefig. Cyn gosod eu haerriad yn ngwyntyll beiriadaeth, y mae yn angenrheidiol cael ystyriaeth at rai egwyddorion sylfaenol.

*Yn gyntaf, Fod ysgrifau y tadau eglwysig i gael eu profi wrth y Testament Newydd, ac nid y Testament Newydd wrth yr hyn a ysgrifenasant hwy.* Os mai ewyllys Crist, ac nid arferion y tadau, yw rheol Cristionogion, fel yr addefir yn gyffredin, nis gall awdurdod cant na mil o dadau (hyd y nod pe byddent yn cydoesi â Justin Ferthyr

neu cyn hyny) wneyd unrhyw arferiad yn ysgrhythol, os na ellir ei sylfaenu ar y Beibl. Gan mai un o'r arwydddeiriau Protestanaidd pwysicaf ydyw, Mai y Beibl yw yr *unig* reol mewn materion crefyddol, nis gallwn appelio at draddodiad nac hanesiaeth eglwysig am reol i grefyddda, heb aberthu yr elfen bwysicaf yn ein Protestaniaeth. Y mae'r cyfeillion a geisiant sylfaenu ordinhad bendant ar hanesiaeth, yn hyny yn gwadu eu Protestaniaeth, ac yn myned i dir y Pabyddion. Mor bell yr â dynion da ar gefn mympwy wedi ffariwelio â'r gwirionedd.

*Yn ail, Y mae aberthu yr egwyddor Brotestanaidd uchod trwy appelio at y tadau, yn rhwymo ein cyfeillion i ddilyn rhai o'r hen fathers yn fanylach nag y gwnant o barthed i fedydd babanod, os na allant ddwyn rhesymau cedyrn dros gyfyngu eu hefelychiad.* Os derbyniant y ddefod mewn cwestiwn ar awdurdod rhai o'r tadau, fel yr haera llawer o honynt eu bod yn gwneyd, rhaid iddynt hefyd, ar yr un tir, santeiddio y dwfr, arfer halen, poeri, mêl, a phethau ereill, wrth fedyddio—gweddio dros y meirw, ac appwyntio tadau a mamau bedydd. Paham y dewisir *un* o arferion rhai o'r tadau, gan adael o'r neilldu y mwyrif, os nad yr *holl*, amgylchiadau perthynol iddi? Os yw eu dilyn hwy mewn *un* peth yn gyfystyr âg ufydd-dod Beiblaidd, ar ba dir y mae eu diystyru mewn *llawer* o bethau cyssylltiedig â'r peth hwnw yn iawn? Gan bwy, pa bryd, ac yn mha le, y derbyniodd ein cyfeillion hawl i'w dilyn mewn pwnc *neillduol*, ac i edrych ar yr efelychiad o honynt mewn pethau ereill yn wrth-Feiblaidd? Os yw siampl rhai o'r tadau eglwysig yn cyfreithloni bedydd *babanod*, onid yw gwaith yr un personau yn defnyddio halen, poeri, a mêl, yn y gweinyddiad, yn briodol ar yr un tir? Nid gwiwi'n cyfeillion ddweyd nad yw y pethau hyn yn angenrheidiol, canys y mae y rheol y profasant hwy eu dilyn, yn eu rhwymo i arfer y naill a'r llall o honynt, angenrheidiol neu beidio. Cyprian oedd y dadleuydd cyhoeddus cyntaf dros fedydd babanod; ond yn ei amser ef, ceisid ei sylfaenu ar *draddodiad* apostolaidd yn unig; ac mewn trefn i fod yn gysson â hwy eu hunain, rhaid i'r holl Daenellwyr dan sylw wneyd yr un modd, fel y mae'r Pabyddion yn gwneyd. Os na chant wneyd hyny, gwnant eu hunain yn Brotestanaidd mewn *proffes*, ac yn Babyddion mewn *ymddygiad*, yn eu perthynas â bedydd ba-



banod. Gŵyr y Taenellwyr sydd yn gyfarwydd âg hanesiaeth eglwysig gystal a ninnau, y byddai rhai o'r hen dadau yn bedyddio babanod "er maddeuant" y pechod gwreiddiol; ond a ydyw yr Annibynwyr ac ereill yn eu dilyn yn hyn? Pan wnaeth rhai wadu pechod gwreiddiol, gorfodwyd y dosparth uniawngred i ddyfeisio pechodau *gweithredol* i fabanod, sef eu llefain, eu hannidgygrwydd, eu hanesmwythdra, &c.; yna dadleuent y dylid eu bedyddio "er maddeuant" o'r rhai hyny. A ydyw ein brodyr yn cymmeryd arnynt ddilyn yr hen dadau yn y ffiloreg hon? Os ydynt yn flyddlon i'w proffes, nis gallant ymlwybro yn wahanol.

*Yn drydydd, Nid ar y rhai sydd yn amheuedydd babanod y mae'r ddyledswydd o ddangos pwy a fedyddiodd faban gyntaf, ond ar y rhai a arferant y ddefod.*—Pah y mae dynion yn cymmeryd arnynt gyflawnu dyledswydd grefyddol, dylent fod yn alluog i ddangos eu hawdurdod.

Os felly, ffolineb yw ein cyhuddo ni o fod wedi methu "nodi'r amser na'r lle y dechreuodd yr arferiad o fedydd babanod" (*Bedydd Babanod, gan Prichard, tud. 69*). Digon i ni yw, mai nid yn ngwlad Canaan nac yn amser y Gwaredwr y gwnaeth ei ymddangosiad. Hwyrach y gellir dangos y lle, ac efallai y pryd y dechreuodd; ond os na ellir, ni fydd ein methiant yn gwanhau ein hachos. Gan ein bod yn dangos pa le a pha bryd y dechreuodd y bedydd a arferir genym ni, y mae yn rhesymol i ni ddysgwyl yr un hysbysrwydd gan ein gwrthwynebwyd o'r bethed i'r eiddynt hwy.

*Yn nesaf, y mae adnabyddiaeth âg hen ysgriflyfrau a bedd-adeiladau, hen gyfreithiau ac arysgrifeniadau, o bwys mawr i hanesydd eglwysig, pan yn olrhain dechreuad a natur hen ddefodau crefyddol, oblegid nas gall heb gynorthwyl y rhai hyny (mewn rhai amgylchiadau) ddeall yr ystyrion a roddid i eiriau gan y personau y byddo a fyddo eſe â hwynt.*—Y mae bedydd babanod, fel llawer o lygr-edigaethau eglwysig ereill, yn hen, er nad yw can hened ag y myn rhai o'i gefnogwyr i ni gredu. Esgeulusdod o'r egwyddor sylfaenol uchod sydd wedi peru i rai Taenellwyr gonest (ond anochelgar) feddwl fod profion o fodoliaeth eu defod i'w cael mewn manau nad ydynt i'w gweled. Efallainad anmhriodol fyddai galw y rhai uchod yn ffynnonellau prawf. Os dangosant y byddai sylweddair â pha un y cyssyllta'r ymofynydd lawer o bwys, yn cael ei arfer i ddynodi amryw fath o bethau neu bersonau gan yr hynafiaid, y mae hyny yn ddigon i

brofi nad yw y gair hwnw yn annibynol ar amgylchiadau yn ddigon i sefydlu nac i ddimchwelyd unrhyw bwne hanesyddol.

*Yn mhellach, y mae'r ffynnonellau prawf a nodwyd yn dangos fod ystyrion y geiriau ar y rhai yr adeilada Taenellwyr yn y ddadl hon mor anmhennodol neu ficsaidd, fel nas gallant sylfaenu eu hathrawiaeth arnynt.*

Yn ngwaith y dysgedig Muratori ar Hynafiaethau Italaidd yn y canol oesoedd, y mae llawer o ddyfyniadau o ysgrif-lyfrau, y rhai a brofant fod y gair *infantulus* (baban) yn cael ei ddefnyddio yn fynych iawn gan gyfieithwyr ac ysgolheigion Italaidd ereill, am ddynion ieuainc o dan oed (*minors*). Yn *Robinson's History of Baptism*, p. 135—6, y mae ewyllysiau (neu ddyfyniadau o honynt) amryw o fechgyn ieuainc o dan oed, yn y rhai y galwant eu hunain yn fabanod, neu *minors*. Dengys Robinson mai bedydd cyffredin yn Itali yn y canol oesoedd oedd bedydd *minors*; sef y rhai a ddysgid cyn eu bedyddio, ac a fedyddid trwy drochiad. Gan y caniatëid iddynt mewn rhai amgylchiadau i wneyd ewyllys neu gymmynu eu heiddo, bernid eu bod yn addas hefyd i farnu drostynt eu hunain mewn materion crefyddol. Pan fyddo rhai Taenellwyr yn dygwydd gweled cyfeiriad (mewn llyfr Lladin) at fedydd *infantulus*, cymmerant yn ganiatâol mai bedydd baban sugno a olygir, heb ystyried mai babanod y gelwid y *minors*.

Cyfeiria'r Parch. R. Robinson at amryw lyfrau Groeg a Lladin, yn y rhai y defnyddir y geiriau a gyfieithir *baban* a *babanod*, am blant o bump i saith oed, ac am dywysogion ieuainc mewn ysgolion. Dengys hefyd y byddai y geiriau hyn yn cael eu harfer yn ffigurol i ddynodi personau heb gyrhaedd addfedrwydd mewn deall; ond yn ol trefn rhai Taenellwyr o esbonio, nid oedd yr *infantulus* oll namyn rhai bychain yn sugno eu mamau. Yn ngwaith yr hen dad dysgedig Mountfaucon, ceir pedwar llun (*figure*) wedi eu cymmeryd oddiar fedd-adeiladau y Groegiaid; dengys y lluniau hyn bedwar o wahanol gyfnodau babanod, y rhai a gynnwysant gyfnod o ugain mlynedd.\* Mewn hen arysgrifen berthynol i'r wythfed ganrif, yr hon a gafwyd yn Naples,

\* The word *infant* is Gothic, and of wider extent than *beane*. *Fant*, one under the care of another, from *affano*, I take care. Thus servants are called the *infants* of their masters. Foot soldiers are the *infantry* under the command of general officers. The children of the house of Spain are called *infants*. In the Gothic laws, a man's *infants* were disqualified for sitting as jurymen in his



dysgir ni ddarfod i un Basil, mab i Silibud a Gregoria, golli ei fywyd yn y *ddeuddegfed* flwyddyn o'i *fabandod*.

Dengys cyfreithiau gwladol y Rhufeiniaid, y Vandaliaid, y Gothiaid, ac amryw lwythau ereill, y byddai tymhor babandod (*minority*) yn terfynu pan yn 18, 20, a 25 oed. Gwahaniaethai mewn gwahanol wledydd. Yn y cyfreithiau hyn, cyfeirir at briodasau yr *infants*, eu hewyllysiau, eu cospedigaethau am wahanol droseddau gwladol, &c. Y mae'r deddfau eglwysig perthynol i fabandod hefyd, yn lluosog ac yn bwysig dros ben. Yn y rhai hyn, y mae dysgu pob baban cyn ei fedyddio yn cael ei orchymyn mor bendant ac mor eglur ag yr oedd yn ddichonadwy. Nid yw dull gweinyddiad eu bedydd, sef trwy drochiad, yn cael ei grybwyll yn eglurach na'r addysg a ofynid cyn ei weinyddiad. Profar tad Martene, yn ei gasgliad o hynafiaethau mynachaid, yn y modd mwyaf boddhaol, fod y geiriau dan sylw yn dynodi plant o dan oed yn y cyfreithiau mynachaid, yr un modd ag yn y rhai gwladol ac eglwysig.

Deddf-lyfr y mynachod bychain, wedi ei gasglu yn nghyd o gyfreithiau y mynachod yn Itali, Germany, Ffrainc, a lleoedd ereill (wrth y rhai y llywodraethid y mynachod bychain), yw y casgliad hwn o eiddo Martene. "The Discipline of the *Infants*, or the Discipline of the *Boys*," &c., yw'r cyfieithiad a roddir gan y Saeson o deitl neu enw y llyfr. Golyga'r gair Saesneg *infancy* (babandod) yr un peth yn Lloegr, fel y dengys y dyfyniad canlynol o waith y barnwr dysgedig Blackstone:—

Infancy is nonage, which is a defect of the understanding. Infants under the age of discretion ought not to be punished by any criminal prosecution whatever. What the age of discretion is, in various nations, is matter of some variety" (*Commentaries on the Laws of England*, book iv., chap. 2).

Y mae yn anhosibl i ddarlleneydd di-duedd fethu gweled yn ngwyneb yr hyn a ysgrifenydd, fod bedydd babanod mor amhennodol ac amwys yn ysgrifau yr hen dadau Groegaidd a Lladinaidd, fel nad yw yn bosibl penderfynu pwy a feddylir wrth y gair babanod, yn annibynol ar amgylchiadau. Pan gyfarfyddir â'r geiriau *infantulus* a *paides* yn gyssylltiedig â bedydd, y

own suits, for being his tenants they would be tempted to be partial."

"Child is from *ac-hil-id*, he is from our race or our offspring." (*R. Jones, Esq., The Origin of Language and Nations, &c.*, p. 1764.)

mae yn rhesymol gofyn, pa *infantulus* (baban)? Ai un felly mewn ystyr naturiol, neu ynte faban mewn deall a gwybodaeth a olygir? Os nad y naill na'r llall a feddylir, rhaid mai *infant* mewn cyfraith ydyw, hynny yw, *minor*, neu un o dan oed. Gall ddynodi y naill neu y llall; rhaid chwilio amgylchiadau, gan hynny, mewn trefn i wybod pa un. Dengys Robinson, yn ei "*History of Baptism*," fod y geiriau a gyfieithir, *plentyn* a *plant*, mor amhennodol ac amlystyrog a'r geiriau blaenorol, fel nad yw yn ddichonadwy gwybod yn mha ystyr y maent yn cael eu defnyddio pan gyfarfyddir hwy fel termau unigol, heb chwilio yr amgylchiadau yn y rhai y maent yn sefyll. Nid ydym yn ysgrifenu fel hyn o herwydd ei bod o un pwys i ni pa un a oedd babanod sugno yn cael eu bedyddio yn amser Justin Ferthyr ai peidio; ond y dyben mewn golwg yw, dangos pa mor anochelgar y mae rhai Taenellwyr wrth geisio olrhain hanes eu defod. Eu trefn gyffredin yw, cymmeryd yn ganiatäol yr hyn a ddylent brofi. Y mae eu sêl, eu diwydrwydd, a'u hymroddiad ägniol, yn deilwng o achos ag sydd yn hawlio cefnogaeth.

Gan mai trwy drochiad y bedyddid pawb yn y canrifoedd cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, fel yr addefa lluoedd o Daenellwyr gwybodus, ni fyddai profi fod bedydd babanod mewn arferiad yn y tymhor hwn, yn un math o brawf o fodoliaeth y ddefod o DAENELLU DWFR ar fabanod yn yr un amser. Pe gellid profi tu hwnt i ammheuaeth y byddai Justin Ferthyr yn bedyddio babanod, ni fyddid trwy hynny yn gwneyd mwy na sefydlu henafiaeth y deiliaid ond nid y dull. Gan fod hyn o bwys mawr yn y ddadl hon, caiff tri neu bedwar (o blith llawer ereill) o Daenellwyr benderfynu y pwnc. *Vossius*:—"Fod yr apostolion wedi trochi y rhai a fedyddid ganddynt, nid oes un ammheuaeth; a bod yr eglwys henafol wedi dilyn eu hesiampl a brofir yn eglur iawn trwy dystiolaethau afrifol y tadau." *Stackhouse*:—"Parhaodd y dull hwn o drochi (gymmaint ag oedd yn bosibl), i gael ei arfer am *dri chant* ar ddeg o flynyddau ar ol Crist; ond y mae yn beth yr ammheuir yn fawr pa un a addefa goruchafiaeth arferiad, ac anwylddeb gormodol rhieni, iddo byth gael ei adferyd, yn neillduol ya yr hinsoddau oerion hyn." Dywed Dr. Wall, mai "dull arferol a chyffredinol y Cristionogion cyntefig, oedd bedyddio trwy drochiad, neu suddiad y



person, pa un bynag ai baban ydoedd, neu ynte wr, neu wraig, yn y dwfr." "Nid oedd y fath beth a thaenelliad," ebe Mede, neu *rhantismos*, yn cael ei arfer mewn bedydd yn nyddiau yr apostolion, nac am oesau lawer ar eu hol." "Yn y rhan Orilewinol o'r Eglwys," meddai esgob Nicholson, "yn gystal ag yn y rhan Ddeheuol, gweinyddid y sacrament o fedydd yn yr hen amseroedd trwy suddo yn y dwfr." Gellid cael ugeiniau o dystiolaethau cyffelyb gan Daenellwyr dysgedig ereill; ond gwasanaetha y rhai hyn, mewn cyssylltiad â'r rhai a ddyfynwyd mewn man arall, ein dyben presenol.

*Yr egwyddor olaf yw, Mai mewn cyssylltiad a thwyll-offeiriadaeth, ac yn nglyn â syniadau anysgrythryol neu ynyddrwydd duwinyddol o ethryb trefn Duw yn achub bobanod ac ereill, y darfu i'r bedydd o dan sylw, fel llygredigaethau eglwysig ereill, wneyd ei ymddangosiad ar y cyntaf.* Bydded Taenellwyr eu hunain yn farnwyr. Dywed y Parch. H. Hughes (*Tegai*), fod "tegweh" yn ei "orfodi i addef mai mewn cyssylltiad â thwyll-offeiriadaeth yr ydys yn cael yr hanes cyntaf mewn ffaith am fedydd babanod." "Y mae hanes yr eglwys," ychwanega Mr. Hughes, "yn dangos yn amlwg mai gyda'r ordinadau y chwaraeodd yr offeiriadaeth fwyaf o dwyll, ac yr hudodd fwyaf o arian y bobl o unrhyw ystryw o'i heiddo; a dyma ei phrif safle i dwyllo y byd hyd y dydd hwn." Dywed *Solamasius* fod "opiniwn yn ffynnu na allesid cadw neb heb ei fedyddio," ac mai "am y rheswm hwnw y cyfododd yr arferiad o fedyddio babanod." Dadleuai rhai o'r hen dadau "fod yr apostolion yn gweinyddu yr ordinad o fedydd yn *Hades*, ar eneidiau duwiol saint yr Hen Destament, y rhai nad oeddynt wedi eu bedyddio." Haerid fod, "nid yn unig bersonau ydynt wedi dyfod i arfer rheswm, ond befyd blant bychain a babanod newydd eu geni, os byddant farw heb fedydd, yn myned i'r tân tragywyddol." Dywed Huw Tegai, mai "swm y cyfan oedd *cadwedigaeth trwy fedydd*. Neu, os dewisir rhoddi dau gam yn lle un, *cadwedigaeth trwy faddeuant*, a madd-euant trwy fedydd. Dyma ffordd rwydd iawn i'r offeiriad fyned â phobl i'r nef-oedd..... Cawn yma gyfrif hawdd am y ffaith o fod y fath bwys neillduol yn cael ei roddi ar fedydd. Yr oedd yn fater anghu a bywyd tragywyddol; pwy bynag fyddai farw heb i'r offeiriad ei aleni trwy fedydd, yr oedd yn golledig;

a phwy bynag a dderbynai fedydd, 'yr oedd yn cael claddu yr holl bechodau a wnaethid o'r blaen,' a phechod Adda yh y fargen, yn nwfr bedydd. Ond nid oedd y bedydd yn glanhau yr hyn a elwir yn llyfr gweddi eglwys Loegr—'*Pechod wedi bedydd*.' Fe welir ar unwaith fod yma gyfyngder o'r ddau tu. Os bedyddid yn gynnar, yr oedd perygl oddiwrth y 'pechod wedi bedydd' (canys nid oedd yr offeiriadaeth y pryd hwnw wedi trefnu meddyginiaeth i'r drwg hwn); os oedid bedydd, yr oedd perygl i anghu symud y truan ymaith cyn i'r offeiriad roddi 'adenedigaeth yn medydd' iddo. Rodd bynag, barnwyd mai y ffordd sicraf oedd achub y blaen ar anghu os gellid, ac am hyn yr ydym yn cael hanes cymmanfa yn Carthage, yn y flwyddyn 254, yn yr hon yr oedd 66 o esgobion, yn penderfynu nad oedd eisieu oedi bedydd dros ddiwrnod i faban—y dylai pawb gael eu bedyddio, yn enwedig babanod." Dengys yr hyn a ddyfynwyd, fod bedydd babanod o angurheidrwydd yn cryfhau ac yn helaethu dylanwad y rhai a'i gweinyddent, ac yn ffynnonell o elw iddynt, fel y mae i raddau pell yn parhau yn mysg llawer o'i gefnogwyr presenol.

Wedi gosod yr egwyddorion blaenorol gerbron, gelwir sylw yn nesaf at yr hyn a ymddengys yn debygol o berthynas i amgylchiadau ymddangosiad bedydd plant a bedydd babanod. Nid oes eisieu hysbysu y darllynydd gwybodus fod gwahanol gyfundraethau crefyddol yn effeithio ar eu gilydd, a deiliad y naill gyfundrefn yn mabwysiadu rhai o syniadau, ac arferion, a seremonïau y llall. Y mae'r gwaethaf yn fwy tebyg o effeithio ar y goreu na'r goreu ar y gwaethaf yn yr ystyr hyn. Darfu i'r Iuddewon ymlygru droion trwy dalu gwarogaeth i athrawiaethau ac arferion eilunaddolwyr, a gwnaeth rhai o'r cenedloedd ddychwelyd y *compliment* yn rhanol, trwy gredu ac arfer rhai pethau perthynol i'r hâd etholedig. Effeithiodd amryw o syniadau a defodau y paganiaid i raddau helaeth ar gredöau a defodau amryw Gristionogion cyntefig; ac y mae yn dra thebyg i Gristionogaeth ddylanwadu ychydig ar baganiaeth y cyfnod. Y mae yn ffaith adnabyddus a chydabyddedig, fod gan yr hen baganiaid blant ieuaine yn gweinu yn ngwasanaeth eilun-addoliaeth. Bu plentyn o'r enw Herophilus yn gwasanaethu Bacchus yn swyddol am tua thair blynedd, a bu farw pan yn saith mlwydd a dau fis oed, fel y dengys hen arysgrifen er cof am dano.



Y mae copi o honi i'w weled yn "*Hanes Bedydd*" gan Robinson (tud. 161). Darfu i hen Gristionogion syrthio mewn cariad â'r egwyddor fel y gwnaethant fabwysiadu y ffurf, gan *newid y gwasanaeth*. Dysgasant lawer o blant i ddarllen a chanu, a ffurfiasant hwy yn gorau neu gydfrawdoliaethau crefyddol, fel y gallent weinidogaethu yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd yr "*infant sacrorum ministri*," yn gylch mor anrhydeddus yn marn paganiaid a Christionogion, fel y gosodid arysgrifeniadau ar feddau y swyddogion ieuaine, i'r perwyl o ddangos yr anrhydedd perthynol iddynt yn eu bywyd. Ceir adysgrifen o un Gristionogol yn "*Hanes Bedydd*" gan Robinson (tudalen 162), yr hon a gymmerwyd oddiar fedd plentyn o'r enw Fundanius Jovianus, yr hon a ellir ystyried yn fath o wrthran (*counterpart*) i eiddo Herophilus at yr hon y cyfeiriwyd. Bu yr amherawdwr Julian yn gwasanaethu yn un o'r corau hyn pan yn blentyn. Darfu i Clement yn ysgol Alexandria wneyd gwaith y swyddogion bychain hyn mor debyg ag yr oedd modd i eiddo y rhai paganaidd. Yr oedd yr hen dad hwnw wedi hanner meddwi ar gyflawniadau crefyddol y plant. Gan nad oedd derbyniad i eglwys Crist yn bosibl heb fedydd, a bod elw ac anrhydedd yn nglyn âg aelodiaeth yn y corau dan sylw, penderfynodd llawer fedyddio eu plant. Pe buasai aelodiaeth yn bosibl heb fedydd, neu, pe derbyniasid rhai heb fod yn aelodau i'r "*infant sacrorum ministri*," y mae yn fwy na thebyg na chlywsid sôn am y fath beth a bedydd y plant ieuaine hyn.\* Ystyrid talent gerddorol mewn plentyn yn drwydded i ddychafiad ac elw; o ba herwydd, gwnaed bedydd plant (*infantuli*) yn boblogaidd gan y dyben a fwriedid sicrhau trwy yr arferiad o hono. Gan mai yr eglwysy fyddai yn cynnal y coryddion (*choristers*) ieuaine, nid oedd bedydd yn ddibwys mewn ystyr dymhorol i lawer o dlodion yr amseroedd.†

Barna rhai fod gradd o gyssylltiad rhwng athrofa Alexandria a chychwyniad yr arferiad uchod o fedyddio plant. Fodd

bynag, ymddengys mai cymmysgedd oedd dysgeidiaeth ac arferion yr athrofa hono, o athroniaeth Roegaidd, ofergoelion yr Aifft, arwireddau Moses, a dysgeidiaeth Crist. Hoffai Clement drefn Lyeurgus yn Sparta (yr honydd yn ddigon adnabyddus i haneswyr), o godi a dysgu deiliaid y wladwriaeth. Pan fyddai plant y Spartans yn saith oed, ffurfid hwy yn ddosparthiadau i'w hegwyddori ar draul y llywodraeth. Gofalu am eu cyrff—eu darparu yn filwyr, oedd gwaith yr athrawon Spartaidd; ond meddyliodd Clement y dylid diwyllio a chrefyddoli eu meddyliau hefyd; ac i'r perwyl o wneyd hyny, ceisiodd osod y cyfundraethau a nodwyd o dan dreth i gyrhaeddiad ei amcan. Mewn gair, gwnaeth Gristionogaeth yn fath o wyddiant ddysgedig. Pwnc pwysig yn ei olwg ef ac Origen ei olynnydd oedd, gwneyd yr ysgolheigion yn grefyddol, trwy eu hegwyddori am dymhor, cyn eu bedyddio trwy drochiad. Barna rhai y byddid yn bedyddio babanod sugno yno; ond y mae Robinson yn dangos yn anwrthwynebadwy, mai "*babanod yn Nghrist*" yr ystyrid y deiliaid. Ystyrid yr athrofa hono yn fath o sefyllfa ganol rhwng y byd a'r eglwys, cyhyd ag yr edrychid ar y dysgyblion yn y cymmeriad o *catechumens*; ond wedi eu bedyddio, golygid eu bod yn gyflawn aelodau. Cysylltid bedydd yn yr ysgol âg addysg neu ddysgeidiaeth uchel, a gwneid ef mewn gwirionedd yn rhan o honi. Wedi para felly am gryn amser, newidiodd yr athrofa i fod yn ysgol i ddysgu ieuencyd mewn gwybodaethau bydol yn unig. Nad oedd y dysgyblion yn cael eu bedyddio pan dderbynid hwy i mewn, a brofir gan y ffaith ddarfod i ddau o honynt gael eu merthyru yn amser Origen, a hwythau *heb eu bedyddio*. Gan i Clement syrthio mewn fath gariad angerddol â *system* Lyeurgus, a thalu iddi warogaeth ymarferol mewn cyssylltiad â'i athrofa, y mae yn dra thebyg nad oedd ganddo wrthwynebiad i egwyddori a bedyddio plant saith mlwydd oed, canys yn yr oedran hwnw y derbynid plant Sparta i ysgolion y llywodraeth. Dywed Robinson mai rhai hyn na hyny a fedyddid ar y dechreu,—i blant saith mlwydd gael eu hystyried yn ddeiliaid addae mewn amser dyfodol, ac i'r ordinad aros heb ddisgyn yn is am lawer o amser.

Nid yw yn bosibl gwybod a oedd rhyw gyssylltiad rhwng trefn yr athrofa uchod a bedyddiad y *choristers* bychain, at y rhai y cyfeiriwyd. Y mae'r tebygrwydd o blaid

\* Dengys hyn nad yw profi henafiaeth *paedobaptism*, yr un peth a phrofi hynafiaeth *infant-baptism*.

† Gan nad ydym yn sicr yn mha le na chan bwy y dechreuwyd yr arferiad o ffurfio y plant hyny yn gorau (er fod y ffaith yn ddigon adnabyddus), yr ydym yn ol athrawiaeth y Parch. T. Rees, at yr hon y cyfeirir yn y tudalennau canlynol, yn *chwyrn* o greu mai arferiad *apostolaidd* ydoedd.



y dybiaeth mai felly yr oedd; ond tueddir ni i feddwl nas gellir cyrhaedd sierwydd ar dir mor gaddugawl. Darfu i esgeulusdod o barthed y geiriau amlystyrog *infantulus*, *infantuli*, *pais*, *paises*, &c., beru i rai dynion da feddwl fod cyfeiriadau at y bedyddiadau Alexandriaidd blaenorol, yn profi bedyddiad babanod ar y bronau; ond golygir fod yr hyn a ysgrifenyddyd yn ddigon o ddynoethiad i'r olygddysg arwynebol hono.

Nid yw ysgrifau Tertullian yn y drydedd ganrif, yn profi bodoliaeth bedydd babanod y pryd hwnw; y gwir yw, nid yw yr hen dad yn crybwyll o gwbl am y fath beth, er yr haera rhai yn wahanol. Dengys hyn y gall ambell un ddadl pwn heb ei astudio yn aannghymmedrol o fanwl. Cyfeiria efe, ymae yn wir, at fedydd *rhai bychain*. Yr oedd prophwydesau (fel y galwent eu hunain) yn Carthage yn ei amser ef: darfu i un o honynt (ac efallai ereill o'i chyfeill-esau), o'r enw Quintilla, ddadl y dyld bedyddio *rhai bychain* ar yr ammod ddeublyg o'u bod yn *gofyn* am hyny, ac yn *dwyn meichiau*. Y mae yr hen esgob Affricanaidd Victor, yr hwn oedd yn byw yn ddigon boreu i wybod, yn ein dysgu pa fath rai oedd bedyddiedigion ieuaine Carthage yn y geiriau canlynol:—"Yr oedd," ebe efe, "yn yr eglwys Affricanaidd yn Carthage, pan yr oedd Eugenius yn esgob, lawer o *fabanod bychain*, darllenwyr, y rhai a lawenychent yn yr Arglwydd, ac a ddyoddefasant ferthyrdod gyda'u brodyr."\* Gellid dyfynu llawer o frawddegau ereill o waith Victor, y rhai a brofant mor gadarn a'r un uchod fath rai oeddynt fabanod Tertullian. Person o'r enw Thencarius a ddysgai ddynion i ganu, &c., yn eglwys Carthage ar y pryd; a gelwid deuddeg o'i ddysgyblion yn fabanod bychain. Gan fod *infantuli* yn golygu babanod sugno a babanod yn ngolwg y gyfraith, profa ysgrifau Victor mai rhai o'r dosparth olaf a

fedyddid yn Affrica yn amser Tertullian. Fodd bynnag, nid oedd athrawiaeth Quintilla yn foddhaol i'r hen dad, o ba herwydd darfu iddo ysgrifenu yn ei herbyn. Y mae yn dra thebyg, fel y dengys Robinson, mai ar dir cyfreithiol neu wladol yn benaf y gwrthwynebai efe y ddefod newydd, er y dygai rai rhesymau gweinion dros oedi gweinyddiad yr ordinhad, os yw y cwbl a ddywedir am dano yn wirionedd. Yr oedd Tertullian yn gyfreithiwr ac yn fab i gyfreithiwr, ac fel y cyfryw, deallai y pwn yn ei gyssylltiadau gwladol yn well nâ'r mwyrif o'i gyfoedion. Nid yw o un pwysini pa un aigwrthun ynte efengylaidd oedd ei olygiadau dros oedi bedydd; ond y pwn i'w benderfynu ydyw, pa fath rai oedd yr *infantuli* mewn cwestiwn, yr hyn a atebir yn y modd egluraf gan Victor ac ereill.—(*History of Baptism*, p. 164—182.)

Yn y flwyddyn 257, yr ydym yn cael cyfeiriad at fedydd babanod am y tro cyntaf. Gwnaeth ei ymddangosiad yn nyddiau Cyprian, tra yr oedd yr eglwys Affricanaidd yn nodedig am ei llygredd mewn athrawiaeth a moesau. Yn y flwyddyn uchod, darfu i esgob o'r enw Fidus yru at Cyprian i ofyn iddo a ellid bedyddio baban o dan wyth niwrnod oed. Yma y mae dwy neu dair o ystyriaethau yn hawlio sylw, y rhai, i raddau pell, a esboniant yr amgylchiad. 1. Yr oedd Cristionogaeth ar y pryd yn llygreddig, a seremoniau Iuddewig a phagan-aidd i raddau helaeth wedi eu cymmysgu â hi. 2. Arferid llosgi llawer o fabanod yr amser hwnw; ac yn gymmaint a bod Cristionogion a phaganaiid yn ymgymysgu trwy briodasau ac amgylchiadau ereill, nid oedd plant y blaenaf tu allan i berygl; ac y mae lle i ofni ddarfod i lawer o honynt gael eu haberthu i'r eilunod paganaidd. 3. Ystyrid y rhai a fedyddid yn gyssegredig i Dduw, ac fel y cyfryw, yr oeddynt mewn llai o berygl nâ'r difed-ydd; y mae yn fwy nâthebyg, gan hyny, mai dyben Fidus wrth sefydlu bedydd babanod, oedd diogelu y rhai bychain rhag y perygl a'u bygythiai. Nid yw yn afresymol i ni feddwl ddarfod iddo lwyddo i ddarbwylllo rhai paganaid i fedyddio eu plant, a thrwy hyny ragflaenu y trueni i'r hwn yr oeddynt yn agored. Os felly, cymhellid yr esgob gan deimladau dyngarol, er, mewn rhan, yr aberthai efengyl ar allor ei ddyngarwch. Y mae yn debyg fod Fidus wedi dechreu bedyddio babanod (nid *taen-ellu* dwfr arnynt) cyn ymgynghori â Cyprian, ar y dybiaeth o fod deddf yr en-

\* "He says in another place, when a great many Christians were fleeing into exile, many little infants accompanied them, crying, 'We are Christians, We are Catholics, We believe in the Trinity.' Some of their mothers were Arians, and ran after them to dissuade them from going with the Catholics, and trying to prevail with them to return home, and be rebaptized into the Arian faith: but they persisted.....There were also little infants, who in the time of persecution ran up and down the streets crying, 'We are Christians, We are Christians, We are Christians.'.....There were seven monks put to death, Maximus, a little infant, was one" (*Robinson's* p. 172).



waediad mewn rhan yn cyfiawnhau hyny, ac mai awydd i ddiogelu y babanod naturiol can gynted ag yr oedd modd, a berodd iddo yru at ei athraw ar y mater. Y mae'r amgylchiad yn gorwedd mewn cymmaint o dywyllwch, fel nad yw yn hawdd bod yn *sicr*. Pe buasai llythyr Fides ar gael, hwyrach y buasai yn llawer o gymhorth i ffurfio barn ar y mater. Fodd bynnag, darfu i Cyprian ofyn ystyr-iaeth triugain neu driugain a deg o'i frodyr i gwestiwn Fidus, y rhai a benderfynasant nad oedd bedyddio babanod o dan wyth niwrnod oed yn anmhriddol. Dywedai'r Cynghor hwnw, yn 257,\* na ddaethai Crist i'r byd "i ddinystio *bywydau* dynion, eithr i'w *cadw*," ac "y dylem ninnau wneyd pob peth a allom i *ddiogelu* neu *arbed* ein cydgreaduriaid." Bernir fod yn y rheswm hwn a ddefnyddient dros y caniatad a roddent i Fidus, gyfeiriad eglur at yr amgylchiad a berasai i'r esgob feddwl am y peth, sef aberthiad babanod i Sadwrn.† Os mai yr hyn a grybwyllwyd oedd yr achos o appeliad Fidus am gyfarwyddyd, y mae yn dra thebyg, gan hyny, mai defod *leol* oedd bedyddio babanod ar y pryd, yn cael ei harfer yn y manau yr arferid aberthu y rhai bychain.‡ Y mae yn ymddangos mai duwiniath gyffredin y cyfnod hwnw oedd, fod dynion yn cael eu *gwneyd* yn Gristionogion, ac nid yn cael eu *geni* felly. Gan mai amser erlidigaethus oedd yr adeg hono—eglwysi yn cael eu tori fyny, a'r aelodau yn cael eu gwasgaru, byddai rhai

\* "There are three observations of great weight, which deserve consideration. 1. There are several reasons to suspect that the letter to Fidus is all forgery. 2. Canonists exposed it as a direction to be followed only in cases of necessity. 3. It is absolutely certain that it had no authority out of the province, no more in it than people choose to give it.—(*Robinson's*, p. 195.)

† Cofier na ddarfu i Cyprian a'i frodyr ryfygu i gymmaint o raddau, a cheisio profi ysgrythyroldeb y peth, fel y nodasom. Tua'r un amser y dechreuwyd dadleu dros roddi cymmundeib i fabanod yn gystal a bedydd. Yr oedd Cyprian a'i gyfeillion, gan hyny, yn fwy cysson â hwy eu hunain o lawer na Thaenellwyr y dyddiau presenol.

‡ Dadleus rhai yn selog, mai at gadw *eneidiau* y babanod y mae'r cyfeiriad yn atebiad y Cynghor;—mai athrawiaeth y pechod *gwreiddiol* a achosodd ei fodoliaeth, ac mai diogelu y rhai a fyddent farw yn eu babandod rhag poenau tragwyddol oedd dyben ei sefydliad. Y mae llawer i'w ddweyd dros y ddwy ochr. Mai y naill neu y llall o'r ddau beth uchod a fu yn achos o gychwyniad y ddefod, sydd yn flaith eglur, a chydunabyddedig gan rai Thaenellwyr yn gystal a ninnau.

arferion newyddion, fel bedydd babanod, o angenrheidrwydd yn diflanu gyda'r cychwynwyr, fel nad oedd llwyddiant a sefydlogrwydd yn nodweddiadol o ddefodau crefyddol y cyfnod yn gyffredin. Heblaw hyny, nid oedd Cynghorau eglwysig yn bethau mor rymus, na mellldithion esgobion mor ddychrynlyd y pryd hwnw, ag y daethant yn y canrifoedd dilynol. Yn ngwyneb yr amgylchiadau hyny, nid yw yn ymddangos i fedydd babanod fyw ar raddeg uchel o amser ei enedigaeth yn nyddiau Fidus a Cyprian, hyd Cynghor Mela yn y bummed ganrif, ond y byddai rhai yn ei arfer yn achlysurol, ac ereill yn ei wrthwynebu yn egniol. Fodd bynnag, yn y fl. 416, darfu i Gynghor Mela, yn Numidia, gyfarfod, a chyhoeddi saith ar bugain o orchymynion newyddion; un o ba rai oedd:—"Mai pleser yr esgobion yw gorchymyn, fod i bwy bynnag a wada, nad yw babanod newydd eu geni i gael eu bedyddio, neu a ddyweda fod bedydd i gael ei weinyddu er maddeuant o'u pechodau hwy eu hunain, ac nid ar gyfrif y pechod gwreiddiol deilliedig o Adda, yr hwn sydd i gael ei symud ymaith yn ngolch-noe yr adenedigaeth, i fod yn fellldigedig," neu i gael ei fellldithio. Er fod rhyfyg a chyfeiliornad Awstin a'i gyfeillion yn y Cynghor rhyfedd hwnw yn arswydus, fel y dengys y geiriau a ddyfynwyd; etto nid oeddynt yn ddigon ynyf i geisio sylfaenu y ddefod ar un awdurdod ysgrythyrol, ond yn hytrach ar yr hyn a alwent yn arferiad *cyffredinol*, neu draddodiad. Y mae nodwedd yr haeriad o fod yr arferiad mewn cwestiwn yn *gyffredinol* mor amlwg, fel y mae ei grybwyll yn ddigon i'w ddy-noethi. Gwyddai Awstin ei fod ef ei hun yn 33 pan drochasid ef gan Ambrose yn Milan, ac nad oedd y Manicheaid, i ba rai y buasai unwaith yn perthyn (meddai efe), yn arfer bedydd babanod, ond yn ei wrthwynebu. Os oedd *paub* yn ei arfer, paham y cyhuddai efe y Pelagiaid o'i wadu, ac i baddyben y cyhoeddiad y ddeddf a ddyfynasom? Y mae'r cyfeiriad at gyffredinolrwydd y peth mor afresymol a gwrthun, fel y ceisia rhai haeru nad yw ond ychwanegiad o eiddo rhywun at weithiau Awstin; ond barna Robinson yn wahanol.

Er i'r fellldith flaenorol gael ei chyhoeddi ar y rhai a arferent wrthwynebu bedydd babanod, ni wnaeth nemawr argraff ar y byd crefyddol, ac ni fu yn hir cyn syrthio i ebar-gofiant. Yn y flwyddyn 429, gwasgarwyd eglwys Affrica gan y Vandaliaid i'r fath



raddau, fel nad oedd yn y flwyddyn 430 ond tair o honynt yn bodoli; a diflanodd y gyfraith a grybwyllwyd fel breuddwyd yn y twrw Vandalaidd.

Gwna'r darlennydd gofio, mai tua chant a hanner o flynyddau cyn geni Awstin, y darfu i Quintilla a'i chwiorydd ddadleu dros fedyddio plant a wnelent *ofyn* am fedydd. Yn mhen dengain mlynedd ar ol hyny, gwnaeth Fidus fedyddio babanod ar y bronau, i'r perwyl o'u diogelu rhag cael eu llosgi (fel y mae yn dra thebyg), trwy eu neillduo i Dduw; a barnai fod athrawiaeth yr enwaediad mewn rhan yn cyfiawnhau eu bedyddiad pan yn wyth diwrnod oed. Barnodd Cyprian, os oedd bedydd yn briodol iddynt yn mhen wyth diwrnod, nad oedd yn anmhriddol can gynted ag y genid hwy. Cafodd Awstin y ddefod mewn arferiad; ond methodd gael sylfaen iddi yn y Beibl; o ganlyniad, barnodd (o'r hyn leiaf *haerodd*, os gwir a ddywedir am dano), fod y ddefod mewn arferiad er dyddiau yr apostolion, a chyhoeddodd felldith ar bawb a ddywedent yn wahanol. Deallodd mai *salus* y gelwid bedydd gan Gristionogion Carthage, yr hyn sydd yn arwyddo *diogelwch* (ac yn cytuno â'r hyn a ysgrifenyddwyd o barthed i Fidus); ond barnodd Awstin mai *iachawdriaeth yr enaid* a olygid, heb ystyried mai gair Rhufeinig oedd *salus*, ac na wyddai y Rhufeiniaid ddim am iachawdriaeth yn yr ystyr a olygai efe, er y gwyddai y dystadlaeth o honynt beth oedd ystyr cyffredin y gair mewn cwestiwn. Ymddengys fod y camsyniad hwn o eiddo Awstin yn rhoi cyfrif am lawer o'i ynfyrwydd a'i ormes gyda golwg ar y ddefod dan sylw.

Y mae yn ymddangos mai nifer fechan o'r Gnosticiaid ddarfu gychwyn yr arferiad o fedyddio babanod yn y dwyrain. Barnai'r mwyrif, os nid pawb, o'r Gnosticiaid, fod yr enaid yn cael ei halogi gan fater; o ba herwydd, darfu i rai yn eu plith ddadleu y dylid bedyddio plant can gynted ag y gallent ofyn am fedydd. Yn raddol, gwnaeth rhai o honynt, sef y Caianitiaid (*Caianites*), fabwysiadu'r meddylddrych o bechod gwreddiol, ac i'r dyben o lanhau babanod oddiwrtho, dechreuasant yr arferiad o fedyddio y rhai hyny o honynt ag oedd mewn perygl eglur o farw yn eu babanod. Y mae yn anhawdd gwybod yn sier pa bryd, nac yn mha le, y dechreuodd bedydd babanod yn mysg y Gnosticiaid, nac i ba raddau yr ymled-

aenodd. Pa fodd bynag, y mae yn sier mai yn agos i ddiwedd y bedwaredd ganrif y gwnawd yr arferiad yn gyhoeddus gyntaf gan Gregory Nazianzen; a bod yr anghyfleusdra a deimlai swyddogion eglwysig oddiwrth y gorchwyl o ddysgu y *catechumens*, yn eu gwneyd hwy i raddau pell yn barod i dderbyn y newidiad. Tua'r flwyddyn 381, cyhoeddodd Gregory ei *opiniwn* ar y pwnc yn mhulpid y *cathedral* yn Nghaercystenyn; sef, y dylid bedyddio plant tua thair blwydd oed, ac na ddylid nacau bedyddio babanod sugno a fyddent ar drancedigaeth.\* Dengys ei eiriau ar yr achlysur, mai peth *newydd* oedd yr arferiad. Yr oedd Gregory ei hun yn ddeg ar hugain pan gafodd ei fedyddio, er iddo gael ei eni tra yr oedd ei dad yn esgob. Dywed Taenellwyr mai y rheswm fod plant rhieni crefyddol yn cael eu bedyddio wedi tyfu i oedran yn y canrifoedd cyntaf oedd, mai *paganiaid* oedd eu rhieni pan enid hwy; ond y mae hanes Gregory yn dangos fod mwy o deimlad partiol nag o wirionedd yn yr haeriad. Yr oedd Gregory yn *erbyn* bedyddio babanod os na fuasai *peryl* yn bygwth. Dengys yr hyn a ysgrifenyddwyd, mai tuag amser Gregory y dechreuodd eglwys Groeg fedyddio *rhai* babanod, ac nad oedd y pryd hwnw ond peth goddefol mewn achos o berygl yn unig; ond fel y mae dirywiadau yn ymëangu, gwnawd yr eithriad anhapus uchod yn rhoi golwg gyffredin mewn amser dyfodol. Hen drefn a fu mewn parch ac arferiad am lawer o amser yn Jerusaleml, a manau ereill, oedd cadw ieuentyd (*catechumens*) mewn math o ysgol dduwinyddol am gryn amser cyn eu bedyddio; ond diogi yr holwyr a wnaeth yr arferiad hono yn feichus, ac a barotodd y ffordd i ddefod esmwythach neu iau ysgafnach, sef bedydd babanod.

Barna rhai mai yn y flwyddyn 417, y dechreuodd rhai o Gatholicaid Ysbaen fedyddio babanod. Dywedir i saith o

\* "But, say some, what is your opinion of infants, who are not capable of judging either of the grace of baptism, or of the damage sustained by the want of it; shall we baptize them too? By all means, if there be any apparent danger. For it were better they were sanctified without their knowing it, than that they should die without being sealed and initiated. As for others, I give my opinion, that when they are three years of age, or thereabouts (for then they are able to hear and answer some of the mystical words, and although they do not fully understand, they may receive impressions), they may be sanctified both soul and body, by the great mystery of initiation." (*Robinson's*, p. 249.)



esgobion ymgyfarfod yn Girona, ac iddynt yno benderfynu ei bod yn briodol bedyddio rhai a fyddent yn rhy glaf i sugno eu mamau. Os bu y fath Gynghor, efe oedd y cyntaf yn Ewrop i roi cefnogaeth ganonaidd i'r ddefod dan sylw. Y mae Robinson yn dwyn rhesymau cryfion dros gredu na chynnaliwyd y fath Gynghor erioed; ond os darfu iddo eistedd o gwbl, y mae yn eithaf amlwg i bawb ag sydd yn gyfarwydd â'r amgylchiadau, nad oedd ond Cynghor lleol ac afreolaidd i'r graddau eithaf, ac nid un cenedlaethol; oblegid arferai yr holl esgobion ymgynnull i'r rhai cyffredinol; o ganlyniad, os darfu i saith o esgobion neu fynachod anllthyrenog a dinod ymgyfarfod yn Girona, ganddynt hwy y gwnawd y rheol Ewropaidd gyntaf o blaid bedyddio babanod mewn perygl. Myn rhai ddarfod i'r saith ymfurfio yn Gynghor, ac mai cael arian gan famau tyner-galon am fedyddio eu babanod afiach oedd y dyben, a bod hanes y Cynghor a gynnaliwyd yn Braga yn Portugal, yn mhen hanner can mlynedd wedi hyny, yn profi na fuont yn aflwyddiannus yn eu hamcan. Yn y Cynghor hwnw, gwnawd rheol i gondemnio offeiriaid am dynu arian oddiwrth dlodion am fedyddio eu plant. Gan fod rhai yn rhy dlawd i dalu, gwrthodid bedyddio eu hanwyliad, trwy yr hyn, yn marn y Cynghor, y peryglid iachawdwriaeth y rhai bychain. Dealler mai am fedyddio y gofynid tal, ac nid am daenellu dwfr ar y rhai bychain, fel y gwnawd ac y gwneir mewn amser diweddarach.

Er i Cyprian gynghori, ac i Awstin orchymyn, i Gristionogion fedyddio babanod, ni wnaeth yr arferiad fawr o argraff ar y byd, hyd nes y trodd amgylchiadau yn ffafriol iddi mewn cyssylltiad â Charlemagne yn yr wythfed ganrif. Y pryd hwnw gwnawd hi yn ddefnyddiol i ddybenion gorthrymus brenin Ffrainc. Cyn hyny, ymlechai yn benaf mewn parthau tywyllion, a'r rhan luosocaf o'i chefnogwyr oeddynt ddynion dinod ac anwybodus. Bu Charlemagne mewn rhyfel â Saxoniaid Germany am tua deng mlynedd ar hugain; ond yn y diwedd, llwyddodd i'w gorchfygu er eu holl ddewrder. Wedi eu cael i'r cyflwr hwnw, yr oeddynt i gael eu lladd yn ddiarbed gan filwyr y *tyrant* Ffrengig, os na fyddai iddynt broffesu Cristionogaeth trwy gymmeryd eu bedyddio; a gorfodid hwy i dalu dirwyon trymion os na wnelent fedyddio eu plant o fewn blwyddyn wedi eu genedigaeth! Y mae'r deddfau ofnadwy hyny o eiddo Charle

magne i'w gweled yn awr. Dyma'r llwybr dychrynlyd a gymmerodd y gorineswr gwaedlyd i ddarostwng y Saxons, y *Frisians*, a'r *Huns*, i'r ffydd Gristionogol!! Os yw lluosogrwydd cefnogwyr bedydd babanod yn Ewrop o'r wythfed ganrif hyd y Diwygiad yn amser Luther, yn glod i rywun, neu rywrai, i Charlemagne a'r offeiriaid a'i cynnorthwyent y mae'r anrhydedd yn perthyn yn benaf. Ni fu y brenin gorthrymus yn hir cyn darbwyllo ei hun i gredu fod y *clergy* yn gwybod y ffordd i ddarostwng dynion yn well na milwyr, yr hyn a'i tueddodd i sylfaenu eglwysi a mynachlogydd, &c., ac i'w gwaiddoli yn y fath fodd ag i wneyd ei offerynau (y *clergy*) yn hapus, ac i raddau pell yn gyfoethog. Ymddibynent hwy ar y brenin, a'r brenin arnynt hwythau, fel yr oedd pawb mewn ystyr yn gaethion, a'r *despot* a hwythau yn arglwyddi arnynt. Gwneid bedydd babanod yn *engine of State* bwysig gan y brenin, ac yn ffynnonell o elw mawr gan yr offeiriaid gwancus a digydwylbod a lyfent ei draed; ac nid gorchwyl anhawdd fyddai dangos fod yr un dybenion yn cael eu cyrhaedd gan rai mewn cyssylltiad â phroselytio babanod yn y dyddiau presenol. Pan fyddo anffyddwyr yn tasu hanes y Ffrancwr blaenrol, a'r *tools* a ddefnyddiai, i wyneb Cristionogion, dylent gosio nad yw Cristionogaeth yn gyfrifol am ddrygau mileinig Pabyddiaeth. Yr oedd gwr ganlynwyr Iesu ar y pryd, yn gwrthwynebu y twyll, yr anghyfiawnder, a'r llofruddiaethau a arferid.

Wedi i Charlemagne a'r duwiolion (?) a'i cynnorthwyent lwyddo mor dda i ddarostwng y Saxoniaid ac ereill, arferwyd yr un ystryw yn Denmarc, Sweden, a braidd yn holl ranau gogleddol Ewrop, i lethu rhyddid, ac i wneyd pawb yn gaethion i'r Babaeth. Yn y ddeuddegfed ganrif, poblodid y rhan hono o Pomerania sydd yn ffinio Poland gan ddynion ffyrnig a chreulon, y rhai a wnelent ymosodiadau yspeilgar yn fynych ar y Pwyliaid. Wedi cael llawer o ofid, darfu i Bolestaus, un o dduciaid Poland, ladd deunaw mil o honynt mewn brwydr, a gwneyd wyth mil ereill yn garcharorion rhyfel. Un o'i ammodau heddwch i'r Pomeraniaid oedd, fod iddynt dderbyn Cristionogaeth trwy gymmeryd eu bedyddio, a bu *raid* iddynt ymostwng. Gyrwyd esgob o Sweden, o'r enw Otho, a lluaaws mawr o gynnorthwywyr, yno i'w bedyddio. Yn mhob man y byddai Otho a'i gydswyddogion yn gweinyddu, gwneid



tri bedyddfan; un i fedyddio'r gŵrwywod, un arall i fedyddio'r menywod, a'r trydydd i fedyddio'r plant. Bedyddid pawb yn y bedyddfanau hyny trwy eu trochi deirgwaith.

Er i'r cleddyf, fel y dangoswyd, helaethu terfynau bedydd babanod, ac ennill iddo diriogaethau newyddion; nid efe oedd yr unig foddion a ddefnyddiwyd i estyn cortynau ei breswylfeydd. Bu anwybodaeth a chaethiwed y lluaus yn Ewrop yn y canol oesoedd yn fanteisiol i'w gynnydd. Yr oedd y nos foesol mewn ystyr yn debyg i dywyllwch naturiol yr Aifft. Ufyddhau i'r offeiriad mewn materion crefyddol, heb feddwl am farnu drostynt eu hunain, y byddai pawb. Hyd y nod ychydig cyn y Diwygiad, ni lefarai y swyddogion eglwysig braidd o gwbl wrth y llyegion; a phan ddechreuent eu hanerch, llefarent wrthynt fel y gwna arglwyddi wrth eu caethion. Bu dylanwad y mynachod a'r mynachau, trwy fod dysg yr amseroedd (o'r fath ag ydoedd) yn eu dwylaw hwy, yn effeithiol i'w wneyd yn boblogaidd. Meddent hwy foddion neillduol o gyfaddas i ddylanwadu ar blant, ac hefyd ar eu rhieni; a defnyddir moddion cyffelyb gan Babyddiaeth yn bresenol, hyd y nod mewn rhannau o Gymru! Yr oedd dysgyblaeth y gyssegr-lywodraeth, a'r ysgolion neillduol, yn fanteisiol iawn i lwyddiant y cyfeiliornad dan sylw. Ufyddod i'r swyddogion eglwysig oedd yr "*order of the day*." Argyhoeddid a darostyngid yr ieuentyd â gwialen a fflangell, a dygid dynion mewn oed i ufydd-dod trwy offerynliaeth poenydiau. Y mae'r bedydd hwn yn ddyledus iawn am ei boblogrwydd i'r galw mawr oedd am blant y pryd hwnw, i ganu yn mhrif leoedd Pabyddiaeth, ac i flurfio gorymdeithiau cyhoeddus. Dangoswyd fod enwogrwydd ac elw mewn cyssylltiad â bod yn aelod llwyddiannus yn nghorau y plant. Gan nas galleid eu derbyn i'r gwasanaeth cyssegredig (yr hwn wasanaeth a awgrymasid gan arferion paganadd) heb eu bedyddio, yr oedd y ddefod o angenrheidrwydd yn boblogaidd yn llwsg y dosparthiadau iselaf. Gan fod llawer o'r plant hyn yn ymgodi i anrhydedd a gallu, ac mai bedydd babanod oedd yr unig ddrws iddynt i ddrychafadau eglwysig, y mae llwyddiant y ddefod yn fwy o destun galar na rhyfeddod. Yr oedd y *choristers* ieuaine hyn yn lluosog iawn; rhifid pedair mil o honynt yn Ffrainc un tymhor.

Yr oedd y gyfraith eglwysig yn gorfodi

yr offeiriad i beidio priodi; ond nid oedd gan y *clergy* yn y ddegfed ganrif, a chyn hyny, lai o blant naturiol na phobl ereill oblegid hyny, eithr meddai llawer o honynt fwy o lawer na thadau yn gyffredin. Ymffrostiai Henry, esgob Liege, yn gyhoeddus, ei fod ef wedi cael pedwar ar ddeg o blant o wahanol fenywod, mewn dau fis ar hugain o amser. Yr oedd godineb yr offeiriad, a lluosogrwydd eu bastarddiaid, yn gyfryw yr amser hwnw, fel nas gallasai rhai dynion da rwystro llifeiriant ofnadwy y llygredigaeth. Y mae cynnydd bedydd babanod yn yr oesoedd tywyllion, i gael ei briodoli i raddau pell i astudid puteinllyd athrawon crefyddol y cyfnod.\* Darperid bywioliaethau eglwysig i blant anghyfreithlon yr offeiriad tra yr oedd ynt yn eu babandod; ac mewn trefn iddynt gael y rhai hyny, yr oedd yn angenrheidiol eu bedyddio. Y mae genym hanes am y Pab Gregory yn cerddu esgob Liege (i'r hwn y ganesid pedwar ar ddeg o fastarddiaid mewn dau fis ar hugain), am briodi rhai o'i blant anghyfreithlon â phersonau o deuluoedd anrhydeddus, a'u gwaddoli i meddiannau yr eglwys—am roi personiaethau eglwysig i ereill o honynt, ac am roi gwaddol o arian y saint i ddwy fferch ag oedd ganddo o un o fynachau santaidd (?) y cyfnod. Ysgrifennodd Alto at ei offeiriad i'w ddrdio yn ofnadwy ar gyfrif eu gwaith yn tylodi dynion trwy

\* "The history of the Roman Pontiffs that lived in the tenth century, is a history of so many monsters, and not of men, and exhibits a horrible series of the most flagitious, tremendous, and complicated crimes, as all writers, even those of the Romish communion, unanimously confess..... The corruptions of the clergy were deplorable beyond expression."—(Mosheim.)

"It may seem offensive to sober people to inquire how this generation administered baptism; for what have such as they to do with the religion of Jesus? There is, however, a very natural reason for the inquiry. The priests kept mistresses, and had great numbers of illegitimate children. It is natural to ask, how they provided for them? And the true answer is, they pensioned them in the church. Here, then, is a cause, which hath not been mentioned before, for pushing forward the baptism of minors, and for transferring it to babes. That this is more than a conjecture, that it is a true fact, supported by authentic evidence, will appear by a brief investigation of four articles: that unmarried priests had many natural children: that the practice of the times was to baptise minors on their own profession of faith, except in cases of danger: that provision for the children of priests was a matter of great difficulty; and that the rituals were so adjusted as to relieve it."—(Robinson.)



dynu arian oddiwrthynt i gynnal eu puteiniaid a'u plant. Gellid dwyn llawer o enghreifftiau ereill, ond gwasanaetha hyn yn a brofi ddarfod i anlladrwydd a phuteindra helaeth a chydnyddedig offeiriaid anwybodus ac annuwiol y canol oesoedd, achlesu gwreiddyn y ddefod ag sydd wedi bod o gymmaint o feldith yn y byd crefyddol.

Yn ngwynneb y ffeithiau blaenorol, nid rhyfedd fod Tegai a Thaenellwyr gwybodus a gonest ereill yn cyfaddef, "na wŷr hanesiaeth eglwysig ddim am fedydd babanod, am ddau cant o flwyddi o oed Crist o leiaf." Myn rhai daeru, er hyny, fod y ddefod mewn arferiad *cyffredinol* er dyddiau Crist, ac mai y rheswm o fod rhai o'r Cristionogion cyntefig heb fedyddio eu plant yn eu babandod oedd, mai *paganïaidd* oeddynt pan enid eu plant; ond byddai yr un peth iddynt haeru na thwynodd yr haul o'r oed a thaeru hyny. Onid oedd mam Awstin yn Gristionoges grefyddol iawn, a thad Gregory Naziansen (fel y crybwyllwyd) yn esgob pan aned Gregory ieuane? Ond wedi iddynt farnu drostynt eu hunain y bedyddiwyd Awstin a Gregory, fel y bedyddiwyd Ambrose ac amryw ereill. Onid yw y ffeithiau pwysig hyn yn hollol gydgordiol â'r hanes blaenorol o barthed yr amgylchiadau o dan barai y dechreuodd y ddefod? Os oedd mewn arferiad cyffredinol heb neb yn ei gwrthwynebu yn y canrifoedd cyntaf, pahan na chawsai Awstin, Gregory, a llawer ereill eu bedyddio yn eu babandod, tra yr oedd eu perthynasau agosaf yn Gristionogion? Y mae yn hawddach gofyn y fath gwestiwn na'i ateb. Llawer ymdrech aflwyddiannus a wnawd gan ein cyfeillion, i ystywtho y geiriau canlynol o eiddo Justin Ferthyr, i brofi fod bedydd babanod yn ei amser ef:—"Y mae amryw bersonau yn ein plith o'r ddwy ystlen yn 60 a 70 oed, y rhai a ddysgyblwyd i Grist o'u mebyd, ac a barhant yn ddilwgr." Myn y Taenellwyr gael cyfieithu *paidon* â'r gair *babandod*; ond pe caniatâem hyny iddynt er mwyn dadl, y mae'r bummed egwyddor a osodwyd i lawr genym yn yr erthygl hon yn profi nas gall y gair *babandod* wasanaethu eu hamcan.\* Nid oes

un math o gyfeiriad at fedydd yn y frawddeg a ddyfynwyd; y cwbl a ddywed yr hen dad yw, fod rhai o'i gydoeswyr ef wedi arwain bywyd crefyddol o'u mebyd. Gallen ninnau ddweyd yr un peth am lawer yn Nghymru. "Gallai hyn gyfeirio," ebe Dr. Doddridge, "yn unig at eu bod wedi cael eu hyfforddi er yn foreu yn y grefydd Gristionogol." Ysgrifena gweinidog Lutheraidd o enwogrwydd fel y canlyn ar y pwnc:—"Pa bryd bynag y cyfeiria Justin at fedydd, y mae yn amlwg mai rhai mewn oedran yw y rhai y gweinyddid y ddefod gyssegredig iddynt. *Ni wŷr efe ddim am fedydd babanod.* Yr olion o hono y mae rhai personau yn credu eu bod yn ei ysgrifeniadau, ydynt ddychymmygion disail wedi eu cynnyrchu gan ffug" (*Y Parch. C. Semisch*). Dywed y dysgedig C. Step. Mathias:—"Yn y ddwy ganrif gyntaf, nid oes argofion i'w cael fod babanod yn cael eu bedyddio. Nid yw Justin yn sôn am fedyddio babanod; ond sylwa fod rhai yn ddisgyblion i Grist o'u mebyd; ond perthynai bedydd i rai yn credu yn Nghrist." Tra nad oes yn ei ysgrifau un math o gyfeiriad at fedydd *babanod*, y mae yn adyng grybwyllion digon eglur am y bedydd *apostolaidd* yn ei ddull a'i ddeiliaid, fel y dengys y dyfyniad canlynol:—"Cynnifer ag a ennillir ac a greddo fod y pethau yr ydym ni yn eu dysgu ac yn eu cyhoeddi yn wirionedd, ac a ymrwymo i fyw yn ol y pethau hyny, a annogir i droi at Dduw mewn gweddi ac ymbiliau, &c.; *yna yr ydym yn myned â hwy lle y mae dwf*, ac y maent yn cael eu hadeni, &c.—golchir hwy yn y dwf yn enw y Tad, &c. Gelwir y golchiad hwn y *goleuad*, am ei fod yn rhoi goleuni i ddeall y rhai sydd yn dysgu y pethau hyn. Y mae'r hwn a oleuwyd yn cael ei olchi yn enw Iesu Grist, &c. Wedi i'r credadyn fynegu ei gydsyniad, ac wedi iddo gael ei olchi yn y modd a nodwyd, yr ydym yn ei dderbyn at y brodyr pan yn ymgynnulledig, &c. Nid oes neb i gael cyfranogi o swper yr Arglwydd ond y rhai sydd yn credu fod ein hathrawiaeth ni yn wirionedd, ac sydd yn cael eu golchi yn ngolchfa yr adenedigaeth er maddeuant

\* "Mai o'u mebyd yw y cyfieithiad iawn o *ek paidon* sydd eglur oddiwrth yr hyn a ganlyn:—1. Y mae Origen, yn ei sylw ar Math. 21. 1, yn dywedyd: "Y rhai a alwyd i wneyd gwaith teyrnas Dduw o'u mebyd (*ek paidon*), a'u dyddiau boreuaf, yw y rhai a gyflogodd gwr y tŷ yn gynnar yn y boreu." Etto, yr un: "Y rhai fuont

ffyddlawn o'u mebyd (*ek paidon*). 2. Sonia Irenæus am ei fyfyrddodau o'i ieuentyd (*ek paidon*). Dywed Lucian am yr athronydd Demonax, ei fod yn caru athroniaeth o'i febyd (*ek paidon*). 3. "Dywedwch," ebe Joseph, "dy weision fuont drinwyr anifeiliaid o'u hienentyd (*ek paidon*, LXX.) hyd yr awr hon." Gen. 66. 34.—(*Parch. T. Lewis.*)



pechodau." Fel yna yr oeddid yn deall bedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid hyd y flwyddyn 165, pryd y gwisgodd Justin goron merthyrddod. Er hyn oll, y mae rhai o'n harweinwyr crefyddol, naill ai yn ddigon anwybodus neu haerllug i haeru, fod bedydd babanod "mewn arferiad yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion."

Y mae dwy neu dair o ystyriaethau yn dangos, nad yw'r cwbl a ysgrifennir gan Daenellwyr o ethryb Irenæus ond gwegi. 1. Yn yr iaith Roeg yr ysgrifennodd efe, ac y mae'r gwaith gwreiddiol ar goll oddi-eithr rhyw ddarnau, fel nad oes genym namyn cyfieithiad Lladin amherffiaith iawn o weithiau Irenæus. 2. Nid oes un math o gyfeiriad at fedydd babanod yn y darnau Groeg sydd ar gael. 3. Y mae profion yn y cyfieithiad Lladin fod ychwanegiad mawr wedi ei wneyd at waith yr hen dad, gan y cyfieithydd neu rywun. Yn y bennod y tybir fod cyfeiriad at fedydd plant ynddi, er enghraifft, dywedir fod Crist yn hanner cant oed pan fu farw!! Yn ol rhai Taenellwyr y mae y cymmysgwch anwireddus hwn a dadogir ar Irenæus, yn profi fod bedydd babanod yn beth apostolaidd! Y mae iddynt roesaw iddo. Mewn llysgwladol, y mae profi dyn yn gelwyddog neu yn anghysson, yn ddigon i ddamnio ei dystiolaeth; ac nid ydym yn gwybod pahan y dylid ymlwybro yn wahanol mewn llys eglwysig.

Mewn rhan arall o'r ysgrif hon, dangoswyd mai yn groes i fedydd y *minors* yr oedd Tertullian—plant wedi gadael y cyflwr o fabandod naturiol (tud. 157). Er fod y pwnc mor eglur ag sydd bosibl; etto myn rhai ei gael yn gefnogwr i fedydd babanod ar y bronau. Er holl amherffeithrwydd y tad hwnw fel tadau ereill, dengys y dyfyniad canlynol fod rhai yn y bedwaredd ganrif ar bumtheg yn mbell ar ei ol yn eu barn am fedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid:—"Nid oes eisieu i neb ofyn, pa un a drochir ni yn y dyfroedd hyny, yn mha rai y cawsant hwy gynt hyny.....Nid oes gwahaniaeth pa un a olchir un yn y môr, neu mewn llyn, mewn afon, neu mewn ffynnon; ac nid oes gwahaniaeth i gael ei wneyd rhwng y rhai a drochodd Ioan yn yr Iorddonen, a'r rhai a drochodd Pedr yn y Tiber.....Y mae deddf trochi wedi cael ei gosod arnom, ac y mae y ffurf wedi cael ei nodi. Ein Harglwydd a ddywed, Ewch a dysgwch y cenedloedd, gan eu trochi hwy yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.....Y

mae efe wedi cyssylltu ffydd a bedydd yn nghyd; gan hyny, yr oedd y rhai a gredent yn cael eu trochi ar ol hyny." Dywedasid wrth Tertullian, 'Pahan na chawn ni ddwyn ein plant fel y dygwyd plant at Grist?' Bi ateb yntau oedd:—"Gadewch iddynt ddyfod pan dyfont i fyny; gadewch iddynt ddyfod pan ddysgont—pan fyddont yn gwybod pa le y deuant—bydded iddynt ddyfod yn Gristionogion pan allont adnabod Crist.....Bydded iddynt ddeall pa fodd i ddymuno iachawdwriaeth, fel y byddoch yn rhoddi i'r hwn sydd yn gofyn.....Dylai y rhai sydd yn myned i gael eu bedyddio, i weddio ac ymprydio llawer; dylent wyllo a gweddio, a chyfaddef eu pechodau blaenorol, fel y gallont ddangos bedydd Ioan, am yr hwn y dywedir, iddynt gael eu trochi gan gyffesu eu pechodau." (*Nean. Hist. Plant.* vol. ii. pp. 337—9; *Knap's Theol.* p. 435; *Sylwadau, &c., gan y Parch. T. Lewis, Rhumni*). Dywedodd *special pleaders* bedydd babanod a fynont am Tertullian, fel yna y mae'r hen dad ei hun yn ysgrifenu ar y pwne; a barned y darlennydd pa un ai efe ei hun, ynte y rhai a geisiant ddysgu ereill o barthed i'w farn, sydd yn gwybod oreu ac yn hawlio crediniaeth.

Y mae y rhai sydd yn meddu mwy o sêl nag o onestrwydd, neu o wybodaeth, yn curo wrth ddwys yr hen dad Origen am gefnogaeth i'r ddefod. Yn yr iaith Roeg yr ysgrifennodd efe yn y drydedd ganrif, ond ni cheir yn y darnau Groeg sydd i'w cael o'i waith un crybwylliad am fedydd babanod. Yn y cyfieithiad Lladin o'i weithiau, gwneir i'r hen dad ddweyd, "Ei fod wedi derbyn traddodiad oddiwrth yr apostolion am fedydd babanod." Dywed Erasmus, ac addefa Dr. Wall, ddarfod i Ruffinus, y cyfieithydd, dynu llawer oddiwrth waith Origen, ac ychwanegu llawer ato, fel nas gellir gwybod wrth ddarllen y cyfieithiad (?) pa un ai Origen ynte Ruffinus sydd yn llefaru. Nid yw y Taenellwyr sydd yn adysgrifenu pethau Dr. Wall yn y ddadl hon, yn cymmeryd arnynt wybod dim am y sylw uchod yn ei waith. Medda rhai dynion ddawn neillduol i fod yn ddall ac yn fyddar i bob peth na fyddo yn gwasanaethu eu hamcan. Pan yn darllen rhai o ddadlunon ein cyfeillion dros henafiaeth bedydd babanod, y mae yn anhawdd gwybod, pa un ai dirmyg ynte tosturi sydd yn gweddu i'r amgylehiad. Dywedir, er enghraifft, na "achosodd dygiad yr arferiad i mewn i'r eglwys un math ar gynhyrfaid na dyrysweh; ni wnaed sylw o'r peth gan unrhyw bersonau na chyn-



hor; ac ni pharodd ymrafael nac ymddadleu. Onid yw hyn yn brawf amlwg ei fod mewn arferiad yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion" (*Bedydd Babanod, gan Prichard*, tud. 69). Y canlyniad ydyw, fod pob athrawiaeth ac arferiad babyddol, na ddartu achosi "un math ar gynhyrfaid na dyrys-wch," "mewn arferiad yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion!" Os felly, ar ba dir y ceisia'r Taenellwyr ddadleu â Phabyddion? Diau na feiddia ein brodyr droedio tir mor beryglus; ond ymladdant arno dros fedydd babanod ar yr egwyddor a grybwyllwyd— "*Circumstances alter cases.*" Yn ei lythyrau ar "Hanesiaeth Bedydd," ysgrifenu'r Parch. T. Rees fel y canlyn:—"Os peth a ddaeth i arferiad wedi llygriad yr eglwys yw bedydd babanod, fel yr haera Gwrth-fedyddwyr babanod, y mae yn hynod na fyddai genym hanes am ryw gymmanfa neu gynghor eglwysig lle y cafodd ei sefydlu, neu ryw gyfeiriad at ryw wrthwynebiad a gyfodasid yn ei erbyn gan ryw blaid neu bleidiau. Nid oes un iot am y fath beth yn holl ysgrifeniadau y tadau, na'r haneswyr eglwysig am y deuddeg cant cyntaf o'r cyfnod Cristionogol." 1. Y mae'r sylw a wnawd ar y dyfyniad diweddaſ o waith Mr. Prichard, yn hollol gymhwysiadol at y brawddegau uchod o eiddo Mr. Rees. Rhoddwyd eipolwg i'r darlennydd ar lygr-edigaeth offeiriad y canol oesoedd. Cyfeiriwyd at santeiddio dwfr y bedydd, ac arfer halen, poeri, a mêl mewn cyssylltiad â'i weinyddiad. Mewn rhai manau, trochid yr ymgeiswyr yn noethion, a rhoddid cusan i bob un o honynt wedi ei fedyddio. Gwyr Mr. Rees yn ddigon da am fedydd yr annhymunigion, &c. (*baptism of abortives*), a'r cyflawniadau cyssylltiedig, y rhai nas gellir gwneyd rhagor na *chyfeirio* atynt heb bechu yn erbyn gweddeidd-dra.\* Y mae hefyd yn adnabyddus â hanes y tri throchiad, cyssegriad clychau trwy eu golchi a'u croesi, a lluaus mawr o arferion anysgrythyrol a Phabyddol ereill. Os na ellir olrhain sefydliad pob un o'r rhai hyn, ac ugeiniau

\* "A discussion is too shocking; and to the feelings of parents cruel, unsupportably cruel. Human nature must be ascertained: this is not always easy. Water is essential: this in some cases is impossible to be applied; hence discussions on chymical liquors, surgical instruments, and so on. The union of the soul to the material form must be determined, hence indelicate scrutinies, and the necessity of miracles to recall the departed spirit, and to confine it to the body till the saving benefit is applied." (*Robinson's*, p. 342—3).

(ac efallai gannoedd) lawer o rai mor wrth-Feiblaidd a hwythau, gan Gymmanfaoedd neu Gynghorau eglwysig, ac os nad oes genym hanes am blaid neu bleidiau (nid *unigolion*), yn gwrthwynebu y naill na'r holl o honynt; yr ydym, yn ol ymresymiad Mr. Rees, yn rhwym o gredu eu bod oll yn apostolaidd!! Fel hyn y mae ein cyfaill, wrth geisio amddiffyn bedydd babanod, yn saethu at fywyd Protestaniaeth, ac yn achlesu gwraidd Pabyddiaeth. Mor annheilwng o honynt eu hunain yr ymlwybra rhai dynion da ar dir cyfeiliornad! 2. Y mae yr hyn a welir yn yr erthygl hon yn profi, nad oedd yr hen dadau na wnelent wrthwynebu y ddefod mewn rhai amgylechiadau, mor ffol a cheisio seilio yr arferiad ar y Beibl; ar *draddodiad yn unig* y proflesent adeiladu. 3. "Bu dadleuon brwd," ebe Mr. Rees, "ar amrywiol bynciau mewn cynghorau eglwysig o oes i oes, a'r rhai a wyrent oddiwrth farn yr eglwys Gatholig yn cael eu condemnio a'u melltithio yn dost; ond nid oes un awgrymiad fod neb wedi cael eu condemnio am wadu bedydd babanod, nac un linell o waith neb a'i gwadai ar gael, ond yr hyn a ddywed Tertullian," &c. Rhaid fod ein cyfaill parchus wedi amghosio melltithio Cynghor Meia (o.c. 416), yr hwn a lywyddid gan Awstin (tud. 158), pan yn ysgrifenu y brawddegau uchod. Os mai gwyro oddiwrth farn yr eglwys, fel yr awgryma Mr. Rees, oedd yr achlysur, os nad yr achos o bob melltith a gyhoeddidd ar yr hereticiaid, onid yw melltith ofnadwy Cynghor Meia yn profi bodoliaeth Gwrth-fedyddwyr babanod ar y pryd? Cyhyd ag y byddo hanes y Cynghor hwnw ar dudalenau hanesyddiaeth, bydd yn brawf anwrthwynebadwy, yn ol ymresymiad ein cyfaill ei hun, mai haerriad heb un math o sail iddo yw, "na chafodd neb gymmaint a'i gyhuddo o fod yn Wrth-fedyddiwr babanod ddeuddeg cant o flynyddau wedi marwolaeth ein Hiachawdwr." Y mae bedydd babanod yn gyfryw, fel y mae ei arddelwyr yn rhwym o wneyd un o ddau beth; naill ai ffarwelio ag ef; neu ymddwyn yn annheilwng o honynt eu hunain wrth geisio ei amddiffyn. 4. Os mai nid peth newydd oedd bedyddio babanod yn amser y tadau, pa angen oedd caniatáu a phenderfynu bedyddio babanod mewn perygl eglur o farw. Pe buasai eu bedyddio yn beth *cyffredinol*, onid oeddynt i gael eu bedyddio fel *matter of course*? Beth all fod yn amlycach ac yn fwy



rhesymol? Pe penderfynai Bedyddwyr yr oes hon *ganiatau* y fath beth, byddai y penderfyniad yn profi nad eu trefn *arferol* yw bedyddio babanod. Ni fyddai Taenellwyr yr oes mor ynfyd a phenderfynu y fath beth, tra y maent yn *arfer* bedyddio pob math o fabanod, claf neu beidio.

Dangoswyd yn barod (Bedydd, tudal. 27—37) mai *bedyddio* y byddid gynt, ac nid *taenellu* dwfr ar bersonau, fel y gwna Taenellwyr yn bresenol. Tra yr addefir nad oedd taenellu dwfr ar fabanod yn adnabyddus i'r apostolion, haera Doctor Hoffman (fel y sylwasom), fod taenelliad "yn welliant pwysig ar yr arferiad apostolaidd;" a dywed llawer o Daenellwyr hyny mewn *ymddygiad*, er nad ydynt yn ddigon onest i haeru hyny mewn geiriau fel efe. Dangoswyd i daenelliad dwfr ar fabanod gael ei *ganiatau*, yn lle eu trochi mewn gwendid a' afiechyd. Cychwynwyd yr arferiad o daenellu neu dywallt dwfr ar yr oedranol yn hollol yr un modd, a hyny yn gynt nag y dechreuwyd yr arferiad o daenellu yr elfen ar fabanod. Yr ydym wedi dangos mai athrawiaeth a gredid gan amryw o'r hen dadau oedd, fod bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth yr enaid. Yr un athrawiaeth ddarfu felldithio yr eglwys a bedydd yr *abortives*. Os buasai cleifion farw o'r clefydau yr oeddynt yn eu gafael ar y pryd, ystyrid tywallt dwfr arnynt neu o amgylch iddynt, yn ddigon o fedydd iddynt hwy. Dygwyddai werthiau fod y rhai y tywalltesid dwfr arnynt yn gwella; arweiniodd hyny i'r ymholiad, A oedd y fath fedydd o werth. Edrychid arno dipyn yn ddiflas, a gelwid y rhai a gawsent y fath fedydd yn *clinics*, sef rhai claf-orweddog. Tua chanol y drydedd ganrif, cymmerwyd dyn o'r enw *Novatian* yn glaf iawn, ond rhag ofn iddo farw a bod yn golledig, tywalltwyd dwfr o'i amgylch yn ei wely. Dyma'r enghraifft gyntaf o dywalltiad sydd i'w chael. Fodd bynag, gwellhaodd Novatian, ac etholwyd ef yn Bresbiter; ond yr oedd yr holl offeiriad, a llawer iawn o'r lleygion, yn erbyn ei ordeinio yn Bresbiter, oblegid na *chawsai ei fedyddia trwy drochiad yn ol arferiad yr eglwys*. Nid oeddid yn ystyried tywalltiad ar y claf o wir werth, ond yn unig pan fyddai yr hwn y tywelltid arno farw yn ei afiechyd; oblegid os adferid ef, nid oedd i gael swydd yn yr eglwys, am na fedyddiasid ef trwy drochiad. Wedi dewisiad Novatian yn Bresbiter, darfu i Gynghor Neo-Cesarea (o.c. 315) benderfynu nad oedd y

rhai claf-orweddog i gael eu dyrchafu i urdd yr hepaduriaeth. Gelwid y rhai hyn *clinics*, mewn ffordd o iselhad, ac nid wrth yr enw anrhydeddus o Gristionogion." (*Gwel Ddarlith ragorol y Parch. H. Jones.*)

Gan mai un o ffrwythau y tywyllwech yw yr hyn a elwir taenelliad babanod, y mae'r Pabyddion dysgedicaf a mwyaf gwybodus yn methu cytuno o ethryb i amser ac amgylchiadau ei ddechreuad. Ond nid yw eu hysgrifenwyr mawrwl a galluog yn haeru nad trwy drochiad y bedyddiaid yr apostolion: gorchwyl hawdd fyddai dwyn lluaws o enghreifftiau pe byddai ein trefynau yn caniatáu. Y mae hanes y defodau o dywallt a thaenellu yn eglur o'r wythfed ganrif yn mlaen. 1. Yn amser Pepin, tad Charlemagne, credid fod bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth, ac nad oedd yn bosibl gweinyddu bedydd ond trwy drochiad. 2. Bedyddid y *catechumens* a'r babanod ddwy waith y flwyddyn, y Pasg a'r Sulgwyn; ond bedyddid babanod ac ereill a fyddent mewn perygl o farw cyn yr amser nodedig yn ddigrl ac yn ddystaw. 3. Yn gymmaint a bod rhai babanod yn marw yn yr esgoreddfa, ac ereill yn fuan wedi eu geni, yr oedd presenoldeb offeiriad braidd o gymmaint pwys ag eiddo bydwraig yn amser genedigaeth, rhag y byddai i'r bychan farw cyn cael ei fedyddio, a thrwy hyny fydd i uffern. Y mae llyfrau mawrion yn cael eu cymmeradwyo gan luaws, wedi eu hysgrifenu, i'r dyben o ddysgu'r offeiriad i fedyddio babanod nas gallesid eu geni.\* Drwg genym fod onest-rwydd hanesyddol yn ein gorfodi, hyd y nod i *gyffeirio* at y fath beth. 4. Nid oedd cael eu galw yn fynych i fod yn bresenol yn amser genedigaethau—cael eu gorchymyn o'u gwelyau ac o bob man, a'u cospi am beidio ufyddhau, ond iau drom ar ys-

\* "Father Jerome Florentini published a fourth edition of a middle sized quarto, which had been published by him some years before in a smaller compass, to explain, confirm, and direct the baptism of infants unborn. A book is seldom seen graced with so many imprimaturs and recommendations.....Even in the present times, one humane doctor of divinity and laws of Palermo, in the year 1751, published at Milan, in the Italian tongue, a book of three hundred and twenty pages in quarto, dedicated to all the guardian angels, to direct priests and physicians how to secure the salvation of infants by baptizing them, when they could not be born. The surgical instruments and the processes cannot be mentioned here, and the reader is come to a point in the history of infant sprinkling, where English modesty compels him to retreat and retire." (*History of Baptism*, by Robinson, p. 432—3.)



gwyddau yr offeiriad; o ba herwydd, rhoddwyd trwydded i fydwragedd (*midwives*) i fedyddio yn lle yr offeiriad; a bu y rhai hyny yn gweinyddu y seremoni gadwedigol am ryw dymhor. 5. Fodd bynnag, cafwyd profion y byddai'r bydwragedd weithiau yn gorfod esgeuluso y mamau wrth ofalu am eneidiau y rhai bychain; ac y mae yn amlwg nad oedd pawb o honynt mor fedrus yn y gorchwyl achubol a rhai o'r offeiriad. Mewn trefn i ddiogelu y mamau, a chadw eneidiau y babanod eiddilaidd yn y fargen, penderfynwyd fod bedydd gan unrhyw berson—trwyddedig neu beidio, yn ddigon effeithiol i sierhau bywyd tragywyddol y bedyddiedigion. 6. Wedi sefydlu y drefn hon, cafwyd ar ddeall fod rhai babanod yn marw y fynyd y genid hwy, ac yn syrthio i drueni tragywyddol, o herwydd nad oedd eu mamau wedi gwneyd y darpariadau angenrheidiol ar gyfer eu trochi. Tra y byddid yn edrych am lestr cyfleus i drochi ynddo, neu am ddwfr, ac weithiau am bob un o'r ddau, syrthiai enaid y gwan difedydd i afael cythreuliaid!! Fel hyn, teimlid yr anhawsdra o amddiffyn cadwedigaeth trwy fedydd, a bedydd trwy drochiad. 7. Gan y bernid mai peth anhawdd oedd amddiffyn y *ddwy* athrawiaeth, a bod awydd cyffredin am achub y babanod, darfu i rai mynachod, yn y flwyddyn 754, ofyn i'r Pab Stephan III., a allesid ystyried *tywalltiad* dwfr ar ben baban mewn achos o angenrheidrwydd (*case of necessity*), sef gwendid neu berygl eglur o farwolaeth uniongyrchol, yn fedydd *cyfreithlon*? Credai y Pab hwnw, fel Pabau ereill, fod ganddo awdurdod i roi barn ar y mater, ac yn unol â'r gred hono hysbysodd hwy yr ystyried tywalltiad felly yn enw y Drindod mewn achos o angenrheidrwydd yn fedydd safadwy. Dywedod Taenellwyr a fynont, yn y flwyddyn 754 y rhoddwyd *caniatad* gyntaf yn Ewrop i newid yr *hen* ddull mewn *cases of necessity*, ac o dan yr amgylchiadau blaenorol y dygwyd ef i mewn. Gan Stephan III. y caniatawyd tywalltiad, ac nid gan Iesu Grist.

Dealler nad yw atebiad Stephan yn gwarhadd trochiad; ond yn unig yn goddef tywalltiad mewn perygl bygythiol. Rhaid cofio hefyd i gyfreithiau gael eu ffurfio *wedi* hyny yn Ffrainc, yn Germany, a Lloegr, i rwymo dynion i drochi, heb un ddarpariaeth yn y naill na'r llall o honynt ar gyfer achosion o angenrheidrwydd. Ni ddarfu i Stephan newid y dull o drochi yn y bedyddiadau cyhoeddus. Mewn Cynghor

yn Ravenna, yn y flwyddyn 1311, y gwnawd trochi a thaenellu yn gydradd mewn awdurdod; neu, y caniatawyd i daenelliad yrun cyfreithlondeb a throchiad.

Y mae yn ymddangos mai gan ddysgyblion Calvin y gwnawd taenelliad dwfr ar fabanod yn beth cyffredin yn yr ynys hon. Yn y flwyddyn 1556, cyhoeddwyd llyfr yn Geneva, yr hwn a gynnwysai y ffurfiau a'r gweddiau a arferai Calvin a'i ddysgyblion. Yn y rhan hono o hono sydd yn dâl cyssylltiad â gweinyddiad bedydd, y mae'r geiriau canlynol i'w gweld:—"N. yr wyf yn dy fedyddio di yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. A thra yn llefaru y geiriau hyn, efe a gymmer ddwfr yn ei law, ac a'i gesyd ar dalcen y plentyn. Wedi gwneyd hyny, efe a ddiolcha fel y canlyn." Yn mhen tair blynedd wedi ymddangosiad y llyfr uchod, daeth John Knox i Ysgotland; ac yn fuan wedi hyny cafodd llyfr Geneva ei gymmeradwyo a'i dderbyn gan eglwys yr Alban. Bu llyfr Calvin yn achos o ryfel cartrefol brwd yn Ysgotland; ond yn y flwyddyn 1565, sefydlwyd ef trwy gyfraith, mewn canlyniad i gyfryngiad milwrol Elizabeth. Y Calviniaid Albanaidd a ddygasant daenelliad babanod i arferiad cyffredin yn Lloegr. Yn amser Edward VI., bedyddiai yr Eglwys Sefydledig trwy dri throchiad (*trine immersion*), ond caniateid taenelliad neu dywalltiad mewn achosion neillduol o berygl. Yr oedd yma y pryd hwnw, ac am amser maith wedi hyny, lawer o Brotestaniaid tamor, yn cael eu hamddiffyn, y rhai a arferent fedydd trwy drochiad. Yn mhen un flynedd ar bumtheg wedi sefydlid y *Dutch Church* yn Austin-Friars, Llundain, darfu i'r gynulleidfa gyhoeddi *Catechism*, naill ai wedi ei gymmeradwyo neu ei gyfansoddi gan *John a Lasgo*, gweinidog yr eglwys, yn yr hwn y mae'r gofyniad a'r atebiad canlynol:—"G. Beth yw bedydd? A. Sefydliad santaidd o eiddo Crist, yn mha un y mae'r eglwys yn cael ei throchi mewn dwfr, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Yr oedd yma yr amser hwnw hefyd blaid a adwaenid ar y cyntaf wrth yr enw Pelagiaid; ac a elwid wedi hyny yn Wyr yr Ewyllys Rydd, ac yn olaf, yn *Anabaptists*. Nid oedd y rhai hyny yn groes i'r *modd* o fedyddio, sef trochi; ond yr oeddynt yn wrthwynebwyr egniol i fedydd babanod. Dangoswyd yn barod mai trochi yr oedd Eglwys Loegr cyn y Diwygiad—yn nechreu a diwedd yr ail ganrif ar bumtheg, ac mai yn eithriadol mewn achosion o wendid neu afiechyd peryglus y caniateid tywallt-



iad (tud. 32); ond o'r diwedd, gwnawd yr eithriad anfynych yn rheol gyffredin trwy fath o oddefiad. Cyhyd ag y bu'r Babaeth yn grefydd sefydledig yn Lloegr, sef o ddiwedd y chweched ganrif hyd ddiwedd yr unfed ar bumtheg, gweinyddid bedydd trwy drochiad, ac nid oedd tywalltiad ond eithriadol o dan yr amgylchiadau a nodwyd; a phan dōrodd Harri VIII. y cyssylltiad â Rhufain, ac y ffurfiodd grefydd sefydledig bresenol y deyrnas hon, ni newidiwyd y dull o fedyddio. Dywedai y Pab Pius V., nad ymneillduasai y Diwygwyr oddiwrth yr eglwys Gatholig o herwydd bedydd; ac o herwydd hyn darfu i Gyng-hor Trent gyhoeddi bedyddiad yr hereticiaid (?) hyn yn gyfreithlon, er ei fod i raddau yn aumherffaith ar gyfrif absenoldeb rhai seremoniaau. Gan y caniatëid tywalltiad yn eithriadol, fel y dangoswyd gan eglwys Rhufain ac eglwys Loegr, darfu i gymmanfa o dduwinyddion Seisnig o dan arweiniad Dr. Lightfoot, yn 1643, benderfynu, fod tywallt neu daenellu dwfr yn ngweinyddiad bedydd, nid yn unig yn gyfreithlon, ond hefyd yn ddigon. ("It is not only lawful, but also sufficient.") Yr oedd llawer o'r duwinyddion hyn yn erbyn y Doctor a'i bleidwyr; ac mewn trefn i beidio eu digio hwy, gosodwyd y geiriau canlynol yn y *Directory*, Fod y gweinidog "i arfer ei ryddid ei hun a'i dduwiol ddoethineb."

Darfu i'r Pabyddion, fel y sylwasom, ganiatau eithriad i'r hen drefn o drochi, gan gadw at y cynllun apostolaidd fel rheol. Ymneillduodd Harri VIII. oddiwrthynt, a chadwodd yr hen ddull o fedyddio, a'r eithriad, mewn achosion neillduol. Yn amser Lightfoot, gwnawd yr eithriad, sef tywallt neu daenellu, yn gydradd mewn pwysigrwydd â'r rheol gyntefig, heb droi y "*trochi diesgeulus*" allan o'r "*Common Prayer*," ond gadael i weinyddwyr ddefnyddio "eu rhyddid personol a'u duwiol ddoethineb" yn y mater. Ymneillduodd gwahanol enwadau y deyrnas oddiwrth yr Episcopaliaid (y Bedyddwyr yw yr unig eithriad), a dygasant ddull eithriadol (sef taenellu) eu hen frodyr o weinydd bedydd i'w gwahanol gyfundebau, gan adael yr hen (trochi) ar ol. Dangoswyd fod lluoedd o'r dynion dysgedicaf a mwyaf gwybodus a feddant yn caniatáu mai felly y bu—mai trochiad oedd y dull apostolaidd o weinyddu—nad oes sôn am fedydd na thaenelliad babanod am lawer o amser wedi'r oes apostolaidd—a bod rhai o honynt yn ystyried y drefn newydd yn welliant pwysig ar yr hen gynllun. Ceisia

dosparth llai gwybodus o Daenellwyr ddarbwylllo dynion arwynebol i gredu mai "defod ddynol, o ddyddiad diweddar, yw trochiad," a bod taenellu dwfr ar fabanod yn fedydd apostolaidd! Yr ydym bellach yn gadael y pwnc i ystyriaeth ddifrifol a phwylllog y darlennydd gonest a diragfarn, heb deimlo y gradd lleiaf o ammheuaeth na phetrusder o berthynas i'r canlyniad. (*Robinson on the History of Baptism; Llythyrau y Parch. R. Roberts, ar Hanes Bedydd, yn y Greal; Seren Gomer, &c.*)

**BEDYDD DIRPRWYOL.** Pan fyddai un o'r personau o dan addysg (*catechumens*) farw cyn ei fedyddio, arferai rhai o'r hen Gristionogion coelgrefyddol (yn neillduol y Marcionitiaid) fedyddio un arall yn ei le. Ceisient seilio yr arferiad ar 1 Corinth. 15. 29. Wedi cuddio dyn byw o dan wely y marw, gofynid i'r ymadawedig a fynai efe ei fedyddio. Gan nad atebai hwnw, dywedai y dyn cuddiedig y gwnelai efe ymostwng i'r ordinhad dros-to; ac felly ystyrid ei ymostyngiad yn yr amgylchiad yn fedydd dros y marw.

**BEDYDD AR WELY CYSTUDD.** (*Clinic Baptism*). Byddid yn bedyddio ambell un gynt ar wely o herwydd afiechyd. Gan mai trwy drochiad y bedyddid yn gyffredin yr amser hwnw, tywelltid dwfr ar y claf ac o amgylch iddo, fel yr oedd i raddau yn *debyg* ar y pryd i ddyn *trochedig*. Er fod graddau o debygrwydd rhwng dyn wedi ei suddo mewn afon ac un arall wedi ei amgylchu gan ddwfr ar ei wely; etto edrychid ar y dull o fedyddio mor bwysig y pryd hwnw, fel nad ystyrid y gwely-fedyddiedigion yn gyflawn Gristionogion; a phan adferid hwy i iechyd, golygid nad oeddynt yn addas i dderbyn urddau eglwysig (*gwel Hanes Bedydd*).

**BEDYDD-FANAU.** Yn yr Iorddonen, "dyfroedd lawer," "Ainon," a lleoedd ereill yn y rhai yr oedd cyflawnder o ddwfr, y bedyddid yn yr oes apostolaidd. O'r amser hwnw hyd ddyddiau Tertullian, bedyddid mewn afonydd, llynoedd, ac yn y môr. Tua chanol y drydedd ganrif, dechreuwyd gwnëyd lleoedd cyfleus yn *agos* i'r gwahanol addoldai; ond bernir na ddarparwyd rhai yn yr eglwysi cyn y chweched ganrif. Yr oedd bedydd-fanau y bedwaredd ganrif, y rhai a adeileddid tu allan i'r eglwysi, yn debyg mewn maintiol i eglwysi cadeiriol mawrion, wedi eu rhanu yn gyfleus i ystafelloedd, yn y rhai y byddai y bedyddiedigion yn newid eu dillad, &c. *Matha*



o neuadd äang oedd canol yr adeilad, a baddon cyfleus ynddi, yn yr hwn y trochid yr ymgeiswyr. Perthynai dau faddon i rai bedydd-fanau; trochid y gwrrywod yn un, a'r menywod yn yr un arall. Efallai mai yr ardderchocaf o'r holl fedydd-fanau henafol, oedd y bedyddfan cyssylltiedig âg eglwys St. Sophia yn Nghaercystenyn. Wedi i'r Eglwys Gatholig fabwysiadu ty-walltiad a thaenelliad yn lle yr hen ddull apostolaidd, aeth yr adeiladau hyn i raddau yn ddiddfnydd o fewn ei therfynau hi. Y mae dyfrgistiau yn awr mewn amryw Lanau yn y deyrnas hon, yn y rhai y gwna offeiriad yn achlysurol drochi dynion "yn ddiesgeulus," yn ol cyfarwyddyd y *Common Prayer*. Y mae gan lawer o'r Bedyddwyr fedydd-fanau cyfleus yn eu hadd-

oldai, neu mewn lleoedd cyfagos, yn y rhai y bedyddiant y crediniol yn ol yr hen gynllun. Nid yw y *lle* yn yr hwn y bedyddir o gym-maint pwys, os bydd ynddo ddigon o ddwfr glân i gladdu credinwyr ynddo. Deallr mai nid y Bedyddwyr yw yr *unig* ddosparth sydd yn bedyddio mewn bedydd-fanau ac afonydd, &c., yn y dyddiau hyn; y mae amryw o weinidogion y Taenellwyr yn trochi ugeiniau lawer ynddynt mewn gwa-hanol fanau, yn neillduol yn America.\*

\* Gan fod llawer o ddyddordeb hanesyddol mewn cyssylltiad â'r hen fedydd-fanau, byddai ysgrif faith arnynt yn ddymunol; ond yn gym-maint a bod yr erthyglau blaenorol ar fedydd yn ei wahanol agweddau yn faith, rhaid ymfoddloni ar y cyfeiriad byr uchod atynt. Ceir eu hanes yn helaeth yn "*Robinson's History of Baptism*."

























